



Comisiwn  
y Gyfraith  
Diwygio'r gyfraith

Cyfraith Cynllunio  
yng Nghymru

Planning Law in Wales





**Law Commission**  
Reforming the law  
**Comisiwn y Gyfraith**  
Diwygio'r gyfraith

(Rhif Com y Gyf 233)

# **Cyfraith Cynllunio yng Nghymru**

# **Planning Law in Wales**

**Papur Ymgynghori**

**Tachwedd 2017**



# CYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMURU: PAPUR YMGYNGHORI

## Tudalen

### **RHAN UN. YR EGWYDDORION CYFFREDINOL**

1.	Cyfraith Gynllunio yng Nghymru	3
2.	Gweithio tuag at god cynllunio	25
3.	Cwmpas yr ymarfer codeiddio	35
4.	Diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth	61

### **RHAN DAU. PYNCIAU PENODOL**

5.	Darpariaethau rhagarweiniol	79
6.	Creu'r cynllun datblygu	113
7.	Angen am gais cynllunio	123
8.	Ceisiadau i'r awdurdod cynllunio	145
9.	Ceisiadau i Weinidogion Cymru	191
10.	Darparu seilwaith a gwelliannau eraill	201
11.	Apeliadau a darpariaethau ategol eraill	219
12.	Datblygiad anawdurdodedig	235
13.	Gwaith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth	273
14.	Hysbysebu awyr agored	313
15.	Gwaith i goed wedi'u gwarchod	339
16.	Gwella, adfywio ac adnewyddu	369
17.	Darpariaethau amrywiol ac ategol	391

### **ATODIADAU**

A.	Ymatebion i'r Papur Cwmpasu	3
B.	Deunydd cefnogol	5

# CYNNWYS

Paragraff Tudalen

## **CRYNODEB**

*(mewn dogfen wahanol)*

## **BYRFODDAU A DDEFNYDDIR YN Y PAPUR YMGYNGHORI HWN**

### **RHAN UN. EGWYDDORION CYFFREDINOL**

#### **1. Cyfraith Gynllunio yng Nghymru**

Y Cefndir	1.1	3
Y Sefyllfa Bresennol	1.7	4
Datblygiad y system gynllunio yng Nghymru	1.12	5
Problemau sydd yn codi fel canlyniad	1.45	12
- Tabl 1-1: Deddfwriaeth sylfaenol yn llywodraethu rheolaeth o ddefnydd a datblygiad tir yng Nghymru		13
- Tabl 1-2: Adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (awdurdodau cynllunio lleol) fel y mae'n berthnasol yn Lloegr ac fel y mae'n berthnasol yng Nghymru		18
Cynnal y cod yn y dyfodol	1.76	21
Deddf gynllunio mewn rhannau eraill o ynysoedd prydain	1.78	21

#### **2. Gweithio tuag at god cynllunio**

Cyflwyniad	2.1	25
Problemau a achosir gan y system bresennol	2.10	26
Manteision cyfuno a symleiddio	2.19	28
Yr achos o blaid cod cynllunio newydd	2.30	30

### **3. Cwmpas yr ymarfer codeiddio**

Cyflwyniad	3.1	35
Y Dull Cyffredinol	3.9	36
Cynllunio datblygiad a rheoli datblygiad	3.18	38
Darpariaethau cynllunio craidd	3.25	39
Darpariaethau sy'n ategol i'r system reoli datblygiad	3.39	41
Trefnau caniatâd eraill	3.47	43
Gwelliant, adfywiad ac adnewyddiad	3.63	45
Y bil cynllunio: casgliad	3.83	48
- Tabl 3-1: Bil Cynnwys dangosol Bil Cynllunio (Cymru) posibl		50
Yr amgylchedd Hanesyddol	3.87	51
- Tabl 3-2: Cynnwys dangosol Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) posibl		53
Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	3.101	54
Sylweddau Peryglus	3.106	55
Pynciau eraill yr ydym wedi eu hystyried ond wedi eu heithrio	3.110	55
Diwygiadau a diddymiadau ôl-ddilynol	3.132	60

### **4. Diwygiadau technegol i'r deddfwriaeth**

Cyflwyniad	4.1	61
Diwygiadau technegol yn gyffredinol	4.4	61
Y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd	4.29	65
Codeiddio cyfraith achosion	4.51	68

## ***RHAN DAU. PYNCIAU PENODOL***

### **5. Darpariaethau rhagarweiniol**

Cyflwyniad	5.1	71
Egwyddorion sy'n sylfaenol i'r Cod Cynllunio	5.4	79
Y ddyletswydd i ystyried y cynllun datblygu	5.16	82
Y ddyletswydd gyffredinol i ystyried ystyriaethau perthnasol eraill	5.28	85
Ystyriaethau pwysig penodol (1): adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth	5.41	88
Ystyriaethau pwysig penodol (2): defnydd o'r iaith Gymraeg	5.57	91
Ystyriaethau pwysig penodol (3): Polisi Llywodraeth Cymru	5.67	94
Egwyddor datblygiad cynaliadwy	5.77	96
Dyletswyddau o dan gynlluniau statudol eraill	5.92	100
Cloddio am lo	5.114	103
Pwrpas statudol ar gyfer cynllunio	5.119	104
Gweinyddu'r system gynllunio	5.122	105

### **6. Creu'r cynllun datblygu**

Cyflwyniad	6.1	113
Rhannau y cynllun datblygu	6.12	115
Cynlluniau datblygu: darpariaethau eraill	6.27	117
Malltod cynllunio	6.43	121

### **7. Angen am gais cynllunio**

Cyflwyniad	7.1	123
Yr angen am ganiatâd cynllunio	7.4	124



	Datblygu gweithredol	7.14	125
	Newid defnydd	7.35	130
	Ffyrdd o gael caniatâd cynllunio	7.55	134
	Caniatâd a roddir gan orchymyn datblygu	7.59	135
	Ffuriau eraill o ganiatâd cynllunio	7.74	138
	Ceisiadau am dystysgrif cyfreithlondeb	7.83	140
<b>8.</b>	<b>Ceisiadau i'r awdurdod cynllunio</b>		
	Cyflwyniad	8.1	145
	Ceisio caniatâd cynllunio	8.9	147
	Gweithdrefn ymgeisio	8.29	151
	Pennu ceisiadau cynllunio	8.57	157
	Amodau a chyfyngiadau	8.86	163
	Cymeradwyo manylion	8.137	176
	Amrywio caniatâd cynllunio	8.151	179
	Caniatâd cynllunio tybiedig	8.168	183
	Galw ceisiadau i mewn gan weinidogion cymru	8.182	185
	Ceisiadau cynllunio: pwyntiau amrywiol	8.188	187
<b>9.</b>	<b>Ceisiadau i Weinidogion Cymru</b>		
	Cyflwyniad	9.1	191
	Ceisiadau yn yr ardaloedd awdurdodau cynllunio sydd yn tanberfformio	9.6	191
	Datblygiadau o arwyddocad cenedlaethol	9.12	193
	Moddau eraill o drafod cynigion ar gyfer datblygiadau mawr	9.33	198
<b>10.</b>	<b>Cyllido seilwaith a gwelliannau eraill</b>		
	Cyflwyniad	10.1	201

Ardoll seilwaith gymunedol (CIL)	10.15	203
Ymrwymïadau cynllunio	10.35	207
Y berthynas rhwng CIL a goblygiadau cynllunio	10.71	216
<b>11. Apeliadau a darpariaethau ategol eraill</b>		
Cyflwyniad	11.1	219
Apeliadau mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio	11.7	220
Mathau eraill o apeliadau	11.37	226
Addasu a dirymu caniatâd	11.41	228
Rhybuddion dirwyn i ben	11.46	228
Hysbysiadau prynu	11.50	229
Priffyrdd a effeithir gan waith datblygu	11.59	234
<b>12. Datblygiad anawdurdodedig</b>		
Cyflwyniad	12.1	235
Gweithdrefn rhagarweiniol	12.11	237
Dewisiadau amgen i gamau gorfodi	12.33	243
Hysbysiadau stop dros dro	12.38	244
Hysbysiadau torri amodau	12.57	248
Hysbysiadau gorfodi	12.66	250
Hysbysiadau stop	12.113	260
Goblygiadau camau gorfodi	12.125	263
Gwaharddebau	12.137	266
Cosbau troseddol	12.140	266
Toriadau hanesyddol o reolaeth gynllunio	12.159	270

<b>13.</b>	<b>Gwaith sydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth</b>		
	Cyflwyniad	13.1	273
	Gwaith sydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth: y gyfraith bresennol	13.11	275
	Symleiddiad posib i'r gyfraith	13.58	284
	Opsiynau ar gyfer diwygiad posib	13.85	289
	Sail polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau	13.109	293
	Uno cydsyniadau: cloi	13.127	296
	Yr angen am ganiatâd	13.134	298
	Ceisiadau am ganiatâd	13.146	301
	Apeliadau a darpariaethau ategol eraill	13.162	303
	Gwaith heb ganiatad sydd yn effeithio adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth	13.168	305
	Gwaith i henebau rhestredig	13.181	308
	Yr amgylchedd hanesyddol: pwyntiau eraill	13.186	310
<b>14.</b>	<b>Hysbysebu yn yr awyr agored</b>		
	Cyflwyniad	14.1	313
	Cysyniadau sylfaenol	14.11	314
	Cydsyniad ar gyfer hysbysebu	14.30	319
	Torri rheolaeth hysbysebion	14.72	329
	Darpariaethau amrywiol ac ategol	14.96	336
<b>15.</b>	<b>Gwaith ar goed gwarchoddedig</b>		
	Cyflwyniad	15.1	339
	Gorchmynion diogelu coed	15.22	342
	Gwaith i goed gwarchoddedig	15.53	350

	Gofyniad i blannu coed newydd	15.92	358
	Gwaith anawdurdodedig i goed	15.100	360
	Coed mewn ardaloedd cadwraeth	15.120	365
<b>16.</b>	<b>Gwella, adfywiad ac adnewyddiad</b>		
	Cyflwyniad	16.1	369
	Gwella tir ac adeiladau hyll	16.7	370
	Graffiti a gosod posteri yn anghyfreithlon	16.44	379
	Mentrau wedi eu seilio mewn ardaloedd yn gyffredinol	16.56	382
	Ardaloedd Menter	16.61	383
	Mentrau eraill wedi eu seilio mewn ardal	16.75	386
<b>17.</b>	<b>Heriau Uchel Lys</b>		
	Cyflwyniad	17.1	391
	Herio dilysrwydd penderfyniadau	17.3	391
	Cywiro gwallau bychain	17.31	398
	Ymgymeryr statudol		
<b>18.</b>	<b>Darpariaethau amrywiol ac atodol</b>		
	Cyflwyniad	18.1	399
	Ymgymeryr statudol	18.7	399
	Gweithredu'r cod mewn sefyllfaoedd arbennig arall	18.39	408
	Mwynau	18.50	409
	Darpariaethau ariannol	18.74	415
	Ymholiadau, gwrandawiadau ac achosion eraill	18.83	417
	Gweithredu darpariaethau yn neddf iechyd cyhoeddus 1936	18.93	419
		18.98	420
	Dehongliad		
		18.106	422
	Diffiniad o "dŷ annedd" ac "annedd"		

Diffiniad o “gwrtil”	18.127	426
Diffiniad o “amaethyddiaeth” a thermau personol	18.145	430
Darpariaethau amrywiol	18.158	433

## **ATODIADAU**

<b>Ymatebion i'r papur cwmpasu</b>		<b>435</b>
<b>Deunydd Cefnogol</b>		<b>439</b>



# GEIRFA

<b>Ardoll Seilwaith Cymunedol (“CIL”)</b>	Ardoll a rhoddir ar nifer o ddatblygiadau newydd, a ddefnyddir er mwyn codi arian ar gyfer seilwaith lleol (yn cynnwys parciau, cyfleusterau chwaraeon a gorsafoedd heddlu), a osodir mewn ardaloedd lle mae'r awdurdod cynllunio wedi penderfynu gwneud.
<b>Arolygydd Cynllunio (“PINS”)</b>	Asiantaeth gweithredol Gweinidogion Cymru, sydd yn gyfrifol am benderfynu ceisiadau a gaiff ei alw i mewn, fel cawsant eu galw, ac am gynnal ymholiadau i gynllunio datblygiad ddrafft.
<b>Aseiad Effaith Amgylcheddol (“EIA”)</b>	Aseiad ar yr effaith prosiectau cyhoeddus a phreifat arwyddocaol ar yr amgylchedd, a oedd yn wreiddiol angenrheidiol o dan y cyfarwyddiad UE perthnasol.
<b>Awdurdodau Cynllunio</b>	Awdurdod lleol neu parc awdurdod cenedlaethol, sydd yn gyfrifol am greu'r cynllun lleol ac am benderfynu geisiadau am ganiatâd cynllunio (nodir yn y gyfraith fel “awdurdod cynllunio lleol” neu fel “awdurdodau cynllunio mwynau”).
<b>Caniatâd adeiladau rhestredig</b>	Caniatâd sydd yn angenrheidiol ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig, neu i'w newid mewn unrhyw ffordd sydd yn debygol o newid ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb arbennig, yn ychwanegol i ganiatâd cynllunio mewn rhai achosion (mae methiant i gael caniatâd yn drosedd).
<b>Caniatâd ardal cadwraeth</b>	Caniatâd ar gyfer diddymiad adeilad anrhestredig o fewn ardal cadwraeth, yn ychwanegol i ganiatâd cynllunio (mae methiant i gael caniatâd yn drosedd).
<b>Caniatâd cynllunio</b>	Caniatâd a rhoddir gan yr awdurdodau cynllunio, neu gan Weinidogion Cymru, er mwyn cario allan datblygiad.
<b>Caniatâd henebion wedi ei amserlennu</b>	Caniatâd sydd yn angenrheidiol er mwyn dymchwel neu er mwyn gwneud bron unrhyw waith sydd yn effeithio heneb hynafol sydd wedi ei amserlen, a gaed wrth y Gweinidogion Cymraeg.
<b>Corfforaeth datblygiad trefol</b>	Sefydliad a grëwyd gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau ailddatblygiad ardal trefol.
<b>Crogront</b>	Rent sydd yn cynrychioli gwerth marchnad agored blyneddol yr eiddo, neu ei rent gwerth marchnad.
<b>Cynllun ardal menter</b>	Cynllun a wnaed gan Weinidogion Cymru, o dan y Ddeddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980, sydd yn grantio caniatâd cynllunio effeithiol ar gyfer y datblygiad a nodir o fewn y cynllun.
<b>Cynllun datblygiad</b>	Cyfes o ddogfennau a grëir gan y Gweinidogion Cymraeg neu awdurdodau cynllunio, sydd yn cyhoeddi eu cynigion ar gyfer

	datblygiadau'r dyfodol ac sydd yn dynodi'r cyd-destun polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio – yn cynnwys cynllunio lleol a strategol a'r fframwaith datblygiad cenedlaethol.
<b>Datblygiad</b>	Cario allan gwaith adeiladu, gwaith peirianeg, cloddio a gweithrediadau arall, neu gwneud newidiadau materol i ddefnydd neu adeilad ar y tir.
<b>Datblygiad Caniataol</b>	Datblygiad, sydd yn gyffredinol llai mewn maint, lle mae caniatâd cynllunio yn cael ei ddyroi gan orchymyn datblygiad cyffredinol (neu, mewn sefyllfaoedd eithriadol, trwy orchymyn datblygiad lleol).
<b>Datblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol</b>	Prosiectau mawr seilwaith, o bwysigrwydd cenedlaethol (er enghraifft fferm wynt, gorsaf pŵer, neu cronfa ddŵr), sydd yn galw am gymeradwyaeth gan y Gweinidogion Cymraeg, yn hytrach nac am gymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio.
<b>Deddf Adeiladau Rhestredig</b>	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)
<b>Deddf Henebion Hanesyddol</b>	Deddf Henebion Hanesyddol ac Ardaloedd Archeolegol
<b>Gorchymyn cadwraeth goed ("TPO")</b>	Gorchymyn a wnaed gan awdurdod cynllunio lleol, er mwyn amddiffyn coed, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder.
<b>Gorchymyn datblygiad</b>	Cyfraith eilaidd, sydd yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer yr oll ddatblygiad o fewn categori penodol (gorchymyn datblygiad cyffredinol) neu am rhai mathau o ddatblygiad o fewn ardal sbesiffig (gorchymyn datblygiad lleol).
<b>Gorchymyn Gorfodi Cynllunio</b>	Gorchymyn a ganiateir gan llys yr ynadon, ar gais awdurdod cynllunio, sydd yn caniatáu iddynt i ymestyn y terfyn amser a'u caniatáu i ymateb i doriad o rheolaeth cynllunio lle mae ymdrech pwrpasol i'w guddio wedi bod.
<b>Hysbyseb prynu</b>	Hysbyseb a rhoddir gan perchennog tir i awdurdod cynllunio, yn mynnu eu bod nhw'n prynu tir a gafodd ei rendro yn ddiwerth fel canlyniad penderfyniad cynllunio.
<b>Hysbysebiad atal dros dro</b>	Hysbysiad a rhoddwyd gan awdurdod cynllunio, sydd yn mynnu bod y derbyniwr yn rhoi stop yn syth bin i ddatblygiad sydd yn edrych fel ei bod yn torri rheolaeth cynllunio
<b>Hysbysebiad Cynllunio Dramgwydd</b>	Hysbyseb a grëir gan awdurdod cynllunio, sydd yn mynnu bod y derbyniwr yn rhoi iddynt wybodaeth ynglŷn a perchnogaeth y tir, ei ddefnydd, y gweithgareddau sydd yn cymryd lle arni, ac esboniad am y rheswm na fod y gweithgareddau hynny yn oroesol i rheolaeth cynllunio.
<b>Hysbysiad dirwyn i ben</b>	Gofyniad awdurdod cynllunio bod gweithgareddau cyfreithiol presennol neu gweithrediad neu defnydd o'r tir yn dod i ben (yn



	amodol ar hawl i iawndal am y rhai a fyddai'n dioddef fel canlyniad)
<b>Hysbysiad gorfodi</b>	Hysbys a rhoddwyd gan awdurdod cynllunio, sydd yn mynnu bod rhaid i gamau bach cael eu gymryd i gywiro effaith datblygiad anawdurdodedig, yn amodol ar yr hawl i apelio i'r Gweinidogion Cymraeg (mae methiant i gael caniatâd yn drosedd).
<b>Hysbysiad malltod</b>	Hysbysiad a rhoddir gan perchennog y tir i awdurdod cynllunio, sydd yn mynnu eu bod yn prynu'r tir am eu bod wedi ei rendro'n ddiwerth, fel canlyniad eu penderfyniad i'w defnyddio o fewn cynllun datblygiad (neu ddogfen tebyg).
<b>Hysbysiad stop</b>	Hysbysiad a rhoddir gan yr awdurdod cynllunio gyda chopi o hysbysiad gorfodol, sydd yn mynnu bod datblygiad anawdurdodedig yn stopio'n syth, yn amodol i'r hawl i iawndal, mewn amgylchiadau penodol.
<b>Hysbysiad torri amod</b>	Hysbysiad a rhoddir gan awdurdod cynllunio, sydd yn mynnu bod rhaid i'r derbyniwr cydymffurfio gyda'r amodau ynghlwm i ganiatâd cynllunio a rhoddwyd ar gyfer datblygiad.
<b>Nodyn cyngor technegol ("TAN")</b>	Cyngor manwl a grëwyd gan Lywodraeth Cymru ar nifer eang o bynciau.
<b>Prynu gorfodol</b>	Caffaeliad tir, fel arfer gan awdurdod cyhoeddus ar gyfer prosiect cyhoeddus, heb ganiatâd y perchennog, sydd yn amodol ar hawl perchnogion neu meddianwyr sydd wedi eu gwaredu o'r tir i gael iawndal.
<b>Tariff Seilwaith Lleol</b>	Amgen a gynigiwyd ar gyfer ardoll seilwaith cymunedol, sydd yn rhoi tariff isel ar y mwyafrif o ddatblygiadau newydd.
<b>Trwydded cwmpo coed</b>	Trwydded oddi wrth Adnoddau Naturiol Cymru, sydd yn caniatáu toriad coed, nad yw'n angenrheidiol ar waith a wnaed ar radd fach neu o fewn achosion arbennig.
<b>Tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd arfaethedig neu ddatblygiad (TCDDdA)</b>	Tystysgrif a rhoddir gan awdurdod cynllunio, sydd yn nodi bod defnydd arfaethedig o dir, neu datblygiad arfaethedig, yn rhydd o waith gweithredu gorfodol.
<b>Tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd presennol neu datblygiad sydd yn bodoli (TCDDdB)</b>	Tystysgrif a rhoddir gan awdurdodau cynllunio, sydd yn nodi bod defnydd presennol o dir, neu datblygiad a gaiff ei ymgymryd, yn rhydd o waith gweithredu gorfodol.
<b>Ymgwymerwyr Statudol</b>	Corff cyhoeddus sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros rhai gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys rheilffyrdd, hewlydd, traffig awyr, camlesi, dociau, porthladdoedd, nwyon, trydan a phriffyrdd.

## BYRFODDAU ARALL

CB	Cyngor Bwrdeistref
CGTB	Cymdeithas Gwlad, Tir a Busnes
DMPWO	Gorchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru)
GPDO	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)
PCPA	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol
DC(C)	Deddf Cynllunio (Cymru)
CGTh	Cynllunio Gwlad a Thref
DCGTh	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref
CLA	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
POSW	Cymdeithas Swyddogion Cynllunio (Cymru)

# CYFLWYNIAD

## YR YMARFER YMGYNGHORI HWN

- 0.1 Estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r posibilrwydd o symleiddio ac atgyfnerthu cyfraith cynllunio fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, ac i wneud cynigion ar gyfer diwygiadau technegol. Daw hyn yn sgil y dull gweithredu a argymhellwyd yn ein hadroddiad ar ffurf a hygyrchedd cyfraith yng Nghymru, ac mae'n rhan allweddol o brosiect codeiddio arbrofol y Cynulliad.
- 0.2 Bydd canlyniad yr ymarfer hwn yn cyfrannu at ymddangosiad Bil Cynllunio a fydd yn disodli mwy na 25 o Ddeddfau Senedd Prydain a Deddfau'r Cynulliad yn gyfangwbl neu yn rhannol. Yn ei dro, daw hynny i fod yn brif elfen Côt Cynllunio newydd, fydd hefyd yn cynnwys deddfwriaeth eilaidd gysylltiedig (rheoliadau) a chanllawiau'r Llywodraeth.
- 0.3 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r Papur Ymgynghori sylweddol yr ydym wedi'i gyflwyno, gan ddatgan ein cynigion ar gyfer diwygio, ar ddiwedd Tachwedd 2017.
- 0.4 **Nodir bod y Crynodeb hwn, ynghyd â'r Papur Ymgynghori llawn a phenodau unigol ohono, ar gael ar lein ar [www.lawcom.gov.uk/planning-law-in-wales](http://www.lawcom.gov.uk/planning-law-in-wales) neu ar [www.lawcom.gov.uk/cyfraith-cynllunio-yng-nghymru](http://www.lawcom.gov.uk/cyfraith-cynllunio-yng-nghymru).**
- 0.5 Mae Rhan Un o'r Papur yn ymwneud ag Egwyddorion Cyffredinol. Mae yn agor gydag amlinelliad byr o'r ffyrdd y mae cyfraith cynllunio wedi cyrraedd y sefyllfa anfoddfaol bresennol, a rhai o'r problemau sydd wedi codi fel canlyniad. Mae hefyd yn disgrifio cynnydd y prosiect hyd yn hyn ac yn archwilio'r ffordd y gellir datblygu. Fe gyflwynon ni Bapur Cwmpasu ym Mehefin 2016, gan fynegi ein barn gychwynol; rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Yn wyneb y barnau a fynegwyd, ac ein gwaith pellach, mae Rhan Un o'r Papur Ymgynghori yn datgan ein casgliadau o ran cwmpas yr ymarfer, ac ein dull cyffredinol o weithredu diwygiadau technegol i'r gyfraith.
- 0.6 Yn dilyn o'r casgliadau cyffredinol yn sgil yr uchod, mae Rhan Dau yn ymdrin â phob un o'r pynciau pwysig yn y maes hwn, yn eu tro. Amlinellir nifer o gynigion amodol er mwyn gwneud newidiadau technegol i sylwedd y gyfraith, a'r ffyrdd gellir orau gyflwyno'r gyfraith er lles y defnyddwyr. Mae Rhan Dau hefyd yn gwneud nifer o awgrymiadau o ran hen ddarpariaethau na ddefnyddir rhagor. Gofynnwn nifer o gwestiynau mewn perthynas â materion sydd yn lle mae barnau gwahanol ynglŷn â'r sydd fwyaf priodol yn debygol o fodoli.
- 0.7 Rhestrwn ein cwestiynau ymgynghori ar ddiwedd y Crynodeb hwn ac ar ddiwedd Rhan Dau o'r Papur Ymgynghori llawn.
- 0.8 Rydym yn ddiolchgar am y cymorth sylweddol a roddwyd i ni gan nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru trwy gydol gwaith paratoi'r Papur Ymgynghori hwn, yn ogystal â chan lawer eraill yr ydym wedi rhannu syniadau â nhw. Pwysleisiwn fod y Papur yn cynrychioli barn amodol Comisiwn y Gyfraith, fodd bynnag, ac nid o reidrwydd y rhai a rhoddodd cynorthwyaeth i ni er mwyn ei gynhyrchu.

## EICH YMATEB

- 0.1 **Gwahoddwn ymatebion gan bawb sydd yn darllen y Crynodeb hwn neu'r Papur Ymgynghori llawn, ynglŷn â'r bwriadau a'r cwestiynau ymgynghori, yn gyfangwbl neu yn rhannol. Y dyddiad cau am ymatebion yw dydd Iau, 1 Mawrth 2018. Byddai'n ddelfrydol pe gallent gael eu hanfon drwy e-bost i:**

**[Planning\\_wales@lawcommission.gov.uk](mailto:Planning_wales@lawcommission.gov.uk) neu**

**[cynllunio\\_cymru@lawcommission.gov.uk](mailto:cynllunio_cymru@lawcommission.gov.uk).**

- 0.3 **Croesawn sylwadau ar naill ai'r holl gynigion a'r cwestiynau neu ar y rhai mewn penodau penodol, neu ar un neu ddau yn unig. Rydym yn hynod o ddiolchgar am unrhyw ymateb neu sylwad pellach y dymunwch eu gwneud.**
- 0.4 Rhown groeso penodol i sylwadau o ran goblygiadau ariannol neu oblygiadau adnoddol eraill - ffafriol neu anffafriol - ynghylch unrhyw un o'n cynigion. A fyddent yn arbed amser ac arian i chi, neu wneud eich bywyd yn haws mewn rhyw ffordd, neu a gaent yr effaith groes? Byddai sylwadau yn ein helpu i greu asesiad effaith yn ein hadroddiad terfynol.
- 0.5 Estynnwn wahoddiad hefyd i ymatebwyr i godi unrhyw bwynt penodol ynglŷn â'r cod statudol - yn debyg i'r rhai sydd wedi ei gynnwys yn y Papur Ymgynghori - y teimlant y dylai fod wedi'i gynnwys.
- 0.6 Byddem hefyd yn barod i gwrdd ag unrhyw randdeiliaid - naill ai grwpiau neu unigolion - sydd yn dymuno trafod cynnwys y Papur Ymgynghori yn fanylach - er nad ydyn yn gallu trafod achosion penodol neu i gynnig cyngor. Os fyddech cystal ag anfon unrhyw gais am gyfarfod i'r cyfeiriad e-bost uchod.
- 0.7 Yn wyneb yr ymatebion a dderbyniwn i'r Papur Ymgynghori hwn, byddwn yn cyflwyno Adroddiad Terfynol yn Haf 2018. Bydd hwn yn llywio gwaith cynhyrchu'r Bil Cynllunio newydd, a fydd yn ffurfio prif elfen Côd Cynllunio newydd i Gymru.

# RHAN UN

## YR EGWYDDORION CYFFREDINOL

### Pennod 1: Cyfraith Gynllunio yng Nghymru

#### Y CEFNDIR

- 1.1 Mae'r ymarfer sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd gan Gomisiwn y Gyfraith, ar gais Llywodraeth Cymru, yn ystyried symleiddio a chodeiddio'r ddeddfwriaeth gynllunio a'r ddeddfwriaeth berthnasol fel y mae'n ymwneud â'r ffordd y defnyddir ac y datblygir tir yng Nghymru. Mae'n dilyn y dull a argymhellwyd yn ein Hadroddiad am Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Berthnasol yng Nghymru,<sup>1</sup> ac yn cyfrannu at brosiect peilot y mae Llywodraeth Cymru'n ei redeg i godeiddio a chyfnerthu'r gyfraith a'i chyflwyno'n well. Y gobaith yw y bydd yn cyfrannu at gynhyrchiad Cod Cynllunio, maes o law, a fydd yn disodli pob un, neu gyfran, o oddeutu 30 o statudau, ac oddeutu 100 o reoliadau, rheolau a gorchmynion.<sup>2</sup>
- 1.2 Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn nodi ein cynigion ynglŷn â chynnwys Mesur cynllunio a allai ddod yn brif ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn y Cod hwnnw. Byddai'r Bil hwnnw'n cynnwys llawer o'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, ond mewn patrwm mwy eglur, ac mewn un lle yn hytrach nag wedi'i rannu dros nifer o Ddeddfau; a byddai'n egluro amrywiol bwyntiau yn fanwl. Ond byddai'n hepgor nifer o ddarpariaethau nad ydynt yn ddefnyddiol bellach, ac y mae eu cadw o fewn y system yn ei gwneud hi'n anodd deall a defnyddio'r system gynllunio, a hynny heb fo raid.
- 1.3 Dros y saith deg mlynedd sydd wedi mynd heibio ers i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ("DCGTh") 1947 ddod i rym, mae bodolaeth, mewn egwyddor, system gynllunio wedi gweithio'n dda ar y cyfan yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi arwain at weithredu datblygiadau - gan berchnogion tir preifat a sefydliadau sector cyhoeddus - lle mae wedi bod yn ofynnol; ac mae wedi helpu i atal gweithredu datblygiadau lle byddent wedi bod yn amhriodol.
- 1.4 Fodd bynnag, i reoleiddio'r system hon, mae system eang wedi datblygu a thyfu o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd, a ddiwygiwyd yn aml gan wahanol lywodraethau oedd â gwahanol argyhoeddiadau gwleidyddol mewn ymateb i flaenoriaethau a phwysau gwleidyddol newydd Ategir y ddeddfwriaeth honno gan ganllawiau polisi lu o amrywiol fathau, yn genedlaethol ac yn lleol. O ganlyniad i'r broses esblygol hon, mae'r gyfraith sy'n llywio'r system gynllunio - sydd i'w chael mewn Deddfau, Rheoliadau, Gorchmynion, Rheolau a Chyfarwyddebau - yn eithriadol gymhleth erbyn hyn.

---

<sup>1</sup> *Adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Com Gyf Rhif 366), Mehefin 2016.

<sup>2</sup> Wrth i ni ddrafftio'r Papur Ymgynghori yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i'n Hadroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Berthnasol yng Nghymru (Com y Gyf Rhif 366). Rydym yn falch ei fod wedi derbyn bron pob un o'n hargymhellion. Fodd bynnag, er ein bod wedi argymhell fod pob darn newydd o ddeddfwriaeth sylfaenol yn cael ei alw'n God, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu defnyddio'r term "Cod" i ddisgrifio compendiwm o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd ynghyd â pholisi ac arweiniad cysylltiedig. Mae hynny'n fater i Lywodraeth Cymru yn unig.

- 1.5 Y rhan o'r system gynllunio sy'n fwyaf gweladwy i'r cyhoedd yw polisi, neu "feirniadaeth gynllunio" fel y'i gelwir weithiau. Mae hwn yn pennu sut mae'r system yn debygol o weithredu mewn perthynas ag unrhyw gategori o gynnig penodol - gan bennu pa bolisiâu cyhoeddiedig a ffactorau eraill sy'n berthnasol, a chydbwyso ystyriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, i daro ar benderfyniad sydd o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 1.6 Mae'n weddol syml erbyn hyn i ddod o hyd i bolisi Llywodraeth Cymru ar gynllunio – yn *Polisi Cynllunio Cymru* a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)<sup>3</sup> – a chanllawiau cysylltiedig.<sup>4</sup> Gan amlaf mae polisi y tu hwnt i gwmpas yr ymarfer presennol nifer - hyd yn oes yw llawer o'r problemau gyda'r system gynllunio, ac i raddau mawr y rhai sy'n cael eu gweld gan bobl broffesiynol berthnasol ac yn fwy cyffredinol gan y cyhoedd, yn ymwneud mewn gwirionedd â pholisi yn hytrach na chyfraith. Fodd bynnag, mae angen seilio unrhyw broses o baratoi a gweithredu polisi cynllunio a gweithredu beirniadaeth gynllunio ar sylfaen gyfreithiol gadarn - yn arbennig, i benderfynu:
- (1) pa gategoriâu o ddatblygiad sydd angen awdurdodaeth benodol o ryw fath, a ddylai gael ei ganiatáu'n awtomatig fel arfer, ac sydd angen caniatâd mewn achosion penodol yn unig;
  - (2) sut y gellir sicrhau awdurdodaeth o'r fath (ar apêl os oes raid), mewn dull a fydd yn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau perthnasol;
  - (3) pa sefydliadau a phobl sydd i gael rôl yn y broses o wneud penderfyniadau;
  - (4) ar ba bolisi y dylid rheoli defnydd a datblygiad tir (hynny yw, pa gategoriâu cydnabyddedig o bolisi sydd i gael eu hystyried, a faint o bwysau y dylid ei roi i bob un);
  - (5) sut seilwaith ddylid ei ddarparu sydd yn hanfodol o ganlyniad i i'r datblygiad;
  - (6) sut ddylid datrys anghydfod
  - (7) beth yw'r canlyniadau os methir â sicrhau awdurdodaeth; a
  - (8) sut y gallai llywodraeth ganolog a lleol a chyrrff cyhoeddus eraill (ar ran y gymuned) gynllunio a gweithredu eu datblygiad eu hunain.<sup>5</sup>

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

- 1.7 Yng Nghymru a Lloegr yn gyfan, mae mwy na 50 o Ddeddfau Senedd a Deddfau'r Cynulliad sy'n ymdrin yn gyfan gwbl neu'n rhannol â materion cynllunio a materion perthnasol - mae'r union nifer yn dibynnu ar beth a ystyrir gan "gynllunio".<sup>6</sup> Yn ogystal mae oddeutu 150 o ddarnau o ddeddfwriaeth eilaidd - rheoliadau, rheolau a gorchmynion - sy'n penderfynu'n fanwl sut mae'r system yn gweithredu, yn ogystal â dogfennau polisi lleol a chenedlaethol.

---

<sup>3</sup> Gweler **paragraff 1.23**.

<sup>4</sup> Gweler, er enghraifft *Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol*, argraffiad 2, Llywodraeth Cymru, Awst 2015; a *Llawlyfr Rheoli Datblygu*, Tachwedd 2016.

<sup>5</sup> Mae trefn y pynciau yn y rhestr yn adlewyrchu'r drefn y maent yn disgyn i'w hystyried yn y broses rheoli datblygiad.

<sup>6</sup> Gweler **para 1.46** a **nodyn 38** isod.

- 1.8 Mae'r toreth o ddeddfau sylfaenol ac eilaidd a gododd o ganlyniad i hynny wedi tyfu'n ddi-baid ac heb unrhyw batrwm arbennig o amlwg. Yn dilyn y Ddeddf Cynllunio gyntaf yn 1947, gellid cynnwys y ddeddf berthnasol a'r polisi Llywodraethol, ynghyd â'r sylwadau, o fewn un ddogfen dudalennau rhydd (sef y *Gwyddoniadur Cynllunio, Pryniannau Gorfodol ac Iawndal* bryd hynny). Saith deg mlynedd yn ddiweddarach, mae'r elfen "gynllunio" o'r gwaith wedi tyfu'n ddeg cyfrol.<sup>7</sup>
- 1.9 Mae nifer o'r Deddfau a'r rheoliadau yma wedi derbyn dehongliad barnwrol yn y llysoedd dros y 70 mlynedd diwethaf. Ac mae'r system gyfan wedi derbyn darnau niferus o arweiniad, a gynhyrchwyd naill ai gan adrannau llywodraeth ganolog a chyrrff cyhoeddus eraill neu gan bobl broffesiynol berthnasol neu eraill.
- 1.10 Mae'r gyfraith yn ddigon anodd ei deall i bobl broffesiynol sy'n arbenigwyr ac sydd ag anoddu ar-lein ar gael iddynt hefyd. I bobl sydd ddim yn arbenigwyr, heb sôn am aelodau'r cyhoedd, mae'r gyfraith - er ei bod yn ddigon syml mewn egwyddor - bron yn amhosibl o gymhleth yn weithredol erbyn hyn.
- 1.11 Mewn blynyddoedd diweddar, ffactor pellach sy'n cymhlethu pethau yw bod Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynhyrchu deddfwriaeth erbyn hyn sy'n "ymestyn" i Gymru a Lloegr fel ei gilydd, er bod rhywfaint ohono'n "berthnasol" i Gymru yn unig neu i Loegr yn unig.<sup>8</sup> Mae'r sefyllfa'n glir erbyn hyn mewn nifer o achosion sy'n ymwneud â deddfwriaeth eilaidd, am fod teitl pob cyfres newydd o reoliadau'n nodi'n glir a ydynt yn berthnasol yn Lloegr, yng Nghymru neu yn y ddwy wlad. Ond mae'r sefyllfa o ran y ddeddfwriaeth sylfaenol yn llawer mwy cymhleth yn aml iawn. Unwaith eto, mae pobl broffesiynol sy'n gyfarwydd â'r gyfraith yn ei chael hi'n anodd ei deall yn sicr; i leygwyr, mae'n rhaid bod hyn yn llawer gwaeth. Mae angen atgyweirio'r system gyfan yn radicalaidd.

## DATBLYGIAD Y SYSTEM GYNLLUNIO YNG NGHYMRU

### Y patrwm gwreiddiol: rheoli cynllunio prif ffrwd yng Nghymru a Lloegr

- 1.12 Crëwyd y system gynllunio ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yn wreiddiol roedd wedi'i thanategu gan dri phrif statud: Y Ddeddf Trefi Newydd 1946, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947,<sup>9</sup> a'r Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
- 1.13 O'r dair Deddf yma, y mwyaf arwyddocaol yn y pen draw oedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, oedd yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Gorffennaf 1948. Sefydlodd y Ddeddf honno'r egwyddorion a ganlyn:

<sup>7</sup> Mae'r gyfraith ynglun a phyrnu gorfodol a iawndal, sydd yn fwy cymhleth na chyfraith cynllunio, ong sydd yn cynnwys llai o waith pholisi a chyfarwyddiad, nawr i'w ddarganfod mewn tair cyfrol ar wahan.

<sup>8</sup> Mae gwahaniaeth cyfreithiol, o ddiddordeb yn bennaf i gyfreithwyr cyfansoddiadol. Mae'r rhan fwyaf o Ddeddfau Senedd y DU a holl Ddeddfau'r Cynulliad yn "ymestyn" i Gymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhan o'r gyfraith gyffredinol ledled y dirioegaeth honno; ac ar hyn o bryd mae'n amhosibl naill ai i DdeddfSeneddol neu Ddeddf y Cynulliad ymestyn i ran ohono yn unig. Ond mae hyn yn fater hollol wahanol i ganfod i ba ran o diriogaeth mae Deddf yn "berthnasol". Yn achos Deddf Seneddol, mae canfod ble (neu i bwy neu beth) mae'n berthnasol yn fater o ddarllen y Ddeddf. On, fel y dengys y paragraffau sy'n dilyn, yn aml nid yw hyn yn glir neu wedi ei ddatgan a yn amlwg. Am drafod aeth lawnach, gweler Ffurf a Hygyrchedd Y gyfraith Berthnasol i Gymru, Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 223, paragraffau 1.43 i 1.46.

<sup>9</sup> Yn y Papur Ymgynghori hwn, rydym yn defnyddio nifer o dalfyriadau ar gyfer teitleu darnau o ddeddfwriaeth, Maent wedi eu rhestru ar **dudalen xv**.

- (1) bod cynlluniau datblygu i gael eu paratoi gan awdurdodau cynllunio, i dywys lleoliad a ffurf y datblygiad;
- (2) bod raid sicrhau awdurdodaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad bron iawn, ac ar gyfer hysbysebu awyr agored, gyda mecanweithiau gorfodi i ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau cynllunio;
- (3) bod amddiffyniad ychwanegol i gael ei roi i adeiladau o ddiddordeb arbennig a choed sy'n werthfawr o ran amwynder; a
- (4) bod modd i awdurdodau cyhoeddus brynu tir i bwrpasau cynllunio.

1.14 Mae'r egwyddorion hynny'n dal i fodoli heddiw, er bod y manylion wedi cael eu newid lawer gwaith.

1.15 Roedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 yn cynnwys darpariaethau ariannol cymhleth hefyd, i sicrhau bod ffi datblygu'n cael ei thalu i'r wladwriaeth lle rhoddwyd caniatâd i ddatblygiad nad oedd yn cyfateb â'r cynllun, ac y byddai iawndal yn daladwy gan y wladwriaeth dan amgylchiadau arbennig lle gwrthodwyd caniatâd.<sup>10</sup> Mae'r darpariaethau hynny wedi cael eu diddymu ers blynnyddoedd - yn bennaf gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1953 a Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991.

1.16 Addaswyd Deddf 1947 nifer o weithiau yn ystod yr 1950au, ac yn dilyn hynny cafodd y ddeddf ei chyfuno i greu Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962. Cafodd y Ddeddf yn ei thro ei diwygio'n sylweddol gan ddeddfwriaeth yn ymwneud â datblygiad diwydiannol a datblygiad y swyddfa, a gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, a gyflwynodd nifer o welliannau technegol i'r ddeddfwriaeth gynllunio gyffredinol (megis y rheiny sy'n ymwneud ag apeliadau) sydd erbyn hyn yn rhan o batrwm sefydledig y ddeddf. Cyflwynodd Deddf 1968 rai cysyniadau newydd sydd wedi goroesi (yn cynnwys y termau "adeilad rhestredig" a "chaniatâd adeilad rhestredig") - yn ogystal ag eraill sydd heb oroesi (megis tystysgrifau defnydd sefydledig, a chynlluniau strwythur a lleol) ac eraill sydd wedi goroesi ond nad ydynt erioed wedi cael eu defnyddio (megis comisiynau ymholiadau cynllunio). Cafwyd cymaint o newidiadau nes y cyfunwyd popeth ynghyd unwaith eto i greu Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971.

1.17 Yna diwygiwyd Deddf 1971 gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygio) 1972, Deddf Amwynderau Gwlad a Thref 1974 a Deddf Tai a Chynllunio 1986 - a gyflwynodd amrywiaeth o addasiadau gwerthfawr ond gweddol fychan i'r ddeddfwriaeth gynllunio brif ffrwd, ac a gyflwynodd ardaloedd cadwraeth (sydd wedi cael eu defnyddio'n fawr ers hynny) a pharthau cynllunio wedi'u symleiddio (na chawsent eu defnyddio bron o gwbl). Cafodd y ddeddfwriaeth ei haddasu hefyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, a lansiodd ardaloedd menter a chorfforaethau datblygiad trefol.

1.18 Yna estynnodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wahoddiad i Gomisiwn y Gyfraith atgyfnethu'r ddeddfwriaeth gynllunio eto, gan gynnwys nifer fechan o ddiwygiadau technegol bychain y tro hwn.<sup>11</sup> Canlyniad yr ymarfer oedd cyflwyno pedair deddf - yn bennaf Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ond hefyd Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf Adeiladau Rhestredig 1990"), Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Dilynol) 1990.

---

<sup>10</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, Rhannau 6, 7.

<sup>11</sup> Com y Gyf 189, Cm 958.



1.19 Fodd bynnag, gynted ag yr oedd y gwaith cyfuno yma'n gyflawn, cychwynodd y broses o ddiwygio unwaith eto - gan ddechrau gyda'r newidiadau i'r drefn gorfodi cynllunio a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991. Roedd Deddf yr Amgylchedd 1995, oedd yn ymwneud yn bennaf ag agweddau o'r gyfraith amgylcheddol ac eithrio cynllunio, hefyd wedi diweddarau'r gyfraith yn ymwneud â hen ganiatadau cynllunio i gloddio am fwynau, a gwnaeth newidiadau sylweddol i'r rheolaeth ar gynllunio mewn parciau cenedlaethol.

### Cyfraith cynllunio yng Nghymru

1.20 Roedd yr holl eitemau o ddeddfwriaeth gynllunio a nodwyd uchod - a'r holl ddeddfwriaeth eilaidd gysylltiedig bron - yn berthnasol i Gymru yn ogystal â Lloegr ac, yn gyffredinol, yn ymwneud â'r ddwy wlad yn union yr un fath.

1.21 Yn ogystal, er bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi bod yn gyfrifol am gynllunio gwlad a thref ers 1965,<sup>12</sup> roedd y polisi yr un fath yn y ddwy wlad yn gyffredinol, o leiaf hyd yr 1990au. Cynhyrchwyd cylchlythyrau a chanllawiau i bolisiâu (Canllawiau i Bolisi Cynllunio [PPGs] a Chanllawiau Cynllunio Mwynau [MPGs]) ar y cyd gan y Swyddfa Gymreig ac Adran yr Amgylchedd - er bod y Swyddfa Gymreig yn gwrthod mabwysiadu cylchlythyrau o Loegr ar brydiau,<sup>13</sup> ac weithiau roedd yn cyhoeddi cylchlythyrau heb rai cyfatebol yn Lloegr, megis y rheiny oedd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg<sup>14</sup> a'r amgylchedd hanesyddol.<sup>15</sup>

1.22 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 system unedol o lywodraeth leol drwy Gymru gyfan, oedd yn deddfu bod y 22 awdurdod newydd yn awdurdodau cynllunio lleol i bob pwrpas, ac yng Nghymru mabwysiadodd y system o gynlluniau datblygiad unedol oedd wedi bod yn berthnasol yn y gorffennol dim ond yn ardaloedd metropolitan mawr Lloegr.<sup>16</sup> Flwyddyn yn ddiweddarach, cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd 1995 y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru.

1.23 Atseiniwyd hyn gan ddatblygiad cyfres amlwg o bolisiâu cynllunio oedd yn berthnasol yng Nghymru yn unig. I ddechrau, roedd hon yn cynnwys dwy ddogfen yn bennaf, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym mis Mai 1996, dan y teitl *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Cynlluniau Datblygu Unedol a Chanllawiau i Gynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio*. Roedd yr olaf yn nodi'r polisi cynllunio cenedlaethol oedd yn berthnasol i Gymru - model na chafodd ei fabwysiadu yn Lloegr am oddeutu 16 mlynedd arall, gyda chyflwyniad y Fframwaith Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol (NPPF). Gyda'r ddwy ddogfen bolisi cenedlaethol roedd amrediad o Nodiadau Cynghori Technegol, yn rhoi cyngor manylach am bynciau penodol (unwaith eto, yn rhagarwyddo'r Fframwaith Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn Lloegr).

1.24 Yna cychwynodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 broses lle'r oedd cyfrifoldebau'r Senedd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd yn cael eu trosglwyddo'n raddol i'w rhai

---

<sup>12</sup> Gwelwch, er enghraifft, Ddadl Tŷ'r Cyffredin, 19 Tachwedd 1964, Cyf 602, col 623.

<sup>13</sup> Er enghraifft, mae Cylchlythyr Adran yr Amgylchedd 8/87 (Adeiladau Hanesyddol - Polisi a Gweithdrefnau) yn gymwys yn Lloegr yn unig.

<sup>14</sup> Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 53/88 (Yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Datblygu a Rheolaeth Datblygu) – a ddisodlwyd yn 2000 gan rifyn cyntaf TAN 20.

<sup>15</sup> Cylchlythyr Swyddfa Gymreig 60/96 (Archaeoleg) a 61/96 (Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth) – y ddau mewn grym hyd nes y cawsent eu disodli gan TAN 24 yn 2017 - nid oedd Cylchlythyr Saesneg uniongyrchol gyfatebol.

<sup>16</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Rhan 2, Pennod 1, diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Rhan 2. Cafodd y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru, a grëwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, eu ffurfio'n awdurdodau cynllunio lleol gan SI 1995 Rhif 2803

cyfatebol yng Nghymru. I ddechrau, nid oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r grym i weithredu deddfwriaeth sylfaenol, ond cymerodd gyfrifoldebau Ysgrifennydd Gwladol Cymru.<sup>17</sup> O'r amser hwnnw, y Cynulliad fel arfer oedd yn llunio deddfwriaeth eilaidd oedd yn ymwneud â chynllunio a materion perthnasol fel eu bod yn berthnasol yng Nghymru yn unig.<sup>18</sup>

- 1.25 Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol ("PCPA") 2004 systemau gweddol wahanol o gynlluniau datblygu i Loegr (yn Rhan 2) a Chymru (yn Rhan 6). Gwnaeth gweddill y Ddeddf newidiadau amrywiol i'r ddeddfwriaeth gynllunio, yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd, yn yr un ffordd â statudau cynharach.

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- 1.26 Ymestynwyd y broses ddatganoli'n sylweddol gan Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy ddarparu (yn Rhan 3) y gallai'r Cynulliad basio Mesurau a fyddai â statws deddfwriaeth sylfaenol. Yn dilyn refferendwm ym mis Mawrth 2011, cafodd hyn ei ddisodli pan ddaeth Rhan 4 Deddf 2006 i rym ddeufis yn ddiweddarach, a roddodd y grym i'r Cynulliad i basio Deddfau, yn lle Mesurau.

- 1.27 O dan Ran 3 Deddf 2006, byddai Mesurau a basiwyd gan y Cynulliad yn dod yn rhan o'i gymhwysedd deddfwriaethol ar yr amod ei fod yn ymdrin ag un neu fwy o'r materion oedd wedi eu rhestru yn Atodlen 5; nid oedd unrhyw un o'r 22 Mesur a basiwyd gan y Cynulliad yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio. O dan Ran 4 y Ddeddf, byddai Deddfau a basiwyd gan y Cynulliad ond yn perthyn i'w gymhwysedd deddfwriaethol os oeddent yn ymdrin ag un neu fwy o'r pynciau oedd wedi eu rhestru yn Atodlen 7.

- 1.28 Roedd y rhestrau yn Atodlen 5 ac Atodlen 7 yn cynnwys:

- (1) cynllunio gwlad a thref,
- (2) henebion ac adeiladau hanesyddol,
- (3) amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig, a'r
- (4) amgylchedd,

yn ogystal ag amrywiaeth mawr o bynciau eraill sy'n anuniongyrchol berthnasol i gynllunio.<sup>19</sup>

- 1.29 O fewn Atodlen 7, dyma oedd y pynciau a restrwyd o dan "cynllunio gwlad a thref":

Cynllunio gwlad a thref, yn cynnwys adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Safleoedd carafanau. Cynllunio gofodol. Gwaith mwynau. Datblygiad dinesig. Trefi newydd. Diogelu amwynder gweledol.<sup>20</sup>

---

<sup>17</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 1998, adran 21; Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (Rhif SI 672)

<sup>18</sup> Roeddyna rhai esiamplau cynharach o lunio deddfwriaeth eilaidd ar gyfer y ddwy wlad: gwelwch er enghraifft OSau 1991 Rhif 2647 (Cymru) a Rhif 2512 (Lloegr), y mae'r ddau'n ymwneud â digolledu o dan y ddeddfwriaeth henebion

<sup>19</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, fel y'i diwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddilynol (gwelwch y troednodiadau a ganlyn).

<sup>20</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, para 18, fel y'i diwygiwyd gan OS 2007 Rhif 2143.

Roedd y rhestr wedi hepgor caniatâd datblygu yn benodol o dan Ddeddf Cynllunio 2008, y sonnir amdano maes o law.<sup>21</sup>

1.30 Y pynciau a restrwyd o dan y pennawd "Henebion ac adeiladau hanesyddol" oedd:

Gweddillion archaeolegol. Henebion. Adeiladau a manau o ddiddordob hanesyddol neu bensaernïol. Drylliadau hanesyddol.<sup>22</sup>

Roedd "Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig" yn cynnwys:

Amaethyddiaeth, yn cynnwys iechyd a lles anifeiliaid. Iechyd planhigion Hadau a mathau o blanhigion. Garddwriaeth. Pysgodfeydd. Iechyd pysgod. Coedwigaeth. Datblygiad gwledig.<sup>23</sup>

Roedd "amgylchedd" yn cynnwys:

Diogelwch amgylcheddol, yn cynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus. Rhwystro, gostwng, casglu, rheoli, trin a chael gwared â gwastraff. Draenio tir a gwella tir. Cefn gwlad a manau agored (yn cynnwys dynodi a rheoli parciau cenedlaethol ac ardaleodd o harddwch naturiol eithriadol). Gwarchodfeydd natur a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Diogelu cynefinoedd naturiol, amgylchedd morol a'r arfordir (yn cynnwys gwely'r môr). Bioamrywiaeth. Organebau wedi'u haddasu'n enetig Tyddynnod a rhandiroedd. Tir comin. Meysydd y dref a'r pentref. Claddu ac amlosgi, heblaw gwaith y crwner.<sup>24</sup>

### **Deddfwriaeth berthnasol Cynulliad Cymru ers 2006.**

1.31 Gan ddefnyddio ei bwerau newydd o dan Ran 4 Deddf 2006, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio nifer o Ddeddfau sy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol berthnasol i'r ymarfer presennol, yn cynnwys:

- (1) Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013;
- (2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("Deddf Llesiant") 2015;
- (3) Deddf Cynllunio (Cymru) ("DC(C)") 2015;
- (4) Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015;
- (5) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; a
- (6) Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

1.32 Gwnaeth Deddf Cynllunio Cymru 2015 ddiwygiad sylweddol i'r ddeddfwriaeth gynllunio fel y mae'n berthnasol i ddatblygiad yng Nghymru - yn rhannol Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mewn perthynas â chynlluniau datblygu, ac yn rhannol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am ei bod yn darparu ar gyfer rheoli datblygiad yn gyffredinol. Roedd rhai o'r diwygiadau yma'n debyg i'r rheiny a wnaed i Loegr gan y Ddeddf Lleoliaeth 2011 (gwelwch

<sup>21</sup> 2020 OS 2968; a Deddf Lleoliaeth 2011, Atodlen 13; gwelwch baragraffau 3.113, 9.12-9.14.

<sup>22</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, para 2.

<sup>23</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, para 1, fel y'i diwygwyd gan OS 2010 Rhif 2968.

<sup>24</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, para 6, fel y'i diwygwyd gan OSau 2007 Rhif 2143, 2010 Rhif 2968.

isod), ond nid oedd Deddfau 2011 a 2015 yr un fath mewn unrhyw ffordd. Er enghraifft, cafodd system o gynllunio cymdogaethau ei chyflwyno yn Lloegr gan Ddeddf 2001 ond ni chafodd ei chyflwyno yng Nghymru.

- 1.33 Gwnaeth Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ddiwygiadau sylweddol hefyd i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 ynghyd â Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 fel yr oeddent yn berthnasol yng Nghymru. Yma hefyd, roedd y diwygiadau i Ddeddf 1990 yn debyg ond nid yn union yr un fath â'r rheiny a gyflwynwyd yn Lloegr gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 - ac nid oedd y diwygiadau i Ddeddf 1979 wedi eu cyfateb gan unrhyw ddiwygiadau tebyg i'r Ddeddf honno fel yr oedd yn berthnasol yn Lloegr.<sup>25</sup>
- 1.34 Roedd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn atgyfnerthu'n effeithiol y gyfraith yng Nghymru oedd yn ymwneud â thrwyddedu cartrefi symudol. Roedd Deddf Llesiant 2015 yn ddarn newydd o ddeddfwriaeth oedd yn sefyll ar ei ben ei hun, ac roedd yn disodli'r dyletswydd cynaliadwyedd ychydig yn fwy cyfyngedig a oedd wedi bod yn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn y gorffennol; ac mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n diwygio'r gyfraith gyffredinol ar reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan ddisodli'r ddyletswydd bioamrywiaeth oedd wedi bod yn rhan o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.<sup>26</sup> Roedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn galluogi cyfuno dau neu fwy o awdurdodau lleol cyfagos.

### Deddfwriaeth berthnasol arall

- 1.35 Arweiniodd Deddf Trefi Newydd 1946, y gyntaf o'r dair Deddf yn fuan ar ôl y Rhyfel oedd yn ymdrin â defnydd a datblygiad y tir,<sup>27</sup> at greu 21 o drefi newydd yn Lloegr a dwy yng Nghymru - un bron i 70 mlynedd yn ôl, y llall 50 mlynedd yn ôl - ac yn y ddau achos mae'r gorfforaeth ddatblygu wedi'i diddymu ers talwm. Addaswyd Deddf 1946 nifer o weithiau, ac mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn awr yn Neddf Trefi Newydd 1981 a ddiwygiwyd gan Ddeddf Tai Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985 i ddarparu ar gyfer diddymu'r rhaglen trefi newydd yn y pen draw.<sup>28</sup>
- 1.36 Mae rhagor o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag adfywiad trefol i'w chael yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, oedd yn darparu ar gyfer sefydlu corfforaethau datblygiad trefol (dim ond un o'r rhain a grëwyd erioed yng Nghymru)<sup>29</sup> a dynodi ardaloedd menter.<sup>30</sup>
- 1.37 Aeth Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976 ati i sefydlu Bwrdd Datblygu Cymru ("WDA") a darparu rhagor o bwerau adfywio yng Nghymru. Estynwyd bwerau Bwrdd Datblygu Cymru o dan Ddeddf 1975 gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac mae'r rhain wedi cael eu pasio erbyn hyn i Weinidogion Cymru.<sup>31</sup> Hefyd aeth Deddf 1998 ati i ddiddymu Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Awdurdod Tir Cymru a Thai Cymru.

---

<sup>25</sup> Er bod rhai diwygiadau wedi eu gwneud i Ddeddf 1979 fel yr oedd yn berthnasol yn yr Alban; gwelwch bara 1.82 isod.

<sup>26</sup> Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adran 39, sydd mewn grym yn awr yn berthnasol yn Lloegr yn unig, fel y Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

<sup>27</sup> Gwelwch bennod 1.12.

<sup>28</sup> Gwelwch bennodau 16.75-16-79.

<sup>29</sup> Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, adrannau 134-136, Atodlenni 26-31; gwelwch Bennod 16.80-16.86.

<sup>30</sup> Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, adrannau 179, Atodlen 32; gwelwch Bennod 16.61-16.74.

<sup>31</sup> Gweler bennod 3.70-3.73.

1.38 Mae'r drydedd o'r dair Deddf a gafwyd ar ôl y rhyfel, Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, yn dal i fod mewn grym. Mae wedi cael ei haddasu a'i hatodi'n sylweddol dros y 70 mlynedd dilynol gan Deddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

### **Deddfwriaeth San Steffan ers 2006**

1.39 Nid oedd pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi atal Llywodraeth San Steffan rhag parhau i basio rhai darnau o ddeddfwriaeth gynllunio a fyddai'n effeithio ar Gymru Sefydlodd Deddf Cynllunio 2008 drefn newydd lle'r oedd prosiectau mawrion (megis meysydd awyr a phwerdai) yn gofyn am "ganiatâd datblygu" yn hytrach na chaniatâd cynllunio; mae'r drefn yma'n gweithio ychydig yn wahanol yng Nghymru a Lloegr.<sup>32</sup> Gwnaeth y Ddeddf honno rai diwygiadau hefyd i ddeddfwriaeth rheoli cynllunio prif ffrwd - gyda rhai'n berthnasol yn Lloegr yn unig, rhai yng Nghymru yn unig, a rhai yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd.<sup>33</sup> Mae werth nodi ei fod, mewn rhai sefyllfaoedd, wedi rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau i'r gyfraith yng Nghymru oedd yn debyg i'r rheiny oedd yn cael eu cyflwyno yn Lloegr.<sup>34</sup>

1.40 Gwnaethpwyd diwygiadau pellach gan Senedd y Deyrnas Unedig i ddeddfwriaeth gynllunio a deddfau perthnasol, oedd yn weithredol yn Lloegr yn unig fel arfer heblaw eu bod yn gysylltiedig â'r drefn caniatâd datblygu a phrynu gorfodol. Maent yn cynnwys newidiadau a wnaed gan Ddeddf Cymunedau Cynaliadwy 2007, Deddf Tai ac Adfywio 2008, Deddf Lleoliaeth 2011, Deddf Menter a Diwygio Rheoliadol 2013, Deddf Tyfiant a Seilwaith 2013, Deddf Seilwaith 2105, a Deddf Tai a Chynllunio 2016. Fel y nodwyd uchod, cyflwynwyd newidiadau tebyg - ond nid o anghenraid yn union yr un fath - i rai ohonynt gan Ddeddf Cynllunio Cymru 2015.

1.41 Mae newidaidau eraill wedi cael eu gwneud sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr, yn benodol mewn perthynas â threfn arbennig penderfyniadau cynllunio heriol yn yr Uchel Lys, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015.

### **Deddf Cymru 2017**

1.42 Yn olaf, o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017, mae cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chynllunio a materion perthnasol wedi ei ddatganoli bron yn gyfan gwbl i'r Cynulliad. Roedd y Ddeddf (y disgwylir iddi ddod i rym yn 2018) wedi rhoi Atodlen 7A newydd i mewn i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhestru'r materion hynny sy'n cael eu cadw ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig.

1.43 Mewn perthynas â'r pynciau sy'n berthnasol i bwnc y Papur Ymgynghori yma, dyma'r prif bynciau sy'n cael eu cadw:

- (1) cynllunio, ond dim ond cyn belled ag y mae'n ymwneud ag ambell gategori o brosiectau isadeiledd mawr;<sup>35</sup>

---

<sup>32</sup> Gweler pennod 9.12-9.14.

<sup>33</sup> Yn benodol i goed; gwelwch Bennod 15.

<sup>34</sup> Deddf Cynllunio 2008, adran 203.

<sup>35</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, para 184; gwelwch Bennod 13.114, Bennod 9.

- (2) digolledu am brynu tir yn orfodol;<sup>36</sup> a
- (3) rheoli cynllun ac adeiladu adeiladau o dan y Rheoliadau Adeiladu, mewn perthynas â gweithiau gan y Goron a gan ymgymerwyr statudol.<sup>37</sup>

1.44 Mae canlyniadau ehangach hyn wedi eu harchwilio ym **Mhennod 3**. Un canlyniad penodol yw ei bod hi'n debygol y gallai system newydd o awdurdodi prosiectau seilwaith mawr gael ei chyflwyno yn y blynyddoedd nesaf Fel y nodwyd ym **Mhennod 9**). Ac fe drosglwyddwyd cyfrifoldeb am Ardoll Seilwaith Gymunedol (CIL) i Lywodraeth Cymru yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd (gweler **Pennod 10**.)

## PROBLEMAU SY'N CODI O GANLYNIAD

### Mae'n anodd adnabod y ddeddfwriaeth berthnasol

- 1.45 O ganlynaid i'r hanes deddfwriaethol a ddisgrifir uchod, cynllunio a rheoli datblygiad a defnydd y tir yng Nghymru, yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol, yw pwnc pob un neu rai o'r 30 statud, fel y maent wedi'u rhestru yn **Nhabl 1-1** dros y dudalen. Rhyngddynt maent yn disodli'n fras Deddf Trefi Newydd 1946, a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 - ynghyd â nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol perthnasol a gyflwynwyd yn y 70 mlynedd dilynol. Mae'n amlwg bod rhai'n fwy perthnasol nag eraill i graidd y system gynllunio; ac ni fydd yn briodol eu cynnwys nhw i gyd o fewn y Cod Cynllunio newydd.<sup>38</sup>
- 1.46 Ers y tro diwethaf y cyfunwyd y maes yma o'r gyfraith, mae llawer o'r ddeddfwriaeth newydd wedi bod ar ffurf diwygiadau i bedair Ddeddf 1990.
- 1.47 Mae effaith y broses hon o ddiwygio, dirymu ac ychwanegu i'w gweld drwy gymharu maint presennol y bedair prif statud gan San Steffan yn ymwneud â chynllunio yng Nghymru a Lloegr gyda'u maint fel yr oeddent wedi'u deddfu'n wreiddiol. Pan gawsent eu deddfu, roeddent yn cynnwys rhwng 479 o adrannau a 26 o atodlenni. Ar hyn o bryd maent yn cynnwys 595 o adrannau a 35 o atodlenni.<sup>39</sup>
- 1.48 Fodd bynnag, cyflwynodd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 rywfaint o ddeunydd newydd sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yn wreiddiol, roedd Deddf 2004 yn cynnwys 67 o adrannau oedd yn sefyll ar eu pennau eu hunain a oedd yn uniongyrchol berthasol i gynllunio yng Nghymru a Lloegr; mae wedi cael ei diwygio ers hynny, ac mae'n ymestyn erbyn hyn i 91 o adrannau o'r fath. Roedd Deddf Cynllunio 2008 yn dilyn patrwm tebyg. Yn ogystal, mae'r cod statudol sy'n ymwneud â'r amgylchedd gwledig, mynediad a hawliau tramwy yng Nghymru a Lloegr - a oedd yn wreiddiol yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 -

---

<sup>36</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, para 185, Atodlen 7B, paragraffau 1-3; gwelwch baragraffau 3.114 - 3.120.

<sup>37</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, para 184; gwelwch baragraffau 3.14.3

<sup>38</sup> Roedd y Papur Cwmpasu'n rhestru (ym mharagraff 4.3) 48 o statudau yn ymwneud â chynllunio a defnyddio tir (ac felly hefyd y ffigur o oddeutu 50 ym **mhara. 1.13** uchod). Ond, yn ogystal â'r rheiny yn **Nhabl 1-1**, roedd y rhestr honno hefyd yn cynnwys rhai Deddfau sydd wedi eu diddymu i raddau mawr ond nid yn gyfan gwbl (gwelwch **Dabl B-3** yn **Atodiad B**), a rhai sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig (gwelwch **Dabl B-5** yn **Atodiad B**).

<sup>39</sup> Felly, er enghraifft, roedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, adran 3 yn disodli adran 60 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y cafodd ei drafftio'n wreiddiol) gan adrannau 60 i 60D, gan achosi cynnydd net o dair adran yn maint Deddf 2004. Gwelwch Dabl B-1.

wedi cael ei ymestyn yn raddol hefyd, ac erbyn hyn mae'r ddeddf i'w chael mewn deg statud, sydd wedi'u rhestru yn **Nhabl B-6** yn Atodiad B.

- 1.50 Yn olaf, fel y nodwyd uchod, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn rheoli'r system gynllunio wedi ei hatodi erioed gan reoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau niferus: bellach mae tua 150, yn berthnasol naill ai i Gymru a Lloegr neu i Gymru yn unig - unwaith eto, mae'r union nifer yn dibynnu ar ba bynciau a gynhwysir o fewn cwmpas "cynllunio". Roedd rhai yn arfer bod yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ond bellach i Gymru yn unig.

## Tabl 1-1

### Deddfwriaeth sylfaenol yn llywodraethu rheolaeth o ddefnydd a datblygiad tir yng Nghymru

(1) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949	Adran 89
(2) Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953	Y Ddeddf gyfan
(3) Deddf (Tir) Awdurdodau Lleol 1963	Y Ddeddf gyfan
(4) Deddf Amaethyddiaeth 1967	Rhan 3; Atodlen 5
(5) Deddf Mwynderau Dinesig 1967	Y Ddeddf gyfan
(6) Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1976	Y Ddeddf gyfan
(7) Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976	Y Ddeddf gyfan
(8) Deddf Ardaloedd Mewnol Trefi 1978	Y Ddeddf gyfan
(9) Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979	Y Ddeddf gyfan
(10) Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir	Rhannau 15,16,17,18; a 25 i 32
(11) Deddf Trefi Newydd 1981	Y Ddeddf gyfan
(12) Deddf Corfforaethau Trefi Newydd a Datblygu Trefol 1985	Atodlen 2
(13) Deddf Tai a Chynllunio 1988	Rhan 3; adrannau 40,55
(14) Deddf Tai	Rhan 3; Atodlenni 7 i 10
(15) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	Y Ddeddf gyfan
(16) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)	Y Ddeddf gyfan
(17) Deddf (Darpariaethau Canlyniadol)Gynllunio 1990	Y Ddeddf gyfan
(18) Deddf Cynllunio a Digolledu 1991	Rhan 1; Atodlenni 1 i 7
(19) Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, tai a Datblygu Trefol 1993	Adrannau 177 i 182
(20) Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994	Adrannau 18 i 20; Atodlenni 4 i 6
(21) Deddf yr Amgylchedd 1995	Adrannau 96, 97; Atodlenni 13,14
(22) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003	Rhan 8
(23) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004	Adran 38; Rhannau 4 i 6; Rhan 7, Pennod 1; Atodlenni 1 i 4, 6
(24) Deddf Atodiad Lles Cynllunio (Paratodau) 2007	Y Ddeddf gyfan
(25) Deddf Cynllunio 2008	Rhannau 9 i 12; Atodlenni 7, 8, 10
(26) Deddf Lleoliaeth 2011	Rhan 6, Pennod 2
(27) Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013	Y Ddeddf gyfan
(28) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015	Adrannau 91, 92; Atodlen 16
(29) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Adrannau 2 i 5
(30) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	Y Ddeddf gyfan
(31) Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	Y Ddeddf gyfan



## Y cymhlethdod a grëwyd

- 1.51 Mae patrwm y ddeddfwriaeth (yng Nghymru a Lloegr) wedi cyfrannu'n sylweddol at gymhlethdod y system gynllunio - fel y nodwyd gan ymarferwyr:

Mae cynllunio wedi mynd yn eithriadol gymhleth. ... Yn wahanol i systemau rheoliadol eraill, mae cynllunio'n gallu ymdrin â chynnig yn gyfannol, ac felly yn y diwedd mae'n edrych ar bob mater heblaw bod rheswm da pam na ddylai. Ond mae dau reswm arall pam fod cynllunio'n cwmpasu cymaint, ac maen nhw'n rhesymau da hefyd. Cynllunio yw'r talfyriad am ymgynghoriad cyhoeddus. Pa broblemau bynnag sy'n codi ... mae yma benderfynoldeb i gynnwys y cyhoedd yn y broses mewn ffordd nad oes mo'i thebyg mewn systemau rheoliadol eraill. Yn olaf, ac yn fwyaf pwysig, dyma'r system reoliadol ddemocrataidd. Gwneir y penderfyniadau gan naill ai'r gwleidyddion neu, os nad, yna mae'r swyddogion hynny sy'n gwneud penderfyniadau, p'un a ydynt yn swyddogion cyngor neu'n arolygwyr cynllunio, yn cael eu craffu'n agosach yn wleidyddol nag a wneir mewn unrhyw faes arall o waith rheoleiddio.

Heblaw'r rhesymau teg am gymhlethdod, mae rhai sydd â dibenion da ond dydyn nhw ddim yn rhesymau mor dda. Mae pryder am arafwch neu gamddefnyddio'r system gynllunio wedi hybu amrywiaeth o addasiadau, newidiadau bach a dewisiadau eraill. Mae rhai wedi cynhyrchu trefnau cyfreithiol aflwyddiannus, nad yw hyd yn oed y llywodraethau hynny a'u dyfeisiodd yn eu defnyddio. Esiampl o hyn yw comisiynau ymholiadau cynllunio neu ymholiadau seilwaith mawr adran 76A. Mae eraill wedi ychwanegu eithriadau, manau gwan a manylion, sy'n gwneud y cyfreithiau'n aneffeithlon ac yn eu gwneud yn gymhleth i'r cyhoedd, a hynny heb fawr fudd i'r cyhoedd, os oes budd o gwbl.<sup>40</sup>

## Strwythur aneglur

- 1.52 Yn ogystal â maint enfawr y ddeddfwriaeth, mae ei strwythur yn ddryslyd. Mae rhai o'r darpariaethau perthnasol yng nghorff y Ddeddf; mae rhai yn atodlenni'r Ddeddf. Mae rhai mewn darnau o ddeddfwriaeth eilaidd - a allai fod wedi'u galw'n orchmynion, rheoliadau neu reolau. Mae rhai mewn cyfarwyddbau Gweinidogaethol. Ac yn anffodus, mewn rhai achosion, nid oes rhesymeg arbennig ynghylch beth sy'n perthyn i lle.
- 1.53 Hyd yn oed o fewn y ddeddfwriaeth sylfaenol, mae rhai darpariaethau ym mhrif Ddeddfau 1990; mae eraill mewn diwygiadau i ddarpariaethau o'r fath; mae eraill mewn darpariaethau newydd a roddwyd i mewn i'r Ddeddfau; eto mae eraill mewn statudau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain y tu allan i ddeddfwriaeth 1990 yn gyfan gwbl. Felly, er enghraifft, mae'r ddyletswydd i wneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu - sy'n egwyddor sylfaenol o'r system - yn adran 38(6) y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, ac nid yn Neddf 1990. Yn wir, mae werth nodi hyn: o'r dyletswyddau niferus a roddir ar awdurdodau cynllunio wrth wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio, dim ond dwy sydd yn Neddf 1990 ei hun.<sup>41</sup>
- 1.54 Problem arall yw bod yw llawer o'r darpariaethau sydd bron byth yn cael eu defnyddio yn cyfrif am ddarnau mawr o brif statudau. Felly, er enghraifft, mae darpariaethau sy'n ymwneud â diddymu caniatâd cynllunio, a chyflwyno hysbysiadau malltod a hysbysiadau prynu, yn cyfrif am gyfran sylweddol o Ddeddf 1990, er nad ydynt bron byth yn cael eu defnyddio mewn

<sup>40</sup> *Caniatâd Cynllunio*, Richard Harwood OBE QC, rhifyn cyntaf, Bloomsbury Professional, 2016, tud. vii-viii.

<sup>41</sup> Gweler **pennod 5**.

gwirionedd.<sup>42</sup> Dim ond grwpiau penodol iawn o bobl, megis ymgymerwyr statudol, sy'n ymdrin â rhai darpariaethau.<sup>43</sup>

1.55 Mae darpariaethau eraill sydd heb gael eu defnyddio ers rhai blynyddoedd - ac mae rhai heb gael eu defnyddio erioed. Efallai mai'r rheswm syml am hyn yw treigl amser (yn debyg i'r darpariaethau sydd wedi goroesi am dor cyfraith rheolaeth cynllunio yn ystod y rhyfel). Ond mae'n ymddangos bod darpariaethau o'r fath wedi cael eu cyflwyno am amrywiol resymau eraill:

- (1) bob hyn a hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ceisio cyflwyno gweithdrefnau arbennig i ymdopi gyda phrosiectau seilwaith mawrion, a ystyrir yn anaddas ar gyfer y broses gynllunio brif ffrwd (ac oherwydd hynny cafwyd comisiynau ymholiad cynllunio, a'r gweithdrefnau arbennig ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ("NSIPs"));
- (2) mae wedi ceisio cyflymu'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda cheisiadau am ddatlygiad graddfa fechan neu mewn ardal lle mae adfywiad i gael ei annog - neu mae wedi ceisio eithrio datblygiad o'r fath rhag rheolaeth yn gyfan gwbl (ac felly y cododd gorchmynion datblygu lleol ac ardaloedd cynllunio syml); neu
- (3) mae wedi ceisio cyflwyno gwahanol fathau o drefnau cynllunio mewn meysydd lle mae pwysau penodol (felly ceir ymddiriedolaethau gweithredu ar dai, trefi newydd a chorfforaethau datblygu dinesig).

1.56 Weithiau mae arloesiadau deddfwriaethol o'r fath wedi cael eu defnyddio. Mae gorchmynion datblygu lleol, er enghraifft, yn gyfryngau polisi byw sy'n cael eu defnyddio a'u cynnal gan Lywodraeth Cymru;<sup>44</sup> ac mae cynlluniau cymdogaeth wedi bod yn boblogaidd yn Lloegr. Ond yn aml iawn mae'r ddedfwriaeth wedi'i diogelu cymaint gan ragofalon i atal pobl rhag eu defnyddio'n amhriodol, dydyn nhw bron byth yn cael eu defnyddio mewn bywyd pob dydd - yn debyg i'r hyn a ddigwyddodd gyda'r ardaloedd cynllunio syml.

### **Problemau arbennig yng Nghymru: pa ddedfwriaeth o San Steffan sydd yn gymwys?**

1.57 Mae llawer o'r problemau y cyfeiriwyd atynt uchod yn codi mewn perthynas â Chymru a Lloegr. Ond, maent wedi cael eu gwaethygu mewn blynyddoedd diweddar gan ddatblygiad graddol y ddedfwriaeth ar wahân ar gyfer y ddwy genedl.

1.58 Dim ond yng Nghymru y mae Deddfau'r Cynulliad yn berthnasol.<sup>45</sup> Ond mae Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn gallu bod yn gymwys yn Lloegr yn unig, neu yng Nghymru yn unig, neu yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd (rydym eisoes wedi nodi'r gwahaniaeth rhwng "cymhwyso" Deddf a'i "graddau"<sup>46</sup>). O ganlyniad i setliadau datganoli anheddau olynol, mae llawer o ddarpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio sydd wedi eu gweithredu yn

---

<sup>42</sup> Gwelwch **baragraffau 6.43-6.50, 11.50-11.58.**

<sup>43</sup> Gwelwch **baragraffau 18.7-18.33.**

<sup>44</sup> Er enghraifft, mae Cyngor Casnewydd wedi mabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol Canolfan Dinas Casnewydd yn ddiweddar, ac mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn y broses o fabwysiadu Ystâd Diwydiannol Trefforest a Gorchymyn Datblygu Lleol Parc Nantgarw.

<sup>45</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 108A, wedi ei rhoi i mewn gan Ddeddf Cymru 2017, adran 3. Yr ymadrodd a ddefnyddir yn y adran honno yw "mewn perthynas â Chymru", sy'n golygu mwy neu lai (ond nid yn un union) yr un peth.

<sup>46</sup> Gweler **tn 9** uchod.

San Steffan yn y deng mlynedd diwethaf wedi cael eu drafftio fel eu bod yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

- 1.59 Ond nid yw hyn bob amser yn amlwg o eiriad y Ddeddf. Er enghraifft, nid oes cyfeiriad at Gymru na Lloegr ar ei wyneb yn Atodlen 4B i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n darparu ar gyfer gwneud gorchmynion datblygu cymdogaeth.<sup>47</sup> Ond, mae Atodlen 4B yn cael ei chyflwyno gan adran 61E(3) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac mae adran 61E yn nodi bod yr adran, ac felly'r Atodlen drwy gysylltiad, yn berthnasol i weithrediad gan awdurdod cynllunio lleol yn Lloegr.
- 1.60 Mae'r un anawsterau'n codi mewn egwyddor mewn perthynas â deddfwriaeth eilaidd, ond mae'r sefyllfa'n fwy eglur fel arfer, oherwydd teitlau clir: megis, Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016. Ac ym maes cynllunio ychydig o esiamplau sydd o reoliadau Lloegr a Chymru'n parhau'n berthnasol yng Nghymru - er bod sefyllfoedd lle mae rheoliadau oedd yn arfer bod yn berthnasol yn y ddwy wlad wedi cael eu disodli mewn perthynas â Lloegr ond yn dal i fod yn berthnasol yng Nghymru (yn benodol y Rheoliadau Cynlluniau Cyfyngiadau Coed (Rheoli Hysbysebion) 1992 a Rheoliadau Cynlluniau Cyfyngiadau Coed (Coed) 1999, y cafodd y ddau eu haddasu gyfnod yn ôl fel nad ydynt yn berthnasol yn Lloegr.<sup>48</sup>
- 1.61 Fel y nodwyd uchod, mae'r holl deddfwriaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad Cenedlaethol i Gymru'n berthnasol mewn cysylltiad â Chymru yn unig.<sup>49</sup> Mae hynny'n gwneud y sefyllfa'n gliriach. Fodd bynnaf, mae'r cod statudol a geir o ganlyniad yn raddol ddechrau ymwahanu ar ddwy ochr y ffin. Ar y ddau achlysur pan mae'r Cynulliad wedi deddfu'n uniongyrchol mewn perthynas â chynllunio - yn Neddf Cynllunio (Cymru) a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) - mae wedi cyflwyno rhai newidiadau i'r system y darperir ar ei chyfer yn Neddfau 1990 sy'n debyg (ond ddim yr un fath o gwbl) i'r rheiny a gyflwynwyd yn Lloegr, ac eraill sy'n wahanol iawn.
- 1.62 Esiampl nodedig o'r problemau sy'n codi yw Deddf Cynllunio 2008. Roedd Adrannau 1 i 8 o'r Ddeddf honno'n cyflwyno trefn newydd o "ganiatâd datblygu" ar gyfer prosiectau mawrion mewn categorïau penodol sy'n berthnasol mewn egwyddor drwy Gymru a Lloegr i gyd, er bod rhai gwahaniaethau sylweddol o ran y manylion ar y naill ochr i'r ffin a'r llall. Cyflwynodd Adran 9 amrywiol newidiadau i fanylion y drefn gynllunio prif ffrwd, y mae'r mwyafrif ohohynt yn berthnasol yn Lloegr yn unig, ond roedd rhai'n berthnasol yn Lloegr a Chymru. O ran y categori olaf, daethpwyd â rhai o'r newidiadau i rym mewn perthynas â Chymru yn ogystal â Lloegr, ond ar wahanol ddyddiadau;<sup>50</sup> daethpwyd ag eraill i rym yn Lloegr, ond nid yng Nghymru eto (ac mewn rhai achosion mae'r hen drefniadau wedi cael eu haddasu ers hynny yng Nghymru, yn hytrach na chael eu disodli).<sup>51</sup> Diwygiodd Adran 10 gwmpas pwerau datganoledig y Cynulliad, a rhoi'r grym i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i gyflwyno i Gymru rai o'r newidiadau a wnaed yn Lloegr yn unig yn Adran 9; lluniwyd rheoliadau o'r fath mewn perthynas â rhai, ond nid pob un, o'r newidiadau hynny. Cyflwynodd Ran 11 Ardoll

---

<sup>47</sup> Rhoddwyd Adrannau 61E i 61Q o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac Atodlen 4B iddi, i mewn i Ddeddf Lleoliaeth 2011 gan Atodlen 9; dywedir bod Deddf 2011 ei hun yn ymestyn i Gymru a Lloegr (gwelwch adran 239).

<sup>48</sup> Gweler **baragraffau 14.8, 15.2**.

<sup>49</sup> Gweler nawr Ddeddf Cymru 2017, adran 3.

<sup>50</sup> Gwelwch er enghraifft Ddeddf Cynllunio 2008, adran 188; OSau 2009 Rhif 1303, 2012 Rhif 802 (gorchmynion datblygu lleol).

<sup>51</sup> Gwelwch er enghraifft Ddeddf Cynllunio 2008, adrannau 192, 193; SIs 20012 Rhif 605, 792 (gorchmynion diogelu coed).

Seilwaith Cymunedol (CIL) sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr; ond yng Nghymru dim ond tri awdurdod cynllunio lleol sydd wedi cyflwyno CIL, gyda phump arall yn dilyn maes o law.

- 1.63 Mae hi bron yn anochel bod y gwahaniaethu rhwng y gyfraith sy'n berthnasol yn Lloegr a Chymru'n mynd i gynyddu ymhellach yn y dyfodol. Unwaith y bydd gan y Cynulliad ei gymhwysedd deddfwriaethol llawn mewn perthynas â chynllunio (heblaw ar gyfer rhai mathau penodol o ddatblygiad, caniatâd datblygu, a digolledu am bryniant gorfodol), mae disgwyl iddo ddefnyddio'r cymhwysedd hwnnw i ddatblygu cod cyfreithiol yn raddol a fydd yn ymateb amlwg i'r problemau penodol gyda defnydd tir sy'n codi yng Nghymru. A bydd Senedd y Deyrnas Unedig yn cyflwyno darpariaethau newydd i'r un graddau sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig. Os gwneir hyn, yn y naill achos neu'r llall, dim ond drwy addasu Deddfau 1990, y canlyniad fydd system a fydd yn gynyddol anfoddhaol ac yr un mor annealladwy yn y ddwy wlad. Os, ar y llaw arall, mae hyn yn cael ei gyflawni drwy basio darnau pellach o ddeddfwriaeth ar wahân sydd, yn ei hanfod, yn osgoi Deddfau 1990 yn syml iawn, bydd y sefyllfa hyd yn oed yn waeth.
- 1.64 Problem gysylltiedig yw bod llyfr statud San Steffan yn mynd yn gynyddol flêr, gydag adrannau o statudau'n cynnwys drysfa o is-adrannau sy'n berthnasol yn Lloegr ac is-adrannau sy'n berthnasol yng Nghymru. Weithiau mae is-adrannau - yn wir adrannau cyfan - sydd â'r un rhifau ond sydd wedi eu geirio'n wahanol yn y ffordd y cânt eu defnyddio yn Lloegr a'r ffordd y cânt eu defnyddio yng Nghymru.
- 1.65 Esiampl dda o ddrysfa o is-adrannau sy'n berthnasol i Loegr a rhai sy'n berthnasol i Gymru, yw'r rheiny a geir yn adran agoriadol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae **Tabl 1-2** yn gwahanu'r rhannau hynny o'r adran sydd yn berthnasol i Loegr sy'n berthnasol yng Nghymru.<sup>52</sup>

---

<sup>52</sup> Byddir wedi nodi bod y casgliad o ddarpariaethau sydd yn gymwys yng Nghymru yn hepgor isadran (5)(C). Fel gyda'r cyfan o adran 1, mae hyn rhan o'r gyfraith yng Nghymru yn osytal ac yn Lloegr, ond nid yw'n gymwys yng Nghymru am ei fod yn cyfeirio ar isadran (3), sydd ynddo ei hun ddim yn gymwys yng Nghymru.

## Tabl 1-2.

### Adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (awdurdodau cynllunio lleol) fel y mae'n berthnasol yn Lloegr ac fel y mae'n berthnasol yng Nghymru

#### Lloegr

1 (1) Mewn sir nad yw'n fetropolitan —

(a) cyngor y sir yw'r awdurdod cynllunio sirol ar gyfer y sir honno, a

(b) chyngor y rhanbarth yw'r awdurdod cynllunio dosbarth ar gyfer y rhanbarth hwnnw,

a bydd cyfeiriadau yn y Deddfau cynllunio at awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â sir nad yw'n fetropolitan yn cael eu dehongli, os nad oes gofyniad eglur i'r gwrthwyneb, fel cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio sir a'r awdurdodau cynllunio dosbarth.

(2) Y cyngor mewn ardal fetropolitan yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y rhanbarth a chyngor ar un o fwrdeistrefi Llundain yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y fwrdeistref honno. Ond, o ran bwrdeistref Llundain, gwelwch hefyd adrannau 2A i 2E (Maer Llundain).

(3) Yn Lloegr (heb gynnwys y siroedd metropolitan, Llundain Fwyaf ac Ynysoedd Sili) bydd modd i'r holl swyddogaethau a roddir i awdurdodau cynllunio lleol gan y Deddfau cynllunio neu o dan y Deddfau cynllunio gael eu gwneud gan awdurdodau cynllunio'r sir ac awdurdodau cynllunio dosbarth.

(4) Yn y Ddeddf yma mae "awdurdod cynllunio mwynau" yn golygu —

(a) mewn perthynas â safle mewn sir nad yw'n fetropolitan, awdurdod cynllunio'r sir; ac

(b) mewn perthynas â safle mewn rhanbarth metropolitan neu ym mwrdeistref Llundain, yr awdurdod cynllunio lleol.

(5) Mae'r adran yma'n weithredol yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth glir i'r gwrthwyneb yn y Deddfau cynllunio ac, yn arbennig—

(a) mae'r adran yma'n weithredol yn amodol ar [adrannau 4A, 5, 6, 7, 7A, 8 a 8A] y Ddeddf yma; ac

(b) mae is-adrannau (1) a (2) yn weithredol yn amodol ar adrannau 2 a 9; ac

(c) mae is-adran (3) yn weithredol yn amodol ar Atodlen 1 (sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch arfer swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf yma gan awdurdodau penodol a'r cyswllt rhyngddynt).

#### Cymru

1 (1B) Yng Nghymru—

(a) yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y sir yw'r cyngor sir; ac

(b) yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer bwrdeistref sirol yw'r cyngor bwrdeistref sirol.

(4B) Yn debyg i bob safle yng Nghymru, yr awdurdod cynllunio lleol yw'r awdurdod cynllunio mwynau hefyd.

(5) Mae'r adran hon yn weithredol yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth glir i'r gwrthwyneb yn y Deddfau cynllunio ac, yn arbennig—

(a) mae'r adran hon yn weithredol yn amodol ar [adrannau 4A, 6 7 ac 8] y Ddeddf hon; a

(b) mae is-adran (1B) yn weithredol yn amodol ar adrannau 2 a 9.

(6) Mae'r arfer, mewn perthynas â Chymru, o roi swyddogaethau i awdurdodau cynllunio lleol yn amodol ar Atodlen 1A.

- 1.66 Bydd darllenwr yr adran sydd â diddordeb mewn canfod pa rai yw'r awdurdodau cynllunio yng Nghymru'n gorfod darllen holl ddarpariaethau adran 1, cyn canfod bod mwy na'u hanner nhw'n amherthnasol.
- 1.67 Yn achlysurol, mae cymhlethdodau o'r fath hyd yn oed yn camarwain y Senedd ei hun. Er enghraifft, mae adran 196D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - sy'n berthnasol i adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth yn Lloegr yn unig - yn cyfeirio at adeilad fel yma sy'n atebol i gyfarwydddeb o dan adran 75(2) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Ond mae adran 75(2) yn berthnasol dim ond i adeiladau sy'n atebol i adran 74, sydd ei hun yn berthnasol dim ond i ardaloedd cadwraeth yng Nghymru.
- 1.68 Ac nid yw'n bosibl ychwaith datrys ansicrwydd o'r fath trwy droi at wefan Legislation.gov.uk a gedwir gan yr Archif Genedlaethol.O ganlyniad i'r cymhlethdodau a nodwyd uchod, nid yw'n hawdd canfod pa ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol yn Lloegr a pha ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol yng Nghymru. Byddai cynnal ymarfer o'r fath mewn modd fyddai'n arwain at ganlyniad hollol ddibynadwy yn galw am ymrwymiad sylweddol ar adnoddau'r Llywodraeth, ac nid yw hynny'n debygol yn y dyfodol rhagweladwy. Byddai'r un peth yn wir am weithrediadau masnachol megis Westlaw; ni fyddai ganddynt y tanysgrifwyr i'r gwneud yn werth chweil i wneud y newidiadau hanfodol i ddangos perthnasedd.<sup>53</sup>

### Yr iaith Gymraeg

- 1.69 Mae deddfwriaeth a gynhyrchir gan Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan bob amser yn Saesneg yn unig.<sup>54</sup> I'r gwrthwyneb, mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi'i chynhyrchu o'r cychwyn yn y Saesneg a'r Gymraeg, ond nid cyn belled ag y bo'n diwygio statud San Steffan. Y canlyniad yw bod cyfran sylweddol o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chynllunio yng Nghymru ar gael yn y Saesneg yn unig.

### Yr anawsterau i ddefnyddwyr o ganlyniad i hynny

- 1.70 Nid yw'n syndod o gwbl fod pobl broffesiynol yn ei chael hi'n anodd gwybod yn sicr beth yw'r gyfraith sydd mewn grym yng Nghymru; ac nid oes gobaith gan aelodau'r cyhoedd. Mae'r system yn ddrislyd yn barod i'r defnyddwyr - llysoedd, cyfreithwyr, cynllunwyr a'r archwilwyr sy'n gweinyddu'r system, pobl broffesiynol eraill (ymgyngorwyr cynllunio, tîrfesurwyr, penseiri ac ati), perchnogion tir, deiliaid cartrefi, datblygwyr grwpiau amwynder, trydydd parti, ac aelodau'r Cynulliad a'r Senedd wrth newid y gyfraith.
- 1.71 Cafodd y problemau eu nodi yn y dadleuon diweddar yn Nhŷ'r Arglwyddi am Fil Cymru. Dywedodd y Farwnes Morgan o Drelái:

Mae'n rhaid i ddeddfau Cymru a Lloegr - sy'n enfawr yn barod - amsugno'r gwahaniaethu cynyddol erbyn hyn rhwng y deddfau sy'n berthnasol i Gymru yn unig a'r rheiny sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Mae hyn yn hynod o gymhleth, felly sut allwn ni fod yn siŵr y bydd y dinasyddion yn deall y gyfraith neu hyd yn oed y bydd cyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr yn defnyddio'r gyfraith gywir? Nid pwnc dadlau yw hyn: mae'r rhain yn risgiau ymaferol go iawn ac maen nhw'n cynyddu.<sup>55</sup>

<sup>53</sup> *Adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Com y Gyf Rhif 366), Mehefin 2016, paragraffau 13.63 i 13.65, Cymhelliad 27.

<sup>54</sup> Heblaw efallai lle mae'n diwygio Deddf gan y Cynulliad.

<sup>55</sup> Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi, 31 Hydref 2016, Cyf 776, col 466.

## 1.72 Ychwanegodd yr Arglwydd Morris o Aberafan:

Y mater difrifol yw atgyfnerthiad y ddeddfwriaeth sydd wedi'i phasio'n barod gan Gynulliad Cymru. Dros y blynyddoedd y mae'r Cynulliad wedi bodoli, pasiwyd Deddf ar ôl Deddf, yn arbennig yn ystod y cyfnod mwyaf diweddar. Mae'n rhaid i unrhyw ymarferydd, p'un a ydyw yng Nghymru neu yn Lloegr, sy'n gorfod cynghori cleient yng Nghymru ar fater sy'n codi yng Nghymru yn ymwneud ag eiddo, cyflogaeth ac yn y blaen, ddefnyddio pob math o ddeunydd gwybodaeth i roi cyngor go iawn a chyfrifol, neu bydd yn cael ei gyhuddo o fod yn esgeulus. Gobeithio y bydd Cynulliad Cymru'n defnyddio ei bwerau a'i adnoddau cyn iddi fynd yn rhy hwyr, i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol ac felly ei gwneud hi'n haws i ymarferwyr ac ymglyfreithwyr arferol.<sup>56</sup>

1.73 Yn fwy diweddar, rydym wedi derbyn ymholiad gan bensaer yng Ngogledd Cymru, oedd wedi bod yn ceisio'n aflwyddiannus i ganfod gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin a gwefan Llywodraeth Cymru pa adrannau o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 sy'n berthnasol yng Nghymru. Nid yw'n syndod ei bod wedi derbyn cyngor oedd yn drysu rhwng y syniad o "gymwys" ac "ymestyn";<sup>57</sup> neu efallai ei bod wedi derbyn cyngor cywir, ond ei bod wedi ei gamddeall; y naill ffordd neu'r llall, doedd hi ddim gwell.<sup>58</sup> Wedi hynny dywedodd:

Yr hyn yr wyf fi wedi'i gredu erioed yw bod deddf sydd wedi'i hysgrifennu mewn ffordd sy'n rhy gymhleth i oedolyn ifanc newydd adael yr ysgol ei deall, yn anaddas i'w phwrpas, ac mae hi hefyd braidd yn annemocrataidd. Dydw i ddim yn golygu y dylai'r ddeddf gael ei llunio gan ymadawyr ysgol, ond y dylent allu ei deall hi, gyda chymorth rhestr termau sy'n rhoi diffiniadau.

Gallwn ddychmygu bod pobl eraill wedi cael profiadau rhwystredig tebyg.

1.74 Rhoddodd awdur un gwerslyfr grynoded o'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn:

Ers 2010, mae gweinidogion yn Lloegr wedi cael llwyddiant mawr yn gostwng maint y polisi cynllunio trwy gyhoeddi'r Fframwaith Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol a'r Canllawiau i Arferion Cynllunio Cenedlaethol.<sup>59</sup> Cafwyd rhaglen o ddiwygio deddfwriaeth eilaidd hefyd, y mae llawer ohono'n ddigon iselgywair, sydd wedi gweithredu fel brêc, os nad gêr bacio eto, ar y cerbyd deddfwriaethol. Mae mwy o waith i'w wneud o ran diwygio deddfwriaethol sylfaenol. Trwy

---

<sup>56</sup> Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi, 31 Hydref 2016, Cyf 776, col 473. Ysgrifennydd Gwladol i Gymru oedd Lord Morris, o 1974 i 1979, Twrnai Cyffredinol yr Wrthblaid Swyddogol o 1983 i 1997 a'r Twrnai Cyffredinol o 1997 i 1999.

<sup>57</sup> Gweler **tn 43** uchod.

<sup>58</sup> Yn y mwyafrif o achosion, mae enw pob Rhan o'r Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 yn nodi'n glir "yn Lloegr". Yr eithriadau yw

- Yn Rhan 5 (tai ac ati: newidiadau eraill), adrannau 122, 123, 131 – 138;
- Rhan 7 (prynu gorfodol), sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr (am nad yw pryniant gorfodol yn fater datganoledig eto); a
- Rhan 8 (tir awdurdod cyhoeddus).

Ond o edrych arno'n agosach, mae adran 131, 133, 134, 135 a 138 yn berthnasol yn Lloegr yn unig; ac mae'n debyg bod adrannau 136 a 137 a rhan 8 ond yn effeithiol yn Lloegr (nid yw Rhan 8 yn berthnasol i awdurdodau sydd ond yn gweithredu yng Nghymru). Mae hynny'n gadael dim ond adran 132 fel un sy'n berthnasol yng Nghymru mae'n debyg, er nad yw'n hollol glir pam.

<sup>59</sup> 20 mlynedd wedyn cafwyd yr un canlyniad yng Nghymru; gwelwch **baragraff 1.23** uchod.

ddrysfa'r darpariaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach a'r darnau o gymorth nad ydynt yn ddefnyddiol, mae proses gweddol syml yn bodoli o hyd. Mae'n bryd ei harddangos.<sup>60</sup>

- 1.75 Rydym yn cytuno bod y system gynllunio, mewn egwyddor, yn syml. Ond rydym hefyd yn teimlo, ac mae'r rheiny sydd wedi ymateb i'n hymgyngoriad wedi cytuno'n unfrydol, ei bod yn ymddangos yn eithriadol gymhleth.<sup>61</sup> Mae'r Penodau dilynol yn ystyried sut y gellir gwneud y system yn syml unwaith eto - o leiaf yng Nghymru.

## CYNNAL Y COD YN Y DYFODOL

- 1.76 Mae llawer o'r problemau a amlinellwyd uchod wedi codi o ganlyniad i'r broses barhaol o ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Felly cafwyd mwy na dwsin o Ddeddfau yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ers iddi ddod i rym yn gyntaf. Mae'r rhain yn codi o ganlyniad i amrywiaeth eang o bwysau gwleidyddol, ac i fodloni amrywiaeth o nodau polisi.
- 1.77 Mae'n amlwg na fedrwn atal y broses hon rhag parhau. Fodd bynnag, un o'r egwyddorion wrth wraidd y cynnig codeiddio, fel y'i rhagwelir yn Adroddiad Trefynol y Comisiwn ar brosiect Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith yng Nghymru, oedd y ceid disgyblaeth Cod arbennig. Byddai hyn yn sicrhau bod Cod, unwaith y mae'n ei le, yn cynnwys yr holl gyfraith statud ar bwnc penodol fel y mae'n gymwys i Gymru. ac y byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu hymgorffori yn y Cod, yn hytrach na chael eu gadael fel darpariaethau statudol ar wahân.<sup>62</sup>

## DEDDF GYNLLUNIO MEWN RHANNAU ERAILL O YNYSOEDD PRYDAIN

- 1.78 Yn olaf, dylem nodi, wrth ffurfio ein cynigion yn y Papur Ymgynghori hwn, rydym wedi edrych hefyd ar y ddeddfwriaeth sy'n rheoli datblygiad mewn rhannau eraill o Ynysoedd Prydain.

### Yr Alban

- 1.79 Roedd Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref (Yr Alban) 1947, 1972 a 1997 wedi eu geirio'n debyg iawn i Ddeddfau Cynllunio Gwlad a Thref 1947, 1971 a 1990 oedd yn weithredol yng Nghymru a Lloegr - er bod yr Alban yn awdurdodaeth wahanol i Gymru a Lloegr. Roedd Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Yr Alban) 1997 yn debyg iawn i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Ac roedd y diwygiadau i'r Deddfau hynny'n debyg iawn yn gyffredinol ar ochr ogleddol ac ochr ddeheuol y ffin.
- 1.80 Y prif newid oedd bod Deddf yr Alban 1972 wedi'i ddiwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1973 i ystyried cyflwyniad system un haen o lywodraeth leol - yn cynnwys newid enw'r "awdurdodau cynllunio lleol" i'r term syml "awdurdodau cynllunio".<sup>63</sup> Ac roedd Deddf Yr Alban 1997 wedi medru cynnwys diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 oedd wedi gorfod aros tan ar ôl cyfuniad 1990 yng Nghymru a Lloegr.
- 1.81 Fel arall, roedd patrwm y ddeddfwriaeth gynllunio yn yr Alban hyd troad y ganrif yn weddol debyg i'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

---

<sup>60</sup> *Caniatâd Cynllunio*, Richard Harwood OBE QC, First edn, 2016, p viii

<sup>61</sup> Gweler **pennod 2**.

<sup>62</sup> *Adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Com y Gyf Rhif 366), Mehefin 2016, paragraffau 4.26 i 4.45, Cymhellion 9 a 10.

<sup>63</sup> Deddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1973, a 172(2).



- 1.82 Ond cafwyd llawer mwy o newid yn ddiweddar, yn arbennig yn dilyn creu Senedd yr Alban a datganoli pwerau gwneud deddfau iddi mewn perthynas â chynllunio.<sup>64</sup> Mae deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol wedi ei addasu'n fawr hefyd yn ddiweddar.<sup>65</sup> Mae'r newidiadau a wnaed yn debyg ond nid yn union yr un fath â rhai o'r rheiny a gafodd eu deddfu yn San Steffan, ac nid yw hynny'n syndod. Rydym wedi ystyried y rhain a, lle bo'n briodol, yn cynnig newidiadau tebyg yng Nghymru.<sup>66</sup>
- 1.83 Rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol bod rhai darnau o ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys drwy Brydain gyfan, yn benodol Deddf Goedwigaeth 1967 a Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Ond nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion mewn perthynas â'r rheiny.

### Gogledd Iwerddon

- 1.84 Mae Gogledd Iwerddon wedi bod â system ar wahân o reolaeth gynllunio erioed. Mae hyn yr un fath, yn fras, ag ydyw ym Mhrydain, heblaw bod un awdurdod cynllunio yno hyd yn ddiweddar - Adran yr Amgylchedd - yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol. Cafodd y ddeddfwriaeth yno ei chyfuno yng Ngorchymyn Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 1991; yn wahanol i'r ymarferion cyfatebol yng Nghymru a Lloegr yn 1990 ac yn yr Alban yn 1997, roedd y cyfuno hwnnw'n cadw un darn sylweddol o ddeddfwriaeth, yn hytrach na'i rhannu'n bedair rhan.
- 1.85 Yn fwy diweddar, mae'r system gynllunio yng Ngogledd Iwerddon wedi cael ad-drefniant mawr - i ddod â newid o system unedol o reolaeth gynllunio i system ddwy haen, ac ar yr un pryd i ymgorffori rhai diwygiadau sylweddol, yn cynnwys rhai (ond nid pob un) o'r newidiadau oedd wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar yn Lloegr. Felly, yn rhannol, roedd Deddf Gynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011 yn gyfuniad traddodiadol o'r ddeddfwriaeth oedd wedi bodoli'n flaenorol, ond roedd hefyd yn cynnwys nifer o newidiadau. Ar y llaw arall, nid oedd yn cynnwys newidiadau o'r math yr ydym ni'n ei gynnig - naill ai hepgor rhai o'r darpariaethau diangen, neu gynnwys newidiadau technegol bychain eraill neu gyfraith achos.
- 1.86 Ni ddaeth Deddf 2011 yn weithredol tan 2015, rhyw bedair blynedd wedi iddi gael cydnabyddiaeth Frenhinol, ac yn y cyfamser roedd y mwyafrif o'r offerynnau statudol perthnasol wedi cael eu hailysgrifennu. Gellir cyfeirio'n hawdd erbyn hyn at y Ddeddf newydd, a'r holl reoliadau perthnasol, drwy gyfrwng un gwefan.<sup>67</sup>
- 1.87 Rydym wedi ymweld â Gogledd Iwerddon, ac wedi cwrdd â'r tîm a gynhyrchodd Deddf 2011 a'r ddeddfwriaeth eilaidd ddilynol, i weld pa wersi y gellir eu dysgu o brofiad y rheiny oedd yn cymryd rhan yn yr ymarfer atgyfnerthu hwnnw.

### Gweriniaeth Iwerddon

- 1.88 Mae'r system gynllunio yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi'i rheoleiddio gan Ddeddf Gynllunio a Datblygu 2000, a oedd yn ganlyniad i ymarfer atgyfnerthu mawr.

---

<sup>64</sup> Gweler Ddeddf Cynllunio ac ati (Yr Alban) 2006 yn enwedig.

<sup>65</sup> Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Diwygio) (Yr Alban) 2011, a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Yr Alban) 2014.

<sup>66</sup> Gweler, er enghraifft dilead yr eithriad perthnasol i gwmpo coed er budd diogelwch y cyhoedd (gweler para 15.56).

<sup>67</sup> [http://www.planningni.gov.uk/index/policy\\_legislation.htm](http://www.planningni.gov.uk/index/policy_legislation.htm)

- 1.89 Mae'r system honno'n weddol debyg i'r system sydd ar waith yn y Deyrnas Unedig; ond rydym wedi cymryd i ystyriaeth amrywiol nodweddion o'r ddeddfwriaeth sy'n wahanol, yn rhannol:
- (1) y darpariaethau sy'n ymwneud ag An Bord Pleanála, y corff Gwyddelig sy'n gyfatebol â'r Arolygiaeth Gynllunio,<sup>68</sup> a
  - (2) rheiny sy'n ymwneud â thriniaeth hysbysebu awyr agored, sydd wedi'i reoleiddio yn y Weriniaeth fel datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio.<sup>69</sup>
- 1.90 Nododd adroddiad 2016 ar weithrediad An Bord Pleanála bod deddfwriaeth gynllunio yn y Weriniaeth yn mynd i gael adnewyddiad mawr.<sup>70</sup>

---

<sup>68</sup> Gweler **baragraff 5.124-5.130**.

<sup>69</sup> Gweler **baragraff 14.50-14.56**.

<sup>70</sup> *Adolygiad Sefydliadol o An Bord Pleanála*, Grŵp Adolygu Annibynnol, Mawrth 2016, paragraffau 2.9, 2.10.

## Pennod 2: Gweithio tuag at god cynllunio

### CYFLWYNIAD

- 2.1 Y cylch gorchwyl cychwynnol oedd adolygu'r gyfraith yn ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref yng Nghymru, a gwneud argymhellion ynglŷn â symleiddio a moderneiddo'r gyfraith.<sup>1</sup> I ddechrau gwnaethom archwiliad critigol o'r ffordd y mae'r broses rheoli datblygu'n gweithredu, a buom yn siarad gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol.
- 2.2 Ni welsom fod angen rhagor o ddiwygio sylfaenol wedi ei yrru gan bolisi. Gwnaethpwyd yr ymarfer hwnnw i raddau mawr gan Lywodraeth Cymru, a'r canlyniad oedd pasio darnau niferus o ddeddfwriaeth arwyddocaol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
- 2.3 Fodd bynnag, mynegwyd pryder eang am gymhlethodd y gyfraith yn y maes yma, a'r ffaith nad yw'n hygyrch.
- 2.4 Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, felly, cafodd y prosiect ei ailffurfio i gynnwys cyfuno a symleiddio'r ddeddfwriaeth gynllunio i Gymru, yn cynnwys:
- (1) ailddatgan y ddeddf bresennol mewn un cod, fel ei bod yn hawdd cael gafael arni;
  - (2) gwneud addasiadau er mwyn creu testun cyfunedig boddhaol;
  - (3) symleiddio'r gyfraith drwy ddileu a rhesymoli gweithdrefnau a phrosesau dianghenraid; ac
  - (4) ysgrifennu cynigion i mewn i'r statud sy'n deillio o gyfraith achos.

### Papur Cwmpasu 2016

- 2.5 Yng nghyd-destun ein trafodaethau, aethom ati ym mis Gorffennaf 2016 i gyhoeddi Papur Cwmpasu, sy'n nodi ein sylwadau dros dro ynghylch natur a chwmpas ymarfer codeiddio a symleiddio posibl, a rhoi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau amdanynt. Y rheswm am hyn oedd i'n galluogi i benderfynu y byddai'r prosiect yn bosibl, ac yn debygol o gynhyrchu cynnyrch sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.
- 2.6 Rhoddwyd y Papur Cwmpasu ar-lein, ac anfonwyd copi ohono neu rhoddwyd gwybod amdano i ystod eang o randdeiliaid allweddol - yn cynnwys awdurdodau cynllunio a chyrrff cyhoeddus eraill, sefydliadau proffesiynol, grwpiau treftadaeth a grwpiau trydydd sector eraill, ac ymarferwyr unigol.
- 2.7 Ers cyhoeddi'r Papur Cwmpasu, rydym wedi parhau i ymgynghori gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â detholiad o randdeiliaid, yn cynnwys Cymdeithas

---

<sup>1</sup> *Y Deuddegfed Rhaglen o Ddiwygio* (2014), Com y Gyf 354.

Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), yr Arolygiaeth Gynllunio, Cadw, Cymdeithas y Gyfraith, Cymdeithas Gynllunio ac Amgylcheddol y BAR (PEBA) a Chyfoeth Naturiol Cymru - yn gyffredinol ac hefyd mewn ymateb i bwyntiau penodol. Ac rydym wedi rhoi cyflwyniadau mewn amrywiol gynadleddau a seminarau.

### Ymatebion i'r Papur Cwmpasu

2.8 Ymatebodd mwy na 60 o sefydliadau ac unigolion i'r Papur Cwmpasu hwnnw, neu daethent i gwrdd â ni i drafod ei gynnwys. Maent wedi eu rhestru yn **Atodiad A** i'r Papur Ymgynghori yma, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- (1) yr Arolygiaeth Gynllunio;
- (2) tair cangen Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ("POSW") ac wyth awdurdod cynllunio unigol;
- (3) saith cyngor cymunedol;
- (4) ystod o gyrff cyhoeddus;
- (5) yr holl sefydliadau proffesiynol perthasol;
- (6) cynrychiolwyr perchnogion tir, yn cynnwys Cymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad ("CLA")
- (7) gyrff treftadaeth a grwpiau trydydd sector;
- (8) detholiad o ymarferwyr unigol blaenllaw.

2.9 Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion ar gael ar wahân ac mae pwyntiau allweddol wedi eu nodi mewn manau priodol drwy'r Papur cyfan yma.<sup>2</sup>Yn y Bennod hon rydym yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r prosiect cyfan.

### Problemau a achoswyd gan y system bresennol

2.10 Yn y Papur Cwmpasu, roeddem yn gofyn i randdeiliaid roi unrhyw ffigurau oedd ar gael ganddynt, amcangyfrifon neu brofiadau o gostau a grëwyd gan ddeddfwriaeth gynllunio gor-gymhleth neu ddeddfwriaeth gynllunio sy'n ddiffygiol mewn unrhyw ffordd arall.<sup>3</sup>

2.11 Ymatebodd un ar bymtheg o ymatebwyr i'r cwestiwn yma. Roeddent yn rhoi eu sylwadau am y prif gostau â gwerth ariannol a chostau heb werth ariannol yn codi o ddeddfwriaeth gynllunio ddiffygiol; oedi yng ngwaith a phenderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol; y costau sy'n gysylltiedig â'r angen am geisio cyngor cyfreithiol; y gwallau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn eu gwneud; a'r anghysonderau rhwng arferion gwahanol awdurdodau cynllunio lleol.

---

<sup>2</sup> Cynllunio yng Nghymru: Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad am y Papur Cwmpasu, ar gael ar-lein ar <https://www.lawcom.gov.uk/project/planning-law-in-wales>.

<sup>3</sup> Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu, Cwestiwn 1-1.

## Oedi yng ngwaith awdurdodau cynllunio lleol.

- 2.12 Dywedodd deg ymatebwr, yn cynnwys chwech awdurdod cynllunio lleol, wrthym fod y fframwaith deddfwriaethol gor-gymhleth yn achosi oedi am fod awdurdodau cynllunio lleol yn gorfod treulio amser yn ceisio canfod y fframwaith deddfwriaethol cywir.
- 2.13 Eglurodd un cyngor sut mae treillio drwy'r fframwaith deddfwriaethol yn 'peri gwastraff amser sylweddol i swyddogion'. A rhoddodd un arall sylw am yr oedi yma, gan nodi bod 'croes-gyfeirio rhwng dogfennau sydd heb gael eu cyfuno'n broses araf, ac yn achosi ansicrwydd a allai olygu bod angen ymgynghori gyda chydweithwyr cyfreithiol'. Gwnaethpwyd sylwadau tebyg gan awdurdodau eraill, a gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De Orllewin Cymru).

## Yr angen am geisio cyngor cyfreithiol

- 2.14 Rhoddodd pum ymatebwr sylw am yr angen i dalu am gyngor cyfreithiol. Yn ddefnyddiol iawn, rhoddodd amrywiol awdurdodau cynllunio fanylion am faint o arian yr oeddent wedi'i wario ar gyngor cyfreithiol oherwydd problemau cynllunio deddfwriaethol; dywedodd un wrthym nad yw cyngor cyfreithiol yn cael ei gostio ar wahân, am ei fod yn cael ei ddarparu o fewn y cwmni, ond ei fod yn 'debygol o fod yn sylweddol dros y flwyddyn ariannol'. A darparwyd esiamplau o'r manau lle'r oedd deddfwriaeth gymhleth wedi golygu bod yn rhaid talu am gyngor cyfreithiol. Nododd RWE Generation hefyd bod prosesau cynllunio diffygiol neu or-gymhleth yn gallu arwain at gostau proffesiynol ychwanegol cael arbenigwyr cyfreithiol a thechnegol. Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylwadau am y goblygiadau ariannol fel a ganlyn:

O'n profiad ni, mae'r ffaith nad oes diffiniadau i egluro termau penodol o fewn y gyfres gyfredol o deddfwriaeth yn gallu arwain at wahanol ddehongliadau o'r termau hynny gan wahanol weithredwyr o fewn y system gynllunio. Gallai hyn arwain at geisio cyngor cyfreithiol i egluro termau. Gellid osgoi'r gwaith yma, yr amser a dreulir arno, a'r costau sy'n gysylltiedig ag o, os bydd termau amwys wedi eu diffinio yn y deddfwriaeth briodol.

## Gwallau awdurdodau cynllunio lleol

- 2.15 Rhoddodd pedwar ymatebwr sylwadau am y gwallau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd gan awdurdodau cynllunio lleol oherwydd y fframwaith cyfreithiol cymhleth. Dywedodd un cyngor bod y gwahaniaethau rhwng fersiynau Saesneg a Chymraeg yr un deddfwriaeth yn gallu achosi gwallau sy'n gallu arwain at adolygiad barnwriaethol, sy'n gostus ac yn cymryd llawer o amser. Rhoddodd esiampl o benderfyniad a wnaed ar gam ar sail y gyfraith a'r canllawiau sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig, gan arwain at herio llwyddiannus yn y llys a arweiniodd at orfod gwneud y penderfyniad eto.<sup>4</sup>
- 2.16 Roedd Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn yn meddwl y byddai egluro'r gyfraith mewn unrhyw ffordd yn debygol o ostwng y nifer o benderfyniadau yr apelwyd yn eu herbyn, gan olygu bod costau staff yn gostwng. Gwnaed sylwadau tebyg gan

---

<sup>4</sup> Roedd y Cyngor wedi dibynnu ar Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 70A (y pŵer i wrthod cais cynllunio dilynol ar gyfer datblygiad tebyg), ond roedd wedi defnyddio'r fersiwn o adran 70A a gafodd ei roi i mewn gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adran 43, oedd wedi dod i rym yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Yn dilyn barn y cyngor, cafodd y mater ei setlo heb fynd i'r llys.

### Anghysonderau rhwng gwahanol awdurdodau cynllunio

- 2.17 Dywedodd tri ymatebwr wrthym fod anghysonderau'n gallu codi ymysg awdurdodau cynllunio lleol a hynny, o leiaf yn rhannol, oherwydd y fframwaith cynllunio gor-gymhleth. Dywedodd y Gymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad wrthym bod eu gwaith ymchwil yn awgrymu bod y trefniadau codi tâl yn wahanol mewn gwahanol awdurdodau cynllunio lleol.
- 2.18 Rhoddodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ei sylwadau am wallau yng Ngwyddoniadur y Gyfraith ac Arferion Cynllunio, gan awgrymu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ei chael hi'n anodd dal i fyny gyda'r sefyllfa newidiol o ran cyfraith a chanllawiau cynllunio yng Nghymru.<sup>5</sup>

### Manteision cyfuno a symleiddio

- 2.19 Yn y Papur Cwmpasu, roeddem yn gofyn i randdeiliad roi esiamplau i ni o fanteision cyfuno a symleiddio'r ddeddfwriaeth gynllunio.<sup>6</sup>
- 2.20 Ymatebodd wyth ar hugain ohonynt i'r cwestiwn yma Rhoddodd yr ymatebwyr sylwadau am y prif fanteision a ganlyn y gellid eu cael o symleiddio a chyfuno: eglurder, defnydd gwell o adnoddau a gwell dealltwriaeth o'r system gynllunio yng Nghymru a gwell hygyrchedd ato.

### Eglurder

- 2.21 Dywedodd naw ymatebwr wrthym y byddai cyfuno a symleiddio deddfwriaeth gynllunio'n arwain at well eglurder. Roedd Cyngor Bwrdeistref Castell-Nedd Port Talbot a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De Orllewin Cymru) yn meddwl y byddai system symlach sydd wedi'i chodeiddio'n ei gwneud hi'n llawer haws hyfforddi swyddogion cynllunio yn y dyfodol. Roedd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De Ddwyrain Cymru) yn credu y byddai'r broses yn arwain at wneud penderfyniadau gwell oherwydd byddai'r ddeddfwriaeth yn fwy eglur. Byddai hyn yn achosi 'llai o le i ddadlau am ystyr deddfwriaeth'. Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

Byddai codeiddio'r gyfraith yn sefydlu ac yn mynegi'r ddeddf yn union fel y mae'n berthnasol i Gymru, a byddai hynny o fudd mawr. Byddai'n darparu eglurder i'r rheiny nad ydynt yn ymdrin â materion cyfreithiol o ddydd i ddydd ond sydd angen esboniad am y gyfraith fel y mae'n berthnasol iddyn nhw. Byddai o fudd i ddatblygwyr sy'n cynnig gweithredu yng Nghymru, yn enwedig y rheiny sy'n gweithredu ar ddwy ochr y ffin, am ein bod yn ymdrin yn aml gyda datblygwyr sy'n cymryd yn ganiataol bod y gyfraith yng Nghymru yr un fath ag ydyw yn Lloegr ac mae'n cymryd amser y swyddogion i wahanu ac esbonio'r gwahanol faterion mewn gwahanol ardaloedd.

---

<sup>5</sup> A gwelwch y sylw gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym **mharagraff 2.14**.

<sup>6</sup> *Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu, Cwestiwn 1-2.*

- 2.22 Roedd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru'n credu y byddai 'parhad y broses hon yn sicr o ddarparu eglurder', a fyddai yn ei dro'n gwneud cyfraith gynllunio'n fwy hygyrch a, gobeithio, yn cynyddu ymgysylltiad.

### Gwell defnydd o adnoddau

- 2.23 Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn credu y byddai cyfuno a symleiddio'r system gynllunio'n arwain at well defnydd o adnoddau, yn cynnwys arbed amser ac arian. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Methyr Tudful yn credu y byddai'n arbed amser ac arian am na fyddai angen ceisio cyngor cyfreithiol. Roedd Cyngor Sir Fynwy hefyd yn credu y byddai cyfuno a symleiddio'r ddeddfwriaeth gynllunio'n gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau.
- 2.24 Roedd Cyngor Bwrdeistref Casnewydd yn credu y byddai cyfuno a symleiddio'n gostwng yr amser a dreulir yn gwirio codau ac y byddai'n gostwng y risg o golli manylion pwysig, megis manylion yn ymwneud ag ymddeddfu neu faint cais daearyddol.
- 2.25 Nododd Cyngor Bwrdeistref Torfaen y byddai symleiddio'r ddeddfwriaeth yn golygu y gellid defnyddio adnoddau'n fwy cynhyrchiol, oherwydd byddai'n rhaid treulio llai o amser yn ymchwilio sefyllfa gyfreithiol sy'n newid o hyd, mewn cyhoeddiadau sy'n tueddu ymwneud â Lloegr. Er enghraifft, mae'r *Gwyddoniadur Cyfraith Gynllunio* (sy'n ymdrin mewn rhai adrannau gyda chyfraith gynllunio Cymru) yn costio oddeutu £1,700 i gael y tanysgrifiad cychwynol a £1300 am ddiweddariadau blynyddol; ond mae llawer o'r cynnwys yn amherthnasol i Gymru.

### Gwell dealltwriaeth a hygyrchedd y system gynllunio yng Nghymru

- 2.26 Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn credu y byddai cyfuno a symleiddio'r system gynllunio'n arwain at well dealltwriaeth gan y cyhoedd o'r system gynllunio yng Nghymru ac y byddai'n fwy hygyrch iddynt. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf y byddai symleiddio'r ddeddfwriaeth gynllunio'n ei gwneud hi'n llawer haws ei defnyddio i bobl broffesiynol o fewn ac oddi allan i'r maes cyfreithiol. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mai mantais fawr cyfuno a symleiddio cynllunio fyddai system y mae pawb yn elwa ohoni; yn bobl broffesiynol a'r cyhoedd fel ei gilydd. Dyma oedd eu sylwadau i ni:

O safbwynt y cyhoedd dylai'r gyfraith mewn perthynas â chynllunio fod yn haws ei deall a chael gafael arni. Byddai hyn yn golygu bod y cyhoedd yn gallu ymgysylltu'n well gyda'r system o safbwynt "deiliad cartref".

- 2.27 Roedd Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth gan y cyhoedd o'r broses gynllunio yn ystod ymholiad cyhoeddus i ffermydd gwynt Canolbarth Cymru wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd pobl leol yn teimlo bod eu safbwyntiau hwy wedi cael eu hanwybyddu. Roedd Cyngor Sir Fynwy'n teimlo y byddai croeso mawr i gyfuno a symleiddio'r ddeddfwriaeth gyllunio, oherwydd byddai'n fwy hygyrch (i ymarferwyr ac i'r cyhoedd); dylai hefyd fod yn haws ei defnyddio, a'r gobaith yw y byddai hyn yn hwyluso mwy o gysondeb yn y ffordd y dehonglir y gyfraith i helpu i wneud penderfyniadau ac i wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Roedd Cyngor Caerdydd yn teimlo y byddai cyfuno a symleiddio'n arwain o bosib at ostyngiad mewn ymholiadau [gan y cyhoedd] oherwydd byddai'n gwella gallu defnyddwyr i ganfod a dehongli'r gyfraith.

## Manteision eraill codeiddio

- 2.28 Defnyddiodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn yma i roi sylwadau am y broses symleiddio a chodeiddio'n fwy cyffredinol. Er enghraifft, roedd yr ymateb gan y Grid Cenedlaethol i'r cwestiwn yma'n nodi'r canlynol:

Mae Cynllunio yng Nghymru'n mynd trwy newid sylweddol. Bydd y broses yma o newid yn parhau am nifer o flynyddoedd. Gellid helpu'r broses yma drwy gael strategaeth wedi'i mynegi'n glir sy'n golygu bod cyfeiriad y gwaith, a'r canlyniadau a ddisgwylir gan y newidiadau niferus, yn hollol glir. Byddai hyn yn helpu'r bobl hynny sy'n gweithredu ac yn defnyddio'r system wrth iddi esblygu. Mae hefyd yn debygol o helpu i gynyddu hyder y buddsoddwyr yn y canlyniad y mae Cymru'n ceisio ei sicrhau.

- 2.29 Dyma sylwadau'r Gymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad:

Yn rhan o'r ymarfer cyfuno yma i ostwng a chyfuno deddfwriaeth gynllunio sylfaenol, dylid diddymu'r ddeddfwriaeth ddianghenraid nad oes ei hangen bellach ac sy'n ychwanegu at gostau darparu tai newydd a menter mewn ardaloedd gwledig. Mae'n rhaid i'r newidiadau amcanu i symleddio'r broses gynllunio, ond ni ddylent newid polisi cynllunio nag amddiffyniad amgylcheddol. Mae'n rhaid i'r canlyniadau dddod â newidiadau doeth i feichiau rheoliadol sy'n darparu taith esmwyth/symly drwy'r broses cais cynllunio, o'r cyngor cyn-ymgeisio, y dilysu, gwneud y penderfyniad a'r amodau, i ganiatadau cynllunio i ymgeiswyr.

## YR ACHOS O BLAID COD CYNLLUNIO NEWYDD

- 2.30 Mae'r drafodaeth uchod yn amlygu'r buddion penodol fyddai'n codi o godeiddio. Yn wyneb y buddion hynny, neu, yn syml fel barn mwy cyffredinol, gofynom i randdeiliaid a oeddynt yn cytuno gyda'r barn dros dro bod achos cryf dros greu Cod Cynllunio newydd.<sup>7</sup>
- 2.31 Roedd nifer helaeth o'r rhai hynny a ymatebodd i'r cwestiwn ywedi cytuno bod achos cryf dros gael Cod Cynllunio newydd i Gymru.<sup>7</sup> Er enghraifft, roedd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref yn meddwl y byddai Cod Cynllunio newydd yn helpu i "egluro'r gwahaniaethau o'i gymharu â'r gyfraith gynllunio yn Lloegr" ac yn "gostwng y tebygolrwydd y byddai anomaleddau neu anghysonderau rhwng rhannau o'r ddeddfwriaeth".Roedd Richard Harwood QC yn cefnogi'r farn hefyd bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth gynllunio:

Un broblem sydd wedi codi yng Nghymru ac yn Lloegr yw cymhlethdod cynyddol y ddeddfwriaeth o ganlyniad i ychwanegiadau nad ydynt yn helpu'r broses yn faterol. Dylai deddfwriaeth gynllunio fod yn ddigon eglur i gael ei gweithredu gan bobl nad ydynt yn gyfreithwyr, yn arbennig cynllunwyr, penseiri, cyngorwyr ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, nad ydynt yn defnyddio'r ddeddfwriaeth yn rheolaidd. Nid yw yn y cyflwr hwnnw.

<sup>7</sup> Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu, Cwestiwn 3-1.

<sup>8</sup> Amtebodd 48 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn: roedd 45 yn cytuno bod achos cryf am God Cynllunio newydd, anghytunodd 2 ac roedd 1 heb farn yr un ffordd na'r llall.



2.32 Roedd yr holl awdurdodau cynllunio lleol a ymatebodd yn cytuno bod achos cryf dros gael Cod Cynllunio newydd. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweld angen amlwg am adolygu'r gyfraith bresennol, sydd wedi mynd yn ddryslyd iawn, gan nodi y byddai "Cod Cynllunio sy'n nodi'r ddeddf fel y mae'n gymwys i Gymru, a hynny mewn ffordd mor glir a chryno ag sy'n bosibl, o fudd i'r cyhoedd ac i ymarferwyr". Nododd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De Orllewin Cymru) bod angen sicrhau eglurder a chysondeb wrth symud ymlaen; mae angen i'r Cod newydd 'allu ymdopi â'r dyfodol'. Rhoddodd sylwadau am ddiogelu dyfodol y Cod Cynllunio yn y ffordd yma:

Os yw'r ymarfer cyfuno yma'n mynd i lwyddo wrth symud ymlaen, mae angen llunio'r ddeddfwriaeth fel bod unrhyw ddiweddariadau a diwygiadau yn y dyfodol yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth wreiddiol. Er enghraifft, mae Polisi Cynllunio Cymru'n ddogfen fyw sydd ar gael fel dogfen electronig ar wefan Llywodraeth Cymru. Bob tro mae'n cael ei ddiweddarau, mae'n cael rhif fersiwn gwahanol.

2.33 Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydnabod y byddai symud tuag at fframwaith symlach yn 'gostwng cymhlethdod ac yn cynyddu hygyrchedd ac eglurder', roedd yn rhybuddio bod yr hyn a gynigir yn y Papur Cwmpasu'n 'brosiect mawr a allai fod angen adnoddau sylweddol'.

2.34 Roedd yr holl grwpiau neu gyrff proffesiynol a ysgrifennodd atom yn cytuno bod dadl gref dros gael Cod Cynllunio. Roedd Cyngor y Bar yn cytuno gyda symleiddio'r system gynllunio, gan nodi y 'dylai fod yn fwy hygyrch, p'un a yw hynny drwy greu Cod Cynllunio newydd fel a ragwelir yn y Papur Cwmpasu, neu drwy ddulliau eraill'. Ond roedd hefyd yn rhoi rhybudd fel a ganlyn:

Fodd bynnag, gallai'r broses sy'n ofynnol i sicrhau'r Cod Cynllunio yma 'ddioddef' oherwydd cymhlethdod angenrheidiol y gwaith o 'ddatod' y ddeddfwriaeth bresennol ac adlewyrchu'r diwygiadau diweddaraf.

2.35 Roedd un ymatebwr yn rhannu'r un farn. Yn ôl y Gymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA):

Mae'n anodd rhoi sylw ar fantais creu cod cynllunio. Er ei fod yn ymddangos yn syniad da ar yr wyneb, dim ond o wybod y canlyniadau a fwriedir, a sicrwydd y byddent yn darparu proses symlach, y gellir rhoi sylw cyflawn.

2.36 Nid oedd dau ymatebwr yn gweld achos cryf dros God Cynllunio newydd. Dywedodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wrthym eu bod yn "cytuno y gallai codeiddio'r ddeddf ddod â manteision cael deddf eglur a chywir", ar yr amod bod "amddiffyniadau digonol" ar waith. Yn lle hynny, byddai'n well gan y Gymdeithas gyflwyno system well o ryngweithio rhwng deddf statudol a'r gyfraith gyffredin, ac eglurhad ynglŷn â pha ddeddf sy'n berthnasol i'r gwahanol ranbarthau yn y Deyrnas Unedig. Y llwybr mwyaf rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion yma fyddai trefnu'r cronfeydd data presennol i ymdopi'n well gyda chyfraith gyffredin a statud, yn hytrach na chyflwyno system o godeiddio.

Rydym yn amheus ynghylch yr agwedd o "rwygo'r tudalennau a dechrau eto" sydd ymhlyg yn y Papur Cwmpasu. Yn fwy arwyddocaol efallai,

rydym yn bryderus iawn ynghylch sylwedd y gyfraith gynllunio bresennol gyda'r gwaharddiadau y mae'n eu rhoi ar ddatblygiad, yn enwedig yr angen am gartrefi newydd i roi tai i bobl yng Nghymru.

- 2.37 Y cwbl a ddywedodd un cyngor cymuned oedd ei fod yn gwrthwynebu'r diwygiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur Cwmpasu oherwydd roedd yn ofni y gallent fod yn niweidiol i benderfyniadau a democratiaeth leol - er na chynigiodd ragor o resymau manwl i gefnogi'r farn honno.
- 2.38 Yn gytun gyda'r mwyafrif llethol o ymgynghoreion, rydym ninnau'n argyhoeddedig am fanteision codeiddio, symleiddio a moderneiddio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chynllunio yng Nghymru.

## YR YMARFER CODEIDDIO HWN

- 2.39 Mae adrannau blaenorol y Bennod hon wedi amlygu ymwybyddiaeth ymhlith ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu o'r costau fydd yn codi o ddeddfwriaeth gynllunio rhy gymhleth neu ddiffygiol fel arall, a'r buddion fyddai'n deillio o ymarfer atgyfnerthiad a symleiddio.<sup>9</sup> Ac fe dderbyniom gefnogaeth aruthrol gan ymatebwyr parthed egwyddor ymarfer o'r fath.<sup>10</sup> O'r herwydd nid ydym wedi ceisio ail-ymweld â'r cwestiynau ehangach hynny yn y Papur Ymgynghori hwn.
- 2.40 At hynny fe nodom yn y Papur Cwmpasu ein barn ragarweiniol ynghylch cwmpas posibl ymarfer codeiddio o'r math hwn. Yr adeg honno, roeddem wedi rhagweld y byddai'r Cod canlyniadol yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol ar gynllunio a materion cysylltiedig perthnasol i Gymru - yn unol â'r ymagwedd yr oeddem wedi amlinellu yn yr Adroddiad Terfynol ar *Ffurf a Hygyrchedd y Ddeddf yng Nghymru*.<sup>11</sup> Nodom hefyd y gellid deddfu'r Cod mewn sawl rhan. Felly gwahododwyd rhanddeiliaid i ddatgan barn ynghylch cwmpas darn cychwynnol o gyfraith cynllunio wedi codeiddio, yn canolbwyntio ar bolisi cynllunio a rheolaeth datblygu, ac ar bwnc rhannau diweddarach a chynllun ehangach o godeiddio a awgrymwyd.<sup>12</sup>
- 2.41 Ers cyhoeddi'r Papur Cwmpasu hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn, yn fras, yr argymhellion yn ein hadroddiad *Ffurf a Hygyrchedd*, ond wedi penderfynu y byddai codeiddio yn golygu dwyn ynghyd Ddeddfau'r Cynulliad, is-ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y Llywodraeth ar bwnc penodol. Felly rydym yn awr yn rhagweld bod yr ymarfer presennol yn darparu ar gyfer cynhyrchu Bil Cynllunio, i ffurfio prif elfen y Cod Cynllunio newydd. Rydym hefyd wedi cynna trafodaethau helaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cwmpas Bil o'r fath.
- 2.42 O ganlyniad i'r safbwyntiau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Papur Cwmpasu, ac yn sgil y trafodaethau hynny, mae Pennod 3 y Papur Cwmpasu hwn yn nodi ein casgliadau ynghylch graddau'r ymarfer cyfredol. Yma hefyd, nid ydym wedi cyrchu safbwyntiau pellach gan randdeiliaid.
- 2.43 Yn olaf, roeddem wedi hel safbwyntiau ynghylch diwygiadau technegol posibl - yn gyffredinol<sup>13</sup> ac mewn perthynas â thri mater penodol: y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, dwyn ynghyd cyfundrefnau cydsynio

<sup>9</sup> *Papur Cwmpasu*, cwestiynau ymgynghori 1-1, 1-2, gweler paragraffau 2.10 i 2.29 uchod.

<sup>10</sup> *Papur Cwmpasu*, cwestiwn ymgynghori 3-1; gweler paragraffau 2.30 i 2.38 uchod.

<sup>11</sup> *Adroddiad Ffurf a Hygyrchedd y Ddeddf yng Nghymru*, (Com y Gyf Rhif 366).

<sup>12</sup> *Papur Cwmpasu*, cwestiynau ymgynghori 4-1 a 4-2.

<sup>13</sup> *Papur Cwmpasu*, cwestiynau ymgynghori 5-1 a 5-2.

sydd yn gorgyffwrdd a chodeiddio cyfraith achos.<sup>14</sup> Ym Mhennod 4, rydym yn nodi ein casgliadu ynghylch egwyddorion cyffredinol gnweud diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth. Ac yn ail ran y Papur Cwmpasu, rydym yn amlinellu nifer o gynigion dros dro a chwestiynau ymgynghori cysylltiedig â diwygiadau penodol, wedi eu gosod yn ôl pwnc.

- 2.44 Y disgrifiad o'r diwygiadu technegol manwl sydd yn ffurfio crynswth y Papur Ymgynghori, a safbwyntiau rhanddeiliaid mewn perthynas â'r diwygiadau hynny yr ydym yn ymofyn.

---

<sup>14</sup> *Papur Cwmpasu*, cwestiynau ymgynghori 3-2, 6-1 i 6-4 a 7-1 i 7-2.



## Pennod 3: Cwmpas yr ymarfer codeiddio

### CYFLWYNIAD

- 3.1 Yn y Papur Cwmpasu, rydym yn esbonio bod y syniad o gyflwyno ymarfer codeiddio ehangach yn raddol wedi derbyn ystyriaeth. Rydym wedi mynegi barn dros dro y gallai cynllun ymarferol o godeiddio symud ymlaen mewn pum cam, sy'n ymwneud â:
- (1) chynllunio datblygu a rheoli datblygu;
  - (2) yr amgylchedd hanesyddol;
  - (3) yr amgylchedd gwledig;
  - (4) adfywio a datblygiad; a
  - (5) sylweddau peryglus.<sup>1</sup>
- 3.2 Aethom ati i ofyn i'r ymgynghorwyr a oeddent yn credu mai dyma oedd y ffordd orau ymlaen, fel cam cyntaf ac hefyd fel rhaglen ddilynol.
- 3.3 Mynegodd nifer o ymgynghorwyr eu barn am agweddau penodol o'r ymarfer (er enghraifft, yr amgylchedd hanesyddol, neu'r amgylchedd gwledig), ond ychydig iawn o sylwadau a roddwyd ar y cyfan am gwmpas cyffredinol yr ymarfer. Roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru'n meddwl y byddai pum cam yn ormod o ran cwblhau'r prosiect o fewn amser rhesymol. Yn lle hynny, awgrymodd y byddai tri cham o waith yn well, naill ai drwy gyfuno camau dau a thri, a chamau pedwar a phump neu drwy adael cam dau fel y mae ac yna gyfuno camau tri, pedwar a phump.
- 3.4 Rydym wedi ystyried y cwestiwn o gwmpas yng nghyd-destun yr ymatebion a gawsom, ac yng nghyd-destun ein gwaith pellach ar y prosiect yn gyffredinol. Rydym hefyd wedi cymryd i ystyriaeth y pwerau diwygiedig sydd ar gael i'r Cynulliad yng nghyd-destun yr addasiadau i Ddedf Llywodraeth Cymru 2006 a wnaed gan Ddedf Cymru 2017, a'r rhaglen beilot o atgyfnerthiad a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol i Gymru ym mis Rhagfyr 2016.
- 3.5 Fel y byddwch yn dechrau gweld, rydym yn argymhell dull ychydig yn wahanol erbyn hyn i'r hyn a awgrymwyd gennym yn y Papur Cwmpasu. Rydym yn argymhell yn arbennig y dylid dod â mwy o ddeunydd i mewn i'r Bil Cynllunio o'r cychwyn, ond rydym yn llai rhagnodol am yr hyn y gallai camau diweddarach y broses godeiddio ei gynnwys.
- 3.6 Mae ein cynnig ynglŷn â chanolbwyntio ar gynllunio datblygiad a rheoli datblygiad wedi derbyn cefnogaeth gref gan randdeiliaid; ac rydym yn dal i farnu y dylai hynny

---

<sup>1</sup> Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu, paragraff 4.8.

fod wrth galon yr ymarfer presennol. Rydym hefyd yn gweld manteision mewn codeiddio darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (DCGTh) 1990 sy'n delio gydag adfywiad, ac ar yr un pryd gael gwared â nifer o ddarpariaethau diangen, yn rhan o'r ymarfer presennol. Felly, rydym yn barnu erbyn hyn y byddai'n well i'r ymarfer codeiddio presennol gwmpasu'r gyfraith ar gynllunio datblygiad, rheoli datblygiad (yn cynnwys gwaith i adeiladau hanesyddol, arddangos hysbysebion, a gwaith i goed sydd wedi'u diogelu), ac adfywio – hynny yw, Camau (1) a (4) o'r pump a bennwyd dros dro yn y Papur Cwmpasu.

- 3.7 Ystyrir y ddeddfwriaeth gyffredinol ar yr amgylchedd hanesyddol (Cam (2)) mewn ymarfer codeiddio sy'n cael ei weithredu yn gyfochrog â chynhyrchu'r Cod Cynllunio, yn rhan ar wahân o raglen beilot Llywodraeth Cymru.<sup>2</sup> Rydym yn awgrymu bod y gyfraith ar amgylchedd gwledig a sylweddau peryglus (Camau (3) a (5)) yn derbyn ystyriaeth ar gyfer codeiddio maes o law.
- 3.8 Yng ngweddill y Bennod hon rydym yn traod pob un o'r pum pwnc sydd wedi'u rhestru ym Mharagraff 3.3 uchod. Yna rydym yn cyfeirio'n fyr at bynciau eraill yr ydym wedi ystyried eu cynnwys ond wedi eu gwrthod. Yn olaf rydym yn awgrymu siâp posibl Bil sy'n gweithredu ein cynigion dros dro.

## Y DULL CYFFREDINOL

- 3.9 Cyn symud ymlaen ymhellach, gallai fod yn ddefnyddiol ailadrodd rhai o'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi hysbysu ein dull.
- 3.10 Yn gyntaf, byddai'n fanteisiol i'r holl ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar unrhyw faes penodol o weithgaredd fod o fewn un ddeddf unigol, cyn belled ag y bo'n bosibl. Nid yw'n broblem, er enghraifft, bod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio ar wahân i Ddeddf Adeiladu 1984 a'r Rheoliadau Adeiladu, am fod yr olaf yn wahanol o ran eu cysyniad, ac yn ymwneud â cham gwahanol o'r broses ddatblygu. Ond nid yw'n dderbyniol bod y gyfraith sy'n llywio'r broses o ffurfio cynlluniau datblygu yng Nghymru wedi ei chynnwys ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol ("PCPA") 2004 ac y mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gweithrediad y polisi hwnnw yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – yn y ddau achos, fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) (DC(C)) 2015.
- 3.11 Yn ail, po fwyaf y mae wedi'i ymgorffori mewn ymarfer codeiddio, neu unrhyw gam o godeiddio mwy, y mwyaf boddhaol, mewn egwyddor, fydd – eglurder cyffredinol – y cod a geir o ganlyniad. I'r un graddau wrth gwrs, po fwyaf yw cwmpas unrhyw ymarfer o'r fath, y mwy cymhleth fydd yr ymarfer a'r mwy o adnoddau y bydd yn gofyn amdanynt gan bawb perthnasol – yn cynnwys swyddogion polisi, cyfreithwyr, drafftwy'r, a deddfwyr. O safbwynt defnyddwyr y Cod, mae'n annerbyniol cael gormod o ddarnau o ddeddfwriaeth nad ydynt fel petaent yn perthyn i'w gilydd; ond gallai un Ddeddf enfawr wedi'i chyfuno fod yn drwsogl hefyd ac yn anodd ei defnyddio. Mae ystyriaethau o'r fath yn golygu bod yn rhaid cael cydbwysedd wrth ystyried faint y dylid ei gynnwys.

---

<sup>2</sup> Gweler paragraffau 3.87 i 3-3.100.

- 3.12 Yn drydydd, mae'n amlwg y byddai codeiddio'r rheolaeth ar gynllunio a datblygu ar ei ben ei hun yn gofyn gwneud addasiad sylweddol i ddeddfwriaeth berthnasol arall – er enghraifft, y darpariaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, coed, ac adfywiad. Os yw'r holl ddeddfwriaeth, neu o leiaf ran ohoni, wedi'i chynnwys yn y Cod ar y dechrau, byddai hynny'n osgoi'r angen am ddarpariaethau diwygio a allai fod yn gymhleth.
- 3.13 Felly, er enghraifft, mae'r prosiect Ailysgrifennu'r Gyfraith Dreth wedi cyflwyno cod treth cwbl newydd; ond oherwydd maint enfawr yr ymarfer hwnnw, cafodd y cod newydd ei gyflwyno mewn nifer o gyfrannau, gan achosi diwygiadau cymhleth yn ystod y trosglwyddo.<sup>3</sup> Rydym wedi dysgu o brofiad yr ymarfer hwnnw ac rydym yn teimlo y byddai'n well cynnwys cymaint ag sy'n bosibl o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn yr ymarfer o'r cychwyn, gan ostwng nifer y camau dilynol gymaint ag sy'n bosibl. Ond mae "gymaint ag sy'n bosibl" yn golygu yn union hynny – mae'n rhaid ystyried maint unrhyw ymarfer o'r fath yma yng nghyd-destun y drafftio a'r adnoddau proffesiynol eraill sydd ar gael i gynhyrchu'r Cod.
- 3.14 Yn bedwerydd, bydd cyflwyno deddfwriaeth newydd ar unrhyw raddfa'n gofyn ymarfer gweinyddol sylweddol ar ran y rheiny sy'n gweithredu'r system gynllunio o ddydd i ddydd – yn cynnwys cynhyrchu deunydd esbonio i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth, a gwneud hyfforddiant priodol – y byddai'n rhaid ei ailadrodd i ryw raddau ar bob cam pellach o ymarfer codeiddio ac iddo gamau niferus. Mae hynny hefyd yn awgrymu y byddai cyflawni mwy ymhob cam yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr y system yn gyffredinol. Unwaith eto, fodd bynnag, ni ddylid cymryd yr egwyddor honno'n rhy bell, oherwydd byddai ceisio amsugno gormod o newidiadau ar yr un pryd yn dod yn anodd i ddefnyddwyr.
- 3.15 Yn olaf, mae'n bwysig cofio bod llawer o'r gyfraith berthnasol yn y maes yma i'w gael mewn deddfwriaeth eilaidd – sef rheoliadau, rheolau a gorchymnion ar hyn o bryd. Mae bron i 100 o ddarnau uniongyrchol berthnasol o ddeddfwriaeth eilaidd,<sup>4</sup> ochr yn ochr â darnau eraill sy'n anuniongyrchol berthnasol. Byddai'n ddefnyddiol – ac yn gyfatebol gyda syniad Llywodraeth Cymru o God – i gymaint o'r rhain ag sy'n bosibl gael eu diweddarau, eu cyfuno a'u rhesymoli ochr yn ochr ag ail siapio'r ddeddfwriaeth sylfaenol; ond mae hwnnw hefyd yn weithredu mawr wrth gwrs sy'n gofyn llawer o adnoddau.
- 3.16 Mae werth nodi bod cyfuniad gweddol ddiweddar y gyfraith gynllunio yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys cyflwyno Deddf Gynllunio newydd, a dderbyniodd gydsyniad Brenhinol yn 2011 ac a ddaeth i rym yn 2015, ynghyd â chyfres gyflawn o ddeddfwriaeth eilaidd newydd.
- 3.17 Am yr holl resymau hyn, mae'n ymddangos yn ddoeth, ar y cam yma, i gychwyn rhaglen godeiddio sy'n rhesymol uchelgeisiol – gan hefyd ystyried yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i gyflawni'r rhaglen.

---

<sup>3</sup> Roedd hwn yn ymarfer, a gyflawnwyd gan dîm mawr o CThEM a Swyddfa Cwnsleriaid Seneddol, a arweiniodd at ailosod nifer helaeth o statudau treth gan Saith Deddf fawr, o Ddeddf Lwfansau Cyfalaf 2011 i Ddeddf Trethiant (Rhyngwladol a Darpariaethau Eraill) 2010. Am asesiad annibynnol, gweler *Adolygiad o Ddeddfwriaeth Treth Incwm Ail-ysgrifenedig*, Ipsos Mori (ar ran CThEm) Adroddiad Ymchwil 104, 2011.

<sup>4</sup> Gweler *Gwyddoniadur Cyfraith Cynllunio*, cyfrol 8.

## CYNLLUNIO DATBLYGIAD A RHEOLI DATBLYGIAD

### Ymatebion i'r Papur Cwmpasu

- 3.18 Yn ein Papur Cwmpasu, roeddem yn cynnig y dylai ffocws cam cyntaf y codeiddio fod ar gynllunio datblygiad a rheoli datblygiad – yn arbennig,
- (1) darpariaethau cynllunio craidd;
  - (2) darpariaethau cynllunio ategol; a
  - (3) threfnau caniatâd eraill.<sup>5</sup>
- 3.19 Aethom ati i wahodd sylwadau ymgynghoreion i'r Papur Cwmpasu, am gwmpas cynigiedig darn cychwynnol o gyfraith gynllunio, yn canolbwyntio ar reoli datblygiad a rheoli chynllunio.<sup>6</sup>
- 3.20 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cwmpas a gynigiwyd.<sup>7</sup> Er enghraifft, roedd Richard Harwood QC yn cytuno gyda chwmpas eang y prosiect a ddisgrifiwyd yn y papur, gan nodi bod “rheoli datblygiad yn rhan allweddol o'r broses, a bod digonedd o bethau i'w gwneud”.
- 3.21 Yn ôl y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref, dylai ffocws cychwynnol y cod fod ar baratoi cod cynllunio ar gyfer gwneud cynlluniau a rheoli datblygiad. Yn yr un modd, nododd Cyngor Sir Mynwy y byddai canolbwyntio ar feysydd o ddefnydd pob dydd yn ymarfer haws ei reoli na cheisio ymdrin â'r gamwt cyfan o ddeddfwriaeth gynllunio. Dyma nododd Cyngor y Bar:
- Rydym yn cytuno gyda Chomisiwn y Gyfraith y byddai hyn yn ddarn gweddol eang ac eithriadol o waith, gyda'r holl gostau perthnasol ac yn nhermau amser ac adnoddau. Yng nghyd-destun hynny, rydym wedi ystyried a yw'n ddewis ymarferol bosibl i rannu'r cam cychwynnol a gynigir yn ddarnau llai. Rydym wedi dod i'r casgliad, o ystyried popeth, bod Comisiwn y Gyfraith yn gywir o ran y materion y mae wedi eu dewis i'w cynnwys yn y cam cyntaf a dylai hyn ymdrin â rheoli datblygiad.
- 3.22 Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrthym y dylai “y cwmpas cychwynnol ar gyfer codeiddio'r gyfraith gynllunio fod yn hawdd ei reoli”. Nododd bod y pwnc o gynllunio datblygiad a rheoli datblygiad yn 'faes sylweddol a swmpus o'r gyfraith'. Awgrymodd y dylid rhannu'r pwnc ymhellach yn feysydd didoledig, arwahanol. Roeddent yn awgrymu'r categorïdd pellach a ganlyn:
- (1) apeliadau
  - (2) gorfodaeth
  - (3) caniatadau cynllunio

<sup>5</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, Pennod 4.

<sup>6</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, cwestiwn 4-1.

<sup>7</sup> Rhoddodd 36 o ymatebwyr farn am gwmpas y cod cynllunio: cytunodd 24, anghytunodd 5 ac roedd 7 heb farn y naill ffordd na'r llall.



- 3.23 Roedd Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru'n meddwl y byddai pum cam yn ormod o ran cwblhau'r prosiect o fewn amser rhesymol. Yn lle hynny, awgrymodd y byddai tri cham o waith yn well, naill ai drwy gyfuno camau dau a thri, a chamau pedwar a phump neu drwy adael cam dau fel y mae ac yna gyfuno camau tri, pedwar a phump.
- 3.24 Nawr rydym yn ystyried yn eu tro bob un o'r tri maes bras y cyfeirir atynt ym Mharagraff 3.18 uchod.

## **DARPARIAETHAU CYNLLUNIO CRAIDD**

- 3.25 Yn y categori cyntaf o bynciau sydd i gael eu cynnwys yn y Cod newydd – a ddisgrifir fel "darpariaethau cynllunio craidd" – canfu'r Papur Cwmpasu nifer o bynciau, yn cynnwys y canlynol:
- (1) pwrpas y system gynllunio;
  - (2) sut mae'r system gynllunio'n cael ei gweinyddu;
  - (3) y broses o wneud cynlluniau;
  - (4) natur y datblygiad;
  - (5) y broses o geisio caniatâd cynllunio;
  - (6) cywiriadau; a
  - (7) gorfodaeth.<sup>8</sup>

### **Pwrpas y system gynllunio, a sut mae'n cael ei gweinyddu**

- 3.26 Nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn gwneud unrhyw ddatganiad eglur am bwrpas y system gynllunio; ac mae'r dyletswyddau cyffredinol a roddir i'r holl awdurdodau cyhoeddus – yn cynnwys y rheiny sy'n penderfynu ceisiadau cynllunio – wedi'u gwasgaru'n eang. Cyflwynwyd darpariaethau mewn dull sy'n ymddangos erbyn hyn braidd yn ddi-batrwm dros y 70 mlynedd diwethaf, ac rydym yn ystyried ym Mhennod 5 y Papur Ymgynghori yma i ba raddau y dylid dod â nhw at ei gilydd mewn datganiad dealladwy ynglŷn â beth yw sail y system, ar ddechrau'r Cod newydd.
- 3.27 Mae'r gyfraith sy'n llywio gweinyddiad y system gynllunio i'w chael yn rhannol yn Rhan 1 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, er bod hon wedi cael ei diwygio'n sylweddol ac yn aneglur iawn erbyn hyn o ran beth sy'n berthnasol i Gymru. Mae amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth eilaidd am hyn hefyd. Ystyrir hyn hefyd ym Mhennod 5.

---

<sup>8</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu, paragraffau 4.20 – 4.52.*

## Gwneud cynlluniau

- 3.28 Yn wreiddiol, roedd y broses wneud cynlluniau yn Rhan 2 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; cafodd honno ei dirymu gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Yna cafodd y trefniadau newydd, sy'n cael eu llywio erbyn hyn gan Ran 6 Deddf 2004 (nid, rhaid nodi, Deddf 1990), eu haddasu'n sylweddol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r darpariaethau yma'n rhy newydd i wneud adolygiad realistig o ba mor effeithiol ydynt, ond maent angen cael eu dwyn ynghyd yn y prif Fil Cynllunio. Mae hyn yn cael ei ystyried ym **Mhennod 6**, ynghyd â'r pwnc cysylltiedig o falltodd cynllunio.

## Natur y datblygiad

- 3.29 Mae natur y datblygiad – hynny yw, adeiladu, peirianeg, mwyno a gweithredoedd eraill, a gwneud newid materol i'r ffordd y defnyddir y tir – wrth galon y system gynllunio. Mae llawer o'r datblygiad yn weddol fychan, ac wedi ei ganiatáu gan orchymyn datblygu; mae angen cais cynllunio ar gyfer prosiectau mwy sylweddol.
- 3.30 Nid yw'r gyfraith ar y pwnc yma wedi ei gyflwyno'n arbennig o glir ar hyn o bryd; ac rydym yn esbonio ym **Mhennod 7** (yr angen am gais cynllunio) ein cynigion i'w gyflwyno mewn ffordd sy'n haws ei ddeall i ddefnyddwyr.

## Y broses o geisio caniatâd cynllunio (yn cynnwys datrysiadau)

- 3.31 Mae'r broses o reoli datblygiad (y cyfeiriwyd ato yn y gorffennol fel "rheolaeth ar ddatblygiad") yn derbyn sylw yn Rhan 3 Cynllun Datblygu Gwlad a Thref 1990. Ond mae wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol gan nifer o Ddeddfau dilynol, rhai ohonynt yn berthnasol yn Lloegr yn ynig, rhai dim ond yng Nghymru, a rhai yn y ddwy wlad, a'i gymhlethu gan ddeddfwriaeth eilaidd gymhleth. Mae wedi cael ei gymhlethu ymhellach gan gyflwyno gweithdrefn caniatâd newydd, yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol; ac efallai y bydd hynny ynddo'i hun yn cael ei adolygu eto ar sail y newidiadau a wneir gan Ddeddf Cymru 2017.<sup>9</sup>
- 3.32 Felly, rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â rheoli datblygiad ffurfio craidd y Bil Cynllunio newydd.
- 3.33 Rydym yn esbonio ein cynigion i gyflwyno'r gyfraith mewn ffordd sy'n ddealladwy iawn i ddefnyddwyr – yn bennaf ym **Mhennod 8** (ceisiadau i awdurdodau cynllunio); a **Phennod 9** (ceisiadau i Weinidogion Cymru). Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau eraill, sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y system gynllunio gyfan yn rhedeg yn esmwyth – yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud ag apeliadau. Mae'r rhain yn derbyn sylw ym **Mhennod 11**.
- 3.34 Mae'r Bennod honno hefyd yn delio gyda nifer o ddarpariaethau eraill sy'n atodol i'r prif ddarpariaethau ar gyfer rheoli datblygiad. Felly mae'n cyffwrdd ar y darpariaethau sy'n ymwneud ag:

(1) addasu a diddymu caniatâd cynllunio, a'r hawl i ddigollediad o ganlyniad i hynny;

---

<sup>9</sup> Gweler **pennod 9**.

(2) rhoi'r gorau i'r defnyddiau presennol (gyda digollediad cysylltiedig);

(3) gwasanaethu hysbysiadau prynu; (lle mae tir yn cael ei wneud yn ddiwerth o ganlyniad i benderfyniad cynllunio); a

(4) thrin priffyrdd sydd wedi'u heffeithio gan y broses gynllunio.

- 3.35 Yn anaml iawn y mae'r darpariaethau yma'n cael eu defnyddio mewn gwirionedd, ond mae angen eu mynegi yn y fath fodd fel nad ydynt yn rhwystro mynediad i, na dealltwriaeth o'r darpariaethau a ddefnyddir yn fwy cyffredin sy'n llywio'r broses rheoli datblygiad

### **Datblygiad heb ei awdurdodi**

- 3.36 Y pwnc olaf a benwyd yn y Papur Cwmpasu fel "darpariaeth graidd" oedd gorfodaeth.<sup>10</sup>

- 3.37 Byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgeisio am ganiatâd cynllunio, a rhoi caniatâd cynllunio, i ddatblygiad sydd wedi cael ei wneud yn barod.<sup>11</sup> Ni heriodd unrhyw un y farn, a fynegwyd yn y Papur Cwmpasu, y dylai'r Cod gynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â datblygiad diawdurdod.

- 3.38 Rydym wedi nodi ein cynigion mewn perthynas â datblygiad a gorfodaeth diawdurdod ym Mhennod 12.

## **DARPARIAETHAU SY'N ATEGOL I'R SYSTEM RHEOLI DATBLYGIAD**

### **Pynciau a bennwyd yn y Papur Cwmpasu**

- 3.39 Roedd yr ail categori o bynciau i gael eu cynnwys wedi ei ddisgrifio yn y Papur Cwmpasu fel "darpariaethau cynllunio ategol". O dan y pennawd yma, rydym wedi nodi bod nifer o ddarpariaethau ategol eraill sy'n angenrheidiol i weithrediad effeithlon y darpariaethau craidd. Mae rhai o'r rhain, sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r system rheoli datblygiad, wedi eu crybwyll uchod.<sup>12</sup>

- 3.40 Mae hefyd ystod o ddarpariaethau eraill yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig, sy'n ymwneud â'r system gynllunio gyfan. Maent yn cynnwys y canlynol:

(1) y darpariaethau, sydd yn Rhannau 11 a 13 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, sy'n addasu'r broses i gynnwys gofynion arbennig ymgwymerwyr statudol a thir y Goron;

(2) gweithredu'r system gynllunio i ofynion arbennig datblygu mwyngloddio;

<sup>10</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, paragraffau 4.47 – 4.52.

<sup>11</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 73A

<sup>12</sup> Malltod cynllunio (gwelwch baragraff 3.30); diwygio a diddymu, rhoi'r gorau i, hysbysiadau prynu, a phriffyrdd (para 3.36).

- (3) y darpariaethau, yn bennaf yn Rhan 12 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n llywio'r broses o herio dilysrwydd amrywiol benderfyniadau cynllunio yn y llysoedd; a
- (4) darpariaethau cyffredinol yng ngweddill y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref – yn benodol Rhan 14 (darpariaethau ariannol) a Rhan 15 (darpariaethau ategol ac amrywiol, yn cynnwys dehongliad).
- 3.41 Efallai nad yw'n syndod mai ychydig iawn o'r rhieny a ymatebodd i'r Papur Cwmpasu a gyfeiriodd at y darpariaethau ategol yma. Roedd Persimmon Homes West Wales wedi cytuno y dylent gael eu cynnwys yn y Cod. Roedd y syniad o gynnwys y darpariaethau arbennig yn ymwneud ag ymgymerydd statudol yn y Cod wedi ei gefnogi gan RWE, Generation, Innogy Renewables, a Dŵr Cymru (Welsh Water). Ond awgrymodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl bod digon o sylwedd yn y darpariaethau craidd, heb gynnwys hefyd y pynciau digon arbenigol sydd wedi eu rhestru uchod (heblaw dilysrwydd efallai).
- 3.42 Mae'r darpariaethau yma'n ymwneud yn gyffredinol â materion sydd bron byth yn dod i'r golwg mewn bywyd pob dydd, ond sy'n hanfodol i weithrediad y system gynllunio gyfan, ac felly ni ellir eu dileu. Ac ni allent chwaith gael eu gosod yn ddoeth yn unrhyw le arall heblaw yn yr un darn o ddeddfwriaeth â'r darpariaethau craidd hynny. Fodd bynnag, mae'r ffordd y cânt eu cyflwyno o fewn y Bil yn gallu cael effaith sylweddol ar eu heglurder cyffredinol, felly mae angen meddwl amdanynt yn ofalus. Mae nifer ohonynt yn ddiangen neu ddi-fudd erbyn hyn, ac nid oes angen eu cynnwys yn y Cod newydd.
- 3.43 Ystyrir y darpariaethau cyffredinol yma yn y bennod olaf, **Pennod 17**.

### Darparu seilwaith

- 3.44 Un pwnc na grybwyllwyd yn y Papur Cwmpasu oedd cyllido seilwaith, oherwydd nid oedd Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) wedi ei datganoli i Gynulliad Cymru.<sup>13</sup> Ond bydd wedi'i datganoli cyn hir (unwaith y bydd y newidiadau a wnaed yn Neddf Cymru 2017 wedi eu gweithredu), ac felly rydym yn ystyried yn y fan yma a ddylid cynnwys y ddeddfwriaeth berthnasol yn y Cod Cynllunio, am ei bod yn un o ddarpariaethau ategol mwy arwyddocaol y system rheoli datblygiad.
- 3.45 Mae rhan swmpus o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i'w gael mewn deddfwriaeth eilaidd, y gellir ei diweddarau a'i hailysgrifennu i Gymru – ynghyd â pholisi ac arweiniad cefnogol – fel y mae amser yn caniatáu. Ond byddai'n anffodus pe bai'r cyfle yma'n cael ei gollu i gynnwys y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol o fewn y prif Fil Cynllunio, i sicrhau bod y ddau fecanwaith ariannu (goblygiadau cynllunio penodol i safle a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol) yn cael eu hystyried yn rhan o becyn integredig. Yn ogystal, gall goblygiadau cynllunio ddelio gyda materion heblaw am gyllido.
- 3.46 Rydym felly yn argymhell y dylai'r ddau fecanwaith ariannu, o'u hystyried ynghyd, fod ymysg y pynciau yn y codeiddio, yn rhan o'r ystyriaeth a roddir i reoli datblygiad prif ffrwd. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym **Mhennod 10**.

<sup>13</sup>

Gweler **para 1.44**.

## TREFNAU CANIATÂD ERAILL

- 3.47 O dan y trydydd pennawd y cyfeirir ato uchod,<sup>14</sup> “trefnau caniatâd eraill”, roedd y Papur Cwmpasu'n ystyried y rheoliadau sy'n ymwneud â gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, hysbysebion a choed.

### Gwaith i adeiladau rhestredig ac mewn ardaloedd cadwraeth

- 3.48 Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith i adeiladau rhestredig a dymchweliad mewn ardaloedd cadwraeth yn gofyn caniatâd cynllunio; ond maent hefyd angen caniatâd arbenigol, a geir hefyd gan yr awdurdod cynllunio (neu, drwy apêl, gan Weinidogon Cymru) – o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Ymdrinir â'r ddau gais gyda'i gilydd, a'u penderfynu'n gyfochrog. Bu'r Papur Cwmpasu'n archwilio pa mor fanteisiol fyddai cynnwys pob un, neu rai, o'r cyfundrefnau arbennig hynny mewn rheoli cynllunio prif ffrwd.<sup>15</sup>
- 3.49 Yng nghyd-destun y sylwadau niferus a dderbyniwn fel ymateb, rydym yn ystyried y mater yma ymhellach ym Mhennod 13. Rydym felly yn cynnig – yn amodol ar wneud nifer o addasiadau technegol gweddol fychan i'r ddeddfwriaeth i sicrhau na cholli'r diogelu – y byddai'n bosibl ac hefyd yn fanteisiol i gyfuno caniatâd adeiladu rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth gyda chaniatâd cynllunio.

### Gwaith i henebion cofrestredig

- 3.50 Mae gwaith i henebion cofrestredig, ar y llaw arall, ychydig yn wahanol. Mae gwaith o'r math yma'n gofyn "caniatâd henebion cofrestredig" bob amser, o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol ("Deddf Henebion") 1979.
- 3.51 Fel yr ydym yn esbonio ym **Mhennod 13**, nid ydym yn argymhell bod caniatâd henebion cofrestredig yn cael ei gyfuno gyda chaniatâd cynllunio.<sup>16</sup>

### Hysbysebu awyr agored

- 3.52 Yn gyffredinol, mae angen caniatâd ar wahân ar gyfer hysbysebu awyr agored, ac mae hwn bron yn gyfan gwbl yn perthyn i Rheoliadau Hysbysebion ar wahân. Mae'n ymddangos bod y system honno'n gweithio'n foddhaol ar y cyfan, ac nid ydym yn gweld unrhyw reswm i gynnig newid mawr.<sup>17</sup> Yn arbennig, nid ydym yn ystyried y byddai'n briodol cynnwys caniatâd am hysbysebu, o dan y Rheoliadau, yn rhan o'r caniatâd cynllunio prif ffrwd.
- 3.53 Ond, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywio'r rheolaeth ar hysbysebu'n cael ei chynnwys yn y prif God Cynllunio. Yn arbennig, mae'n bwysig pwysleisio sail polisïau rheolaeth o'r fath a sicrhau bod y drefn yn cyfateb gyda rheoliadau cynllunio eraill (er enghraifft, mewn perthynas ag ymgwymerwyr statudol). Mae'n dilyn y dylai deddfwriaeth sylfaenol – sy'n weddol gyfyngedig ei maint beth bynnag – gael ei chynnwys yn y Cod.

---

<sup>14</sup> Gweler para. 3.18.

<sup>15</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, para. 4.65 i 4.71.

<sup>16</sup> Gweler paragraffau **13.181** i **13.185**.

<sup>17</sup> Er gweler **para. 14.72 - 14.81** ar ddarpariaethau ar gyfer tynnu hysbysfyrdau sydd heb eu hawdurdodi.

- 3.54 Nid oedd unrhyw ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu'n anghytuno gyda chynnwys caniatâd hysbysebu o fewn y Cod; er bod Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De Orllewin Cymru) o'r farn y dylid cynnwys hysbysebu'n amlwg o fewn y diffiniad o ddatblygiad, fel bod rheoli hysbysebu wedyn yn dod yn rhan o reolaeth gynllunio prif ffrwd. Rydym yn ystyried hyn ymhellach ym **Mhennod 14**.<sup>18</sup>

### Gwaith ar goed a pherthi

- 3.55 Gwaith ar goed yw pwnc **Pennod 15**. Efallai bod angen caniatâd mewn perthynas â nhw o dan orchymyn diogelu coed (a geir gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru ar apêl) neu efallai bod angen rhoi gwybod i'r awdurdod amdanynt os ydynt mewn ardal gadwraeth, neu efallai eu bod angen trwydded cwmpo coed gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli gwaith o'r fath wedi'i gwasgaru mewn gwahanol leoedd
- 3.56 Yn y Papur Cwmpasu, rydym yn awgrymu y byddai'n well i'r rheoliadau sy'n ymwneud â choed, ar ffurf Gorchmynion Diogelu Coed, gael eu codeiddio yn rhywle arall o fewn y rhaglen waith ehangach, ond nid o fewn y meysydd craidd.<sup>19</sup> Cytunodd y Gymdeithas Gynllunio Gwlad a Thref, Cymorth Cynllunio Cymru, Persimmon Homes West Wales a Chyngor y Bar na ddylid cynnwys y rheoliadau sy'n berthnasol i goed yn rhan gyntaf y Cod.
- 3.57 Roedd Coed Cadw'n anghytuno ac yn cyfeirio at y cysylltiadau cryfion rhwng rheoli datblygiad a'r system Gorchmynion Diogelu Coed – pwynt a wnaed hefyd gan Gyngor Bwrdeistref Casnewydd. Roedd gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru hefyd amheuan ynglŷn â thynnu'r rheoliadau sy'n ymwneud â choed o gwmpas cam cyntaf y prosiect, gan nodi bod cyfraniad y coed i'r tirlun a bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn gyffredinol yn "agwedd gynyddol bwysig o fewn y broses reoli datblygiad ac ni ddylent gael eu hanwybyddu".
- 3.58 Nid ydym o'r farn y byddai'n briodol i'r caniatâd am waith ar goed gael ei gynnwys mewn caniatâd cynllunio prif ffrwd.<sup>20</sup> Ond, byddai'n ddefnyddiol dod â'r ddeddfwriaeth at ei gilydd mewn system o reolaeth gydlynol a symlach, ac os byddai'r ddeddfwriaeth sy'n llywio'r system honno'n cael ei chynnwys o fewn y Bil Cynllunio.
- 3.59 Ynghylch darpariaethau cwmpo coed sydd ar gael ar hyn o bryd yn Neddf Coedwigaeth 1967, byddai eu cynnwys yn ddymunol. Fodd bynnag, maent yn disgyn o fewn cwmpas gwaith y Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol, adran o Lywodraeth Cymru sydd ar wahân i'r Adran Gynllunio. Mae'r darpariaethau perthnasol yn rhan hefyd o ymarfer ymgynghori sydd yn berthnasol i fywyd gwyllt a chefn gwlad yn fwy cyffredinol, sydd yn debygol o arwain at ddeddfwriaeth newydd. Rydym felly wedi dod i'r casgliad na fyddai cynnwys y darpariaethau hynny yn addas, o leiaf ar hyn o bryd, ond dylid drafftio'r Bil mewn modd y byddai'n bosibl galluogi darpariaethau cyfwerth i gael eu cynnwys yn y dyfodol.

<sup>18</sup> Gweler **paragraffau 15.53 i 15.58**.

<sup>19</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Ngymru: Papur Cwmpasu*, paragraff 4.75.

<sup>20</sup> Gweler **para. 15.53 i 15.58**.

- 3.60 Nododd Cymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad ("CLA") fel yma: os byddai'r ymarfer codio presennol yn cael ei ymestyn i gynnwys rheoleiddio gwaith ar goed, yna byddai werth ystyried cynnwys Rheoliadau Perthi 1997. Rydym yn cytuno y byddai'n fanteisiol. Ond, rydym yn nodi bod y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn gyfyngedig iawn ei faint, ac y bydd y Rheoliadau (sydd bron heb gael eu cyffwrdd ers iddynt gael eu gwneud yn gyntaf) yn barod maes o law i gael eu hailystyried, i weld a ydynt yn dal i fod yn addas ar gyfer eu pwrpas. Rydym o'r farn y byddai'n well gwneud yr ymarfer hwnnw yn rhan o'r adolygiad o ddeddfwriaeth cefn gwlad yn gyffredinol, y cyfeirir ati yn nes ymlaen yn y Bennod hon.<sup>21</sup>

### **Trefnau caniatâd eraill: casgliad**

- 3.61 Rydym wedi dod i'r casgliad felly y dylai'r Cod Cynllunio gynnwys y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rheoleiddio'r rheolaeth ar:

- (1) waith i adeiladau rhestredig ac mewn ardaloedd cadwraeth;
- (2) hysbysebu awyr agored; a
- (3) gwaith ar goed wedi'u diogelu.

- 3.62 Ond nid ydym o'r farn y dylid cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli gwaith ar henebion cofrestredig. Yn lle hynny, dylid nodi'r ddeddfwriaeth honno, ynghyd â'r ddeddfwriaeth sylfaenol arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol, mewn Cod Amgylchedd Hanesyddol ar wahân. Rydym yn trafod hyn yn fwy manwl yn ddiweddarach yn y Bennod hon.

## **GWELLIANT, ADFYWIAD AC ADNEWYDDIAD**

### **Cynllunio cadarnhaol**

- 3.63 Mae'r darpariaethau statudol a ystyriwyd hyd yn hyn yn ymwneud â:

- (1) strwythur cyffredinol y Cod Cynllunio,
- (2) paratoi polisi cynllunio,
- (3) sicrhau caniatâd (mewn un ffurf neu'r llall) gan y rheiny sydd eisiau gwneud gwaith datblygu ar eu tir, a
- (4) chanlyniadau ariannol ac eraill y gwaith datblygu sy'n cael ei wneud.

- 3.64 Yn ogystal, yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig, mae nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â phwerau awdurdodau cyhoeddus i ymyrryd yn gadarnhaol i ddod â newid i'r amgylchedd ffisegol.

- 3.65 Yn fyr, mae nifer o'r pwerau a grëwyd drwy hyn wedi cael eu cyflwyno dros y saith deg mlynedd diwethaf o ganlyniad i amrywiol fentrau wedi'u gyrru gan bolisi gan lywodraethau o wahanol gymhlethdodau gwleidyddol i ddod ag adfywiad ac adnewyddiad – i raddau mawr, ond nid yn ddieithriad, mewn ardaloedd trefol.

---

<sup>21</sup> Gweler **para. 3.101 i 3.105.**

Rydym wedi cydnabod o hyn nad ydy hi'n ddigon i ddibynnu ar gynlluniau sy'n cael eu hyrwyddo gan berchnogion tir preifat; mewn rhai achosion, mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus, mewn un ffurf neu'r llall, ymyrryd er mwyn dod â gwelliant.

- 3.66 Mae'n amlwg bod hyn yn rhan annatod o'r system gynllunio – yn wir, y rheswm am ei galw yn "system gynllunio" yn hytrach na'r "system rheoli datblygiad", yw am ei bod yn seiliedig ar y syniad o weithredu positif gan "gynllunwyr", yn hytrach nag ymateb yn syml i gynigion gan berchnogion tir a datblygwyr.
- 3.67 Mae'r mentrau o dan y pennawd yma'n rhannu'n fras i dri chategori:
- (1) pwerau i awdurdodau cyhoeddus annog neu alluogi i weithiau gwella gael eu gwneud gan berchnogion tir preifat;
  - (2) pwerau i awdurdodau wneud gwaith o'r fath ar dir sy'n parhau dan berchnogaeth breifat; a
  - (3) phwerau i awdurdodau brynu tir preifat, gyda'r bwriad o wneud y gwaith eu hunain neu ei basio i eraill iddyn nhw wneud y gwaith.
- 3.68 Bydd yn cael ei nodi na fydd unrhyw ddyletswyddau, dim ond pwerau dewisol, i weithredu. Y rheswm am hyn yn rhannol yw bod posibilrwydd gweithredu o'r fath wedi ei gyfyngu gan allu cyfyngedig awdurdodau cyhoeddus i brynu tir preifat sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r mentrau a ddymunir. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, mae hyn yn ddibynnol iawn hefyd ar argaeledd yr arian sy'n angenrheidiol naill ai i alluogi pryniant o'r fath neu i dalu am wneud y gwaith neu weithgaredd arall.
- 3.69 Mae hefyd broblemau posibl mewn perthynas â'r gyfatebiaeth rhwng defnyddio'r pwerau yma a hawliau'r perchnogion eiddo perthnasol, yn arbennig yng nghydestun Deddf Hawliau Dynol 1998.

### **Pwerau statudol**

- 3.70 Mae'r grymoedd statudol wedi eu gwasgaru drwy Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gyfan, ac mewn nifer o statudau eraill – yn benodol Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Awdurdodau Lleol (Tir) 1963, Deddf Bwrdd Datblygu Cymru 1975, Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, Deddf Tir Diffaith 1982, Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywiad 1996, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, a Deddf Lleoliaeth 2011. Nid ydynt yn ffurfio cynllun statudol rhesymegol o gwbl. Gellir nodi'n arbennig nad yw Deddf 1975 wedi bod yn berthnasol ers rhai blynyddol i'r Bwrdd ei hun, am fod y corff hwnnw wedi ei ddiddymu yn 2006; ond erbyn hyn mae'n darparu'r awdurdod ar gyfer gweithredu gan Weinidogion Cymru.
- 3.71 O dan y cyntaf o'r tri phennawd uchod, mae gan awdurdodau lleol y pwerau i roi blaendaliadau ariannol i hybu datblygiad;<sup>22</sup> i ofyn i berchnogion gynnal eu tir a'u hadeiladau;<sup>23</sup> i ofyn iddynt dynnu neu orchuddio graffiti;<sup>24</sup> ac i dynnu gwrychoedd

<sup>22</sup> Deddf Awdurdodau Leol (Tir) 1963, adrannau 3, 4.

<sup>23</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Rhan 8, P 2.

<sup>24</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 225F i 225K.



uchel.<sup>25</sup> Os nad yw'r perchnogion yn cydymffurfio gyda gofynion o'r fath, gall yr awdurdod fynd i mewn i'r tir a gwneud y gwaith angenrheidiol ei hun. Gall Gweinidogion Cymru hefyd, roi cymorth ariannol; roi cyngor a gweithredu fel arall i hybu datblygiad.<sup>26</sup>

- 3.72 O dan yr ail bennawd, mae gan awdurdodau cynllunio bŵer cyffredinol i wneud gwaith datblygu ar dir preifat;<sup>27</sup> a chymysgedd braidd yn rhyfedd o bwerau penodol i ail hawlio neu wella tir diffaith, i blannu coed, ac i ddarparu modurdai a mannau sefyll i gerbydau.<sup>28</sup> Gall Gweinidogion Cymru wneud gwaith adfer a gwella.<sup>29</sup>
- 3.73 O dan y trydydd pennawd, gall awdurdodau cynllunio brynu tir i bwrrasau cynllunio;<sup>30</sup> ac mae gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg.<sup>31</sup>

### Darpariaethau darvoudedig

- 3.74 Ochr yn ochr â'r pwerau a nodir uchod, y gellir eu defnyddio o leiaf ac sy'n dal i gael eu defnyddio – yn aml iawn mewn rhai achosion – mae nifer o ddarpariaethau statudol sydd prin wedi cael eu defnyddio, neu sydd heb gael eu defnyddio o gwbl, ers iddynt gael eu cyflwyno yn y lle cyntaf; neu a gafodd eu defnyddio i ddechrau ond nid mewn blynyddoedd diweddar.
- 3.75 Cyflwynwyd nifer o weithdrefnau i alluogi awdurdodau cyhoeddus i gyflwyno datblygiad newydd ar raddfa fawr, fel arfer drwy greu cyrff arbennig yn lle'r awdurdodau cynllunio confensiynol – efallai i gydnabod y ffaith fod awdurdodau lleol a reolir yn ddemocrataidd yn ymddangos yn llai effeithiol nag asiantaethau gweithredol newydd sydd wedi'u creu yn benodol i gyflwyno newid. Ac yn y mwyafrif o achosion gellid weithredu rheolaethau cynllunio trwy y corff arbennig a grëwyd drwy hyn, neu'r Ysgrifennydd Gwladol (sef Gweinidogion Cymru erbyn hyn) yn gallu gweithredu rheolaeth gynllunio.<sup>32</sup>

### Cynnig yn y Papur Cwmpasu

- 3.76 Yn y Papur Cwmpasu aethom ati dros dro I gynnig y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud ag adfywiad a datblygiad gael ei chodeiddio fel y pedwerydd o'r pum cam codeiddio.<sup>33</sup> Roeddem hefyd yn awgrymu tynnu rhywfaint o'r ddeddfwriaeth ddarfodedig.
- 3.77 Cytunodd Persimmon Homes West Wales y dylai cam dilynol o godeiddio gynnwys adfywio a datblygu. Ac fe gytunodd Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA) bod achos ar gyfer cynnwys grymoedd yn galluogi awdurdodau i hwyluso cynlluniau datblygu yn eu hardal.<sup>34</sup>

<sup>25</sup> Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, Rhan 8.

<sup>26</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 304, 304A; Deddf Bwrdd Datblygu Cymru 1975; Deddf Tir Diffaith 1982, adran 2.

<sup>27</sup> Deddf Awdurdodau Lleol (Tir) 1963, adran 2.

<sup>28</sup> Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, adran 89; Deddf Awdurdodau Lleol (Tir) 1962, a 5; Deddf Tir Diffaith 1982, a 3.

<sup>29</sup> Deddf Bwrdd Datblygu Cymru 1975, a 16, Deddf Tir Diffaith 1982, a 2.

<sup>30</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Rhan 9.

<sup>31</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 228; Deddf Bwrdd Datblygu Cymru 1975, adrannau 16, 21A.

<sup>32</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a 7 ac 8; Deddf Tref Newydd a 7.

<sup>33</sup> Gweler **para. 3.1** uchod.

<sup>34</sup> Gweler **para. 3.119 i 3.120**.

- 3.78 Dywedodd Coed Cadw nad oedd 'coedwigoedd a choed trefol' fel pe baent yn perthyn yn amlwg i unrhyw gam codeiddio; ond mae coed stryd o bwysigrwydd penodol am eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig i'r strydlyn trefol. Nododd yr Ymddiriedolaeth hefyd bod yr amgylchedd trefol ehangach fel petai wedi ei eithrio rhag cael ei ystyried am ei fod yn perthyn yn rhywle yn y canol rhwng yr amgylchedd hanesyddol a'r amgylchedd gwledig; dylid gwneud cyfeiriad eglur at wyrddu'r amgylchedd adeiledig o dan y pennawd Adfywio a Datblygu.

## Casgliad

- 3.79 Rydym yn amau mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth sy'n bodoli o'r pwerau sydd ar gael yn barod i awdurdodau cyhoeddus i sicrhau gwella, adfywio ac adnewyddu. Rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n fanteisiol, ochr yn ochr â chodeiddio a symleiddio'r gyfraith sydd wedi'i gwasgaru'n eang yn ymwneud â ffurfio'r cynllun datblygu a rheoli datblygiad, i'r Bil Cynllunio newydd gynnwys ailddatganiad clir o'r gyfraith sy'n ymwneud â phwerau awdurdodau lleol i ddod â gwelliannau ar dir preifat.
- 3.80 Fodd bynnag, unwaith eto rydym ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau ar adnoddau; ac rydym yn barnu felly y dylai'r pwyslais ar y cam yma fod ar gynnwys y pwerau a'r dyletswyddau hynny sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, gyda darpariaethau gan Ddeddfau eraill sydd wedi eu cynnwys dim ond cyn belled â'u bod yn angenrheidiol i wneud synnwyr o'r pwerau a'r dyletswyddau hynny. Bydd hyn yn galluogi i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hepgor bron yn gyfan gwbl cyn belled â'i bod yn berthnasol i Gymru. Byddai hefyd werth ceisio diddymu cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, y darpariaethau diangen sydd wedi'u nodi uchod cyn belled ag y maen nhw'n berthnasol yng Nghymru.
- 3.81 Ond, rydym o'r farn y byddai'n amhriodol cynnwys yn y Bil, o leiaf ar hyn o bryd, bwerau prynu gorfodol sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd.
- 3.82 Mae ein cynigion yn y cyswllt hwn ym Mhennod 16.

## Y BIL CYNLLUNIO: CASGLIAD

- 3.83 O ganlyniad i'r ystyriaethau sydd wedi'u nodi uchod, rydym yn casglu y dylai'r Bil Cynllunio (Cymru) newydd gynnwys, cyn belled ag y bo'n bosibl, yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â:
- (1) chynllunio a rheoli datblygiad (yn cynnwys gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth);
  - (2) darparu seilwaith a gwelliannau eraill; a
  - (3) hysbysebu awyr agored, a gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu;
  - (4) gwelliant ac adfywiad wedi'i arwain gan y sector cyhoeddus (cyn belled ag y bo wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990); a
  - (5) darpariaethau atodol ac amrywiol.

3.84 Rydym yn dangos yn Nhabl 3-1 arwydd cychwynnol o siâp posibl ar gyfer Bil Cynllunio (Cymru) newydd, i ffurfio canolbwynt y Cod newydd. Mae penodau Rhan Dau'r Papur Ymgynghori yma'n dilyn yr amlinelliad yma'n fras.

**Tabl 3-1:  
Cynnwys dangosol Bil Cynllunio (Cymru) posibl**

**Darpariaethau cyflwyniadol**

Elfennau sy'n ffurfio rhan o'r Cod Cynllunio  
Yr egwyddorion sy'n tanategu'r Cod Cynllunio  
Gweinyddiad y system gynllunio

**Ffurio polisi cynllunio**

Fframwaith datblygiad cenedlaethol  
Cynllunio strategol  
Cynllunio datblygiad lleol  
Malltod cynllunio

**Gwneud cais gyfer ganiatâd cynllunio**

Yr angen am ganiatâd cynllunio  
Datblygiad gweithrediadol  
Newid defnydd  
Ffyrdd o roi caniatâd cynllunio  
Rhoi caniatâd drwy orchymyn datblygu  
Mathau eraill o geisiadau cynllunio  
Ceisiadau am dystysgrif datblygiad cyfreithlon

**Ceisiadau cynllunio i'r awdurdod cynllunio**

Penderfynu ar geisiadau cynllunio  
Cymeradwyo manylion  
Amodau  
Amrywio caniatâd cynllunio  
Caniatâd cynllunio tybiedig  
Asesiad o effaith amgylcheddol  
Galw ceisiadau i mewn gan Weinidogion Cymru

**Ceisiadau i Weinidogion Cymru**

Ceisiadau ym maes awdurdodau sy'n tanberfformio  
Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol

**Darparu ar gyfer seilwaith a gwelliannau eraill**

Ardoll seilwaith cymunedol (CIL)  
Goblygiadau cynllunio

**Apeliadau**

Apeliadau i Weinidogion Cymru

**Datblygiad diawdurdod**

Hysbysiadau rhybuddio am orfodi  
Hybysiadau am atal dros dro  
Hysbysiad torri amodau  
Hysbysiadau gorfodi  
Rhybuddion atal

**Hysbysebu awyr agored**

Diffiniad o hysbysebion  
Caniatâd i hysbysebu  
Hysbysebu diawdurdod

**Gwaith i goed a pherthi**

Gorchmynion diogelu coed  
Gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu  
Gwaith anawdurdodedig ar goed  
Coed mewn ardaloedd cadwraeth

**Gwelliant, adfywiad ac adnewyddu**

Gwella tir ac adeiladau hyll  
Graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon

**Darpariaethau atodol ac amrywiol**

Ymgymrwyr statudol  
Achosion arbennig eraill  
Mwynau  
Dehongli

- 3.85 Dylid gosod hyn ochr yn ochr â **Tabl 1-1**, sy'n crynhoi cyflwr anfoddfaol presennol y gyfraith.
- 3.86 Rydym yn pwysleisio mai dim ond syniad dangosol yw hwn o'r hyn allai fod yn bosibl, ac nid yw wedi'i fwriadu i rwystro mewn unrhyw ffordd ffurf a chynnwys y Bil Cynllunio newydd yn y pen draw; yn amlwg mae'r broses ddrafftio fanwl yn debygol o gynhyrchu awgrymiadau am strwythur arall. Ond mae'n dangos ein barn ynghylch cwmpas cyffredinol yr ymarfer.

## YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

### Y gyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol

- 3.87 Rydym wedi argymhell yn barod fod y darpariaethau sy'n llywio rheolaeth y gwaith ar adeiladau rhestredig ac mewn ardaloedd cadwraeth yn cael eu cynnwys o fewn y Cod Cynllunio.<sup>35</sup> Fel y nodwyd yn y Papur Cwmpasu, canlyniad hyn yw gadael nifer o ddarpariaethau "ar ei hôl hi".<sup>36</sup>
- 3.88 Mae rhai o'r darpariaethau yma yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990, fel y mae wedi'i diwygio gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Maent yn ymdrin â rhestro adeiladau o ddiddordeb arbennig, dynodi ardaloedd cadwraeth, cytundebau partneriaeth treftadaeth, atal niwed a dirywiad, a grantiau a benthyciadau. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r materion yma, o'i hymddangosiad gyntaf yn yr 1940au hyd 1990, wedi ei chynnwys o fewn y prif Ddeddf gynllunio bob amser – yn Lloegr ac yng Nghymru ac yn Yr Alban.
- 3.89 Mae'r ddeddfwriaeth gyffredinol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth wedi bod o fewn y prif Orchymyn Cynllunio yng Ngogledd Iwerddon erioed, ac mae'n dal i fod yn y brif Ddeddf gynllunio. Mae wedi bod yn y brif Ddeddf Gynllunio erioed yng Ngweriniaeth Iwerddon hefyd.
- 3.90 Mae darpariaethau tebyg yn ymwneud â diogelu henebion – unwaith eto, yn cynnwys y rheiny sy'n berthnasol i gytundebau partneriaeth treftadaeth, atal dirywiad a niwed, a grantiau a benthyciadau – yn ogystal â chaniatâd henebion cofrestredig. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn Neddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, fel y mae wedi'i diwygio gan Ddeddf 2016.
- 3.91 Mae hefyd ddarpariaethau perthnasol mewn deddfwriaeth arall, yn benodol Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 a Deddf Amwynderau Tref 1967.
- 3.92 Pan oedd Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn mynd drwy'r Cynulliad, mynegodd nifer o'r rheiny oedd yn rhoi tystiolaeth y farn fod y Bil yn gyfle a gollwyd i gyfuno'n gyffredinol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol – cofadeiladau, adeiladau ac ardaloedd.

<sup>35</sup> Gweler **para 3.48 i 3.49**, a **Phennod 13**.

<sup>36</sup> *Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, paragraff 4.66.

- 3.93 Mewn ymateb i'n Papur Cwmpasu, cytunodd Cymorth Cynllunio Cymru y byddai'r ddeddfwriaeth am yr amgylchedd hanesyddol yn ffitio i mewn i gynllun ehangach cyfuno deddfwriaeth gynllunio brif ffrwd, ond awgrymodd y dylid mynd ar ei ôl fel cam dilynol. Cytunodd Persimmon Homes West Wales y dylai'r amgylchedd hanesyddol dderbyn sylw mewn cam diweddarach o'r codeiddio. Roedd y Gymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad yn cytuno mewn egwyddor y byddai'n fuddiol cyfuno cyfraith amgylcheddol hanesyddol.
- 3.94 Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, ar y llaw arall, y gallai dadlau sylweddol godiam 'ddatod y darpariaethau adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth' rhwng y cam cyntaf yma a'r ail gam cynigiedig sy'n delio gyda'r amgylchedd hanesyddol.
- 3.95 O'r holl ddyletswyddau a roddwyd i awdurdodau cynllunio gan amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth, a nodwyd yn gynharach ac mewn mwy o fanylder ym **Mhennod 5** y Papur Ymgynghori yma, mae'n amlwg mai'r unig rai y cyfeirir atynt mewn gwirionedd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei hun yw'r rheiny (sydd i'w cael er hyn o bryd mewn adrannau amrywiol o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990) sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Ac yn ymarferol, mae maint sylweddol yr ymgyfreithiad sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol mewn blynyddoedd diweddar wedi codi bron yn gyfan gwbl mewn cysylltiad â'i ryngweithiad gyda rheolaeth cynllunio prif ffrwd.<sup>37</sup> Mae ystyriaethau o'r fath yn awgrymu y dylai'r dyteswyddau hynny, ar y lleiaf un, barhau i dderbyn cyfeiriad atynt yn y Cod Cynllunio newydd, ochr yn ochr â'r amrywiol ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud â gweithredu dyletswyddau a phwerau cynllunio.<sup>38</sup>
- 3.96 Yn fwy sylfaenol, fodd bynnag, rydym wedi nodi'n barod bod maint y gorgyffwrdd rhwng y darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio, caniatâd adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth yn golygu y dylid dod â nhw ynghyd.<sup>39</sup> Byddai hynny'n achosi i oddeutu dri chwarter o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gael ei disodli cyn belled â'i bod yn berthnasol yng Nghymru.
- 3.97 O ran gweddill Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 – hynny yw, y darpariaethau ynddi heblaw'r rheiny sy'n llywio'r rheolaeth ar waith i adeiladau rhestredig a dymchweliad mewn ardaloedd cadwraeth – ynghyd â'r darpariaethau sy'n weddill yn Neddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 a Deddf Amwynderau Dinesig 1967 – gallent dderbyn sylw ymarfer cyfuno ar wahân.
- 3.98 Ym mis Rhafgyr 2016 cyhoeddodd Cwnsler Cyffredinol Cymru y byddai lywodraeth Cymru'n gweithredu rhaglen beilot o gyfuno, codeiddio a chyhoeddi'r gyfraith yn well. Ym mis Mai 2017, mewn tystiolaeth i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynlluniad Cymru, dywedodd bod y ddeddfwriaeth amgylcheddol hanesyddol wedi ei dewis ar gyfer codeiddio oherwydd, ymysg rhesymau eraill, ei pherthynas gyda'r gyfraith gynllunio.<sup>40</sup>

<sup>37</sup> *Cyngor Dosbarth Dwyrain Northampton v Yr Ysgrifennydd Gwladol [2014] EWCA Civ 137*, ac ymgyfreithiad perthnasol; gweler **para 13.50**.

<sup>38</sup> Gweler **paragraffau 5.41 i 5.56**.

<sup>39</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 13 -1**.

<sup>40</sup> Gweler y papur a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol i Bwyllgor Materion Corfforaethol a Deddfwriaethol Cynlluniad Cymru, a chofnodion 8 Mai 2017, paragraffau 233, 272, 273.

- 3.99 Cafodd y newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – sy'n diwygio Deddf Henebion 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 – eu llunio'n bwrpasol i ddod â'r gwahanol fathau o asedau hanesyddol at ei gilydd, a byddai'n anffodus os byddai hynny'n cael ei ddatod oherwydd gwahanu'r ddau god deddfwriaethol. Felly os ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth yn mynd i gael eu cyfuno, byddem yn argymhell bod y darpariaethau cyfatebol sy'n ymwneud â henebion yn cael eu cynnwys hefyd.
- 3.100 Mae'n edrych yn debygol y gallai canlyniad yr ymarfer yma felly fod yn God Amgylcheddol Hanesyddol newydd, sy'n ymddangos ar (neu oddeutu) yr un pryd â'r Cod Cynllunio sy'n derbyn sylw yn y Papur Ymgynghori yma – er bod yr union amserlen ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn amodol wrth gwrs ar gyfyngiadau ar adnoddau. Unwaith eto, rydym wedi nodi (**yn Nhabl -3-2**) syniad cychwynnol o'r ffordd y gwelwn siâp posibl Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) posibl, i ffurfio canolbwynt Cod o'r fath; ond rydym yn pwysleisio nad ydym wedi cyfranogi yn ei baratoad.

**Tabl 3-2:**

**Cynnwys dangosol Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) posibl**

<b>Darpariaethau cyflwyniadol</b>	<b>Ardaloedd cadwraeth</b>
Elfennau sy'n ffurfio rhan o Weinyddiad y Cod	Dynodi ardaloedd cadwraeth
Gweinyddiaeth	Dyletswydd cyffredinol
	Gwaith brys
<b>Safleoedd treftadaeth y byd</b>	<b>Asedau treftadaeth eraill</b>
Diffiniad	Gerddi a
Dyletswydd	pharciau
Gyffredinol	hanesyddol
	Cofrestrau eraill
<b>Henebion</b>	<b>Darpariaethau atodol</b>
Diffiniadau	Cytundebau partneriaeth
Atodlen o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol	treftadaeth
Diogelwch interim	Cymorth ariannol
Dyletswydd cyffredinol	Cofnodion amgylchedd
Gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig	hanesyddol
	Enwau lleoedd hanesyddol
<b>Adeiladau rhestredig</b>	Panel cynghori
Rhestr o adeiladau o ddiddordeb arbennig	<b>Darpariaethau atodol ac amrywiol</b>
Diogelwch interim	
Maint y rhestru	Achosion arbennig
Dyletswydd cyffredinol	
Adeiladau rhestredig mewn cyflwr gwael	Dehongliad
Prynu adeiladau rhestredig	

## CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY

- 3.10 1Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â diogelu cefn gwlad, mynediad cyhoeddus i dir preifat, a hawliau tramwy cerddwyr wedi'i chynnwys yn yr un grŵp o Ddeddfau i raddau mawr: yn benodol, Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae darpariaethau perthnasol i'w cael yn Neddf Priffyrdd 1980 a (mewn perthynas â Lloegr yn unig) Deddf Dadreoli 2015.
- 3.102 Gallai'r darpariaethau statudol amrywiol hyn fod yn briodol ar gyfer codeiddio cyn belled â'u bod yn berthnasol yng Nghymru. A gallai'r cod hwnnw sefyll ar ei ben ei hun, fel Cod Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Cymru), neu gallai ffurfio rhan bellach o'r Cod Cynllunio – er y byddai'r dull blaenorol yn ymddangos yn well, o ystyried y gorgyffwrdd gweddol gymedrol rhwng y ddau. Ond, yn y naill achos a'r llall, byddai'n rhaid iddynt dderbyn llawer o ystyriaeth bellach. Ac os yw Llywodraeth Cymru'n ystyried deddfwriaeth bellach mewn perthynas â materion amgylcheddol, byddai'n ddoeth i godeiddio o'r fath ddilyn diwedd yr ymarfer hwnnw.
- 3.103 Mae llawer o'r gyfraith yma'n cysylltu gyda'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt, y cafwyd adolygiad diweddar ohono gan Gomisiwn y Gyfraith.<sup>41</sup> Yn ei dro, mae'r ddeddf yma'n cael ei dylanwadu'n gryf gan Gyfarwyddbau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, sy'n debygol o gael ei adolygu ymhellach ar sail ymadawriad Prydain cyn hir â'r Undeb Ewropeaidd.
- 3.104 Am yr holl resymau hyn, rydym yn argymhell na ddylid cynnwys y maes yma o fewn y Cod Cynllunio ar hyn o bryd, ond y dylid ei gadw dan adolygiad a'i ystyried ar gyfer codeiddio maes o law – naill ai fel rhan bellach o'r Cod Cynllunio neu fel Cod Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wahân.
- 3.105 Rydym yn argymhell mewn Pennod ddiweddarach y gallai'r dyletswyddau cyffredinol yn y Cod sy'n ystyried materion amrywiol gael eu cynnwys yn ddefnyddiol ymhob un o'r statudau a grybwyllir o dan y pennawd yma.

---

<sup>41</sup>

*Deddf Bywyd Gwyllt: Adroddiad*, Tachwedd 2015, Adroddiad Comisiwn y Gyfraith Rhif 362



## SYLWEDDAU PERYGLUS

- 3.106 Gall storio sylweddau penodol (megis cemegau diwydiannol a phowdrau penodol) ar y tir fod yn beryglus. Gellir ystyried cyflwyno sylweddau o'r fath ar dir am y tro cyntaf fel newid materol yn y ffordd y defnyddir y tir, a bydd hynny felly'n amodol ar yr angen am ganiatâd cynllunio. Gall caniatâd o'r fath, os yw'n cael ei roi, fod yn amodol ar amodau priodol, sydd wedi eu llunio i sicrhau fod y sylweddau'n cael eu storio'n ddiogel. Yn y Papur Cwmpasu, rydym wedi cynnig dros dro bod y gyfraith sy'n ymwneud â sylweddau peryglus yn ffurfio'r pumed cam sydd hefyd yn gam terfynol i'r ymarfer codeiddio presennol.
- 3.107 Roedd Cymorth Cynllunio Cymru, Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref, a Persimmon Homes West Wales o'r farn na ddylid cynnwys sylweddau peryglus yn rhan gyntaf y cod. Nododd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) na fyddai cael caniatâd sylweddau peryglus y tu allan i gwmpas y cod yn achosi unrhyw broblemau iddynt. Dywedodd

Mewn perthynas â chaniatâd sylweddau peryglus, rydym yn nodi'r canllawiau mewn perthynas ag ymgynghoriad gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar ddatblygiad cynigiedig o amgylch gosodiadau peryglus yng Nghylchlythyr 20/01 - Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Sylweddau Peryglus. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys rhywfaint o arweiniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar yr angen i sicrhau bod eu polisi defnydd tir, neu bolisiau perthnasol eraill, yn ystyried rheoliadau sydd wedi eu nodi yn Erthygl 13 y Gyfarwyddeb Sevseso III sydd wedi'i bwriadu i atal damweiniau mawrion a chyfyngu ar effaith damweiniau o'r fath ar iechyd dynol a'r amgylchedd.

- 3.108 Ond, roedd Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymu'n credu bod caniatâd sylweddau peryglus, er nad ydyw'n her pob dydd i'r mwyafrif o ymgynghorwyr neu awdurdodau cynllunio, yn rhan bwysig o ddeddfwriaeth gynllunio gyfredol.
- 3.109 Mae'r ddeddfwriaeth ar sylweddau peryglus i'w gweld yn gweithredu'n foddhaol. Mae'n bwnc gweddol hunangynhwysol ac mae un darn o ddeddfwriaeth yn ymdrin a hi.<sup>42</sup> Mae'n ymddangos nad oes angen brys i'w gynnwys yn y Cod Cynllunio ar hyn o bryd.

## PYNCIAU ERAILL YR YDYM WEDI EU HYSTYRIED OND WEDI EU HEITHRIO

- 3.110 Yn olaf, rydym yn sôn yn fyr am rai pynciau eraill yr ydym wedi penderfynu na ddylent fod yn rhan o'r Bil Cynllunio, o leiaf ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw naill ai:
- (1) am nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, oherwydd bydd yn digwydd wedi i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym; neu

---

<sup>42</sup> Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990

(2) er eu bod yn berthnasol i gynllunio, maent yn bynciau hunangynhwysol fyddai'n cael eu trin yn well mewn deddfwriaeth ar wahân.

3.111 O ran y pynciau yn yr ail gategori, gallai'r deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymdrin â rhai ohonynt gael eu cynnwys yn ddefnyddiol yn y Cod Cynllunio rywbryd yn y dyfodol; mewn eraill, mae'n debyg y byddai'n well rhoi'r deddfwriaeth yn rhywle arall. Bydd y penderfyniadau am hynny'n cael eu dylanwadu gan y ffordd mae patrwm y Codau yng Nghymru'n datblygu yn y dyfodol.

3.112 Yn fyr, rydym wedi dod i'r casgliad na ddylai'r Cod gynnwys y gyfraith a'r arweiniad sy'n ymwneud â'r pynciau a ganlyn:

(1) prosiectau seilwaith mawr;

(2) pryniant gorfodol a digolledu;

(3) rheolaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu; a

(4) chodau hunangynhwysol eraill (seilwaith cludiant, cartrefi symudol, gwyrchoedd uchel, a llongdrylliadau a ddiogelir)

Rydym yn ystyried pob un o'r pynciau yma'n fyr isod.

### Prosiectau seilwaith mawr

3.113 Mae prosiectau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol perthnasol sy'n gofyn "caniatâd datblygu" wedi eu cadw ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig,<sup>43</sup> gan adlewyrchu efallai dyhead Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sichrau bod prosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu cynllunio a'ucymeradwyo ar sail ledled y DU. Fodd bynnag, mae caniatâd cynllunio mewn perthynas â "datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol" o fewn cymhwysedd Cynulliad Cymru, a bydd yn cael ei ystyried ymhellach ym **Mhennod 9**.

### Pryniant gorfodol a digolledu

3.114 Mae'r gallu i awdurdodau cyhoeddus brynu tir i'w ddefnyddio er budd y cyhoedd, ac asesu maint teg a rhesymol yr iawndal sy'n daladwy am bryniant o'r fath, o bwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd hanfodol. Mae hefyd yn amlwg berthnasol i'r broses o gynllunio ac adfywio.

3.115 O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – fel y cafodd ei chyflwyno ac fel y cafodd ei diwygio hefyd yn dilyn y refferendwm yn 2011– ni chafodd y grym i gynhyrchu deddfwriaeth i ddelio gyda'r gyfraith hawliau ynghylch pryniant gorfodol a digolledu ei ddatganoli.<sup>44</sup> Y rheswm am hynny o bosib oedd y farn y byddai'n fanteisiol cael un cod unfath yn gweithredu drwy Gymru a Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â'r hawl i ddigollediad. Am y rheswm hwnnw, ychydig iawn o gyfeiriad sydd at hyn yn y Papur Cwmpasu sy'n ymwneud â'r prosiect presennol.

<sup>43</sup> Gweler Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 184(a).

<sup>44</sup> Er gall rhai statudau perthnasol i faterion sydd wedi eu datganoli gynnwys darpariaethau i alluogi caffael tir naill ai trwy rymoedd gorfodi neu trwy gytundeb.

- 3.116 Fodd bynnag, yn y camau terfynol o basio Bil Cymru drwy'r Senedd, derbyniodd y Llywodraeth yn llwyr y dylid datganoli'r grym i ddeddfu ar y drefn brynu gorfodol, drwy ddiwygio'r Bil er mwyn cadw pwerau deddfwriaethol i Senedd y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â digolledu mewn perthynas ag
- (1) ymyrryd gyda hawliau mewn tir drwy arfer pŵer statudol; a
  - (2) dibrisiad yng ngwerth y tir o ganlyniad i waith neu dir a ddarperir neu a ddefnyddir wrth weithredu pŵer statudol.
- 3.117 Mae'r fformwleiddiad hwnnw'n parhau yn Neddf Cymru fel y cafodd ei gweithredu yn y diwedd.<sup>45</sup> Mewn geiriau eraill, mae Senedd y Deyrnas Unedig wedi cadw iddi'i hun yr hawl i ddeddfu mewn perthynas â digolledu am bryniant gorfodol, holli hawliau ac aflonyddu, ond nid mewn perthynas â phryniant gorfodol yn fwy cyffredinol. Byddai'n bosibl felly i Gynulliad Cymru ddeddfu ar gyfer agweddau gweithdrefnol o bryniant gorfodol, yn amodol ar broblemau posibl mewn perthynas â diwygio'r deddf eiddo gyffredinol, sydd y tu allan i bwerau'r Cynulliad.<sup>46</sup>
- 3.118 Mae'r gyfraith gyffredinol ynghylch prynu gorfodol wedi ei chynllunio'n glir gyda chyfraith cynllunio, yn rhinwedd y pwnc. Ond mae'n parhau i fod yn bwnc sylweddol ynddo ei hun; fe'i i ystyriwyd gan y Comisiwn mewn Papur Ymgynghori ar wahân rhyw ddegawd yn ôl.<sup>47</sup> Felly nid ydym yn ystyried y dylai fod o fewn cwrpas yr ymarfer cyfredol.
- 3.119 Fodd bynnag, yn ogystal â'r gyfraith gyffredinol honno, mae nifer o statudau perthnasol i faterion a ddatganolwyd yn cynnwys darpariaethau sydd yn galluogi caffael tir, naill ai trwy ddefnyddio grymoedd gorfodol neu trwy gytundeb.<sup>48</sup> Nid yw Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 yn eithriad ac mae adran 226 yn grymuso awdurdod lleol i gaffael yn orfodol unrhyw dir yn ei ardal os yw'n credu y bydd ei gaffael yn hwyluso datblygu, ail-ddatblygu neu wella ar neu mewn perthynas â'r tir, neu os oes angen y tir at ddibenion sydd yn hanfodol er budd cynllunio cywir mewn ardal lle mae'r tir wedi ei leoli. Yna mae gweddill rhan 9 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymhelaethu ar yr egwyddor mewn mwy o fanylder.
- 3.120 Byddai'n bosibl ailddatgan darpariaethau Rhan 9 (a darpariaethau cysylltiedig yn Rhannau 10 ac 11) yn y Bil newydd. Fodd bynnag, ar ôl trafod gyda Llywodraeth Cymru, rydym yn ystyried y byddai hyn yn ychwanegu yn sylweddol at gymhlethdod yr ymarfer, ac felly yn peri oedi cyn cynhyrchu'r Bil; er y gellid ei gynnwys ymhellach ymalen, efallai ar y cyd â darpariaethau eraill yn Neddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a deddfwriaeth gysylltiedig y soniwyd amdanynt yn gynharach yn y Bennod hon.<sup>49</sup>

<sup>45</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, para 185, fel y cafodd ei gynnwys mewn Deddf Cymru 2017, Atodlen 1.

<sup>46</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B, para 7, fel y cafodd ei osod i mewn gan Ddeddf Cymru 2017, Atodlen 2.

<sup>47</sup> *Ymlaen i God Prynu Gorfodol; (1) lawndal Comisiwn y Gyfraith 286 2003; a Ymlaen at God Prynu Gorfodol: (2) Gweithdrefn Comisiwn y Gyfraith 291 2004.*

<sup>48</sup> Er enghraifft, Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875, a 164; Deddf Coedwigaeth 1967, a 39; Deddf Prifffyrdd 1980 a 239(3).

<sup>49</sup> Gweler **para 3.71**.

## Cymeradwyaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu

- 3.121 Yn gyffredinol, mae ar y rheiny sydd eisiau gweithredu prosiect adeiladu angen caniatâd cynllunio a chymeradwyaerh o dan y Rheoliadau Adeiladu. Felly, efallai y bydd yn ymddangos ar yr olwg cyntaf y dylai ymarfer codeiddio a symleiddio o'r math a welwn yma gynnwys y Rheoliadau Adeiladu hefyd – a'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol, o dan Ddeddf Adeiladu 1984.
- 3.122 Fodd bynnag, mae'r ddau god deddfwriaethol yn wahanol iawn yn eu hanfod. Mae rheolaeth o dan y Deddfau cynllunio yn galluogi'r awdurdod lleol perthnasol i ganfod pa mor fanteisiol fyddai math arbennig o adeilad neu ddefnydd tir mewn egwyddor. I'r gwrthwyneb, mae rheolaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu'n galluogi i'r awdurdod reoleiddio manylion corfforol y gwaith adeiladu perthnasol – yn cynnwys diogelwch strwythurol, diogelwch mewn perthynas â thân, cyflwr y tir, ynysu sain, awyru, gwasanaethau, draeniad ac yn y blaen.
- 3.123 Mae'r ddwy broses yn berthnasol fel arfer ar wahanol gamau yn esblygiad y prosiect, ac yn cael eu rheoli gan wahanol swyddogion awdurdod lleol.
- 3.124 Yn ogystal, o dan Fil Cymru fel y cafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Senedd, gellir nodi mai un o'r materion a gadwyd i Senedd y Deyrnas Unedig oedd “rheoli cynllunio ac adeiladu adeiladau a materion perthnasol, dymchweliad adeiladau, a gwasanaethau, gosodion ac offer a ddarparwyd o fewn neu mewn cysylltiad ag adeiladau”.<sup>50</sup> O ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i'r Bil, roedd y gadwraeth honno wedi'i chyfyngu dim ond i reoliad o'r fath fel yr oedd yn berthnasol i dir a ddaliwyd neu a ddefnyddiwyd gan y Goron, adran y Llywodraeth, neu ymgymerwyr statudol penodol. Nid oedd deddfwriaeth a allai gael ei phasio un diwrnod efallai gan y Cynulliad yn gallu rheoleiddio adeiladau ar dir o'r fath.
- 3.125 Yn y Papur Cwmspasu, nid oeddem yn rhagweld cynnwys yn y Cod Cynllunio'r ddeddfwriaeth sy'n llywio'r rheolaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu; ac rydym yn parhau i farnu y dylai gael ei eithrio.

## Codau hunangynhwysol eraill

### *Seilwaith cludiant*

- 3.126 Mae awdurdodi prosiectau cludiant penodol (yn benodol rheilffyrdd, tramffyrdd, systemau cludiant dan arweiniad, a gwaith sy'n ymyrryd â hawliau mordwyo) yn fwy cymhleth na dim ond rhoi caniatâd cynllunio, oherwydd yn aml iawn bydd gweithredu cynllun o'r fath yn cynnwys nid yn unig wneud gwaith peirianeg neu waith arall, ond hefyd amrywiaeth o faterion ategol megis prynu tir, diddymu hawliau, codi tollau neu gostau teithio, a chreu is-ddeddfau.

### *Cartrefi symudol*

- 3.127 Mae rhai cartrefi symudol a chyfeirir atynt yn gyffredin fel “*cartrefi parc*”, yn cael eu defnyddio gan eu perchnogion drwy'r flwyddyn gron fel eu prif le byw. Mae lleoli cartrefi symudol wedi achosi problemau'n gyson am flynyddoedd lawer, ac felly mae llawer o ddeddfwriaeth wedi'i phasio am hyn – er bod hynny'n ymddangos fel

---

<sup>50</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B para 7, fel y cafodd ei osod i mewn dan Ddeddf Cymru 2017, Atodlen 2.

petai wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â thwyddedu safleoedd carafanau a rheoleiddio anheddiad mewn cartref symudol ar wahân i gyfraith gynllunio brif ffrwd fel arfer, er ei bod wedi ei chysylltu drwy rinwedd y ddarpariaeth yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir y rhoddir caniatâd cynllunio drwyddo ar gyfer lleoli carafanau mewn amgylchiadau lle nad yw trwydded safle'n ofynnol.<sup>51</sup>

- 3.128 Mae carafannu eraill yn cael eu gosod ar eiddo domestig neu eiddo arall, yn nodweddiadol mewn yn ngerddi blaen cartrefi maestrefol. Gall y rhai hyn hefyd achosi problemau cynllunio, ond gan amlaf bydd rheolaeth gynllunio arferol yn delio â hwy.

### *Gwrychoedd uchel*

- 3.129 Roedd dadleuon am wrychoedd uchel ar y ffin rhwng eiddo preswyl sydd drws nesaf i'w gilydd yn arfer achosi llawer o ddieter a phryder. Yn dilyn llawer o bwysau cyhoeddus a chyfres o Ffiliau aelodau preifat, cawsent eu trin yn Rhan 8 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae hyn yn deddfu fod perchennog (A) gardd sy'n cael ei chysgodi gan wrych uchel yn cael gofyn i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i berchnennog y gwrych (B). Os rhoddir hysbysiad o'r fath, gall B apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio; os nad, gallai A apelio.<sup>52</sup>

### *Llongdrylliadau wedi'u diogelu*

- 3.130 Rydym yn trafod archaeoleg yn gyffredinol mewn rhan arall o'r Papur Ymgynghori.<sup>53</sup> Un categori penodol sy'n cael ei ddiogelu ar hyn o bryd o dan drefn statudol hollol ar wahân yw llongdrylliadau alltraeth, sydd wedi eu diogelu o dan Ddeddf Diogelu Llongdrylliadau 1973. Ar hyn o bryd mae chwe llongdrylliad oddi ar arfordir Cymru, wedi eu dynodi o dan y Ddeddf a'u diogelu gan Cadw.<sup>54</sup> Mae'r system ddiogelu o dan Ddeddf 1973 ar wahân yn llwyr i fathau eraill o ddiogelwch i'r amgylchedd hanesyddol. Ac nid yw'r llongdrylliadau a ddiogelir yn debygol o gael eu heffeithio gan gynigion datblygu.

## **Casgliad**

- 3.131 Mae'n ymddangos bod yr amrywiol gynlluniau statudol a ystyrir uchod yn gweithredu'n rhesymol o foddhaol. O ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau, mae'n ymddangos nad oes angen penodol i ymgorffori'r ddeddfwriaeth berthnasol yn y Bil Cynllunio ar y cam hwn – er y gellid dod â nhw i mewn i'r Cod ar gam diweddarach, efallai pan fydd corff arbennig o ddeddfwriaeth yn cael ei ddwyn ynghyd am resymau eraill.

---

<sup>51</sup> Gorchymyn Cynllunio (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Atodlen 2, Rhan 5, Dosbarth A; Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960, Atodlen 1, paragraffau 2-10.

<sup>52</sup> Rheoliadau Gwrychoedd Uchel (Apeliadau) (Cymru) 2004 (OS 3240); Rheoliadau Gwrychoedd Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004 (OS 3241).

<sup>53</sup> Gweler **paragraffau 3.199, 13.181 i 13.185.**

<sup>54</sup> Y Royal Yacht Mary, oddi ar Ynysoedd y Moelrhoniaid, Ynys Môn (drylliwyd 1675, diogelwyd 1974); Llongdrylliad Pwll Fanog, ar yr Afon Menai (drylliwyd yn y canol oesoedd, diogelwyd 1979); Llongdrylliad Tal-y-Bont, ym Mae Ceredigion (drylliwyd yn yr pedwerydd ar bymthegfed ganrhifi, diogelwyd yn 2002).

## DIWYGIADAU A DIDDYMIADAU ÔL-DDILYNOL

- 3.132 Ochr yn ochr a'r ddau Fil newydd a ragwelir uchod – yn ymwneud â chynllunio a'r amgylchedd hanesyddol – byddai angen darn pellach o ddeddfwriaeth, yn cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth arall sy'n parhau mewn grym.
- 3.133 Yn gyntaf, bydd darnau niferus o ddeddfwriaeth – naill ai'n gyfan neu'n rhannol – sy'n berthnasol yng Nghymru yn unig, ac y gellir eu diddymu'n syml. Gellir diddymu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei chyfanrwydd, ynghyd â darnau o chwech arall, sydd wedi'u rhestru yn **Nhabl B- 2** yn Atodiad B.
- 3.134 Yn ogystal, fe fydd hi'n angenrheidiol sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol sydd i'w ddisodli gan y Biliau newydd, mewn perthynas â Chymru, yn cael ei diwygio er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu'n drefnus yn Lloegr. Rydym yn rhagweld y bydd oddeutu 20 darn o ddeddfwriaeth a fydd yn parhau i fod yn berthnasol yn Lloegr, ond na fyddent (o leiaf yn rhannol) yn berthnasol bellach yng Nghymru, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn **Nhabl B-4** yn Atodiad B.<sup>55</sup>
- 3.135 A bydd angen gwneud nifer sylweddol o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol (yn amrywio o Ddeddf Prynu Tir 1981 i Ddeddf Trwyddedu Swâu yn yr un flwyddyn). Bydd y rhain yn dod yn amlwg wrth i ddrafftio manwl y Cod symud yn ei flaen. Nid ydynt yn derbyn rhagor o ystyriaeth ar y cam yma.
- 3.136 Rydym yn rhagweld na fyddai'r trydydd darn yma o ddeddfwriaeth yn ffurfio rhan o God, ac na fyddai angen ei hystyried yn ymarferol gan ddefnyddwyr y Codau yng Nghymru, na gan ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth berthnasol fel y mae'n parhau i fod yn gymwys yn Lloegr.

---

<sup>55</sup> Os byddai ymarfer tebyg yn cael ei wneud wedi hynny yn Lloegr, byddai'n bosibl diddymu'r darnau o ddeddfwriaeth sydd yn Nhabl B-4 yn eu cyfanrwydd.

## Pennod 4: Diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth

### CYFLWYNIAD

- 4.1 Ym **Mhennod 2**, rydym yn nodi bod ein cylch gwaith yn cynnwys cyfuniad ynghyd â symleiddio a rhesymoli'r ddeddfwriaeth bresennol, ac hefyd droi'n statudol gyfyngiadau sy'n deillio o gyfraith achos.<sup>1</sup> Mae hyn yn gyson gyda'n hargymhellion, yn ein hadroddiad cynharach, ar *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, dylai'r codeiddio hwnnw gynnwys:
- (1) dod â deddfwriaeth at ei gilydd, y mae ei phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad ac sydd ar hyn o bryd wedi ei gwasgaru ar draws amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth Senedd y Deyrnas Unedig a/neu'r Cynulliad, mewn un darn unigol o ddeddfwriaeth y Cynulliad; a
  - (2) diwygio'r ddeddfwriaeth fel y bo'n briodol.<sup>2</sup>
- 4.2 Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried sut ac i ba raddau y dylai'r ymarfer codeiddio gynnwys diwygio'r ddeddfwriaeth, yn ogystal ag ailddatganiad syml. Yn gyntaf, rydym yn ystyried diwygiadau technegol yn gyffredinol, yn cynnwys mater penodol y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd, ac yna diwygiadau posibl i godeiddio cyfraith achosion.
- 4.3 Mae pob newid penodol y cyfeirir ato yn y Bennod hon yn cael ei drin yn fanylach yn y bennod am y pwnc perthnasol yn Rhan Dau'r Papur Ymgynghori hwn.

### DIWYGIADAU TECHNEGOL YN GYFFREDINOL

#### Y Papur Cwmpasu

- 4.4 Ym Mhennod 5 y Papur Cwmpasu, rydym yn nodi y byddai angen adolygu'r gyfraith ar yr holl bynciau oedd yn ffurfio rhan o'r Cod Cynllunio arfaethedig er mwyn canfod meysydd lle gallai gwelliannau technegol fod yn fuddiol, er ein bod wedi gweld bod y rhannau hynny o'r system sy'n cael eu defnyddio a'u diwygio'n amlach yn debygol o fod angen sylw manylach. Nodwyd gennym hefyd nad yw'r prosiect yma'n amcanu i ymestyn at faterion a allai ofyn diwygio polisi neu egwyddor cynllunio; felly byddem yn ystyried diwygio dim ond cyn belled ag y byddai'n ymestyn nod ehangach y prosiect: cyfraith gynllunio fwy eglur, symlach a mwy hygyrch i Gymru.
- 4.5 Roeddem yn awgrymu bod yr ymarfer yma'n gyfle i symleiddio meysydd o gymhlethdod dianghenraid a dileu adrannau sy'n amlwg yn ddiangen neu sydd wedi eu dyblygu. Roeddem yn gwahodd rhanddeiliaid i ddweud a ddylid mynd ar ôl diwygiad technegol

---

<sup>1</sup> Gweler **paragraff 2.4**.

<sup>2</sup> *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, Com y Gyf Rhif 366, Argymhelliad 2.

o'r math hwnnw mewn egwyddor, a pha feysydd fyddai'n fanteisiol ar gyfer diwygio o'r fath.<sup>3</sup>

- 4.6 Yn arbennig, gwelsom bedwar (i ryw raddau, yn gorgyffwrdd) categori o welliannau technegol posibl i'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol:
- (1) eglurhad lle mae geiriau neu ymadroddion sy'n cael eu defnyddio yn y ddeddfwriaeth yn aneglur neu'n anghyson;
  - (2) gwelliannau i symleiddio gweithdrefn neu addasu anghysonderau;
  - (3) addasiad lle nad yw'r darpariaethau'n adlewyrchu arferion sefydledig; a
  - (4) rhesymoli neu dynnu darpariaethau ailadroddus, darfodedig neu sydd heb eu cychwyn.
- 4.7 O dan bob un o'r penawdau yma, roeddem wedi nodi rhai meysydd o'r gyfraith oedd yn ymddangos yn briodol ar gyfer diwygiad technegol, ac yn gwahodd barn rhanddeiliaid am y rheiny, ac am unrhyw bynciau eraill yr oeddent yn eu hystyried yn briodol - o dan y rheiny neu unrhyw benawdau eraill.
- 4.8 O ran egwyddor cyffredinol diwygio technegol, roedd yr ymgylgoreion bron i gyd o'i blaid.<sup>4</sup> Roedd rhai ohonynt yn gwneud hyn yn amlwg o glir; roedd eraill yn cefnogi'r egwyddor yn llwyr, drwy dderbyn ein cynigion neu drwy gynnig rhai eraill.
- 4.9 Ond, codwyd pryderon gan rai ymgylgoreion. Roedd rhai'n barnu nad yw'r diwygiadau technegol o'r math yr oeddem wedi eu cynnig yn y Papur Cwmpasu'n mynd yn ddigon pell. Roedd y Gymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA), er enghraifft, yn barnu bod y prosiect yn "gyfle a gollwyd, am mai dim ond ceisio tacluso o amgylch yr ymylon y mae, yn hytrach na darparu newid". Roedd eraill yn meddwl y dylid pennu diwygiadau ar wahân o'r ymarfer cyfuno, er mwyn darparu darlun mwy eglur o'r gyfraith fel y mae heb geisio gwneud unrhyw addasiad ar y cam yma.<sup>5</sup>

### Y categorïau diwygio technegol a gynigir yn y Papur Cwmpasu

- 4.10 Roedd y tri chategori cyntaf a nodir uchod yn ymwneud â meysydd o ddeddfwriaeth gynllunio y dylid eu cadw, ond a allai gyda mantais gael eu diwygio i sicrhau eu bod yn gweithredu'n fwy effeithiol.
- 4.11 Roedd y cyntaf yn ymwneud ag egluro darpariaethau yn y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n aneglur yn eu gweithrediad neu'n anghyson yn eu geiriad. Yr esiamplau a roesom o'r broblem hon oedd y darpariaethau sy'n ymwneud â'r ystyriaethau sydd i gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio, cymeradwyo materion wrth gefn, tir gweithredol ymglymerwyr statudol, a chynnwys hysbysiad gorfodi. Yn gyffredinol, roedd pobl yn cefnogi'r awgrymiadau yma.

---

<sup>3</sup> Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu, Pennod 5.

<sup>4</sup> Atebwyd y cwestiwn yma gan 25 o ymatebwyr: cytunodd 23 y dylem fod yn ceisio diwygiad technegol ym mhrif gam y prosiect; roedd 2 yn ddi-farn y naill ffordd a'r llall.

<sup>5</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; cafwyd sylwadau tebyg gan y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl.



- 4.12 Yr un eithriad posibl oedd mewn perthynas â'n hawgrym y gallai fod yn opsiwn gwell i bennu materion i'w hystyried wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau; awgrymodd un ymgynghorai mai'r ffordd orau o wneud hyn efallai fyddai drwy arweiniad yn hytrach na deddfwriaeth.
- 4.13 Roedd yr ail gategori'n ymwneud â gwella darpariaethau yn y gyfraith gyfredol sydd â'r effaith bosibl o arafu gweithrediad y system, cynhyrchu anghysonderau ac anomaleddu, a rhwystro pobl rhag gallu cymryd rhan yn y broses gynllunio. Fel esiamplau, roeddem yn cyfeirio at broblemau gydag addasiadau i ganiatâd cynllunio, amodau ynghylch cyfyngiadau amser, mathau penodol eraill o amodau, canlyniad peidio cydymffurfio gyda gofynion gweithdrefnol y ceisiadau, apeliadau tracio dwbl, a thor amodau cynllunio wedi'u cuddio. Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth i'n hawgrymiadau.
- 4.14 Yn drydydd, roeddem yn nodi pwysigrwydd sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y cynllun deddfwriaeth, a dileu darpariaethau presennol nad ydynt yn adlewyrchu arferion sefydledig. Un esiampl a roesom o hyn oedd nad oes hawl apelio yn erbyn amod a roddwyd ar gymeradwyo materion a gedwir yn ôl. Roedd cefnogaeth i hyn hefyd.

#### **Darpariaethau darfodedig, ailadroddus ac heb eu cychwyn**

- 4.15 Pedwerydd categori'r diwygio technegol a awgrymwyd yn y Papur Cwmpasu oedd diddymu cynigion oedd yn ddiangen am un rheswm neu'i gilydd. Mae'n nodwedd anffodus o'r broses deddfwriaethol bod y Senedd hyd yma wedi tueddu cyflwyno deddfwriaeth newydd yn hytrach na chael gwared â hen deddfwriaeth nad oes ei hangen bellach.
- 4.16 Gwelsom fod byrddau datblygu gwledig (a gyflwynwyd yn 1967) wedi cael eu defnyddio unwaith yn unig, yn Lloegr, ac nad oedd comisiynau ymholiadau cynllunio (1968) wedi cael eu defnyddio o gwbl. Ni chafodd ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol (1979) eu creu yng Nghymru erioed, a chynigiodd y llywodraeth eu bod yn cael eu diddymu yn 1996. Dim ond un corfforaeth datblygu trefol a gafodd ei chreu erioed yng Nghymru (yn 1987), a phrin iawn oedd yr ardaloedd cynllunio syml (a gyflwynwyd yn 1986) a grëwyd, a hynny yn Lloegr. Rhoesom yr awgrym y gellid diddymu pob un o'r rhain; ni awgrymodd unrhyw un o'r ymgynghoreion i'r Papur Cwmpasu wneud fel arall.
- 4.17 Roeddem hefyd wedi awgrymu, yn dilyn y newidiadau a wnaed i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn 2013, a gweithrediad Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015, nad oedd unrhyw gyfiawnhad yn awr dros gael systemau ar wahân o heriau statudol i benderfyniadau cynllunio, a'n hawgrym ni oedd nad oedd angen dod â Rhan 12 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ymlaen i mewn i'r Cod. Cafodd hyn ei gefnogi hefyd ar y cyfan.
- 4.18 Yn fwy cyffredinol, nodwyd yn y Papur Cwmpasu mor bwysig oedd gwahaniaethu rhwng darpariaethau nad ydynt bron byth yn cael eu defnyddio, ond y mae angen eu cadw, a'r rheiny nad ydynt yn mynd i gael eu defnyddio mewn gwirionedd. Cytunodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De Ddwyrain) gyda hynny, gan nodi y byddai werth gofyn, cyn dileu'r darnau o'r deddfwriaeth bresennol sy'n ymddangos yn ddiangen, a allen nhw gael eu hadfer rhyw ddiwrnod i bwrpas da.

## Diwygiadau a awgrymwyd gan ymatebwyr y Papur Cwmpasu

- 4.19 Yn y Papur Cwmpasu, yn ogystal â chyflwyno nifer o gynigion ynghylch newidiadau posibl, roeddem hefyd yn gofyn i randdeiliaid bennu meysydd pellach o ddeddfwriaeth y gellid cael budd o'u haddasu neu eu dileu.
- 4.20 Mewn perthynas â'r angen am ganiatâd cynllunio, awgrymodd yr ymatebwyr bod lle i egluro a ydyw (neu ym mha amgylchiadau y mae) "datblygiad" yn cynnwys troi dau annedd yn un, neu newid defnydd materol drwy ddwysáu, ac a ddylid cyflwyno dosbarth defnydd ar wahân ar gyfer cartrefi gwyliau.
- 4.21 Roedd y newidiadau posibl eraill a awgrymwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:
- (1) dylid sicrhau bod y rheolau ynghylch datblygiad a awdurdodir gan adrannau'r Llywodraeth yn dod yn gyfatebol gyda mathau eraill o ddatblygiad sy'n cael ei awdurdodi drwy ganiatâd;
  - (2) dylid rhesymoli'r rheolau ynglŷn â gwneud ceisiadau cynllunio a chyflwyno datganiadau amgylcheddol;
  - (3) dylid egluro'r meini prawf ar gyfer dilysu ceisiadau, a dylid diddymu pwerau awdurdodau cynllunio i gynhyrchu rhestr leol o'r wybodaeth gefnogol sy'n ofynnol;
  - (4) dylid ystyried codi ffioedd am geisiadau caniatâd adeiladau rhestredig;
  - (5) dylid egluro statws y gwrthwynebiadau a wneir ar ôl diwedd y cyfnod 21 diwrnod gofynnol.
- 4.22 Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylid cyfuno deddfwriaeth eilaidd, yn cynnwys yn arbennig y gorchmynion yn ymwneud â hawliau datblygu a ganiateir a threfniadau rheoli datblygiad (fel a ddigwyddodd yn Lloegr yn 2015) ac apeliadau ac ymholiadau.
- 4.23 Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau pellach am osod amodau ar ganiatâd cynllunio, am fecanweithiau goblygiadau cynllunio, ac am droi yn ôl at ddefnydd tir blaenorol yn dilyn gorfodiad.
- 4.24 Pennwyd darpariaethau pellach y dywedwyd eu bod yn ddiangen, ac a allai felly gael eu diddymu'n syml iawn. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaethau ynghylch tor amodau cynllunio yn ystod y rhyfel, darparu tystysgrifau ffug i gefnogi ceisiadau, cychwyn datblygiad, a'r pŵer i ganiatáu datblygiad nad yw'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu.
- 4.25 Ymdrinnir â phob un or pwyntiau yma yn y Bennod ar y pwnc perthnasol yn Rhan Dau. Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r awgrymiadau a wnaed, ond nid ymhob achos.

## Uno trefniadaethau caniatâd

- 4.26 Un diwygiad penodol y cyfeiriwyd ato gennym yn y Papur Cwmpasu oedd diwygiad yn ymwneud â'r gorgyffwrdd rhwng caniatâd cynllunio a chaniatâd statudol arall - yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Roeddem wedi pennu rhai o'r problemau, ac wedi mynegi barn y byddai tynnu

caniatadau o'r fath at ei gilydd - naill ai fel system unigol neu o fewn Cod unigol - yn debygol o ddarparu system a fyddai'n fwy agored, hygyrch a chyson.

- 4.27 Aethom ati i wahodd sylwadau gan randdeiliaid am y manteision ymaferol y gellid eu sicrhau o gynnal ymarfer o'r fath, ac ynglŷn â pha ganiatadau statudol amrywiol fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer dull o'r fath.<sup>6</sup>
- 4.28 Ysgogodd yr awgrym yma lefel uchel o ymateb. Felly rydym yn ei ystyried mewn Pennod ar wahân yn Rhan Dau (**Pennod 13**) mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth; ac yn cyfeirio ato ym **Mhenodau 14 a 15** mewn perthynas â chaniatadau ar gyfer hysbysebu a gweithio ar goed.

## Y CYDWBYSEDD RHWNG DEDDFWRIAETH SYLFAENOL AC IS-DEDDFWRIAETH

- 4.29 Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar ddeddfwriaeth sylfaenol - hynny yw y diwygiadau posibl y gellid eu hymgorffori mewn Bil Cynllunio newydd. Fodd bynnag, fe nodom yn ein hadroddiad ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru yr ychwanegir at fuddion codeiddio os gwneir is-ddeddfwriaeth berthnasol yn fwy hygyrch hefyd.<sup>7</sup>
- 4.30 O ganlyniad rydym wedi gwneud nifer o gyfeiriadau trwy gydol y Papur Ymgynghori hwn ynghylch gwelliannau posibl i is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol mewn perthynas â phynciau lle mae'r gyfraith a ddefnyddir mewn ymarfer wedi ei gynnwys bron yn gyfan gwbl mewn rheoliadau - megis rheoli hysbysebu yn yr awyr agored a gwaith i coed wedi eu diogelu.<sup>8</sup>
- 4.31 Yn ogystal, un categori arbennig o ddiwygiad technegol posibl a gafodd sylw yn ein Papur Cwmpasu oedd addasu'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y maes hwn o'r gyfraith. Rydym yn nodi bod y cynigiad i greu Cod Cynllunio'n cynnig cyfle unigryw i adolygu pa mor fanteisiol fyddai hyn.<sup>9</sup>
- 4.32 Yn amlwg, byddai Deddfau'n mynd yn drwsogl iawn os byddent yn cynnwys yr holl ddarpariaethau mwy manwl a geir ar hyn o bryd mewn offerynnau statudol. Ar y llaw arall, er bod deddfwriaeth eilaidd yn atebol i gymeradwyaeth gan y Cynulliad, mae'n anochel ei bod yn derbyn llai o graffu, oherwydd cyfyngiadau amser. Ac weithiau mae defnyddwyr yn ei chael hi'n anfodhaol cael deunydd statudol wedi'i rannu rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd.
- 4.33 Felly aethom ati i ofyn i ymgynghoreion y Papur Cwmpasu roi eu sylwadau ynghylch dosbarthiad darpariaethau rhwng deddfwriaeth sylfaenol (naill ai yng nghorff Deddf neu mewn Atodlen iddi) ac mewn is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei llunio oddi tano.<sup>10</sup>

---

<sup>6</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, Pennod 6.

<sup>7</sup> *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, Com y Gyf Rhif 366, 29 Mehefin 2016, para 5.7

<sup>8</sup> Gweler Penodau 14 a 15.

<sup>9</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, para 3.38.

<sup>10</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, pennod 6.

## Yr Ymateb i'r Papur Cwmpasu

- 4.34 Roedd mwyafrif yr atebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn yma'n cytuno bod cydbwysedd bras yma rhwng deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd.<sup>7</sup>
- 4.35 Roedd Cymorth Cynllunio Cymru, oedd hefyd yn credu bod y cydbwysedd yn gywir ar y cyfan, wedi nodi'r canlynol:
- Un angen penodol yw bod aelodau'r cyhoedd a chynghorau cymunedol yn gallu pennu darpariaethau cymwys mewn Atodlen a'r rheiny mewn is-ddeddfwriaeth. Mae'n haws, yn gyffredinol, i ganfod darpariaethau lle mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cyfeirio at Atodlen ynddo, yn hytrach na rhoi'r pŵer iddo i wneud gorchmynion, rheolau neu reoliadau yn hwyrach ymlaen.
- 4.36 Roedd Coed Cadw'n cefnogi defnyddio deddfwriaeth eilaidd, am fod hyn yn "osgoi creu deddfau trwsogl a hirion ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i addasu a diweddarau deddfwriaeth eilaidd wrth symud ymlaen".
- 4.37 Cytunodd y Grid Cenedlethol y byddai manteision mewn cael un darn o ddeddfwriaeth ond dywedodd y byddai manteision mewn defnyddio deddfwriaeth eilaidd i gyflenwi deddfwriaeth sylfaenol. Nododd hefyd y dylai "ymarfer symleiddio a chyfuno hefyd fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan gyfryngau ar-lein a sut y gellir defnyddio'r rhain i gael adnodd integredig wedi'i ddiweddarau".
- 4.38 Esboniodd rhai ymgynghoreion pam eu bod yn cefnogi'r ymraniad cyfredol. Er enghraifft, roedd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref yn barnu bod y rhaniad presennol rhwng elfennau sylfaenol ac eilaidd y gyfraith gynllunio'n briodol i raddau mawrion, ond roedd yn cytuno gyda'r cafeatau a restrir yn y Papur Cwmpasu, yn arbennig gyda'r awgrym y dylai darpariaethau statudol gael eu cynnwys lle bynnag y bo'n bosibl mewn Atodlen i ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol, yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion neu reoliadau rywbryd yn y dyfodol.<sup>12</sup>
- 4.39 Roedd Innogy Renewables UK hefyd yn barnu bod y cydbwysedd cyfredol rhwng y ddeddfwriaeth gynllunio sylfaenol ac eilaidd yn briodol i raddau mawr, ar yr amod bod y cafeatau a enwir yn y Papur Cwmpasu'n weithredol.<sup>13</sup> Fodd bynnag, roedd yn awgrymu y dylid tynnu rhai o'r gweithdrefnau cynllunio sydd ar waith ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth eilaidd i mewn i ddeddfwriaeth sylfaenol, megis y rheiny sy'n ymwneud â'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) a'r broses o wneud cynlluniau datblygu.
- 4.40 Roedd yr ymgynghoreion hynny a anghytunodd gyda'r rhaniad cyfredol yn credu bod gormod o fanylder yn y ddeddfwriaeth eilaidd ar hyn o bryd. Er enghraifft, roedd RWE Generation yn credu bod y rhaniad rhwng deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd

---

<sup>11</sup> Atebodd 24 o ymgynghoreion y cwestiwn yma: cytunodd 10 bod y cydbwysedd yn gywir ar y cyfan, roedd 7 yn meddwl bod y cydbwysedd yn anghywir i raddau mawr ac roedd 7 yn ddi-farn.

<sup>12</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, para 3.52

<sup>13</sup> *Cyfraith Gynllunio yng Nghymru*, Papur Cwmpasu, para 3.52

"ddim o anghenraid yn gywir" ac y dylai darpariaethau penodol, yn enwedig mewn perthynas â'r broses o wneud cynlluniau datblygu, gael eu tynnu i mewn i ddeddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd hefyd bod llawer o ddarpariaethau ynghylch y weithdrefn gynllunio sydd mewn deddfwriaeth eilaidd ar hyn o bryd y dylid eu dwyn at ei gilydd mewn deddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd hefyd:

Dylid dod â materion megis EIA i mewn i ddeddfwriaeth sylfaenol, o gofio na fydd raid gwneud newidiadau aml efallai ar ôl Brexit i drawsodi Cyfarwydddebau'r Undeb Ewropeaidd (er y byddai'n ddoeth gweithredu newidiadau o'r fath wedi i strategaeth "Brexit" ar gyfer y Deyrnas Unedig ddod yn fwy eglur). Ar y llaw arall, mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu haddasu'n aml ac mae deddfwriaeth eilaidd yn briodol i hynny, ac hefyd ar gyfer y diffiniadau o'r mathau o ddatblygiad sy'n atebol i EIA

4.41 Mynegwyd pryderon tebyg am orddefnyddio deddfwriaeth eilaidd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dywedodd ei bod hi'n anodd canfod deddfwriaeth eilaidd weithiau ac, er ei bod hi'n dderbyniol bod rhai gofynion yn mynd i fod o natur dechnegol neu'n atebol i adolygiad mwy rheolaidd, dylid cyfyngu hynny i'r manau "angenrheidiol" yn unig.

4.42 Dywedodd Cyngor Caerdydd y byddai'n well ganddynt weld darpariaethau'r Cod Cynllunio mewn un darn o ddeddfwriaeth, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

4.43 Pwysleisiodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl bwysigrwydd cynnwys deddfwriaeth eilaidd mewn unrhyw God Cynllunio:

Mae'n debyg bod cyfraith Gynllunio'n unigryw yn y ffaith fod ei gweithrediad yn dibynnu i raddau mawr ar bolisi Gweinidogaethol sydd, wrth gwrs, yn gallu newid yn weddol rheolaidd naill ai oherwydd newid Llywodraeth neu i gyfateb ag amgylchiadau sy'n newid a pholisïau Llywodraeth sy'n datblygu. Byddem yn dadlau'n gryf bod gweithrediad Cod yn sicr o fod yn llwyddiant os bydd y maint sylweddol o ddeunydd sydd mewn offerynnau statudol yn cael ei gynnwys hefyd yn y Cod. Esiampl glir o hyn yw'r rôl bwysig sydd gan hawliau datblygu a ganiateir. Mae'r rhain yn sylfaenol, yn enwedig yng nghyd-destun deiliad y cartref.

4.44 Roedd y Gymdeithas hefyd yn cefnogi cynnwyscanllawiau.

Mae angen i fframwaith polisi cynllunio, fel y Fframwaith Polisi Cenedlaethol yn Lloegr, fod yn rhan integrol o unrhyw God, hyd yn oed os oes trefn wahanol ar gyfer ei addasu/ddiweddaru. Heb ymdrin â'r mater o rôl bwysig offerynnau statudol (a'u maint) ac ymgorffori polisi cynllunio, ni fyddai unrhyw God a gynigir yn debyg i hynny o gwbl.

4.45 Dyma'r agwedd sy'n cael ei mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn ei phenderfyniad y dylai arweiniad a pholisi fod yn rhan integrol o'r Cod Cynllunio.

#### **Deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd: casgliadau**

4.46 Defnyddir deddfwriaeth eilaidd fel arfer i ddarparu ar gyfer manylion y gofynion statudol. Gallai hyn, er enghraifft, esbonio beth yw manylion yr hyn sydd o fewn y

diffiniad o ddatblygiad a beth sydd angen caniatâd cynllunio penodol - megis gyda'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Gallai reoleiddio gofynion gweithdrefnol, fel gyda'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygiad Cyffredinol, a'r amrywiol apeliadau a rheolau ymholiadau. Ymhob achos, mae'r egwyddorion eang yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd neu'r Cynulliad, yn amodol ar ddadleuon cyfnodol, ac wedi eu cynnwys, mewn termau cyffredinol, o fewn y deddfwriaeth sylfaenol, ond y peth doeth fyddai gadael y manylion i'r rheoliadau.

- 4.47 Felly, er enghraifft, mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n cael rhoi caniatâd awtomatig drwy orchymyndatblygu ar gyfer amrywiol categorïau o ddatblygiad sydd naill ai o arwyddocâd cyfyngedig (megis estyniadau bach i dai preifat) neu'n cael eu cymeradwyo o dan weithdrefnau eraill (megis gwaith gan ymgymerywyr statudol) Yna gellir darparu cyfyngiadau manwl categorïau o'r fath (megis a yw'r estyniadau domestig a gymeradwyir drwy hyn yn gallu bod yn 10% neu'n 15% o faint y gwreiddiol, a pha amodau ddylid eu rhoi ar gymeradwyaeth o'r fath) mewn gorchymyn, y gellir ei newid o bryd i'w gilydd yn unol â gofynion polisi cyfredol.
- 4.48 Yn ail, mae cyfres o reoliadau'n gallu darparu cod cyflawn sy'n sefyll ar ei ben ei hun ac sy'n ddefnyddiol i lywio rheoliad gweithgaredd arbennig - er enghraifft, fel y nodwyd uchod, arddangos hysbysebion. Mae union fanylion yr hyn sydd angen neu sydd ddim angen caniatâd asut i gael gadael ar ganiatâd o'r fath yn gallu newid o bryd i'w gilydd, ond mae'n gyfleus i'r rheiny sy'n defnyddio'r cod ganfod yr holl fanylion y maent eu hangen mewn un lleoliad. Rydym hefyd wedi awgrymu y dylai'r gyfraith ar rai materion eraill - megis graffiti a gosod posteri heb ganiatâd - fod mewn is-ddeddfwriaeth.<sup>14</sup>
- 4.49 Yn drydydd, gellir darparu manylion trefniadol a gweinyddol bach mewn rheoliadau mewn is-ddeddfwriaeth. Ystyriwn ei bod yn haws i hynny fod, cyn belled â phosibl, ar ffurf "rheoliadau" yn hytrach na "rheolau" neu "orchmynion", gan fod hyn yn darparu hyblygrwydd ar gyfer symud darpariaethau o un darn o is-ddeddfwriaeth i un arall. Rydym hefyd yn ystyried y byddai'n well i faterion gael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru ar ffurf rheoliadau, ble maent yn berthnasol i ystod eang o achosion; dylid cadw "cyfarwyddiadau" ar gyfer materion sydd yn berthnasol i achos penodol yn unig.
- 4.50 Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn barnu bod y cydbwysedd presennol rhwng deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd yn gywir ar y cyfan. Rydym yn cydnabod ymhellach bod newid er mwyn newid yn gallu bod yn ddryslyd i'r defnyddiwr. Ond rydym wedi pennu maes neu ddau lle gallai fod yn briodol yn ein barn ni i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.<sup>15</sup>Ac rydym hefyd yn gwneud awgrymiadau ynghylch trosglwyddo darpariaethau manwl iawn o ddeddfwriaeth sylfaenol i ddeddfwriaeth eilaidd.<sup>16</sup>

## CODEIDDIO CYFRAITH ACHOSION

### Yr egwyddorion cyffredinol

- 4.51 Categori pellach o ddiwygiad technegol posibl yw ymgorffori yn y ddeddfwriaeth egwyddorion a sefydlwyd mewn penderfyniadau y mae'r llysoedd wedi eu gwneud dros y blynyddoedd.

- 4.52 Mae'r gyfraith Gynllunio, yn wahanol i feysydd eraill o'r gyfraith wedi'i seilio i raddau mawr ar statud. Hynny yw, yr amrywiol Ddeddfau Seneddol (ac, yn fwy diweddar, y Cynulliad) ynghyd â darparu "cod cynhwysfawr a gyflwynwyd er budd y cyhoedd".<sup>17</sup> Fodd bynnag, dros y saith deng mlynedd diwethaf cafwyd nifer fawr o benderfyniadau barnwrol sydd wedi archwilio, yng nghyd-destun achosion penodol, darnau arbennig o'r cod statudol sy'n aneglur - naill ai'n gyffredinol, neu efallai mewn perthynas â sefyllfaoedd ffeithiol penodol - a rhai pynciau nad ydynt yn cael eu trin yn gyflawn, neu ddim o gwbl, yn y ddeddfwriaeth berthnasol.
- 4.53 Yn y Papur Cwmpasu, gofynnwyd i randdeiliaid ddweud a ddylai'r Cod Cynllunio gynnwys rhai o'r rheolau sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn cyfraith achos o'r fath, yn arbennig:
- (1) gwneud egwyddorion cyfraith gynllunio'n eglur;
  - (2) egluro ystyr termau statudol heb eu diffinio; a
  - (3) llenwi'r bylchau lle mae cwmpas y darpariaethau statudol yn aneglur.<sup>18</sup>
- Ac aethom ninnau ati i wahodd awgrymiadau am eitemau o gyfraith achosion yr oeddent yn eu hystyried yn arbennig o addas ar gyfer codeiddio.<sup>19</sup>
- 4.54 Rhoesom amlinelliad hefyd o restr o feini prawf yr oeddem yn bwriadu eu defnyddio i ddewis cyfraith achosion i'w chodeiddio, fel a ganlyn:
- (1) faint mae'r gyfraith achosion wedi'i setlo;
  - (2) a yw'r cynnig neu'r egwyddor y mae'r gyfraith achosion yn sefyll drosto'n ddigon clir a chywir i alluogi iddi gael ei drafftio ar ffurf darpariaeth ddeddfwriaethol; ac
  - (3) a oes eithriadau i'r cynnig neu'r egwyddor neu a oes unrhyw resymau gwirioneddol eraill am beidio ceisio ei drafftio ar ffurf ddeddfwriaethol.<sup>20</sup>
- 4.55 Mewn perthynas â'r cyntaf o'r tri, yr hyn oedd ganddom mewn golwg oedd i ba raddau yr oedd cynigiad wedi ei dderbyn gan y llysoedd fel un annadleuol. Byddai hyn yn gymwys, yn amlwg, ble byddai, er enghraifft, yn ffurfio sail penderfyniad gan Dŷ'r Arglwyddi rai blynyddoedd yn ôl, ac wedi ei ddyfynnu yn aml, ac efallai wedi ei ymhelaethu ond heb ei gwestiynu erioed - fel gyda'r prawf ynghylch amodau ar ganiatadau cynllunio.<sup>21</sup> Ond gellir ystyried cynyigad hefyd fel un sydd wedi ei "setlo" ble mae wedi cael ei fabwysiadu dros gyfnod o flynyddoedd mewn penderfyniadau yn y llysoedd is, heb unrhyw her - mwy na thebyg ar y sail ei fod yn egluro'r gyfraith yn wasanaethgar ac yn cytgordio â synnwyr cyffredin - fel gyda'r dyddiad y dylid

<sup>17</sup> *Pioneer Aggregates v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1985] CA 132, TA, gan Arglwydd Scarman at dudalen 141.

<sup>18</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, cwestiwn 7-1.

<sup>19</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, cwestiwn 7-2.

<sup>20</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, paragraff 7.7.

<sup>21</sup> Gosodwyd gan yr Arglwyddi yn *Newbury DC v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1981] AC 578 ar dudalennau 607-608 - gweler **para 8.91**.

ystyried cwrtill adeilad.<sup>22</sup> Y ffactor allweddol yw'r graddau y mae'r egwyddor dan sylw wedi, fel y datganwyd mewn rhai achosion, ei dderbyn yn rheol gyfreithiol.<sup>23</sup>

- 4.56 Aethom ati hefyd i archwilio esiamplau o egwyddorion a sefydlwyd mewn cyfraith achosion a allai fod yn briodol i'w cynnwys yn y cod statudol; a gwahoddwyd rhanddeiliaid i awgrymu eraill.

### Yr Ymateb i'r Papur Cwmpasu

- 4.57 Er bod 25 o'r 26 o'r ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu a roddodd eu barn am gynnwys newidiadau technegol wrth baratoi'r Cod Cynllunio newydd yn cefnogi'r syniad hwnnw, dim ond 29 a fynegodd eu barn ar gyfraith achos oedd yn meddwl y dylai'r Cod newydd geisio codeiddio cyfraith achosion; roedd 11 naill ai'n anghytuno neu heb farn yr un ffordd na'r llall.<sup>24</sup> Ymhellach, rhoddodd nifer fawr o'r rheiny a gytunodd â'r egwyddor o godeiddio cyfraith achosion esboniad pam yr oeddent yn ei chefnogi, gan bwysleisio'r angen am sicrhau bod y gyfraith achos sy'n cael ei chodeiddio'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol yn gywir ac yn derfynol. Felly roedd llawer llai o gefnogaeth i godeiddio'r gyfraith achosion nag ydoedd i ymgorffori addasiadau technegol yn gyffredinol. Rydym wedi nodi rhai o'r sylwadau a wnaethpwyd isod.
- 4.58 Ymysg y rheiny oedd yn cefnogi codeiddio roedd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (y De Orllewin) yn meddwl bod y syniad o godeiddio'n "newyddion da", gan nodi y "dylai Cod newydd gynnwys rhestr termau, diffiniadau a, lle mae cyfraith achosion glir sydd wedi'i sefydlu'n llawn, dylid cyfeirio at honno hefyd". Roedd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yn barnu bod yn rhaid i bobl ddeall yr egwyddorion sydd wedi dod i'r amlwg o'r gyfraith achosion neu "bydd hi'n amhosibl deall y system gynllunio gyfredol".
- 4.59 O ran y meini prawf i ddewis egwyddorion cyfraith achosion i'w codeiddio, roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru'n barnu bod y rheiny yr oeddem wedi'u hawgrymu'n ymddangos yn ddoeth. A chynigiodd ddau faen prawf pellach, sef
- (1) lle byddai'n ddefnyddiol egluro mater penodol; a
- (2) lle gwellir bylchau yn y darpariaethau statudol cyfredol.
- 4.60 Ond, fel y nodwyd uchod, roedd rhai o'r rheiny oedd yn cefnogi codeiddio mewn egwyddor yn dweud bod angen bod yn ochelgar. Er enghraifft, roedd RWE Generation ac Innology Renewables UK yn croesawu cynnwys rheolau penodol yn y Cod Cynllunio a fyddai'n symleiddio ac yn agyfnherthu'r diffiniadau a'r dehongliadau mwyaf cywir o egwyddorion y gyfraith gynllunio, ond pwysleisiodd mai "dim ond cyfraith achosion hirsefydlog sydd wedi sefydlu'n dda ddylai gael ei chodeiddio".

---

<sup>22</sup> Gweler y penderfyniadau a ddyfynnir ym **Mhennod 13, troednodion 104 a 105**.

<sup>23</sup> Fel gyda'r rheol afoesddedodau – yn ymwneud a bargyfreithiwr heb y gallu i erlyn – fe wnaeth hyn caledu i rheol cyfreithiol (nodwyd yn *Rondel v Worsley* [1969] AC 191 ar dud 197, neu ymarfer y barnwyr (yn *D v NSPCC* [1978] AC 171 ar dud 218)

<sup>24</sup> Atebodd 29 o ymgynghorwyr i'r cwestiwn yma: cytunodd 18 ohonynt, fe wnaeth 4 anghytuno ac nad oedd barn gyda 7 ohonynt.



4.61 Yn yr un modd, rhoddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sylw ar godeiddio cyfraith achosion fel yma:

Er fy mod yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai codeiddio cyfraith achosion yn rhan o'r ymarfer codeiddio ehangach, gyda phopeth yn un lle, hoffwn rybuddio bod angen cymryd gofal. Yn fy marn i, os gweithredir fel yma, bydd hi'n bwysig diweddarau'r Cod yn rheolaidd. Yn ei dro, mae hyn yn golygu bod angen digon o adnoddau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd angen cymryd gofal hefyd i sicrhau bod beth bynnag sy'n cael ei gynnwys yn Cod yn cael ei gytuno'n gyffredinol i adlewyrchu'r sefyllfa derfynol. Felly, os oes amwysedd ynghylch cyfraith achosion a / neu mae potensial y gallai'r mater esblygu ymhellach, ni ddylid cynnwys hyn.

4.62 Mynegodd y Grid Cenedlaethol ei gefnogaeth i'r egwyddor o geisio cynyddu eglurder termau, ond dim ond lle mae tystiolaeth glir bod y diffiniadau sy'n bodoli mewn statud neu gyfraith achosion yn annigonol, a lle mae manteision o gael diffiniad mwy eglur yng nghyfraith Cymru. Dywedodd Cyngor Castell Nedd Port Talbot nad yw diffiniadau o anghenraid yn hawdd i'w rhoi ar waith a derbyniodd y gallai dull wedi'i seilio ar feini prawf fod yn briodol. Gwnaed sylw tebyg gan nifer o ymgynghoreion eraill.

4.63 Roedd chwe ymgynghorydd oedd yn ansicr y naill ffordd a'r llall. Er enghraifft, gofynnodd Cymorth Cynllunio Cymru a fyddai'n ymarferol mynd y tu hwnt i'r egwyddorion allweddol diffiniol sy'n deillio o gyfraith achos, gan nodi y gallai hyn gyfyngu ar yr hyblygrwydd fyddai'n fanteisiol wrth gwrdd â sefyllfaoedd newydd. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn derbyn bod cyflwyno'r rheolau hyn i'r Cod Cynllunio'n gallu darparu eglurder ond teimlai bod "angen cymryd gofal wrth ddrafftio a gweithredu rheolau o'r fath".

4.64 Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen feddwl agored am ei fod yn cytuno'n gyffredinol y byddai codeiddio'n briodol mewn perthynas â chyfraith achosion wedi setlo pan fo'r diffiniadau'n drwyadl; ond os na fyddai'r diffiniadau'n drwyadl byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i natur benodol y darpariaethau. Roedd yn nodi hefyd y gallai egwyddorion codeiddio cyfraith gynllunio achosi i bobl fathu a glynu'n anhyblyg at benderfyniadau barnwrol cymhleth, yn hytrach na bod yn sylfeini y gellid adeiladu atebion arnynt i gwestiynau anodd.

4.65 Mynegwyd gochelgarwch tebyg gan Gymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA):

Rydym yn rhannu gochelgarwch y Comisiwn ynghylch y risgiau a chanlyniadau anfwriadol posibl ceisio codeiddio cyfraith achosion. O ystyried y darlun cyfan, rydym yn barnu y gallai'r cyfleoedd i godeiddio cyfraith achosion yng nghyd-destun prosiect cyfredol y Comisiwn fod yn gyfyngedig Rydym yn cadw mewn cof y ffaith fod ffurfio Cod Cynllunio newydd yn brosiect heriol ynddo'i hun, am y rhesymau a roddwyd gan y Comisiwn yn gynnar yn y Papur Cwmpasu. Er bod amrywiol elfennau'r ddeddfwriaeth gynllunio gyfredol yn doredig ac yn gymhleth, maent hefyd yn weddol gynhwysfawr, fel y gwelwyd gan Dŷ'r Arglwyddi cyn belled yn ôl â'i benderfyniad yn *Pioneer Aggregates v Yr Ysgrifennydd Gwladol*. Rydym yn awgrymu y byddai efallai'n well cyfyngu'r agwedd hon o'r prosiect i achosion eglur a phendant iawn, lle mae angen codeiddio

egwyddorion o gyfraith achosion er mwyn llenwi "bylchau" amlwg yn y cod statudol.

- 4.66 Anghytunodd pedwar o'r ymgynghoreion gyda'r egwyddor o godeiddio cyfraith achosion. Roedd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref yn barnu er bod codeiddio ehangach fel y mae wedi'i ddiffinio yn nod defnyddiol yn y tymor hirach, efallai y byddai cynnwys cyfraith achosion yn y codeiddio ehangach yn mynd ychydig yn rhy bell. Nododd y canlynol:

Bydd angen ystyried goblygiadau codeiddio egwyddorion cyfraith achosion yn ofalus. Gallai gynhyrchu anawsterau na fwriadwyd os bydd penderfyniadau newydd yn codi sy'n gwrthdaro gyda dehongliadau blaenorol.

- 4.67 Yn yr un modd, dywedodd yr Arolygiaeth Gynllunio nad oedd yn barnu bod cyfraith achosion yn briodol ar gyfer codeiddio. Disgrifiodd y dasg fel ymgymeriad enfawr sy'n gofyn llawer o ystyriaeth ac y byddai cyfuno cyfraith achosion yn ddianghenraid yn y pen draw. Er enghraifft, nid yw'r diffiniad o "cwrtil" yn addas iawn i gael ei ei ddiffinio'n bendant mewn cyfraith achosion; mae'n fater o ffaith a graddfa i raddau mawr. Dyma'r achos hefyd ar gyfer "ystyriaethau perthnasol".

- 4.68 Mynegodd y Ffederasiwn Eiddo Prydeinig bryder arbennig ynghylch y gwahaniaethau a allai godi wrth wneud yr ymarfer yma yng Nghymru, ond nid yn Lloegr:

Gallai'r gwahaniaeth yma yn y ddwy drefniadaeth achosi nid yn unig ddwy ffrwd hollol wahanol o gyfraith achosion sy'n cystadlu â'i gilydd yn codi o'r systemau deddfwriaethol fydd wedyn ar wahân ond, gan gynnwys cyfraith achosion ei hun, gallai wedyn arwain at ail-ddehongli anfwriadol y gyfraith achosion honno oherwydd bydd y ddeddfwriaeth newydd ei hun yn agored i ddehongliad a chraffu manwl gan y Llysoedd. Yn y pen draw, heblaw bod agwedd draws-ffiniol, unol yn cael ei mabwysiadu, ynghyd ag agwedd ofalus iawn tuag at integreiddio cyfraith achosion gyda deddfwriaeth, gallai adolygiadau o'r natur a ddisgrifir achosi mwy o gymhlethdodau annisgwyl a dryswch, sef yr union beth y mae'r ymgynghoriad yn ceisio ei ddatrys.

## Diffiniadau

- 4.69 Gwnaethom nifer o awgrymiadau yn y Papur Cwmpasu am egwyddorion o gyfraith achosion y gellid o bosib eu cynnwys yn y Cod newydd. Nodwyd gennym, er enghraifft, nad yw "cwrtil" wedi ei ddiffinio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 nac mewn deddfwriaeth eilaidd gysylltiedig, ac awgrymwyd y dylid cywiro'r hepgoriad yma, gan ymgorffori rhai o'r penderfyniadau barnwrol niferus sy'n ystyried y pwynt.<sup>25</sup> Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i nodi'n eglur ar ba ddyddiad y mae maint y cwrtil i gael ei ystyried. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mewn egwyddor, ond roedd nifer ohonynt yn barnu y byddai'n anodd iawn gwneud hynny mewn gwirionedd. Rydym yn ehangu ar hyn yn ddiweddarach yn y Papur Ymgynghori hwn.

- 4.70 Aethom ati i awgrymu y gallai fod yn bosibl ehangu ar ystyr y termau "gweithredoedd peirianeg" ac "adeiladu" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ein barn gychwynnol, ym mhob achos, oedd y gallai fod yn well gadael y diffiniad fel y mae,

mewn cyfraith achosion - yn enwedig am nad oes unrhyw ddryswch amlwg, o leiaf gyda'r cyntaf.<sup>26</sup> Roedd yr ychydig bobl a ymatebodd ar y pwynt yma'n tueddu cytuno. Gwnaeth yr ymatebwyr y pwynt hefyd y gallai unrhyw newid i ddiffiniadau statudol o'r fath mewn perthynas â Chymru achosi dryswch mewn rhannau eraill o'r DU.

- 4.71 Un o nodweddion allweddol cyfraith gynllunio yw bod yn rhaid gwneud nifer o benderfyniadau cynllunio mewn perthynas ag "ystyriaethau materol"; mae'r term hwnnw wedi derbyn ystyriaeth eang gan y llysoedd dros flynyddoedd lawer, ac yn y Papur Cwmpasu roeddem yn ystyried a fyddai unrhyw fantais mewn ymgorffori rhai o'r casgliadau a gafwyd i mewn i'r Cod. Nodwyd gennym, fel esiampl, y penderfyniadau a gafwyd gan y Goruchaf Lys mewn perthynas â pha mor berthnasol yw ystyriaethau ariannol i'r broses o wneud penderfyniadau.<sup>27</sup> Fodd bynnag, gwelsom hefyd y byddai'n rhaid ystyried yn ofalus a fyddai codeiddio cyfraith achos o'r fath yn dod â mwy eglurder mewn gwirionedd. Ychydig iawn o bobl a ymatebodd i'r pwynt yma, ond roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru'n barnu y byddai rhywfaint o arweiniad yn ddefnyddiol; roedd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar y llaw arall, yn anghytuno'n llwyr.
- 4.72 Aeth rhai ymatebwyr ymhellach ac awgrymu ystyriaethau ychwanegol y dylid eu gwneud yn amlwg o berthnasol - megis yr angen am ddatblygiad, cael sefyllfa wrth gefn, y manteision cymunedol i'w darparu gan ddatblygiad, a'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

### Egwyddorion y gyfraith gynllunio

- 4.73 Gwelsom yn y Papur Cwmpasu fod egwyddorion cyfraith gynllunio, oherwydd eu natur, yn gyfnewidiol, esblygiadol ac anghyflawn; a bod yn rhaid cymryd gofal arbennig felly wrth ddewis ar gyfer eu codeiddio unrhyw achosion sy'n ceisio sefydlu egwyddorion o'r fath.
- 4.74 Rhoesom fel esiampl yr hyn sydd wedi ei enwi erbyn hyn yn egwyddor *Whitley*, sy'n ymwneud â chyfreithedd datblygiad a gychwynwyd cyn cydymffurfio yn llawn gyda'r holl amodau ynghlwm wrth y caniatâd perthnasol.<sup>28</sup> Mae hyn wedi derbyn sylw mewn llawer o waith dadansoddi yn y llysoedd, sydd wedi ceisio egluro eithiriadau i'r "egwyddor" fel petai.<sup>29</sup> Rydym wedi mynegi safbwynt cychwynol sef, o ystyried nifer a chwmpas yr amodau i egwyddor *Whitley*, efallai na fydd hi'n bosibl ei chodeiddio'n foddhaol. Roedd yr ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu'n tueddu cytuno gyda'n ansicrwydd ni; rydym yn ystyried hyn yn ddiweddarach yn y Papur Ymgynghori.<sup>30</sup>
- 4.75 I'r gwrthwyneb, roeddem yn barnu y byddai'n briodol codeiddio'r egwyddor a sefydlwyd gan y llysoedd nad oes gan y penderfynwyr sy'n ystyried cais am gymeradwyaeth i faterion wrth gefn yr hawl i'w gwrthod ar sail sy'n mynd at egwyddor

---

<sup>26</sup> Er enghraifft, yn *Fayrewood Fish Farms v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1984] JPL 267; *Cyngor Sir Gaer v Woodward* [1962] 2 QB 126; *Barvis v Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol* (1971) 22 P&CR 710.

<sup>27</sup> *R (Sainsbury's Supermarkets) v Wolverhampton CC* [2010] CTDU 20, [2011] 1 CA 437; *Health and Safety Executive v Wolverhampton CCC* [2012] CTDU, [2012] 1 WLR 2264.

<sup>29</sup> Er enghraifft, *Agecrest v Gwynedd CC* [1998] JPL 325; *Leisure GB plc v Isle of Wight CC* (2000) 80 P&CR 370; *Greyfort Properties v Secretary of State* [2011] EWCA Civ 908, [2012] JPL 34.

<sup>30</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 8-13**.

y datblygiad ei hun.<sup>31</sup> Roedd yr ychydig ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar hyn yn gefnogol yn gyffredinol.

- 4.76 Roeddem yn awgrymu hefyd bod lle i ymgorffori yn y Cod yr egwyddor y gallai hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud â newid defnydd diawdurdod ofyn yn gyfreithiol am dynnu datblygiad gweithrediadol achlysurol.<sup>32</sup> Yma eto, roedd ymatebwyr yn gefnogol.
- 4.77 Mae'r angen am ganiatâd cynllunio i newid defnydd tir i ddefnydd a hepgorwyd efallai yn y gorffennol yn bwynt arall sydd wedi derbyn rhywfaint o sylw barnwrol dros nifer o flynyddoedd.<sup>8</sup>Yn y Papur Cwmpasu, roeddem yn awgrymu bod rhywfaint o le efallai i godeiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â hepgoriad, ond roeddem angen deall maint unrhyw ansicrwydd a achoswyd gan gyflwr presennol y gyfraith. Nododd nifer o ymatebwyr bod hwn yn faes sy'n llawn o amheuaeth, y byddai'n ddefnyddiol ei egluro; roedd pobl eraill yn rhybuddio bod angen gofal. Erbyn meddwl roeddem wedi penderfynu peidio â dilyn y trywydd hwn.

### Llenwi bylchau yn y darpariaethau statudol

- 4.78 Yn ogystal â cheisio egluro elfennau amwys yn y ddeddfwriaeth bresennol, o leiaf mewn perthynas ag amgylchiadau ffeithiol arbennig, mae'r llysoedd hefyd wedi ceisio llenwi rhai bylchau lle mae'r ddeddfwriaeth yn dweud dim, neu ddim yn dweud digon. Mae'n amlwg mai ychydig iawn o'r ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu roddodd sylwadau am yr awgrymiadau a wnaethom o dan y pennawd yma.
- 4.79 Er enghraifft, rydym yn nodi beth yw'r gyfraith mewn perthynas â'r cyfyngiadau amser i'r Uchel Lys herio penderfyniadau cynllunio. Yn gyffredinol, rhaid gwneud y rhain o fewn chwe wythnos i'r penderfyniad perthnasol - ond nid yw'n hollol glir ynglŷn â sut i gyfrifo'r cyfnod hwnnw. Cafwyd amrywiol benderfyniadau barnwrol am y rheolau perthnasol sydd i'w dilyn (er enghraifft, ynglŷn â chynnwys gwyliau cyhoeddus).<sup>34</sup> Roeddem yn awgrymu yn y Papur Cwmpasu y gallai hyn gael ei egluro'n ddefnyddiol ar wyneb y Cod.
- 4.80 Roeddem yn nodi hefyd bod Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu y gall awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi caniatâd cynllunio yn amodol ar "amodau y maent yn eu hystyried yn addas", heb bennu pa amodau sy'n gyfreithiol. Ystyriwyd hyn gan Dŷ'r Arglwyddi flynyddoedd lawer yn ôl, a'u barn hwy oedd bod yn rhaid gosod amodau i bwrpas cynllunio, bod yn rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r datblygiad a ganiateir; a bod yn rhaid iddynt fod yn rhesymol.<sup>35</sup> Mae canllawiau'r Llywodraeth wedi ychwanegu at hynny, drwy dweud bod yn rhaid i amodau fod yn

---

<sup>31</sup> *Thirkell v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1978] JPL 844; gweler pennod 8, paragraff 8.142 yn enwedig.

<sup>32</sup> *Murfitt v yr Ysgrifennydd Gwladol* (1980) 40 P&CR 254; *Somak Travel v Secretary of State* (1988) 55 P&CR 250; gweler para 12.77.

<sup>33</sup> Er enghraifft, yn *Hartley v y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol* [1970] 1 QB 413; *Ymddiriedolwyr Ystâd Castell-y-Mynach v yr Ysgrifennydd Gwladol i Gymru* [1985] JPL 40.

<sup>34</sup> *Griffiths v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1983] 2 CA 51; *Stainer v yr Ysgrifennydd Gwladol* (1993) 65 P&CR 310.

angenrheidiol, gorfodadwy a manwl gywir.<sup>35</sup> Yn y Papur Cwmpasu, rhoesom arwydd petrusgar y byddai efallai'n well gadael y sefyllfa fel y mae.

- 4.81 Yn berthnasol i hynny mae ansicrwydd posibl am effaith amod annilys – a fyddai'n bosibl torri'r amod yma ymaith oddi wrth y caniatâd a'i anwybyddu, neu a ydyw'n gwneud y caniatâd cyfan yn annilys? Mae'r llysoedd wedi awgrymu bod hyn yn dibynnu a yw'r amod yn sylfaenol neu'n achlysurol.<sup>37</sup> Rydym wedi awgrymu yn y Papur Cwmpasu bod lle efallai i ymgorffori'r rheol honno o fewn y ddeddfwriaeth.

### Cynigion eraill

- 4.82 Rydym hefyd wedi gofyn i ymatebwyr y Papur Cwmpasu gynnig pwyntiau eraill a sefydlwyd mewn cyfraith achosion a allai gael eu codeiddio'n ddefnyddiol. Cafwyd rhai awgrymiadau, ond nid oedd fawr fanylder ynddynt ar y cyfan.
- 4.83 O ran yr angen am ganiatâd cynllunio, awgrymodd yr ymatebwyr y gellid codeiddio ystyr "newid defnydd sylweddol" a maint yr "uned gynllunio", yn ogystal â'r dull cywir o gyfrifo "lefel y tir". O ran ceisiadau, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys codeiddio egwyddor *Wheatcroft*,<sup>38</sup> lle mae ymgeisydd am ganiatâd cynllunio'n gallu newid maint y datblygiad yn dilyn cyflwyno cais os na fyddai gwneud hynny'n cymryd y cyfle i wrthwynebu oddi ar unrhyw drydydd parti.
- 4.84 Gofynnodd eraill am fwy o eglurhad o ddiffiniad termau megis "yn ffinio", "cyfagos", "amwynder", "annedd", "tŷ annedd" a "phriffordd".

### Codeiddio cyfraith achosion: casgliadau

- 4.85 Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater o godeiddio cyfraith achosion, yn unol â'r ymatebion i'r Papur Cwmpasu ac yn fwy cyffredinol.
- 4.86 Nid pwrpas yr ymarfer yma yw codeiddio cyfraith achosion er ei mwyn ei hun - mae cannoedd o feirniadaethau barnwrol sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chyfraith gynllunio, ac ni fyddai'n ymarferol nac yn ddefnyddiol ceisio eu codeiddio nhw i gyd. Ac mae unrhyw ddetholiad o feirniadaethau sydd i gael eu codeiddio yn siŵr o fod yn fympwyol. Dydy hi ddim yn briodol chwaith i gynnwys yn y cod statudol egwyddorion yn deillio o bolisi Llywodraethol, a fydd yn aml yn newid wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.
- 4.87 Fodd bynnag, rydym yn gobeithio gwneud y cod statudol mor glir ag sy'n rhesymol bosibl, gan sicrhau hefyd nad yw'n mynd yn anhylaw o hir. Yn yr ymdrech honno, mae nifer o resymau amlwg dros archwilio cyfraith achosion.
- 4.88 Yn gyntaf, mae rhai darpariaethau statudol sy'n derbyn llawer mwy o sylw gan y llysoedd nag eraill. O bori'n ysgafn drwy'r *Gwyddoniadur Cyfraith Gynllunio ac Arferion*, er enghraifft, gwelwn fod y sylwadau ar y mwyafrif o adrannau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymestyn i dudalen neu ddwy; ond mae'r sylwadau

---

<sup>35</sup> Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014, *Defnydd Amodau Cynllunio ar gyfer Rheolu Datblygiad*.

<sup>37</sup> *Hall & Co v Shoreham-by-Sea UDC* [1964] 1 WLR 240, CA; *Cyngor Sir Kent v Kingsway Investments (Kent)* [1971] AC 72, TA.

<sup>38</sup> *Bernard Wheatcroft Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol am yr Amgylchedd* [1982] JPL 37.

ar rai'n llawer hirach - mae'r nodiadau ar adran 70 (penderfynu ceisiadau cynllunio) yn ymestyn i fwy na naw deg o dudalennau. Mae hyn yn yn ei dro'n arwyddo bod yr adrannau hynny'n cael eu defnyddio'n gyson; mae hefyd yn dangos eu bod yn ddigon ansicr eu hystyr, am ryw reswm, i gyfiawnhau'r costau ymglyfreithiad. Ac mae unrhyw un sy'n ysgrifennu gwerslyfrau ar y gyfraith neu'n rhoi darlithoedd i ymarferwyr yn gwybod bod un neu ddau o ddarpariaethau'n creu llawer mwy o ansicrwydd a diddordeb na'r lleill i gyd bron - er enghraifft, adran 198(6)(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ystyr "niwsans" mewn perthynas â choed sydd wedi'u diogelu)<sup>39</sup> ac adran 1(5) y Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (maint y rhestru).<sup>40</sup>

4.89 Yng ngweddill y Papur Ymgynghori yma, rydym wedi talu sylw arbennig i'r darpariaethau allweddol hynny.

4.90 Yn ail, fodd bynnag, mae penderfyniadau barnwrol yn archwilio dehongliad cywir o'r gyfraith gyfredol, p'un a yw'r dehongliad hwnnw'n ddefnyddiol ai peidio. Mae barnwyr yn pwysleisio'n gywir iawn mai gwaith y ddeddfwrfa yw gwneud newidiadau i'r gyfraith, nid gwaith y llysoedd. Fel y dywedodd Tŷ'r Arglwyddi yn *Pioneer Aggregates*:

Ni chaniateir i'r swyddogaeth farnwrol fynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth statudol drwy weithredu egwyddorion o'r fath dim ond am eu bod efallai'n ymddangos fel petaent yn sicrhau ateb tecach i'r broblem sy'n cael ei hystyried. Fel y bu erioed ym maes cyfraith statudol, mae dyletswydd ar y llysoedd i weithredu bwriad y Senedd fel y mae i'w weld yn y statud neu'r cod statudol o'i ystyried yn gyfan.<sup>41</sup>

4.91 Felly, nid yw o reidrwydd yn llawer o gymorth ei gynnwys mewn penderfyniadau statud sy'n anfoddfaol yn eu hanfod. Ac wrth gwrs, gallai achosion olynol - neu achos unigol, wrth iddo symud drwy gamau olynol o apêl - gynhyrchu canlyniadau gwahanol.

4.92 Gydag ystyriaethau fel yma mewn cof y cyflwynwyd y meini prawf gennym ynglŷn â phryd y byddai'n briodol cynnwys cyfraith achos, fel y cafodd ei hamlinellu'n gynharach.<sup>42</sup> Ond gallem ychwanegu ystyriaeth bellach at y rheiny, sef, a yw'r sefyllfa a sefydlwyd gan gyfraith achosion yn adlewyrchu'r hyn a ystyrir yn gyffredinol yn ddehongliad "gorau" neu fwyaf "boddhaol" o'r ddarpariaeth berthnasol, sut bynnag y byddai rhywun yn asesu hynny. Ac yn wir, efallai y byddai'n briodol mewn rhai achosion i gynnwys rheol yn y Cod nad yw wedi ei sefydlu mewn cyfraith achosion, er mwyn cael gwell canlyniad. Ond, wrth gwrs, os oes elfen o amheuaeth ynglŷn â'r ffordd orau o ddehongli darpariaeth, byddai hynny'n awgrymu ei bod yn amhriodol efallai i godeiddio'r ddarpariaeth honno ar hyn o bryd.

4.93 Yn drydydd, gallai cyfraith achosion lenwi bylchau a adewir gan y ddeddwriaeth. Felly, er enghraifft, fel y nodwyd uchod, mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei hun yn caniatáu i amodau gael eu rhoi ar ganiatadau cynllunio, ond nid yw'n dweud pa fathau o amodau sy'n gyfreithlon. Mae'r llysoedd, ynghyd â chanllawiau'r Llywodraeth, wedi

---

<sup>39</sup> Gweler **para 15.70 i 15.80**.

<sup>40</sup> Gweler **para 13.187 i 13.190, 18.139 i 18.145**.

<sup>41</sup> [1985] AC 132, dywedwyd gan yr Arglwydd Scarman at dud 141.

<sup>42</sup> Gweler **para 4.54** uchod.

llenwi'r bwch hwnnw.<sup>43</sup> A gallai cyfraith achos neu ganllawiau o'r fath fod yn hollol annadleuol mewn gwirionedd.

- 4.94 Mewn achosion o'r fath, ac efallai nad oes llawer ohonynt, mae bodolaeth rheol mewn cyfraith achos a ddilynir yn eang yn awgrymu bod bwch yn y cod statudol a fyddai'n hawdd ei lenwi. Mae werth nodi felly bod grym awdurdodau cynllunio i osod amodau yn Lloegr ar ganiatadau cynllunio yn mynd i gael ei gyfyngu yn y dyfodol gan adran 100ZA Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>44</sup> Bydd hyn yn cyflwyno i'r statud y prawf cyfredol a geir yng nghanllawiau'r Llywodraeth, - sydd ei hun yn ehangu ar y rheol yn *Newbury v Yr Ysgrifennydd Gwladol*.<sup>45</sup>
- 4.95 Mae'r un sefyllfa'n codi mewn perthynas â'r prawf am gyfreithlonedd goblygiadau cynllunio, a oedd yn arfer bod mewn canllawiau, ac sydd yn awr wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd.<sup>46</sup>
- 4.96 Yng nghyd-destun yr ystyriaethau uchod, rydym yn awgrymu mai'r allwedd yw peidio codeiddio cyfraith achosion fel nod ynddo'i hun, ond yn hytrach archwilio ymhle mae'r ddeddfwriaeth yn aneglur ar hyn o bryd, a beth yw'r ffordd orau o ddatrys hynny, yng nghyd-destun cyfraith achosion (os oes rhai).
- 4.97 Yn olaf, ymhob achos, rydym yn ymwybodol iawn bod ein hargymhellion a'n cynigion yn ymwneud dim ond â'r gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Os cânt eu derbyn, byddai'r sefyllfa'n parhau heb ei newid yn Lloegr. Gallai hynny arwain at sefyllfa anfoddfaol, hyd nes y gwneir newidiadau cyfatebol yn Lloegr - ac mae'n bosib na fydd hynny'n digwydd am amser hir, neu ddim o gwbl. Ni fyddai hynny'n broblem lle'r ydym yn cynnig codeiddio rheol annadleuol ac adnabyddus sy'n bodoli'n barod mewn cyfraith achosion neu ganllawiau; ond gallai fod yn broblematig mewn achosion eraill.
- 4.98 Yng nghyd-destun yr ymatebion i'r Papur Cwmpasu, ac yn ysbryd y sylwadau cyffredinol uchod, rydym wedi adolygu'r gyfraith achosion mewn perthynas â phob un o'r pynciau a ystyriwyd yn Rhan Dau, ac wedi cyflwyno cynigion lle ystyriwn bod hynny'n briodol. Ond, yn unol â'r rhybudd am gymryd gofal a fynegwyd yn y Papur Cwmpasu, a gan nifer o'r bobl a ymatebodd iddo, rydym wedi dod i'r casgliad yn gyffredinol nad yw codeiddio cyfraith achosion mor ddefnyddiol ag y mae'n ymddangos efallai o edrych arno i ddechrau.

---

<sup>43</sup> Gweler **paragraffau 8.90, 8.91** uchod.

<sup>44</sup> A fydd yn cael ei ymgorffori yn y Ddeddf Cynllunio Cymdogaethau 2014, a 17 (gweler **para 8.94**).

<sup>45</sup> Gweler **para 4.91** uchod.

<sup>46</sup> Rheoliadau Seilwaith Cymunedol 2010, rheoliad 122; gweler, yn flaenorol, Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97, Atodiad B.





# RHAN DAU

## PYNCIAU PENODOL

### Pennod 5: Darpariaethau rhagarweiniol

#### CYFLWYNIAD

- 5.1 Bydd y Bil Cynllunio newydd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau cyffredinol sy'n sylfaenol i'w weithrediad. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys:
- (1) trosolwg o gwmpas y Bil, ac efallai gwmpas y Cod Cynllunio ("y Cod") cyfan;
  - (2) cyfeiriadau at yr egwyddorion sy'n sail i'r broses o wneud penderfyniadau o dan y Cod;
  - (3) syniad o'r prif gyrff sy'n gweithredu'r Cod - yn benodol, awdurdodau cynllunio ac efallai'r Arolygiaeth Gynllunio;
  - (4) gweithrediad y Cod mewn achosion arbennig (megis mewn perthynas â thir y Goron, tir yr awdurdod lleol, ac ymgymrwyr statudol);
  - (5) diffiniadau'r termau sydd ynddo.
- 5.2 Mae cwmpas y Bil wedi derbyn ystyriaeth yn Rhan Un y Papur Ymgynghori hwn. Mae diffiniadau ac achosion arbennig yn derbyn sylw ym **Mhennod 17**.
- 5.3 Yn y Bennod hon rydym yn ystyried a oes angen pwrpas statudol amlwg yn y Bil Cynllunio (a thrwy gysylltiad, y Cod Cynllunio), a sut i resymoli a symleiddio'r amrywiol ddyletswyddau statudol sy'n berthnasol ar hyn o bryd i weithrediad swyddogaethau cynllunio. Yna rydym yn trafod y darpariaethau hynny sy'n delio gyda gweinyddiad y system gynllunio.

#### EGWYDDORION SY'N TANATEGU'R COD CYNLLUNIO

##### Datganiad statudol o bwrpas ar gyfer y system gynllunio

- 5.4 Roedd un o'r statudau cynharaf yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref yn disgrifio tasg y Gweinidog Cynllunio Gwlad a Thref fel yma: "sichrau parhad yn y ffordd y mae polisi cenedlaethol yn cael ei fframio a'i weithredu mewn perthynas â defnydd a datblygiad tir drwy Gymru a Lloegr gyfan".<sup>1</sup> Nid oedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

---

<sup>1</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1943, a. 1.

1947 yn cynnwys egwyddor trosfwaol o'r fath am y sylfaen y dylai'r Gweinidog - neu'r awdurdodau cynllunio - weithredu arni. Ac nid oedd unrhyw egwyddor o'r fath i'w chael yn unrhyw un o'r Deddfau cynllunio niferus oedd yn ei dilyn chwaith.

- 5.5 Yn ein Papur Cwmpasu, roeddem yn awgrymu cynnwys datganiad statudol am bwrpas y system gynllunio - o ran gwneud cynlluniau ac hefyd wneud penderfyniadau. Derbyniodd hyn gefnogaeth sylweddol. Cytunodd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref y dylai'r Cod Cynllunio newydd gynnwys pwrpas statudol ar gyfer cynllunio ac awgrymodd bod y pwrpas yma'n cymryd i ystyriaeth y diffiniad a ddefnyddir yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) ("DC(C)")2015 yn ogystal â deddfwriaeth berthnasol Cymru, yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("Deddf Llesiant") 2015. Awgrymodd y diffiniad a ganlyn:

Mae'r system gynllunio yng Nghymru'n bodoli i hybu a galluogi datblygiad cynaliadwy drwy gael systemau effeithiol o lunio cynlluniau, gwneud penderfyniadau a gorfodi sy'n cael eu gweithredu er budd y cyhoedd gan awdurdodau cynllunio lleol, a Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau.

- 5.6 Cefnogwyd y syniad o gynnwys datganiad o bwrpas statudol hefyd gan Gymdeithas Perchnogion Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA), Persimmon Homes West Wales, Cymorth Cynllunio Cymru ac Innogy Renewables.

- 5.7 Roedd adroddiad 2012 y Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG) yn argymhell hefyd y dylid cael datganiad statudol am bwrpas y system gynllunio, ar hyd y llinellau a ganlyn:

Pwrpas y system gynllunio gwlad a thref yw rheoli a rheoleiddio defnydd a datblygiad tir mewn ffordd sy'n cyfrannu tuag at gyflawni datblygiad cynaliadwy.<sup>2</sup>

Arweiniodd hyn at gyflwyno yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 egwyddor datblygiad cynaliadwy, sy'n derbyn ystyriaeth isod, ond dim ond mewn perthynas â swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- 5.8 Yn dilyn ystyriaeth ofalus, ein barn dros dro yw na fydd angen pwrpas statudol penodol yn y Bil Cynllunio ar gyfer y system gynllunio gyfan, ar yr amod bod y dyletswyddau statudol amrywiol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o fewn y system gynllunio wedi eu rhesymoli a'u hegluro. Rydym yn trafod hyn ymhellach isod.<sup>3</sup>

### **Dyletswyddau statudol sy'n berthnasol wrth wneud swyddogaethau cynllunio**

- 5.9 Ar hyn o bryd mae dwy egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud yn benodol â chynllunio yng Nghymru. Y gyntaf, sydd wedi bodoli ers cyflwyno'r system gynllunio 70 mlynedd yn ôl, yw'r ddyletswydd sydd gan wneuthurwyr penderfyniadau mewn perthynas â'r:

(1) cynllun datblygu, cyn belled ag y bo'n berthnasol, a'r

---

<sup>2</sup> *Ymlaen at Deddf Cynllunio Cymru: Sicrhau System Llwyddiannus*, Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Cynghori Annibynnol, Mehefin 2012, argymhelliad 1-3.

<sup>3</sup> Gweler paragraffau 5.120 -5.122

- (2) holl ystyriaethau perthnasol eraill.
- 5.10 Mae ystyriaethau perthnasol penodol eraill hefyd sydd wedi eu hamlygu mewn un ffordd neu'r llall:
- (1) cadwraeth neu welliant adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth;
  - (2) defnyddio'r iaith Gymraeg; a
  - (3) pholisi Llywodraeth Cymru.
- 5.11 Mae'r ail egwyddor gyffredinol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy. Mae Adran 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu bod yn rhaid gwneud unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â ffurfio'r cynllun datblygu yma neu â rheoli datblygiad yn rhan o weithrediad datblygiad cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant.
- 5.12 Yn ogystal â'r ddwy egwyddor gyffredinol yma, mae nifer o ddyletswyddau cyffredinol mewn deddfwriaeth arall a fydd i ryw raddau o leiaf yn berthnasol i weithrediad swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth gynllunio.
- 5.13 Nodwyd gennym yn y Papur Cwmpasu bod nifer rhyfeddol o fawr o ddyletswyddau o fewn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â chynllunio a deddfwriaeth arall, yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio a chyrrff cyhoeddus eraill wrth iddynt wneud eu swyddogaethau. Rydym yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol pe bai'r amrywiol ddyletswyddau sy'n berthnasol iddyn nhw wrth iddynt wneud penderfyniadau cynllunio'n cael eu casglu i un lle.<sup>3</sup> Rydym yn awgrymu y gallai'r Cod Cynllunio gynnwys darpariaethau arwyddo, os nad mwy o wasanaeth na hynny, sy'n pwyntio pobl at ddeddfwriaeth arall lle gallent ganfod yr amrywiol ddyletswyddau yma.
- 5.14 Gwelsom yn ein cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid bod llawer ohonynt heb glywed am rai o'r dyletswyddau yma - yn arbennig y rheiny yn y trydydd categori. ym mharagraff 5.9. Roeddent oll yn gwybod am y ddyletswydd i ystyried y cynllun datblygu, a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhestredig; ond ychydig iawn o bobl oedd yn gwybod, er enghraifft, am y gofyniadau i ystyried cefn gwlad, a pharciau cenedlaethol; ac nid oedd yr un ohonynt bron yn ymwybodol o ddarpariaethau Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sy'n ymwneud ag atal troseddu.
- 5.15 Roedd y Grid Cenedlaethol yn cytuno gyda'n barn dros dro. Ond roedd Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA) yn credu y byddai modd gwneud yr "arwyddo" yn well drwy ddefnyddio arweiniad anstatudol yn hytrach na'i gynnwys yn y Bil Cynllunio ei hun.

---

<sup>4</sup> Gweler *Cyfraith Cynllunio yn Nghymru: Papur Cwmpasu*, Comisiwn y Gyfraith Rhif 228, 2015, para 5.27.

## Y DDYLETSWYDD I YSTYRIED Y CYNLLUN DATBLYGU

### Y ddeddf bresennol

5.16 Mae Adran 70 Deddf 1990 wedi cael ei haddasu'n sylweddol ers iddi gael ei weithredu'n gyntaf. Mae'n berthnasol yng Nghymru erbyn hyn fel a ganlyn:

(1) Lle gwneir cais i awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio—

(a) yn amodol ar adran 62D(5) ac adrannau 91 a 92, gallent roi caniatâd cynllunio, naill ai'n ddiamed neu'n atebol i amodau y maent yn eu barnu'n addas;<sup>5</sup> neu

(b) gallent wrthod caniatâd cynllunio.

(2) Wrth ddelio gyda chais am ganiatâd cynllunio bydd yr awdurdod yn ystyried—

(a) darpariaethau'r cynllun datblygu, cyn belled ag y bo'n berthnasol i'r cais,

(b) unrhyw ystyriaethau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, cyn belled ag y bo'n berthnasol i'r cais; ... ac

(c) unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

(3) Mae Is-adran (1) yn dod yn weithredol yn amodol ar adran 65, ac ar ddarpariaethau dilynol y Ddeddf hon, ar adrannau 66, 67, 72 a 73 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac ar adran 15 Deddf Gwasanaethau Iechyd 1976.<sup>6</sup>

5.17 Mae Adran 65 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adrannau 67 a 73 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn ymwneud â'r angen i gyhoeddi categorïau penodol o geisiadau; ac mae adran 15 Deddf 1976 yn ymwneud â cheisiadau am gategorïau penodol o ddatblygiad NHS; maent yn derbyn sylw dyledus mewn Pennod yn nes ymlaen.<sup>7</sup> Ymdrinnir ag Adrannau 66 a 72 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 isod.<sup>8</sup>

5.18 Mae Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael ei gweithredu gan adrannau 77(4) a 79(4) sy'n llywio penderfyniad ceisiadau a elwir i mewn gan Weinidogion Cymru ar gyfer penderfynu amdanynt eu hunain, ac hefyd iddynt benderfynu apelïadau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau cynllunio.

5.19 Bydd wedi'i nodi bod y ddyletswydd a roddir ar yr awdurdod cynllunio'n gofyn eu bod yn ystyried y cynllun datblygu cyfan, nid rhannau ohono yn unig; ond hefyd, dim ond cyn belled ag y bo'r cynllun yn berthnasol i'r cais perthnasol.

---

<sup>5</sup> Mae adran 62D yn ymwneud â cheisiadau am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ac yn derbyn sylw ym **Mhennod 10** y Papur Ymgynghori yma. Mae Adran 91 yn delio gydag amodau cynllunio, ac adran 92 gyda chaniatâd amlinellol; maent yn derbyn sylw ym **Mhennod 8**.

<sup>6</sup> Mae is-adran (4) yn cynnwys diffiniadau; mae is-adrannau eraill yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

<sup>7</sup> Gweler **paraffau 8.197, 8.198 a cwestiwn ymgynghori 8-29**.

<sup>8</sup> Gweler **paragraffau 5.41 i 5.56 a cwestiwn ymgynghori 5-4**.

5.20 Yn ogystal, pan fydd yn gweithredu amrywiol bwerau eraill o dan y Deddfau cynllunio, mae dyletswydd gan awdurdod i gymryd y cynllun datblygu i ystyriaeth, cyn belled â'i fod yn berthnasol. Mae'r rhestr gyflawn o swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn ymwneud â nhw fel a ganlyn:

- (1) penderfynu ceisiadau cynllunio ac apeliadau (o dan adrannau 70,77 a 79 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);
- (2) gosod amodau sy'n cyfyngu ar hyd caniatâd cynllunio (o dan adran 91);
- (3) gosod amodau ar ganiatâd cynllunio amlinellol (o dan adran 92)
- (4) diddymu neu addasu caniatâd cynllunio (o dan adran 97);
- (5) rhoi gorchymyn dirwyn i ben (o dan adran 102 neu Atodlen 9);
- (6) cyhoeddi hysbysiad gorfodi (o dan adran 172);
- (7) rhoi neu ddiwygio caniatâd cynllunio wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (o dan adran 177); a
- (8) phenderfynu ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus (o dan adran 9 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990).

5.21 Mae dyletswydd debyg yn berthnasol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau sy'n ymwneud ag arddangos hysbysebion, ond dim ond yn Lloegr.<sup>9</sup>

5.22 Mae'r broses o ffurfio'r cynllun datblygu'n derbyn ystyriaeth yn y Bennod nesaf o'r Papur Ymgynghori yma. Ond mae pwysigrwydd y cynllun wrth wneud penderfyniadau'n hanfodol. Ymhellach, rhoddodd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 bwyslais ychwanegol ar yr egwyddor yma, drwy brofi hyn,

Os ydym am ystyried y cynllun datbygu i bwrpas unrhyw benderfyniad sydd i gael ei wneud o dan y Deddfau cynllunio, mae'n rhaid gwneud y penderfyniad yn unol â'r cynllun heblaw bod ystyriaethau perthnasol yn dangos yn wahanol.<sup>10</sup>

Ond, mae werth nodi bod y pwyslais yma wedi'i gynnwys yn Neddf 2004 yn unig, ac nid yn Neddf 1990 ei hun. Mae'r ymadrodd "Deddfau cynllunio" yn cyfeirio at Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a Deddf Sylweddau Peryglus 1990.

## Diwygiad posibl

5.23 Er bod y ddyletswydd i ystyried y cynllun datblygiad wedi'i gweithredu ar gyfer ystod sylweddol o swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a

---

<sup>9</sup> Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Lloegr) 2007, rhe. 3(1).

<sup>10</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a. 38(6) – yn disodli Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a.54A (a roddwyd i mewn gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991).

deddfwriaeth arall, sydd wedi'u rhestru uchod, nid yw'r rhestr honno'n gynhwysfawr o gwbl. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys cymeradwyo manylion sy'n ofynnol gan amod sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio neu mewn gorchymyn datblygu; negodi goblygiad cynllunio; arfer unrhyw bwerau gorfodi heblaw cynhyrchu hysbysiad gorfodi; a diddymu hysbysiad gorfodi.<sup>11</sup> Mae hefyd yn hepgor ymarfer unrhyw swyddogaethau o dan Rannau 8 i 15 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - sy'n ymwneud ag, er â choed wedi'u diogelu, hysbysiadau tir hyll, hysbysebion (o leiaf yng Nghymru) a phriffyrdd - a'r holl swyddogaethau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.

- 5.24 Mewn gwirionedd, yr awdurdodau cynllunio sy'n arfer nifer o'r pwerau yma, mewn perthynas â'r cynllun datblygu cyn belled ag y bo'n cynnwys unrhyw bolisiau sy'n berthnasol. Er enghraifft, lle mae awdurdod yn ystyried telerau goblygiad cynllunio arfaethedig o dan adran 106 Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu'n cymryd mathau amrywiol o gamau gorfodi, neu'n tynnu rhybudd gorfodi yn ôl sydd wedi cael ei gyhoeddi, mae hi bron yn anochel y bydd yn ystyried darpariaethau'r cynllun datblygu. Ar y llaw arall, wrth ystyried cais am dystysgrif cyfreithlondeb, ni fydd y cynllun datblygu'n berthnasol.<sup>12</sup>
- 5.25 Mae werth nodi hefyd bod y ddyletswydd yn berthnasol ar hyn o bryd dim ond ar gyfer gweithrediad unrhyw swyddogaethau amrywiol gan awdurdod cynllunio, ac nid i arfer swyddogaeth o'r fath gan unrhyw gorff cyhoeddus arall.
- 5.26 Beth bynnag, os byddai darpariaethau o'r fath yn berthnasol i arfer swyddogaeth benodol, byddai gofyn i gorff cyhoeddus eu cymryd i ystyriaeth yn rhan o'i ddyletswydd cyfraith gyffredin gyffredinol er mwyn ystyried unrhyw beth sy'n berthnasol wrth wneud unrhyw benderfyniad.<sup>13</sup>
- 5.27 Felly, rydym yn ystyried dros dro bod y ddyletswydd sydd yn adran 70 ar hyn o bryd (ac yn y darpariaethau eraill sydd wedi eu rhestru ym **mharagraff 5.20** uchod) i gymryd y cynllun datblygu i ystyriaeth yn cael ei gweithredu wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio - nid y ddyletswyddau hynny a enwyd yn benodol yn unig - gan unrhyw gorff cyhoeddus. Felly dylai gael ei gynnwys ar ddechrau'r Bil, ynghyd â'r egwyddor ynghylch uchafiaeth y cynllun, sydd ond i'w gael erbyn hyn yn adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

### **Cwestiwn ymgynghori 5-1.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n nodi bod unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod:**

- (1) **yn gorfod ystyried y cynllun datblygu, cyn belled ag y bo'n berthnasol i ymarferiad y swyddogaeth honno; a**

<sup>11</sup> Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 79(1) yn sicrhau hyn: pan fyddent yn ymdrin ag apêl, gall Gweinidogion Cymru ymdrin ag o fel petai'n gais a wnaed iddynt hwy yn y lle cyntaf.

<sup>12</sup> Yn amodol ar y penderfyniadau yn *Richmond-upon-Thames v yr Ysgrifennydd Gwladol* [2002] 2 PLR 115 (gweler **para 7.51**).

<sup>13</sup> Gweler **para 5.28 i 5.32** uchod.

(2) rhaid gweithredu'r swyddogaeth honno yn unol â'r cynllun heblaw bod ystyriaethau perthnasol yn arwyddo fel arall.

Ydy ymgylgoreion yn cytuno?

## Y DDYLETSWYDD GYFFREDINOL I YSTYRIED YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

### Y ddeddf bresennol

5.28 Yn ogystal â'r cynllun datblygu, mae pob un o'r amrywiol ddarpariaethau statudol y cyfeirir atynt ym **mharagraff 5.20** uchod hefyd yn cyfeirio at y ddyletswydd i gymryd i ystyriaeth "unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill". Gellid dadlau nad yw hyn yn ddim byd mwy na datganiad statudol o egwyddor sylfaenol o gyfraith weinyddol:

Mae'n rhaid i rywun yr ymddiriedir ynddo i wneud penderfyniad ei gyfarwyddo ei hun yn gywir yn y gyfraith fel petai. Mae'n rhaid iddo dynnu ei sylw ei hun at y materion y mae wedi'i rwymo i'w hystyried. Mae'n rhaid iddo eithrio o'i ystyriaethau materion sy'n amherthnasol i'r hyn sydd ganddo i'w ystyried. Os nad yw'n ufuddhau i'r rheolau hynny, gellid dweud yn wirioneddol - ac fe ddywedir hyn yn aml - ei fod yn gweithredu mewn ffordd 'afresymol'.<sup>14</sup>

5.29 Mae'r egwyddor yma'n hollbwysig, oherwydd mae'n rhaid i bobl sy'n gwneud penderfyniadau gymryd i ystyriaeth mewn llawer o achosion doreth o ffactorau sydd ond yn derbyn sylw'n rhannol gan y cynllun datblygu, neu ystyried y ffaith fod y cynllun naill ai wedi dod i ben neu'n hollol dawel. Mae hefyd angen cydbwysio gwahanol ddarpariaethau cynllun, neu gynlluniau sy'n gorgyffwrdd, a allai dynnu i gyfeiriadau gwahanol, a dylid gwneud hyn yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau perthnasol.

5.30 O ran y mathau o ystyriaethau a allai fod yn berthnasol, mae'r ffurf glasurol i'w chael yn natganiad adnabyddus Cooke J yn *Stringer v y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol*:

Gall unrhyw ystyriaeth sy'n ymwneud â defnydd a datblygiad tir fod yn ystyriaeth gynllunio. O ran y cwestiwn 'a yw ystyriaeth arbennig sy'n perthyn o fewn y categori eang hwnnw yn berthnasol mewn achos penodol' bydd hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau.<sup>15</sup>

5.31 Dywedodd yr Arglwydd Bingham fel a ganlyn, yn *Tesco Stores v yr Ysgrifennydd Gwladol a Chyngor Dosbarth Gorllewin Swydd Rhydychen*:

Rwy'n cymryd bod "material" (Saesneg) yn y cyd-destun yma'n golygu "relevant" (Saesneg). Felly mae'r is-adran yn mynegi'r rheol gyfarwydd bod yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad roi ystyriaeth i

<sup>14</sup> *Associated Provincial Picture Houses v Wednesbury Corporation* [1948] 1 KB 223, CA, drwy'r Arglwydd Greene MR ar dud.229; gwelwch hefyd *Padfield v y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd* [1968] AC 997, HL, drwy'r Arglwydd Reid ar dud 1030, ac *R v Alconbury Developments Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol* [2003] 2 AC 295 ar [50].

<sup>15</sup> [1970] 1 WLR 1281, ar dud. 1294.

ystyriaethau perthnasol a pheidio â rhoi ystyriaeth i ystyriaethau amherthnasol. ... Mae'r pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth a ystyrir yn berthnasol yn fater i wneuthurwr y penderfyniad wrth gwrs.<sup>16</sup>

- 5.32 Yn fwy diweddar bu'r Arglwydd Carnwath o Notting Hill, Ynad y Goruchaf Lys, yn *R (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) v Cyngor Sir Wolverhampton*, yn dadlau bod:

"Material" mewn iaith pob dydd yr un fath â "relevant". Lle bydd gweithredu pŵer, yn y ffordd a ragwelir gan y statud, yn cael canlyniadau cynllunio ac ariannol fel ei gilydd, nid oes rheswm amlwg i drin y naill na'r llall yn amherthnasol.<sup>17</sup>

### Diwygiad posibl

- 5.33 Yn debyg i'r cynllun datblygu, mae'r rhestr o swyddogaethau sy'n amlwg atebol i'r ddyletswydd i ystyried "ystyriaethau perthnasol eraill" yn hir, ond nid yw'n agos at fod yn gyflawn. Ond, eto, mae'r ddyletswydd i ystyried popeth sy'n berthnasol yn ofynnol ar unrhyw gorff cyhoeddus wrth wneud unrhyw swyddogaeth o dan unrhyw ddeddfwriaeth, p'un a ydyw'n nodi hynny neu beidio.
- 5.34 Rydym wedi nodi'n barod ei bod hi'n ddefnyddiol cael cyfeiriad eglur at y ddyletswydd yma o roi ystyriaeth i ystyriaethau materol eraill.<sup>18</sup> Ond mae'n ymddangos yn fympwyol, ac o ddim cymorth, i'w grybwyll dim ond mewn perthynas â rhai dyletswyddau penodol. Rydym yn ystyried dros dro y dylid gweithredu'r ddyletswydd yn eglur wrth arfer *unrhyw* swyddogaeth o dan y Cod Cynllunio newydd.
- 5.35 O ran beth yw ystyriaeth berthnasol, nid yw'n ymddangos ar yr olwg gyntaf bod yr egwyddor yn *Stringer*<sup>19</sup> yn brawf arbennig o ddefnyddiol. Felly, nododd y Papur Cwmpasu bod lle efallai i wella hygyrchedd y gyfraith drwy godeiddio'r gyfraith achosion ar ystyriaethau perthnasol, gyda'r cafeat y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiwn, ydy hyn yn mynd i sicrhau mwy o eglurder mewn gwirionedd.<sup>20</sup>
- 5.36 Roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o fanylion am "egwyddorion beth ydyw a beth nad ydyw yn ystyriaeth berthnasol". Yn yr un modd, awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y dylai'r Cod Cynllunio newydd godeiddio'r "angen" am ddatblygiad fel ystyriaeth cynllunio perthnasol. Roedd yr Arolygiaeth Gynllunio, ar y llaw arall, yn nodi nad oedd y syniad o "ystyriaethau perthnasol" (fel ydoedd gyda diffiniad "cwrtil") yn addas iawn i gael ei gofnodi yn y gyfraith.

---

<sup>16</sup> (1994) 68 P&CR 219, CA, ar dud. 227.

<sup>17</sup> [2012] UKSC 34, 1 WLR 2264, ar [26].

<sup>18</sup> Gweler **paragraff 5.29** uchod.

<sup>19</sup> Gweler **para 5.30** uchod.

<sup>20</sup> Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 228, paragraff 7.36.



- 5.37 Ymhellach, os cyfeirir at bynicau penodol - naill ai o fewn Deddf 1990 ei hun neu drwy gyfeiriad at Ddeddfau eraill - gallai achosi i'r pynciau hynny dderbyn rhagor o bwysigrwydd (llawer iawn mwy o bwysigrwydd mewn rhai achosion) yn y broses wneud penderfyniadau na phynicau eraill na chawsent eu henwi felly. Roedd yr egwyddor a esboniwyd gan y Llys Apêl yn achosion *Dwyrain Swydd Northampton a Chymdeithas Caerfaddon* a nodir isod<sup>21</sup> – ynghylch y pwysigrwydd i'w roi i rai ystyriaethau perthnasol penodol - yn gymwys dim ond mewn perthynas â'r ystyriaethau hynny y mae'n rhaid i awdurdod "dalw sylw arbennig" iddynt neu "roi ystyriaeth benodol" iddynt. Ond mae'n debygol y bydd unrhyw ystyriaeth berthnasol a grybwyllir yn cael blaenoriaeth, heblaw mewn sefyllfa lle nad yw hynny'n dderbyniol.
- 5.38 O'i ystyried, felly, rydym yn barnu bod yr egwyddor a amlinellir yn *Stringer* yn dal i grynhoi'n gywir y sefyllfa yn y gyfraith; ond nid oes modd geirio hynny'n hawdd iawn fel darpariaeth statudol. Felly nid ydym yn argymhell bod yr ymadrodd "ystyriaethau perthnasol" yn cael ei ddiffinio'n fanylach. Ac, yn gyffredinol, rydym yn argymhell nad yw'r Cod yn cyfeirio at gategorïau penodol o ystyriaethau (yn amodol ar y ddau eithriad a nodir isod).<sup>22</sup>
- 5.39 Ar y llaw arall, rydym yn ystyried hyn: yng nghyd-destun tuedd gynyddol y llysoedd (ac eraill) i gyfeirio at ystyriaethau penodol yn y Saesneg fel rhai "relevant" yn hytrach na rhai "material",<sup>23</sup> rydym o'r farn y gallai fod yn fwy defnyddiol i ddefnyddio'r ymadrodd "relevant considerations" am "ystyriaethau perthnasol".
- 5.40 Yn amodol ar y pwyntiau hynny, rydym felly'n barnu dros dro y dylid gweithredu'r ddyletswydd sydd o dan bob un o'r darpariaethau sydd wedi'u rhestru ym **mharagraff 5.20** i ystyried "other relevant [material] considerations" pan fydd unrhyw gorff cyhoeddus yn gwneud unrhyw swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio - nid dim ond y swyddogaethau hynny y mae'n cael ei ddefnyddio'n ar eu cyfer ar hyn o bryd.

### Cwestiwn ymgynghori 5-2.2.

Rydym yn barnu dros dro;

- (a) y byddai ceisio diffinio ystyriaethau perthnasol yn y Cod Cynllunio'n achosi cymaint o broblemau ag y byddai'n eu datrys; ac
- (b) y byddai'r term Saesneg "relevant considerations" yn fwy priodol na "material considerations"

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

<sup>21</sup> Gweler **paragraffau 5.46 a 5.49**.

<sup>22</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 5-5** (yr iaith Gymraeg) a cwestiwn ymgynghori 5-6 (polisi Llywodraeth).

<sup>23</sup> Gwelwch y dyfyniadau o benderfyniadau'r Goruchaf Lys ym **mharagraffau 5.31 a 5.32** uchod.

### Cwestiwn ymgynghori 5-3.

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n golygu bod corff cyhoeddus sy'n gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod yn gorfod ystyried unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL PENODOL (1): ADEILADAU RHESTREDIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

### Adeiladau rhestredig: y ddeddf bresennol

- 5.41 Nodwyd uchod bod adran 70(3) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (penderfynu ceisiadau: ystyriaethau cyffredinol) yn nodi'n eglur bod y pŵer i benderfynu ceisiadau cynllunio i gael ei weithredu yn amodol ar adrannau 66 a 72 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.<sup>24</sup>
- 5.42 Mae Adran 66 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 (dan y teitl "dyletswydd gyffredinol mewn perthynas ag adeiladau rhestredig wrth arfer swyddogaethau cynllunio") yn darparu, yng Nghymru, fel a ganlyn:
- (1) Wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad, bydd yr awdurdod cynllunio lleol neu efallai Weinidogion Cymru'n rhoi ystyriaeth arbennig i fantais cadw'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.
- (2) Heb effeithio ar adran 72, wrth arfer pwerau adfeddiant, gwaredu a datblygu (yn cynnwys ailddatblygu) a roddwyd gan [Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990], bydd yn rhaid i awdurdod lleol ystyried mantais cadw noddweddion o fudd hanesyddol neu bensaernïol arbennig, ac yn arbennig, adeiladau rhestredig.<sup>25</sup>
- 5.43 Mae adran 16 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru i roi ystyriaeth arbennig i fanteision cadw adeilad rhestredig neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol - dan yr union delerau â'r ddyletswydd yn 66(1) - wrth ddelio gyda cheisiadau am ganiatâd adeiladu rhestredig.
- 5.44 Nid yw unrhyw un o'r dyletswyddau'n cael ei gweithredu'n eglur wrth benderfynu apeliadau caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeiladau rhestredig,<sup>26</sup> er bod dyletswydd

<sup>24</sup> Gweler **para 5.16** uchod.

<sup>25</sup> Cyflwynwyd y ddyletswydd yn gyntaf yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, a. 41, a ddrafftwyd fel ei bod yn berthnasol i'r ceisiadau am ganiatâd cyllunio ac am ganiatâd adeilad rhestredig.

<sup>26</sup> Felly, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y naill achos na'r llall sy'n gyfatebol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a.79(4) (gweler baragraff **5.18**).

o'r fath yn cael ei gweithredu'n llwyr gan adran 79(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 22(1)(a) Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.

5.45 Mae'n amlwg, er gwaethaf teitl adran 66, bod y ddyletswydd i ystyried adeiladau rhestredig yn berthnasol dim ond wrth benderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig, a phrynu a gwaredu tir - ac mewn un achos y ddyletswydd yw rhoi "ystyriaeth arbennig" i fantais ei gadw ac ati' ac, yn y llall, y ddyletswydd yw dim ond ei "ystyried". Nid yw'n berthnasol i arfer unrhyw swyddogaethau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, na chwaith i arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu).

55.46 O ran y pwysigrwydd y dylid ei roi i'r ddyletswydd, mae'r Llys Apêl wedi nodi mai:

bwriad y Senedd wrth weithredu adran 66(1) oedd y dylai'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau roi 'pwysigrwydd a phwys sylweddol' i fantais cadw lleoliad adeiladau rhestredig wrth wneud yr ymarfer cydbwysu.<sup>27</sup>

### Ardaloedd cadwraeth

5.47 Mae adran 72 y Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 ("dyletswydd gyffredinol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth wrth arfer swyddogaethau cynllunio") yn nodi:

(1) Wrth weithredu unrhyw [swyddogaethau o dan neu drwy rinwedd] unrhyw rai o'r darpariaethau y sonnir amdanynt yn is-adran (2), mewn perthynas ag unrhyw adeiladau neu dir arall mewn ardal gadwraeth, rhaid talu sylw arbennig i fantais cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw'r Deddfau Cynllunio a Rhan 1 Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 ac adrannau 70 a 73 Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993.<sup>28</sup>

5.48 Mae'r ddyletswydd i ystyried ardaloedd cadwraeth wedi'i fframio'n ehangach na'r ddyletswydd gyfatebol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, fel y mae'n berthnasol i weithrediad unrhyw swyddogaeth o dan y Deddfau cynllunio, ac nid yn unig i benderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeiladau rhestredig. Mae hefyd yn berthnasol i swyddogaethau cyfyngedig o dan Ddeddf 1953 (yn ymwneud yn bennaf â grantiau a chaffael tir) a Deddf 1993 (rhyddfrenio lesddaliadau), ond nid i'r rheiny o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cynlluniau datblygu).

5.49 Mae'r Llys Apêl wedi ystyried arwyddocâd y ddarpariaeth hon, fel a ganlyn:

---

<sup>27</sup> *Cyngor Dosbarth Dwyrain Swydd Northampton v yr Ysgrifennydd Gwladol* [2014] EWCA Civ 137, [2015] 1 WLR, CA, drwy Sullivan LJ ar [29], cymeradwywyd yn *Mordue v yr Ysgrifennydd Gwladol* [2015] EWCA Civ 1243, [2016] 1 WLR 2682, CA.

<sup>28</sup> Cyflwynwyd y ddyletswydd yn gyntaf yn Neddf Amwynderau Trefol 1967, a. 1(5), a ddrafftwyd fel ei bod yn cyfeirio at yr holl swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 (sef Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990).

...dylai'r gwneuthurwr penderfyniad mewn ardal gadwraeth roi'r ystyriaeth gyntaf i'r gofyniad o dan [adran 72 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990] i dalu "sylw arbennig". Mae'n wir bod mantais cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth, mewn termau ffurfiol, yn "ystyriaeth berthnasol" o fewn [adran 70 Deddf Cyllunio Gwlad a Thref 1990]. Fodd bynnag, am ei bod yn ystyriaeth y mae'n rhaid talu sylw arbennig iddi fel mater o ddyletswydd statudol, rhaid ystyried bod ganddi bwysigrwydd a phwysau sylweddol.<sup>29</sup>

### Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth: diwygio posibl

- 5.50 Fel y nodwyd uchod mae'r dyletswyddau statudol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth wedi eu cynnwys yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990, a chyfeirir atynt yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>30</sup>
- 5.51 Mae werth nodi nad oes unrhyw ddyletswydd statudol, cyffredinol nac fel arall, yn ymwneud â chategoriâu o asedau treftadaeth (fel y cyfeirir atynt weithiau erbyn hyn) heblaw adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth - yn benodol safleoedd treftadaeth byd, henebion cofrestredig, a thirluniau a gerddi cofrestredig. O ystyried bod safleoedd treftadaeth byd, yn arbennig, yn safleoedd o "ddiddordeb eithriadol, a bod angen felly eu cadw yn rhan o dreftadaeth byd y ddynoliaeth gyfan",<sup>31</sup> a bod datganiad i ddweud bod gan henebion cofrestredig statws sy'n gyfatebol gydag adeiladau rhestredig Graddfa I a II\*.<sup>32</sup> mae hynny'n annisgwyl.
- 5.52 Rydym yn ystyried dros dro y dylid ehangu'r dyletswyddau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth fel eu bod yn gydradd berthnasol i unrhyw ased hanesyddol (yn cynnwys safleoedd treftadaeth byd, henebion cofrestredig, a pharciau a gerddi cofrestredig). Byddai hefyd yn briodol cyflwyno pŵer i alluogi i Weinidogion Cymru ychwanegu categorïau eraill o dir at y diffiniad o "ased hanesyddol" er mwyn gallu cynnwys, er enghraifft, meysydd brwydr cofrestredig.
- 5.53 Ymhellach, nid yw'n ymddangos yn rhesymegol bod y ddyletswydd sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth yn berthnasol i weithrediad unrhyw swyddogaeth o dan unrhyw rai o'r Deddfau cynllunio - sy'n sylweddol ehangach na'r swyddogaethau sy'n atebol i'r ddyletswydd i roi ystyriaeth i'r cynllun datblygu. I'r gwrthwyneb, mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yn weithredol dim ond mewn perthynas â rhai o'r swyddogaethau hynny - ac mae wedi'i mynegi mewn termau ychydig yn wahanol yn adran 66(1) (penderfyniadau cynllunio) ac adran 66(2) (caffael tir).
- 5.54 Mae hyn yn gwrthgyferbynu â'r dyletswyddau, a ystyrir isod,<sup>33</sup> i ystyried gwahanol agweddau o'r amgylchedd naturiol, a materion eraill, y mae pob un ohonynt yn

---

<sup>29</sup> *Bath Society v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1991] 1 WLR 1303, CA, ar dudalennau 1318-1319. Roedd yr achos yn ymwneud â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, a. 277 (rhagflaenydd Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 72).

<sup>30</sup> Gweler **paragraffau 5.41 i 5.49**.

<sup>31</sup> Confensiwn Treftadaeth Byd, 1972, rhagarweiniad.

<sup>32</sup> Cylchlythyr WO 60/96, Atodiad 1, paragraff 4.

<sup>33</sup> Gweler **paragraffau 5.96 i 5.113**.

berthnasol i unrhyw gorff cyhoeddus perthnasol wrth weithredu unrhyw rai o'i swyddogaethau.

- 5.55 Gellir nodi bod yr Uchel Lys wedi penderfynu hyn yn ddiweddar (yn *R v (McClellan) v Cyngor Bwrdeistref Lleol Lambeth*) er na fyddai'r ddyletswydd yn adran 72 yn berthnasol i dorri coeden gan awdurdod lleol sydd mewn ardal gadwraeth lle nad oedd yn gweithredu i arfer unrhyw rai o'r swyddogaethau sydd wedi eu rhestru yn adran 72(2), byddai bodolaeth yr ardal gadwraeth yn ystyriaeth berthnasol beth bynnag, y dylai'r awdurdod fod wedi ei gymryd i ystyriaeth.<sup>34</sup>
- 5.56 Rydym yn ystyried dros dro y dylai'r dyletswyddau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth ac asedau hanesyddol fod yn berthnasol i'r gweithrediad gan unrhyw gorff cyhoeddus perthnasol wrth weithredu unrhyw rai o'i swyddogaethau dan amgylchiadau sy'n debygol o effeithio ar ased neu ei leoliad neu ei nodweddion. Nid ydym yn barnu y byddai'n costio fawr ychwanegol i awdurdod wneud dyletswydd o'r fath yn eglur - fel a bwysleisiwyd gan benderfyniadau megis *McClellan*, mae'r ddyletswydd yn berthnasol beth bynnag wrth weithredu swyddogaeth o'r fath mewn perthynas ag ased treftadaeth neu ei leoliad.

#### **Cwestiwn ymgynghori 5-4.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai darpariaeth neu ddarpariaethau gael eu cynnwys , gan olygu bod:**

- (1) **corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth statudol yn gorfod ystyried beth fyddai mantais cadw neu ychwanegu at asedau hanesyddol, eu lleoliad, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbening sydd ganddynt; ac**
- (2) **mae'n rhaid i gorff sy'n gwneud swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio a'r Cod Amgylchedd Hanesyddol roi ystyriaeth arbennig i'r materion hynny;**

**a bod "asedau hanesyddol" yn cael eu diffinio i gynnwys safleoedd treftadaeth, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, ac unrhyw gategorïau eraill o dir y gallai Gweinidogion Cymru eu rhagnodi.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL PENODOL (2): DEFNYDDIO'R IAITH GYMRAEG**

### **Y ddeddf bresennol**

- 5.57 Un o elfennau'r egwyddor datblygiad cynaliadwy yw bod yn rhaid i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau "Cymru o ddiwylliant lewyrchus ac iaith Gymraeg

<sup>34</sup> [2014] Uchel Lys Cymru a Lloegr 1964 (Gweinyddol), ystyriwyd yn *R (Dillner) v Cyngor Sir Sheffield* [2016] Uchel Lys Cymru a Lloegr 945 (Gweinyddol), [2016] Env LR 31, per Gilbert J ar [168].

ffyniannus".<sup>35</sup> Ond, yn ychwanegol, cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) (DC(C))2015 ddyletswyddau penodol i'r system gynllunio.

- 5.58 Gosododd Adran 3 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 adran 60B(2) i mewn i Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 fel ei fod yn gofyn bod y gwerthusiad cynaliadwyaeth a gynhrychir mewn cysylltiad â'r Fframwaith Datblygiad Cenedlaethol yn cynnwys "asesiad o effeithiau tebygol y polisiau yn y Fframwaith drafft ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg". Rhoddwyd darpariaeth debyg i mewn i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mewn perthynas â pharatoi cynlluniau datblygu lleol a strategol.<sup>36</sup>
- 5.59 Rhoddodd Adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 adran 70(2)(aa) i mewn i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn gofyn i'r rheiny sy'n penderfynu ceisiadau cynllunio (ac apeliadau) ystyried "unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg, cyn belled ag y bo'n berthnasol i'r cais."
- 5.60 Ond mae is-adran (4) adran 31 yn darparu hyn:
- (4) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan yr adran yma'n newid—
- (a) a ddylid ystyried unrhyw ystyriaeth arbennig o dan is-adran (2) adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu
- (b) faint o bwysigrwydd i'w roi i unrhyw ystyriaeth a ystyrir o dan yr is-adran honno.
- 5.61 Mewn geiriau eraill - yn debyg i'r egwyddor datblygiad cynaliadwy isod - nid yw'r cyfeiriad eglur at yr iaith Gymraeg yn rhoi blaenoriaeth iddi dros unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.
- 5.62 Mae'r ddyletswydd i ystyried effaith polisiau a phenderfyniadau cynllunio ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn berthnasol felly wrth ffurfio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynlluniau datblygu lleol a strategol, ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Ond nid yw'n berthnasol i swyddogaethau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nac i unrhyw swyddogaethau o dan Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.

### Yr effaith ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg: diwygio posibl

- 5.63 Yn debyg i'r cynllun datblygu, mae'r ddyletswydd i ystyried pa effaith y mae gwneud swyddogaeth yn ei chael ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn amlwg yn berthnasol i rai swyddogaethau penodol yn unig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 - yn bennaf ffurfio'r cynlluniau datblygu a phenderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio.<sup>34</sup> Yn debyg i'r cynllun

---

<sup>35</sup> Deddf Llesiant 2015, a 4. Gwelwch **baragraff 5.81** isod.

<sup>36</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a, 60I(8), a mewnosodir gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 6 (cynlluniau datblygu strategol); Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a, 62(6A), a mewnosodir gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 11 (cynlluniau datblygu lleol); gweler hefyd Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a, 61(2)(a).

datblygu, felly, nid yw'n berthnasol dim ond wrth weithredu swyddogaethau eraill o dan y Deddfau cynllunio.

- 5.64 Fodd bynnag, fel y bydd yn amlwg o'r sylw uchod am ystyriaethau eraill,<sup>37</sup> mae'n rhaid ystyried unrhyw ystyriaeth - p'un a ydyw wedi'i grybwyll yn eglur yn y statud perthnasol ai peidio - os yw'n berthnasol i arferiad swyddogaeth statudol arbennig, ac mae'n rhaid ei anwybyddu os yw'n amherthnasol. Mae hynny'n berthnasol i effaith penderfyniad ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn union fel unrhyw ystyriaeth arall.
- 5.65 Rydym yn cydnabod ei bod hi'n fanteisiol mae'n debyg cael rhyw grybwylliad yn y Bil Cynllunio o effaith penderfyniadau cynllunio ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Felly, rydym yn derbyn bod hwn yn eithriad i'r egwyddor, a nodir uchod, o beidio crybwyll ystyriaethau perthnasol penodol yn gyffredinol.<sup>38</sup> Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes unrhyw reswm i gyfyngu ar ystod y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn ymwneud â nhw. Os, fel y cynigiwn, yw'r Bil Cynllunio'n gofyn yn eglur i bobl ystyried "ystyriaethau perthnasol eraill" wrth weithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, y cwbl fyddai ei angen yn ychwanegol fyddai cynnwys darpariaeth i ddweud y byddai ystyriaethau o'r fath yn cynnwys effaith y penderfyniad perthnasol ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg, lle bo'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw.<sup>41</sup>
- 5.66 I osgoi amheuaeth, byddai hefyd yn briodol i gynnwys yn y Bil ddarpariaeth sy'n gyfatebol ag adran 31(4) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n nodi nad yw'r cyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn effeithio ar y penderfyniad a ddylid ystyried unrhyw ystyriaeth benodol, neu'r pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth o'r fath.

### **Cwestiwn ymgynghori 5-5.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n nodi hyn:**

- (1) bod yr ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus eu hystyried (yn unol â Chwestiwn ymgynghori 5-3) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, yn cynnwys yr effaith debygol, os oes effaith o gwbl, o arfer y swyddogaeth honno ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg, cyn belled ag y bo'n berthnasol i weithrediad y swyddogaeth honno; a'r**
- (2) ddyletswydd i ystyried yr effaith ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yw i beidio effeithio ar y canlynol:**
  - p'un a oes rhaid ystyried unrhyw ystyriaeth arall wrth weithredu'r swyddogaeth honno neu**

<sup>37</sup> Gweler paragraffau 5.28 i 5.32.

<sup>38</sup> Gweler para 5.38.

- y pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth weithredu'r swyddogaeth honno.

Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?

## YSTYRIAETHAU DEUNYDD PENODOL (3): POLISI LLYWODRAETH CYMRU

### Y ddeddf bresennol

- 5.67 Cafodd Cynllun Gofodol Cymru, sy'n dwyn y teitl *Pobl, Lleoedd, Dyfodol*, ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn fwyaf diweddar mewn fersiwn a ddiweddarwyd ar 8 Gorffennaf 2008.<sup>39</sup> Maes o law, bydd y Cynllun hwnnw'n cael ei ddisodli gan Fframwaith Datblygiad Cenedlaethol, sy'n cael ei gynhyrchu gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd.<sup>40</sup> Mae'n rhan o'r cynllun datblygu, ac mae ganddo felly bwysigrwydd mewn penderfyniadau rheoli datblygu.
- 5.68 Yn ymarferol, ochr yn ochr â Chynllun Gofodol Cymru a'r Fframwaith, mae polisiau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig *Polisi Cynllunio Cymru* - sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, ac yn fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2016 - a'r nodiadau cyngor technegol (TANs) yn ddylanwadol iawn hefyd o ran darparu sail i'r polisiau ar gyfer gwneud cynlluniau a gwneud penderfyniadau.
- 5.69 O ran statws polisi'r Llywodraeth wrth wneud cynlluniau, mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod awdurdod cynllunio yng Nghymru'n ystyried "polisiau cenedlaethol cyfredol" wrth baratoi cynllun datblygiad lleol.<sup>41</sup> Nid yw'r ymadrodd hwnnw wedi'i ddiffinio yn unman; ond mae Beatson J, yn *R (Persimmon Homes Ltd) v Cyngor Bro Morgannwg* yn dweud hyn:

Rwyf wedi cyfeirio at y gofyniad yn adran 62(5) Deddf 2004 bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried polisiau cenedlaethol cyfredol; dyma yw polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. ...

... yng nghyd destun hynny, wrth iddynt baratoi eu hadroddiad i aelodau etholedig roedd hawl gan y swyddogion, yn wir roedd gofyniad iddynt, gymryd i ystyriaeth bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anheddau newydd a phrofi syniadau ac opsiynau sy'n dod i'r amlwg yn erbyn y polisi hwnnw.<sup>42</sup>

<sup>39</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a. 60 (fel y cafodd ei gweithredu'n wreiddiol).

<sup>40</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a. 60 (fel y cymerir ei lle gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a. 3, o ddyddiad sydd i gael ei benodi).

<sup>41</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a. 62(5).

<sup>42</sup> [2010] Uchel Lys Cymru a Lloegr 535 (Gweinyddol), ar [20], [118].



5.70 Ond nid oes dyletswydd cyfatebol mewn perthynas â phenderfynu ceisiadau cynllunio, nac i arfer unrhyw swyddogaethau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.

5.71 Ond mae'r llysoedd wedi datgan hyn yn glir:

Cafwyd rhai achosion cynharach mewn perthynas â'r cwestiwn yma, ac rwyf wedi cael fy nghyfeirio at dri awdurdod. ... maent yn esbonio'n glir bod datganiadau polisi'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyriaethau perthnasol y dylid rhoi ystyriaeth iddynt wrth ystyried canlyniad cais cynllunio neu apêl cynllunio, ac maent hefyd yn dangos yn glir os oes sefyllfa lle mae bwriad i wyro oddi wrth ddatganiad polisi o'r fath, yna dylid rhoi rhesymau eglur pam fod gwyriad oddi wrth y polisi a ddatganwyd.<sup>43</sup>

5.72 Yn fwy diweddar, mae'r Goruchaf Lys wedi egluro statws y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (prif ddatganiad polisi Llywodraeth ganolog yn Lloegr), fel a ganlyn:

Mae'r Fframwaith ei hun yn egluro'n glir mewn perthynas â phenderfynu ceisiadau cynllunio (i'r gwrthwyneb i wneud cynlluniau lle mae ganddo gydnabyddiaeth statudol), nid yw'n fwy na "chanllaw" ac felly mae'n "ystyriaeth berthnasol" i bwrpasau adran 70(2) Deddf 1990: gwelwch *R Cala Homes (South) Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol*.<sup>44</sup> Ni all, ac nid ydyw'n bwriadu disodli'r flaenoriaeth a roddir gan y statud a'r polisi i gynllun datblygu statudol. Rhaid ei ymarfer yn gyson gyda'r cynllun statudol, ac nid er mwyn ei ddisodl neu ei ystumio.<sup>45</sup>

5.73 Yn ôl pob tebyg, byddai angen rhoi ystyriaeth debyg i bolisiau cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag arferiad unrhyw swyddogaeth gynllunio arall y maent yn berthnasol iddi.

### Polisi Llywodraeth Cymru: diwygio posibl

5.74 O ystyried y ffaith fod polisiau cenedlaethol - hynny yw polisiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir - o arwyddocâd mor fawr yng ngweithrediad pob dydd y system gynllunio, mae'n syndod nad ydynt yn cael eu crybwyll ar wyneb Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel ystyriaeth i'w hystyried. Fel y nodwyd uchod, mae'r llysoedd wedi derbyn yn aml fod polisi Llywodraeth yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.<sup>49</sup>

5.75 Felly, rydym yn ystyried dros dro y dylai'r Bil, yn debyg i'r iaith Gymraeg (uchod), nodi'n eglur bod polisiau o'r fath, cyn belled ag y byddent yn berthnasol, ymysg y materion y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth weithredu unrhyw swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio. O ystyried fod polisiau o'r fath yn ystyriaeth berthnasol yn barod, nid yw'r cynnig yma'n gwneud dim byd mwy nag esbonio

<sup>43</sup> *Gransden (E C) Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol* (1987) 54 P&CR 86 per Woolf J ar dud 87.

<sup>44</sup> [2011] 1 P&CR 22, per Lindbom J ar [50].

<sup>45</sup> *Hopkins Homes v yr Ysgrifennydd Gwladol; Cyngor Bwrdeistref Dwyrain Sir Gaer v yr Ysgrifennydd Gwladol* [2017] UKSC 37, PTSR 623, ar [21].

hynny'n eglur. Felly nid ydym yn ystyried y byddai'n rhoi unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau cynllunio neu gyrff eraill.

- 5.76 Ond, rydym yn cadw mewn cof sylwadau'r Goruchaf Lys yn *Hopkins Homes* ynghylch y ffaith na ddylai perthnasedd polisi llywodraethol mewn penderfyniadau cynllunio ddisodli'r flaenoriaeth a roddir i'r cynllun datblygu.<sup>46</sup> Rydym felly'n credu y dylid crybwyll polisi Llywodraethol yn y Bil fel un o'r ystyriaethau perthnasol y dylid eu hystyried, yn hytrach na mater sy'n sefyll ar ei ben ei hun ochr yn ochr â'r cynllun datblygu.

### **Cwestiwn ymgynghori 5-6.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n nodi hyn:**

**(1) mae'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus eu hystyried (yn unol â Chwestiwn ymgynghorol 5-4) wrth weithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, yn cynnwys polisiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnydd a datblygiad tir, cyn belled â'u bod yn berthnasol i weithrediad y swyddogaeth honno; a**

**(2) nid yw'r ddyletswydd i ystyried polisiau Llywodraeth Cymru i effeithio ar hyn:**

- **p'un a ddylid ystyried unrhyw ystyriaeth arall ai peidio wrth weithredu'r swyddogaeth honno, neu**
- **y pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth weithredu'r swyddogaeth honno.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **EGWYDDOR DATBLYGIAD CYNALIADWY**

### **Y ddeddf bresennol**

- 5.77 Daeth DC(C) 2015 i rym yn syth ar ôl Deddf Llesiant 2015. I ddarparu dolen gyswllt rhwng y ddwy statud, ychwanegwyd yr hyn sydd yn awr yn adran 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ystod y broses o basio'r Bil drwy'r Cynulliad.

- 5.78 Mae adran 2 DC(C)2015 yn darparu'r canlynol:

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol i weithrediad y canlynol gan Weinidogion Cymru, awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru neu unrhyw gorff cyhoeddus arall—

- (a) swyddogaeth o dan Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mewn perthynas â'r Fframwaith Datblygiad

---

<sup>46</sup> Gweler para 5.72.

Cenedlaethol i Gymru, cynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol;

- (b) swyddogaeth o dan Rhan 3 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â chais am ganiatâd cynllunio a wneir (neu y cyngir ei wneud) i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

(2) Mae'n rhaid gweithredu'r swyddogaeth yma, yn rhan o'r broses o wneud datblygiad cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant, i bwrpas sicrhau bod datblygiad a defnydd y tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

(3) Wrth gydymffurfio ag is-adran (2), mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru (yn cynnwys canllawiau perthnasol a gyhoeddir o dan adran 14 y Ddeddf Llesiant).

(5) Does dim byd yn yr adran hon, fel y mae'n berthnasol i'r swyddogaethau o dan Rhan 3 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn newid y pethau hyn-

- (a) p'un a ddylid ystyried unrhyw ystyriaeth benodol o dan is-adran (2) adran 70 y Ddeddf honno (penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio), neu
- (b) y pwysigrwydd a roddir i unrhyw ystyriaeth a ystyrir o dan yr is-adran honno.<sup>47</sup>

5.79 Mae adran 2 y Ddeddf Llesiant 2015 yn darparu bod:

'datblygiad cynaliadwy' yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddola diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy (gwelwch adran 5), sydd wedi eu bwriadu i gyflawni'r targedau llesiant (gwelwch adran 4).

5.80 Mae adran 5(1) yn darparu bod:

unrhyw gyfeiriad at gorff sy'n gweithredu 'yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy' yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn dull sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Yna mae Adran 5(2) yn manylu ymhellach ar yr egwyddor yma.

5.81 Mae'r "targedau llesiant" wedi eu diffinio yn adran 4 y Ddeddf Llesiant 2015, fel a ganlyn:

- (1) Cymru ffyniannus;

---

<sup>47</sup> Mae is-adrannau (4) a (6) yn ddiffiniadau ac addasiadau ôl-ddilydol.

- (2) Cymru wydn;
- (3) Cymru sy'n fwy iach;
- (4) Cymru sy'n fwy cyfartal;
- (5) Cymru o gymunedau cydlynol;
- (6) Cymru o ddiwylliant llewyrchus ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu; a
- (7) Chymru sy'n fyd-eang gyfrifol.

Mae pob un o'r targedau wedi eu diffinio'n fanylach yn Nhabl 1 yn adran 4.

- 5.82 Yn olaf, o dan adran 3(1) y Ddeddf Llesiant 2015, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus "wneud datblygiad cynaliadwy". Mae hynny'n cynnwys pennu amcanion llesiant sydd wedi'u llunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni pob un o'r targedau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny, ond nid yw'r ddyletswydd wedi'i chyfyngu i amcanion o'r fath. Mae'n amlwg nad yw "datblygiad" yn yr adran hon wedi'i gyfyngu i "ddatblygiad" fel y mae wedi'i ddiffinio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (gweithrediadau adeiladu [ac ati] a newidiadau mewn defnydd tir), er y gallai ei gynnwys.
- 5.83 Mae'r gyfres hon o ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn disodli'n effeithiol dyletswydd awdurdodau cynllunio yng Nghymru o dan adran 39 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy wrth baratoi cynlluniau datblygu cenedlaethol neu leol, a'r ddyletswydd fwy cyffredinol a roddir ar Weinidoigon Cymru gan adran 79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i gweithredwyd yn gyntaf) i gynhyrchu cynllun blynyddol sydd yn nodi sut maent yn bwriadu, wrth gyflawni eu dyletswyddau, hybu datblygiad cynaliadwy.
- 5.84 Mae adran 79 Deddf 2006 yn darparu, yn syml, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol i hybu datblygiad cynaliadwy.<sup>48</sup>
- 5.85 Mae'n ymddangos nad yw Adran 3(1) Deddf Llesiant 2015 yn rhoddi swyddogaeth newydd i gyrff cyhoeddus; yn hytrach, mae'n gosod dyletswydd newydd ar gyrff o'r fath i weithredu'r swyddogaethau sydd ganddynt eisoes fel rhan o'u dyletswydd i gyflawni datblygiad cynaliadwy. Ac ymhlith y swyddogaethau hynny mae'r holl rymoedd a'r dyletswyddau sydd ganddynt dan y Deddfau cynllunio.
- 5.86 Mae'n ymddangos felly bod Rhan 2 DC(C)) 2015 wedi ei gweithredu i osogi amheuaeth - i ddatgan yn eglur bod y dyletswyddau newydd dan y Ddeddf Llesiant yn gymwys i'r ymarfer gan unrhyw gorff cyhoeddus o weithrediadau dan Rhan 3 DCGTh 1990 (ceisiadau cynllunio ac apeliadau) yn ogystal â chynlluniau datblygu dan Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, ac yn ychwanegu dim at y ddyletswydd dan adran 3 y Ddeddf Llesiant. Ac mae'n werth sylwi nad yw adran 2(5) yn datgan yn glir nad yw egwyddor datblygiad cynaliadwy'n effeithio'r ateb i'r

---

<sup>48</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 79(1), a gafodd ei hamnewid gan y Ddeddf Llesiant 2015, a 16.

cwestiwn a ddylid ystyried a yw mater arbennig yn "berthnasol" i benderfyniad cynllunio penodol (gwelwch isod), neu faint o bwysigrwydd y dylid ei roi i fater o'r fath.

### **Datblygiad cynaliadwy: diwygio posibl**

Rydym wedi nodi bod adran 2 DC(C)2015 yn cyfeirio yn benodol at benderfyniad ceisiadau cynllunio a datblygiad cynllunio.

Fodd bynnag rydym wedi nodi hefyd bod y ddyletswydd fwy cyffredinol dan adran 3 Deddf Llesiant 2015 yn gymwys i berfformiad unrhyw weithrediadau cynllunio dan unrhyw Ddeddf - yn cynnwys DCGTh 1990,

- 5.87 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, Deddf Sylweddau Peryglus 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 1990.
- 5.88 Rydym felly yn ystyried y byddai'n arbennig o ddefnyddiol cael, yn y Cod, darpariaeth benodol yn cysylltu rhai yn unig o'r darpariaethau ynddo i'r Ddeddf Llesiant.
- 5.89 Byddai'n bosibl i'r Bil gynnwys darpariaeth gyfwerth ag adran 2 DC(C) 2015, ond y gellid ei gynyddu yn ei weithrediad er mwyn ymwneud yn eglur â gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod gan gorff cyhoeddus. Nid ydym yn ystyried y byddai newid o'r fath yn arwain mewn gwirionedd at unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau cynllunio neu eraill, ond byddai'n gwneud y ddeddfwriaeth yn eglur.
- 5.90 Fodd bynnag, rydym yn ystyried isod nifer o statudau eraill, (er enghraifft y rhai hynny sydd yn berthnasol i'r amgylchedd naturiol) sydd yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, wrth weithredu eu unrhyw un o'u gweithrediadau, i dalu sylw i faterion amrywiol. Rydym yn casglu nad yw o fudd i gyfeirio at unrhyw un o'r dyletswyddau hynny yn y Bil Cynllunio, yn ogystal â'r cyfeiriad sydd yn bodoli eisoes yn y statud dan sylw. Yn lle hynny, dylid cyfeirio at fodolaeth y dyletswyddau hynny mewn canllawiau.<sup>53</sup> Nid oes unrhyw reswm amlwg pam fod y ddyletswydd dan adran 3 Deddf Llesiant (er wedi ei geirio ychydig yn wahanol) yn wahanol mewn egwyddor.

Rydym felly yn casglu dros dro nad oes unrhyw reswm dros aildatgan DC(C)2015 yn y Bil, naill ai yn ei ffurf bresennol neu wedi ei ehangu er mwyn bod yn gymwys i weithredu gweithrediadau eraill dan y Cod.

### **Cwestiwn ymgynghori 5 - 7**

**Rydym yn ystyried dros dro nad yw'n hanfodol i'r Bil gynnwys darpariaeth, cyfwerth ag adran 2 DC(C) 2015, i'r perwyl bod unrhyw gorff cyhoeddus sydd yn gweithredu rhai o'r gweithrediadau gan y Cod yn gorfod gwneud hynny fel rhan o'i ddyletswydd dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2105 i gyflanwi datblygiad cynaliadwy.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## DYLETSWYDDAU O DAN GYNLLUNIAU STATUDOL ERAILL

- 5.92 Yn ychwanegol at y dyletswyddau a ystyrir uchod, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithrediad swyddogaethau o dan y Deddfau cynllunio, mae nifer o statudau eraill sy'n gosod dyletswyddau sy'n uniongyrchol berthnasol i weithrediad y swyddogaethau hynny.
- 5.93 Rydym wedi nodi uchod bod dyletswyddau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 sy'n berthnasol i weithrediad rhai swyddogaethau o dan y Deddfau cynllunio; ac rydym wedi cynnig dros dro eu bod yn cael eu hymestyn i ddod yn ddyletswydd gyffredinol, sy'n berthnasol i weithrediad unrhyw swyddogaeth statudol gan unrhyw gorff cyhoeddus.
- 5.94 Rydym hefyd wedi nodi dyletswydd gyffredinol cyrff cyhoeddus, o dan adran 3 Deddf Llesiant 2015, i wneud datblygiad cynaliadwy.
- 5.95 Ond, yn ychwanegol at y dyletswyddau hynny, mae nifer o rai eraill, o dan amrywiaeth eang o statudau. Rydym yn sôn isod am rai o'r rheiny sy'n ymddangos yn fwyaf perthnasol i weithrediad swyddogaethau cynllunio.<sup>49</sup>

### Dyletswyddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol

- 5.96 O dan adran 11 Deddf Cefn Gwlad 1968, mae'n rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gwneud swyddogaethau sy'n ymwneud â thir o dan unrhyw ddeddfiad ystyried manteision cynnal harddwch ac amwynder naturiol cefn gwlad.
- 5.97 O dan adran 11A Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, fel y mae wedi'i gosod i mewn gan adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995, wrth weithredu unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir mewn parc cenedlaethol, bydd unrhyw awdurdod perthnasol yn ystyried pwrpasau
- (1) cadw a gwella harddwch naturiol, bwyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd [yn addas ar gyfer eu dynodi'n barciau cenedlaethol]; a
  - (2) hybu cyfleodd i'r cyhoedd i ddeall a mwynhau ansawdd arbennig yr ardaloedd hwnnw.<sup>50</sup>
- 5.98 O dan adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, wrth weithredu neu berfformio swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol (AHNE), mae awdurdodau i ystyried pwrpas cadw a gwella harddwch naturiol yr AHNE.
- 5.99 Yn olaf, o dan adran 6(1) Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 (dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau):

---

<sup>49</sup> Rhestrir y dyletswyddau o dan bob pennawd yn ol trefniant gwreiddiol eu cyflwyniad.

<sup>50</sup> Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a. 5; gwnaed yn berthnasol i Gymru gan a. 4A (rhoddwyd i mewn gan Ddeddf yr Amgylchedd 1990, Atodlen 8, paragraff 1). Lle mae gwrthdaro rhwng y ddau bwrpas a nodwyd, rhaid rhoi'r flaenoriaeth i'r cyntaf (a. 11A(2)). Mae "awdurdod perthnasol" yn cynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol, ymgymerydd statudol a'r rheiny sydd mewn swydd gyhoeddus (is-adrannau (3), (4)).

Mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth weithredu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny hybu gwydnwch ecosystemau, cyn belled ag y bo'n gyson gyda gweithrediad cywir y swyddogaethau hynny.

- 5.100 Mae natur y ddyletswydd wedi'i ddisgrifio'n fanylach yn adran 6(2). Mae'n cymryd lle'r ddyletswydd oedd yn arfer bod yn berthnasol o dan adran 40 Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, sy'n parhau i fod yn weithredol yn Lloegr.
- 5.101 Mae'n amlwg bod y dyletswyddau yma yr un mor berthnasol i weithrediad swyddogaethau cynllunio mewn achosion priodol ag ydyw'r dyletswyddau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ond nid ydynt eto wedi bod yn bwnc unrhyw ymgyfreithiad neu sylwadau academaidd.

### **Dyletswyddau yn ymwneud â'r amgylchedd sydd o dan gyfarwydddebau Ewropeaidd ar hyn o bryd**

- 5.102 Mae nifer o gyfarwydddebau UE sy'n ymwneud â'r amgylchedd sy'n berthnasol i arferiad swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth gynllunio mewn achosion penodol. Dyma'r mwyaf nodedig o'r rhain.
- 5.103 O dan Reoliad 9 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, mae'n rhaid i unrhyw awdurdod berthnasol, wrth wneud unrhyw rai o'i swyddogaethau, ystyried gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Adar Gwyllt.<sup>51</sup>
- 5.104 Mae Rheoliad 18 y Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn darparu bod awdurdodau cynllunio, wrth weithredu unrhyw rai o'u swyddogaethau cynllunio mewn perthynas â gwastraff, yn gorfod ystyried darpariaethau penodol y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff. Mae rheoliad 20 yn gosod gofynion tebyg mewn perthynas â'r Gyfarwydddeb Tirlenwi a'r Gyfarwydddeb Gwastraff Mwynau.<sup>52</sup>
- 5.105 Nid yw Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 yn cynnwys unrhyw ddyletswyddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio, ond gallai'r darpariaethau ynddynt sy'n berthnasol i ansawdd cyrff dŵr (llynnoedd, afonydd ac ati) fod yn berthnasol mewn rhai achosion.
- 5.106 Nid oes sicrwydd erbyn hyn pa mor gywir y bydd y gofynion yma'n cael eu trosi i ddeddfwriaeth ddomestig yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, ond mae'n hynod annhebygol y bydd hanfod yr amrywiol ddyletswyddau a grybwyllwyd uchod yn diflannu.

### **Dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth arall**

- 5.107 Mae Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i arfer eu hamrywiol swyddogaethau, o dan unrhyw ddeddfwriaeth, gydag ystyriaeth ddyladwy i'r angen am wneud popeth y gallent yn rhesymol ei wneud i atal

---

<sup>51</sup> Mae hyn yn disodli'r ddyletswydd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 1994, sydd ond yn berthnasol i weithrediad swyddogaethau sy'n ymwneud â chadwraeth natur.

<sup>52</sup> Cyfarwydddeb y Cyngor 1999/31/EC (Rhoi gwastraff mewn ardal tirlenwi); Cyfarwydddeb 2006/21/EC (Rheoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnol).

trosedd ac anrhefn yn yr ardal (yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd lleol), camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill ac aildroseddu.<sup>53</sup> Mewn ymateb i'r Papur Cwmpasu, roedd Pedwar Heddlu Cymru'n dangos bod angen i hyn gael ei adlewyrchu mewn unrhyw gyfreithiau cynllunio yng Nghymru yn y dyfodol.

- 5.108 Trwy rinwedd adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd ar awdurdodau hefyd i weithredu eu swyddogaethau gydag ystyriaeth ddyladwy i'r angen am ddiddymu gwahaniaethu yn erbyn y rheiny gyda nodweddion a ddiogelir o dan y Ddeddf (yn cynnwys anabledd) ac ymddygiad arall a waherddir o dan y Deddf; ac i ddatblygu cydraddoldeb rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a nodweddion eraill.
- 5.109 O dan adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998, nid oes hawl gan awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o dan y Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd.

### **Dyletswyddau o dan gynlluniau statudol eraill: casgliad**

- 5.110 O ystyried bod nifer o'r rheiny sy'n defnyddio deddfwriaeth gynllunio ddim yn gwybod am rai, neu am y cyfan, o'r dyletswyddau a drafodir uchod, gallai ymddangos yn briodol ar yr olwg gyntaf i'w hailddatgan nhw yn y Bil. Ond, byddai gwneud hynny'n ychwanegu at hyd y Bil, a gallai arwain at nifer o broblemau, yn cynnwys y canlynol:
- (1) yn y lle cyntaf byddai'n dyblygu'r darpariaethau yn y statudau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, ond byddai'n arwain at risg, pan fo'r statudau hynny'n cael eu diweddarau, eu haddasu neu eu hamnewid, na fyddai'r Ddeddf Cynllunio'n cael ei diwygio yn yr un ffordd;
  - (2) gallai fod yn anodd gwybod pa ddyletswyddau i'w cynnwys mewn rhestr o'r fath, a pha rai i'w heithrio;
  - (3) byddai'n arwain at risg y gallai un neu fwy o ddyletswyddau fel yma gael eu hepgor, yn anfwriadol neu beidio, yn enwedig wrth i ragor o ddyletswyddau gael eu hychwanegu mewn deddfwriaeth yn y dyfodol - gyda'r canlyniad y gallai'r dyletswyddau nad ydynt wedi eu henwi gael eu hanwybyddu neu o leiaf fod â llai o bwysigrwydd;
  - (4) mae trefn rhestr o'r fath yn gallu rhoi'r argraff bod rhai o'r dyletswyddau'n fwy pwysig nag eraill.
- 5.111 Yn ail, byddai'n bosibl peidio ailadrodd geiriad pob dyletswydd, ond dim ond cynnwys darpariaeth "arwyddo" at y fan lle gellir canfod dyletswydd. Byddai hynny'n dal i achosi'r mwyafrif o'r problemau uchod.
- 5.112 Felly, o edrych ar y ffeithiau i gyd, er ein bod yn ystyried (ac yn awgrymu yn ein Papur Cwmpasu) y gellid bod teilyngdod i'r ail agwedd sydd wedi'i amlinellu uchod, rydym

---

<sup>53</sup> Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a. 17(1).



yn ystyried ar ôl myfyrio ar hyn, y gallai rhestr o'r fath yn y Bil achosi cymaint o broblemau ag y mae'n eu datrys.

- 5.113 Felly rydym yn ystyried y byddai'n fwy priodol rhoi ystyriaeth i gynnwys rhestr o'r fath yn y canllawiau sy'n rhan o'r Cod - efallai ochr yn ochr â sylwadau priodol sy'n amlinellu pa mor berthnasol y mae pob categori'n debygol o fod i amrywiol fathau o swyddogaethau cynllunio. Mae hyn yn cyfateb gyda'r awgrym a wnaed gan Gymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd mewn ymateb i'r Papur Cwmpasu.<sup>54</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 5-8

**Rydym yn cynnig dros dro bod cyfres o ddarpariaethau arwyddo at ddyletswyddau mewn deddfwriaeth nad yw'n deddfwriaeth gynllunio a allai fod yn berthnasol i weithrediad swyddogaethau o dan y Cod yn cael eu cynnwys mewn canllawiau Gweinidogaethol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### CLODDIO AM LO

- 5.114 Mae Adran 53(3) Deddf y Diwydiant Glo 1994 - a gafodd ei gweithredu ar y pryd pan oedd y diwydiant glo'n cael ei breifateiddio - yn gofyn bod y rheiny sy'n ffurfio cynigion ar gyfer cloddio am lo, adfer tir yn dilyn cloddio, a gweithrediadau achlysurol yn ystyried pa mor fanteisiol fyddai cadw harddwch naturiol, gofalu am fflora a ffawna a nodweddion daearyddol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig, a diogelu safleoedd, adeiladau, strwythurau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archeolegol.
- 5.115 Mae hynny'n cyfateb â dyletswyddau tebyg mewn perthynas â gweithrediad unrhyw rai o'u swyddogaethau gan ddiwydiannau gwladoleddig a chyrrff cyhoeddus.<sup>55</sup> Ond, mae'r ddyletswydd o dan Ddeddf 1994 yn gymwys dim ond mewn perthynas â ffurfio cynigion. Ymhellach, pan fydd awdurdod cynllunio'n ystyried cais cynllunio ar gyfer cynigion cloddio, ac ati, o'r fath, mae'n ofynnol gan adran 53(2) Deddf 1994 i ystyried manteision cadw'r amrywiol faterion y cyfeirir atynt yn adran 53(3) (harddwch naturiol ac ati).
- 5.116 Yn ymarferol, mae gofyn i'r awdurdod wneud hynny drwy ddeddfwriaeth arall - yn cynnwys y darpariaethau statudol sy'n derbyn ystyriaeth yn adran flaenorol y Bennod hon. Hyd yn oed os nad yw'n benodol o dan ddyletswydd o'r fath, fe fydd yn rhan o'r ddyletswydd gyffredinol, a nodwyd yn barod, i roi ystyriaeth i bopeth sy'n berthnasol - a fydd bob amser yn cynnwys y materion y soniwyd amdanynt yn adran 53. Ymhellach, mae'n amhosibl credu na fydd gan y cynllun datblygu bolisiau perthnasol

<sup>54</sup> Gweler **para 5.15** uchod.

<sup>55</sup> Er enghraifft, awdurdodau tai, byrddau draeniad mewnol, ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth; cyflenwyr trydan; a gweithredwyr systemau telegyfathrebu.

ar y materion yma - y bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio roi ystyriaeth iddynt wrth gwrs.

- 5.117 Ac os oes gofyn i'r awdurdod cynllunio gymryd y materion hynny i ystyriaeth wrth asesu cynigion, bydd yn rhaid i'r rheiny sy'n ffurfio'r cynigion hefyd eu cymryd i ystyriaeth i'r un graddau - naill ai drwy osgoi unrhyw effeithiau niweidiol neu drwy eu lleihau nhw gymaint ag sy'n bosibl.
- 5.118 Felly, rydym yn barnu bod adran 53 yn ychwanegu dim byd, a gellir ei diddymu cyn belled ag y bo'n berthnasol yng Nghymru.

### **Cwestiwn ymgynghori 5-9.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid addasu adran 53 Deddf y Diwydiant Glo 1994 (dyletswyddau amgylcheddol mewn cysylltiad â chynllunio) fel nad yw'n gymwys bellach yng Nghymru.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **PWRPAS STATUDOL AR GYFER CYNLLUNIO**

- 5.119 Roeddem wedi nodi ar gychwyn y Bennod hon ein bod wedi awgrymu yn y Papur Cwmpasu y gallai fod yn briodol i'r Bil nodi'r pwrpas statudol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru.<sup>56</sup>
- 5.120 Os derbynnir ein cynigion uchod, byddent yn golygu bod yr amrywiol gyfeiriadau at y cynllun datblygu a'r ystyriaethau perthnasol eraill, sydd wedi'u gwasgaru ar hyn o bryd ledled Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a manau eraill, yn cael eu disodli gan un ddyletswydd (neu gyfres o ddyletswyddau), efallai ar ddechrau'r Bil newydd, gan achosi bod:
- (1) Corff cyhoeddus sy'n gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod:
    - (a) yn gorfod gwneud hynny gan ystyried:
      - y cynllun datblygu, cyn belled ag y bo'n berthnasol i weithrediad y swyddogaeth berthnasol; a'r
      - holl ystyriaethau perthnasol eraill,
    - (b) ac mae'n rhaid iddo weithredu'r swyddogaeth berthnasol yn unol â'r cynllun datblygu, heblaw bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol;

---

<sup>56</sup> Gweler **paragraffau 5.4 i 5.8.**

- (2) Mae'r ystyriaethau perthnasol y mae'n rhaid eu hystyried (o dan (1)) yn cynnwys:
  - (a) polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnydd a datblygiad tir, cyn belled â'u bod yn berthnasol i weithrediad y swyddogaeth sydd dan sylw; ac
  - (b) effaith debygol, os oes effaith o gwbl, gweithrediad y swyddogaeth honno o ddefnyddio'r iaith Gymraeg;
- (3) Nid yw ystyriaeth y materion hynny a grybwyllwyd yn (2) i effeithio ar hyn:
  - (a) oes rhaid ystyried unrhyw ystyriaethau eraill wrth weithredu'r swyddogaeth honno, neu
  - (b) y pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth weithredu'r swyddogaeth honno.

5.121 O fyfyrir ar hynny, rydym yn ystyried dros dro y byddai cyfres o ddarpariaethau o'r math yma'n amgau llawer o'r materion, os nad y materion i gyd, y gellid eu cynnwys mewn darpariaeth statudol mewn perthynas â phwrpas cyffredinol y system gynllunio. Ymhellach, mae'n bosibl y gallai cynnwys pwrpas statudol ochr yn ochr â chyfres o ddarpariaethau o'r fath achosi dyblygu dianghenraid nad yw o gymorth o gwbl, ac efallai wrthdaro hyd yn oed. Felly nid ydym yn cynnig cynnwys pwrpas o'r fath.

### **Cwestiwn ymgynghori 5-10**

**Yng nghyd-destun y cynigion blaenorol yn y Bennod hon, rydym yn cynnig dros dro nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth yn egluro pwrpas y system gynllunio yng Nghymru.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **GWEINYDDIAD Y SYSTEM GYNLLUNIO**

### **Gweinidogion Cymru**

5.122 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y cafodd ei deddfu'n wreiddiol, yn cyfeirio at y swyddogaethau Llywodraeth leol sy'n cael eu gweithredu gan "yr Ysgrifennydd Gwladol". Cafodd pob un o'r swyddogaethau yma bron eu trosglwyddo i Gynlluniad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn 1999.<sup>57</sup> Yna cafodd y swyddogaethau hynny eu trosgwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<sup>58</sup> Mae darnau erallil o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd yn cyfeirio'n amrywiol at swyddogaethau sy'n cael eu gweithredu gan y

<sup>57</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS Rhif 672), erthygl 2, Atodlen 1.

<sup>58</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a. 162(1), Atodlen 11, paragraff 30.

Gweinidog, yr Ysgrifennydd Gwladol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Gweinidogion Cymru.

- 5.123 Mae'n amlwg y bydd y Cod Cynllunio'n cyfeirio drwyddo draw at "Weinidogion Cymru"; a bydd hynny yn ddo'i hun yn eglurhad sylweddol i ddefnyddwyr y system.

### Yr Arolygiaeth Gynllunio

- 5.124 Mae Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 wedi'i deitlo braidd yn amwys "Penderfynu apeliadau penodol gan bobl a benodir gan [Weinidogion Cymru]"; ac mae cyfeiriadau eraill, yn arbennig mewn deddfwriaeth eilaidd, at "bobl a benodir". Ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth arall mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y system gynllunio. Efallai bod hyn yn peri syndod, o ystyried ei rôl hanfodol bwysig.
- 5.125 Rydym yn nodi bod corff cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon yn derbyn sylw mewn darpariaethau gweddol fyr yn adran 203 Deddf Gynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011, sy'n disgrifio ei drefniadau llywodraethu parhaus, ei strwythur uwch, ei weinyddiad a'r ffaith ei fod yn ddiuedd.<sup>59</sup> Mae hynny'n deillio yn rhannol o'r trefniadau cyfansoddiadol gwahanol yng Ngogledd Iwerddon. Hyd yn ddiweddar, gwnaed ceisiadau cynllunio i Adran yr Amgylchedd, a oedd yn ei hanfod yn awdurdod cynllunio un haen, fel bod yn rhaid gwneud apeliadau i gorff ar wahân i'r Adran - yr oedd yn rhaid eu creu gan statud wedi hynny.
- 5.126 I'r gwrthwyneb, mae'r corff cyfatebol yng Ngweriniaeth Iwerddon, An Bord Pleanála, yn derbyn sylw mewn darpariaethau llawer mwy eang yn Rhan VI Deddf Cynllunio a Datblygu 2000, sy'n rhoi llawer iawn o fanylion am ei weithrediad o ddydd i ddydd. Roedd y darpariaethau hynny hefyd yn ganlyniad i drefniadau sefydliadol sy'n unigryw i'r Weriniaeth.
- 5.127 Rydym wedi ystyried hefyd a ddylid cael darpariaeth fer yn y Cod, efallai yn dilyn model Gogledd Iwerddon, sy'n cydnabod bodolaeth a rôl yr Arolygiaeth Gynllunio. Ac rydym wedi cynnal trafodaethau ar y mater yma gyda'r Arolygiaeth, a awgrymodd nad oes angen i'r deddfwriaeth gyfeirio at yr Arolygiaeth yn benodol; yr unig newid manteisiol fyddai cyfeirio at "arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru" yn hytrach na "pherson a benodwyd".
- 5.128 Rydym wedi ystyried a oes gair arall, yn hytrach nag "arolygydd", i amlygu'r ffaith nad oes raid i'r person a benodir gan Weinidogion Cymru fod yn weithiwr cyflogedig i'r Arolygiaeth; a gallai fod yn weithiwr cyflogedig yn hytrach nag arolygydd.<sup>60</sup> Mae'n ymddangos mai "archwilydd" fyddai'r disgrifiad mwyaf priodol. Ni fyddai'r gair "adroddwr" a ddefnyddir yn yr Alban yn ymddangos yn addas, oherwydd yn y mwyafrif mawr o achosion, yr unigolyn perthnasol fydd yn gwneud y penderfyniad, yn hytrach na chyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru i'w galluogi nhw i wneud penderfyniad.
- 5.129 Rydym yn nodi bod yr Arolygiaeth Gynllunio'n gorff gweithredol a ariennir ar y cyd gan adrannau perthnasol Llywodraeth ganolog yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn

---

<sup>59</sup> Nodiadau Esboniadol Llywodraeth Gogledd Iwerddon i'r PNIA 2011.

<sup>60</sup> Mae rhai tasgau perthnasol yn cael eu gwneud yn ôl y sôn gan staff cymorth gweinyddol.

nodi hefyd y gallai Gweinidogion Cymru ddymuno mewn achosion ethriadol i benodi rhywun heblaw un o weithwyr cyflogedig yr Arolygiaeth i fod yn arolygydd, ac y gallai ystyried maes o law y byddai'n briodol creu corff neu asiantaeth gyfatebol sy'n gweithredu dim ond mewn perthynas â Chymru.

- 5.130 Rydym yn cytuno felly y dylid cyfeirio at y bobl hynny a benodir gan Weinidogion Cymru i wneud amrywiol swyddogaethau - p'un a ydynt yn gyflogeion i'r Arolygiaeth, yn gcontractwyr annibynnol neu'n rhywbeth arall - fel "arolygwyr" er mwyn cydymffurfio â'r arfer cyfredol<sup>61</sup> neu o bosib fel "archwilwyr"; ond fel arall, ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau.

### **Cwestiwn ymgynghori 5-11.**

**Rydym yn ystyried dros dro y dylid cyfeirio yn y Cod Cynllunio at y bobl a benodir gan Weinidogion Cymru i bwrpas penderfynu apeliadau, gwneud ymholiadau a swyddogaethau tebyg eraill fel "arolygwyr" neu "archwilwyr", ond yn y naill achos a'r llall, mewn ffordd a fydd yn dangos yn glir nad ydy hyn yn atal Gweinidogion Cymru rhag penodi ar gyfer pwrpas arbennig rhywun nad ydyw'n weithiwr cyflogedig i'r Arolygiaeth Gynllunio.**

**A ydy'r ymgynghoreion yn cytuno, ac os felly pa derm mae'r ymgynghoreion yn meddwl sydd fwyaf addas?**

### **Awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a byrddau cynllunio ar y cyd**

- 5.131 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig yn cyfeirio mewn amrywiol fannau at "awdurdodau cynllunio lleol" ac at "awdurdodau lleol". Ni ddylid drysu'r ddau derm.
- 5.132 Yn gyffredinol, mae'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â hunaniaeth awdurdodau cynllunio lleol, a geir ar hyn o bryd yn Rhan 1 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn gymhleth iawn. Fodd bynnag, fel y dangoswyd yn Nhabl 1-2, mae'r darpariaethau sy'n berthnasol yng Nghymru'n sylweddol symlach, a hynny'n fwy na dim am fod gan Gymru system unedol o lywodraeth leol - yn wahanol i Loegr, sy'n cadw system ddwy haen, o leiaf mewn rhai ardaloedd.
- 5.133 Mae'r rheol sylfaenol yn adran 1(1B) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: yr "awdurdod cynllunio lleol" ar gyfer sir yw'r cyngor sir; yr awdurdod cynllunio ar gyfer bwrdeistref sirol yw'r cyngor bwrdeistref sirol.<sup>62</sup> Mae mwy o ddarpariaethau manwl yn ymwneud â sefyllfoedd penodol yn Atodlen 1A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>63</sup>
- 5.134 Mae pob un o'r parciau cenedlaethol yng Nghymru'n derbyn gofal gan awdurdod parc cenedlaethol. Mae gan bob awdurdod o'r fath aelodau wedi'u tynnu o gynghorau sir

<sup>61</sup> Gweler hefyd, er enghraifft, Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 59(2).

<sup>62</sup> Mewnosodwyd gan yr LGWA 1994, a 18.

<sup>63</sup> Mewnosodwyd gan yr LGWA 1994, atod 4, a diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, atod 4, para 22.

neu gynghorau bwrdeistref sirol, a phenodir rhai gan Lywodraeth Cymru. Felly nid yw'n "awdurdod lleol" ynddo'i hun (yn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 1972) - er bod awdurdodau parciau cenedlaethol yn cael eu diffinio fel awdurdodau lleol i bwrpas deddfwriaeth benodol. Ac mae "awdurdodau lleol" yn cynnwys amrywiaeth o gyrff heblaw cynghorau lleol yn unig - megis byrddau a phwyllgorau ar y cyd, gydag aelodau a benodir gan gynghorau. Mae Adran 4A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<sup>64</sup> yn nodi mai'r awdurdod cynllunio lleol mewn parc cenedlaethol yw'r awdurdod parc cenedlaethol fel arfer; ac mae hyn yn wir hefyd mewn perthynas â phob un o'r parciau cenedlaethol yng Nghymru.<sup>65</sup>

- 5.135 O dan adran 2(1B) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,<sup>66</sup> gall Gweinidogion Cymru drwy orchymyn benodi holl ardaloedd, neu rai ardaloedd o ddau neu fwy o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirolly tu allan i barc cenedlaethol i fod yn ardal unedig, ac yna gall benodi bwrdd cynllunio ar y cyd fel awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal unedig honno. Yma hefyd, nid yw bwrdd ar y cyd yn "awdurdod lleol" mewn gwirionedd, er y gellid ei drin fel un os yw ei awdurdodau cyfansoddol i gyd yn awdurdodau lleol.<sup>67</sup> Efallai y bydd y trefniant yma'n cael ei ddefnyddio mwy yn y dyfodol, o ystyried yr awgrymiadau a wnaed yn ddiweddar am y posibilrwydd o weithio ar y cyd gan awdurdodau cyfagos.<sup>68</sup> Ac efallai y bydd angen meddwl am y rhyngberthynas rhwng cyd-fyrddau cynllunio a sefydlwyd o dan baneli cynllunio strategol a darpariaethau sydd i gael eu sefydlu o dan y trefniadau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.<sup>69</sup>
- 5.136 Trwy rinwedd adran 1(4B), mae pob awdurdod cynllunio lleol - cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu awdurdod parc cenedlaethol - yn awdurdod cynllunio mwynau hefyd.
- 5.137 Nid oes unrhyw reswm dros newid y trefniadau yma; a bydd hepgor darpariaethau sy'n berthnasol dim ond yn Lloegr yn gwneud y rhan yma o'r Cod Cynllunio'n llawer symlach nag ydyw ar hyn o bryd.

### Mathau eraill o awdurdod cynllunio lleol

- 5.138 Gall awdurdodau ardaloedd menter, a grëwyd o dan bwerau yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, gael eu dynodi'n awdurdodau cynllunio lleol i bwrpasau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ni chafodd unrhyw ardaloedd menter eu creu o dan Ddeddf 1980 am fwy na 30 mlynedd. Felly rydym yn cynnig ym Mhennod 16 bod y pŵer i ddynodi ardaloedd menter yn cael ei ddileu yng Nghymru.<sup>70</sup>

---

<sup>64</sup> Mewnosodwyd gan yr EA 1995, a 76 (yn disodli Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a. 4).

<sup>65</sup> OS 1995 2803.

<sup>66</sup> Mewnosodwyd gan yr LGWA 1994 a 19.

<sup>67</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 336.

<sup>68</sup> Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, Llywodraeth Cymru, 31 Ionawr 2017.

<sup>69</sup> Gweler **para 6.19**.

<sup>70</sup> Fel sydd wedi'i nodi yn y Bennod honno, gallai ymddangos bod wyth ardal fenter yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae'r rhain yn ardaloedd sydd wedi eu dynodi o dan Ddeddf Lwfansau Cyfalaf 2001, fel y mae wedi'i diwygio gan Ddeddf Cyllid 2012 (gweler **para 16.70**).

- 5.139 P'un a ddiddymir y pŵer i greu ardaloedd menter ai peidio, mae werth nodi nad oes unrhyw awdurdod ardal fenter yng Nghymru na Lloegr wedi'u dynodi'n awdurdod cynllunio lleol (heblaw am un a oedd yn awdurdod cynllunio yn barod) Rydym yn ystyried ei bod hi'n hynod o annhebygol y bydd y ddarpariaeth sy'n galluogi i awdurdod ardal fenter gael ei ddynodi'n awdurdod cynllunio (o dan adran 6 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) yn cael ei defnyddio yn y dyfodol, ac rydym yn cynnig na ddylai gael ei gynnwys yn y Cod newydd.
- 5.140 Rydym hefyd yn ystyried y sefyllfa o ran corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu ar dai mewn mwy o fanylder ym Mhennod 16. Ymhob achos, rydym yn cynnig dros dro nad yw'r cod statudol presennol o unrhyw ddefnydd parhaol, ac na ddylid ei ailddatgan yn rhan o'r Cod newydd.
- 5.141 Rydym yn nodi mai dim ond un corfforaeth datblygu trefol (Bae Caerdydd) a grëwyd erioed yng Nghymru, yn 1987, ac na chafodd ei dynodi'n awdurdod cynllunio lleol. Yn debyg i ardaloedd menter, rydym yn barnu ei bod hi'n annhebygol y bydd y ddarpariaeth (yn adran 7 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) sy'n galluogi dynodi corfforaeth datblygu trefol yn awdurdod cynllunio, yn cael ei defnyddio yn y dyfodol, ac rydym yn cynnig peidio ei chynnwys yn y Cod newydd.
- 5.142 Rydym yn nodi hefyd ym Mhennod 19 bod chwe ymddiriedolaeth gweithredu tai wedi eu sefydlu yn yr 1990au, ond roeddent oll yn Lloegr, ac nid oedd yr un ohonynt wedi'u dynodi'n awdurdod cynllunio lleol. Yma hefyd, rydym yn barnu ei bod hi'n annhebygol y bydd y ddarpariaeth sy'n galluogi i ymddiriedolaeth gweithredu ar dai gael ei dynodi'n awdurdod cynllunio (yn adran 8 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) yn cael ei defnyddio yn y dyfodol, ac rydym yn cynnig peidio â'i chynnwys yn y Cod newydd.
- 5.143 Rydym yn nodi hefyd na chafodd corfforaethau datblygu tref eu dynodi erioed yn awdurdodau cynllunio o fewn eu hardaloedd.
- 5.144 Mae gweddill adran 1 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac Atodlen 1, yn gymwys dim ond mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae adrannau 2A - 2E, 3 a 7A yn berthnasol i Lundain yn unig. Mae Adran 5 yn ymwneud â'r Norfolk Broads a'r Suffolk Broads. Mae Adran 8A yn berthnasol i'r Asiantaeth Tai a Chymunedau, sydd ond yn gweithredu yn Lloegr. Mae'n dilyn nad oes angen ailddatgan unrhyw rai o'r darpariaethau hynny mewn Cod Cynllunio i Gymru.
- 5.145 Bydd angen addasu fel y bo'n ofynnol Adran 9 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau ôl-ddilynol ac atodol am awdurdodau cynllunio), fel y mae wedi'i diwygio gan adran 42 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

### Cwestiwn ymgynghori 5-7.12.

Rydym yn cynnig dros dro nad yw'r Bil yn cynnwys y darpariaethau sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd i alluogi i awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu ar dai gael eu dynodi'n awdurdodau cynllunio.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Awdurdodau cynllunio: terminoleg

- 5.146 Fel y nodwyd, mae'r Deddfau cynllunio'n cyfeirio at awdurdodau cynllunio lleol ac at awdurdodau lleol. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae'r term "awdurdod cynllunio lleol" yn ymddangos ledled Deddfau Cynllunio 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio 2008, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2015 - y maent oll i gael eu cynnwys yn yn y Cod Cynllunio. Yn ei hanfod, dyma weddillion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, oedd yn darparu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, awdurdodau cynllunio mwynau, awdurdodau cynllunio gwastraff, awdurdodau cynllunio dosbarth ac awdurdodau cynllunio sirol. Dim ond un awdurdod cynllunio y gellir ei gael erbyn hyn mewn unrhyw ardal o Gymru - a gall fod yn awdurdod lleol neu'n awdurdod parc cenedlaethol neu'n fwrdd cynllunio ar y cyd.
- 5.147 I'r gwrthwyneb, mae "awdurdodau lleol", fel y maent wedi'u diffinio yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994<sup>71</sup> - yn hytrach nag "awdurdodau cynllunio lleol"- yn derbyn sylw cyfyngedig iawn yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sef yn benodol:
- (1) gweithredu gan awdurdod lleol mewn ymateb i hysbysiad prynu neu hysbysiad malltod;<sup>72</sup>
  - (2) datblygiad a wneir gan awdurdod lleol;<sup>73</sup>
  - (3) prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol;<sup>74</sup>
  - (4) awdurdodau lleol fel awdurdodau sy'n cydsynio o dan ddeddfwriaeth arall;<sup>75</sup>
  - (5) hysbysiadau a gynhyrchir gan awdurdodau lleol;<sup>76</sup> a

<sup>71</sup> Gweler hefyd y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a. 336.

<sup>72</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 139-141, 143, 147A, 169, 170, 305, 306.

<sup>73</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 55, 90, 101, 235, 253, 306.

<sup>74</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 226, 227, 229-233, 235, 240-244, 244A, 246, 251, 252, 258, 260, 261, 271, 272, 274-276, 278, 336.

<sup>75</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 9, 71, 332.

<sup>76</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 329, 330, 333.



- (6) gweithiau a weithredir gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Iechyd Cyhoeddus.<sup>77</sup>
- 5.148 Mae'r rhain i gyd y tu allan i brif gynllun y Deddfau cynllunio - felly bydd nifer ohonynt heb gael eu cynnwys yn y Cod newydd.<sup>78</sup> Ond ni ddylai'r cyfeiriadau yma at awdurdodau lleol gael eu cyfieithu'n syml yn gyfeiriadau at "awdurdodau cynllunio lleol" pan fo'r darpariaethau perthnasol wedi eu cynnwys yn y Cod Cynllunio.
- 5.149 Rydym wedi nodi bod system unedol o lywodraeth leol wedi ei chyflwyno yn yr Alban yn 1974, a disodlwyd y term "awdurdod cynllunio lleol" gan y term "awdurdod cynllunio".<sup>79</sup> Mae'n ymddangos bod hwn yn newid defnyddiol, am ei fod yn dangos yn fwy eglur na fydd awdurdod cynllunio bob amser yn awdurdod lleol - yn ogystal â bod yn derm symlach (a byrrach).
- 5.150 Mae'n wir bod nifer o statudau heblaw'r rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio hefyd yn cyfeirio at "awdurdodau cynllunio lleol".<sup>80</sup> Byddai'n weddol syml i'r rheiny gael eu haddasu'n briodol.
- 5.151 Ac mae pob "awdurdod cynllunio lleol" yn "awdurdod cynllunio mwynau" - felly nid oes angen yr ymadrodd hwnnw chwaith.
- 5.152 Yn olaf, gellir nodi na chyfeirir byth at Weinidogion Cymru, sy'n derbyn nifer o swyddogaethau wrth gwrs o dan y ddeddfwriaeth gynllunio, fel "awdurdodau cynllunio".<sup>82</sup>

---

<sup>77</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a. 178, 190, 207, 219.

<sup>78</sup> Gweler **pennod 3**.

<sup>79</sup> Deddf Llywodaeth Leol (Yr Alban) 1973, a. 172(2).

<sup>80</sup> Mae'r ymadrodd "awdurdod cynllunio lleol" yn digwydd felly mewn 21 o statudau amgylcheddol eraill, llywodraeth leol a statudau perthnasol (y mae traean ohonynt yn berthnasol i Gymru yn unig), y bydd y mwyafrif ohonynt, os nad pob un ohonynt, angen eu diwygio o ganlyniad i gyflwyno'r Cod Cynllunio - Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Digolledu Tir 1961, Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Bwrdd Datblygu Cymru 1975, Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, Deddf Cludiant a Gwaith 1992, Deddf Diwygio Cyfraith Prydlesu, Tai a Datblygiad Trefol 1993, Deddf y Diwydiant Glo 1994, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Deddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llywodraeth Leol 1998, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, Deddf Cymdogaethau Glân [ac ati] 2005, Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – ac unwaith neu ddwywaith mewn oddeutu 35 o statudau eraill. Mae'r ymadrodd yn digwydd hefyd mewn 50 o statudau eraill, sy'n berthnasol yn Lloegr neu'r Alban yn unig, ond ni fyddai angen eu diwygio.

<sup>82</sup> Mae Gweinidogion Cymru'n "awdurdod cynllunio" i bwrpasau adran 53 Deddf Diwydiant Glo 1994; ond rydym wedi cynnig addasu hyn fel nad yw'n berthnasol bellach i Gymru (gwelwch **Gynnig 5-9** uchod).

### **Cwestiwn ymgynghori 5-13**

**Credwn y dylid defnyddio'r term "awdurdod cynllunio" yn y Cod Cynllunio yn lle'r termau "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau" yn y ddeddfwriaeth bresennol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## Pennod 6: Creu'r cynllun datblygu

### Cyflwyniad

- 6.1 Fel nodwyd yn y Bennod flaenorol, rhaid i nifer o ffactorau gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio ac arolygwyr wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru, ac ystod o ystyriaethau lle nad yw'r pwrpas a'r gwreiddyn yn gyfan gwbl o fewn y gyfundrefn gynllunio. Serch hynny, ar y blaen ymhlith y ffactorau hynny mae'r polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a baratoir yn benodol o fewn cyd-destun cynllunio, a chyfeirir at y rhain ar y cyd yn y ddeddfwriaeth fel "y cynllun datblygu".
- 6.2 Roedd y ddeddfwriaeth sylfaenol ar greu cynlluniau datblygu yn arfer bod yn Rhan 2 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ("DCGTh") 1990. Y patrwm cyffredinol oedd y dylid cael cynllun fframwaith ar gyfer pob ardal (fel arfer wedi'i baratoi gan y cyngor sir ar gyfer sir gyfan) a chyfres o gynlluniau lleol (pob un wedi'u paratoi gan y cyngor dosbarth perthnasol, yn cynnwys yr ardal i gyd neu rhan ohoni).<sup>1</sup>Mae cynllun lleol a fabwysiadwyd o dan y cynlluniau hynny yn 1996 yn dal mewn grym yn Ynys Môn, ochr yn ochr â Chynllun Fframwaith Gwynedd gan ei fod yn berthnasol i Ynys Môn, wedi'i fabwysiadu yn 1993.<sup>2</sup>
- 6.3 Er hynny, yn ardaloedd metropolitan Lloegr, ble roedd cyfundrefn un lefel o gynghorau bwrdeistref, roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer cynlluniau datblygu unedol (CDU) gyda'r rhan gyntaf ohoni yn gynllun fframwaith a'r ail ran ohoni yn gynllun lleol.<sup>3</sup>Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd cyfundrefn CDU mewn ardaloedd eraill lle cyflwynwyd cyfundrefn un lefel o lywodraeth leol, mewn rhai rhannau o Loegr - o dan gynlluniau ailstrwythuro Deddf Llywodraeth Leol 1992 - a ledled Cymru, dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r CDU a fabwysiadwyd dan y gyfundrefn honno yn dal mewn grym yn Wrecsam, Bro Morgannwg, Abertawe, Gwynedd, Powys, a Sir Fflint<sup>4</sup>.
- 6.4 Cyflwynodd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol ("DCPhG") 2004 gyfundrefn gymhleth o strategaethau gofodol rhanbarthol a dogfennau cynllunio lleol i Loegr.<sup>5</sup>Cyflwynodd Rhan 6 Deddf 2004 gyfundrefn wahanol i Gymru:
- (1) cyflwynodd - er nid fel rhan o'r cynllun datblygu - gynllun Gofodol newydd ledled Cymru, i'w baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

---

<sup>1</sup> DCGTh 1990, Rhan 2, Pennod 1; cyflwynwyd yn wreiddiol yn DCGTh 1968, i weithredu argymhellion adroddiad y Grŵp Cyngori Cynllunio, *Dyfodol Cynlluniau Datblygu* (HMSO, 1965).

<sup>2</sup> <http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/>

<sup>3</sup> DCGTh 1990, Rhan 2, Pennod 1; cyflwynwyd yn wreiddiol gan Ddeddf Lywodraeth Leol 1985, a ddiddymodd Gyngor Llundain Fawr a'r cynghorau sir metropolitaidd.

<sup>4</sup> Tybiwyd yn gywir ym mis Ebrill 2017.

<sup>5</sup> DCPhG 2004, Rhan 1 a 2.

- (2) chadwodd y system llawer mwy syml o gael cynlluniau datblygu unedol. Roedd y rhain i'w hadnabod yn y dyfodol fel cynlluniau datblygu lleol (CDLI), wedi'u llunio gan awdurdodau cynllunio un lefel o ganlyniad i Gynllun Gofodol Cymru.

Mae CDLI wedi'u mabwysiadu yn awr gan bob awdurdod cynllunio yng Nghymru (gan gynnwys y tri awdurdod parciau cenedlaethol) heblaw am y rhai y sonir amdanynt uchod; heb os bydd y rhain i ddilyn yn y blynyddoedd nesaf.<sup>6</sup>

- 6.5 Ni osodwyd Rhan 2 newydd i DCGTh 1990 gan DCPHG 2004 yn Lloegr a Chymru; yn lle hynny, roedd y darpariaethau newydd yn Deddf 2004 ei hun, wrth ymyl y rhai yn Neddf 1990.
- 6.6 Yn fwy diweddar, newidwyd DCPHG 2004 gan Deddf Cynllunio Cymru ("DC(C)") 2015 er mwyn cryfhau'r 'dull trwy arweiniad cynllun' tuag at gynllunio yng Nghymru. Cyflwynodd gysyniad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ("FfDC"), a fydd yn rhan o'r cynllun datblygu, i ddisodli Cynllun Gofodol Cymru. Gofynnodd am Gynlluniau Strategol i'w llunio lle bo angen.

### Bod yn rhan o'r Côd

- 6.7 Unwaith mae'r trefniadau newydd wedi dod i rym, bydd y "cynllun datblygu" am unrhyw dir yng Nghymru yn cael ei adnabod fel
  - (1) Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
  - (2) sef cynllun datblygu strategol ar gyfer unrhyw ardal cynllunio strategol sy'n cynnwys y tir i gyd neu ran ohono; a'r
  - (3) cynllun datblygu lleol ar gyfer yr ardal sydd yn cynnwys y tir hwnnw.<sup>7</sup>
- 6.8 Rydym eisoes wedi trafod statws y cynllun datblygu ym Mhennod flaenorol y Papur Ymgynghori hwn.<sup>8</sup>Yn fras, mae'r bennod hon yn ystyried y fframwaith statudol perthnasol i ffurfio tair elfen gyfansoddol y cynllun datblygu, fel y cynhwysir ar hyn o bryd yn Rhan 6 DCPHG 2004, fel y'i diwygiwyd gan DCC 2015.
- 6.9 Doedd bron dim sylwadau mewn ymateb i'r Papur Cwmpasu mewn perthynas â ffurfio polisi cynllunio. Nid ydym wedi dod yn ymwybodol, yn ystod ein gwaith, o unrhyw angen i wneud newidiadau sylweddol.
- 6.10 Mae ein cynigion yn y Bennod hon, felly, yn pwysleisio yr ychydig bwyntiau manwl lle ystyriwn ni y byddai diwygio technegol cyfyngedig yn briodol. Er hynny, rydym yn crynhoi yn fras y fframwaith statudol perthnasol, ac yn gwahodd ymgynghoreion i wneud cynigion ar gyfer unrhyw newidiadau eraill sydd yn eu tyb hwy yn ddymunol.

---

<sup>6</sup> <http://gov.wales/docs/desh/publications/160518development-plan-coverage-en.pdf>

<sup>7</sup> DCPHG 2004, rhan 38(4), newidiwyd yn DC(C) 2015, rhan 9.

<sup>8</sup> Gweler **paragraffau 5.16 i 5.27**.

- 6.11 Rydym hefyd yn ystyried, tua diwedd y Bennod, y cod statudol perthnasol sydd yn trafod malltod y cynllunio yn codi o ddatganiad a diwygiad y cynllun datblygu a chynigion a pholisïau eraill.

## RHANNAU Y CYNLLUN DATBLYGU

### Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- 6.12 Roedd Rhan 60 DCPHG 2004, fel a ddrafftiiwyd yn wreiddiol, yn darparu ar gyfer paratoi Cynllun Gofodol Cymru, a'i adolygu o bryd i'w gilydd. Mabwysiadwyd y cynllun gwreiddiol gan y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2004; diweddarwyd y cynllun yn 2008, o dan y teitl *Pobl, Lleoedd, Dyfodol*. Nid oedd yn rhan o'r cynllun datblygu, ond y bwriad oedd iddo ffurfio sail cynlluniau datblygu lleol.<sup>9</sup>
- 6.13 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi Bil Cynllunio (Cymru) yn dangos cydsyniad amlwg mai "dylanwad cyfyngedig a gafodd Cynllun Gofodol Cymru (WSP) ar y system gynllunio er gwaethaf pob bwriad da cychwynol."<sup>10</sup> O ganlyniad cyflwynwyd system newydd gan y DCC (PWA), yn gofyn am i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) gymryd lle Cynllun Gofodol Cymru.<sup>11</sup>
- 6.14 Rhaid i Weinidogion Cymru, o dan y system newydd, baratoi a chyhoeddi cynllun datblygu a adnabyddir fel y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cynllun a fydd yn:
- (1) gosod polisïau cenedlaethol yn perthyn i ddatblygu a defnyddio tir yng Nghymru a rhoi rhesymau dros y polisïau hyn; a
  - (2) gall nodi bod categorïau penodol o ddatblygu yn ffurfio "datblygiad o bwysigrwydd cenedlaethol".<sup>12</sup>
- 6.15 Bydd y FfDC yn rhan o'r cynllun datblygu.
- 6.16 Daeth y darpariaethau newydd i rym o 4 Ionawr 2016.<sup>13</sup> Roedd galw am dystiolaeth a phrosiectau i gael eu cynnwys yn rhedeg am dri mis, gan gau ar 7 Mawrth 2017. Awgrymwyd yn *Natganiad Cyfranogiad y Cyhoedd*, dyddiedig Tachwedd 2016, y bydd fersiwn terfynol y FfDC yn cael ei gyhoeddi yn 2020.
- 6.17 Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau o rhan 60 i 60C DCPHG 2004, fel y gosodir yn rhan 3 DCC (PWA) 2015, ac ystyriwn y dylai darpariaethau o'r un effaith gael eu cynnwys yn y Cod. Mae'n bosib y bydd gofyn am drefniadau trosiannol perthnasol i drin â rhan 60 DCPHG 2004 (perthnasol i Gynllun Gofodol Cymru), ar ei ffurf cyn iddo

---

<sup>9</sup> DCPHG 2004, rhan 62(5)(b), fel a ddeddfwyd yn wreiddiol.

<sup>10</sup> Y Bil Cynllunio (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.17.

<sup>11</sup> Bydd rhan wreiddiol 60 yn parhau i gael ei gweithredu nes i'r FfDC gael ei gyflwyno (2015 OS 1987, erthygl 7).

<sup>12</sup> DCPHG 2004, rhan 60(1)-(3), ychwanegwyd yn DCC 2015, rhan 3.

<sup>13</sup> 2015 1987, erthygl 2.

gael ei ailosod gan ran 3 DCC 2015, nes bod y darpariaethau yn y Cod newydd yn cyfateb i rannau newydd 60 i 60C, i bob pwrpas, wedi dod i rym.

- 6.18 Nid yw Cynllun Gofodol Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn ei dro, yn cynrychioli polisi cynllunio cyfan Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol wrth gwrs. Fel nodwyd yn y Bennod flaenorol, dibynnir yn ymarferol i raddau helaeth ar ddogfennau polisiâu cenedlaethol eraill, gan gynnwys yn benodol *Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)*. Mae statws y dogfennau hyn o fewn y system gynllunio wedi cael ei drafod yn y Bennod flaenorol; ond ni chafwyd awgrym y dylai'r broses o'u fformwleiddiad gael ei hymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd.

### Cynulliau strategol

- 6.19 Roedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, am y tro cyntaf, yn darparu fframwaith cyfreithiol am baratoi cynlluniau datblygu strategol. Mae cynlluniau o'r fath yn rhoi cyfle i faterion mwy na rhai o bwysigrwydd lleol, megis tai, i gael eu hystyried a'u cynllunio yn strategol, gan "baneli cynllunio strategol" arbennig. Nid yw'n orfodol i gynlluniau o'r fath gael eu cynhyrchu ar gyfer pob ardal. Disgwylir i'r cynlluniau, yn y lle cyntaf, gael eu paratoi ar gyfer coridor yr A55 yng Ngogledd Cymru, a'r ardaloedd wedi eu canoli yng Nghaerdydd ac Abertawe.
- 6.20 Rheolir cynllunio strategol gan rhan 60D i 60J DCPhG 2004, a osodwyd gan rhan 4 i 6 DCC 2015. Nid oedd darpariaethau cyfatebol o dan naill ai TCGTh 1990 neu DCPhG 2004 - heblaw am y trefniadau, sydd yn ddi-rym yn awr, ar gyfer cynlluniau fframwaith, a nodwyd yn gynharach. Daeth Rhannau 60D i 60J i rym ar 5 Hydref 2015 i bob pwrpas; ond nid oes paneli cynllunio strategol wedi eu sefydlu hyd yma.
- 6.21 Nid ydym yn awgrymu y dylai rhannau 60D i 60J DCPhG 2004, fel y gosodir gan rannau 4 i 6 DCC 2015, gael eu diwygio, ac felly ystyriwn ni, am y tro, y dylai darpariaethau mwy neu lai yr un fath gael eu cynnwys yn y Cod Cynllunio. Mae hyn yn amodol, mae'n amlwg, i unrhyw ddiwygiadau a ddaw yn sgil yr arolwg cyfredool o lywodraeth leol yng Nghymru.<sup>14</sup>

### Cynlluniau datblygu lleol

- 6.22 Mae rhaid i bob awdurdod cynllunio yng Nghymru gadw materion perthnasol o dan arolwg, a pharatoi cynllun datblygu lleol o bryd i'w gilydd o fewn y ffiniau a osodir gan y polisi cynllunio cenedlaethol.<sup>15</sup> Gweithredir y cynllun hwnnw, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a'i fabwysiadu, fel cynllun datblygu ar gyfer pob cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu awdurdod parc cenedlaethol.
- 6.23 Gosodir y gweithdrefnau ar gyfer paratoi cynllun datblygu lleol yn rhannau 61 i 72 DCPhG 2004, fel y'u newidiwyd yn rhannau 11 i 15 DCC 2015. Yn ôl y disgwyl, mae deddfwriaeth sylfaenol yn darparu esgyrn sychion y broses yn unig; gellir dod o hyd i'r manylion i gyd mewn deddfwriaeth eilaidd, yn benodol Rheoliadau TCP 2005

---

<sup>14</sup> Gweler y papur gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad* (Llywodraeth Cymru, 31 Ionawr 2017), yn benodol para. Mae awgrym yn 2.3.11 y gall fod angen adolygu rôl paneli cynllunio strategol yng ngoleuni trefniadau a ddaeth i'r amlwg ar gyfer llywodraeth ranbarthol.

<sup>15</sup> DCPhG 2004, adrannau 61, 62.

(Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru), fel a newidiwyd yn 2015.<sup>16</sup>A gellir dod i'r dull o weithredu yn ymarferol yn y *Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol*.<sup>17</sup>

- 6.24 Mae'r dulliau gweithredu ar gyfer ffurfio ac adolygu cynlluniau datblygu lleol, fel y gwelir yn Rhan 6 DCPHG 2004, wedi bod mewn lle ers deng mlynedd. Yn ddiweddar, mae'r Cynulliad wedi cael cyfle i ystyried y darpariaethau deddfwriaethol hynny, yn ystod hynt y Bil Cynllunio (Cymru). Bydd angen amser i'r darpariaethau newydd gael eu defnyddio yn ymarferol, yn dilyn y FfDC newydd, unwaith mae wedi dod i'r golwg, a PCC, a fydd yn parhau i gael ei ddiweddarau heb os.
- 6.25 Unwaith eto, felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau pellach i'r cynllun statudol, ac yn awgrymu y dylai rhannau 61 i 72 DCPHG 2004, fel y'u newidwyd yn rhannau 11 i 15 DCC 2015, gael eu cynnwys yn y Cod Cynllunio.

### Ffurio polisi a datblygu cynaliadwy

- 6.26 Mae rhaid i bob rhan o'r cynllun datblygu gael ei pharatoi fel rhan o ofynion datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau bod y datblygu a'r defnydd o dir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.<sup>18</sup>Er hynny, rydym eisoes wedi cynnig nad oes angen ailddatgan yn benodol yn y Bil y cyswllt rhwng yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r system gynllunio.<sup>19</sup>

#### Cwestiwn ymgynghori 6-1

**Rydym yn ystyried, fel mesur dros dro, bod Rhan 6 DCPHG 2004 (cynlluniau datblygu), fel y'u newidwyd yn DCC 2015, yn cael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio, yn amodol ar unrhyw drefniadau trosiannol angenrheidiol perthnasol i Gynllun Gofodol Cymru a'r cynigion yng ngweddill y Bennod.**

**Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

## CYNLLUNIAU DATBLYGU: DARPARIAETHAU ERAILL

### Cynnwys y cynlluniau lleol

- 6.27 Yn ddigon rhyfedd, nid oes llawer o ddeddfwriaeth ynglŷn â beth i'w gynnwys mewn cynllun datblygu lleol; a nid yw'r *Llawlyfr Cynllunio Datblygu Lleol* yn gyfarwyddol ychwaith. Un o'r problemau parhaol gyda chynlluniau datblygu yw'r graddau y maent yn cynnwys yr hyn sydd, yn y bôn, yn ailadroddiad o bolisi cenedlaethol, ar ffurf polisiâu generig amhenodol ledled yr ardal.
- 6.28 Mae'r *Llawlyfr* yn dadlau na ddylai polisiâu ledled yr ardal ailadrodd polisi cenedlaethol, ond yn hytrach dylent gael eu cymhwysu'n lleol yn benodol; ystyriwn ni nad yw'r egwyddor hon yn addas i'w chynnwys mewn naill ai deddfwriaeth sylfaenol

<sup>16</sup> 2005 OS 2839; 2015 OS 1598.

<sup>17</sup> Argraffiad 2, Llywodraeth Cymru, 2015.

<sup>18</sup> DC(C) 2015, rhan 2; gweler **paragraff 5.78** uchod.

<sup>19</sup> **Gweler cwestiwn ymgynghori 5 – 7.**

neu ddeddfwriaeth eilaidd, ond dylai'r egwyddor arosfel arweiniad, fel y mae ar hyn o bryd. Dylai'r pwerau gwahanol sydd gan Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau i newid neu dynnu eu cynlluniau yn ôl fod yn ddigon i sicrhau nad yw polisïau anaddas yn cael eu cynnwys; a dylai bwriad clir i ddefnyddio'r pwerau hyn sicrhau llai o angen i'w defnyddio yn ymarferol.

6.29 Un ddarpariaeth benodol ar gyfer cynnwys cynlluniau yw Ddeddf Cynllunio ac Ynni 2008, sydd yn caniatáu (ond ddim yn mynnu) cynnwys mewn cynlluniau strategol a datblygu lleol polisïau yn gosod gofynion rhesymol perthnasol i:

- (1) ddatblygiad i ddefnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol ac ynni carbon isel; a
- (2) bod y datblygiad i gydymffurfio â safonau effeithlonrwydd ynni sydd yn mynd y tu hwnt i ofynion rheoliadau adeiladu.<sup>20</sup>

6.30 I'r graddau mai pwrpas y Ddeddf hon yw i annog cynnwys, mewn cynlluniau, gofynion ynghylch ffynonellau ynni, mae'n ymddangos fel pe byddai'n fwy addas i ymdrin â'r mater hwn yn y *Llawlyfr* yn hytrach na mewn deddfwriaeth (naill ai sylfaenol neu eilaidd). I'r graddau ei bod i annog datblygaid i fynd y tu hwnt i ofynion Rheoliadau Adeiladu cenedlaethol, mae'n debyg y gellid cyflawni hyn yn well trwy wneud diwygiadau priodol i'r Rheoliadau.

### **Cwestiwn ymgynghori 6-2.**

**Rydym yn cynnig, fel mesur dros dro:**

- (1) **nad yw'r darpariaethau cyfredol yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 yn cael eu hailddatgan yn y Bil;**
- (2) **rhoddir ystyriaeth ymhen amser i:**
  - **gynnwys darpariaethau cyfwerth o ran arweiniad; a**
  - **wneud diwygiadau priodol i'r Rheoliadau Adeiladu.**

**Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Asesiad amgylcheddol strategol**

6.31 Mae'r prosesau ar gyfer ffurfio'r FfDC a'r cynlluniau lleol a strategol yn cynnwys asesiad o ba mor gynaliadwy yw'r ddogfen dan sylw.<sup>22</sup>Yn ychwanegol, rhaid gwneud asesiad amgylcheddol o bob dogfen, dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.<sup>23</sup>Cododd yr angen olaf o ganlyniad i Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC ar asesu cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Rhoddir cyngor ar y Gyfarwyddeb yn y *Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol*, a gyhoeddwyd 2005 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â swyddfeydd eraill y Llywodraeth.



6.32 Ceir trafodaeth ym Mhennod 3 y *Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol* am y berthynas rhwng Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) dan Deddf 2004 ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) dan Reoliadau 2004. Mae'n nodi bod:

SA yn cwmpasu effeithiau economaidd a chymdeithasol y CDLI yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol. Rhaid i CDLI gwreiddiol/diwygiedig fod yn amodol ar asesiad amgylcheddol.<sup>24</sup>Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai'r peth gorau ar gyfer cynlluniau datblygu yw cyfuno gofynion Rheoliadau yr AAS gydag AC.<sup>25</sup>

6.33 Mewn geiriau eraill, mae AC yn arolwg ehangach o gynllun nag asesiad amgylcheddol yn unig.<sup>26</sup>Byddai'r un peth yn berthnasol i'r arfarniad cynaliadwyedd o gynllun datblygu strategol ac i'r FfDC. Mae'n ymddangos felly nad oes fawr o werth mewn cadw gofynion diamwys ac ar wahân i baratoi asesiad amgylcheddol yn ogystal ag arfarniad cynaliadwyedd.

6.34 Ar y llaw arall, nodir bod

- (1) gofynion y Gyfarwyddeb AAS yn cael eu trawosod bron yn gyfan gwbl i gyfraith deuluol ar ffurf deddfwriaeth eilaidd (Rheoliadau 2004);
- (2) mae'r Rheoliadau hynny yn cynnwys ystod eang o gynlluniau a rhaglenni, a nid yn unig cynlluniau datblygu, ayyb, ac
- (3) efallai bydd penderfyniad i diddymu, neu newid yn sylweddol, y Rheoliadau yn ddadleuol.

6.35 Nid oedd yn realistig i ystyried y mater hwn yn y Papur Cwmpasu, wrth ystyried y goblygiadau a oedd yn bodoli ar y pryd hwnnw o dan gyfraith Ewrop. Serch hynny, o ystyried bod ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn nesáu, mae'n ymddangos yn briodol i ystyried amlinelliad, o leiaf, o'r angen i gadw'r ddwy system o asesu - er ein bod yn cydnabod y bydd y drefn statudol gyfredol yn parhau mewn grym o leiaf am y tro.

6.36 Felly, nid ydym yn cynnig, ar hyn o bryd, bod unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud, ond rydym yn croesawu barnau am

- (1) a yw'r gofyn AAS ynglŷn â chynlluniau datblygu, yn ychwanegol at y gofyn i gyflawni'r arfarniad cynaliadwyedd, yn ychwanegu unrhywbeth at yr ansawdd o wneud penderfyniad, neu'n ychwanegu digonol i gyfiawnhau'r amser a'r gost cysylltiedig;

6.37 (2) a oes modd cyfiawnhau gofynion yr AAS mewn perthynas â mathau eraill o gynlluniau a rhaglenni.

### Cwestiwn Ymgynghori 6-3.

Wrth ystyried bodolaeth dyletswyddau i gyflawni arfarniadau cynaliadwyedd y FfDC a chynlluniau strategol a datblygu lleol, sydd yn bodoli ar hyn o bryd dan Rhan 6 DCPHG 2004,

- (1) a oes gofyn parhaus i gyflawni arfarniad ar wahân ynglŷn â'u heffaith amgylcheddol, yn ôl angen gyfedol Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004?
- (2) a yw Rheoliadau 2004 yn dal yn ofynnol mewn perthynas â rhaglenni a chynlluniau heblaw am y FfDC a'r cynlluniau datblygu? neu
- (3) oes angen i Rheoliadau 2004 gael eu diwygio neu symleiddio mewn unrhyw ffordd?

### Heriau'r Uchel Lys i'r FfDC a'r cynlluniau datblygu.

- 6.38 Mae her yn yr Uchel Lys o ran dilysrwydd FfDC a'r cynlluniau datblygu lleol a strategol sydd yn dod i'r golwg nawr yn digwydd yn bennaf, ond nid yn unig, dan rhan 113 DCPHG 2004. Disodlodd hyn rhan 284(1)(a) DCGTh 1990.
- 6.39 Rhaid gwneud her o'r math hyn o fewn chwe wythnos; ond mae cyfrif y terfynau amser wedi peri problemau (gweler *Cyngor Dinas Nottingham v Cyngor Plwyf Calverton* <sup>27</sup>; *Barker yn erbyn CD Hambleton*<sup>28</sup>). Mae problemau eraill wedi codi mewn perthynas â dogfennau y gellir eu herio dan y gweithdrefnau hyn (*Manydown yn erbyn Basingstoke a CB Deane* <sup>29</sup>).
- 6.40 Yn nes ymlaen yn y Papur Ymgynghori hwn, rydym yn cynnig, fel mesur dros dro bod y trefniadau statudol arbennig o dan Rhan 12 DCGTh 1990 a Rhan 9 DCPHG 2004 yn cael eu diddymu, o blaid adolygiad barnwrol o dan Rhan 54 Rheolau'r Goruchaf Lys.<sup>30</sup>Ni fydd hyn yn cael gwared â'r pwyntiau technegol o'r fath yn gyfan gwbl yn awtomatig, ond bydd yn golygu y bydd un trefn unig i herio unrhyw benderfyniad a wneir gan unrhyw gorff cyhoeddus - heb orfod gwirio os yw'r penderfyniad, corff, neu'r broses a gyrhaeddir, yn dod o dan gwmpas rhan 113.
- 6.41 Ar sail y cynnig hwnnw, a fyddai'n arwain at y diddymiad heb orfod ailosod rhan 113 DCPHG 2004, ni welwn unrhyw angen am newidiadau pellach i weithdrefnau heriau'r Uchel Lys sydd yn bodoli ar hyn o bryd dan y ddarpariaeth honno. Er hynny, byddai'n anghenrheidiol i gynnwys darpariaeth sydd gyfwerth â rhan 113(2) yn y Bil Cynllunio, i ragwahardd cyflwyno her i'r datblygiad ond trwy wneud cais am adolygiad barnwrol o fewn terfyn amser o chwe mis.<sup>31</sup>

### Ymchwiliadau

- 6.42 Mae Rhan 114 DCPHG 2004 yn darparu bod archwiliadau o gynlluniau datblygu lleol o dan rhan 64 y Ddeddf honno yn cael eu hystyried i fod yn ymchwiliadau statudol at ddibenion Deddf Tribwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992. Mae hyn yn golygu bod ymchwiliadau o'r math yn amodol ar awdurdodaeth Y Cyngor ar Dribwnlysoedd, a

ddisodlwyd yn 2007 gan Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd, a ddiddymwyd gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Yn ymarferol, mae'r rheolau perthnasol i'r weithdrefn mewn archwiliadau o'r math wedi eu cyflawni Weinidogion Cymru (yn hytrach na gan yr Arglwydd Ganghellor)<sup>32</sup>. Ni welwn felly unrhyw reswm dros gadw y ddarpariaeth hon.

#### **Cwestiwn ymgynghori 6-4.**

**Rydym yn cynnig felly, dros dro, na ddylai rhan 114 DCPHG 2004 (cyfrifoldeb am y weithdrefn mewn ymchwiliadau cynllunio lleol) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio.**

**Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

## **MALLTOD CYNLLUNIO**

### **Cefndir**

- 6.43 Mewn achosion lle mae gofyn i awdurdod cyhoeddus gael tir mewn perchnogaeth breifat er mwyn cynnal prosiect yn y dyfodol cynharol agos, gall yr awdurdod gaffael ar y tir naill ai drwy gytundeb neu drwy ddefnyddio grymoedd prynu gorfodol. Er hynny, mae'n bosib y bydd cynllun datblygu neu ddogfen bolisi arall yn cyflwyno prosiect i'w gyflawni ymhellach yn y dyfodol, mewn amgylchiadau lle nad yw'r awdurdod perthnasol yn barod i gaffael y tir ar unwaith, ond lle bydd y cynnwys y cynnig yn y cynllun yn gostwng gwerth y tir neu hyd yn oed yn ei wneud bron â bod yn anwerthadwy, gan achosi caledi annerbyniol i'w breswylwyr cyfredol. Dyna'r ffenomenon sy'n cael ei adnabod fel "malltod y cynllunio", sef y canlyniad anffodus ond anochel o wneud cynlluniau.
- 6.44 Adnabuwyd 'Malltod cynllunio' am y tro cyntaf yn DCGTh 1959, a gyflwynodd hawl i'r rhai sy'n cael a effeithiwyd i gyflwyno hysbysiad yn gofyn i'r awdurdod cynllunio brynu'r tir perthnasol, er defnyddiwyd y term "hysbysiadau malltod" dan yr enw hwnnw yn DCGTh 1968 yn unig. Mae deddfau cynllunio olynol - hyd at ac yn cynnwys DCPHG 2004 a DCC 2015 - wedi unioni'r amgylchiadau lle mae hawl gan berchnogion a phreswylwyr i gyflwyno hysbysiad, er mwyn ystyried y patrwm sydd yn dod i'r golwg o gynllunio datblygu a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y Bennod hon.
- 6.45 Roedd Deddf Iawndal Tir 1973 hefyd wedi ymestyn yr amgylchiadau lle gall hysbysiad malltod gael ei gyflwyno, ac er mwyn symleiddio, cyfunwyd y rhain â deddfwriaeth gynllunio, wrth gydasio ym 1990.
- 6.46 Gosodir nodweddion allweddol y drefn hysbysiad malltod yn
- (1) Atodiad 13 i DCGTh 1990 (fel sy'n berthnasol i Gymru) (amgylchiadau lle mae posibilid o gyflwyno hysbysiad malltod);
  - (2) rhannau 149, 150 (cyflwyno hysbysiad); a
  - (3) rhannau 151(1), 153(1), 154(1), 154(2)(a) a 156 (ymateb i hysbysiad).

- 6.47 Mae nifer sylweddol, fel y gellid disgwyl, o ddarpariaethau ychwanegol mwy manwl, gan gynnwys y sefyllfa a fydd yn codi pan fydd rhan o uned amaethyddol yn cael ei phrynu mewn ymateb i hysbysiad yn perthyn i'r cyfan; sut mae cynrychiolwyr personol, morgeisedigion a phartneriaethau yn cael eu trin; grymoedd Gweinidogion Cymru; caffael rhan o'r tir yn amodol ar yr hysbysiad; a diffiniadau perthnasol.<sup>19</sup>
- 6.48 Ni chychwynnir darpariaethau DCGTh 1990 perthnasol i falltod y cynllunio yn aml - yn anad dim oherwydd bod awdurdodau yn debygol o osgoi cynnwys cynigion yn eu cynlluniau a fydd yn arwain at iddynt fod yn atebol i brynu'r tir dan sylw cyn eu bod yn barod i'w ddatblygu. Serch hynny, gall amgylchiadau o'r math yn codi, ac felly mae angen cadw'r darpariaethau statudol perthnasol i hysbysiadau malltod mewn lle.
- 6.49 Ar y llaw arall, tra ei bod yn anghenrheidiol cynnwys y prif ddarpariaethau o fewn prif ran y Cod, credwn efallai y bydd yn fwy addas i'r darpariaethau atodol mwy manwl gael eu cynnwys mewn Atodiad. Byddai gwneud hyn yn galluogi defnyddwyr prif ran y Cod i ddeall y strwythur cyflawn a'r pwrpas, tra'n osgoi'r dryswch y darpariaethau manwl a fydd yn ond berthnasol yn anaml iawn.
- 6.50 Yn gyffredinol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw awgrymiadau sydd yn galw am ddiwygio technegol ar y darpariaethau hysbysiadau malltod, er bod croeso i ymgynghoreion gadarnhau os yw hynny yn wir.

### **Cwestiwn Ymgynghori 6-5.**

**Ystyriwn ni y dylai Pennod 2 Rhan 6 DCGTh 1990 (hysbysiadau malltod) ac Atodiad 13 i'r Ddeddf gael eu haildarodd yn y Bil Cynllunio yn fras yn eu ffurf bresennol.**

**Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>20</sup> Deddf Cynllunio ac Ynni 2008, a 1. Bil aelod preifat oedd Deddf 2008.

<sup>21</sup> PCPA 2004 a 60b(1)(b), 601(7)(a), 62(6)(b).

<sup>22</sup> 2004 OS 1656. Gwnaed y Rheoliadau dan rymoedd yn a 2 Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972; ac mae'n debyg y cânt eu cadw mewn grym dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysu am Ymadael) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd - gweler cymal 2 y Bil fel y'i cyflwynwyd.

<sup>23</sup> Rheoliadau ASS, rhe 5(2), 5(4).

<sup>24</sup> Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Arg 2, Llywodraeth Cymru, Awst 2015, para 3.2.1.

<sup>25</sup> Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r polisiau yn y cynllun ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.

<sup>26</sup> [2015] EWHC 503 (Gwein).

<sup>27</sup> [2012] EWCA Civ 610.

<sup>28</sup> [2012] EWHC 977 (Gwein).

<sup>29</sup> Gweler cwestiwn ymgynghori 17-9.

<sup>30</sup> Gweler para 17.97.

<sup>31</sup> OS 2005/2839.

<sup>32</sup> DCGTh 1990, rhan 151(2)-(8), 152, 153(2)-(8), 154(2)(b),(3)-(6), 156(4), 157, 158-160, 161-164, 164A-167, 168-17, and 308.

# Pennod 7: Angen am gais cynllunio

## CYFLWYNIAD

- 7.1 Fel a nodir ym Mhennod 3, roedd y pynciau a nodwyd yn y Papur Cwmpasu fel "darpariaethau cynllunio craidd" yn cynnwys:
- (1) pwrpas y system gynllunio; sut mae cynllunio yn cael ei gweinyddu;
  - (2) y broses o wneud cynlluniau;
  - (3) y math o ddatblygu; y broses o ofyn am ganiatâd cynllunio; gwelliannau; a
  - (4) gorfodaeth.
- 7.2 Mae **Penodau 5 a 6** y Papur Ymgynghori hwn wedi trafod y ddau bwnc cyntaf. Trafodir gorfodaeth ym **Mhennod 12**. Mae'r trydydd bwnc yn sefydlu canolbwynt y broses gynllunio - mae'n destun bron traean Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (DCGTh) 1990 fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd.<sup>1</sup> Trafodir hyn felly mewn pum Pennod, o dan nifer o benawdau, fel a ganlyn:
- (1) yr angen am ganiatâd cynllunio (**Pennod 7**);
  - (2) ceisiadau cynllunio a wnaethpwyd i awdurdodau cynllunio ac a benderfynwyd arnynt ganddyn nhw (**Pennod 8**);
  - (3) ceisiadau cynllunio a wnaethpwyd i Weinidogion Cymru ac a benderfynwyd arnynt ganddyn nhw (yn bennaf mewn perthynas â datblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol) (**Pennod 9**);
  - (4) gofynion ar gyfer ariannu'r seilwaith (naill ai drwy orfodaeth gynllunio ar ffurf cais yn benodol, neu drwy dalu ardoll seilwaith gyffredinol) (gweler **Pennod 10**); a
  - (5) darpariaethau atodol eraill (apeliadau; amrywiadau a dirymiadau; ataliadau; rhybuddion pryniant; priffyrdd) (gweler **Pennod 11**);
- 7.3 Gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn gysylltiedig â'r pynciau hyn yn Rhan 3 DCGTh 1990, fel a newidiwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) ("DC(C)") 2015. Gellir dod o hyd i Ddeddfwriaeth Eilaidd yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (DMPWO) 2012; a cheir cyfarwyddyd gweithredu yn y *Llawlyfr Rheoli Datblygu*, gyda'r ail fersiwn ohono yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym Mis Mai 2017.

---

<sup>1</sup> DCGTh 1990, a 57(1).

## YR ANGEN AM GANIATÂD CYNLLUNIO

### Cyflwyniad

- 7.4 Nid yw hi bob amser yn syml gwybod a oes angen cyflwyno cais cynllunio neu beidio ar gyfer prosiect penodol; ac mae'r gyfraith wedi mynd yn fwy cymhleth yn y blynyddoedd diweddar.
- 7.5 Mewn egwyddor, mae angen caniatâd cynllunio os am gyflawni datblygiad - yn y bôn gwaith adeiladu neu weithredoedd eraill (gan gynnwys gwaith dymchwel) a newidiadau mewn defnydd.<sup>2</sup>
- 7.6 Ble mae angen caniatâd, gall gorchymyn datblygu ganiatáu ar gyfer rhai categorïau (fel arfer rhai bychan) i'w datblygu - cyfeirir at hyn yn gyffredinol fel "datblygiad a ganiateir". Mae'r mecanwaith hwnnw wedi cael ei ddefnyddio yn fwy yn y blynyddoedd diweddar, ac yn y rhan fwyaf o achosion mae'r caniatâd a roddir yn rhwym wrth nifer o amodau.<sup>3</sup>
- 7.7 Ble mae angen caniatâd, a nad yw'r gorchymyn datblygu yn ei ganiatáu, rhaid ceisio drwy gyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio yn gyffredinol (ond nid bob amser).
- 7.8 Ond y man cychwyn bob amser yw penderfynu os yw prosiect penodol yn "ddatblygiad" neu beidio. Am y rheswm hwn mae rhan 55 DCGTh 1990, sydd yn gosod diffiniad o'r term "datblygu", yn un o ddarpariaethau allweddol y Ddeddf, ac yn haeddu ystyriaeth ofalus mewn unrhyw ymarfer codeiddio.
- 7.9 Mae'r diffiniad syml, yn rhan 55(1) isod, yn dal yn union yr un peth â'r diffiniad cyfatebol yn rhan 12(1) DCGTh 1947; ond mae'r darpariaethau sydd yn weddill yn adran 55 wedi cael eu haddasu ychydig gan y Senedd ar sawl achlysur dros y 70 mlynedd dilynol, i gynnwys neu gadw allan o'r diffiniad rhai materion. Maent hefyd wedi bod yn destun cyfreithiad dros y cyfnod hwnnw.
- 7.10 Mae'n amlwg bod angen cadw sylwedd yr hyn sydd yn gyfredol yn rhan 55, a dylai fod ar ddechrau'r rhan berthnasol yn y Bil newydd. Er hynny, gallai fod yn fanteisiol i'r rhan gael ei haildrafftio er mwyn bod yn glirach o lawer, heb newid unrhywbeth o ran ystyr - o bosib yn cael ei gwahanu i sawl rhan.
- 7.11 "Ystyr 'datblygu' a 'datblygu newydd'" yw penawd rhan 55. Mae'r cyfeiriad at "ddatblygiad newydd" yn ddiangen, yn dilyn diddymu rhan 55(6) yn Neddf Cynllunio ac Iawndal 1991, a gellir ei hepgor.

### Diffiniad sylfaenol o "datblygiad"

- 7.12 Ceir y ddarpariaeth allweddol yn rhan 55(1), sydd yn darparu fel a ganlyn:

---

<sup>2</sup> DCGTh 1990, a 57(1).

<sup>3</sup> Yn Lloegr, mae nifer cynyddol o hawliau datblygu a ganiateir yn amodol ar gymalau sydd naill ai yn gofyn am hysbysu'r awdurdod cynllunio fel y gall benderfynu a yw eisiau cyfle i gymeradwyo manylion) neu ofyn am fanylion penodol i'w cymeradwyo beth bynnag. Nid yw'r dull hwnnw wedi cael ei fabwysiadu yng Nghymru.

Yn amodol ar y darpariaethau canlynol yn yr adran hon, yn y Ddeddf hon, ac eithrio ble mae'r cyd-destun yn gofyn yn wahanol, mae "datblygu" yn golgyu:

- [a] gwneud gwaith adeiladu, peirianeg, mwyngloddio neu unrhyw waith arall ar dir, dros dir neu o dan tir; neu
- (b) gwneud unrhyw newid defnydd materol i unrhyw adeiladau neu dir arall.

[llythrenniadau mewn cromfachau sgwâr ar gyfer eglurder.]

- 7.13 Mae'r geirio o ran 55(1) yn hawdd i'w deall, a hirsefydlog, a does dim eisiau ei newid o ran sylwedd, ond byddai'n fanteisiol i wahanu dau aelod y diffiniad yn glir gan fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn rhedeg drwy'r DCGTh 1900 i gyd. Byddai gwneud hyn hefyd yn fwy eglur mai datblygu, yn y cyd-destun hwn, yw gwneud newid defnydd materol i adeiladau neu dir yn hytrach na bod y newid defnydd yn cael ei weld fel datblygiad - pwynt a fethir weithiau gan ddeddfwyr a defnyddwyr y Ddeddf.<sup>4</sup>

## DATBLYGIAD GWEITHREDOL

### Dymchweliad

- 7.14 Mewnosodwyd diffiniad o'r term "gweithredoedd adeiladu" (yn isdran 55(1A)) yn rhan 13 Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, i'w gwneud yn glir ei bod yn cynnwys dymchwel - gyda phŵer gan Weinidogion Cymru i gadw allan categorïau o ddymchwel drwy wneud cyfarwyddyd o dan rhan 55(2)(g).<sup>5</sup>
- 7.15 Roedd y cyfarwyddyd o dan rhan 55(2)(g) sydd mewn grym ar hyn o bryd, a gyhoeddwyd yn 1995<sup>6</sup>, wedi cael ei gadw allan yn wreiddiol o'r diffiniad o ddatblygiad:
- (1) dymchweliad o adeilad rhestredig, adeilad mewn ardal gadwraeth, neu gofodail rhestredig;
  - (2) dymchweliad o unrhyw adeilad arall ac eithrio tŷ annedd neu adeilad ar bwys tŷ annedd;
  - (3) dymchweliad yn llwyr neu yn rhannol o lidiart, ffens neu wal y tu allan i ardal gadwraeth; a'r

---

<sup>4</sup> Pwrpas y system gynllunio yw i reoli newid, yn hytrach na'r status quo. Felly nid yw defnydd tir, fel y cyfryw, yn gyfreithlon nac yn anghyfreithlon - gall fod o ganlyniad i newid (graddol neu sydyn), a oedd yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Ac wrth gwrs gall rhai mathau o ddefnyddio tir fod wedi bodoli cyn dechrau rheoli cynllunio modern (1 Gorffennaf 1948).

<sup>5</sup> Yn dilyn y penderfyniad yn LIS Cambridge yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol (1992) 64 P&CR 257, CA.

<sup>6</sup> TCP (Demolition – Description of Buildings) Cyfarwyddyd 1995, yn Atodiad A i Gylchlythyr Swyddfa Gymreig 31/95 (Rheolaeth Gynllunio dros Dymchweliad).

- (4) dymchweliad o adeilad gydag uned gyfaint llai na 50 m cu (ac eithrio wal ayyb mewn ardal gadwraeth).

- 7.16 Cafodd y cyfarwyddyd fel y mae'n perthyn i'r ddau gategori cyntaf hynny ei ddirymu gan Y Llys Apêl.<sup>7</sup> Fel canlyniad, mae'r categorïau rhain o ddymchweliad, gan gynnwys dymchweliad adeiladau rhestredig ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth - yn rhai ar gyfer datblygu, ac felly mae angen cael caniatâd cynllunio (yn ogystal, ar hyn o bryd, â chael caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.<sup>8</sup> Gallai'r ddau gategori sydd yn weddill gael eu cynnwys yn briodol yn y GDCG, gan olygu y byddai modd hepgor rhan 55(2)(g). Byddai hyn yn arwain at symleiddiad sylweddol o'r gyfraith yn yr ardal hon.
- 7.17 Byddai cadw dymchweliad o fewn cwmpas y datblygiad, heb i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud cyfarwyddyd yn tynnu allan rhai categorïau o ddymchweliad, yn ei gwneud yn glir bod rhaid cael caniatâd cynllunio bob amser ar gyfer dymchweliad adeilad rhestredig neu adeilad mewn ardal gadwraeth, a byddai hyn yn cryfhau'r achos dros beidio gorfod gofyn am ganiatâd ar wahân i wneud y gwaith hwn.

### Cwestiwn ymgynghori 7-1.

**Rydym yn cynnig dros dro nad yw pwerau Gweinidogion Cymru i dynnu rhai categorïau o ddymchweliad o gwmpas y datblygiad, ar gael ar hyn o bryd yn DCGTh 1990, adran 55(4)(g), yn cael eu hailddatgan yn y Bil newydd, ond bod modd cyflawni'r un canlyniad drwy ddefnyddio GDCG (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Gweithrediadau adeiladu ac eithrio gwaith dymchwel

- 7.18 Ac eithrio gwaith dymchwel, nid yw'r diffiniad sylfaenol o "weithrediadau adeiladu", a gynhwysir yn rhan 55(1A) DCGTh 1990, wedi achosi unrhyw broblemau yn ymarferol.
- 7.19 Awgrymodd Y Llys Apêl (yn *Barvis yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd*), wrth ystyried os yw gweithred benodol yn "ddatblygiad" neu beidio at ddibenion deddfwriaeth gynllunio, mai man cychwyn da yw gofyn yn gyntaf os yw'r gwaith sydd wedi cael ei wneud wedi arwain at greu adeilad. Enwyd rhai ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu os yw gwrthrych penodol yn adeilad neu beidio - yn

<sup>7</sup> R (SAVE Britain's Heritage) yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol [2011] EWCA Civ 334; gweler hefyd Rheolaeth Gynllunio dros Dymchweliad, llythyr at brif swyddogion cynllunio, 18 Ebrill 2011.

<sup>8</sup> A gweler cyfeiriad nawr yn berthnasol yn Lloegr (TCP (Demolition – Description of Buildings) Cyfeiriad 2014) – nid oes cyfarwyddyd cyfatebol yng Nghymru.



seiliedig yn bennaf ar ei faint, parhauster a'i gysylltiad ffisegol â'r tir.<sup>9</sup> Datblygwyd y meini prawf rhain gan gyfraith achosion dilynol.<sup>10</sup>

7.20 Nodwyd yn y Papur Cwmpasu bod DCGTh 1990 yn cynnwys diffiniad anghyflawn yn unig o "adeilad" - er mwyn cynnwys strwythur neu adeilad, neu ran o adeilad, fel a ddiffiniwyd<sup>11</sup>. Ystyriwyd yn y Papur Cwmpasu a fyddai o gymorth i ehangu ar hwn drwy gynnwys cyfeiriad at y ffactorau a enwyd yn *Barvis*. Mynegwyd y farn ragarweiniol gennym y byddai'n well efallai i adael y dull o ddehongli'r term "adeilad" i gyfraith achosion. Rydyn ni dal o'r farn honno. Mae'r gyfraith achosion yn gosod ymagwedd yn hytrach na diffiniad penodol, ac nid yw'n hawdd ei grynhoi mewn iaith statudol.

7.21 Yn gyffredinol, mae Rhan 55(2)(a) yn cadw'r allan o'r diffiniad o "datblygiad":

gwneud gwaith cynnal a chadw, gwella neu newid arall i unrhyw adeilad, gwaith a fydd yn-

- (i) cael effaith ar du mewn yr adeilad yn unig, neu
- (ii) yn peidio â chael effaith sylweddol ar olwg tu allan yr adeilad.

7.22 Mae'r cadw allan a nodir uchod yn ddirifol o bwysig yn ymarferol, gan ei fod yn tynnu allan o reolaeth gynllunio yr holl waith adeiladu mewnol a gwaith allanol bychan. Er hynny, mae'n amodol ar dri eithriad:

- (1) gwneud gwaith ar gyfer gwella adeiladau a effeithiwyd gan ddifrod rhyfel<sup>12</sup>;
- (2) gwaith a ddechreuwyd ar ôl 5 Rhagfyr 1968 ar gyfer newid adeilad drwy ddarparu lle ychwanegol ynddo o dan ddaear<sup>13</sup>; a
- (3) gwneud gwaith a fyddai'n cael effaith ar gynyddu'r arwynebedd llawr i raddau y gellid eu nodi mewn gorchymyn datblygu<sup>14</sup>.

7.23 Mae'r cyntaf o'r eithriadau rhain yn ddiangen bellach, a gellid eu hepgor.

7.24 Gallai'r ail gategori gael ei newid gan adael allan y dyddiad dechrau. Ond mewn gwirionedd mae'n enghraifft arbennig o'r ymagwedd gyffredinol a gyflwynwyd (sawl blwyddyn yn ddiweddarach) gan y trydydd categori. Gallai'r ddeddfwriaeth felly gael ei symleiddio gan ddarparu bod gwneud unrhyw waith i gynyddu arwynebedd llawr

---

<sup>9</sup> *Barvis Ltd v Secretary of State for the Environment* (1971) 22 P&CR 710.

<sup>10</sup> Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu (2015) Comisiwn y Gyfraith Papur Ymgynghori Rhif 228, paragraffau 7.25 – 7.28.

<sup>11</sup> DCGTh 1990 a 336(c).

<sup>12</sup> Proviso to DCGTh 1990, s 55(2)(a) (this originates from DCGTh 1947, and relates specifically to damage during the Second World War).

<sup>13</sup> DCGTh 1990 adran 336(c).

<sup>14</sup> DCGTh 1990, adran 55(2A),(2B), fel a fewnosodwyd yn DCPHG 2004, adran.49; mae'r cyfyngiad ar hyn o bryd yn berthnasol i waitha ddechreuodd ar ôl 22 Mehefin 2015 gyda'r effaith o gynyddu arwynebedd llawr yn fwy na 200 m sg, mewn amgylchiadau lle defnyddir yr adeilad ar gyfer adwerthu nwyddau ac eithrio bwyd poeth (Gorchymyn CGTh 2012 (Llawlyfr Rheoli Datblygu) (Cymru) erthygl 2A).

adeilad, p'un ai ei fod o dan ddaear neu fel arall, yn ddatblygiad bob amser. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r GDCG gael ei newid i ddarparu ar gyfer achosion lle bydd gwaith o'r fath yn ddatblygiad a ganiateir.

- 7.25 Roedd Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru o'r farn y gallai'r arolwg hwn fod yn gyfle i 'ystyried os oes modd ehangu cwmpas y gweithredoedd a allai gael eu cadw allan o'r diffiniad datblygiad'.
- 7.26 Deallwn ei bod yn ymddangos yn ddymunol i gadw rhai categorïau o weithredu allan - ac yn wir newidiadau o ran defnydd - o'r angen am ganiatâd cynllunio, ond rydym o'r farn bod modd cyflawni hyn yn well drwy eu cynnwys o fewn y categorïau o ddatblygiad a ganiateir, yn y GDCG, yn hytrach na mewn newidiadau pellach i DCGTh 1990. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei bod yn haws gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth ar sail arbrofol, ac hefyd oherwydd y gall hawliau datblygu a ganiateir gael eu tynnu yn ôl mewn rhai achosion penodol drwy osod cyfarwyddyd erthygl 4.
- 7.27 Yn olaf, gellir nodi, lle mae gwaith yn cael ei wneud i adeilad rhestredig, mae'r diffiniad normal o ddatblygiad yn gymwys fel y mae mewn achosion eraill. Er hynny, mae gwneud gwaith newidiadau ac estyniadau i'r adeilad mewn dull a allai gael effaith ar ei nodwedd fel adeilad o bensaerniaeth arbennig neu o ddiddordeb hanesyddol yn gofyn am "ganiatâd adeilad rhestredig", yn ogystal ag unrhyw ganiatâd cynllunio a all fod yn ofynnol.<sup>15</sup> Mae hyn yn arwain at orgyffwrdd rheoli sylweddol, fydd yn bwnc a drafodir mewn Pennod i ddod.<sup>16</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 7-2.

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid egluro bod maint y gweithrediadau adeiladu bychan nad ydynt wedi eu gadael allan o'r diffiniad o ddatblygu gan DCGTh 1990, rhan 55(2)(a), sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr amod i ran 55(2)(a) ac yn rhan 55(2A) a (2B), gydag un ddarpariaeth i'r perwyl bod datblygiad yn golygu gwneud unrhyw waith i gynyddu arwynebedd llawr yr adeilad, p'un ai ei fod o dan ddaear neu fel arall.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Gweithrediadau Peirianeg

- 7.28 Roeddem wedi nodi, yn y Papur Cwmpasu, na ddiffinir y term "gweithrediadau peirianeg" yn y Ddeddf, ar wahân i nodi eu fod yn cynnwys

(1) "ffurfio neu osod allan dull o gael mynediad i briffordd"<sup>17</sup>; ac

<sup>15</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig, rhannau 7,9.

<sup>16</sup> Gweler **Pennod 13**.

<sup>17</sup> Cyfraith Gynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu (2015) Comisiwn y Gyfraith Papur Ymgynghori Rhif 228, paragraff 7.20.

- (2) i bob pwrpas, "gosod neu gydosod unrhyw danc mewn unrhyw ran o unrhyw ddyfroedd mewndirol gyda'r pwrpas o ffermio pysgod yno".<sup>18</sup>

Yn ychwanegol, mae'r Llysoedd wedi awgrymu (yn *Fayrewood Farms v Ysgrifennydd Gwladol*<sup>19</sup>) y gallai fod yn weithrediad a fyddai'n cael ei oruchwylio gan beiriannydd (gan gynnwys peiriannydd traffig a pheiriannydd sifil) - sy'n adlais o'r diffiniad yn y Ddeddf o weithrediad adeiladu.

- 7.29 Cytunodd Persimmon Homes West Wales ("Persimmon") y gallai gweithrediadau peirianeg gael eu diffinio yn y Bil Cynllunio newydd. Byddai'n bosib i gyfuno'r dair elfen a amlygwyd yn y paragraff blaenorol i un diffiniad yn unig, a fyddai o bosib yn egluro'r sefyllfa gyfredol heb newid sylwedd y gyfraith yn arwyddocaol.
- 7.30 Serch hynny, cytunodd y Grid Cenedlaethol gyda'r datganiad yn ein Papur Cwmpasu a ddywedodd fod y diffyg dryswch amlwg ynglŷn â deall gweithrediadau peirianeg yn milwrio tuag at adael y diffiniad mewn cyfraith achosion, a byddai'n ddymunol yma hefyd i gael diffiniad ledled y DU. Yn ychwanegol, mae'n bosibl bod nifer o fathau o waith sydd ar hyn o bryd yn cael eu categorio fel "gweithrediadau peirianeg" - megis rhai mathau o waith tirlunio - na fyddent fel rheol dan oruchwyliaeth peiriannydd.

### Cwestiwn Ymgynghori 7-3.

**Byddai'n bosibl ymgorffori diffiniad o "gweithrediadau peirianeg" yn y Bil, i'r perwyl eu bod yn weithrediadau sydd fel arfer dan oruchwyliaeth rhywun sy'n gweithio fel peiriannydd, yn cynnwys:**

- (1) ffurfio neu osod allan dull o gael mynediad i briffordd; a
- (2) gosod neu gydosod unrhyw danc mewn unrhyw ran o unrhyw ddyfroedd mewndirol gyda'r pwrpas o ffermio pysgod yno.

**Rydym yn gwahodd barn ymgynghoreion.**

### Gweithrediadau mwyngloddio

- 7.31 Rydym yn ystyried ym **Mhennod 17** y Papur Ymgynghori hwn y diffiniadau o'r telerau gwahanol a ddefnyddir yn DCGTh 1990 i gyfeirio at weithrediadau mwyngloddio a gweithgareddau perthnasol, gan ddod i'r casgliad y dylid defnyddio'r term "gweithrediadau mwyngloddio" yn gyffredinol yn lle "ennill a gweithio mwynau".<sup>20</sup> O ystyried y cynnig hwnnw, nid oes eisiau newid y diffiniad o "datblygiad" a geir ar hyn o bryd yn rhan 55(1); ond ni fyddai angen cadw'r diffiniad o "weithrediadau mwyngloddio", yn rhan 55(4), yn y Bil.

<sup>18</sup> DCGTh 1990, rhan 55(4A), fel a fewnosodwyd yn PCPA 2004.

<sup>19</sup> [1984] JPL 267.

<sup>20</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 18-5**.

## Gweithrediadau eraill

- 7.32 Nid oes diffiniad yn y Ddeddf o "weithrediadau eraill", ac ni ellir cael un, gan fod y term yn un hollgynhwysol i gynnwys materion nad ydynt wedi cael eu categorio. Ar un adeg,<sup>21</sup> credwyd bod posibilrwydd o gynnwys dymchweliad o dan y pennawd hwn; ond mae hyn ei drechu oherwydd y cynhwysiad penodol o ddymchweliad o fewn cwmpas gweithrediadau adeiladu.
- 7.33 Mae dau fath o gategori o weithrediadau a gadwyd allan o gwmpas y datblygiad (yn rhan 55(2)(b),(c) DCGTh 1990) - yn bennaf gwaith i'r priffyrdd, a allent gael eu categorio naill ai fel gweithrediadau peirianeg neu weithrediadau eraill. Mae rhain yn syml iawn.

## NEWID DEFNYDD

### Egwyddorion sylfaenol

- 7.34 Mae'r ail aelod o "datblygiad" yn cynnwys gwneudunrhyw newid materol i'r defnydd o unrhyw adeiladau neu dir arall. Yn ymarferol, mae hyn yn arwain at fwy o ansicrwydd, ac o ganlyniad cyfreithiad, na datblygu gweithredol.
- 7.35 Mae'r cwestiwn o a yw'r newid materol i'r defnydd o dir wedi digwydd neu wedi'i gynnig yn dibynnu ar ystyried maint yr uned dir dan ystyriaeth. Mae hyn wedi arwain at lawer o gyfreithiad dros sawl blwyddyn, yn arwain at ymddangosiad rhywbeth a adnabyddir fel athrawiaeth yr "uned gynllunio". Mae nifer o ymgynghoreion y Papur Cwmpasu wedi awgrymu y gallai'r term hwn gael ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth, neu gallai'r egwyddor gael ei chodeiddio.
- 7.36 Er hynny, fel a ddangoswyd yn *Burdle yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol*<sup>22</sup>, bydd yr asesiad o beth yw'r uned gywir i'w hystyried mewn unrhyw achos benodol yn anochel yn fater o ffaith a gradd. Er y bydd y llysoedd, o bryd i'w gilydd, yn darparu canllawiau defnyddiol ar sut i wneud hyn, nid ydym yn ystyried y byddai'n briodol nac o gymorth i geisio trosglwyddo cyngor o'r fath i fformiwla statudol gryo.
- 7.37 Mae'r un peth yn wir am benderfynu beth yw'r defnydd sylfaenol a chynorthwyol o uned gynllunio benodol, ac i'r cysyniad o ddwysáu defnydd - bu'r ddau yn destun llawer o gyfraith barnwyr sydd bron yn anochel yn benodol i ffeithiau achosion neilltuol.
- 7.38 Felly, er enghraifft, ble defnyddir rhai ysguboriau a thir agored cwmpasol am gyfuniad o bwrpasau megis rhai amaethyddol, storio, gwerthu a chludo, gyda'r elfennau gwahanol yn amrywio mewn dwysder dros sawl blwyddyn, ni all fod un fformiwla statudol daclus ar gyfer penderfynu beth yw'r uned gywir o dir i'w hystyried ar unrhyw ddyddiad, beth yw'r defnydd sylfaenol a chynorthwyol o'r tir hwnnw, ac os oes unrhyw defnydd unigol wedi'i ddwysáu, neu wedi'i newid o ran nodwedd, i'r graddau bod

---

<sup>21</sup> Cyn penderfyniad y Llys Apêl yn CC Caaergrawnt v Ysgrifennydd Gwladol (1992) 64 P&CR 257, CA (gweler **para. 7.14** uchod).

<sup>22</sup> [1972] 3 All ER 240, per Bridge J tud 244.

modd dweud bod newid materol o ddefnydd wedi digwydd. Mae'r cyfan yn fater o ffaith a gradd.

- 7.39 Felly, er bod amlder sylweddol o gyfraith achosion sydd yn perthyn i "newid materol o ddefnydd", a allai ddarparu cyngor defnyddiol mewn sefyllfaoedd o'r fath, nid yw hyn i'w weld o gymorth - neu hyd yn oed yn bosibl - i geisio ei grynhoi o fewn geiriad y Bil.
- 7.40 Yn fwy cyffredinol, nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o "newid materol o ddefnydd", ac mae'r math o gyfreithiad perthnasol dros y 70 mlynedd diwetha yn awgrymu nad yw'n bosibl yn realistig i gael un diffiniad cyffredinol.<sup>23</sup> Ond mae'r Deddf yn benodol yn cynnwys rhai materion a chadw materion eraill allan.

### Dosbarthiadau Defnydd

- 7.41 Mae Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd - a wnaethpwyd o dan rhan 55(2)(f) DCGTh 1990 - yn hynod o ddefnyddiol, yn dileu'r angen am i'r system gynllunio fod yn rhan o newidiadau mewn defnydd na fyddant, mae'n debyg, o unrhyw bwys mewn termau cynllunio.<sup>24</sup> Defnyddir y term "dosbarthiadau defnydd" ar gyfer grwpio defnydd sydd fwy neu lai yr un fath o ran effaith, gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn darparu bod newid defnydd o fewn un dosbarth penodol i un arall yn yr un dosbarth yn cael ei gadw allan o'r diffiniad o "datblygiad".
- 7.42 Mae hyn yn golygu nad oes ymglymiad gan yr awdurdod cynllunio mewn perthynas â newid o'r fath; a nid yw'n gallu ceisio adfer rheolaeth trwy gyfarwyddyd erthygl 4.
- 7.43 Yn ychwanegol, gall gorchymyn datblygu cyffredinol neu leol ddarparu bod newid defnydd mewn un categori penodol i'r llall fel arfer yn ddatblygiad a ganiateir - er yn yr achos hwn byddai'n bosibl i'r awdurdod wneud cyfarwyddyd yn gofyn am i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Felly, er enghraifft, mae newid o fwyty (defnydd yn Nosbarth A3) i siop (defnydd Dosbarth A1) yn ddatblygiad a ganiateir.
- 7.44 Mae Rhan 333(4) yn darparu bod y gorchymyn o dan rhan 55(2)(f) yn darparu ar gyfer dosbarthiadau defnydd (fel sy'n digwydd gyda gorchymyn datblygu) i fod yn offeryn statudol; ond mae rhan 333(5)(b) yn hepgor gorchymyn o'r rhestr am y rhai i'w gwneud yn ôl y weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae'r arfer presennol yn gyfle defnyddiol i gywiro'r hepgoriad hwn. Yn ychwanegol, yn unol â'n hymagwedd gyffredinol at is-deddfwriaeth, awgrymwn fod y pwerau newydd yn cyfeirio at reoliadau dosbarthiadau defnydd, yn hytrach nag at orchymyn.

#### Cwestiwn ymgynghori 7-4.

**Rydym yn cynnig dros dros y dylai fod darpariaeth amlwg ynglŷn â chymeradwyo rheoliadau dosbarthiadau defnydd yn ôl y weithdrefn penderfyniad negyddol.**

<sup>23</sup> Mae diffiniad yn rheoliad 5 Rheoliadau Adeiladu 2010; ond ni fyddai hyn yn briodol yn y cyd-destun presennol.

<sup>24</sup> OS 1987 Rhif 764, newidwyd gan OSau 1991 Rhif 1567, 1992 Rhif 610, 657, 1994 Rhif 724, 1995 Rhif 297 2002 Rhif 1875, 2016 Rhif 28.

## Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Newidiadau defnydd yn perthyn i dai annedd.

#### 7.45 Mae Rhan 55(2)(d) yn darparu

Ni ddylai'r defnydd o unrhyw adeilad neu dir o fewn cwrttil yr anhedd-dŷ am unrhyw bwrpas achlysurol i fwynhad yr anhedd-dŷ gael ei ystyried at ddibenion y Ddeddf hon i gynnwys datblygiad y tir.

#### 7.46 Dywed Rhan 55(3)(a):

Er mwyn osgoi amheuaeth datgenir, at dibenion y rhan hon, bod y defnydd o ddau dŷ annedd neu fwy ar wahân o unrhyw adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel un tŷ annedd yn unig yn gofyn am newid materol i ddefnydd yr adeilad a phob rhan ohono a ddefnyddir felly.

7.47 Y cwestiwn cyntaf a godwyd gan y ddwy ddarpariaeth yw beth a olygir gan y term "anhedd-dŷ". Ystyriwn hyn yn fwy trylwyr ym **Mhennod 17**, yng nghyd-destun y diffiniadau o'r termau a ddefnyddir mewn Deddfau cynllunio yn gyffredinol. Rydym felly yn cynnig dros dro bod y term "annedd" yn cael ei ddefnyddio, yn hytrach nac "anhedd-dŷ", yn y darpariaethau yn y Bil yn sydd yn cymryd lle rhannau 55(2)(d) a 55(3)(a) ac nad yw'r diffiniad i gynnwys anhedd-dŷ a fflat.<sup>25</sup>

7.48 Yr ail gwestiwn a godwyd yn rhan 55(2)(d) yw ystyr y gair "cwrttil". Ystyrir hyn hefyd ym **Mhennod 17**, lle rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth i'r perwyl bod y cwestiwn os yw'r strwythur o fewn cwrttil yr adeilad i'w benderfynu yn ôl cynllun ffisegol yr adeilad a'r strwythur, eu perchenogaeth (gorffennol a phresennol), a'u defnydd a gweithrediad (gorffennol a phresennol).<sup>26</sup>

7.49 Ar y manylyn hwnnw, gall "defnydd" o dir at ddibenion preswyl ddilyn o newid materol defnydd, ond mae'r cysyniad o "datblygiad" yn perthyn i'r newid yn unig, nid y defnydd canlyniadol ei hunan. Byddai rhan 55(2)(d) ychydig yn glirach, felly, pe bai'n datgan bod y newid defnydd o dir o fewn cwrttil yr adeilad a feddiannir fel annedd i'w ddefnyddio at ddibenion sydd yn gysylltiedig â'r anheddiad hwnnw ddim yn ffurfio datblygiad.

### Newid defnydd yn cynnwys newid i'r nifer o anheddau

7.50 Mae Rhan 55(3)(a) yn ei gwneud yn glir bod israniad o un uned breswyl i ddwy - naill ai un tŷ i ddau fflat neu un fflat i ddau fflat llai - yn "newid defnydd materol", ni waeth sut y gellir ei ystyried felly. Ond nid yw'n glir os yw newid yn y cyfeiriad arall - dau fflat i un tŷ, neu ddau fflat bach i un fflat mawr - hefyd yn newid defnydd materol. Nid ymddengys yn glir chwaith os bydd y gwaith o wneud cynllun adnewyddu mewnol i newid defnydd mewn adeilad o, er enghraifft, bum fflat i saith (neu saith fflat i bump)

<sup>25</sup> Gweler cwestiwn ymgynghori 8-15.

<sup>26</sup> Gweler cwestiwn ymgynghori 8-15.

o reidrwydd yn arwain at newid defnydd materol yr adeilad ar y cyfan, neu unrhyw ran ohono.

- 7.51 Mae'r llysoedd wedi dal y gall newid o'r fath fod yn faterol, yn dibynnu ar ei ganlyniadau cynllunio.<sup>27</sup> Serch hynny, yn ymarferol, mae'n drysu'r cwestiwn o os yw newid penodol yn ddymunol, fel mater o bolisi, gyda'r cwestiwn blaenorol o oes angen gofyn am ganiatâd; mae felly yn arwain at gryn ansicrwydd i'r rhai sy'n gwneud ceisiadau.
- 7.52 Os bydd newid mewn un cyfeiriad yn cael ei ddiffinio i fod yn faterol, beth bynnag, y cam nesaf rhesymegol sydd yn dilyn yw bod newid o'r un fath yn y newid cyferbyniol yn faterol i'r un graddau. Gallai'r newid o'r fath, wrth gwrs, mewn unrhyw achos penodol - o'r naill gyfeiriad a'r llall - fod yn dra dymunol neu annymunol o ran termau cynllunio; neu gallai fod yn hollol niwtral. Ond bydd hyn yn bwnc i'r awdurdod cynllunio benderfynu, wedi iddynt derbyn cais. Ystyriwn y byddai'n cael gwared ar ansicrwydd pe byddid yn ei gwneud yn glir bod unrhyw newid o'r naill gyfeiriad a'r llall yn un materol.

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-5.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid egluro rhan 55(3)(a) trwy ddarparu bod y defnydd fel un annedd neu fwy o unrhyw adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel nifer o anheddau i'w gweld yn gynnwys newid materol yn defnydd yr adeilad a phob rhan ohono a ddefnyddir.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Newidiadau defnydd eraill nad ydynt yn faterol**

- 7.53 Mae Rhan 55(2)(e) DCGTh 1990 yn darparu na ddylai'r defnydd ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth gael ei ystyried i gynnwys datblygiad. Yma hefyd, fel sydd yn briodol gyda'r defnydd o dir o fewn cwrtil yr annedd, mae cynhyrchu'r Bil yn gyfle i esbonio y dylai canolbwynt yr ymholiad fod ar a yw'r *newid* defnydd yn faterol, ac felly yn ddatblygiad, yn hytrach nag ar y defnydd canlyniadol ei hunan.
- 7.54 Derbyniwyd rhai awgrymiadau ar gyfer dosbarthiadau defnydd pellach o bosib - er enghraifft, ar gyfer cartrefi gwyliau (cyfwerth â'r dosbarth newydd ar gyfer tai amlfeddiannaeth). Mae'n amlwg bydd angen cyfuno, rhywbryd, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 â'r saith gorchymyn yn ei newid;<sup>28</sup> ac heb amheuaeth bydd y dosbarthiadau yn cael eu hadolygu y pryd hynny. Yn wir, deallwn fod y gwaith hwn ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, mae hyn y tu

<sup>27</sup> *Richmond-upon-Thames v Ysgrifennydd Gwladol* [2000] 2 PLR 115, cynhaliwyd yn ddiweddar yn R (Kensington a Chelsea RBC) v Ysgrifennydd Gwladol [2016] EWHC 1785 (Gwein).

<sup>28</sup> Gweler **troednodyn 24** uchod.

allan i gwmpas y prosiect hwn, sydd yn canolbwyntio yn bennaf ar ddeddfwriaeth sylfaenol.<sup>29</sup>

### **Cwestiwn ymgynghori 7-6.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai rhan 55(2)(d) i (f) DCGTh gael ei hesbonio ymhellach drwy ddarparu y dylai'r newidiadau defnydd canlynol gael eu hystyried at ddibenion y Ddeddf hon i beidio â chynnwys datblygiad y tir:**

- (1) **y newid defnydd o dir o fewn cwrttil yr annedd i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben yn achlysurol er mwynhad yr annedd ei hunan;**
- (2) **y newid defnydd o unrhyw dir i'w ddefnyddio at dibenion amaethyddol neu goedwigo (gan gynnwys coedwigiad) a'r newid defnydd ar gyfer y dibenion hynny o unrhyw adeilad cyfannedd ynghyd â'r tir a ddefnyddir;**
- (3) **yn achos adeiladau neu dir arall a ddefnyddir ar gyfer defnydd o fewn unrhyw ddosbarth a bennwyd mewn gorchymyn a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, y newid defnydd o unrhyw ran o'r adeiladau neu'r tir arall, o'r defnydd hwnnw i unrhyw ddefnydd arall o fewn yr un dosbarth.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **FFYRDD O GAEL CANIATÂD CYNLLUNIO**

- 7.55 Bydd yn glir bod "datblygiad", fel y'i diffiniwyd yn rhan 55, yn cynnwys popeth o brosiectau datblygu enfawr i estyniadau cartrefi bychan; a bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob un ohonynt. Mae'r Deddfau Cynllunio felly wedi darparu bob amser bod modd cael caniatâd mewn nifer o ffyrdd, sydd yn golygu nad oes rhaid cyflwyno cais mewn sawl achos - gan arbed amser ac arian i bawb cysylltiedig.
- 7.56 Mae Rhan 58(1) DCGTh 1990 felly yn darparu bod modd cael caniatâd cynllunio:
- (1) drwy ganiatâd cyffredinol mewn gorchymyn datblygu (fel arfer y GDCG) yn awdurdodi'r holl ddatblygu mewn categori penodol, o bosibl gyda chymalau amodol;
  - (2) drwy ganiatâd cyffredinol, mewn gorchymyn datblygu (hefyd fel arfer y GDCG), yn awdurdodi'r holl ddatblygu mewn categori penodol, ond yn amodol ar gymal yn gofyn i'r awdurdod cynllunio gael cyfle i gymeradwyo manylion datblygiad penodol ond nid yr egwyddor);
  - (3) gan orchymyn datblygu lleol, a wnaethpwyd gan awdurod cynllunio, o bosibl gyda chymalau amodol fel yn (1) neu (2);

---

<sup>29</sup> Gweler para 4.29.



- (4) gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, mewn ymateb i gais yn awdurdodi datblygiad penodol; neu
- (5) drwy fabwysiadu prosiect parthau cynllunio syml neu brosiect ardal fenter.

7.57 Fel arall, gellir tybio ei fod wedi ei ganiatáu gan adran 90 (datblygiad yn manteisio o awdurdodiad y llywodraeth).<sup>30</sup>

7.58 Mae Rhan 58 yn hollol ddatganiadol ac yn wir mae braidd yn gamarweiniol yn ei ffurf gyfredol, fel y gallai ymddangos i rywun nad yw'n gyfreithiwr fel rhestr gynhwysfawr. Fel mater o ffaith, fel ma'er adran yn cydnabod<sup>31</sup>, nid yw'n gynhwysfawr o bell ffordd, o ran bod sawl ffordd arall o gael caniatâd cynllunio neu wedi ei dybio fel petai wedi ei roi.<sup>32</sup> Ymddengys nad yw'n ateb unrhyw ddiben, felly rydym yn cynnig dros dro nad yw'n cael ei ailddatgan yn y Bil newydd - er ein bod yn cydnabod posiblwydd bod y Bil yn cynnwys darpariaethau "arwyddbyst" yn crynhoi'r darpariaethau eraill.

### Cwestiwn ymgynghori 7-7.

**Rydym yn cynnig dros dro nad yw rhan 58 DCGTh 1990 (ffyrdd o gael caniatâd cynllunio) yn cael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd yn ei ffurf presennol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## CANIATÂD A RODDIR GAN ORCHYMYN DATBLYGU

7.59 Fel rheol, cyfeirir at y dair gweithdrefn gyntaf a restrir uchod fel "datblygiad a ganiateir". Mae'r un gyntaf yn caniatáu datblygiadau sydd fel rheol yn dderbyniol i'w cymeradwyo yn syth, heb unrhyw oedi. I bob pwrpas, o safbwynt y perchennog tir neu ddarpar ymgeisydd, mae'n bosibl ei bod yn ymddangos fel bod dim angen caniatâd o gwbl mewn achosion o'r fath - er nad yw hyn yn fanwl gywir oherwydd gall y caniatâd a roir yn erthygl 3 GDCG gael ei dynnu yn ôl mewn egwyddor gan "gyfarwyddyd erthygl 4" - ond mae cyfarwyddiadau o'r fath yn ymarferol yn brin iawn.

<sup>30</sup> DCGTh 1990, a 58(2).

<sup>31</sup> DCGTh 1990, a 58(3) yn datgan "Mae'r adran hon heb ragfarn i unrhyw ddarpariaethau eraill o'r Ddeddf hon ar gyfer rhoi caniatâd."

<sup>32</sup> Mae eraill yn cynnwys caniatâd a roir gan rybudd dirwyn i ben (o dan TPCA 1990, adrannau 102 neu 104), mewn ymateb i hysbysiad prynu (DCGTh 1990, adran 141(2) neu'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, adran 35(5)), mewn ymateb i gamau gorfodi (TPCA 1990, adrannau 173(11),(12), adran 177), mewn ymateb i gais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon (DCGTh 1990, adran 196), neu gan Ddeddf Seneddol; a chaniatâd tybiedig ar gyfer datblygiad wedi'i awdurdodi gan adran o'r Llywodraeth (DCGTh 1990, adran 90) ac am hysbysebu (DCGTh 1990, adran 222) (**para 14.5**). Gellir rhoi caniatâd cynllunio gan orchmynion datblygu maerol (DCGTh 1990, adran 61DA) a gorchmynion datblygu cymdogaeth (adran 61J), ond yn Lloegr yn unig.

- 7.60 Mae tuedd wedi bod i fwy a mwy o gategoriâu datblygiad i'w caniatáu yn y ffordd hon, gyda'r canlyniad anochel bod ffiniau y categorïau yn dod yn fwy coeth, ac o ganlyniad mae'n fwy cymhleth i ddefnyddwyr nad ydynt y broffesiynol i'w deall.
- 7.61 Mae'r ail gategori uchod yn caniatáu datblygiad i'w gymeradwyo mewn egwyddor yn awtomatig, ond mae cyfle i'r awdurdod ymyrryd ynghylch manylion, neu i wirio ei bod yn cydymffurfio â gofynion ynglŷn â materion megis llifogydd. Roedd hyn yn arfer bod yn berthnasol yn bennaf i ddatblygiad amaethyddiaeth, coedwigaeth, mwynau, a gwaith a awdurdodwyd gan ddeddfwriaeth breifat<sup>33</sup> - ond yn ddiweddarach, mae wedi cael ei ddefnyddio yn fwy aml mewn cysylltiad â dosbarthiadau gwahanol o ddatblygiad a ganiateir, megis telathrebu, cyfleusterau tollfyrdd, a dymchweliad.<sup>34</sup> Yn Lloegr, ond nid yng Nghymru, mae wedi cael ei ddefnyddio i ganiatáu amyrwiaeth o newidiadau defnydd.
- 7.62 Y canlyniad yw mewn nifer cynyddol o achosion, bod datblygiad arfaethedig yn cael ei caniatáu, mewn egwyddor, ond yn amodol ar gymal bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio i'w cymeradwyo am ei fanylion. O safbwynt yr ymgeisydd, ac o'r awdurdod yn aml, mae'n debyg mewn sawl achos i'r hen drefn lle roedd rhaid cyflwyno cais i'r awdurdod i gael caniatâd cynllunio, a roddwyd neu wrthodwyd; mae rhaid i'r awdurdod fod yn rhan ohono o hyd, a mae dal potensial am oedi. O dan y drefn newydd, y gwahaniaeth yw nad oes cyfle gan yr awdurdod (ac eithrio gwneud cyfarwyddyd erthygl 4) i wrthod datblygiad o'r fath mewn egwyddor. Eto, mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio llawer llai yng Nghymru nac yn Lloegr.
- 7.63 Bydd cynhyrchu y Côt Cynllunio newydd yn gyfle defnyddiol i ddwyn y darpariaethau ynghyd ynglŷn â rhoi caniatâd gan orchymyn datblygu cyffredinol - rhan 59(2)(a),(3),60 a 61D(1),(2) DCGTh 1990.<sup>35</sup>
- 7.64 Nid oes angen Rhan 61 bellach; mae isadran (1) yn dyblygu rhan 333(4B); a nid yw isadrannau 2 a 3, ynglŷn â pherthnasedd deddfwriaeth cyn-1947, o unrhyw ddefnydd parhaol.
- 7.65 Awgrymwyd inni y dylai'r darnau gwahanol o ddeddfwriaeth eilaidd sydd yn darparu hawliau datblygiad a ganiateir yng Nghymru gael eu cynnwys yn un gorchymyn wedi'i gyfuno - fel oedd wedi digwydd yn Lloegr yn 2015.<sup>36</sup> Yn amlwg, byddai hynny wir yn ddymunol, a bydd heb os yn cael sylw os bydd adnoddau yn caniatáu; deallwn yma hefyd fod y gwaith ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, eto, ni wnawn unrhyw gynigion gan ei fod y tu allan i gwmpas y prosiect hwn.

<sup>33</sup> TCP(GP)O 1995, Atodiad 2, Rhannau 5, 6, 11, 19, 20.

<sup>34</sup> TCP(GP)O 1995, Atodiad 2, Rhannau 24, 30, 31.

<sup>35</sup> DCGTh 1990, nid oes angen adran 60(4).

<sup>36</sup> SIs 1995 Rhif 418, 1996 Rhif 528, 1997 Rhif 366, 1998 Rhif 462, 1999 Rhif 1661, 2002 Rhif 1878, 2004 Rhif 3156 (Atodiad 3), 2005 Rhif 2935, 2006 Rhifau 124, 221, 2007 Rhif 952, 2008 Rhif 502, 2009 Rhif 2193, 2012 Rhifau 1346, 2318, 2013 Rhif 1776, 2014 Rhifau 592, 2692, 2693, 2016 Rhif 29.

### **Cwestiwn ymgynghori 7-8.**

**Rydym yn cynnig dros dro nad yw rhan 61 DCGTh 1990 (yn bennaf yn perthyn i berthnasedd deddfwriaeth cyn-1947) yn cael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Datblygiad a ganiateir gan orchymyn datblygu lleol**

- 7.66 Cyflwynwyd gorchmynion datblygu lleol yn rhan 40 DCPHG 2004, yn effeithiol o Ebrill 2012. Maent felly o ddechreuad cymharol ddiweddar. Maent yn ffordd y gall awdurdod cynllunio roi caniatâd cynllunio fel rheol gyffredinol ar gyfer datblygiadau o fewn categori penodol.
- 7.67 Nid yw gorchmynion datblygu lleol wedi cael eu defnyddio llawer hyd yma, ond maent yn offeryn polisi byw ac mae Llywodraeth Cymru yn annog eu defnyddio. Er enghraifft, mae Cyngor Casnewydd wedi mabwysiadu, yn ddiweddar, Gorchymyn Datblygu Lleol Canolfan Dinas Casnewydd, ac mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ddiweddar wedi mabwysiadu Stad Ddiwydiannol Trefforest a Gorchymyn Datblygu Lleol Parc Nantgarw. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn cefnogi defnydd GDLI, gyda chyfarwyddyd manwl a gyhoeddwyd yn 2012.<sup>37</sup> Mae hyn i gyd yn awgrymu efallai y bydd GDLI yn fwy llwyddiannus na'r fenter debyg flaeonrol oddi wrth y Lywodraeth ganolog, sef parthau cynllunio syml (gweler isod).
- 7.68 Fel yn achos gorchmynion datblygu lleol, mae cynhyrchu'r Bil newydd yn darparu cyfle i'r darpariaethau statudol i gael caniatâd gan orchymyn datblygu lleol - rhannau 61A i 61C a 61D(1),(3) ac Atodiad 41 DCGTh 1990 - i'w cyfuno fel set o ddarpariaethau haws eu deall yn rheoli'r weithdrefn.

### **Gorchmynion datblygu cymdogaeth**

- 7.69 Cyflwynwyd math arall o weithdrefn arbennig gyda'r bwriad o hyrwyddo adfywio ac adnewyddu gan lacio'r angen arferol am ganiatâd cynllunio mewn rhai ardaloedd neu mewn perthynas â mathau penodol o ddatblygiadau - yn y naill achos neu'r llall, dan oruchwyliaeth yr awdurdod cynllunio lleol arferol, yn hytrach na chorff gweithredol wedi'i greu yn arbennig. Enghraifft arall o hyn oedd y gorchymyn datblygu cymdogaeth, a gyflwynwyd yn Neddf Lleoliaeth 2011, ond yn berthnasol i Loegr yn unig.
- 7.70 Nodwn na chymerwyd y cyfle yn DC(C) 2015 i gynnwys darpariaethau tebyg yng Nghymru, a ni wnawn ni unrhyw gynigion o'r fath.

### **Gwaith i adeiladau rhestredig a mewn ardaloedd cadwraeth**

---

<sup>37</sup> Cylchlythyr 03/2012 – *Canllawiau ar gyfer Defnyddio Gorchymyn Datblygu Lleol.*

7.71 Ystyrir hyn ym **Mhennod 13**.<sup>38</sup>

### lawndal am ddirymu caniatâd gorchymyn datblygu

7.72 Mewn achosion lle mae gorchymyn datblygu cyffredinol neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei addasu neu ei ddiddymu, gall fod hawl mewn rhai amgylchiadau i gael iawndal. Darperir hyn gan rhan 108 DCGTh 1990.<sup>39</sup> Efallai byddai'n symlach i ddefnyddwyr pe byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys gyda'r darpariaethau yn perthyn i orchymynion datblygu - gan gynnwys y newid a gyflwynwyd gan Atodiad 6 DCPG 2004, nad yw wedi dod i rym hyd yma yng Nghymru.

### ymeradwyaeth dilynol o fanylion

7.73 Fel a nodir uchod, mewn nifer cynyddol o achosion, caniateir datblygiad arfaethedig gan orchymyn datblygu, ond yn amodol ar gymal bod y cais am gymeradwyo manylion i'w wneud i'r awdurdod cynllunio. Trafodir hyn yn y Bennod ddilynol.

## FFURFIAU ERAILL O GANIATÂD CYNLLUNIO

### Ardaloedd menter

7.74 Gellir rhoi caniatâd cynllunio gan gynllun ardal fenter (AF), o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Mae cynllun o dan y Ddeddf honno yn parhau am ddeng mlynedd. Nid oes ardal fenter wedi cael ei chreu o dan y weithdrefn hon yng Nghymru ers 1985.<sup>40</sup> Pe ystyrir hyn yn ddymunol, gellid cael canlyniad tebyg trwy ddefnyddio gorchymyn datblygu lleol.<sup>41</sup>

7.75 Ym **Mhennod 16**, rydym yn cynnig dros dro diddymiad y darpariaethau o dan Deddf 1980, a darpariaethau cysylltiedig o dan deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth berthnasol, i'r graddau eu bod yn berthnasol i Gymru.<sup>42</sup> Byddai'n dilyn nad oes angen i rannau 88 a 89 DCGTh 1990, sydd yn darparu am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mewn ardaloedd menter, gael eu hailddatgan yn y Bil newydd.<sup>43</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 7-9.

**Rydym yn cynnig dros dro na ddylai rhannau 88 a 89 DCGTh (caniatâd cynllunio a roir gan gynllun ardal fenter) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>38</sup> Gweler yn benodol **paragraff 13.35**.

<sup>39</sup> Newidiwyd gan ddarnau dilynol gwahanol o ddeddfwriaeth, ond yn benodol gan SI 2012 Rhif 210.

<sup>40</sup> Cafodd yr wyth parth sydd yn bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru eu creu dan weithdrefn wahanol, yn y Deddf Cyllid 2012 (gweler **paras 16.67 i 16.71**).

<sup>41</sup> Gweler **paras 7.66 i 7.69**.

<sup>42</sup> Gweler **paras 16.63 i 16.66, cwestiwn ymgynghori 16-7**.

<sup>43</sup> Hyd yn oed oss yw'n ymddangos nad oes gan y Cynulliad y gallu deddfwriaethol sydd ei angen i ddiddymu AM, ni fyddai hi'n hanfodol ailddatgan DCGTh 1990, adrannau 88, 89 yn y Bil.

## Parthau cynllunio syml

- 7.76 Cyflwynwyd Parthau Cynllunio Syml yn Rhan 2 Atodiad 6 y Ddeddf Tai a Chynllunio 1986. Fe'u gwelwyd yn wreiddiol fel ychwanegiad i'r gyfundrefn Ardal Fenter, o ran bod cynllun parth cynllunio syml yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o fewn y categorïau a nodir ynddo. Gofynnodd Rhan 24A DCGTh 1971, fel a fewnosodwyd yn Neddf 1986, i bob awdurdod cynllunio ystyried, cyn gynted â phosibl wedi i'r rhan ddod i rym, lle byddai cynllun parthau cynllunio syml yn ddymunol am ran neu rannau o'u hardal, ac o hynny ymlaen i gadw'r cwestiwn hwnnw o dan arolwg; ac i baratoi cynllun ar gyfer unrhyw ran o'r fath lle gwelir ei bod yn ddymunol i wneud hyn.<sup>44</sup>
- 7.77 Er gwaetha'r ddyletswydd honno a eiriwyd yn gryf, a bodolaeth canllawiau y Llywodraeth yng Nghymru<sup>45</sup>, ymddengys, yn y 31 mlynedd ers 1986, mai tri pharth cynllunio syml yn unig sydd wedi eu creu yn Lloegr, dau yn yr Alban, a dim un yng Nghymru.<sup>46</sup> Mae hyn yn bosibl oherwydd, fel y nodir yn y Papur Cwmpasu, bod cyfyngiadau ymarferol arwyddocaol o ran sefydlu parthau o'r fath. A nawr, gall awdurdod cynllunio gyflawni'r un peth gan wneud gorchymyn datblygu lleol, sy'n amodol ar gyfyngiadau llai (fel a nodir yn gynharach).
- 7.78 Nid oes cyfarwyddyd pellach wedi cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn yr ugain mlynedd diwethaf; ac mae'r holl gyfarwyddyd perthnasol Lloegr wedi ei ganslo Felly ymddengys yn annhebygol iawn y bydd parthau cynllunio syml byth yn cael eu defnyddio.
- 7.79 Awgrymon ni, yn y Papur Cwmpasu, y dylai'r ddeddfwriaeth sydd yn darparu ar gyfer parthau cynllunio syml gael ei diddymu yng Nghymru. Cytunodd Persimmon Homes West Wales a PEBA. Rydym yn dal o'r farn honno, ac yn ystyried y dylai rhannau 82 i 87 Atodiad 7 DCGTh 1990 gael eu diddymu i'r graddau eu bod yn berthnasol i Gymru.

### Cwestiwn ymgynghori 7-10.

**Rydym yn cynnig dros dro na ddylai rhannau 82 i 87 Atodiad 7 DCGTh (parthau cynllunio syml) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>44</sup> Gweler DCGTh 1990, adran 83; PCPA 2004, diddymir adran 45 adran 83 yn y dyfodol, ond nid yw adran 45 wedi dod i rym hyd yma.

<sup>45</sup> TAN 3, Parthau Cynllunio Syml, 1996. Nid oes canllawiau bellach ar PCS yn Lloegr.

<sup>46</sup> Mae'n anodd bod yn sicr o ran ffigyrau manwl gywir.

## Datblygiad gydag awdurdodiad y Llywodraeth

- 7.80 Mae Rhan 90 yn awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol neu adran berthnasol y llywodraeth, neu Weinidogion Cymru, i gyfarwyddo bod caniatâd cynllunio tybeidig wedi ei roi ar gyfer:
- (6) datblygu gan awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac ymgymerwyr statudol (isadrannau (1),(4));
  - (7) gorsafoedd cynhyrchu trydan a llinellau trosglwyddo (isadran (2),(2ZA),(5)-(7), fel a fewnosodwyd yn Neddf Twf a Seilwaith 2016 2013)); a
  - (8) datblygu a awdurdodir gan orchymyn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (isadran (3)).
- 7.81 Eto, mae cynhyrchu'r Cod yn darparu cyfle i'r darpariaethau hyn gael eu cynnwys ochr yn ochr â'r rhai hynny sydd yn berthnasol i orchymynion datblygu. Rydym yn ystyried y driniaeth o'r awdurdodiad mewn achosion o'r fath yn y Bennod nesaf.<sup>47</sup>

## Caniatâd a roddir mewn ymateb i gais.

- 7.82 Y prif ddull o roi caniatâd cynllunio yw ble mae awdurdod cynllunio yn rhoi caniatâd mewn ymateb i gais neu ble mae Gweinidogion Cymru yn caniatáu apêl. Trafodir hyn yn y Bennod nesaf.

## CEISIADAU AM DYSTYSGRIF CYFREITHLONDEB

- 7.83 O ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd, gan gynnwys y rheolau cymhleth dros ben ynglŷn â datblygiad a ganiateir, nid yw'n rhyfedd ei bod yn bell o fod yn glir weithiau os oes angen caniatâd cynllunio unigol (neu, o dan y system bresennol, caniatâd adeilad rhestredig) ar gyfer prosiect penodol.
- 7.84 Fodd bynnag, fel y dangoswyd gan Robert Carnwath CF (fel yr oedd yr adeg honno) yn ei adroddiad 1998 *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*, "dylai perchnogion tir gael modd rhesymol hygyrch o sefydlu beth medrir ei wneud yn gyfreithlon gyda'u heiddo."<sup>48</sup>
- 7.85 Mae gweithdrefn mewn bodolaeth lle mae'n bosibl cael tystysgrif sydd yn rhwymo mewn cyfraith i'r perwyl bod angen neu nad oes angen caniatâd cynllunio - tystysgrif cyfreithlondeb o ddefnydd presennol neu ddatblygiad (TCDPD) neu dystysgrif cyfreithlondeb o ddefnydd arfaethedig neu ddatblygiad (TCDAD) fel y bo'n briodol. Gellir dod o hyd i'r darpariaethau ynglŷn â cheisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb o fewn y rhan darpariaethau gorfodaeth DCGTh 1990 (rhannau 191 i 196). Fe'u cyflwynwyd i DCGTh 1990 gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, sef Deddf a oedd yn trafod gorfodaeth yn bennaf.

---

<sup>47</sup> Gweler **paras 8.168 to 8.169**.

<sup>48</sup> *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*, HMSO, 1989, para 7.2; a gweler *James Hay Pension Trustees yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol Cyntaf* [2006] EWCA Civ 1387.

7.86 Roedd gweithdrefn cyn hynny, o dan ran 64 DCGTh 1990, lle gallai unrhywun holi os oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith arfaethedig. Gwnaeth yr adran honno ddarparu:

(1) Os bydd unrhyw berson sydd yn bwriadu cynnal gweithrediadau ar dir, neu yn bwriadu gwneud unrhyw newid yn y defnydd o dir—

(a) yn dymuno cael penderfyniad ynglŷn ag a fyddai gwneud y gweithrediadau rhain, neu wneud y newid hwnnw, yn golygu neu yn cynnwys datblygiad y tir, ac

(b) os felly, a fydd angen cais am ganiatâd cynllunio yn y cyswllt hwn o dan y Rhan hon (o ystyried darpariaethau unrhyw orchymyn datblygu, cynllun ardal fenter neu barthau cynllunio syml),

gall wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu'r cwestiwn hwnnw.

(2) Gellir gwneud cais o dan isadran (1) naill ai fel rhan o gais am ganiatâd cynllunio neu heb gais o'r math hwn.

7.87 Fel mater o egwyddor, rydym yn cytuno y dylai unrhyw un fedru canfod os yw gweithrediad neu newid defnydd (naill ai un a ddigwyddodd eisoes neu un a arfaethir) yn gofyn am ganiatâd cynllunio, yn gwbl annibynnol o unrhyw gamau gorfodi posib.<sup>49</sup> Mae'n amlwg bod y *Llawlyfr Rheoli Datblygu* a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys adran am dystysgrifau datblygu Cyfreithlon yn y bennod rhagarweiniol *Beth yw Datblygiad?*

7.88 Ystyriwn dros dro bod cynhyrchu'r Cod Cynllunio yn gyfle i gynnwys darpariaethau sydd gyfwerth â rhannau 191 i 196 DCGTh 1990 ochr yn ochr â'r rheiny y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y Bennod hon, ar linellau hen adran 64(1) (gan gynnwys cyfeiriad at orchymynion datblygu lleol ond nid at gynlluniau ardaloedd menter neu barthau cynllunio syml) - yn hytrach na gyda'r rhan o'r Cod sydd yn trafod gorfodi.

7.89 Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys (yn adran 171B) darpariaethau ynghylch y cyfnod pryd na fedrir, wedyn, cymryd camau gorfodi - yn gyffredinol naill ai bedair blynedd neu ddeng mlynedd. Mae'r darpariaethau hyn yn elfen bwysig o benderfynu a yw'r defnydd o dir sydd yn bodoli neu ddefnydd arfaethedig o'r tir, yn gyfreithlon, ac a yw datblygiad gweithredol sydd wedi digwydd neu a arfaethir yn gyfreithlon. Mae'r darpariaethau y Ddeddf sydd yn berthnasol i derfynau amser (rhan 171B) wedi eu cysylltu'n agos, felly, â'r rhai perthnasol i dystysgrifau, ac felly dylai'r rhain gael eu cynnwys yn yr un pwynt.

7.90 Ar hyn o bryd, mae rhannau 191 i 196 wedi cael eu drafftio drwy gyfeirio at gamau gorfodi; ond efallai bydd yn well eu hailstrwythuro er mwyn cael diffiniad o beth yw

---

<sup>49</sup> Yn ôl pob tebyg, os nad yw TCDPD ar fin ymddangos, penderfyniad yr ymgeisydd fydd a yw eisiau gofyn am ganiatâd cynllunio adolygol neu beidio, a phenderfyniad yr awdurdod a ddylid cymryd camau gorfodi. Ond gall y ddau benderfynu peidio â gweithredu ymhellach, a gadael y mater i fel mae.

"gweithrediad gyfreithlon" a "defnydd cyfreithlon" fel man cychwyn - fel y cyflawnwyd yn yr hen ran 64(1). Ni fyddai hyn yn newid sylwedd y gyfraith, ond byddai'n newid y pwyslais.

- 7.91 Ymhellach, wrth ystyried y defnydd cynyddol o roi caniatâd gan orchymyn datblygu, mae'r angen am gais, mewn sawl achos, yn fwy cymhleth i'w benderfynu nag os yw prosiect arfaethedig yn ddatblygiad neu beidio. Roedd o gymorth bod rhan wreiddiol 64(1)(b) wedi cyfeirio at yr angen am gais; roedd yn anffodus bod y ddarpariaeth hon wedi ei cholli o'r newidiadau yn 1991. Mae'r ymarfer presennol yn darparu ar gyfer cyfle i'w ailgyflwyno.

### Cwestiwn ymgynghori 7-11.

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r darpariaethau yn gysylltiedig â therfynau amser a thystysgrifau cyfreithlondeb, a gynhwysir ar hyn o bryd yn DCGTh 1990, adrannau 171B a 191 i 196, gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio newydd ochr yn ochr â darpariaethau eraill ynglŷn â'r angen am ganiatâd cynllunio. Dylid eu drafftio ar linellau DCGTh 1990, adran 64(1) (gan gynnwys cyfeiriad at yr angen i gyflwyno cais cynllunio, yng ngoleuni gorchmynion datblygu cyffredinol a lleol, ond nid i gynlluniau parth menter neu barthau cynllunio syml).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Cais cynllunio i gynnwys cais am dystysgrif

- 7.92 Weithiau mae'n digwydd bod perchnogion tir ac eraill - yn enwedig deiliaid tai sydd yn wrthwynebus i risg ac adeiladwyr bychain - yn gofyn am ganiatâd cynllunio am brosiectau nad ydynt yn ddatblygiad, neu a ganiateir gan orchymyn datblygu.
- 7.93 Mewn achosion o'r fath, dylai swyddog cynllunio gwylidwrus sylwi ar y broblem, a rhoi gwybod i'r darpar ymgeisydd nad oes angen caniatâd - er gellid dadlau y medrai hyn arwain at yr awdurdod cynllunio yn colli'r ffi a ellid ei chodi am gais am dystysgrif cyfreithlondeb. Mewn rhai achosion, yn syml, mae'r cais yn cael ei brosesu a rhoddir caniatâd - yn arwain at yr ymgeisydd yn gorfod talu ffi, ac o bosib newid cynigion i gael cymeradwyaeth - gydag oedi canlyniadol. Weithiau bydd caniatâd yn cael ei wrthod, sydd yn anghywir mewn egwyddor.
- 7.94 Byddai'n bosib i gyflwyno darpariaeth lle mae cais am ganiatâd wedi'i ystyried yn awtomatig i gynnwys cais am dystysgrif. Dyma oedd y sefyllfa ar un adeg, fel a gadarnhawyd yn *Wells v Gweinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol*.

Oni bai bod cais ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno am wneud penderfyniad, yna, wrth gwrs, nid oes dyletswydd ar yr awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad o'r fath. Ond rhaid ystyried, mewn cais cynllunio, bod gwahoddiad goblygedig i'r awdurdod cynllunio



benderfynu, os ydynt o'r farn honno, nad oes angen caniatâd cynllunio.<sup>50</sup>

- 7.95 Mae felly yn ymddangos yn addas i gynnwys darpariaeth i'r perwyl y dylai cais am ganiatâd cynllunio gael ei ystyried yn awtomatig i gynnwys cais am dystysgrif ynglŷn â chyfreithlondeb y prosiect y gofynnir caniatâd amdano (sef, i bob pwrpas, TCDAD). Byddai hyn yn sefydlu dull mwy cyson, fel y mae rhwng awdurdodau gwahanol, ynglŷn â'r ffordd y mae achosion o'r fath yn cael eu trin. Mae'n amlwg y byddai newid o'r fath yn gofyn am ystyriaeth fanwl iawn, i sicrhau bod y newid wir yn arwain at symleiddiad, a nid at gynnydd mewn biwrocratiaeth yn unig.
- 7.96 Heb amheuaeth gallai rheoliadau ddarparu ar gyfer sefyllfa lle penderfynir nad oes angen cais cynllunio (naill ai oherwydd nad yw'r prosiect yn ffurfio ddatblygiad neu oherwydd caniateir y prosiect gan orchymyn datblygu) gall swm gael ei ad-dalu sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y ffi cais a gyflwynwyd eisoes a'r ffi arferol ar gyfer TCDAD.<sup>51</sup>
- 7.97 Gallai cais am ganiatâd cynllunio i gadw datblygiad a wnaethpwyd eisoes gael ei ystyried i gynnwys cais am TCDPD.

### Cynnig 7-12.

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth i'r perwyl bod:

- (1) cais am ganiatâd cynllunio am weithrediad neu newid defnydd yn cael ei gymryd yn ganiataol i gynnwys cais am dystysgrif cyfreithlondeb o ddefnydd neu ddatblygiad arfaethedig (TCDAD) mewn perthynas â'r gweithrediad neu newid defnydd; a
- (2) tybir bod cais am ganiatâd cynllunio i gadw gweithrediad neu newid defnydd a wnaethpwyd eisoes heb ganiatâd yn cynnwys cais am dystysgrif cyfreithlondeb o ddefnydd neu ddatblygiad cyfredol (TCDPD) mewn perthynas â'r gweithrediad neu newid defnydd.

Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?

<sup>50</sup> [1967] 1 WLR 1000, CA, per Davies LJ at p 1010; nodwyd gan Dŷ 'r Arglwyddi yn *R (Reprotech (Pebsham) Ltd yn erbyn LIS East Sussex* [2003] 1 WLR 348, HL, at [30].

<sup>51</sup> Byddai hyn yn sicr yn amodol ar isafswm na fyddai modd ei ad-dalu, i osgoi costau gweinyddol gormodol.



## Pennod 8: Ceisiadau i'r awdurdod cynllunio

### CYFLWYNIAD

- 8.1 Unwaith y pennir bod prosiect arfaethedig yn cynnwys datblygiad, ac na fydd y caniatâd ar gyfer datblygiad y categori hwnnw yn cael ei roi gan orchymyn datblygu lleol neu gyffredinol, bydd angen cais am ganiatâd - fel arfer i'r awdurdod cynllunio.<sup>1</sup>
- 8.2 Ni cheir diffiniad o'r term "caniatâd cynllunio" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref (DCGTh) 1990; er fe ddiffinnir "penderfyniad cynllunio" fel "penderfyniad a wneir ar gais dan Ran 3 neu adran 293A"; gyda "caniatâd cynllunio" yn golygu "caniatâd o dan Rhan 3 neu adran 293A".<sup>2</sup>
- 8.3 Mae'n amlwg, tra bod DCGTh 1947 yn cynnwys un adran yn unig yn ymwneud â "cheisiadau i'r awdurdodau cynllunio am ganiatâd" ac un yn cynnwys "darpariaethau atodol mewn perthynas â chymeradwyo caniatâd"<sup>3</sup>, mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cynnwys darpariaeth eang o ddarpariaethau yn ymwneud â cheisiadau a chaniatâd cynllunio, wedi'i gwasgaru trwy Adran 3 DCGTh 1990 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.<sup>4</sup> Nid yw'r cynllun statudol a ddaeth yn sgil hyn yn gydlynol neu'n gyson. Yn benodol, mae DCGTh 1990 wedi'i drafftio gan gyfeirio yn benodol at y gwahanol fathau o ganiatâd, cydsyniad, cymeradwyaeth neu awdurdodaeth, ond mae'n rhyfedd o dawedog am y mathau o geisiadau y gellir eu gwneud.
- 8.4 Mae'r tensiwn gwaelodol rhwng buddion y sawl sy'n cynnig cyflawni'r datblygiad a phryderon yr awdurdodau cynllunio a phartïon eraill â diddordeb. Mae'r cyntaf, yn ddealladwy, yn ceisio gwario cyn lleied o arian a threulio cyn lleied o amser â phosib ar gynhyrchu deunydd atodol tan fod egwyddor y datblygiad wedi'i gytuno; mae'r ail, mewn cyferbyniad, eisiau gweld cymaint o wybodaeth â phosib ar fanylion y cynnig cyn iddo gael ei gymeradwyo mewn egwyddor. Ac mae Cyfarwyddbau Ewropeaidd (yn benodol o ran asesiadau amgylcheddol) hefyd wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o ddarparu digon o wybodaeth.
- 8.5 Mae hyn wedi arwain at ymddangosiad nifer o ffyrdd o awdurdodi cynnig datblygu:

---

<sup>1</sup> Mae ceisiadau i Weinidogion Cymru, am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, yn cael eu hystyried ym Mhennod 9. Nid yw'r Bennod hon yn delio gyda'r amryw sefyllfaoedd eraill ble gellir rhoi caniatâd cynllunio mewn modd ar wahân i gais - gweler **paragraffau 7.55 to 7.58**.

<sup>2</sup> DCGTh 1990, a336. Mae adran 293A yn cyfeirio at geisiadau am ddatblygiadau sydd eu hangen ar frys ar dir y Goron.

<sup>3</sup> DCGTh 1947, adrannau 14, 18.

<sup>4</sup> Mae cydsyniad adeiladau rhestredig yn cael ei drafod yn bennaf ym Mhennod 13; ond mae darpariaethau yn ymwneud â chydsyniad adeiladau rhestredig (LBC) a chydsyniad ardaloedd cadwraeth (CAC) sydd yr un peth neu'n debyg iawn i ddarpariaethau yn ymwneud â chaniatâd cynllunio wedi'u nodi mewn troednodiadau yn y Bennod hon.

- (1) mae'r mân gynigion (er enghraifft, estyniad bach i adeilad) yn debygol o beidio â chael llawer o effaith, ac maen nhw felly'n cael eu caniatáu gan orchymyn datblygu, heb angen cymeradwyo unrhyw fanylion;
- (2) mae rhai categorïau o gynigion yn cael eu cytuno mewn egwyddor gan orchymyn datblygu, ond yn destun gweithdrefn a elwir "cymeradwyaeth ymlaen llaw"
  - mewn rhai sefyllfaoedd (megis cynigion am adeiladau amaethyddol), rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio am bob cynnig, er mwyn rhoi cyfle i'r awdurdod benderfynu a yw am gael cyfle i gymeradwyo manylion penodol<sup>5</sup>;
  - mewn eraill (megis piblinellau a cheblau penodol), mae'r gymeradwyaeth gyffredinol yn destun amod sy'n gofyn bod manylion penodol yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod ym mhob achos<sup>6</sup>;
- (3) mae rhai cynigion angen bod yn destun cais penodol, ond gellir eu cymeradwyo heb gymeradwyo manylion - naill ai oherwydd (fel gyda rhai newidiadau o ddefnydd) bod dim manylion i'w cymeradwyo, neu (fel gyda rhai cynigion adeiladu syml) oherwydd bod manylion digonol yn cael eu darparu gyda'r cais i alluogi i'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon eu bod yn dderbyniol;
- (4) mae rhai cynigion yn cael eu cyflwyno yn y gobaith bod manylion boddhaol wedi cael eu cyflwyno, ond maen nhw'n cael eu cymeradwyo mewn egwyddor yn amodol ar amod sy'n gofyn bod y manylion yn cael eu cymeradwyo wedi hynny (oherwydd bod y manylion a gyflwynwyd yn anfoddhaol am ryw reswm, neu gan fod rhai manylion wedi cael eu hepgor);
- (5) mae rhai cynigion (yn gyffredinol ar gyfer cynlluniau mwy) yn rhai ble mae'r ymgeisydd eisiau cymeradwyaeth mewn egwyddor yn unig, a heb benderfynu ar y manylion eto, ac yn gwahodd yr awdurdod i roi caniatâd ar yr amod bod y materion wrth gefn yn cael eu cymeradwyo yn ddiweddarach - a gall yr awdurdod ei hun roi caniatâd ar yr amod bod y materion sy'n ychwanegol at y rhai a gadwyd yn ôl gan yr ymgeisydd yn cael eu cymeradwyo.<sup>7</sup>

8.6 Yn achos (1) mae cymeradwyaeth yn cael ei roi gan orchymyn datblygu; yn achos (2), mae cymeradwyaeth mewn egwyddor yn cael ei roi gan orchymyn datblygu; yn achosion (3), (4) a (5), mae'n cael ei gymeradwyo gan awdurdod cynllunio neu gan Weinidogion Cymru mewn ymateb i gais neu apêl. Yn achosion (2), (4) a (5) mae amryw fanylion yn cael eu cymeradwyo mewn ymateb i gais pellach.

<sup>5</sup> GPDO 1995, Atodlen 2, Rhan 6 (amaethyddiaeth); Rhan 7 (coedwigaeth); Rhannau 22, 23 (mwynau); Rhan 24 (telegyfathrebu); Rhan 30 (tollau); Rhan 31 (dymchweliadau).

<sup>6</sup> GPDO 1995, Atodlen 2, Rhan 11 (datblygiad a ganiateir gan Ddeddf breifat ayyb); Rhan 17, Dosbarth F (piblinellau nwy), Dosbarth G (ceblau trydan); Rhannau 19, 20 (mwynau).

<sup>7</sup> Yn Lloegr mae math pellach o "ganiatâd mewn egwyddor", a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, ond nid yw hyn yn berthnasol yng Nghymru; gweler para 8.28 isod.

- 8.7 Yn dilyn hynny, unwaith bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi, gall fod yna awydd - fel arfer gan yr ymgeisydd, ond ar adegau gan yr awdurdod cynllunio - i'w addasu.
- 8.8 Yn y Bennod flaenorol, ystyriom gymeradwyo datblygiadau mewn egwyddor gan orchymyn datblygu. Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried y broses o ymgeisio am gymeradwyaeth trwy wneud cais i'r awdurdod cynllunio, dan y penawdau canlynol, yn ymwneud â champau dilynol y weithdrefn:
- (1) ceisio caniatâd cynllunio;
  - (2) y broses ymgeisio;
  - (3) pennu ceisiadau cynllunio;
  - (4) amodau yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio;
  - (5) cymeradwyo manylion sy'n ofynnol trwy amodau: a'r
  - (6) amrywiaeth o ganiatâd cynllunio.

Yna rydym yn ystyried yn gryno yr amrediad o faterion atodol - gan gynnwys caniatâd cynllunio tybiedig, asesiad effaith amgylcheddol, a galw i mewn gan Weinidogion Cymru.

## CEISIO CANIATÂD CYNLLUNIO

### Y gyfraith gyfredol

- 8.9 Bydd ceisiadau am ganiatâd cynllunio i awdurdodi datblygiad fel arfer yn cynnwys ffurf cais am ganiatâd cynllunio llawn, dan adran 62 o DCGTH 1990 yn cynnwys digon o fanylion (o leiaf o safbwynt yr ymgeisydd) i alluogi rhoi caniatâd heb angen cymeradwyo unrhyw beth yn ddiweddarach. Mae'r gofynion manwl yn gynwysedig yng Ngorchymyn TCP (Gweithdrefn Rheoli Datblygiadau) (Cymru) ("DMP(W)O") 2012. Mae Erthygl 5 y Gorchymyn yn darparu bod rhaid anfon "cynlluniau, dyluniadau a gwybodaeth angenrheidiol i ddisgrifio'r datblygiad" gyda'r cais.<sup>8</sup>
- 8.10 Mewn realiti, wrth gwrs, gallai'r caniatâd "llawn" dilynol yn wir fod yn destun amodau yn gofyn bod mwy o fanylion neu wahanol fanylion ar faterion penodol - megis deunyddiau, neu dirweddu - yn cael eu cyflwyno cyn i'r datblygiad gychwyn.<sup>9</sup>
- 8.11 Yr ail sefyllfa yw pan fod datblygiad eisoes wedi cael ei wneud heb ganiatâd (neu wedi torri caniatâd sydd wedi cael ei roi), pan nad oes angen darparu manylion pellach, ers cwblhau'r datblygiad - er efallai bydd yr awdurdod eisiau rhoi caniatâd ar

---

<sup>8</sup> DMP(W)O 2012, erth.5(1)(c)(ii).

<sup>9</sup> Mae darpariaethau cyfatebol ar gyfer gwaith sydd angen LBC yn unig ar hyn o bryd yn gynwysedig yn adran 10 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.

yr amod bod darn penodol o fanylion (er enghraifft, math y teils ar y to) yn cael ei addasu, neu fod elfen goll o'r cynllun (megis tirweddu) yn cael ei chwblhau.<sup>10</sup>

- 8.12 Mae Adran 73A DCGTh 1990 ("caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau a wnaethpwyd eisoes") yn llywodraethu'r caniatâd a ellir ei roi mewn achosion o'r fath, a chafodd ei mewnosod mewn amnewidiad ar gyfer adran 63 ("ceisiadau mewn perthynas ag adeiladau a defnyddiau cyfredol").<sup>11</sup> Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys caniatâd pendant yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd o'r fath, yn gyfateb i adran 64(1), (2).<sup>12</sup> Mae Erthygl 5 DMP(W)O 2012 yn berthnasol i'r un graddau i geisiadau o'r fath.<sup>13</sup>
- 8.13 Does dim gweithdrefn benodol ar gyfer cais am ganiatâd cynllunio am ddatblygiad sydd eisoes ar waith; tybir bod hynny'n cael ei ystyried fel hybrid rhwng cais dan adran 62 a chais am ganiatâd dan adran 73A.
- 8.14 Yn drydydd, mae cais am ganiatâd cynllunio amlinellol yn amrywiaeth o'r math cyntaf o gais - cais am ganiatâd am ddatblygiad arfaethedig ond gyda manylion yn ymwneud â materion penodol wedi'u cadw yn ôl am gymeradwyaeth fel "materion a gedwir yn ôl". Defnyddir y weithdrefn hon, a ragwelir gan adran 92 DCGTH 1990, pan mae datblygwr yn dymuno cael caniatâd am egwyddor datblygiad cyn ymrwymo adnoddau i weithio ar y cynllun manwl. Y pum categori o faterion y gellir eu cadw yn ôl yn y modd hwn yw: mynediad, golwg, tirweddu, gosodiad a graddfa - mae disgrifiad mwy manwl o bob un ohonynt yn DMP(W)O.<sup>14</sup>
- 8.15 Mae Erthygl 5 DMP(W)O 2012 hefyd yn ymwneud â cheisiadau amlinellol, ac felly rhaid cael cynllunio, dyluniadau a gwybodaeth hanfodol i gyd-fynd â nhw i ddisgrifio'r datblygiad.<sup>15</sup> Ar ben hynny, ble mae gosodiad yn fater a gedwir yn ôl, rhaid i'r cais dal i nodi lleoliad bras yr adeiladau, llwybrau a manau agored arfaethedig; ble mae graddfa yn fater a gedwir yn ôl, rhaid nodi'r uchafswm a'r isafswm ar gyfer uchder, lled a hyd pob adeilad arfaethedig; a ble mae mynediad yn fater a gedwir yn ôl, rhaid nodi'r ardal neu ardaloedd ble fydd pwyntiau mynediad wedi'u lleoli.<sup>16</sup>
- 8.16 Gall yr awdurdod cynllunio roi caniatâd amlinellol, gan roi amod yn nodi materion a gedwir yn ôl i'w cymeradwyo yn ddiweddarach. Fel arall, gall (o fewn mis o dderbyn y cais) ofyn bod manylion pellach yn cael eu cyflwyno.<sup>17</sup>
- 8.17 Gall yr awdurdod ddewis rhoi caniatâd ar yr amod bod materion yn ychwanegol at y rhai a gedwir yn ôl gan yr ymgeisydd yn cael eu cymeradwyo - felly, er enghraifft, ble

---

<sup>10</sup> Cyfeirir at ddarpariaethau cyfatebol ar gyfer gwaith i adeiladau rhestredig sydd eisoes wedi cael eu gwneud, ond ddim ond yn gryno, yn adran 8(3) y Ddeddf Adeiladau Rhestredig.

<sup>11</sup> Gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Atodlen 7, **para 11, 16**.

<sup>12</sup> Dyna'r rheswm, efallai, am y newidiadau i deitl yr adran.

<sup>13</sup> Oni bai bod y cais yn ymwneud â chais i gadw'r datblygiad a gynhaliwyd eisoes heb ganiatâd, ond heb gydymffurfio ag un neu ragor o'r amodau a osodwyd ar y caniatâd (a.73A(2)(c)).

<sup>14</sup> DMP(W)O 2012, erth. 2(1).

<sup>15</sup> DMP(W)O 2012, erth. 5(1)(c)(ii)

<sup>16</sup> DMP(W)O 2012, erth.3(3)-(5).

<sup>17</sup> DMP(W)O 2012, erth.3(2).

mae tirweddu'r safle wedi'i gadw yn ôl, ond bod golwg y datblygiad heb ei gadw yn ôl, mae'n bosib bydd yr awdurdod dal am weld manylion pellach yn ymwneud â deunyddiau adeiladu.

- 8.18 Fe nodom yn y Papur Cwmpasu bod y driniaeth o faterion a gedwir yn ôl yn anfodddhaol<sup>18</sup>; ac roedd PEBA a Persimmon yn cytuno y dylai'r Côt Cynllunio egluro diffiniad y materion a gedwir yn ôl.

### Symleiddiad posib

- 8.19 Mae ceisiadau yn y tair sefyllfa a nodir uchod yn "geisiadau am ganiatâd cynllunio". Nid ydym yn gweld unrhyw reswm o egwyddor pam dylid gwahaniaethu rhyngon nhw. Dylai ymgeisydd fod â'r hawl i geisio awdurdodaeth am ddatblygiad os yw'n dal yn y dyfodol, neu ar y gweill, neu wedi cwblhau - er wrth gwrs os yw ar y gweill neu wedi cwblhau, mae risg na fydd y cais yn arwain at ganiatâd ond at gamau gorfodi.

- 8.20 Nid yw felly'n glir beth yw'r gwahaniaeth yn y gyfraith neu bolisi - neu mewn egwyddor - rhwng:

- (1) rhoi caniatâd "llawn", wedi dilyn gan gymeradwyaeth o'r materion sy'n ofynnol gan un amod neu fwy, a
- (2) rhoi caniatâd "amlinellol", wedi dilyn gan gymeradwyaeth o'r materion a gedwir yn ôl (ac, o bosib, unrhyw faterion eraill sy'n ofynnol oherwydd amodau).

Yn y naill achos neu'r llall, cymeradwyir egwyddor y datblygiad gan y weithred gychwynnol o roi caniatâd, ond ni all y datblygiad symud ymlaen yn gyfreithlon tan fod yr holl fanylion wedi cael eu cymeradwyo.

- 8.21 Yn ymarferol, yr unig wahaniaeth yw faint o wybodaeth sydd ei angen wrth gyflwyno'r cais. Felly, mae'r diwrnodau o geisiadau amlinellol yn nodi amlinelliad o'r safle yn unig (ceisiadau "ffin llinell goch") wedi hen ddarfod. Fel y nodir uchod, mae'r DMP(W)O 2012 yn nodi safon isafswm o ran y wybodaeth sy'n ofynnol i'w chyflwyno mewn perthynas â phob cais - ar gyfer caniatâd llawn neu amlinellol - a rhaid i geisiadau amlinellol hyd yn oed ddarparu rhai manylion yn ymwneud â gosodiad, graddfa a mynediad. Mae'n wir, mewn rhai achosion, bod datblygwyr o bosib ddim yn darparu rhai manylion, yn benodol yn ymwneud â materion megis tirweddu a draenio. Gall y rhain fod yn destun amodau sydd angen cymeradwyaeth ddilynol - ond dylai'r egwyddor o ddatblygiad fod yn dderbyniol dim ond pan mae'r awdurdod yn ystyried bod yna ddatrysiad dichonadwy yn bodoli.

- 8.22 Does dim rhesymeg benodol chwaith pam fod pum mater penodol yn gallu cael eu "cadw yn ôl" gan ganiatâd amlinellol<sup>19</sup>, ond nid unrhyw faterion eraill - megis oriau gweithredu, manylion camau'r dyfodol neu manylion datblygiad mwy. Ac mae tirweddu, yn benodol, yn rheolaidd yn destun amodau sydd angen cymeradwyaeth ddilynol.

---

<sup>18</sup> Papur Cwmpasu, **para 5.12 i 5.19**.

<sup>19</sup> Gweler **para 8.14**.

- 8.23 Rydym yn ystyried y byddai'n symlach cael un weithdrefn ble fod angen i unrhyw un sy'n cynnig cynnal datblygiad na ellir ei ganiatáu trwy orchymyn datblygu - neu geisio awdurdodi datblygiad sydd eisoes wedi ei gyflawni - wneud cais am ganiatâd cynllunio (neu, yn symlach, "cais cynllunio"). Byddai angen cynlluniau, dyluniadau a gwybodaeth angenrheidiol i ddisgrifio'r datblygiad gyda phob cais - gan gynnwys materion a nodir mewn rheoliadau. Mae'n debyg y byddai'r rhain yn cynnwys (i'r graddau y maen nhw'n berthnasol) manylion o leoliad bras yr holl adeiladau, llwybrau a mannau agored arfaethedig, uchafswm ac isafswm uchder, lled a hyd pob adeilad a gynigir, a'r ardal neu ardaloedd ble fydd pwyntiau mynediad wedi'u lleoli.
- 8.24 Dan y drefn hon, byddai ymgeisydd yn gallu gwahodd yr awdurdod cynllunio i roi caniatâd yn amodol ar un amod neu fwy gan gadw rhai materion penodol na sonnir amdanynt yn cais yn ôl er mwyn eu cymeradwyo yn y dyfodol, er ni ellir gwneud hyn gydag unrhyw un o'r amodau a nodir yn y rheoliadau. A byddai'r awdurdod yn gallu gosod amodau o'r fath o'i gwirfodd.
- 8.25 Yn yr un modd, byddai awdurdod, mewn unrhyw achos, yn gallu hysbysu'r ymgeisydd o fewn cyfnod byr o dderbyn cais ei bod yn methu â gwneud penderfyniad ar y cais heb dderbyn manylion pellach ar rai materion. Mae'r weithdrefn hon ar gael mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol yn unig.<sup>20</sup> Isod, fe ystyriwn yr ymateb posib i gais i hysbysiad o'r fath.<sup>21</sup>
- 8.26 Unwaith bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi, yn amodol ar gadw un amod neu fwy yn ôl am gymeradwyaeth ddilynol, bydd angen cyflwyno cais i gymeradwyo'r manylion hynny. Byddwn yn ystyried hyn yn ddiweddarach yn y Bennod hon.<sup>22</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 8-1.

**Rydym yn ystyried dros dro y gellid symleiddio'r gyfraith yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, trwy:**

- (1) **gael gwared ar ganiatâd cynllunio amlinellol;**
- (2) **olygu bod angen i bob cais am ganiatâd cynllunio - boed yn ddatblygiad arfaethedig, un sydd ar y gweill neu un sydd wedi cwblhau - yn dod gyda chynlluniau, dyluniadau a gwybodaeth ddigonol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig;**
- (3) **galluogi'r eitemau wedi eu hatodi i geisiadau - gan gynnwys materion i'w rhagnodi mewn rheoliadau, i gynnwys (i'r graddau y mae'n berthnasol) manylion**

<sup>20</sup> DMP(W)O 2012, erth.3.

<sup>21</sup> Gweler **para 8.143**.

<sup>22</sup> Gweler **para 81.137 i 8.145**. Pwysleisiwn, er mwyn osgoi amheuan, bod yr ymadrodd "cymeradwyo manylion" yn y Bennod hon ddim yn cyfeirio at fanylion pensaernïol a dylunio yn unig, ond at unrhyw agweddau mwy manwl o ddatblygiad arfaethedig, megis lefelau darpariaeth parcio, tirweddu neu oriau gweithredu.



- lleoliad bras adeiladau, llwybrau a manau agored arfaethedig,
  - uchafswm ac isafswm uchder, lled a hyd pob adeilad a gynigir, a'r
  - ardal neu ardaloedd ble fydd pwyntiau mynediad wedi'u lleoli;
- (4) bod ymgeisydd yn gallu gwahodd yr awdurdod cynllunio i roi caniatâd yn seiliedig ar amodau a gedwir yn ôl am gymeradwyaeth ddilynol i un mater neu fwy nad sydd wedi'u hesbonio'n ddigonol yn y cais
- bod awdurdod yn gallu (os caiff ei wahodd i wneud hyn neu beidio) rhoi caniatâd yn destun amodau o'r fath; a
  - bod awdurdod yn gallu rhoi gwybod i'r ymgeisydd ei bod yn methu â gwneud penderfyniad ar gais heb dderbyn manylion ychwanegol.

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Mathau eraill o ganiatâd cynllunio**

- 8.27 Mae categorïau pellach o geisiadau, megis "ceisiadau deiliaid tai" a "mân geisiadau masnachol"; ond mae'r termau hyn yn ymddangos yn y DMP(W)O yn unig i adnabod ceisiadau am ddatblygiadau gweddol fân y gellir eu heithrio o rai o'r gofynion mwy heriol o ran deunyddiau i'w cyflwyno a gweithdrefnau i'w dilyn; nid oes diffiniad ohonynt mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac nid ydym yn cynnig y dylid cael un.<sup>23</sup>
- 8.28 Yn Lloegr, mae yna weithdrefn bellach o'r enw "caniatâd mewn egwyddor" a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016,<sup>24</sup> ond nid yw hyn yn berthnasol yng Nghymru. Mae hyn yn caniatáu rhoi caniatâd am ddatblygiad tai, naill ai mewn cynllun datblygu neu ddogfen arall debyg neu mewn ymateb i gais. Hyd yma does dim awgrym wedi bod y dylid cyflwyno darpariaeth debyg yng Nghymru, a gan ystyried ein cynnig dros dro i symleiddio ceisiadau cynllunio yn gyffredinol, fel y nodir uchod, nid ydym yn gwneud dim awgrym o'r fath.

## **GWEITHDREFN YMGEISIO**

### **Gweithdrefn cyn-ymgeisio**

- 8.29 Mewnosodwyd adrannau 61Z, 61Z1 a 61Z2 DCGTh 1990 i Ran 3 P(W)A 2015. Mae'r cyntaf yn gofyn bod ymgeiswyr yn ymgynghori â'r sawl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig. Mae adrannau 61Z1 a 61Z2 yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn cynnig "gwasanaethau cyn-ymgeisio", sy'n galluogi i

<sup>23</sup> Gweler DMP(W)O 2012, erth. 12 (ceisiadau); erth. 26 (apeliadau).

<sup>24</sup> Gweler DCGTh 1990, s 58A, 59A, cyflwynwyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, a 150.

ddarpar ymgeiswyr drafod cynigion a llyfnhau problemau posib ar gyfnod cynnar yn y broses.

- 8.30 Gan feddwl am gyflwyniad diweddar y gweithdrefnau hyn, nid oes siawns wedi bod eto i weld sut maen nhw'n gweithredu yn weithredol. Gan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion o ran diwygiadau.

### Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

- 8.31 Yn ei ymateb i'r Papur Cwmpasu, roedd y Sefydliad Cynllunio Gwlad a Thref yn credu ei fod yn bwysig tynnu sylw at y manteision o ddefnyddio cyfryngu wrth lunio cynlluniau, gwneud penderfyniadau a gorfodaeth fel modd o adeiladu mwy o ymddiriedaeth yn y system gynllunio yn ogystal â helpu dyfeisio canlyniadau mwy cynaliadwy. Roedd Cymorth Cynllunio Cymru hefyd yn croesawu ein cynnig i gynnwys 'cyfeirnod' deddfwriaethol i'r posibilrwydd o ddatrysiadau anstatudol megis cyfryngu.
- 8.32 Fe godwyd y mater hwn hefyd gan adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol a ddarparodd y sail tystiolaeth i gefnogi DC(C) 2015. Ni roddwyd argymhelliad y Grŵp o ran dull amgen o ddatrys anghydfod ar waith ar y sail bod newidiadau i ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar y cyfnod cyn ymgeisio, a newidiadau atodol i gyfarwyddyd, yn cael eu hystyried fel modd gwell o adnabod a cheisio consensws ar bwytiau o anghydfod posib.
- 8.33 Nodwn fod y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cyfeirio'n benodol at ddymunoldeb annog partion anghydfod yn y llysoedd sifil i ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod os yw'r llys yn ystyried hynny i fod yn briodol, fel rhan o'r broses o reoli'n weithredol.<sup>25</sup> Gall cyfryngu fod yn briodol wrth setlo anghydfod yn ymwneud ag iawndal, ac o bosib mewn perthynas â mireinio rhai cynigion datblygu. Ac roedd cydnabyddiaeth yn Adolygiad Barker bod yna rôl i gyfryngu mewn anghydfodau cynllunio, er roedd yn gwrthod y posibilrwydd o angen rhoi cynnig ar gyfryngu cyn cyflwyno apêl.<sup>26</sup>
- 8.34 Yn gyffredinol, rydym yn ystyried y byddai'n gwbl addas i Lywodraeth Cymru neu PINS gyflwyno cyfarwyddyd i dynnu sylw at y posibilrwydd o ddulliau amgen o ddatrys anghydfod, ac i dynnu sylw at gyhoeddiadau eraill priodol.<sup>27</sup> Ond nid ydym yn cynnig cyflwyno darpariaeth yn y Bil Cynllunio yn yr un modd â'r cyfeirnod yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

### Deunyddiau i'w cyflwyno gyda cheisiadau

- 8.35 Mae Adrannau 62 a 65 yn cynnwys y priif ddarpariaethau yn ymwneud â pha wybodaeth dylid ei gyflwyno gyda chais. Mae Adran 62 yn ymwneud â gwybodaeth

---

<sup>25</sup> Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 1.4(2)(e).

<sup>26</sup> *Adolygiad Barker ar Gynllunio Defnydd o Dir: Adroddiad Terfynol*, Trysorlys EM, 2006, para 6.16.

<sup>27</sup> Gweler, er enghraifft, *Mediation in Planning: A Short Guide*, Y Fforwm Cynllunio Cenedlaethol, Mehefin 2011. Ymddengys bod dim cyfarwyddyd tebyg yn benodol ar y sefyllfa yng Nghymru.

atodol yn gyffredinol, gan gynnwys dyluniadau a datganiadau mynediad; cafodd ei disodli gan fersiwn newydd yn 2004, a'i haddasu sawl tro wedi hynny.<sup>28</sup>

- 8.36 Mae'r gyfraith yn y maes hwn yn gyfaddawd o reidrwydd, gan gymryd y tensiwn a nodwyd eisoes rhwng dymuniad ymgeiswyr i gynhyrchu'r isafswm angenrheidiol tan fod yr egwyddor o ddatblygiad wedi cael ei gymeradwyo a hynny o'r awdurdodau cynllunio (ar ran y gymuned, ac er mwyn galluogi ymgynghoriad ystyrion gyda rhanddeiliaid eraill) er mwyn gweld cymaint â phosib cyn cyflwyno'r gymeradwyaeth. Ac mae rhai o'r awdurdodau cynllunio wedi cynhyrchu rhestrau helaeth o'r deunydd maen nhw eisiau eu gweld yn cyd-fynd â cheisiadau penodol neu â cheisiadau mewn categorïau penodol - gan gynnwys datganiadau o ran yr effaith ar y dreftadaeth adeiledig, bioamrywiaeth, traffig ac amryw faterion eraill.
- 8.37 Gellir dod o hyd i fwyafrif y gofynion statudol o ran y dogfennau dylid eu darparu i gyd-fynd â chais yn yr is-ddeddfwriaeth, DMP(W)O 2012 ar hyn o bryd, a gellir ei diweddu'n weddol syml o bryd i bryd, yn unol ag arferion cyfredol. Darperir cyfarwyddyd hefyd yn y *Llawlyfr Rheoli Datblygiadau*, a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016.<sup>29</sup>
- 8.38 Mae'r arwyddocâd o egluro beth sydd angen ei gyflwyno gyda chais cynllunio er mwyn iddo gael ei dderbyn yn ymwneud yn rhannol â'r cyfnod sydd gan awdurdod i wneud penderfyniad ar gais sy'n cychwyn ar y dyddiad pan yw'n cael ei dderbyn fel un dilys.<sup>30</sup> A bod y dyddiad hefyd yn pennu'r dyddiad y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno apêl yn erbyn gwrthod penderfyniad.<sup>31</sup>
- 8.39 Newidiwyd y gyfraith yn sylweddol yn 2007, gydag adran 327A DCGTh 1990 yn dod i rym (mewnosodwyd yn DCPG 2004), a ddarparodd bod rhaid i awdurdod cynllunio "beidio ag ystyried" cais os nad yw'n cyd-fynd â gofynion mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth o ran y ffurf neu ddull y dylid ei gyflwyno neu ffurf neu gynnwys y deunyddiau atodol.<sup>32</sup> Mae'r llys wedi dynodi bod hyn yn golygu y dylai awdurdod cynllunio beidio â delio gyda chais tan ei fod yn gyflawn, mewn perthynas ag unrhyw ofynion â gyflwynwyd gan adran 62 neu gan reoliadau dan yr adran honno.<sup>33</sup>
- 8.40 Dywed golygydd y *Gwyddoniadur Deddfwriaeth Cynllunio* y gallai fod gan adran 327A sgil effeithiau anfwriadol, oherwydd gallai agor i fyny llwybr newydd o herio gan drydydd partïon sydd am herio dilysrwydd caniatâd cynllunio. Rydym yn rhannu'r pryder hwnnw. Fodd bynnag, ystyriwyd y nodyn yn y *Gwyddoniadur* gan y Llys yn *R (O'Brien) v CB Gorllewin Sir Gaerhirfryn*,<sup>34</sup> a daeth i'r casgliad mai'r ymagwedd ddylid

---

<sup>28</sup> Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a.10 yn cynnwys darpariaethau cyferbyniol yn fras mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth.

<sup>29</sup> *Llawlyfr Rheoli Datblygiadau*, Adran 7, Atodiad Ceisiadau Cynllunio, Rhestr o Ofynion Dilysu.

<sup>30</sup> DMP(W)O 2012, erth. 22.

<sup>31</sup> DMP(W)O 2012, erth. 26.

<sup>32</sup> Mewnosodwyd gan DCPG 2004, a42. Mae adran 327A hefyd yn berthnasol i geisiadau am LBC a CAC (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a. 89(1)).

<sup>33</sup> *R (Bizzy B Management Ltd) v Stockton-on-Tees BC* [2011] EWHC 2325 (Admin), ym mhara [137].

<sup>34</sup> *O'Brien v West Lancashire BC* [2012] EWHC 2376 (Admin), ym mhara 42.

ei defnyddio i bennu dilysrwydd caniatâd cynllunio, hyd yn oed dan adran 327A, yw'r un a ddefnyddiwyd yn flaenorol, gan ddibynnu ar ddyfarniad y Llys Apêl yn *Main v Dinas Abertawe*.<sup>35</sup>

- 8.41 Roedd y Llys yn *Main* wedi gwrthod derbyn y dylai dilysrwydd caniatâd cynllunio ddibynnu ar y gwahaniaeth rhwng anghysondebau difrifol neu fân anghysondebau. Roedd yn amlinellu prawf mwy diamod, ble roedd rhaid talu sylw i'r holl amgylchiadau - gan gynnwys nid yn unig natur yr anghysondeb gweithdrefnol ond hefyd materion o'r fath sy'n adnabod y person sy'n ymgeisio am ryddhad, yr amser sydd wedi mynd heibio a'r effaith ar bartïon eraill a'r cyhoedd. Yn benodol, roedd y Llys yn *O'Brien* yn ystyried bod y llys yn cadw ei ddisgresiwn o ran a ddylid rhoi datrysiad ble roeddent o'r farn bod y cais yn annilys.
- 8.42 Rydym yn cytuno y byddai rheoli gwbl anhyblyg yn dda i ddim. Mae'n anochel o bryd i'w gilydd y bydd deunydd yn cael ei hepgor o geisiadau ar hap; ni fyddai'n briodol i gamgymeriadau o'r fath arwain at bennu pob achos mewn cais - ac o bosib unrhyw ganiatâd a ddaw yn sgil hynny - yn annilys. Ond gan ystyried iaith hanfodol adran 327A, nid yw'n sicr o bell ffordd y byddai ymagwedd y Llys yn *O'Brien* yn cael ei chynnal pe byddai anghydfod yn y dyfodol.<sup>36</sup>
- 8.43 Awgrymodd ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu y dylid egluro'r gyfraith o ran beth sy'n cyfri fel cais cynllunio dilys gan fod gofynion awdurdodau cynllunio weithiau'n amrywio o'r rhai o amlinellir yng nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.<sup>37</sup> Mae'n annhebygol y byddai'n bosib cyflwyno rheolau cyffredinol o ran beth sy'n cyfri fel cais dilys yn rhannol oherwydd bydd y gofynion yn amrywio gydag amgylchiadau penodol; ac yn rhannol oherwydd bod unrhyw ofynion cyffredinol yn debygol o fod yn fwy priodol i'w cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth neu gyfarwyddyd.
- 8.44 Ar ben hynny, fe gyflwynodd P(W)A 2015 weithdrefn newydd (nad sy'n berthnasol yn Lloegr) yn adrannau 62ZA i 62ZD o DCGTh 1990. Gall awdurdod gyflwyno hysbysiad i ymgeisydd sy'n nodi bod cais yn methu â chydymffurfio â gofyniad dilysu - hynny yw, gofyniad mewn neu dan Ddeddf yn ymwneud â'r canlynol:
- (1) y ffurf neu ddull y mae'n rhaid ei defnyddio i wneud cais; a
  - (2) ffurf neu gynnwys unrhyw ddogfen neu fater arall sy'n rhaid ei gyflwyno i gyd-fynd â'r cais.<sup>38</sup>
- 8.45 Mae ymgeisydd sy'n derbyn hysbysiad o'r fath yn gallu apelio i Weinidogion Cymru.
- 8.46 Gan ystyried presenoldeb adrannau 62ZA i 62ZD, rydym yn ystyried dros dro nad oes gan Adran 327A - gyda'i iaith hanfodol - ddefnydd parhaus, ac y gall arwain at gyfreithiad di-fudd mewn unrhyw sefyllfa. Rydym felly'n cynnig dros dro bod hyn ddim yn cael ei ailddatgan yn y Bil.

---

<sup>35</sup> (1985) 49 P. & C.R. 26.

<sup>36</sup> *Mae O'Brien* yn benderfyniad gwrandawriad cyntaf, ac felly nid yw'n rhwymo.

<sup>37</sup> Gweler y *Llawlyfr Rheoli Datblygiadau*, adran 7.

<sup>38</sup> DCGTH 1990, aa 62ZA(7)(a), 327A(1).

- 8.47 Awgrymmodd ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu hefyd bod gofynion o ran y deunyddiau i'w cyflwyno gyda cheisiadau (dan adran 62(3) DCGTH 1990) yn cael eu dirymu'n llwyr (yn hytrach na'u cwtogi, gweler adran 28 P(W)A 2015). Nid ydym yn argyhoeddedig y byddai hyn yn briodol, gan ystyried yr hawl i apelio yn erbyn gofynion dilysu; gall fod yn fuddiol mewn rhai achosion i awdurdod wneud gofynion syml o ran y deunydd i'w gyflwyno naill ai mewn perthynas â chais perthnasol neu mewn perthynas â phob cais ar gyfer categori datblygu penodol.<sup>39</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 8-2.

**Cynigwn dros dro nad yw adran 327A DCGTH 1990 - gan gymryd bod awdurdodau cynllunio ddim yn ystyried ceisiadau nad ydynt yn cyd-fynd â gofynion gweithdrefnol - yn cael ei hailddatgan yn y Bil newydd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Tystysgrifau perchnogaeth

- 8.48 Mae'n anochel mewn rhai achosion - yn benodol mewn perthynas â thir a feddiannir gan y sawl ar wahân i'w berchennog, a thir sydd ar werth ar hyn yn bryd - y bydd yna geisiadau am ddatblygiad gan y sawl ar wahân i berchnogion y tir dan sylw. Mae'n dilyn felly, ble mae cais yn cael ei gyflwyno gan rywun ar wahân i berchennog y tir, bod perchnogion y tir hwwnw yn dod i wybod am hyn. Ond yr unig ffordd mae awdurdod cynllunio yn gallu gwybod a yw tiffeddianwyr wedi cael eu hysbysu yw trwy fod ymgeiswyr yn cadarnhau eu bod yn berchen ar yr holl dir sy'n destun y cais, neu eu bod wedi rhoi gwybod i bawb sy'n berchen ar unrhyw ran ohono.
- 8.49 Dyna yw sail y system, a gyflwynwyd yn bennaf gan is-ddeddfwriaeth dan adran 65 DCGTH 1990, yn gofyn bod ymgeiswyr yn cyflwyno tystysgrifau i ddangos perchnogaeth o'r tir, ac o ran hysbysu perchnogion yn hytrach na'r ymgeisydd.
- 8.50 Mae Adran 65(5) yn rhoi gwaharddiad llwyr ar awdurdodau cynllunio'n ystyried ceisiadau nad sy'n cael eu cyflwyno gyda'r tystysgrifau sy'n ofynnol gan y darpariaethau hyn. Am yr un rhesymau a nodir uchod mewn perthynas ag adran 327A, rydym yn ystyried dros dro nad yw'r gwaharddiad llwyr a orfodir gan adran 65(5) yn fuddiol; ac awgrymwn beidio â'i ailddatgan yn y Bil newydd.
- 8.51 Mae Adran 65(6) yn ei gwneud yn drosedd i ddarparu tystysgrif ffug o berchnogaeth a hysbysiad. Awgrymwyd gan ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu y dylai'r Bil Cynllunio hepgor hyn gan ei fod yn ddiangen.<sup>40</sup>

<sup>39</sup> Felly, er enghraifft, dylai ceisiadau yn ymwneud â datblygiad yn effeithio ar adeiladau rhestredig neu adeiladau cadwraeth ddod gyda datganiadau effaith ar dreftadaeth yn hytrach na datganiadau dylunio a mynediad.

<sup>40</sup> Mae nod adran 11 y Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn fras yr un peth â DCGTh 1990, a.65. Nid yw'n cynnwys gwaharddiad llwyr ar awdurdod yn ystyried cais anghywir, yn gyfateb â DCGTh 1990, s. 65(5); ond mae'n cynnwys trosedd gyfwerth ag a.65(6).

- 8.52 Fodd bynnag, rydym yn ystyried ei bod yn bwysig bod awdurdod yn gallu dibynnu ar gywirdeb tystysgrifau perchnogaeth; ac rydym yn ystyried mai'r modd orau o gyflawni hyn yw trwy gadw'r cosbau troseddol am ddarparu gwybodaeth ffug. Gall fod mai ychydig iawn o erlyniadau os o gwbl a gaiff eu cyflwyno mewn perthynas â'r drosedd hon, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'n gweithredu fel cymhellant i ymddwyn yn dda.
- 8.53 Rydym yn cydnabod y gall y tramgwydd hwn orgyffwrdd mewn rhai achosion gyda thramgwyddau anonest prif ffrwd (gan gynnwys cadw cyfrifon ffug, ffugio a thwyll) - ble roedd yr anwiredd yn fwriadol, ac wedi ei gynllunio er mwyn arwain at elw ariannol amhriodol. Ble gellir dangos mai dyna oedd yr achos, yn enwedig os gellir profi ei fod wedi arwain at roddi caniatâd cynllunio anghywir, byddai erlyniad ar gyhuddiad o'r fath yn dal ar gael fel dewis arall. Fodd bynnag, byddai hynny yn brin. Yn amlach, mae tystysgrif ffug yn debygol o fod yn ganlyniad i ddiogi neu anwybodaeth, ac mae'r posibilrwydd yn unig o erlyniad yn gweithredu yn bennaf fel cymhelliad i'r ymgeisydd fynd i'r drafferth i gyflwyno'r wybodaeth yn gywir.
- 8.54 Felly nid ydym yn awgrymu gwneud unrhyw newidiadau yn unol â hyn.
- 8.55 Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai ymgeiswyr (ac awdurdodau cynllunio) wedi'u drysu gan y gofyniad i hysbysu tenantiaid amaethyddol o geisiadau cynllunio, dan adran 65(2) ac erthygl 10 DMP(W)O 2012. Awgrymwn bod y gofyniad hyn yn cael ei ailddatgan fel darpariaeth ar wahân, sy'n berthnasol pan yw'r tir yn destun tenantiaeth amaethyddol dan Ddeddf Deiliadaethau Amaethyddol 1986 neu Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 yn unig. Gellir hefyd mabwysiadu ymagwedd debyg mewn perthynas â'r gofyniad i hysbysu'r perchennog o ddiddordeb mewn mwynau, ar neu o dan y tir dan sylw. Mae'r ddau ofyniad wrth gwrs yn amherthnasol yn y mwyafrif helaeth o achosion.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-3.**

**Cynigwn dros dro y dylid peidio cynnwys adran 65(5) DCGTH 1990 yn y Bil newydd - gan gymryd na fydd awdurdodau cynllunio yn ystyried ceisiadau a gyflwynir heb dystysgrifau perchnogaeth.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

#### Cwestiwn ymgynghori 8-4

Rydym yn cynnig dros dro bod y gofynion yn adran 65(2) DCGTH 1990 a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed dan y ddarpariaeth honno ynghylch

(1) hysbyu tenantiaid amaethyddol am geisiadau cynllunio a

(2) hysbysu am geisiadau mwynau

yn cael eu hegluro, er mwyn sicrhau eu bod ond yn cael eu dwyn i sylw ymgeiswyr mewn achosion perthnasol.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

#### Ffioedd

8.56 Ystyriwn ffioedd ym **Mhennod 17**, oherwydd maen nhw bellach yn daladwy mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, nid mewn perthynas â cheisiadau cynllunio yn unig.<sup>41</sup>

#### PENNU CEISIADAU CYNLLUNIO

8.57 Gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar y pwnc hwn ar hyn o bryd yn Rhan 3 o TCTPA 1990, fel y'i diwygiwyd gan DCPG 2004 a deddfwriaeth arall. Mae'r is-ddeddfwriaeth yn DMP(W)O 2012, sydd hefyd wedi cael ei diwygio'n aml. Mae'r cyfarwyddyd perthnasol bellach ar gael yn bennaf yn y *Llawlyfr Rheoli Datblygiadau*, gyda'r argraffiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016.

#### Gweithdrefn wrth dderbyn cais

8.58 Wrth dderbyn cais am ganiatâd cynllunio, mae gofyn bod yr awdurdod cynllunio yn gwirio a yw'r holl eitemau gofynnol wedi cael eu cyflwyno, proses a elwir yn "ddilysiad". Mae hyn wedi cael ei ystyried yn gynharach yn y Bennod hon.

#### Y pŵer i wrthod pennu ceisiadau

8.59 Mae Adran 70A DCGTh 1990, fel y'i mewnosodwyd yn wreiddiol (gan Ddeddf Cynllunio ac lawndal 1991) ac sy'n dal yn berthnasol yng Nghymru, yn darparu bod awdurdod cynllunio yn gallu gwrthod pennu cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu tir os, o fewn y ddwy flynedd blaenorol, bod Gweinidogion Cymru wedi diystyru apêl yn erbyn gwrthodiad cais tebyg (neu wedi gwrthod cais tebyg a wnaed neu a gyfeiriwyd atynt), ac ers y diystyru bod dim newid sylweddol wedi bod yn y cynllun datblygu, neu i unrhyw ystyriaethau materol eraill.

---

<sup>41</sup> Gweler paragraffau 18.74 to 18.79

- 8.60 Nod y ddarpariaeth hon oedd atal ymgeisydd rhag ceisio blino gwrthwynebiad i gais trwy gyflwyno ceisiadau tebyg dro ar ôl tro, ond nid i atal yr ymgeisydd rhag adolygu cais mewn ymgais i fodloni gwrthwynebiadau.<sup>42</sup>
- 8.61 Mae Adran 43 DCPG 2004 yn cynnwys fersiwn newydd o adran 70A, sydd hefyd yn galluogi awdurdod cynllunio i wrthod pennu cais tebyg os oes un o'r canlynol wedi digwydd o fewn y ddwy flynedd flaenorol:
- (1) bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod cais a bennwyd a wnaethpwyd mewn ymateb i hysbysiad gorfodi; neu
  - (2) bod yr awdurdod wedi gwrthod dau gais tebyg neu ragor ond bod dim apêl wedi bod.
- 8.62 Nid yw Adran 43, ac yn sgil hyn fersiwn diwygiedig adran 70A DCGTh 1990, wedi dod i rym yng Nghymru eto. Nid yw'n gwbl glir pam ddim; ymddengys bod fersiwn diwygiedig adran 70A yn ymdrin â phroblem ymarferol. Yng Nghymru, mae diwygiadau pellach wedi eu gwneud o adran wreiddiol 70A gan DC(C)2015, i gymryd i ystyriaeth trefn arbennig y DNS.
- 8.63 Yn Lloegr, mae dau ddiwygiad pellach wedi eu gwneud i adran 70A, gan Ddeddf Cynllunio 2008, i gynnwys dwy sefyllfa arall a allai gyfiawnhau bod awdurdod yn gwrthod cais dilynol. Y cyntaf yw ble mae apêl wedi ei chyflwyno ac yna ei thynnu yn ôl. Yr ail ble mae cais tybiedig yn rhinwedd sail (a) apêl yn erbyn rhybudd gorfodi.<sup>43</sup> Mae'n ymddangos bod y ddau ddiwygiad hyn yn synhwyrol, a byddai'n fanteisiol eu mabwysiaid hefyd yng Nghymru.
- 8.64 Ystyriwn dros dro y dylid cynnwys adran 70A yn y Bil Cynllunio, fel y'i diwygiwyd gan DCPG 2004, Deddf Gynllunio 2008 a DC(C) 2015. Byddai angen i'r drafftio ystyried ein cynnig i hepgor y ddarpariaeth gyfredol lle tybir bod cais wedi ei gyflwyno pan wneir apêl sail (a) gorfodi.<sup>44</sup>

### **Cwestiwn ymgynghori 8-5.**

**Cynigwn dros dro bod adran 70A DCGTh 1990 (pŵer i wrthod ceisiadau tebyg) yn cael ei ailddatgan yn y Bil Cynllunio fel y saif yn dilyn diwygiadau gan DCPG 2004, Deddf Gynllunio 2008 a DC(C) 2015.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Olrhain ar y cyd**

- 8.65 Hefyd yn adran 43 DCPG 2004 fe gyflwynwyd adran newydd 70B i mewn i DCGTH 1990, gan roi'r pŵer i awdurdod cynllunio wrthod pennu ceisiadau sy'n goryffwrdd.

<sup>42</sup> *R (Harrison) v Richmond-upon-Thames LBC* [2013] EWHC 1677 (Admin).

<sup>43</sup> Gweler **para 12.97**.

<sup>44</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 12-12**.



Roedd hyn er mwyn ymdrin â'r arfer a elwir yn "olrhain ar y cyd", ble mae dau gais wedi eu cyflwyno ar neu tua'r un pryd; gydag un yn symud ymlaen i apêl yn derbyn gwrthodiad cyn gynted â bod y terfyn amser perthnasol i bennu wedi dod i ben, ac roedd y llall yn destun trafodaethau parhaus gyda'r awdurdod.

- 8.66 Mae Adran 78A - a fewnosodwyd gan adran 50 DC(C) 2015 - yn caniatáu i awdurdod, wedi i apêl gael ei gwneud, barhau i drafod y cais am gyfnod o bedair wythnos, heb fodolaeth ail gais.<sup>45</sup> Felly nid oes angen cyflwyno ail gais, a gall yr awdurdod, y syml, barhau i negodi gyda'r datblygwr ynghylch manylion y datblygiad, am gyfnod o bedair wythnos wedi i'r apêl gael ei chyflwyno, ac felly gobeithio cael canlyniad terfynol gwell. O safwbynt y datblygwr, mae adran 78A y weithdrefn yn caniatáu i apêl gael ei chyflwyno - gan ddechrau'r cloc i dician ar y broses apêl, ac ennill rhywfaint o ddylanwad i annog yr awdurdod i gyflymu'r broses negodi. Canlyniad hyn yw cyflymu'r broses, mae'r tebygrwydd o apêl weithredol (gyda'r costau a'r ansicrwydd sydd yn deillio o hyn) yn llai, er mantais i bawb.
- 8.67 Mae Adran 70B mewn grym yn Lloegr, ond nid yng Nghymru; tra bod Adran 78A bellach mewn grym yng Nghymru ond nid yn Lloegr.<sup>46</sup>
- 8.68 Ystyriwn dros dro nad yw'r arfer o olrhain ar y cyd yn achosi unrhyw broblemau gweinyddol neu fel arall. Os yw'r ddau gais dan sylw yn wir yn union yr un fath, gellir parhau i brosesu'r ail un, a'i ddiwygio os oes angen, heb unrhyw derfyn amser; ac os yw'n briodol, gellir cyflwyno dau gais tebyg ond nid yn union yr un fath i brofi'r dyfroedd. A gall y strwythur ffioedd adlewyrchu'r ffaith mai un cais yn unig sy'n bodoli mewn gwirionedd. Rydym felly'n ystyried dros dro bod dim angen ailddatgan adran 70B DCGTH 1990 yn y Bil newydd.<sup>47</sup> Ar y llaw arall, medr gallu awdurdod cynllunio i barhau i bennu cais am gyfnod penodol ar ôl cyflwyno apêl fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau, a dylid ei gadw.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-6.**

**Cynigwn dros dro na ddylai adran 70B o'r DCGTH (gyda'r nod o annog ymgeiswyr i beidio ag olrhain ar y cyd, neu eu hatal rhag wneud hynny) gael ei ailddatgan yn y Bil Cynllunio.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>45</sup> DMP(W)O 2012, erth. 26A, mewnosodwyd gan 2015 SI 1330.

<sup>46</sup> 2015 SI 340, erth. 2. Mewnosodwyd darpariaethau tebyg i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig mewn perthynas â cheisiadau am LBC a CAC ac apeliadau dilynol (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adrannau 81A, 81B (mewnosodwyd gan PCPA 2004, s 43(2)); Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a. 20A (mewnosodwyd gan PCPA 2004, s 50(2)). Mae'r rhain hefyd mewn grym yn rhannol yng Nghymru.

<sup>47</sup> Mae'r diwygiadau i adran 70B a wnaed gan PCPA 2004, Atodlen 7, hefyd yn afraid felly.

## Ymgynghori a chyhoedduswydd

- 8.69 Mae eisoes wedi cael ei nodi<sup>48</sup> bod rhaid i gais am ganiatâd cynllunio hysbysu unrhyw berchnogion (eraill) o'r tir dan sylw, a bod rhaid anfon tystysgrif gyda'r cais yn nodi bod hyn wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, effaith gyfunol adran 71 DCGTH 1990 a'r DMP(W)O 2012 yw bod rhaid i'r awdurdod cynllunio ymgynghori ag amryw bobl a chyrrff. Mae rhestr gynhwysfawr yn nodi gyda phwy yn union y dylid ymgynghori mewn achosion penodol yn gynwysedig yn y DMP(W)O.<sup>49</sup>
- 8.70 Bydd y Bil newydd yn parhau i ddarparu'r gofynion sylfaenol o ran ymgynghori, a bydd y manylion yn y rheoliadau.<sup>50</sup>
- 8.71 O ran cyhoedduswydd mwy cyffredinol, mae adran 63 PCPA 2004 yn nodi y gall awdurdod cynllunio yng Nghymru gael "cynllun ymglymiad cymunedol" yn amlinellu ei bolisi yn ymwneud ag ymglymiad pobl a nodwyd wrth weithredu ei swyddogaethau mewn perthynas â'r cynllun datblygu. Mae hyn mewn cyferbyniad ag adran 18 Deddf 2004, sy'n nodi bod rhaid i awdurdod yn Lloegr gael polisi ar ymwneud ag ymglymiad y gymuned wrth weithredu ei swyddogaeth mewn perthynas â'r cynllun datblygu a'r ceisiadau cynllunio. Mae'r llysoedd wedi barnu bod datganiad polisi o'r fath yn creu disgwyliad cyfiawn o ran pwy (er enghraifft, cymdogion) fydd yn cael eu hysbysu am geisiadau cynllunio.<sup>51</sup>
- 8.72 Ystyriwn dros dro y gallai fod yn fuddiol i awdurdodau yng Nghymru baratoi datganiad yn ymwneud ag ymglymiad y gymuned wrth bennu ceisiadau cynllunio.<sup>52</sup> Ac fe dybir y byddai'r pŵer (neu ddyletswydd) i baratoi dogfen o'r fath yn cael ei gynnwys ochr yn ochr â'r rhannau hynny o'r Bil newydd sy'n ymdrin â cheisiadau cynllunio.
- 8.73 Yn ôl DMP(W)O 2012, mae gofyn bod awdurdod cynllunio, wrth wneud penderfyniad am gais am ganiatâd cynllunio, yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gynrychiolaethau a wnaethpwyd o fewn 21 niwrnod yn cychwyn gyda'r dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad gyntaf.<sup>53</sup> Awgrymodd ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu y gellid egluro'r gyfraith mewn perthynas â statws cynrychiolaethau a wnaethpwyd ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori 21-niwrnod.
- 8.74 Mae'r *Llawlyfr Rheoli Datblygiadau* yn nodi y dylid cymryd cynrychiolaethau hwyr o'r fath i ystyriaeth os nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud ar y cais hyd yma.

---

<sup>48</sup> Gweler **para 8.39 – 8.45**.

<sup>49</sup> Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adrannau 13, 15 yn gwneud darpariaethau cyfatebol o ran hysbysu ceisiadau LBC a CAC (mae a.14 yn ymwneud â Llundain); er yn yr achos hwnnw, darperir y mwyafrif o'r fanylion mewn cyfarwyddiadau Gweinidogol, sy'n gofyn am ymgynghoraeth gyda Cadw a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol (Ancient Monuments Society, Council for British Archaeology, Georgian Group, the SPAB, a The Victorian Society (Cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru (2017 Rhif 26). Cyhoeddwyd ym mis Mai 2017.

<sup>50</sup> Mae hyn yn unol â cheisio osgoi defnyddio cyfarwyddiadau cymaint â phosib. Gweler **para 4.49**.

<sup>51</sup> *R (Majed) v Camden LBC* [2009] EWCA Civ 1029.

<sup>52</sup> Gellir ddatganiad o'r fath fod yn berthnasol i ymrwymiad cymunedol â cychwyn datblygiadau hefyd (fel yn Lloegr), neu fe all fod yn ddogfen ar wahân.

<sup>53</sup> DMP(W)O 2012, erth 21.

Cytunwn y gallai eglurhad statudol o'r sefyllfa fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r DMP(W)O, ond nid oes angen iddo ymddangos ym mhrif ran y Bil.

- 8.75 Mae un gofyniad penodol o ran rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau cynllunio yn berthnasol mewn ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol. Rydym yn ymdrin â hyn ym Mhennod 13.<sup>54</sup>

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-7.**

**Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol cynnwys darpariaeth yn y Bil yn gofyn bod pob awdurdod cynllunio yn darparu datganiad yn nodi'r sawl o fewn y gymuned y bydd yn ceisio eu cynnwys wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-8**

**Cynigwn dros dro y dylai DMP(W)O 2012 gael ei ddiwygio i esbonio bod cynrychiolaethau am gais cynllunio a dderbynnir ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori 21-niwrnod ond cyn dyddiad y penderfyniad yn cael eu hystyried os yn bosib, ond bod dim angen oedi'r ystyriaeth o'r cais.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Rhoi caniatâd cynllunio**

- 8.76 Rydym wedi cynnig uchod bod y darpariaethau statudol o ran gwneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn cael eu gwneud yn gliriach, gan ddarparu ar gyfer un math o gais. Mae'n dilyn felly y byddai amrywiaeth y mathau o awdurdodaeth y gellir eu rhoi yn cael eu symleiddio yn yr un modd - byddai modd derbyn "caniatâd cynllunio" yn unig, os oedd y datblygiad a awdurdodwyd wedi cychwyn ai peidio. Byddai rhoi caniatâd o'r fath yn destun y darpariaethau statudol canlynol mewn achosion priodol:

- (1) y sawl sydd nawr yn adran 75 yn ymwneud ag effaith y caniatâd;<sup>55</sup>
- (2) y sawl sy'n ymwneud â gosod amodau:
  - amodau o ran terfynau amser i gychwyn datblygu;<sup>56</sup>

<sup>54</sup> Gweler **paragraffau 13.191 i 13.193.**

<sup>55</sup> Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 16(3) yn debyg.

<sup>56</sup> Gweler **paragraffau 8.118 i 8.120.**

- amodau yn gofyn bod materion penodol yn cael eu cymeradwyo maes o law gan yr awdurdod cynllunio (os yw'r materion yn rhai a bennwyd yn y cais, neu'n rhai eraill);<sup>57</sup>
  - unrhyw amod arall a osodwyd gan yr awdurdod;<sup>58</sup> a
- (3) ble mae'r datblygiad eisoes wedi cychwyn, y darpariaethau dan adran 73A ar hyn o bryd.<sup>59</sup>
- 8.77 Mae'r darpariaethau yn ymwneud ag effaith y caniatâd (yn adrannau 75 a 73A(3) y DCGTh<sup>60</sup>) yn berthnasol i unrhyw ganiatâd a roddir - boed mewn ymateb i gais neu apêl neu drwy orchymyn datblygu cyffredinol neu leol.
- 8.78 Byddai trefnu'r darpariaethau hyn yn batrwm mwy cydlynol ynddo ei hun yn welliant arwyddocaol, er rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn bosib i raddau cyfyngedig yn unig. Ond nid ydym yn gwneud unrhyw gynnydd i ddiwygio.

### Ystyriaethau wrth wneud penderfyniad ar gais

- 8.79 Yn ein Papur Cwmpasu, fe wahoddom y sawl yr ymgynghorwyd â hwy i adnabod materion ychwanegol i'w diffinio neu eu hegluro yn y Côt Cynllunio newydd. Mewn ymateb i hyn, awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol egluro rhai materion penodol y gellid eu hystyried gan awdurdodau cynllunio wrth wneud penderfyniad ar geisiadau, er enghraifft:
- (1) arwyddocâd y "sefyllfa wrth gefn";
  - (2) yr asesiad o fuddion cymunedol mewn perthynas â cheisiadau am ffermydd gwynt; ac
  - (3) arwyddocâd yr iaith Gymraeg.
- 8.80 Mae'r "sefyllfa wrth gefn" yn cyfeirio at yr arfer gan ymgeiswyr o annog y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gymryd i ystyriaeth defnydd cyfredol y tir dan sylw, a allai barhau yn gyfreithlon, neu ddatblygiad arall y mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar ei gyfer eisoes, fel dewis amgen i'r datblygiad arfaethedig y ceisir caniatâd ar ei gyfer yn awr.
- 8.81 Mae'r ddwy gyntaf yn esiamplau o ystyriaethau penodol a allai fod yn faterol yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio penodol. Rydym eisoes wedi nodi nad ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol diffinio'r ymadrodd "ystyriaethau materol", neu nodi ystyriaethau penodol a allai fod yn faterol mewn achosion penodol.<sup>61</sup> Nid ydym felly'n cynnwys unrhyw ddiwygiad mewn ymateb i'r awgrymiadau hyn yn benodol.

<sup>57</sup> Gweler **paragraffau 8.102 i 8.105**.

<sup>58</sup> Gweler **para 8.89 i 8.98**

<sup>59</sup> Ac hefyd y rhai yn y Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 8(3).

<sup>60</sup> A'r rhai yn a 16(3) ac yn 8(3) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig.

<sup>61</sup> Gweler **paragraffau 5.28 i 5.49**.

- 8.82 Mae'r trydydd wedi cael ei hystyried yng nghyd-destun dyletswyddau yn ymwneud ag arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod Cynllunio.<sup>62</sup>
- 8.83 Yn fwy cyffredinol, rydym eisoes wedi awgrymu y dylai dyletswyddau awdurdodau i ystyried amryw faterion<sup>63</sup> wrth wneud penderfyniad ar geisiadau - yn adrannau 70(2), (3) o'r DCGTh<sup>64</sup> - cael eu ehangu er mwyn bod yn berthnasol i arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cod. Nid oes felly angen eu hailadrodd mewn perthynas â gwneud penderfyniadau yn benodol.

### Rhesymau dros benderfyniadau

- 8.84 Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i ddarparu rhesymau dros wrthod caniatâd ac am unrhyw amodau a roddir wrth roi caniatâd. Mae hynny'n ymddangos yn synhwyrol. Fodd bynnag, nodwyd gan y Llys Apêl yn 1997 bod dyletswydd i roi rhesymau dros roi caniatâd (nid ar gyfer unrhyw amodau a atodir i grant yn unig) yn "yn amlwg ar goll" o'r statud.<sup>65</sup>
- 8.85 Cyflwynwyd dyletswydd o'r fath yn Lloegr yn 2003, ond cafodd ei thynnu yn ôl yn 2013.<sup>66</sup> Roedd cymuned cynllunio llywodraeth leol wedi awgrymu ei bod yn feichus a dianghenraid gan ei fod yn dyblygu deunyddiau oedd wedi eu dogfennu rhywle arall.<sup>67</sup> Cytunwn dros dro bod dyletswydd i ddarparu rhesymau dros roi caniatâd yn ymddangos yn ddiangen.

## AMODAU A CHYFYNGIADAU

### Gwahaniaethu rhwng amodau a chyfyngiadau

- 8.86 Ar hyn o bryd, gellir rhoi caniatâd mewn ymateb neu apêl, yn destun amodau.<sup>68</sup> A gellir ei roi i orchymyn datblygu yn destun aodau neu gyfyngiadau.<sup>69</sup> Mae methiant i gydymffurfio ag amod neu gyfyngiad yn doriad o reolaeth cynllunio.<sup>70</sup>
- 8.87 Mae caniatâd am gyfnod cyfyngedig yn amlwg yn ganiatâd yn destun cyfyngiad. Ond mae'n bell o fod yn glir beth arall sy'n cyfri fel cyfyngiad, o'i gymharu ag amod. Ymddengys mai'r unig wahaniaeth yw pan fod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi gan

---

<sup>62</sup> Gweler **paragraffau 5.57 i 5.66**.

<sup>63</sup> Yn benodol y cynllun datblygu, polisiâu cenedlaethol, y defnydd o'r Gymraeg, ac ystyriaethau materol eraill; gweler **Pennod 7**.

<sup>64</sup> Ac adrannau 16(2) a 72 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig.

<sup>65</sup> *R v Aylesbury Vale DC, ex p Chaplin* [1997] 3 PLR 55, CA.

<sup>66</sup> Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygiad Cyffredinol Caniataol) 1995, erth 31, fel i'w ddiwygiwyd gan OS 2003 Rhif 2047, erth 5 a 2013 Rhif 1238, erth 7.

<sup>67</sup> Memorandwm Esboniadol i OS 2013/1238, paragraffau 7.17 a 7.18.

<sup>68</sup> DCGTH 1990, a 70(1)(a), 79(4)(a).

<sup>69</sup> DCGTH 1990, a 60(1), 61C(1)(b).

<sup>70</sup> DCGTH 1990, 171A(1)(b).

orchymyn datblygu yn destun cyfyngiad, nid oes angen caniatâd i ddefnyddio'r tir (ar wahân i'r cyfyngiad) gan mai dyma ei ddefnydd arferol.<sup>71</sup>

- 8.88 Mae hyn yn ymddangos fel cymhlethdod diangen. Pe byddai'n bosib rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio yn destun cyfyngiadau, yn ogystal ag amodau, ni fyddai angen gwahaniaethu rhyngon nhw. Fel arall, gellir diffinio'r term "amod" er mwyn cynnwys "cyfyngiad".

### Cwestiwn ymgynghori 8-9

**Ystyriwn dros dro y dylid lleihau'r gwahaniaeth rhwng amodau a chyfyngiadau ynghlwm wrth ganiatadau cynllunio, naill ai:**

- (1) **trwy ddiffinio'r term "amod" er mwyn cynnwys "cyfyngiad" , neu**
- (2) **trwy ei gwneud yn glir bod caniatâd cynllunio a roddir mewn ymateb i gais neu apêl (yn hytrach na chaniatâd a roddir i orchymyn datblygu, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) yn gallu cael ei roi yn amodol ar gyfyngiadau neu amodau.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Gofynion cyffredinol i amodau

- 8.89 Mae pob caniatâd cynllunio<sup>72</sup> yn destun un amod neu fwy, hyd yn oed os ydyw'n ymwneud yn unig â'r cyfnod y gellir ei roi ar waith. Yn ymarferol, mae mwyafrif y caniatadau yn destun nifer o amodau eraill, a allai reoleiddio amrywiaeth eang o faterion; ymhlith y rhai mwyaf cyffredin mae:

- (1) y materion sydd dal angen eu cymeradwyo;
- (2) y dull y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth gwblhau gwaith a gymeradwywyd;
- (3) hunaniaeth y bobl a allai gael budd o'r caniatâd; a
- (4) gweithrediad y safle yn dilyn rhoi'r caniatâd ar waith.

- 8.90 Gellir dod o hyd i'r pŵer perthnasol i osod amodau yn adrannau 70(1)(a) a 72 DCGTh 1990.<sup>73</sup> Yn benodol, mae adran 70(1)(a) yn rhoi pŵer ehangach i awdurdodau cynllunio osod amodau "y maen nhw'n credu sy'n addas". Fodd bynnag, rhaid dehongli hyn gan ystyried penderfyniadau'r llys ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus yn gyffredinol. Felly, yn *Pyx Granite Co Ltd v Y Weinidogaeth Tai a Llywodraeth Leol*, dywedodd yr Arglwydd Denning bod:

<sup>71</sup> DCGTh 1990 a 57(3).

<sup>72</sup> A phob deddf adeilad rhestredig.

<sup>73</sup> Mae darpariaethau cyfatebol yn adrannau 16(1) a 17 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.

y gyfraith angen sicrhau bod yr amodau hyn yn berthnasol yn deg ac yn rhesymol i'r datblygiad a ganiateir. Nid oes gan yr awdurdod cynllunio yr hawl i ddefnyddio eu pwerau am resymau pellach, waeth pa mor ddymunol mae'r rhesymau hynny'n ymddangoso ran budd y cyhoedd.<sup>74</sup>

- 8.91 Yn *Newbury District Council v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd*, dywedodd Tŷ'r Arglwyddi, er mwyn bod yn ddilys, bod rhaid i amodau gydymffurfio â'r profion canlynol:
- rhaid iddynt gael eu gosod at ddiben cynllunio ac nid at ddiben pellach;
  - rhaid iddynt ymwneud yn deg ac yn rhesymol â'r datblygiad a ganiateir; a
  - rhaid iddynt beidio â bod mor afresymol y byddai awdurdod rhesymol erioed wedi gallu eu gosod.<sup>75</sup>
- 8.92 Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 ar *Y Defnydd o Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygiadau* yn disodli'r Cylchlythyr blaenorol ar *Y Defnydd o Amodau mewn Caniatâd Cynllunio*, a gynhyrchwyd yn 1995 ac a oedd yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Awgryma Pennod 3 o Gylchlythyr 2014 chwe phrawf ar gyfer dilysrwydd amodau cynllunio. Mae'r profion hyn yn debyg ond nid yn union yr un fath â'r rhai a amlinellwyd yn *Newbury*, ac yn dynodi y dylai amodau fod yn hanfodol, yn berthnasol i gynllunio, yn berthnasol i'r datblygiad i'w ganiatáu, yn orfodadwy, yn fanwl gywir, ac yn rhesymol ym mhob agwedd arall. Mae'r Cylchlythyr hefyd yn darparu nifer o amodau sampl a allai fod yn briodol mewn amgylchiadau penodol.
- 8.93 Dywedodd y sawl a ymatebodd i'n Papur Cwmpasu bod awdurdodau cynllunio weithiau'n atodi amodau ychwanegol nad sy'n bodloni'r chwe phrawf a nodwyd yn y Cylchlythyr - mae hyn yn berthnasol yn benodol pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan bwyllgorau o aelodau etholedig yn hytrach na swyddogion yn gweithredu dan bwerau dirprwyedig. Dywedwyd hefyd wrthym bod rhai awdurdodau weithiau'n syml yn copïo amodau sampl o'r Cylchlythyr heb feddwl gormod a oeddent yn hanfodol a rhesymol, yn orfodadwy, yn fanwl gywir, yn berthnasol neu'n addas.
- 8.94 Mae Adran 100ZA DCGTh 1990, i'w gyflwyno gan Ddeddf Cynllunio Cymdogaethau 2017 ond yn Lloegr yn unig, yn rhoi'r grym i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cyfyngiadau ar y mathau o amodau y gellir eu gosod, naill ai'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, gellir gosod cyfyngiadau o'r fath dim ond os ydynt yn arwain at y canlyniad o sicrhau bod amodau'n cydymffurfio â'r pedwar gofyniad, a amlinellir yn adran 100ZA(2), sy'n debyg i'r sawl a amlinellir yn *Newbury* ac yng nghyfarwyddyd y Llywodraeth.
- 8.95 Yn y Papur Cwmpasu, awgrymom y gallai fod yn briodol esbonio ystent awdurdod cynllunio i osod amodau, yn seiliedig ar gyfraith achos a chyfarwyddyd. Mewn ymateb i hyn, roedd Cyngor Sir Fynwy, RTPI Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ("POSW") – De Orllewin Cymru yn credu y dylid cynnwys y profion yn ymwneud â dilysrwydd amodau cynllunio ym mhrif ran y statud. Roedd Tai

---

<sup>74</sup> [1958] 1 QB 554.

<sup>75</sup> [1981] AC 578 yn 607 – 608.

Persimmon Gorllewin Cymru ("Persimmon") yn cytuno, ond awgrymon nhw y dylid eu hymgorffori dim ond ar ôl i ddiwygiad technolegol pellach ddigwydd yn canolbwyntio ar ddrafftio, cytuno a'u rhoi ar waith.

8.96 Gan adlewyrchu ar y sefyllfa, ystyriwn dros dro y byddai'n addas i'r gofynion o ran dilysrwydd amodau, sy'n hirsefydlog ac yn gyffredinol yn cael eu hystyried i fod yn fuddiol, gael eu hymgorffori yn y Côt Cynllunio. Ystyriwn dros dro bod yr ymagwedd weithdrefnol a fabwysiadwyd yn Neddf 2017 yn Lloegr yn feichus heb fod angen, ac mai'r cwbl sydd ei angen yw darpariaeth sy'n amlinellu bod awdurdodau cynllunio, wrth roi caniatâd cynllunio, yn gallu gosod amodau sydd:

(a) yn hanfodol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniadwy yn nhermau cynllunio,

(b) yn berthnasol i'r datblygiad ac i ystyriaethau cynllunio yn gyffredinol,

(c) yn ddigon manwl gywir i olygu bod modd cydymffurfio â hwy a'u gorfodi, ac

(d) yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

8.97 Yn amodol ar yr ystyriaethau hynny, ein barn dros dro yw y byddai'n well cadw cyngor cyffredinol o ran amodau a fyddai'n berthnasol mewn cyfarwyddyd, fel ar hyn o bryd, yn hytrach na'u hymgorffori yn y Bil. Derbyniwn y gellid anwybyddu neu gamddefnyddio cyfarwyddyd o'r fath; ond byddai'n anodd ei gynnwys yn y Côt statudol yn y fath fodd i fod yn berthnasol i amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ffeithiol; ac y gallai hefyd arwain at dir ffrwythlon ar gyfer heriau annheilwng yn y llysoedd.

8.98 Fodd bynnag, isod rydym yn ystyried nifer o fathau penodol o amodau y gellid eu gosod yn briodol mewn sefyllfaoedd penodol, a allai fod yn ddefnyddiol i gyfeirio atynt mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-10.**

**Cynigwn dros dro y dylai'r darpariaethau yn DCGTh 1990 o ran gosod amodau gael eu disodli yn y Bil gyda phŵer cyffredinol i awdurdodau cynllunio osod amodau neu gyfyngiadau o'r fath, os ydynt o'r farn eu bod yn addas, gan gymryd eu bod:**

(1) yn hanfodol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio,

(2) yn berthnasol i'r datblygiad ac i ystyriaethau cynllunio yn gyffredinol,

(3) yn ddigon manwl gywir i allu cydymffurfio â hwy a'u rhoi ar waith, ac

(4) yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**



### Cwestiwn ymgynghori 8-11.

Yn ogystal â'r grym cyffredinol i osod amodau a chyfyngiadau, byddai'n bosibl gwneud grymoedd yn glir yn y Cod i osod mathau penodol o amodau a chyfyngiadau, a ystyrir yng nghwestiynau ymgynghori 8 - 11, 8-14 a 8-16.

Ydy'r ymgynghoreion yn ystyried y dylai'r grymoedd i osod yr holl neu unrhyw rai o'r amodau hyn (neu eraill) gael sail statudol - naill ai yn y Bil neu mewn rheoliadau - neu a ddylid eu hymgorffori mewn canllawiau gan y Llywodraeth ar y defnydd o'r amodau?

### Amodau sydd angen cymeradwyo manylion yn ddiweddarach

- 8.99 Fel y nodwyd yn flaenorol yn y Bennod hon, mae nifer o ganiatadau cynllunio yn cael eu rhoi yn destun amodau sy'n gofyn bod materion penodol yn cael eu cymeradwyo cyn cychwyn ar y datblygiad. Yn amlwg, mewn achos o'r fath, nid yw'n agored i'r awdurdod cynllunio wrth wneud penderfyniad ar gais i gymeradwyaeth o'r fath gwestiynu egwyddor y datblygiad, faint bynnag yr hoffent wneud hynny nawr.<sup>76</sup>
- 8.100 Gall y broses o gael cymeradwyaeth o fanylion dan unrhyw un o'r mecanweithiau hyn gymryd amser i'r ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio. Felly mae llywodraethau yn aml wedi ceisio peidio ag annog eu defnydd pan nad ydynt yn gwbl hanfodol. Yn fwyaf diweddar, mae gofyn bod awdurdodau yn Lloegr yn rhoi rhesymau yn esbonio pam fod amod cyn-cychwyn yn amod cyn-cychwyn.<sup>77</sup>
- 8.101 Rydym eisoes wedi cynnig bod y weithdrefn i roi caniatâd cynllunio yn destun amodau o'r fath yn cael ei chyfuno â'r weithdrefn gyfredol ar gyfer caniatâd amlinellol a chymeradwyaeth ddilynol o faterion a gedwir yn ôl; dyma bwnc **cwestiwn ymgynghori 8-1**. Ystyriwn dros dro ei bod yn well mynd i'r afael ag unrhyw ofyniad manwl i gyfiawnhau gosod amodau cyn-cychwyn mewn polisi a chyfarwyddyd yn hytrach nag mewn cyfraith, felly nid ydym yn cynnig mewnforio unrhyw ofyniad tebyg i'r un newydd a gyflwynwyd yn Lloegr i'r Bil Cynllunio.

### Amodau Grampian

- 8.102 Ar wahân i'r amodau sy'n gofyn am gymeradwyo manylion, mae amodau yn aml yn cael eu gosod ar ganiatâd cynllunio sy'n gofyn bod gwaith ddim yn cychwyn tan bod rhyw ddigwyddiad wedi cychwyn - fel arfer cyfeirir at amodau o'r fath fel amodau *Grampian*, yn dilyn penderfyniad Tŷ'r Arglwyddi yn *Cyngor Rhanbarthol Grampian v Dinas Aberdeen*.<sup>78</sup> Esiampl gyffredin yw amod na fydd datblygiad a gymeradwywyd yn gallu cychwyn ar y gwaith adeiladu tan fod priffordd gerllaw wedi cael ei gwella. Yn dilyn hyn, cadarnhaodd Tŷ'r Arglwyddi y byddai amod o'r fath yn ddilys hyd yn oed

<sup>76</sup> Mae'r pwr i osod amodau o'r fath wrth roi cydsyniad adeilad rhestredig yn gynwysedig yn Neddf Adeiladau Rhestredig, a.17(2); ymdengys bod dim grym cyfatebol yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

<sup>77</sup> Gorchymyn Deddf Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygiad Cyffredinol Caniataol) 105, erth 35(1).

<sup>78</sup> [1983] 1 WLR 1340, (1984) 47 P&CR 633, Tŷ'r Arglwyddi.

os oedd tebygolrwydd y digwyddiad a nodwyd o ddigwydd yn isel iawn - yn amodol ar y prawf afresymoldeb, y cyfeiriwyd ato uchod.<sup>79</sup>

- 8.103 Yma hefyd, fe ystyriwn dros dro y byddai'n well cynnwys ystyriaethau polisi o ran pryd fyddai amodau o'r fath yn addas yng nghyfarwyddyd y Llywodraeth, ac nid yn y Bil.
- 8.104 Categori penodol o amodau *Grampian* yw'r math o amod a ragwelwyd gan adran 17(3) Deddf Adeiladau Rhestredig 1990. Gellir atodi hwn i gymeradwyaeth i ddymchwel adeilad rhestredig, ac mae'n gofyn nad yw'r adeilad yn cael ei dymchwel cyn-
- (a) bod cytundeb i gwblhau'r gwaith o ail-ddatblygu'r safle wedi cael ei wneud; a
  - (b) bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer yr ail-ddatblygu y sonnir amdano yn y cytundeb.
- 8.105 Gall amod ar linellau tebyg fod yr un mor ddefnyddiol mewn achosion eraill (nad ydynt yn cynnwys adeiladau rhestredig) ble mae'n ddymunol y dylid cwblhau'r prosiect a gymeradwyir yn unig os yw rhyw brosiect arall wedi cael ei gymeradwyo a'i fod yn mynd rhagddo.

### Cwestiwn ymgynghori 8-12.

**Cynigwn dros dro bod y dylai'r Côt gynnwys darpariaeth yn galluogi gosod amodau i'r perwyl hwn:**

- (1) **bod y gwaith a gymeradwywyd ddim yn cychwyn tan fod rhyw ddigwyddiad penodol wedi digwydd (amod *Grampian*): neu**
- (2) **bod y gwaith a gymeradwywyd ddim yn cael eu cwblhau tan:**
  - **fod cytundeb am ryw ddatblygiad arall wedi cael ei wneud; a**
  - **bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer y datblygiad y mae'r cytundeb yn darparu ar ei gyfer.**

**Ydy'r yngyngoreion yn cytuno?**

### Amodau cyn-cychwyn: egwyddor *Whitley*

- 8.106 Mae llawer o gyfreithiad, yn gyffredinol yng nghyd-destun achosion gorfodi, wedi dod yn sgil gorfodi amodau cyn-cychwyn. Y broblem sy'n codi yw pan fod datblygiad yn cychwyn heb fod y datblygwr wedi cydymffurfio ag un amod neu fwy - naill ai amodau'n gofyn bod manylion yn cael eu cymeradwyo neu eraill. Yn *Whitley v Ysgrifennydd Gwladol Cymru*, a oedd yn ymwneud â chynllun echdynnu mwynau a oedd wedi cael ei gymeradwyo yn destun amod yn gofyn bod cynllun adfer yn cael ei gymeradwyo cyn cychwyn ar yr echdynnu, nododd Woolf LJ bod "caniatâd yn cael ei

<sup>79</sup> *British Railways Board v Secretary of State* [1993] 3 PLR 125, Ty'r Arglwyddi.

reoli gan ac yn destun yr amodau” a osodir wrth ei roi, a dywedodd mai'r unig gwestiwn i'w ystyried oedd a oedd yr amodau dan sylw yn hanfodol i'r caniatâd.<sup>80</sup>

- 8.107 Mae nifer o eithriadau i'r egwyddor honno wedi cael eu hadnabod gan y llys ers hynny.<sup>81</sup> Yn *R (Hart Aggregates) v Hartlepool BC*, adolygodd Sullivan J yr awdurdodau, gan ddod i'r casgliad:

Mae amod 10 yn "gynsail amodol" yn yr ystyr bod angen cwblhau rhywbeth arall cyn gallu cychwyn echdynnu, ond nid yw'n "gynsail amodol" yn yr ystyr ei fod yn mynd i sylfaen y caniatâd cynllunio, fel bod methiant i gydymffurfio yn golygu bod rhaid ystyried yr holl ddatblygiad, hyd yn oed os caiff ei gwblhau a'i fod yn bodoli am sawl blynedd, neu yn achos echdynnu mwynau, yn parhau am 30 mlynedd, fel un anghyfreithlon.<sup>82</sup>

- 8.108 Mae'r gwahaniaeth a ragdybiwyd yn *Hart* yn aml ymhell o fod yn glir yn ymarferol. Gan hynny, nododd y Llys Apêl, yn *Greyfort Properties v Yr Ysgrifennydd Gwladol*, gan gymeradwyo'r penderfyniad yn *Hart Aggregates*:

Mae'n glir y gwrthodwyd amod 10 [yn *Hart Aggregates*] fel cynsail amodol yn ymrwymo egwyddor *Whitley* – nid oherwydd ei bod yn defnyddio'r ail set o eiriau yn hytrach na'r cyntaf, ond am y rhesymau dyfnach a esboniwyd yn faith yn y dyfarniad.<sup>83</sup>

- 8.109 Mewn geiriau eraill, nid union eiriad yr amod dan sylw yw'r mater allweddol, ond yn hytrach, i ddefnyddio ymadrodd Sullivan J, ei "bod yn mynd i sylfaen y caniatâd". Mae hwnnw'n gwestiwn y gellir ei bennu gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol yn unig.

- 8.110 Ystyriwn bod cyflwr cyfredol y gyfraith yn ddryslyd, ac y byddai'n buddio o eglurhad. Ar ben hynny, rydym yn ystyried bod hon yn broblem sy'n codi'n weddol aml yn ymarferol. Daw'n hanfodol yng nghyd-destun gorfodi, ond dylid ei datrys llawer yn gynt na hynny, ar yr adeg y roddir caniatâd am y tro cyntaf. Rydym felly wedi ystyried sut gellir esbonio'r gyfraith orau, er mwyn cynorthwyo awdurdodau cynllunio a datblygwyr.

- 8.111 Ystyriwn y gallai fod yn symlach i ymgeiswyr ac awdurdodau os oedd cynseiliau amodol "sy'n mynd i sylfaen y caniatâd" yn cael eu hadnabod fel hynny o'r cychwyn, fel bod pawb sydd ynghlwm yn gallu bod yn glir beth ddylid ei wneud, neu beth sydd angen digwydd (yn achos rhai amodau *Grampian*), cyn gellir dweud bod y datblygiad a gymeradwywyd wedi cychwyn yn gyfreithlon. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol, er enghraifft, mewn achosion o ddatblygiadau mwy. Nodwyd hefyd bod rhai awdurdodau, o leiaf yn Lloegr, bellach yn gwneud hynny, trwy ddsbarthu

---

<sup>80</sup> (1992) 64 P&CR 296, CA.

<sup>81</sup> Er enghraifft, gan yr Arglwydd Keen yn *Leisure Great Britain v Isle of Wight PLBCAA 1990* (2000) 80 P&CR 370.

<sup>82</sup> (2005) 2 P&CR 31, per Sullivan J at [59].

<sup>83</sup> [2011] EWCA Civ 908, [2012] JPL 34, yn [32]. Y ddau ffurf o eiriau oedd (1) geiriau yn mynnu bod dim datblygiad yn cael cymryd lle cyn cael cymeradwyaeth, a (2) geiriau yn mynnu bod rhaid cael cymeradwyaeth cyn i ddatblygiad cymryd lle. Fe gaeth y ddau ffurf o eiriau gael ei ystyried yn gyfatebol.

amodau a gynigir fel "gwir gysail amodol" yn rheolaidd (o'i gymharu ag "amodau cyn-cychwyn eraill"). Ond gydag arfer o'r fath, tra ei bod yn ddefnyddiol, ni ddaw gydag unrhyw hawl i apêl.

- 8.112 Byddai'n bosib angen i awdurdod cynllunio, pryd bynnag mae'n rhoi caniatâd yn amodol ar un cysail amodol neu ragor, adnabod yr holl amodau o'r fath sy'n mynd i sylfaen y caniatâd ("gwir gysail amodol"). Yn ail, byddai awdurdodau'n gallu cael pŵer yn ôl disgrisiwn (ond nid dyletswydd) i wneud hynny mewn achosion priodol. Yn drydydd, byddai'n bosib cyflwyno hawl i ymgeisydd ei wneud yn ofynnol i'r awdurdod wneud hynny mewn achos penodol.
- 8.113 Gallai'r ymagwedd gyntaf osod baich diangen ar awdurdodau cynllunio. Ystyriwn dros dro mai cyfuniad o'r ail a'r trydydd ymagwedd fyddai fwyaf priodol.
- 8.114 Byddai hefyd yn angenrheidiol cael hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn adnabod amod fel gwir gysail amodol. Gan y byddai apêl o'r fath yn debygol o fod yn destun cyfyngiad (yn debyg i'r un yn adran 73(2) yn ymwneud â dyletswyddau awdurdod wrth wneud penderfyniad ar gais i amrywio amod) ble byddai Gweinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniad ar apêl o'r fath, yn gallu ystyried statws yr amod dan sylw fel gwir gysail amodol yn unig. Ac yna byddai'r hawl arferol i herio dilysrwydd eu penderfyniad trwy wneud cais i'r Uchel Lys.
- 8.115 Rydym yn cydnabod y gallai ymddangos byddai'r cynnig hwn yn weithredol yn galluogi awdurdod cynllunio trwy gamau gweithredu gweinyddol i ddiystyru penderfyniad a fyddai'n cael ei gyrraedd gan lys o ran statws amod, pe byddai'r mater yn arwain at gyfreithiad. Fodd bynnag, dylai'r hawl i apelio i Weinidogion Cymru, ac ymlaen i'r Uchel Lys, annog awdurdodau i beidio â chategoreiddio amodau fel cysail gwir amodau.
- 8.116 Pe byddai awdurdod yn penderfynu nad oedd amod yn gysail gwir amod, ni fyddai hynny yn amodol ar hawl i apelio i drydydd parti, yn yr un modd nad yw rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar hawl i apelio. Ond byddai'n bosibl gofyn am adolygiad barnwrol ar benderfyniad o'r fath - fel gyda rhoddi caniatâd.
- 8.117 Felly rydym yn ystyried dros dro byddai'r llys yn cadw'r rheolaeth derfynol.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-13.**

#### **Ystyriwn dros dro y byddai'n ddefnyddiol:**

- (1) bod gan awdurdod cynllunio gael pŵer (ond nid dyletswydd) i adnabod o'r cychwyn yr amodau wedi'u hatodi i ganiatâd cynlluniopenodol sy'n "wir gysail amodol", sy'n mynd i wraidd y caniatâd, fel bod yn rhaid cydymffurfio â hwy cyn gallu dweud bod y caniatâd wedi cael ei roi ar waith yn gyfreithlon (yr ail gategori a nodwyd gan Sullivan J yn *Hart Aggregates v Hartlepool BC*), fel rhai ar wahân i gynseiliau amodol eraill;**

- (2) **bod gan ymgeisydd yr hawl i ofyn i awdurdod adnabod pa rai o'r amodau sy'n cyd-fynd â chaniatâd penodol sydd wedi cael ei roi sy'n wir gynseiliau amodol; ac**
- (3) **bod gan ymgeisydd, yn y naill achos a'r llall, hawl i apelio yn erbyn adnabyddiaeth o'r fath, heb roi sylwedd yr amod ei hun yn y fantol.**

**Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno? A oes unrhyw fodd arall y gellir egluro statws yr amodau cyn-cychwyn?**

### **Amodau o ran y cyfnod pryd gellir cychwyn datblygu**

- 8.118 Mae Adran 91 DCGTH 1990 yn darparu y pennir bod pob caniatâd wedi cael ei roi yn destun amod bod rhaid cychwyn y datblygiad dan sylw o fewn pum mlynedd o roi'r caniatâd, oni bai bod amod penodol yn nodi fel arall.<sup>84</sup>
- 8.119 Mae'n gyffredin gweld bod caniatâd yn cael ei roi yn amodol ar amod penodol yn nodi bod rhaid i'r datblygu gychwyn o fewn pum mlynedd, gan nodi "fel sy'n ofynnol yn ôl adran 91" fel y rheswm dros yr amod. Mae hynny'n cynrychioli camddealltwriaeth o adran 91, oherwydd nid yw'r adran yn "gofyn" am unrhyw ddyddiad cychwyn penodol, ond yn syml yn nodi pum mlynedd fel stop cefn os na bennir unrhyw gyfnod arall. Nid yw chwaith yn gyfan gwbl glir mewn rhai achosion sut mae'r darpariaethau cychwyn yn berthnasol mewn achos o ddatblygiad a fydd yn cael ei gynnal mewn mwy nag un cyfnod.
- 8.120 Ystyriwn dros dro y byddai'r sefyllfa'n gliriach pe byddai'r Bil yn nodi bod rhaid cychwyn y datblygiad erbyn y dyddiad a nodir mewn unrhyw amod perthnasol; bod rhaid cychwyn unrhyw gyfnodau erbyn y dyddiad a nodir mewn unrhyw amod sy'n berthnasol i'r cyfnod hwnnw; ac yn absenoldeb unrhyw amod o'r fath, bod rhaid cychwyn y datblygiad o fewn pum mlynedd o roi caniatâd.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-14.**

**Cynigwn dros dro bod y Bil yn esbonio:**

- (1) **bod rhaid cychwyn y datblygiad erbyn y dyddiad a nodir mewn unrhyw amod perthnasol;**
- (2) **bod rhaid i unrhyw gyfnodau gychwyn erbyn y dyddiad a nodir mewn unrhyw amod sy'n berthnasol i'r cyfnod hwnnw; ac**
- (3) **yn absenoldeb unrhyw amod o'r fath, bod rhaid cychwyn y datblygiad o fewn pum mlynedd o roi caniatâd.**

**Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?**

<sup>84</sup> Mae adran 18 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn debyg.

## Amodau penodol: tir dan reolaeth yr ymgeisydd a ddarparwyd ar eu cyfer yn (adran 72(1)(a))

- 8.121 Darperir ar gyfer rhai mathau penodol o amod yn adran 72(1) DCGTh 1990 er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth a fedrai godi fel arall o ran eu cyfreithlondeb, neu o ran pwerau awdurdod cynllunio i'w gorfodi mewn achosion o beidio â chydymffurfio.
- 8.122 Mae adran 72(1)(a) yn darparu bod awdurdod cynllunio'n gallu gosod amodau:
- i reoleiddio datblygiad neu ddefnydd unrhyw dir dan reolaeth yr ymgeisydd (boed yn dir mewn perthynas â'r cais a wnaed ai peidio) neu'n ei wneud yn ofynnol bod gwaith yn cael ei gynnal ar unrhyw dir o'r fath, i'r graddau y mae'n ymddangos yn fuddiol i'r awdurdod cynllunio at ddibenion neu mewn cysylltiad â'r datblygiad a gymeradwywyd gan y caniatâd.
- 8.123 Gall amodau o'r fath olygu bod angen gwneud gwaith ar dir arall sydd dan reolaeth yr ymgeisydd, neu bod angen rheoleiddio defnyddio tir o'r fath. Enghraifft gyffredin yw ble mae angen cadw tir sydd nesaf at fynediad arfaethedig i'r briffordd yn rhydd o adeiladau a phlanhigion yn uwch nag uchder penodol, er mwyn sicrhau llain weledol.<sup>85</sup> Er mwyn i dir fod dan 'reolaeth' yr ymgeisydd, nid oes rhaid i'r ymgeisydd o reidrwydd berchen ar ystâd neu fuddiant yn y tir.<sup>86</sup> Am y rheswm hwn, mae ymgeiswyr yn gyffredin yn cyflwyno cynllun gyda'u cais yn nodi llinell goch i ddangos ffin eu perchnogaeth, a llinell las arall yn dangos ffin eu rheolaeth.
- 8.124 Yn *George Wimpey & Co Ltd v New Forest DC*, daethpwyd i'r casgliad bod y cwestiwn a yw tir yn rheolaeth yr ymgeisydd yn gwestiwn o ffaith a graddfa i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, a'i bod yn dibynnu a oedd y rheolaeth o raddfa a math ddigonol i sicrhau bod modd cydymffurfio â'r amod. Mae'r prawf hwn yn debyg i'r prawf a ddefnyddir gan y llysoedd wrth benderfynu pwy yw'r person atebol dan Ddeddfau Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984.<sup>87</sup> Byddai felly'n bosib mewnosod darpariaeth yn y Bil sy'n esbonio bod tir ar gyfer y dibenion hynny wedi ei "reoli" gan y person sy'n meddiannu'r tir at ddibenion y Ddeddfau Atebolrwydd Meddianwyr. Fodd bynnag, byddai hynny'n debygol o achosi'r un faint o ddryswch ac o gymorth, felly nid ydym yn ei gynnig.
- 8.125 Fodd bynnag, ystyriwn dros dro y dylid cadw adran 72(1)(a) yn y Bil, er mwyn sicrhau bod dim ansicrwydd o ran pwerau awdurdod cynllunio i osod amod o'r fath mewn achosion priodol ar dir nad yw'r ymgeisydd yn berchen arno - ac, yn fwy penodol, i orfodi gofynion yr amod yn erbyn person ar wahân i'r ymgeisydd. A dylai hyn ddod gydag ailddatganiad o adran 72(3) fel y mae'n berthnasol i amodau o'r fath, gan mai amodau cyfyngedig o ran amser dan adran 72(1)(a) yw un o'r unig sefyllfaoedd ble mae adran 72(3) yn dal i fod yn berthnasol.

---

<sup>85</sup> Llethr gweledded yw'r ardal pob ochr i fynediad, heb unrhyw rhwystrau, i sicrhau bod gyrrwyr ceir sydd yn gadael y safle yn gallu gweld traffig ar yr heol y maent yn ceisio mynedu.

<sup>86</sup> [1979] JPL 313.

<sup>87</sup> *Wheat v E Lacon & Co Ltd* [1966] A.C. 552 ar [578].

- 8.126 Fel arall, gellid dadlau y byddai'n ddigonol cynnwys amod o'r fath yn erbyn yr amodau sampl sy'n destun cyfarwyddyd y Llywodraeth.<sup>88</sup>

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-15.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil, neu reoliadau dan y Bil, alluogi gosod amodau i'r perwyl y dylid rheoleiddio datblygiad neu ddefnydd tir dan reolaeth yr ymgeisydd (p'un ai bod y tir yn dir y mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar ei gyfer ai peidio) er mwyn sicrhau bod y datblygiad a gymeradwywyd yn ac yn dal i fod yn dderbyniol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Amodau penodol: caniatadau wedi eu cyfyngu gan amser (adran 72(1)(a))**

- 8.127 Yn ôl adran 72(1)(b), gall awdurdodau cynllunio osod amodau ar gyfer y canlynol:

cael gwared ag unrhyw adeilad neu waith a gymeradwywyd gan y caniatâd, neu roi terfyn ar unrhyw ddefnydd o dir a gymeradwywyd yn yr un modd, ar ddiwedd cyfnod penodol, a chynnal unrhyw waith sy'n ofynnol i adfer tir ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Dan y gyfraith gyfredol, rhaid nodi'r cyfnod gyda lefel digonol o gywirdeb os mai'r nod yw ei ystyried fel amod, yn hytrach na fel 'cyfyngiad' - mae'r gwahaniaeth yn bwysig gan fod dim modd gweithredu yn erbyn toriad o gyfyngiad.<sup>89</sup> Byddai'r anhawster hwnnw'n diflannu gan fwyaf pe byddai'r gwahaniaeth rhwng cyfyngiadau ac amodau yn cael ei ddileu, fel y cynigir uchod.<sup>90</sup>

- 8.128 Yma hefyd, ystyriwn dros dro y dylid cadw adran 72(1)(b) yn y Côd, er mwyn sicrhau bod dim ansicrwydd o ran pwerau awdurdod cynllunio i ofyn bod gwaith adfer yn cael ei gynnal - neu ei gynnwys mewn cyfarwyddyd. Eto, gallai hyn ofyn am orfodaeth yn erbyn person ar wahân i'r ymgeisydd gwreiddiol.
- 8.129 Gellid nodi y gallai amodau o'r fath fod yn arbennig o briodol mewn achosion o ganiatâd a roddwyd ar gyfer gweithrediadau mwynau; felly rydym yn dychwelyd at y rhain yn y cyd-destun hwnnw yn ddiweddarach yn y Papur Ymgynghori hwn.

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-16.**

**Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil, neu'r rheoliadau dan y Bil, alluogi gosod amodau i'r perwyl ble mae caniatâd wedi cael ei roi am gyfnod cyfyngedig, bod yr adeiladau neu waith a gymeradwywyd gan y caniatâd yn cael ei dynnu, neu bod y defnydd**

<sup>88</sup> Yn bresennol yn Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014, *Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygiad*.

<sup>89</sup> *I'm Your Man Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* [1999] PLCR 109.

<sup>90</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 8-9**.

**awdurdodedig yn cael ei ddileu ar ddiwedd y cyfnod, a bod gwaith yn cael ei gynnal ar yr adeg honno er mwyn adfer y tir.**

**Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?**

- 8.130 Rydym hefyd yn nodi bod yr hyn sydd nawr yn adran 72(3) wedi cychwyn fel adran 41(3) Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygiadau 1960, cyn i DCGTH 1968 osod cyfyngiad amser ar bob caniatâd cynllunio. Felly mae yna fathau penodol o ganiatâd sy'n dal i fodoli, a gyhoeddwyd rhwng 29 Awst 1960 (pan ddaeth Deddf 1960 i rym) a 31 Rhagfyr 1968 (y diwrnod cyn i Ddeddf 1968 ddod i rym) y mae adran 72(3) felly'n dal i fod yn berthnasol iddynt.

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-17.**

**Ystyriwn dros dro y dylai'r ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 72(3) DCGTH 1990 (o ran amodau amser-gyfyngedig) gael ei chadw yn y Côd, ond yn cael ei drafftio i egluro ei bod yn berthnasol mewn achos o**

- (1) **ganiatadau amser-gyfyngedig a gyhoeddwyd o dan yr hyn a elwir nawr yn adran 72(1)(a) , a**
- (2) **(2) mathau penodol o ganiatadau amser-gyfyngedig a gyhoeddwyd rhwng 29 Awst 1960 a 31 Rhagfyr 1968.**

**Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?**

#### **Amodau eraill sydd angen eu gorfodi yn erbyn y sawl ar wahân i'r ymgeisydd**

- 8.131 Yn ychwanegol at yr amodau a nodwyd uchod, y cyfeirir atynt yn DCGTH 1990, mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 hefyd yn darparu ar gyfer amodau y gallai fod angen eu gorfodi yn erbyn person ar wahân i'r ymgeisydd gwreiddiol. Gan hynny, mae'r Ddeddf honno yn caniatáu rhoi cydsyniad adeilad rhestredig yn destun amodau yn ymwneud â'r canlynol -
- (a) cadw nodweddion penodol o'r adeilad, naill ai fel rhan ohono neu ar ôl eu torri o'r adeilad;
  - (b) gwneud yn iawn, ar ôl cwblhau'r gwaith, unrhyw ddifrod a achoswyd i'r adeilad gan y gwaith;



- (c) ailadeiladu'r adeilad neu unrhyw ran ohono yn dilyn cwblhau unrhyw waith, gan ddefnyddio deunyddiau gwreiddiol cyhyd ag y bo hynny yn ymarferol a gydag addasiadau i'r tu mewn i'r adeilad fel y gallasant fod wedi'u nodi yn yr amodau.<sup>91</sup>

8.132 Gallai amodau o'r fath fod yn ddefnyddiol mewn achosion eraill ar wahân i'r sawl sy'n cynnwys adeiladau rhestredig; ac os yw'r Côd yn mynd i gynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol o ran mathau'r amodau y gellir eu gosod, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys y rhain.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-18.**

**Cynigwn dros dro y dylai'r Bil, neu'r rheoliadau dan y Bil, alluogi gosod amodau i'r perwyl hwn:**

- (1) bod nodweddion penodol yr adeilad neu'r tir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef yn cael ei gadw, naill ai fel rhan ohono neu ar ôl eu torri i ffwrdd ohono;**
- (2) bod unrhyw ddifrod i'r adeilad neu dir gan y gwaith a awdurdodwyd yn cael ei wneud yn iawn ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw; neu**
- (3) bod yr adeilad cyfan neu'r tir cyfan neu ranohono yn cael ei adfer yn dilyn cwblhau'r gwaith a awdurdodwyd, gan ddefnyddio deunyddiau gwreiddiol cyhyd ag y bo hynny yn ymarferol, gydga unrhyw addasiadau sydd wedi'u nodi.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Cymeradwyaeth ymgeiswyr i amodau drafft**

8.133 Noda Cylchlythyr 016/2014 y dylai awdurdodau cynllunio edrych yn ffafriol ar geisiadau gan ymgeiswyr i weld amodau drafft, oherwydd gallai fod yn bosib iddynt gyflwyno gwybodaeth bellach cyn i benderfyniad cael ei gyhoeddi a allai, o bosib, cael gwared ar yr angen am yr amod yn gyfan gwbl.<sup>92</sup> Gall ymrwymiad gydag ymgeisydd cyn cyflwyno cais ac yn ystod y broses ymgeisio leihau'r angen am amodau, er gall yr awdurdod wneud fel y gwelant orau o ran a ydynt am aros i dderbyn yr wybodaeth ychwanegol yma cyn cyhoeddi penderfyniad. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hwn yn ofyniad statudol.

8.134 Mewn ymateb i'n Papur Cwmpasu, fe dynnwyd ein sylw at bryder bod awdurdodau cynllunio'n gallu bod yn amharod i ddarparu drafft o amodau arfaethedig i ymgeiswyr, gan atal trafodaeth cyn rhoi'r caniatâd neu gymeradwyaeth i faterion a gedwir yn ôl - er y cyfarwyddyd yn y Cylchlythyr.

<sup>91</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 17(1).

<sup>92</sup> Cylchlythyr 016/2014, paragraffau 4.1-4.3.

- 8.135 Yn ei ymgynghoriad technegol ar gynllunio yn Lloegr, ymgynghorodd DCLG ar a ddylid cael gofyniad newydd i awdurdod cynllunio yn Lloegr rannu amodau drafft gydag ymgeisydd am ddatblygiad mawr cyn iddo gyrraedd penderfyniad ar y cais. Roedd cefnogaeth eang am ofyniad o'r fath, sydd eisoes ar waith mewn rhai ardaloedd. Derbyniodd y Llywodraeth bod rhannu amodau drafft mewn egwyddor yn ddymunol ond roedd o'r farn y gallai gwneud arfer o'r fath yn hanfodol ym mhob achos leihau hyblygrwydd i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio ac, os nad oedd yn cael ei wneud yn gywir, gallai hefyd arafu'r broses o wneud penderfyniadau. Daeth i'r casgliad felly bod angen ystyried y mater ymhellach.
- 8.136 Cytunwn dros dro y byddai rhannu amodau drafft yn lleihau nifer yr amodau cyn-cychwyn sydd angen eu gosod, ac y byddai'n lleihau'r angen i ymgeiswyr gyflwyno cais i amrywio neu ddileu amodau neu apelio yn eu herbyn. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryder a fynegwyd gan y Llywodraeth yn Lloegr o ran y problemau a allai ddod yn sgil gwneud arfer o'r fath yn hanfodol. Rydym felly'n ystyried dros dro y dylai barhau fel mater o gyfarwyddyd.

## CYMERADWYO MANYLION

### Y gyfraith gyfredol

- 8.137 Ble rhoddir "caniatâd llawn" (weithiau fe gyfeirir at hyn fel "caniatâd manwl"), gall fod yn destun un amod neu ragor sy'n gofyn bod manylion penodol yn cael eu cymderadwyo maes o law gan yr awdurdod cynllunio. Mae awdurdodau wedi cael eu hannog i beidio â gosod gormod o amodau o'r math hwn, ond mae'r arfer yn gyffredin er hynny. A ble mae caniatâd amlinellol wedi cael ei roi, rhaid cymeradwyo'r materion a gedwir yn ôl (yn ogystal â manylion y materion heb eu cadw yn ôl, o bosib).
- 8.138 Ym mhob un o'r achosion uchod, rhaid gwneud cais i gymeradwyo manylion - os ydynt wedi'u dosbarthu fel "materion a gedwir yn ôl" yn ffurfiol neu beidio.
- 8.139 Yn y Papur Cwmpasu, fe nodom bod amwysedd sylweddol yn ymwneud â thrin materion a gedwir yn ôl. Mewn ymateb i hyn, roedd PEBA a Persimmon yn cytuno y dylai'r Côd Cynllunio egluro diffiniad materion a gedwir yn ôl a sut dylid eu cymeradwyo, ac awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y dylai'r Côd egluro a ellir cyflwyno cais dan adran 73 a 96A DCGTH 1990 am gais materion a gedwir yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru a DCLG wedi tynnu ein sylw at bryderon yn ymwneud â hyn hefyd. Mae'r un drefn yn berthnasol i gymeradwyo materion sy'n ofynnol trwy amodau.
- 8.140 Yn benodol, ymddengys bod rhai darpariaethau yn DCGTH 1990 yn ymwneud â "cheisiadau am ganiatâd cynllunio" ddim yn ymestyn i "geisiadau i gymeradwyo materion a gedwir yn ôl", na chwaith i "geisiadau i gymeradwyo manylion sy'n ofynnol trwy amodau".<sup>93</sup> Mae P(W)A 2015 wedi cael ei drafftio i gymryd pryderon o'r fath i ystyriaeth.<sup>94</sup> Nid yw chwaith yn gwbl sicr bod yna bwerau i wneud darpariaeth trwy

<sup>93</sup> Yn benodol, DCGTh 1990, a.62.

<sup>94</sup> Gweler, er enghraifft, DCGTh 1990 a 62M(4), a fewnosodwyd gan y Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 23; a DCGTh 1990 a 100A, a fewnosodwyd gan y Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 37.

orchymyn datblygu am geisiadau i gymeradwyo materion a gedwir yn ôl - er mae gorchymyn yn gallu gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi'r caniatâd amlinellol ei hun.

- 8.141 Cynigom yn gynharach yn y Bennod hon bod y gyfraith yn cael ei symleiddio trwy gael gwared â'r gwahaniaeth gyfredol rhwng caniatâd amlinellol a chaniatâd llawn.<sup>95</sup> Os derbynnir y cynnig hwnnw ai peidio, ystyriwn bod cynhyrchu'r Côt yn darparu cyfle i egluro a symleiddio'r gyfraith mewn perthynas â cheisiadau i gymeradwyo manylion, ac er mwyn sicrhau bod yna sail statudol ar gyfer y gweithdrefnau a weithredir ar hyn o bryd (gan gynnwys apeliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau o'r fath).
- 8.142 Dylid egluro mai nid cyfle i ailystyried y cwestiwn o a yw'r datblygiad dan sylw yn dderbyniol mewn egwyddor yw gwneud penderfyniad ar gais o'r fath, ond y dylid ei seilio ar dderbynioldeb y manylion dan sylw yn unig.<sup>96</sup>
- 8.143 Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael darpariaeth ble gall awdurdod, mewn achosion priodol, roi gwybod i ymgeisydd os nad yw'n fodlon pennu un set o fanylion heb bennu ar gategori arall o fanylion sy'n weddill - er mwyn sicrhau, er enghraifft, bod manylion gwaith brics tŷ newydd ddim yn cael eu cymeradwyo heb gymeradwyo deunyddiau'r to.
- 8.144 O ystyried y pryder dealladwy o ran y potensial am oedi ar y cyfnod hwn o'r weithdrefn, ar yr olwg gyntaf gall ymddangos yn ddymunol cael terfyn amser y mae'n rhaid i awdurdod ymateb parthed cais i gymeradwyo manylion. Fodd bynnag, tra bod rhai manylion (er enghraifft, y deunyddiau i'w defnyddio mewn tŷ) yn gallu cael eu cymeradwyo'n hawdd, gall eraill (gosodiad cam adeiladu cynllun tai mawr yn y dyfodol) fod yn destun trafodaethau helaeth, gan gymryd llawer o amser.
- 8.145 Ein barn dros dro felly yw na fyddai'n briodol rhagnodi terfyn amser gorfodol, sy'n berthnasol i gymeradwyo manylion pob cais. Yn hytrach, rydym yn ystyried y dylid cadw'r sefyllfa gyfredol, lle ceir cyfnod y gallai ymgeiswyr, yn dilyn y cyfnod hwn, apelio yn erbyn y pethau y penderfynwyd yn eu herbyn, gydag awdurdodau yn medru trafod ynghlych amser ychwanegol mewn achosion priodol.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-19.**

**Ystyriwn dros dro y dylai'r Bil egluro'r gyfraith a gweithdrefnau cyfredol o ran cymeradwyo manylion a geisir gan amod i ganiatâd cynllunio, boed yn un a osodir ar gais ymgeisydd (mewn perthynas â diffyg manylion digonol yn y cais) neu'n un a symbylir gan yr awdurdod ei hun.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>95</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 8-1**.

<sup>96</sup> Fel gyda adran 73(2); gweler hefyd *Thirkell v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1978] JPL 844.

### Cwestiwn ymgynghori 8-20.

**Cynigwn dros dro bod awdurdod cynllunio, mewn achosion priodol, yn gallu gwrthod gwneud penderfyniad ar gais i gymeradwyo un mater manwl heb gael y manylion ar fater penodol arall ar yr un pryd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Hysbysu am ddatblygiad a gymeradwywyd mewn egwyddor gan orchymyn datblygu<sup>97</sup>

- 8.146 Ble caniateir datblygiad mewn categorïau penodol gan orchymyn datblygu, mae caniatâd o'r fath yn destun "gweithdrefn cymeradwyaeth ymlaen llaw". Mewn ychydig o achosion, mae amod o'r caniatâd a roddir gan y gorchymyn yn gofyn bod manylion pob cynnig yn y categori dan sylw yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio.<sup>98</sup>
- 8.147 Mae'r weithdrefn cymeradwyaeth ymlaen llaw hefyd wedi cael ei ddefnyddio yn Lloegr mewn perthynas â'r hawliau datblygiad â ganiateir a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer newid defnydd, ond nid yng Nghymru. A rhaid aros i weld pa fath o amodau, os o gwbl, bydd yn cael eu hatodi i ganiatâd a roddir gan orchymynion datblygu lleol; mae'n bosib y byddant yn cyflwyno gweithdrefn cymeradwyaeth ymlaen llaw mewn achosion penodol.
- 8.148 Ble mae'n rhaid i'r awdurdod gymeradwyo'r manylion, yna rhaid cyflwyno cais i'r awdurdod sy'n cyd-fynd yn fras â'r weithdrefn a amlinellwyd uchod.<sup>99</sup> Gan hynny bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw addasiadau a wneir i'r weithdrefn honno gan feddwl am unrhyw oblygiadau ar gyfer y weithdrefn cymeradwyaeth ymlaen llaw.
- 8.149 Amrywiaeth o hyn yw pan fod amod penodol yn gofyn bod rhaid hysbysu'r awdurdod o bob amod o'r fath, er mwyn iddo allu penderfynu fesul achos a yw'n dymuno cael cyfle i gymeradwyo'r manylion.<sup>100</sup> Mewn achosion o'r fath, gall fod yn ddefnyddiol cyflwyno terfyn amser pryd y mae'n rhaid i'r awdurdod ymateb i hysbysiad o'r fath.
- 8.150 Un model addas allai fod i hysbysu awdurdodau cynllunio o waith arfaethedig i goed mewn ardal gadwraeth (er mwyn galluogi'r awdurdod i benderfynu a yw'n dymuno gosod gorchymyn cadwraeth coed ar y coed dan sylw<sup>101</sup>). Mae hynny'n rhoi'r hawl i'r person sydd wedi hysbysu'r awdurdod i barhau â'r gwaith os nad oes ymateb wedi dod oddi wrth yr awdurdod o fewn chwe wythnos. Gellid cyflwyno gweithdrefn debyg trwy ba un fod unrhyw un sydd wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio o fwriad i gynnal datblygiad mewn categori perthnasol a ganiateir gan orchymyn datblygu yn gallu

<sup>97</sup> Dyma'r broses a elwir weithiau yn "gymeradwyaeth ymlaen llaw".

<sup>98</sup> GPDO 1995, Atodlen 2, Rhan 11 (datblygiad a ganiateir gan Ddeddf breifat ayyb); Rhan 17, Dosbarth F (piblinellau nwy), Dosbarth G (ceblau trydan); Rhannau 19, 20 (mwynau).

<sup>99</sup> Gweler **paragraffau 8.127 i 8.145**.

<sup>100</sup> GPDO 1995, Atodlen 2, Rhan 6 (amaethyddiaeth); Rhan 7 (coedwigaeth); Rhannau 22, 23 (mwynau); Rhan 24 (telegyfathrebu); Rhan 30 (tollau); Rhan 31 (dymchweliadau).

<sup>101</sup> DCGTH 1990, a 211. Gweler **para 15.120 to 15.123**.

parhau yn ddi-oed os nad oes ymateb wedi dod o'r awdurdod o fewn cyfnod a bennwyd.

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-21.**

**Cynigwn dros dro y dylai'r Bil egluro'r gyfraith a gweithdrefnau cyfredol o ran cymeradwyo manylion sy'n ofynnol oherwydd:**

- (1) **amod o ganiatâd a roddwyd gan orchymyn datblygu;**
- (2) **gofyniad a osodwyd gan awdurdod cynllunio yn dilyn hysbysiad o waith arfaethedig mewn caegori perthnasol o ddatblygiad a ganiateir gan orchymyn datblygu.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-22.**

**Ystyriwn y gallai fod yn ddefnyddiol cael terfyn amser i'r awdurdod cynllunio ymateb i hysbysiad o gynnig i gynnal datblygiad mewn categori perthnasol (er enghraifft, adeiladau ar gyfer amaethyddiaeth a'r goedwigaeth), sy'n golygu bod ymgeisydd yn gallu parhau os nad oes ymateb wedi dod i'r hysbysiad.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **AMRYWIAETHAU CANIATÂD CYNLLUNIO**

#### **Ceisiadau i amrywio caniatâd**

- 8.151 Unwaith i ganiatâd gael ei roi, a bod manylion wedi cael eu cymeradwyo ble fo angen, gall fod y datblygwr nawr yn dymuno gwneud rhywbeth gwahanol i'r hyn a ganiatawyd.
- 8.152 Ar hyn o bryd mae nifer o ffyrdd i'r awdurdod gymeradwyo addasiad i'r hyn a gymeradwywyd eisoes.
- (1) gall roi caniatâd (dan adran 96A DCGTh 1990) i gynnal datblygiad sy'n wahanol i'r datblygiad a ganiatawyd eisoes, cyhyd â bod y gwahaniaeth yn un anfaterol;
  - (2) ble mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi yn destun amodau, gall roi caniatâd (dan adran 73) i gynnal y datblygiad heb gydymffurfio â rhai o'r amodau hynny, neu bob un ohonynt - neu hyd yn oed yn destun amodau ychwanegol; a

- (3) ble mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer datblygiad sydd heb gael ei gwblhau eto, gall addasu'r caniatâd (dan adran 97).<sup>102</sup>
- 8.153 Ym mhob achos, nid yw'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer cynnig hollol newydd, ond yn hytrach am addasiad neu estyniad o ganiatâd sydd eisoes wedi ei roi.
- 8.154 Mae cais llwyddiannus dan adran 73 yn arwain at ganiatâd ychwanegol, fel bod y datblygwr yn gallu rhoi naill ai'r caniatâd gwreiddiol (am gynllun A) neu'r caniatâd addasedig (am Gynllun B) ar waith. Mewn cyferbyniad, mae cais llwyddiannus dan adran 96A yn arwain at ganiatâd amgen, i raddau bod dim modd rhoi'r caniatâd gwreiddiol ar waith bellach. Fodd bynnag, os rhoddod awdurdod ganiatâd ar gyfer datblygiad yn wreiddiol ("cynllun X"), ac yna wedi caniatáu amrywiaeth o'r caniatâd i ganiatáu cwblhau'r datblygiad ar ffurf ychydig yn wahanol ("cynllun Y"), mae'n anodd gweld pam byddai'n gwrthod dychwelyd i gynllun X.
- 8.155 Mae geiriad adran 96A yn ddefnyddiol, i'r graddau ei bod yn caniatáu i dirfeddiannwr (ond neb arall) wahodd yr awdurdod cynllunio i wneud addasiad anfaterol i ganiatâd sydd wedi cael ei roi; ond nid yw'n mynd i'r afael ag addasiad sy'n faterol, er yn fân addasiad.
- 8.156 Mae Adran 73 DCGTh 1990 yn llai defnyddiol, gan ei bod yn cyfeirio at "gais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau" yn hytrach na chais i amrywio caniatâd sydd eisoes wedi cael ei roi. Gall cais o'r fath gael ei gyflwyno gan unrhyw un, nid tirlfeddiannwr yn unig, a gall gael ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:
- (1) cais i ymestyn terfyn amser caniatâd sydd heb ddod i ben eto<sup>103</sup> ("cais adnewyddu");
  - (2) cais i wneud mân addasiadau materol i ganiatâd sydd wedi cael ei roi;
  - (3) cais i amrywio neu dynnu unrhyw amod arall.
- 8.157 Yn benodol, mae adran 71ZA (mewnosodwyd gan P(W)A 2015) yn gofyn bod pob caniatâd yn nodi'r cynlluniau neu ddogfennau eraill sy'n disgrifio'r datblygiad cymeradwy, ac yn nodi bod y caniatâd yn destun amod yn gofyn bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r dyluniadau hynny ayyb.<sup>104</sup> Mae'n dilyn bod ymgeisydd yn gallu ymgeisio dan adran 73 i addasu amod o'r fath trwy ddisodli un dyluniad neu ragor, yn y modd hwn, ac i'r un perwyl addasu'r datblygiad sydd eisoes wedi cael ei ganiatáu.
- 8.158 Ble mae caniatâd cynllunio ar fin dod i ben (neu eisoes wedi dod i ben) heb fod y datblygiad wedi cychwyn, mae'n bosib y bydd ymgeisydd yn dymuno ymgeisio i adnewyddu'r caniatâd. Mewn nifer o achosion, ffurfioldeb yn unig yw hyn. Fodd bynnag, ble mae amgylchiadau wedi newid - neu fod cynllun y datblygiad wedi cael

<sup>102</sup> Mae'r ail a'r trydydd hefyd yn berthnasol i ddiwygio cynigion lle rhoddir caniatad adeilad rhestredig yn barod (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adrannau 19 a 23).

<sup>103</sup> Ni ellir ymestyn caniatâd sydd wedi darfog gan gais dan DCGTh 1990, a.73, ond rhaid gwneud cais newydd. Gweler a 73(4).

<sup>104</sup> Ymddengys bod dim darpariaeth gyfatebol yn ymwneud â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig.

ei diweddarau - mae'n bosib bydd yr awdurdod cynllunio yn dymuno ailystyried holl egwyddor y datblygiad a gymeradwywyd, ac ymgynghori â rhanddeiliaid eto. Mae ceisiadau i adnewyddu caniatâd cynllunio felly fel arfer yn cael eu trin fel ceisiadau am ganiatâd cynllunio llawn.

### Symleiddiad posib

- 8.159 Ystyriwn dros dro y gallai fod yn well cael un weithdrefn ble gellir gwneud cais i addasu caniatâd cyfredol sydd heb gael ei roi ar waith eto (neu heb gael ei roi ar waith yn llawn). Gall yr addasiad hwnnw fod yn anfaterol, yn fân faterol neu'n faterol; a gallai fod yn berthnasol i un neu ragor o'r amodau, neu gallai fod yn berthnasol i sylwedd y datblygiad.
- 8.160 Mewn ymateb i gais o'r fath, byddai'r awdurdod yn gallu categoreiddio'r newid arfaethedig fel:
- (1) adnewyddu caniatâd sydd heb ddarod eto (yn yr achos yma bydd awdurdod fel arfer yn gallu cytuno heb unrhyw drafodaeth bellach, oni bai bod ystyriaethau materol wedi newid yn sylweddol);
  - (2) newid anfaterol i'r datblygiad a gymeradwywyd eisoes (yn yr achos yma, gellir cymeradwyo addasiad i'r caniatâd yn gyflym heb unrhyw drafodaeth bellach);
  - (3) newid materol ond mân (yn yr achos yma, mae'n bosib y bydd angen hysbysebu neu hysbysu'r cais, ond dylai'r awdurdod barhau i ystyried yr addasiad arfaethedig yn unig, yn hytrach nag egwyddor y datblygiad); neu
  - (4) newid mawr (yn yr achos yma, dylai'r awdurdod gynghori'r ymgeisydd yn brydlon i gyflwyno cais newydd, a fydd yn cael ei ystyried o'r egwyddorion cyntaf yn y modd arferol).
- 8.161 Mewn geiriau eraill, o safbwynt yr ymgeisydd, na fydd efallai'n gallu categoreiddio'r newid arfaethedig mor syml fel un mân neu un mawr, materol neu anfaterol, mae un math o gais. Ond mae'r awdurdod cynllunio yn gallu ymateb i gais o'r fath ym mha fodd bynnag y mae'n credu sy'n addas, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.
- 8.162 Yn ogystal, gall yr awdurdod mewn ambell sefyllfa fod yn fodlon gadael i'r ymgeisydd weithredu naill ai'r caniatâd gwreiddiol neu'r fersiwn a addaswyd. Felly, er enghraifft, ble roedd y lluniau a ganiatawyd yn wreiddiol yn cynnwys patrwm neilltuol o ffenestri, a bod y caniatâd a addaswyd yn nodi un arall, gall yr awdurdod fod yn fodlon gyda'r naill a'r llall. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, ble bydd gwybodaeth newydd, er enghraifft, yn awgrymu y byddai'r cynllun gwreiddiol yn anfodhaol, gall yr awdurdod fod yn fodlon caniatáu'r fersiwn a addaswyd yn unig.
- 8.163 Rydym yn cydnabod y byddai angen cymryd gofal i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y gweithdrefnau dan adran 73 a 96A. Yn benodol, byddai angen sicrhau na fydd y weithdrefn yn dod yn ddiangen o fiwrocraidaidd mewn perthynas â mân newidiadau, na chwaith yn darparu archwiliad annigonol ar gyfer newidiadau mawr.
- 8.164 Nodwn bod y *Llawlyfr Rheoli Datblygiadau* yn diffinio "mân addasiad materol" fel "un o raddfa a natur sy'n arwain at ddatblygiad sydd ddim yn sylweddol wahanol i'r hyn a gymeradwywyd." Mae hynny'n ddefnyddiol, ond nid yw'n ymddangos i gymryd y

mater ymlaen llawer. Nid ydym yn credu y dylid cynnwys diffiniad o anfaterol neu fân yn y Côd Cynllunio newydd oherwydd byddai'n well gadael i'r awdurdod cynllunio benderfynu ar y weithdrefn addas i'w dilyn.

- 8.165 Rydym hefyd yn ystyried bod yna deilyngdod i'r awgrym a dderbyniom yn yr ymgynghoriad y dylid ymestyn adran 96A (addasiadau anfaterol) i ymgeiswyr i gymeradwyo manylion. Gan hynny, er enghraifft, pan mae un math o fricsen wedi cael ei chymeradwyo, gellid ei hamnewid am un debyg yn hawdd.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-23.**

**Ystyriwn dros dro y gallai fod yn ddefnyddiol dod â'r gweithdrefnau i geisio addasiadau i ganiatâd cynllunio ynghyd, sydd ar hyn o bryd dan adran 73 a 96A DCGTh 1990, i mewn i un weithdrefn am wneud cais am unrhyw amrywiad o ganiatâd - boed yn un mân neu fawr - a bod yr awdurdod cynllunio yn gallu mynd i'r afael â hyn mewn modd addas, yn dilyn ei asesiad o fateroldeb yr addasiad arfaethedig.**

**Rydym yn rhagweld y byddai'r awdurdod yn medrau dewis caniatáu naill ai:**

- (1) y cynnig gwreiddiol a fersiwn ddiwygiedig, gyda'r ymgeisydd yn medru gweithredu'r naill neu'r llall; neu**
- (2) y fersiwn ddiwygiedig yn unig, a fyddai felly yn disodli'r gwreiddiol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Cwestiwn ymgynghori 8-24.**

**Cynigwn dros dro y dylai'r Côt Cynllunio ymestyn cwmpas adran 96A (cymeradwyo mân addasiadau) i gynnwys cymeradwyo manylion.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Amrywiaeth mewn achos brys**

- 8.166 Mae problem benodol yn gallu codi pan mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi, a bod y datblygiad cymeradwy ar fin cael ei roi ar waith - neu yn wir, eisoes wedi cychwyn - gyda chontractwyr ar y safle - a bod y datblygwr nawr yn dymuno gwneud addasiad i'r cynllun cymeradwy. Gall hyn godi o archwiliadau cyn-cychwyn ar y safle, neu wrth ddatblygu dyluniadau mwy manwl, neu o bosib yn dilyn canfyddiad ar y safle (yn enwedig mewn achosion o addasu adeilad cyfredol). Mae datblygwyr sy'n parhau heb geisio addasiad i'r caniatâd mewn peryg o dderbyn hysbysiad gorfodi; gall cais am addasiad (yn enwedig os yw'r awdurdod yn ei ystyried i fod yn anfaterol) arwain at oedi annerbyniolo; a gall barhau gyda'r cynllun fel y'i cymeradwywyd arwain at ganlyniad sy'n anfoddhaol i'r datblygwr ac eraill.



- 8.167 Mewn achosion o'r fath, bydd rhaid gwneud cais i addasu, fel yr amlinellir dan y bennawd flaenorol; ond dylai'r posibilrwydd fodoli o allu hwyluso'r weithdrefn mewn achosion priodol - o bosib yn amodol ar dalu ffi uwch.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-25.**

**Cynigwn dros dro y dylai fod gallu ar gael i hwyluso'r weithdrefn wrth wneud penderfyniad ar gais i amrywio caniatâd ble mae'r datblygiad cymeradwy eisoes ar waith.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

## **CANIATÂD CYNLLUNIO TYBIEDIG**

- 8.168 Dan adran 90 DCGTh 1990, gall adran y Llywodraeth sy'n awdurdodi prosiect dan ddeddfwriaeth heblaw am DCGTH 1990 gyfarwyddo y tybir bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi. Fodd bynnag, nid yw'r dyletswydd o ran ymgynghori â'r cyhoedd mewn perthynas ag awdurdodaeth o'r fath mor eang â'r dyletswydd gyferbyniol mewn perthynas â phrosesu ceisiadau cynllunio arferol. Ar ben hynny, penderfynwyd nad yw awdurdodaeth o'r fath yn benderfyniad dan DCGTh 1990, felly nid yw'r dyletswyddau o ran y materion i'w hystyried (dan adran 70 DCGTh 1990 ac adran 38(6) DCPG 2004) yn berthnasol yn y sefyllfa hon.<sup>105</sup>
- 8.169 Mewn ymateb i'n gwahoddiad yn y Papur Cwmpasu i awgrymu diwygiadau technegol posib, awgrymodd Richard Harwood CF y dylid diwygio adran 90 er mwyn darparu ar gyfer proses awdurdodi sydd yr un mor drwyadl (hynny yw, dylid ei wneud un unol â'r cynllun datblygu, o ran deunydd ac ystyriaethau materol eraill). Ystyriwn dros dro y byddai hyn yn synhwyrol. Fodd bynnag, ystyriwn y byddai'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymarfer gyfredol, gan y byddent yn ymestyn i faterion sydd y tu allan i allu deddfwriaethol y Cynulliad, felly nid ydym yn gwneud unrhyw gynig i ddiwygio.

## **ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

- 8.170 Ochr yn ochr â'r gofyniad arferol i gael caniatâd cynllunio i gynnal datblygiad, does dim gofyniad pellach i gynhyrchu asesiad o'r effaith amgylcheddol (EIA) mewn perthynas ag unrhyw brosiect sylweddol. I gychwyn, daeth hyn yn sgil Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd 1985, gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a ddilynodd yn adran 2 o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972. Fodd bynnag, fe gyflwynodd Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ddarpariaeth annibynnol i DCGTh 1990, fel adran 71A o'r Ddeddf honno, sy'n galluogi i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, i wneud darpariaeth am yr ystyriaeth a roddir i effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiad arfaethedig.

<sup>105</sup> *R (Samuel Smith Old Brewery (Tadcaster) Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd* [2012] 2 All ER 849.

- 8.171 Diwygiwyd Cyfarwyddeb 1985 tair gwaith ar ôl hynny, ac mae bellach wedi cael ei disodli gan Gyfarwyddeb 2011/92/EU<sup>106</sup>, sydd ei hun wedi cael ei ddiwygio gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU. Mae'r olaf yn gofyn bod deddfwriaeth ddomestig berthnasol yn nodi ei bod yn rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith.<sup>107</sup>
- 8.172 Mae adran 71A yn nodi'n glir bod rheoliadau a wneir fel rhan ohoni yn gwneud yr un ddarpariaeth neu ddarpariaeth debyg a fyddai'n ofynnol dan gyfarwyddeb berthnasol yr Undeb Ewropeaidd, neu ddarpariaeth wahanol. Y rheoliadau cyfredol sy'n berthnasol yng Nghymru yw Rheoliadau'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, a ddaeth i rym ar 16 Mai 2017.<sup>108</sup> Mae diben y system EIA yn gyffredinol, a'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau 2017, wedi'u hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.
- 8.173 Mae nifer y cynigion datblygu y mae angen EIA ar eu cyfer yn cynrychioli tua 0.1% o'r holl geisiadau cynllunio.<sup>109</sup> A thrwy ddiffiniad, y rhain yw'r rhai mwyaf sylweddol.
- 8.174 Mae rheoliadau cyfatebol wedi cael eu gwneud - yn gyffredinol ar sail Cymru a Lloegr - mewn perthynas ag amryw gategoriâu o brosiectau sydd y tu allan i gwmpas y "datblygiad", neu am ryw reswm arall, nid oes angen caniatâd cynllunio arnynt.<sup>110</sup> Maen nhw y tu allan i gwmpas yr ymarfer gyfredol hon.
- 8.175 O ganlyniad i ymadawiad ar ddod y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, bydd gofynion y cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol ddim yn berthnasol bellach maes o law. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddeddfu adran 71A, mae gofynion yr EIA eisoes ond yn berthnasol yn anuniongyrchol i ofynion deddfwriaeth Ewropeaidd; felly ni chaiff yr ymadawiad o'r UE effaith yn hyn o beth.
- 8.176 Mae'n bosib, ar rydw adeg yn y dyfodol, yn dilyn cwblhad y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd, y gallai fod yn briodol adolygu holl system yr EIA, i archwilio a yw'n synhwyrol ei gadw fel côd ar wahân yn hytrach na chyfuno'i ofynion gyda rhai'r broses gynllunio brif ffrwd; ond nid yw'r ymarfer hwn yn ymddangos fel yr amser cywir i wneud hynny.
- 8.177 Mae'r un pwynt yn debygol o fod yn berthnasol i'r asesiad o ddatblygiadau arfaethedig gan ystyried y Rheoliadau Cynefinodd, sy'n trawsosod gofynion cyfarwyddeb

---

<sup>106</sup> Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a Chyngor 13 Rhagfyr 2011 ar asesiad effaith prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd.

<sup>107</sup> Cyfarwyddeb 2014/52/EU, art 2(1) (gweler hefyd Cyfarwyddeb 2011/92/EU, art 13); gweler rhagymadrodd Rheoliadau TCP (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

<sup>108</sup> Fe fydd rheoliadau 2017 yn parhau i fod yn berthnasol mewn amgylchiadau penodol, yn bennaf mewn perthynas a mwynau.

<sup>109</sup> Memorandwm Esboniadol i Reoliadau TCP (EIA) 2017. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i Loegr yn unig, ond does dim rheswm i feddwl y byddai unrhyw wahaniaeth mawr yng Nghymru.

<sup>110</sup> Ffermio pysgod, coedwigaeth, draenio tir, datgomisiynu adweithyddion niwclear, echdynnu petroliwm ar y môr, piblinellau nwy, gwaith harbwr, a phrosiectau eraill yn ymwneud â thrydan, piblinellau ac adnoddau dŵr.

berthnasol yr Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth ddomestig. Eto, nid dyma'r amser cywir i gynnal adolygiad trylwyr o'r Rheoliadau hynny.

### Pwyntiau manwl

- 8.178 Yn y cyfamser, fe gododd ymatebion i'r Papur Cwmpasu rai materion o fanylion yn ymwneud ag asesiad amgylcheddol. Awgrymon nhw eglurhad o ran, o dan y rheoliadau EIA mewn grym ar y pryd, a oedd angen rhagor o gyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad cyhoeddus pan roedd datganiad amgylcheddol a ddarparwyd eisoes yn parhau i fod yn addas i'r diben. Trafodwyd y pwynt hwn gyda rheoliad 17 o Reoliadau 2017.
- 8.179 A gallai'r pwynt a wnaethpwyd isod<sup>111</sup> o ran yr angen am eglurhad am y gofynion gweithdrefnol yn ymwneud â cheisiadau am ddatblygu ar dir yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr gael grym penodol ble mae'r datblygiad yn debygol o gael effeithiau sydd angen eu hasesu dan y Rheoliadau EIA.
- 8.180 Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd y gellid addasu'r DMP(W)O i egluro'r gofynion i ystyried gwybodaeth amgylcheddol dan y Gorchymyn a'r Rheoliadau EIA.
- 8.181 Ymddengys bod y rhain yn bwyntiau synhwyrol, ac mai'r amser gorau i fynd i'r afael â hwy fyddai pan fydd y Gorchymyn a Rheoliadau 2017 yn cael eu haddasu neu eu hamnewid nesaf.

### GALW CEISIADAU I MEWN GAN WEINIDOGION CYMRU

- 8.182 Mae gan Weinidogion Cymru'r grym, dan adran 77 DCGTH 1990, i gyfarwyddo bod ceisiadau cynllunio a cheisiadau eraill yn cael eu cyfeirio atynt iddynt allu gwneud eu penderfyniad eu hunain. Bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn galw cais i mewn dim ond os ydynt yn credu bod yna broblemau cynllunio o fwy o bwysigrwydd na phwysigrwydd lleol.<sup>112</sup> Gellir rhoi cyfarwyddiadau o'r math hyn naill ai i awdurdod penodol neu i awdurdodau cynllunio yn gyffredinol, a gallant ymwneud naill ai â chais penodol neu â cheisiadau o ddosbarth penodol. Dros y dair blynedd a aeth heibio, cafodd dau gais, ar gyfartaeldd, eu galw i mewn pob blwyddyn.<sup>113</sup>
- 8.183 Yn gyffredinol, rydym wedi cynnig bod gofynion o ran sut dylid mynd i'r afael â chategoriâu penodol o geisiadau yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau, i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd<sup>114</sup>; ond y dylai gofyniad yn ymwneud ag achos penodol fod mewn cyfarwyddyd. Yn unol â'r ymagwedd honno, ystyriwn dros dro y dylai Gweinidogion Cymru gael grymoedd:

---

<sup>111</sup> Gweler **paragraffau 8.139 a 8.194**.

<sup>112</sup> Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 9). Mae ganddynt rym tebyg o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 12, sy'n eu caniatáu i alw mewn ceisiadau LBC a CAC ar gyfer gwneud penderfyniadau amdanynt.

<sup>113</sup> Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

<sup>114</sup> Gweler **para 4.49**.

- (1) i wneud rheoliadau yn gofyn bod categorïau penodol o geisiadau'n cael eu cyfeirio atynt, er mwyn iddynt ystyried a ddylid galw unrhyw gais penodol i mewn; a
  - (2) i wneud cyfarwyddyd yn gofyn bod cais penodol yn cael ei gyfeirio, er mwyn iddynt allu ystyried a ydynt am ei alw i mewn neu beidio.
- 8.184 Yn y naill achos neu'r llall, bydd angen i'r awdurdod wybod am y gofyniad i gyfeirio cais cyn iddo gyrraedd penderfyniad terfynol ar y cais; ond bydd yr atgyfeiriad ei hun yn digwydd ar ôl i'r awdurdod fynd trwy'r holl broses o hysbysu ac ymgynghori, a chyrraedd ei farn ei hun.
- 8.185 Pwysleisiwn bod y grym arfaethedig hwn i wneud rheoleiddiadau yn cael ei gynnig yn lle'r grym cyfredol i wneud cyfarwyddyd cyffredinol.<sup>115</sup> Rydym yn rhagweld y byddai'n cael ei ddefnyddio ble, fel mater o bolisi, mae Gweinidogion bob amser neu'n aml yn galw i mewn geisiadau o gategori penodol (er enghraifft, adeiladau mwy na maint penodol yn y llain las). Byddent felly yn gallu nodi rheoliadau y dylid eu hysbysu am geisiadau o'r fath, fel bod datblygwyr - a phartïon eraill â diddordeb - yn gallu gwybod ymlaen llaw y bydd angen cyfeirio'r cais, ac y gallai gael ei alw i mewn. Ond byddai'r grym i wneud cyfarwyddyd achos-penodol yn parhau mewn lle a gellid ei ddefnyddio mewn perthynas ag achosion penodol.
- 8.186 Doedd dim sôn yn benodol am bwerau galw i mewn yn y Papur Cwmpasu, ond nododd un ymgynghorai y dylai'r ddyletswydd i hysbysu'r ymgeisydd bod cais wedi cael ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru fod arnyn nhw, a nid gyda'r awdurdod cynllunio. Cytunwn y byddai hyn yn rhoi cysondeb i'r weithdrefn galw i mewn. Byddai dyletswydd o'r fath ond yn gymwys ble caiff cais ei alw i mewn, nid yn unig ble caiff y cais ei gyfeirio yn y lle cyntaf at Weinidogion Cymru.
- 8.187 Mae grym Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio fel arfer yn cael ei weithredu ar gyfer datblygiadau mawr; dyma thema'r Bennod nesaf.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-26.**

**Cynigwn dros dro y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau i wneud y canlynol:**

- (1) **gwneud rheoliadau yn ei wneud yn ofynnol eu bod yn cael eu hysbysu am geisiadau mewn categori penodol, a**
- (2) **gwneud cyfarwyddyd yn ei wneud yn ofynnol bod cais o'r fath yn cael ei hysbysu yn yr un modd,**

**er mwyn iddynt allu penderfynu a ydynt am ei alw i mewn i wneud penderfyniad.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>115</sup> Defnyddir fwyaf ddiweddar trwy gyhoeddiad Cyfarwyddiad TCP (Hysbysebiad) (Cymru) 2014, fel atodiad i Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 07/12.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-27.**

**Cynigwn dros dro, ble mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu galw i mewn cais am ganiatâd cynllunio, mai nhw (yn hytrach na'r awdurdod cynllunio, fel sy'n digwydd nawr) ddylai fod yn gyfrifol am hysbysu'r ymgeisydd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **CEISIADAU CYNLLUNIO: PWYNTIAU AMRYWIOL**

### **Manylion gweithredol i'w symud o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth**

- 8.188 Rydym eisoes wedi nodi y byddai'n ymddangos yn fwy addas yn gyffredinol bod manylion y weithdrefn yn cael eu rheoli gan reoliadau, yn hytrach na gan orchymyn.<sup>116</sup> Mae llawer pwynt tebyg wedi ymddangos yng nghwrs ein gwaith.
- 8.189 Yn gyntaf, mae adran 71(3) DCGTh 1990 yn gofyn, cyn bod awdurdod cynllunio yn rhoi caniatâd cynllunio i ddefnyddio tir ar gyfer safle carafanau, y dylai ymgynghori â'r awdurdod lleol gyda grym i gyhoeddi trwydded ar gyfer y tir hwnnw, oni bai bod ganddo'r grym hwnnw ei hun. Ystyriwn fod y lefel hon o fanylion yn ddiangen yn wyneb y Bil Cynllunio. Gellir mynd i'r afael â gofyniad i ymgynghori ag awdurdod trwyddedu safleoedd carafanau yn DMP(W)O os oes angen.
- 8.190 Yn ail, mae adran 71ZB DCGTh 1990, a 71ZB (a fewnosodwyd gan adran 33 DC(C)) 2015) yn gofyn bod person sydd yn bwriadu cyflawni datblygiad sydd wedi ei gymeradwyo yn rhoi gwybod i'r awdurdod cynllunio cyn dechrau, a rhaid arddangos copi o'r caniatâd tra bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen.
- 8.191 Rydym yn ystyried dros dro bod hyn hefyd yn ofyniad gweithredol manwl fyddai'n fwy addas wedi ei ymgorffori mewn is-ddeddfwriaeth nag yn y Ddeddf ei hun.
- 8.192 Rydym yn cydnabod y gall y newidiadau hyn alw am fân addasiadau i'r Biliau er mwyn sicrhau grym galluogi priodol.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-28.**

**Ystyriwn dros dro na ddylai'r darpariaethau canlynol sydd ar hyn o bryd yn y DCGTh 1990 gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio, ond bod darpariaethau cyfwerth yn cael eu cynnwys yn y DMP(W) 2012 os tybir bod hyn yn hanfodol:-**

**(1) adran 71(3) (ymgynghoriad ynghylch safleoedd carafanau); ac**

**(2) adran 71ZB (hysbysu datblygiad cyn iddo ddechrau, ac arddangos caniatâd tra bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen).**

<sup>116</sup> Gweler para 4.49.

## Ydy'r ymgylchoreion yn cytuno?

### Darpariaeth newydd mewn is-ddeddfwriaeth

- 8.193 Roedd y sawl oedd wedi ymateb i'r Papur Cwmpasu wedi awgrymu y medrid egluro'r gyfraith ynghylch trin ceisiadau ar gyfer datblygiad ar dir sy'n lledu'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ymddengys bod hyn yn ddim mwy nag enghraifft o'r problemau allai godi pan gynigir datblygiad ar dir sy'n lledu'r ffin rhwng dau awdurdod lleol.
- 8.194 I'r graddau bod angen gwneud darpariaethau arbennig, mae hyn yn fater y dylid delio ag ef yn yr is-ddeddfwriaeth perthnasol - yn benodol DMP(W)O 2012 - pan gaiff ei ddiweddarau nesaf.

### Darpariaethau sydd yn ôl pob golwg yn ddiangen

- 8.195 Mae nifer o ddarpariaethau sydd yn ôl pob golwg yn ddiangen o fewn DCGTH 1990; rydym yn ystyried dros dro nad oes angen eu hailddatgan yn y Bil.

#### *"Cychwyn" datblygiad*

- 8.196 Roedd adran 56(1) DCGTh 1990 yn ymwneud â "cychwyn" datblygiad, term a ddefnyddiwyd yn Rhan 5 DCGTh 1990 yn unig, yn ymwneud â digolledu. Cafodd y Rhan hon ei dirymu gan PCA 1991, a dylai adran 56(1) fod wedi cael ei dirymu ar yr un pryd. Gan hynny, nid oes angen ei hailddatgan yn y Bil newydd.

#### *Ceisiadau cynllunio ar gyfer ysbytai preifat.*

- 8.197 Mae adran 70(3) DCGTh yn darparu bod y grym i roi neu i wrthod caniatâd cynllunio i'w weithredu yn amodol ar adran 15 Deddf Gwasanaethau Iechyd 1976. Roedd y ddarpariaeth honno yn gofyn am awdurdodiad gan y llywodraeth am geisiadau cynllunio ar gyfer ysbytai preifat.<sup>117</sup> Cafodd ei ddiddymu gan adran 63 Deddf Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymunedol 1990; ac roedd y Ddeddf honno yn ei thro wedi gael ei diddymu i raddau helaeth gan Deddf Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2006. Nid oedd naill ai Deddf 1990 na Deddf 2006 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth gyfwerth ag adran 15 Deddf 1976.
- 8.198 Felly nid oes bellach angen y cyfeiriad at yr olaf yn adran 70 DCGTh 1990, ac ni fydd angen ei ailddatgan yn y Cod Cynllunio.

### Datblygiad nad sy'n unol â'r cynllun datblygu

- 8.199 Mae adran 74(1)(b) DCGTh 1990 yn gwneud darpariaeth am orchymyn datblygu i reoleiddio rhoi caniatâd cynllunio am ddatblygiad nad sy'n unol â'r cynllun datblygu. Mae erthygl 20 DMP(W)O 2012 yn gwneud darpariaethau o ran hyn.<sup>118</sup>

<sup>117</sup> Gweler Adran yr Amgylchedd, Cylchlythyr 2/81, Atodiad E.

<sup>118</sup> Mae erthygl 20 y DMP(W)O 2012, a wnead o dan y pŵer yma, yn darparu ar gyfer hyn.

- 8.200 Mae adran 70 DCGTh 1990 yn rheoleiddio'r materion sydd i'w cymryd i ystyriaeth gan awdurdod sy'n gwneud penderfyniad ar gais cynllunio.<sup>119</sup> Tra bod y cynllun datblygu yn ddigyffelyb ymysg y rheini, does dim byd yn yr adran honno sy'n cyfyngu gallu'r awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad ar geisiadau mewn modd sy'n anghyson gyda'r cynllun datblygu, ble mae ystyriaethau perthnasol yn dynodi y byddai hyn yn briodol.
- 8.201 Mae'n dilyn bod adran 74(1)(b) yn ddiangen; ac ystyriwn dros dro nad oes angen ei hailddatgan yn y Cod.

#### *Awdurdodau yn delio gyda cheisiadau*

- 8.202 Mae Adran 74(1A) DCGTh 1990, a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, yn darparu y gall gorchymyn datblygu ragnodi "y sawl mae'r ceisiadau i'w hanfon atynt". Mae'n ymddangos bod hyn yn berthansol i sefyllfa lle mae system dwy-haen o lywodraeth leol, fel bod modd anfon rhai categorïau o geisiadau at awdudrodau sirol neu ardal.
- 8.203 Mae'n dilyn bod adran 74(1A) yn ddiangen mewn perthynas â Chymru, a bod dim angen ei hailddatgan yn y Bil.

#### *Cyfleusterau ar gyfer pobl anabl*

- 8.204 Roedd adran 76 DCGTh 1990 (dyletswydd i dynnu sylw at ddarpariaethau penodol er budd pobl anabl) i fod i gael ei dirymu gan Atodlen 6 i DCPG 2004. Nid yw adran 6 wedi dod i rym eto; ond mae Atodlen 9 i DCPG 2004 (dirymiadau) mewn grym. Beth bynnag, mae adran 76 i bob diben wedi cael ei drechu gan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010; ac rydym eisoes wedi cynnig y dylai cyfarwyddyd dynnu sylw at Ddeddf 2010.
- 8.205 I'r graddau ei bod heb gael ei dirymu eto, felly, nid oes angen ailddatgan adran 76 yn y Bil.

#### **Ceisiadau am ganiatadau eraill**

- 8.206 Mae adran 332 DCGTh yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i alluogi cais cynllunio i greu casi dan rhyw weithdrefn arall (er enghraifft, rheoliadau adeiladu). Mae darpariaethau eraill digon tebyg wedi eu cynnwys ym mhob Deddf gynllunio ers 1947.<sup>120</sup>
- 8.207 Ymddengys nad oes unrhyw reoliadau dan y ddarpariaeth hon na'r un o'r rhai blaenorol erioed wedi eu gwneud yng Nghymru a Lloegr. Cynigiwn dros dro bod y ddarpariaeth yn ddiangen ac na ddylid ei hailddatgan yn y Bil.

---

<sup>119</sup> Gweler **para 5.16**.

<sup>120</sup> Gweler, er enghraifft y DCGTH 1947, a 102.

### **Cwestiwn ymgynghori 8-29.**

**Cynigwn dros dro nad yw'r ddarpariaeth ganlynol sydd ar hyn o bryd yn DCGTH 1990, sydd yn ymddangos yn ddiangen (o leiaf mewn perthynas â Chymru) yn cael ei hailddatgan yn y Bil:**

- (1) adran 56(1) (yn cyfeirio at gychwyn datblygiad);**
- (2) yn adran 70(3), y cyfeiriad at Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1976 (ceisiadau ar gyfer ysbytai preifat);**
- (3) adran 74(1)(b) DCGTH 1990 ( i ddarparu ar gyfer rhoi caniatâd i gynigion nad ydynt yn unol â'r cynllun datblygu);**
- (4) adran 74(1A) (ceisiadau cynllunio sydd yn cael eu trafod gan wahanol fathau o awdurdod cynllunio);**
- (5) adran 76 (dyletswydd i dynnu sylw at rai darpariaethau er budd pobl anabl); ac**
- (6) adran 322 (grym Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y dylid trin ceisiadau cynllunio fel ceisiadau dan ddeddfwriaeth arall hefyd).**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**



## Pennod 9: Ceisiadau i Weinidogion Cymru

### CYFLWYNIAD

- 9.1 Mae ceisiadau cynllunio, a cheisiadau am gymeradwyo manylion, yn cael eu gwneud fel rheol i awdurdodau cynllunio – fel y disgrifir yn y Penodau blaenorol. O dan amgylchiadau eithriadol, gallant gael eu galw i mewn gan Weinidogion Cymru. Er hynny, ceir sawl sefyllfa lle mae ceisiadau yn gallu, neu yn gorfod, cael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.
- 9.2 Yn gyntaf, cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (DC(C) 2015) weithdrefn lle gallai ceisiadau am ddatblygiad gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn yr ardaloedd awdurdodau cynllunio a fyddai'n tanberfformio. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gael bellach yn adrannau 62M i 62O DCGTh 1990. Mae hyn yn debyg i'r weithdrefn gyfatebol yn Lloegr o dan adrannau 62A i 62C, ond heb fod yr un fath yn union.
- 9.3 Yn ail, rhaid i geisiadau am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNSs) gael eu gwneud i Weinidogion Cymru, o dan weithdrefn newydd sydd i'w chael yn adrannau 62D i 62L DCGTh 1990, hwythau hefyd wedi'u cyflwyno gan DC(C) 2015. Does dim gweithdrefn gyfatebol yn Lloegr.
- 9.4 Ystyriwn bob un yn ei dro, gan gyfeirio'n fyr hefyd at weithdrefnau arbennig eraill ar gyfer ymdrin â phrosiectau seilwaith mawr – comisiynau ymchwiliadau cynllunio ac ymchwiliadau seilwaith mawr eraill.
- 9.5 Yn drydydd, caniateir i geisiadau brys am ddatblygiadau gan y Goron gael eu gwneud i Weinidogion Cymru, o dan adran 293A o DCGTh 1990.<sup>1</sup>

### CEISIADAU YN ARDALOEDD AWDURDODAU CYNLLUNIO SYDD YN TANBERFFORMIO

- 9.6 Mewnosododd adran 23 DC(C) 2015 opsiwn i ymgeiswyr o dan amgylchiadau penodol ddewis gwneud ceisiadau yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i'r awdurdodau cynllunio.<sup>2</sup> Mae hyn yn gwbl wahanol i'r darpariaethau, a ystyrir isod, ynghylch ceisiadau am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, er bod y ddwy set o ddarpariaethau deddfwriaethol wedi'u cyflwyno gan yr un Rhan o DC(C) 2015.
- 9.7 Bydd y weithdrefn newydd yn gymwys pan fod awdurdod cynllunio wedi ei ddynodi fel un sydd yn tanberfformio, yn unol â meini prawf sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 62N y DCGTh 1990. Yn ardal awdurdod o'r fath, mewn rhai achosion bydd gan ymgeisydd yr opsiwn o wneud cais am ganiatâd cynllunio, ac unrhyw gais perthynol am fathau eraill o gydsyniad (megis caniatâd adeilad rhestredig) yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn osgoi'r oedi a

---

<sup>1</sup> Gweler **para 18.46**.

<sup>2</sup> Yn effeithiol o 6 Mehefin 2015 am y pwrpas o greu rheoleiddiau (DC(c) 2015, a 58(2)(b)), ond heb effaith am unrhyw bwrpas arall.

allai ddigwydd drwy wneud cais i'r awdurdod ac wedyn apelio yn erbyn diffyg penderfyniad.

- 9.8 Nid yw'r weithdrefn wedi'i dwyn i rym yn llawn eto; a does dim is-ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i chynhyrchu. Ond mae'n weddol debyg i'r weithdrefn gyfatebol a gyflwynwyd o ran Lloegr gan Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 ac a ddiwygiwyd yn ddiweddar gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016.<sup>3</sup> Rheoleiddir y weithdrefn yn Lloegr yn fanwl gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn a Diwygiadau Canlyniadol) 2013, sydd yn y bôn yn fersiwn â diwygiadau priodol o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2015. Rhagdybir y caiff Gorchymyn tebyg ei gyflwyno yng Nghymru pan ddaw'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol i rym yn llawn.
- 9.9 Cyfyngodd y ddeddfwriaeth yn Lloegr y weithdrefn newydd i ddatblygiadau mawr yn unig ond cafodd ei diwygio wedyn fel ei bod yn gymwys i unrhyw ddatblygiad a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.<sup>4</sup> Yn yr un modd, yng Nghymru dim ond i ddatblygiad o ddisgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru y mae'r weithdrefn yn gymwys;<sup>5</sup> er bod yna ddisgwyl yn wreiddiol y câi ei chyfyngu i "ddatblygiadau mawr" fel y'u diffinnir yn Ngorchymyn Gweithdrefn Reoli Datblygu (Cymru) (DMPWO) 2012.<sup>6</sup>
- 9.10 Mae'n ymddangos bod y rheswm dros gyflwyno'r weithdrefn gyfatebol yn Lloegr wedi'i fodloni, yn yr ystyr bod awdurdodau cynllunio Lloegr yn penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau mawr yn gynt nag o'r blaen.<sup>7</sup> Ac ychydig yn unig o geisiadau sydd wedi'u gwneud i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y weithdrefn mewn gwirionedd.
- 9.11 Nid ydym wedi gweld unrhyw le ar gyfer diwygiadau technegol yn y gyfraith a geir ar hyn o bryd yn adrannau 62M i 62O DCGTh 1990, heblaw ei haddasu lle bo'n briodol i gymryd ein cynigion yn y Penodau blaenorol i ystyriaeth.

### **Cwestiwn ymgynghori 9-1.**

**Ystyriwn dros dro y dylai adrannau 62M i 62O DCGTh 1990, yn galluogi cais cynllunio i gael ei wneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ardaloedd awdurdod cynllunio sy'n tanberfformio, gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol i adlewyrchu'n cynigion ym Mhenodau 7 ac 8.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>3</sup> Mae yn nodedig bod darpariaethau Saesneg yn rhoi terfynau ar y gweithdrefnau sydd ar gael o dan adran 62A am yr awdurdodau sydd yn "tanberfformio" – mae'r cyfraith Cymraeg ond yn gofyn iddynt i gyrrhaedd y meini prawf cyhoeddedig, heb ddatgan sail y meini prawf (DCGTH 1990, a 62N).

<sup>4</sup> DCGTh 1990 a 62A, a ddiwygiwyd gan y Ddeddf Tai a Chynllunio 2017.

<sup>5</sup> DCGTh 1990 a 62M(3).

<sup>6</sup> DMPWO 2012, erth 2(1); gweler Nodyn Esbonio y DC(C) 2015, para 100.

<sup>7</sup> HC Hansard, 22 Tachwedd 016, Cyf 617, Col 28WS.

## DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL

### Caniatâd datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol

- 9.12 Cyflwynodd Deddf Cynllunio 2008 system newydd ar gyfer cymeradwyo prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ("NSIPs"). Yn lle cyflwyno cais cynllunio, roedd y rhai a oedd yn hybu prosiect o'r fath i fod i gyflwyno cais am "ganiatâd datblygu" o dan Ddeddf 2008, a gâi ei benderfynu gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Nid math o ganiatâd cynllunio yw'r broses caniatâd datblygu, ond yn hytrach math cwbl newydd o gydsyniad statudol sy'n awdurdodi'r prosiect cyfan. Mae caniatâd datblygu'n drech na'r angen am unrhyw gydsyniad neu ganiatâd arall y byddai ei angen fel arall.<sup>8</sup>
- 9.13 Cafodd y Comisiwn ei ddiddymu wedyn gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, a drosglwyddodd y cyfrifoldeb dros benderfynu ar geisiadau am ganiatâd datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol (nid Gweinidogion Cymru). Yn ymarferol maent yn cael eu trin bellach gan yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr yn yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n penodi arolygydd i gynnal gwrandawriad a chyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.
- 9.14 Mae Deddf 2008 yn pennu categorïau o brosiectau y mae angen caniatâd datblygu ar eu cyfer.<sup>9</sup> O'r rhain, ar ddyddiad yr adroddiad hwn, dim ond pump sy'n ymwneud â datblygu yng Nghymru –
- (1) adeiladu neu ymestyn gorsaf cynhyrchu trydan
    - sydd â allu o fwy na 50 MW (ar y tir) neu 100 MW (yn y môr), neu
    - nad yw'n cynhyrchu trydan o'r gwynt, beth bynnag fo'i chapasiti;
  - (2) gosod llinell drydan uwchben y ddaear;
  - (3) datblygiad sy'n ymwneud â storio nwy o dan ddaear mewn haenau hydraidd naturiol gan gludwyr nwy,
  - (4) adeiladu piblinell (heblaw gan gludwr nwy), ac
  - (5) adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr.<sup>10</sup>

### Caniatâd cynllunio i ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru

- 9.15 Ar gyfer mathau eraill o brosiectau datblygu mawr yng Nghymru, cyflwynwyd gweithdrefn – nad oedd gweithdrefn gyfatebol iddi yn Lloegr – lle byddai caniatâd cynllunio'n dal yn angenrheidiol, ond bod hwnnw i'w geisio drwy gyfrwng cais yn

---

<sup>8</sup> Deddf Cynllunio 2008, a 33.

<sup>9</sup> Deddf Cynllunio 2008 adrannau 14 i 30A 2015, OS 949.

<sup>10</sup> Deddf Cynllunio 2008, adrannau 15, 16, 17, 21 a 24, yn amodol ar ddiwygiadau yn Neddf Cymru 2017. Nid yw'r diwygiadau mewn grym eto.

uniongyrchol i Weinidogion Cymru.<sup>11</sup> Yn sgil diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Cymru 2017, sydd i ddod i rym yn 2018, mae'r categorïau datblygu sy'n berthnasol ("datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol" neu "DSNs"), yn fyr, fel a ganlyn:

- (1) adeiladu, ymestyn neu addasu gorsaf cynhyrchu trydan, heblaw gorsaf cynhyrchu gwynt ar y môr, ac iddi allu rhwng 10 a 50 MW
  - (2) adeiladu, ymestyn neu addasu gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir ac iddynt allu o fwy na 10 MW;
  - (3) datblygiad yn ymwneud â chyfleusterau storio nwy mewn tyllau neu mewn haenau hydraiddd naturiol cyhyd ag y bodlonir amodau;
  - (4) adeiladu neu addasu cyfleuster LNG, gan ddibynnu ar drothwyon cyfaint;
  - (5) adeiladu neu addasu cyfleuster derbyn nwy ac iddo gyfradd lifo uchaf o 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf;
  - (6) datblygiad yn gysylltiedig â maes awyr, gan ddibynnu ar drothwyon capasiti;
  - (7) adeiladu neu addasu rheilffordd hirach na 2km;
  - (8) adeiladu neu addasu cyfnewidfa nwyddau rheilffyrdd;
  - (9) adeiladu neu addasu argae neu gronfa ddŵr yn dal o leiaf 10 miliwn metr ciwbig o ddŵr;
  - (10) datblygiad yn ymwneud â throsglwyddo adnoddau dŵr pan fo cyfaint y dŵr a drosglwyddir yn fwy na 100 miliwn metr ciwbig o ddŵr y flwyddyn;
  - (11) adeiladu neu addasu safle trin dŵr gwastraff neu seilwaith at drosglwyddo dŵr gwastraff, gan ddibynnu yn y naill achos a'r llall ar drothwyon cyfaint; a
  - (12) adeiladu neu addasu cyfleuster gwastraff peryglus, gan ddibynnu ar drothwyon cyfaint.<sup>12</sup>
- 9.16 Cyflwynwyd y system newydd gan Ran 5 o DC(C) 2015, a fewnosododd adrannau 62D i 62L yn DCGTH 1990, a ddaeth i rym yn llawn yng Nghymru ar 1 Mawrth 2016. Fel y gellid disgwyl, ategir y rhain gan nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth – yn benodol Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 – sy'n darparu ar gyfer manylion y weithdrefn.<sup>13</sup>
- 9.17 Mae hyn yn gofyn bod rhaid cael cyhoeddusrwydd ac ymgynghori helaeth ynglŷn â chynnig cyn gwneud cais; a bod y cais yn cynnwys gwybodaeth ategol hyd at lefel

---

<sup>11</sup> DCGTh 1990, a 62D, a ychwanegwyd gan DC(C) 2015, a 19.

<sup>12</sup> DCGTh 1990 a 62D(3); DSNau Rheoliad (Meini Prawf Penodedig a Chaniatadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2015 (OS 53), a ddiwygiwyd gan OS 358 2916. Fe fydd y gwahaniaeth rhwng y mathau o orsafoedd cynhyrchu trydan sydd yn NSIP (ac sydd hefyd yn DSN) yn newid ar ôl i'r darpariaethau perthnasol dod i rym.

<sup>13</sup> OSau 2016 – 57 a 358.

briodol o fanylder (gan gynnwys datganiad dylunio a datganiad mynediad a, rhan amlaf, Asesiad Effaith Amgylcheddol).<sup>14</sup> Bydd arolygydd yn cymryd deunydd ysgrifenedig i ystyriaeth, yn cynnal ymchwiliad (lle bo'n briodol), ac yn ysgrifennu adroddiad i Weinidogion Cymru gyda chasgliadau a'r dystiolaeth. Wedyn bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi penderfyniad rhesymedig o fewn y terfynau amser rhagnodedig.

- 9.18 Gan hynny, diweddar iawn yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol, a gallai gael ei diwygio neu ei disodli maes o law, yng ngoleuni'r profiad a geir wrth i'r system newydd gael ei defnyddio'n ymarferol, ac er mwyn cymryd y newidiadau mewn deddfwriaeth a gyflwynir gan Ddeddf Cymru 2017 i ystyriaeth. Oherwydd hyn, mae'n cynigion ni wedi'u cyfyngu i ambell bwynt manwl sydd wedi dod i'r amlwg.

### Ceisiadau amlinellol

- 9.19 Rhaid i gais i Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn newydd ynglŷn â DNSs gynnwys digon o ddeunydd i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig.<sup>15</sup> Mae hyn yn debyg i'r gofyniad ynglŷn â cheisiadau i'r awdurdod cynllunio a nodwyd yn y Bennod flaenorol.<sup>16</sup> Ymhellach, mae adran 62D(5) o DCGTh 1990 yn darparu na chaniateir rhoi caniatâd cynllunio amlinellol o dan y weithdrefn newydd ynglŷn â DNSs. Y rheswm am hyn yw sicrhau bod gan y gymuned ddigon o sicrwydd ynghylch natur ac effaith yr hyn sy'n cael ei gynnig.
- 9.20 Bydd rhaid i'r ailddatganiad o adran 62D(5) yn y Bil gael ei ystyried yng ngoleuni'n cynigion ni yn y Bennod flaenorol ynghylch caniatâd cynllunio amlinellol o blaid rhoi caniatâd o dan amodau mewn achosion priodol gan gadw rhai o'r manylion i'w cymeradwyo yn y dyfodol.<sup>17</sup>

### Amrywio caniatadau DSNs

- 9.21 Effaith gyfun adran 62D(6) a (7) o DCGTh 1990 a rheoliad 51 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2017 yw bod cais yn gallu cael ei wneud at ei gilydd i'r awdurdod cynllunio (yn hytrach na Gweinidogion Cymru) i amrywio'r amodau mewn caniatâd cynllunio sydd eisoes wedi'i roi ar gyfer DNS. Yr unig eithriad i hyn yw bod rhaid i gais am amrywio amod ynglŷn â therfyn amser, gan ymestyn oes y caniatâd i bob pwrpas, gael ei wneud i Weinidogion Cymru, fel pe bai'n gais am gynnig newydd.
- 9.22 Ystyriwn dros dro bod hyn yn rhaniad synhwyrol, ac nad oes angen ei ddiwygio yn y Bil.

---

<sup>14</sup> DSNau Gorchymyn (Gweithdrefn) (Cymru) 2016, TCP Rheolaeth (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

<sup>15</sup> DSN Gorchymyn (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (OS Rhif 55), erthygl 12(1)(b)(ii).

<sup>16</sup> Gweler **para 8.9 a 8.15**.

<sup>17</sup> Pwynt drafftio pur yw hwn - ni fydd gan y gwaharddiad yn adran 62D(5) ar roddi caniatâd amlinellol, fel y mae wedi ei eirio ar hyn o bryd, unrhyw syster os caiff caniatâd amlinellol ei ddileu (gweler cwestiwn ymgynghori 8-1).

## Ceisiadau am gydsyniadau eilaidd

- 9.23 Mae adran 62F o'r DCGTh 1990 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniadau eilaidd y maen nhw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chais am DNS, yn lle'r awdurdod sydd fel arfer yn rhoi cydsyniad. Gall y cydsyniadau hyn gynnwys caniatâd cynllunio i ddatblygiad arall (megis gwaith priffyrdd) ar dir i ffwrdd o brif safle'r DNS ei hun. Ond byddent yn cynnwys hefyd caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd heneb gofrestrredig, caniatâd sylweddau peryglus, ac o bosibl cydsyniadau eraill y tu allan i rychwant y system gynllunio.<sup>18</sup>
- 9.24 Cyflwynodd DC(C) 2015 weithdrefnau newydd (ar ffurf adrannau 61Z i 61Z2 DCGTh 1990) lle
- (1) mae'n rhaid i geiswyr wneud gwaith ymgynghori cyn y cais ynglŷn â cheisiadau penodol am ganiatâd cynllunio; a
  - (2) gall gwasanaethau cyn y cais gael eu darparu gan yr awdurdod cynllunio perthnasol neu gan Weinidogion mewn cysylltiad â cheisiadau penodol o dan Ran 3 o DCGTh1990.<sup>19</sup>
- 9.25 Gall ymgynghori fel hyn cyn y cais fod yn arbennig o briodol mewn cysylltiad â chynigion ynglŷn â DNSs. Ond ar hyn o bryd, dim ond os yw'n ymwneud â "cheisiadau am ganiatâd cynllunio" y gall yr ymgynghori hwn ddod o dan y gofynion yn yr is-ddeddfwriaeth berthnasol.<sup>20</sup> Mae'n bosibl na fydd hynny'n cynnwys rhai ceisiadau cysylltiedig.<sup>21</sup>
- 9.26 Yn yr un modd, gall gwasanaethau cyn y cais fod yn briodol hefyd mewn cysylltiad â chynigion ynglŷn â DNSs, ond dim ond os ydyn nhw'n ymwneud â "cheisiadau o dan Ran 3 o'r Ddeddf neu yn rhinwedd y Rhan honno".<sup>22</sup> Gellir dadlau bod ceisiadau am gydsyniadau eilaidd yn cael eu gwneud "o dan" adran 62F o DCGTh 1990, sydd o fewn Rhan 3; ond gellir dadlau hefyd bod ceisiadau am fathau penodol o gydsyniad yn cael eu gwneud o dan Ran arall o DCGTh 1990 neu o dan y ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol ond nad yw'n ymwneud â chynllunio (er enghraifft, ynglŷn â henebion cofrestredig neu briffyrdd), fel nad yw'r sail gyfreithiol dros ddarparu gwasanaethau cyn y cais yn gwbl glir.
- 9.27 Rydym o'r farn dros dro y gall fod achos o blaid egluro pa geisiadau a all fod yn destun ymgynghoriad a gwasanaethau cyn y cais, er mwyn sicrhau bod yna sail gadarn dros y gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer DNSs a cheisiadau am gydsyniadau eilaidd, a phenderfynu ar y ceisiadau hynny.

---

<sup>18</sup> DSN Rheoleiddiau (Meini Prawf Penodedig a Chaniatadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (OS 53), a ddiwygiwyd gan OS 258 2016.

<sup>19</sup> DCGTh 1990, adran 61Z, 61Z2 (a gyflwynwyd gan y DC(C) 2015, a 17 ac 18).

<sup>20</sup> DCGTh 1990, adran 61Z(1)(a), (a ychwanegir gan DC(C) 2015, adrannau 17 ac 18).

<sup>21</sup> DCGTh 1990, a 62O(3).

<sup>22</sup> DCGTh 1990 a 61Z1(4), (a ychwanegir gan DC(C) 2015, adrannau 17 ac 18); OS Rhif 61, Rheol 4 2016.

### Cwestiwn ymgynghori 9-2.

Ystyriwn dros dro y dylai'r gyfraith sydd yn berthnasol i ymgynghoriad a gwasanaethau cyn y cais cysylltiedig â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gael ei hadolygu a, ble bo hynny'n briodol, ei hegluro.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Aseswyr

- 9.28 Mae paragraff 14 o Atodlen 4D i DCGTH 1990 yn caniatáu i asesydd gael ei benodi i helpu mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Ond nid yw'n caniatáu penodi asesydd i helpu gyda sylwadau ysgrifenedig. O gofio'r rôl a'r sylw ehangach sy'n cael eu rhoi i'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn y system (yn enwedig wrth graffu ar geisiadau am DNSs), rydym o'r farn dros dro y byddai'n fanteisiol pe bai aseswyr yn cael eu defnyddio ynglŷn â sylwadau ysgrifenedig hefyd. Byddai diwygiad o'r fath yn cysoni'r arfer o benodi aseswyr i helpu gyda sylwadau ysgrifenedig.

### Cwestiwn ymgynghori 9-3.

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i helpu arolygwyr i benderfynu ar geisiadau am DNS sy'n destun gwrandawriadau neu ymchwiliadau gael ei ymestyn i ganiatáu iddynt gael eu penodi mewn cysylltiad â cheisiadau a benderfynir ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Ffioedd

- 9.29 Rydym yn ystyried pwnc ffioedd yn fwy cyffredinol, ym **Mhennod 17**.<sup>23</sup>

### Yr ymagwedd gyffredinol

- 9.30 Un ddiweddar iawn yw'r system newydd o drafod ceisiadau cynllunio am DNSs, a bydd yn cymryd amser i unrhyw broblemau ynglŷn â'r weithdrefn neu broblemau eraill ddod i'r amlwg. Mae'n debyg y bydd y rhain ran amlaf yn gallu cael eu datrys drwy addasu'r is-ddeddfwriaeth berthnasol.
- 9.31 Ar ben hynny, mae'n debyg y daw'r angen am ddiwygio mwy sylfaenol i'r amlwg pan fydd y darpariaethau ynglŷn â rhoi caniatâd ynni a gyflwynwyd yn Neddf Cymru 2017 wedi dod i rym yn llawn.

---

<sup>23</sup> Gweler paragraffau 18.74 i 18.79.

- 9.32 Yn y cyfamser, rydym o'r farn dros dro ei bod yn briodol ailddatgan adrannau 62D i 62L DCGTh 1990 yn y Cod newydd, wedi'u haddasu efallai, i gymryd i ystyriaeth ein cynigion yn y Penodau blaenorol a'r mân bwyntiau a nodwyd uchod.

#### **Cwestiwn ymgynghori 9-4.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai adrannau 62D i 62L o DCGTh 1990 gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodoli adlewyrchu'n cynigion ym Mhenodau 7 ac 8.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **FFYRDD ERAILL I DRAFOD CYNIGION YNGHYLCH DATBLYGIADAU MAWR**

- 9.33 Y gweithdrefnau arbennig yn DCGTh 1990 ynglŷn â DNSs (ac yn Neddf Cynllunio 2008 o ran NSIPs) yw'r diweddaraf mewn cyfres hir o weithdrefnau sydd wedi'u creu i alluogi cynigion mawr i gael eu hystyried yn gyflym gan sicrhau yr un pryd bod sylwadau gan y rhai sy'n debyg o fod yn rhan o'r mater yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn.

#### **Comisiynau ymchwiliadau cynllunio**

- 9.34 Yn sgil ymgais cynnar i fynd i'r afael â'r broblem hon, cyflwynwyd y cysyniad o gomisiwn ymchwiliad cynllunio yn DCGTh 1968. Gosodwyd y gyfraith berthnasol wedyn yn adrannau 47 i 49 o DCGTh 1971 ac mae i'w chael bellach yn adran 101 o DCGTh 1990, gyda'r manylion yn Atodlen 8 i'r Ddeddf. Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr, ac mae'n dal mewn grym. Does dim is-ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru na Lloegr.
- 9.35 Roedd comisiwn ymchwiliad cynllunio i fod i gynnwys tri i bump o aelodau yn hytrach na'r un arolygydd arferol, i weithredu fel tribiwnlys mewn ymchwiliadau arbennig a fyddai'n ymwneud â materion o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol, neu ymchwiliadau a fyddai'n codi ystyriaethau technegol neu wyddonol newydd. Gallai ymdrin â cheisiadau a fyddai wedi'u cyfeirio at Weinidogion Cymru ac at apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r awdurdodau cynllunio.
- 9.36 Yn y Papur Cwmpasu, nodwyd rhai o'r beirniadaethau a gafwyd ynglŷn â'r weithdrefn<sup>23</sup> Nodwyd hefyd nad oedd comisiwn o'r fath wedi'i sefydlu erioed, naill ai yng Nghymru nac yn Lloegr. Yn wir mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi derbyn nad oes argoel y ceir un chwaith.<sup>24</sup> Ar ben hynny, roedd cyflwyno gweithdrefnau ynglŷn ag NSIPs a DNSs yn fwy diweddar yn ymgais i raddau helaeth i ymdrin â'r un problemau drwy fodd arall.<sup>25</sup> Gan hynny, y farn gychwynnol a fynegwyd gennyn ni

<sup>24</sup> Papur Cwmpasu, para 5.53.

<sup>25</sup> Bil Cynllunio 2008, Pwyllgor Bil Cyhoeddus, 5 Chwefror 2008, col 652.



oedd y gallai'r ddeddfwriaeth ynglŷn â chomisiynau ymchwiliad cynllunio gael ei diddymu fel y mae'n gymwys yng Nghymru.<sup>26</sup>

- 9.37 Mewn ymateb, cytunodd Persimmon Homes, PEBA, a Richard Harwood CF; a chafwyd dim anghytundeb gan ymatebwyr.

#### **Cwestiwn ymgynghori 9-5.**

**Rydym yn cynnig dros dro na ddylai adran 101 o DCGTH 1990 ac Atodlen 8 iddi (comisiynau ymchwiliadau cynllunio) gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Ymchwiliadau seilwaith mawr**

- 9.38 Er mwyn bod yn gyflawn, dylid nodi bod gweithdrefn arbennig arall wedi'i chyflwyno (gan DCPG 2004) i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i alw unrhyw gais am ddatblygiad o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol i mewn. Er hynny, fu'r weithdrefn erioed yn gymwys i ddatblygiadau yng Nghymru. Hyd yn oed yn Lloegr, cafodd y rheolau perthnasol ynglŷn â'r gweithdrefnau, a wnaed yn 2005, eu diddymu heb reolau newydd yn eu lle ddeng mlynedd wedyn. Nid ydym yn cynnig cyflwyno gweithdrefn gyfatebol yn y Cod newydd.

---

<sup>26</sup> Papur Cwmpasu, para 5.54.



# Pennod 10: Darparu seilwaith a gwelliannau eraill

## CYFLWYNIAD

### Cefndir

- 10.1 Mae'r mwyafrif o gynigion datblygu o unrhyw faint yn gofyn am ddarpariaeth o seilwaith a gwelliannau eraill. Yn gyffredinol, mae datblygwyr eisiau gweld y seilwaith sy'n angenrheidiol mewn lle i alluogi cwblhad eu datblygiad. Mae'r rheini sydd eisoes yn byw yn yr ardal a effeithiwyd gan ddatblygu arfaethedig yn aml yn poeni y bydd yn gosod pwysau gormodol ar seilwaith presennol sydd wedi'i orymestyn. Bydd adeiladu tai newydd, er enghraifft, yn creu gofynion cynyddol ar gyfleusterau megis ardaloedd chwarae, parciau, llyfrgelloedd, ysgolion, priffyrdd newydd neu well, gwasanaethau heddlu a thân.
- 10.2 Mae felly yn hanfodol bod mecanwaith boddhaol mewn lle i sicrhau darpariaeth y seilwaith. Darperir rhai ffurflenni gan y sector cyhoeddus, a mae'r cwestiwn yn codi ynglŷn â beth yw'r ffordd orau o ariannu'r seilwaith. Yn ymarferol, bydd y gost yn cael ei thalu yn rhannol fel elfen o wariant y cyhoedd; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd y cyfleusterau newydd, wedi eu daparu, yn cael eu defnyddio gan drigolion presennol yn ogystal â'r rhai a ddenir i'r ardal gan y datblygiad newydd.
- 10.3 Y broblem gysylltiedig yw bod rhai datblygu arfaethedig yn dderbyniol yn unig ar yr amod bod gwaith penodol yn cael ei wneud – naill ai drwy wneud gwelliannau sy'n angenrheidiol fel canlyniad y cynnig penodol (fel y mae gyda gwelliannau i gyffordd yn ymyl) neu i liniaru neu ddigolledu am unrhyw ddrwg sy'n debygol o ddigwydd oherwydd hynny (er enghraifft, gan ddarparu lle agored yn lle'r un a gollir). Gall fod yn bosibl i'r awdurdod cynllunio sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni trwy osod amod ar y caniatâd<sup>1</sup>, ond nid yw'n digwydd fel hynny bob amser – yn enwedig ble nad yw'r gofyn am wneud y gwaith sy'n angenrheidiol ond yn hytrach am wneud taliad i'r awdurdod tuag at gost y gwaith hynny.
- 10.4 Bydd hefyd dymuniad mewn sawl achos i sicrhau cyflenwi tai fforddiadwy. Darperir hyn weithiau gan y datblygwr o fewn y datblygiad arfaethedig, ond gall hynny naill ai fod yn anaddas neu amhosib, yn arwain at orchymyn gan yr awdurdod cynllunio (neu gynnig gan y datblygwr) i dalu swm cyfnewid tuag at y ddarpariaeth o dai o'r fath oddi ar y safle.

### Datrysiadau yn ymddangos

- 10.5 Yn hanesyddol, mae'r pwyslais wedi bod ar gytundebau a allai gael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio ac unrhywun un arall â diddordeb mewn tir yn yr hardal, ar gyfer cyfyngu neu rheoleiddio'r datblygiad neu ddefnydd y tir. Gallai cytundebau o'r fath gynnwys darpariaethau achlysurol a chanlyniadol (gan gynnwys rhai ariannol) a fydd o bosib yn angenrheidiol neu gyfleus ar gyfer y diben hwnnw. Cyflwynwyd y pŵer i wneud cytundebau o'r fath yn wreiddiol gan DCGTh 1947, a goroesodd fwy

---

<sup>1</sup> Bydd hyn yn aml yn amod *Grampian* (gweler **paras 8.102 to 8.105**).

neu lai yn heb newid am chwe deg mlynedd – yn fwy diweddar o dan adran 106 DCGTh 1990.<sup>2</sup>

- 10.6 Erbyn dechrau'r 1990au, defnyddiwyd cytundebau o'r fath i annog datblygwyr i wneud darpariaethau ariannol tuag at gostau gwasanaethau o fewn yr ardal; a mynegwyd pryder bod ystyriaethau o'r fath yn cael gormod o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Yn erbyn y cefndir hwnnw, tynhaodd Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 ychydig ar y darpariaethau statudol perthnasol i'r hyn a elwid y pryd hynny yn "ymrwymiaidau cynllunio". Gallai ymrwymiaidau o'r fath godi fel canlyniad o gytundeb yn y dyfodol; ond gallent godi hefyd o fenter unochrog a gynigir gan ddatblygwr pe byddai caniatâd yn cael ei roi.<sup>3</sup> Cyflwynodd Deddf 1991 weithdrefn yn galluogi ymrwymiaidau i'w newid neu ollwng ar ôl pum mlynedd, gyda chymeradwyaeth yr awdurdod (neu, ar apêl, Gweinidogion Cymru).<sup>4</sup>
- 10.7 Byddai newidiadau pellach yn cael eu cyflwyno yn DCPHG 2004, oedd i ddiddymu adrannau 106 i 106B,<sup>5</sup>a chyflwyno yn eu lle (yn Lloegr a Chymru) y cysyniad o "gyfraniad cynllunio".<sup>6</sup> Rhagwelwyd y byddai talu cyfraniadau o'r fath yn unol â chynllun i'w gynnwys yn y cynllun datblygu perthnasol.
- 10.8 Dau fis cyn i DCPHG 2004 ennill Cydsyniad Brenhinol, argymhellodd Adolygiad Barker o Ddarpariaeth Tai ym Mawrth 2004 gyflwyno system o atodiad ennill-cynllunio.<sup>7</sup> Derbyniodd Llywodraeth DU yr argymhelliad hwnnw, a chyflwyno Deddf Atodiad (Paratodau) Ennill-Cynllunio 2007 er mwyn galluogi gwneud gwaith paratoi angenrheidiol.
- 10.9 Ni weithredwyd erioed naill ai'r system o gyfraniadau cynllunio neu'r atodiad ennill-cynllunio. Diddymwyd darpariaethau perthnasol DCPHG 2004 felly yn y Ddeddf Gynllunio 2008, a bydd Deddf 2007 yn cael ei diddymu yn ei bryd gan orchymyn a wneir gan y Trysorlys.<sup>8</sup>
- 10.10 Yn lle hyny, cyflwynodd Rhan 11 Deddf Gynllunio 2008 (yn Lloegr a Chymru) yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC), sef dull newydd lle gallai awdurdodau cynllunio, pe dymument, gyflwyno tâl cynllunio "i helpu cwblhau seilwaith i gefnogi datblygiad eu hardal".

---

<sup>2</sup> DCGTh 1932, adran 34; DCGTh 1947, adran 25; DCGTh 1962, adran 37; DCGTh 1971, adran 52; DCGTh 1990, adran 106 (fel y deddfwyd yn wreiddiol). Roedd DCGTh 1932, adran 34 yn debyg, heb y cyfeirio manwl at ddarpariaethau ariannol. Gwnaed bron pob cytundeb sydd yn dal mewn grym o dan DCGTh 1971 neu DCGTh 1971 (felly 'cytundebau adran 52' a 'chytundebau adran 106').

<sup>3</sup> Mae'r cytundebau a mentrau ill dau wedi cael eu gwneud o dan DCGTh 1990, adran 106(1), fel y'u hamnewidwyd yn Neddf Cynllunio a Digolledu 1991, adran 12. Fel rheol, ond nid bob amser, mae mentrau unochrog yn cael eu cynnig mewn cysylltiad ag apeliadau.

<sup>4</sup> DCGTh 1990, adrannau 106A, 106B. Disgrifir y ddarpariaeth yn fwy manwl ym mharagraffau 10.36 - 10.39 isod.

<sup>5</sup> DCPHG 2004, Atodiad 9.

<sup>6</sup> DCPHG 2004, adrannau 46 - 48.

<sup>7</sup> Adolygiad o Gyflenwad Tai, Adroddiad Terfynol - Argymhellion, Mawrth 2004, Argymhelliad 26.

<sup>8</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 225.

- 10.11 Mae ymrwymadau cynllunio ac ASC yn bodoli gyda nifer o fecanweithiau cyllido seilwaith eraill, gan gynnwys arian neu grantiau sector cyhoeddus a benthyca a derbynebaw cyfalaf.

### Cynhwysiant yn y Côt Cynllunio

- 10.12 Yn ein Papur Cwmpasu, sonion ni mai un elfen arwyddocaol o'r broses o gyflwyno a phenderfynu ceisiadau cynllunio yw'r drafodaeth a chyflawniad o gyfundeb adran 106; ond ni wnaethom unrhyw awgrymiadau penodol am ddiwygiadau technegol. Er hynny, gwnaeth ymatebwyr rai awgrymiadau ynghylch diwygiadau o'r fath.
- 10.13 Nodwyd hefyd yn y Papur Cwmpasu nad oedd ASC yn dreth ddatganoledig, ac felly ni chyfeirwyd ati llawer am y rheswm hwnnw.<sup>9</sup> Er hynny, nid yw Deddf Cymru 2017 wedi'i deddfu yn cadw meistrolaeth am yr ardoll i Lywodraeth DU.<sup>10</sup> Gallai'r Côt Cynllunio, fel darn o ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol, gynnwys felly adran am ASC.
- 10.14 Ystyrir yn y bennod hon sut gallai'r Côt Cynllunio newydd gyfuno orau â'r gyfraith yn gysylltiedig ag ASC ac ymrwymadau cynllunio, gan gynnwys y rhyngweithio rhyngddynt, ac a ddylai unrhyw ddiwygiadau technegol gael eu gwneud bryd hynny.

## ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL (ASC)

### Cyflwyniad

- 10.15 Daeth darpariaeth sylfaenol yn darparu ar gyfer Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) i rym ar 6 Ebrill 2010, yn Rhan 11 Deddf Gynllunio 2008. Newidwyd hyn gan y Ddeddf Lleoliaeth 2011. Byddai'r manylion yn cael eu darparu gan ddeddfwriaeth eilaidd; a daeth Rheoliadau ASC i rym ar 6 Ebrill 2010. Mae'r rheoliadau wedi cael eu newid yn dilyn hynny ar sawl achlysur, yn flynyddol o 2011 i 2015.
- 10.16 Gan nad yw ASC yn dreth ddatganoledig eto, drafftwyd y Ddeddf a'r Rheoliadau yn unig gan cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Mae arweiniad ar weithrediad yr ASC wedi cael ei ddarparu gan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol fel rhan o'i *Arweiniad Polisiâu Cynllunio* ar y we.
- 10.17 Mae'r seilwaith a all gael ei ariannu gan yr ardoll yn cynnwys trafndiaeth, amddiffynfeydd rhag llifogydd, ysgolion, ysbytai, a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Mae hyn yn gadael i'r ardoll gael ei defnyddio i ariannu ystod eang o gyfleusterau megis ardaloedd chwarae, parciau ac ardaloedd gwyrdd, cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol, cynlluniau gwresogi ardal a gorsafedd heddlu a chyfleusterau diogelwch cymunedol eraill. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i gymunedau lleol i ddewis pa seilwaith sydd angen i gyflawni eu cynllun datblygu. Er hynny, mae'r Rheoliadau yn anwybyddu'r cais am ardoll i ddarparu tai fforddiadwy.<sup>11</sup>

---

<sup>9</sup> Papur Cwmpasu, par 4.19.

<sup>10</sup> Disgwylir i ddarpariaethau perthnasol Deddf Cymru 2017 ddod i rym yn 2018.

<sup>11</sup> Deddf Gynllunio 2008, a 216(2), diwygiwyd gan OS 2010/0948, rhe 63.

- 10.18 Mae rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth wneud rheoliadau, anelu at sicrhau bod modd i'r costau ddaw yn sgil cefnogi datblygiad ardal gael eu hariannu (yn gyfan gwbl neu yn rhannol) gan berchnogion neu ddatblygwyr tir mewn ffordd nad yw'n gwneud datblygiad yr ardal yn anymarferol yn economaidd.<sup>12</sup>

### Rhestrau codi tâl

- 10.19 Gall tâl i ASC godi yn unig os yw'r awdurdod codi tâl perthnasol – yn gyffredinol, yr awdurdod cynllunio – wedi mabwysiadu rhestr codi tâl. Bydd y rhestr yn gosod y prisiau neu feini prawf eraill yn penderfynu'r gost o ASC yn gysylltiedig â'r datblygiad yn ei hardal.<sup>13</sup> Wrth osod prisiau ASC, mae rhaid i'r awdurdod codi tâl roi sylw i'r gwir gostau a chostau disgwylid y seilwaith, materion a nodir gan reoliadau ASC ynglŷn ag ymarferoldeb economaidd y datblygu, a ffynonellau cyfredol a disgwylid cyllid ar gyfer seilwaith.
- 10.20 Mae rhaid creu drafft o'r rhestr codi tâl yn gyntaf, ac wedyn ei harchwilio gan berson annibynnol hollol gymwys, cyn iddi gael ei chymeradwyo.<sup>14</sup> Mae gan yr archwiliwr bŵer i gymeradwyo'r drafft, neu wneud argymhellion am ei newid.<sup>15</sup>
- 10.21 O 24 Ebrill 2017, roedd tri awdurdod cynllunio yng Nghymru wedi mabwysiadu rhestrau codi tâl a oedd wedi bod trwy'r broses archwilio.<sup>16</sup> Roedd tri awdurdod bellach wedi cyhoeddi rhestrau codi tâl drafft cyn cychwyn<sup>17</sup>; roedd dau wedi cyhoeddi rhestrau codi tâl drafft<sup>18</sup>, a roedd un wedi cyhoeddi'r adroddiad o'r archwiliad i'r rhestr codi tâl.<sup>19</sup> Ymddengys fod y tri awdurdod parc cenedlaethol wedi dewis peidio â chreu rhestrau codi tâl. Mae'r 13 awdurdod yn weddill yn dal i greu rhestrau codi tâl.
- 10.22 Mae'r naw awdurdod gyda rhestrau codi tâl naill ai wedi mabwysiadu neu mewn paratoad wedi codi tâl am ddatblygiad preswyl, manwerthol a masnachol, ond nid am ffurfiau eraill o ddatblygiad. Mae'r prisiau yn amrywio'n helaeth rhwng awdurdodau.

### Atebolrwydd a chasgliad

- 10.23 Bydd ASC naill ai yn daladwy gan y perchennog tir neu gan eraill yn gysylltiedig â phrosiect datblygu. Mae'r atebolrwydd dros dalu ASC yn codi ar ddechrau'r prosiect.<sup>20</sup> Mae "datblygiad" ar gyfer y dibenion hyn yn cynnwys 'unrhyw beth a wneir ar gyfer neu er mwyn creu adeilad newydd neu unrhyw waith a wneir ar gyfer neu

---

<sup>12</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 205(2).

<sup>13</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 211.

<sup>14</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 212.

<sup>15</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 212A.

<sup>16</sup> Caerffili (mabwysiadwyd 10 Mehefin 2014), Merthyr (23 Ebrill 2014), a Rhondda Cynon Taf (10 Rhagfyr 2014) (Ffynhonnell: *Adnoddau Cynllunio*).

<sup>17</sup> Conwy (14 Rhagfyr 2015), Sir Gâr (7 Medi 2016), a Thorfaen (31 Hydref 2016).

<sup>18</sup> Sir Fynwy (24 Mawrth 2016) a Chaerdydd (8 Medi 2016).

<sup>19</sup> Casnewydd (3 Awst 2016).

<sup>20</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 208(3); DCGTh 1990, adran 56(4).

ynglŷn ag adeilad sydd yn bod eisoes', yn amodol ar eithriadau a osodir mewn rheoliadau<sup>21</sup> – gan gynnwys datblygu llai, a datblygu gan elusennau.<sup>22</sup>

- 10.24 Mewn ardaloedd ble mae ASC mewn grym, dylai ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio gynnwys ffurflen ASC ychwanegol gyda'u cais i'r awdurdod cynllunio; ble rhoddir caniatâd gan y GDCG, dylai'r datblygwr neu berchennog tir gyflwyno hysbysiad o ddatblygu trethadwy. Yna bydd yr awdurdod yn cyhoeddi hysbysiad atebolrwydd i'r ymgeisydd, y datblygwr a phwy bynnag sydd wedi derbyn atebolrwydd. Pan yw'r datblygiad ar fin dechrau, bydd y person priodol yn cyflwyno hysbysiad dechrau i'r awdurdod, a fydd yn rhoi archeb am dâl.
- 10.25 Gellir gwneud apêl yn erbyn rhai penderfyniadau am ASC. Mae rheoliadau ASC yn darparu am hawl i apelio ar gwestiwn o ffaith ynglŷn â gosod y dulliau a ddefnyddir i amcangyfrif ASC i berson a benodir gan CThEM.<sup>23</sup> Fel arfer, mae rhaid i unrhyw apêl gael ei phenderfynu cyn i'r datblygiad ddechrau.<sup>24</sup>
- 10.26 Mae rheoliadau ASC hefyd yn gwneud darpariaeth am daliad ar gyfrif neu fesul rhandaliadau, ad-daliad mewn achosion o ordaliad, camau gorfodi mewn achosion o daliadau hwyr a diffyg taliad, a methiant i dderbyn atebolrwydd.<sup>25</sup>

### Gosod y symiau a godir o ASC

- 10.27 Un o ofynion Rheoliadau ASC yw bod rhaid i'r awdurdod sy'n codi tâl ASC ei osod i gefnogi datblygu trwy ariannu'r ddarpariaeth, gwelliannau, amnewidiadau, gweithrediadau neu gynhaliath y seilwaith.<sup>26</sup> Mae Rheoliad 123 o Rheoliadau 2010 yn darparu bod awdurdodau codi tâl i osod rhestr o'r mathau o seilwaith y mae'n bwriadu eu hariannu drwy dderbynebaw o godi tâl yr ardoll. Ystyrir hyn ymhellach isod.<sup>27</sup>

### Cymhwysiad yng Nghymru

- 10.28 Yn ystod hynt Bil Cymru drwy'r Senedd yn 2016, meddai Barwnes Morgan:

Yng Nghymru, mae gan awdurdodau cynllunio lleol, yn gyfredol, bŵer i godi tâl ardoll. Mae'r awdurdodauhyn i gyd yn paratoi cynlluniau datblygu lleol ar gyfer eu hardaloedd, yn cynnwys asesiad o'u hanghenion seilwaith yn y dyfodol, y gellir casglu'r ardoll ar eu cyfer. Gall yr awdurdod osod prisiau yn seiliedig ar faint a math y datblygiad newydd. Gall osod prisiau gwahanol ar gyfer ardaloedd daearyddol gwahanol ac ar gyfer mathau arfaethedig gwahanol o ddatblygu. Bwriad yr ardoll yw annog datblygu drwy greu cydbwysedd rhwng

---

<sup>21</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 209(1); Rheoliadau ASC 2010, rheoliadau 6(1), 9(1).

<sup>22</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 210 (1)(b); Rheoliadau ASC 2010, rheol 43(1), (2). Ar gyfer diffiniadau o "elusen" a "dibenion elusennol", gweler Deddf Elusennau 2011, adrannau 1,2.

<sup>23</sup> Deddf Gynllunio 2008, adran 215; Rheoliadau ASC 2010, rheoliadau 114 – 119.

<sup>24</sup> Rheoliadau ASC 2010, rheoliadau 114(4), 116(3), 116A(3), 116B(3).

<sup>25</sup> Deddf Gynllunio 2008, adrannau 217, 218.

<sup>26</sup> Deddf Gynllunio 2008, adrannau 216, 216A.

<sup>27</sup> Gweler **paras 10.77 to 10.79**.

casglu cyllid i ariannuseilwaith tra'n sicrhau nad yw'r prisiau mor uchel bod datblygu ar draws yr ardal mewn perygl difrifol. Gall yr ardoll gael ei defnyddio am nifer o brosiectau seilwaith, megis ffyrdd a thrafnidiaeth, ysgolion a chyfleusterau addysg, a hyd yn oed amddiffynfeydd rhag llifogydd, cyfleusterau meddygol a chyfleusterau chwaraeon a hamdden. Cyhyd â bod y rhain wedi cael eu nodi yng nghynllun datblygu lleol yr awdurdod, yna gall fynd i'r afael â'r pwnc hwn a gwneud apêl am y ffaith y gall gael ASC.

Dadleuodd Llywodraeth Cymru am ddatganoli ASC yn eu tystiolaeth i Gomisiwn Silk yn 2013. Nid aeth y comisiwn i'r afael â'r pwnc ac felly ni ymddangosodd yn nogfen Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU. Serch hynny, mae cyswllt anorod rhwng yr ardoll a throsglwyddo'r cyfrifoldebau sydd eisioes wedi cael eu ddatganoli. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol, yn fy marn i, wedi gwneud achos am gadw ASC a chredwn y dylai'r cymal cadw hwn gael ei dileu.<sup>28</sup>

- 10.29 Derbyniodd y Llywodraeth nad yw achos ASC yn cael ei neilltuo i San Steffan. Felly, unwaith mae newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w cyflwyno gan Ddeddf Cymru 2017 wedi dod i rym yn llwyr – disgwylir hyn i ddigwydd yn 2018 – bydd yn fater datganoledig.

### Diwygiadau posibl i'r Ardoll Seilwaith Cymunedol

- 10.30 Yn Nhachwedd 2015, sefydlodd Llywodraeth DU Grŵp Adolygu (wedi'i arwain gan Liz Peace, a oedd cyn hynny yn Brif Weithredwr Ffederasiwn Eiddo Prydeinig), i asesu'r graddau y mae ASC yn darparu neu'n gallu darparu mecanwaith effeithiol ar gyfer ariannu seilwaith, ac i argymhell newidiadau. Ymestynnodd yr adolygiad i Loegr a Chymru.<sup>29</sup> Cyflwynodd y Grŵp ei adroddiad, *Ymagwedd Newydd at Gyfraniadau Datblygwyr*, yn Hydref 2016; cafodd ei gyhoeddi ar 7 Chwefror 2017.
- 10.31 Gwnaeth y Grŵp rhyw 34 argymhelliad manwl. Yn benodol, argymhellodd y dylai'r ardoll seilwaith cymunedol (ASC) gael ei hailosod gan system hybrid o doll seilwaith leol (TSL) lefel isaf ac eang, wedi'i hatodi gydag ymrwymadau cynllunio adran 106 ar gyfer datblygiadau mwy.<sup>30</sup>
- 10.32 Gwnaeth argymhellion y Grŵp Adolygu ailadrodd y rhai a wnaethpwyd yn gynharach gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio yn Lloegr, a ddadleuodd am Ardoll Rheolaeth Datblygu (yn lle ASC) a Chytundebau Rheolaeth Datblygu (yn lle ymrwymadau cynllunio adran 106).<sup>31</sup>

---

<sup>28</sup> Hansard Tŷ'r Arglwyddi, 15 Tachwedd 2016, Cyf 776, Col 1397.

<sup>29</sup> Cymerodd dystiolaeth gan, ymhlith llawer arall, Llywodraeth Cymru a nifer o awdurdodau cynllunio Cymru.

<sup>30</sup> *Agwedd Newydd tuag at Gyfraniadau Datblygwyr: Adroddiad gan y Grŵp Adolygu ASC* Chwefror 2016, para 4.3.6. Argymhellodd hefyd y dylai awdurdodau cyfunol fedru gosod Toll Seilwaith Strategol (TSS) yn ychwanegol, ond roedd hynny yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

<sup>31</sup> *Cynllunio af gyfer Ddyfodol Gwell; ariannu seilwaith mewn ffordd fwy effeithiol*, Maniffesto Cymdeithas Swyddogion Cynllunio, Awst 2015.



## Cynhwysiant yn y Côd Cynllunio

- 10.33 Daethom i'r casgliad yn Rhan 1 y Papur Ymgynghor hwn y byddai'n addas i'r Bil Cynllunio gynnwys darpariaethau yn gysylltiedig ag ASC, yn cyfateb i'r rhai cyfredol yn Rhan 11 Deddf Gynllunio 2008 fel a newidwyd yn Neddf Lleoliaeth 2011. Yn amlwg, bydd angen i'r darpariaethau yn y Bil yn gysylltiedig ag ASC yng Nghymru gael eu drafftio yng ngoleuni'r rhai yng ngweddill y Côt sydd yn gysylltiedig â'r system gynllunio yn gyffredinol, a fydd yn ei dro yn adlewyrchu rhai neu bob diwygiad a gynigiwyd ym mhenodau blaenorol y Papur Ymgynghori hwn.
- 10.34 Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno adolygu gweithrediad ASC yng Nghymru yn y blynyddoedd nesaf – naill ai yn gyfochrog ag unrhyw adolygiad o'r gyfraith yn Lloegr a ddaw allan o waith y Grŵp Adolygu ASC, neu fel arall – a byddai'n ymddangos yn gynamserol i ni achub y blaen ar yr adolygiad hwnnw, neu i wneud sylw am argymhellion manwl y Grŵp Adolygu (ac eithrio un neu dau bwynt yn codi ynglŷn â'r cyswllt rhwng ASC ac ymrwymadau cynllunio).

### Cwestiwn ymgynghori 10-1.

**Rydym yn ystyried dros dro y dylai'r darpariaethau statudol yn gysylltiedig ag ASC, sydd ar hyn o bryd yn Rhan 11 Deddf Gynllunio 2008 fel a newidwyd yn Neddf Lleoliaeth 2011, yn cael eu cyfuno yn gyffredinol fel y maent yn sefyll â'r Cod Cynllunio, tra'n disgwyl am adolygiad mwy manwl posib a allai ddigwydd ymhen amser.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

## YMRWYMIADAU CYNLLUNIO

### Gwneud ymrwymiad

- 10.35 Fel a nodir uchod, cyflwynwyd y gyfraith gyfredol sydd yn darparu ar gyfer ymrwymadau cynllunio – yn adrannau 106, 106A a 106B DCGTh 1990 – gan adran 12 Deddf Cynllunio a Digolledu 1991. Mae arweiniad perthnasol yng Nghylchlythyr Swyddfa Gymreig 13/97.
- 10.36 Mae Adran 106 yn gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw berson â diddordeb mewn tir yn ardal yr awdurdod cynllunio i arwyddo ymrwymiad (cyfeirir at fel "ymrwymiad cynllunio") – naill ai gan gytundeb neu fel menter unochrog – ar gyfer pob un o'r pedwar diben canlynol neu rai ohonynt:
- (1) cyfyngu datblygiad neu ddefnydd tir fel a nodir yn yr ymrwymiad;
  - (2) gofyn am weithrediadau neu weithgareddau penodol i'w gwneud naill ai ar y tir neu yn rhywle arall;
  - (3) gofyn am y tir gael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd benodol; neu
  - (4) gofyn am swm neu symiau i'w talu i'r awdurdod ar ddyddiad/dyddiadau penodol neu yn rheolaidd.

- 10.37 Gall ymrwymiad cynllunio, a rhaid iddo gael ei gyflawni fel gweithred, fod yn ddiamed neu'n amodol a gall orfodi unrhyw gyfyngiad neu ofyn naill ai yn amhenodol neu am gyfnod/cyfnodau penodol y gellir eu nodi.<sup>32</sup> Mae'n werth sylwi nad oes rhaid i ymrwymiad o'r fath gael ei gysylltu â rhoi caniatâd cynllunio, er mai dyna'r enghraifft mwy cyffredin o'i ddefnydd yn ymarferol.<sup>33</sup>
- 10.38 Os oes tor-amod mewn gofyniad o ymrwymiad cynllunio, gall yr awdurdod sydd wedi gwneud yr ymrwymiad yn orfodadwy fynd i mewn i'r tir o dan sylw i wneud y gweithrediadau a chasglu unrhyw gostau rhesymol a gafwyd wrth wneud hyn gan y person hwnnw.<sup>34</sup>
- 10.39 Mae Adran 106A DCGTh 1990 yn darparu y gall unrhyw berson gydag ymrwymiad cynllunio gorfodadwy yn ei erbyn/herbyn wneud cais i'r awdurdod cynllunio am i'r ymrwymiad gael ei newid neu ollwng, ond fel rheol dim ond wedi i bum mlynedd fynd heibio ers gwneud yr ymrwymiad. Gall yr awdurdod gytuno i'r ymrwymiad gael ei newid pe byddai'n ateb y diben gystal yn amodol ar y newidiadau arfaethedig, a'i ollwng os nad yw o unrhyw werth bellach. Pe byddai penderfyniad anffafriol yn cael ei wneud am gais o'r fath, yna mae hawl i apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 106B.
- 10.40 Fel y mae gyda ASC, mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno adolygu gwaith ymrwymadau cynllunio yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf; ac mae'n ymddangos y byddai'n rhy gynnar yma hefyd i ni achub y blaen ar adolygiad o'r fath.

### Cynnig 10-2.

**Rydym yn cynnig dros dro bod darpariaethau yn gysylltiedig ag ymrwymadau cynllunio, ar hyn o bryd yn adrannau 106 i 106B DCGTh 1990, yn cael eu cyfuno yn gyffredinol fel y maent â'r Côt Cynllunio, tra'n disgwyl am adolygiad mwy manwl posib a allai ddigwydd ymhen amser.**

### Manteision i'w cael o ymrwymiad

- 10.41 Fel a nodir uchod, mae ymrwymadau cynllunio – naill ai gan gytundebau neu ymrwymadau unochrog – wedi eu ceisio gan awdurdodau cynllunio i ddarparu gwelliannau anghenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol ac hefyd i gael taliadau gan ddatblygwyr tuag at gostau darparu gwasanaethau yn fwy cyffredinol – er bod y ddau gategori yn gorgyffwrdd weithiau. Arweiniodd yr arfer hwn, a adnabyddir fel 'ennill cynllunio', at awdurdodau mewn rhai achosion yn gwneud y rhoi o ganiatâd cynllunio yn amodol ar ddatblygwyr yn cynnig ymrwymadau cynllunio a oedd yn gysylltiedig â'r datblygiad anrfaethedig yn anuniongyrchol yn unig, neu ddim o gwbl mewn rhai achosion.

<sup>32</sup> DCGTh 1990, adran 106(2), (9); Deddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989, adran 1(2).

<sup>33</sup> Gallai ymrwymiad cynllunio gael ei gysylltu hefyd gyda rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth.

<sup>34</sup> DCGTh 1990, adran 106(6).

- 10.42 Awgrymodd cyfraith achosion yn gysylltiedig â chytundebau cynllunio dros rai blynyddoedd bod gan y system o gael caniatâd cynllunio derfynau cyfreithiol ansicr. Yn *R v Cyngor Dinas Plymouth, cyn p Plymouth a Chymdeithas Co-operative De Dyfnaint*, adolygodd Hoffmann LJ yn Y Llys Apêly gyfraith achosion, a dal bod y prawf dilysrwydd ynglŷn ag ymrwymiad cynllunio yn wahanol i'r prawf sydd yn rheoli amodau cynllunio o dan adran 70(2).<sup>35</sup> Y profion allweddol oedd os oedd yr ymrwymiad o dan sylw 'ar gyfer cyfyngu neu rheoli datblygiad y tir' (fel yn adran 106(2) DCGTh 1990) ac a oedd yn afresymol neu beidio.<sup>36</sup> Mae hyn yn gymwys i ymgymryd â chyllido seilwaith ac unrhyw ymrwymiad arall.
- 10.43 Mae yna brawf statudol, yn rheoliad 122(2) Rheoliadau ASC 2010.<sup>37</sup> Mae hyn yn darparu y gall ymrwymiad cynllunio greu rheswm am roi caniatâd cynllunio yn unig ar gyfer y datblygiad os yw'r ymrwymiad:
- (1) yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o ran termau cynllunio;
  - (2) yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r datblygiad; ac
  - (3) yn deg ac yn weddol berthnasol o ran maint a math y datblygiad.<sup>38</sup>
- 10.44 Roedd y gofynion hyn, cyn rheoliad 122, wedi eu cynnwys mewn polisi yn unig.<sup>39</sup> Nododd Bean J (fel adnabyddwyd ef bryd hynny) yn *R (ar gais Cyf Grŵp Welcome Break) yn erbyn Cyngor Dosbarth Stroud*, 'nid oes unrhywbeth newydd yn rheoliad 122 heblaw am y ffaith ei bod yn cael ei chynnwys mewn offeryn statudol'.<sup>40</sup>
- 10.45 Rydym yn ystyried dros dro bod y prawf a osodir yn rheoliad 122 o bwysigrwydd digonol i'w gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### **Cwestiwn ymgynghori 10-3.**

**Rydym yn ystyried dros dro y dylai rheolau ynglŷn â defnyddio ymrwymadau cynllunio, yn rheoliad 122 Rheoliadau ASC yn gyfredol, gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio newydd.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>35</sup> *Newbury DC v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* [1981] AC 578; gweler **para 8.91**.

<sup>36</sup> [1993] JPL881, CA; gwrthdroi yn rhannol *R v Gillingham BC ex p Parham Lts* [1998] JPL 336 (Llys Adrannol).

<sup>37</sup> Rheoliadau ASC OS 2010/948.

<sup>38</sup> Rheoliadau ASC 2010, rhe 122(2).

<sup>39</sup> Cylchlythyr Swyddfa Gymreig 13/97, Atodiad B para B2.

<sup>40</sup> [2012] EWHC 140 (Gwein), para 48.

## Gofynion priffyrdd

- 10.46 Yn ychwanegol at gytundebau o dan rhan 106 DCGTh 1990, gofynnir i ddatblygwyr weithiau arwyddo cytundebau gyda'r awdurdod priffyrdd o dan adran 278 Deddf y Priffyrdd 1980. Bydd cytundeb o'r fath yn caniatáu'r awdurdod i gyflawni gwaith a fydd er bud y cyhoedd ar yr amod bod holl gostau gwaith o'r fath neu ran o'r costau yn cael eu talu gan barti arall i'r cytundeb. Felly, er enghraifft, gallai awdurdod priffyrdd gytuno gyda datblygwr i adeiladu, ar gost y datblygwr, cylchfan ar y fynedfa i'r datblygiad tai newydd.
- 10.47 Ble mae'r awdurdod priffyrdd hefyd yn awdurdod cynllunio – a fydd yr achos yng Nghymru bob amser ac eithrio parciau cenedlaethol – a ble mae cytundeb yn cael ei wneud o dan adran 106, yna gall fod yn addas i'r cytundeb hwnnw hefyd gynnwys materion a fyddai fel arall mewn cytundeb adran 278. Ni fyddai hyn bob amser yn addas, er enghraifft ble roedd materion priffyrdd yn eang o ran cwmpas; a ni ddylai trafodaethau i'w datrys arafu'r mater o ganiatâd cynllunio.
- 10.48 Ymhellach, mae darpariaethau adran 278 wedi'u drafftio yn eang, a byddant yn berthnasol mewn amgylchiadau lle nad yw caniatâd cynllunio yn cael ei geisio ar gyfer datblygu.<sup>41</sup> A gwneir cytundebau o dan adran 278 'er lles y cyhoedd', ymadrodd nad yw'n ymddangos yn rhan 106. Felly, ystyriwn na chaiff cheir unrhyw fudd o ddwyn ynghyd y darpariaethau statudol perthnasol i'r dau fath o gytundeb.
- 10.49 Er hynny, rydym yn ystyried dros dro efallai byddai o gymorth i'r Bil ddarparu bod cytundeb a wneir o dan yr olynydd i adran 106 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau a allai gael eu cynnwys mewn cytundeb adran 278, oni bai bod yr awdurdod priffyrdd perthnasol wedi arwyddo'r cytundeb. Byddai hyn yn golygu bod angen am un cytundeb yn unig, yn hytrach na dau. Ond mae'r gofyn i'r awdurdod priffyrdd arwyddo cytundeb yn golygu y byddai'n amhosibl i gynnwys darpariaethau o'r fath fel menter unochrog.

### Cwestiwn ymgynghori 10-4.

**Rydym yn ystyried dros dro efallai byddai o gymorth i gynnwys darpariaeth yn y Bil lle gallai cytundeb cynllunio o dan beth sydd nawr yn adran 106 DCGTh 1990 – ond nid yn fenter unochrog – gynnwys unrhyw ddarpariaeth a allai gael ei chynnwys mewn cytundeb o dan adran 278 Deddf y Priffyrdd 1980 (cyflawniad o waith priffyrdd), oni bai bod yr awdurdod priffyrdd wedi arwyddo'r cytundeb hwnnw.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

## Gorfodi ymrwymadau cynllunio

- 10.50 Fel a nodir uchod, sonion ni am ymrwymadau cynllunio yn gryno yn unig yn y Papur Cwmpasu. Serch hynny, mewn ymateb i'n gwahoddiad i awgrymu diwygiadau

<sup>41</sup> Fel y mae cytundebau 106 (gweler **para 10.37**).

technegol eraill, awgrymwyd gan rai a ymatebodd iddo y gallai fod o ddefnydd i dynhau'r gyfraith ynglŷn â gorfodi ymrwymïadau cynllunio.<sup>42</sup>

- 10.51 Gellir erlyn y tor-ymrwymïad goblygiadau cynllunio mwyaf difrifol fel twyll. Yn *SFO v Evans*,<sup>43</sup> roedd y Swyddfa Twyll Difrifol wedi erlyn naw perchennog cloddfeydd a oedd, gan bod gorfod iddynt adfer y tir a ddefnyddiwyd ar gyfer y cloddio i ddefnydd cefn gwlad ac amaeth unwaith y daeth y gweithredu i ben, yn ôl pob tebyg wedi trosglwyddo'r rhydd-ddaliadau a'r goblygiadau adfer cysylltiedig i gwmni alltraeth, gan ganiatáu iddynt ryddhau arian a neilltuwyd ar gyfer costau'r adfer. Gwrthododd y llys i'r Swyddfa Twyll Difrifol barhau â'r erlyniad ar y sail ei fod wedi datgan ei achos yn anghywir, obd roedd yr achos yn dangos bod nifer o opsiynau dan gyfraith trosedd y gellir eu defnyddio i ddelio gyda thoriadau difrifol o oblygiadau cynllunio.<sup>44</sup>
- 10.52 Ond, ni fydd ymagwedd o'r fath yn briodol yn aml. Un dewis byddai i gyflwyno system – yn debyg i'r gorfodi o dorri rheolaeth cynllunio – ble gallai tor-ymrwymïad (naill ai fethiant i sylwi ar y gofynion manwl, neu fethiant i gydymffurfio gyda phopeth ynddo) ddenu mater o rybudd gorfodi gan yr awdurdod cynllunio. Gallai methu cydymffurfio â rhybudd o'r fath (yn amodol ar y hawl i apelio) arwain at erlyniad. Yn hytrach na chyflwyno math newydd o "rybudd gorfodi ymrwymïad cynllunio", gyda gofynion gweithredol cysylltiedig, gallai fod yn fwy syml i ymestyn diffiniad "tor-rheolaeth gynllunio" i gynnwys tor-ymrwymïad.
- 10.53 Fodd bynnag, os yw ymrwymïad cynllunio yn dod yn dor-ymrwymïad rheolaeth cynllunio, ond mae nifer o faterion byddai angen eu hystyried yn fanwl i alluogi gorfodi darpariaethau DCGTh 1990 (yn rhan 7) i weithredu'n foddhaol. Pryd ddylai cyfnod gweithredu gorfodol ddechrau, a pah hyd ddylai fod? A ddylai fod yn bosibl gosod hysbysebiadau tramgwyddo cynllunio, hysbysebiadau atal dros dro, hysbysebiadau rhybuddion gorfodi, ac yn y blaen? A fyddai'r holl seiliau parthed apelio yn erbyn rhybudd gorfodi sydd yn bodoli fod yn berthnasol, ac a fyddai angen seiliau newydd? A ddylai Gweinidogion fedru addasu neu ollwng ymrwymïad cynllunio pan fyddant yn penderfynu apêl yn erbyn rhybudd gorfodi? A ddylent fedru cyflwyno rhybuddion gorfodi eu hunain?
- 10.54 Felly rydym yn ystyried, ar hyn o bryd, y byddai'n fuddiol casglu barn ymgyngoreion mewn egwyddor mewn perthynas â syniad hwn. Os yw'n ymddangos yn briodol mewn egwyddor, yna byddai'n bosibl ystyried rhai o'r materion hyn mewn mwy o fanylder.
- 10.55 Yn ail, ble mae ymrwymïad yn darparu am dalu swm o arian – naill ai fel taliad unigol neu yn rheolaidd – gallai methu talu arwain at osod tâl ar gyfer y tir, er mwyn i'r diffyg arian gael ei gasglu pan fydd y tir yn newid dwylo (fel sy'n debygol i ddigwydd ar gwblhad y datblygiad). Mae'r pŵer i osod tâl o'r fath yn arferadwy yn unol â rheoliadau

---

<sup>42</sup> Yn ogystal â'r ddau awgrym a nodir yma, awgrymwyd hefyd y medrai'r Bil ei wneud yn glir bod modd delio gydag achosion llys i orfodi ymrwymïad cynllunio yn y llys sirol. Byddai hynny yn hwyluso gweithredu o'r fath, a gwneud diffyg cydymffurfio yn llai tebygol.

<sup>43</sup> *Swyddfa Twyll Difrifol v Evans* [2014] EWHC 3803 (QB), [2015] 1 WLR 3526.

<sup>44</sup> Llauer tro yn ystod yr achos roedd y Swyddfa Twyll Difrifol wedi ceisio erlyn perchnogion y cloddfeydd am gynllwyn i dwyllo yn y gyfraith gyffredin, twyll drwy gamddefnyddio safle (Deddf Twyll 2006, adran 4), twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth (Deddf Twyll, adrannau 2-3), twyllo credydwy (Deddf Ansofedd 1986, adran 423) a thorri dylestydd stadudol (Deddf Cwmnïau 2006, adran 418).

a wnaethpwyd o dan adran 106(12); ond ymddengys nad yw rheoliadau o'r fath wedi eu gwneud. Byddai o gymorth gwybod os yw hyn yn broblem yn ymarferol.

- 10.56 Byddai hefyd o gymorth i'r Côd newydd gynnwys y trefniadau trosiannol ynglŷn â'r gorfodi o ymrwymadau cyn-1974 a geir yn gyfredol yn Neddf Llywodraeth Lleol (Cymru)1994.<sup>45</sup>

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-5.**

**Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fuddiol bod y gorfodi o ymrwymiad cynllunio o dan adran 106 DCGTh 1990 yn fwy syml trwy gynnwys tor ymrwymiad o'r fath o fewn y diffiniad o tor-rheolaeth gynllunio.**

**Rydym yn gwahodd barn ymgynghoreion, yn cynnwys ymarferoldeb cynnig o'r fath.**

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-6.**

**Mae Adran 106(12) yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i ddarparu rheoliadau ar gyfer tor-ymrwymiad i dalu swm o arian yn arwain at osod tâl ar gyfer y tir, gan hwyluso casglu tâl gan berchnogion dilynol.**

**Nid oes rheoliadau o'r fath wedi cael eu gwneud; ydy absenoldeb y rheoliadau yn achosi problem yn ymarferol?**

#### **Hwyluso trafodaethau ar gyfer ymrwymadau cynllunio**

- 10.57 Gall trafodaethau yn gysylltiedig ag ymrwymadau cynllunio rhan 106 achosi oedi yn y broses gynllunio.<sup>46</sup> Esboniodd Llywodraeth y DU, yn 2015, y byddai'n cyflwyno mesurau pellach ar gyfer trafodaethau adran 106 i gyflymu'r broses gynllunio ar ei hyd, a chwilio am farnau ynglŷn â sut galgellid cyflawni hynny.<sup>47</sup> O ganlyniad, cyhoeddwyd y byddai'n gwneud newidiadau i'r Cyfarwyddyd Arfer Cynllunio Cenedlaetholyn hyrwyddo'r defnydd o gymalau safonol, a byddai'n hyrwyddomwy o ddefnydd ymrwymiad cyn-cyflwyno'r cais gan bob parti.
- 10.58 Mae'r ail o'r rhain yn cyfeirio at y gofyniad i awdurdodau cynllunio i nodi, fel rhan o'u gwasanaethau cyn-cyflwyno, os yw'n debygol y bydd gofyn am ymrwymadau, ac os felly beth fydd eu cwmpas.<sup>48</sup> Gallai'r un cyntaf gael ei ddilyn yn fuddiol gan ganllawiau

<sup>45</sup> Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Atod 17, para 15.

<sup>46</sup> Cynllun Seilwaith Cenedlaethol 2104, para 15.23.

<sup>47</sup> Adran 106 ymrwymadau cynllunio - Cyflymu Trafodaethau, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 20 Chwefror 2015. Roedd hefyd wedi hel barn am y mater penodol hwn: a oedd y gofyn i ddarparu cyfraniadau tai fforddiadwy yn gweithredu fel rhwystr i ddarparu llety penodol i fyfyrwyr.

<sup>48</sup> OS 2016/61, rhe 8(1).

Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r broses cyflwyno'r Côt newydd, ond nid yw'n gofyn am ddeddfwriaeth ychwanegol.

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-7.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r defnydd o gymalau safonol gael eu hyrwyddo yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Datrys anghydfodau ynglŷn ag ymrwymadau cynllunio**

10.59 Gwnaeth Deddf Tai a Chynllunio 2016 – a ôl-ddyddiodd DCC 2015 – ddau newid i weithrediad adran 106 yn Lloegr. Cyflwynodd Adran 158 Deddf 2016 Atodiad 9A i DCGTh 1990, yn gysylltiedig â datrys anghydfodau ynghylch ymrwymadau cynllunio. Mae hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i ddarparu am weithdrefn i ddatrys anghydfodau yn unol â thermau cytundeb adran 106. Y bwriad yw bod naill ai'r awdurdod cynllunio neu'r ymgeisydd yn gallu cyfeirio achos at yr Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn penodi person (fel arfer rhywun sy'n gweithio fel arolygydd) i ystyried y mater a gwneud argymhelliad cyfrwymol. Nid yw Adran 158 wedi dod i rym hyd yn hyn.

10.60 Rydym yn ystyried dros dro y gallai gweithdrefn datrys anghydfod o'r math hwn fod o fudd yng Nghymru, a byddai diddordeb gyda ni glywed gan ymgynghoreion a ydynt yn meddwl y byddai'r weithdrefn o gymorth mewn egwyddor a'u barn am y weithdrefn a all gael ei chyflwyno.

#### **Cwestiwn Ymgynghori 10-8.**

**Rydym yn ystyried dros dro y gallai cyflwyno gweithdrefn i ddatrys anghydfod yn unol â thermau cytundeb adran 106 yng Nghymru (yar linellau Atodiad 9A DCGTh 1990, sydd i'w chyflwyno yn Lloegr yn adran 158 Deddf Tai a Chynllunio 2016) fod o ddefnydd.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno mewn egwyddor, a beth ddylai nodweddion gweithdrefn o'r fath fod?**

#### **Cyfyngu ar y defnydd o ymrwymadau cynllunio**

10.61 Gwnaeth Adran 159 Deddf 2016 (hefyd heb ddod i rym eto) ddarpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cyfyngiadau neu amodau ar y gorfodadwyedd o ymrwymadau cynllunio a wnaed yn gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy. Mae'n bosib y bydd mecanwaith o'r math hwn hefyd o gymorth, er y gall y pŵer mewn deddfwriaeth sylfaenol i wneud rheoliadau ymestyn at unrhyw gategoriâu o fanteision i'w darparu gan ymrwymadau cynllunio; gallai'r union fanylion gael eu penderfynu ymhen amser unwaith y gwneir y rheoliadau.

### **Cwestiwn Ymgynghori 10-9.**

Rydym yn ystyried dros dro bod cyflwyno gweithdrefn i Weinidogion Cymru osod cyfyngiadau neu amodau ar y gorfodadwyedd o ymrwymïadau cynllunio fel y maent yn gysylltiedig â chategoriâu penodol o fanteision i'w darparu (ar linellau adran 106ZB DCGTh 1990, a gyflwynwyd gan adran 159 Deddf 2016 ynglŷn ag ymrwymïadau fel y maent yn gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy) o ddefnydd, efallai.

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno mewn egwyddor, ac os felly pa gategoriâu o fanteision allai fod yn agored i weithdrefn o'r fath?**

### **Ymrwymïadau cynllunio yn rhwymo awdurdodau yn gysylltiedig â'u tir eu hunain**

- 10.62 Awgrymwyd gan rai a ymatebodd i'r Papur Cwmpasu y byddai o gymorth i'r awdurdodau cynllunio fedru rhwymo eu tir eu hunain gydag ymrwymïadau cynllunio. Gallai hyn fod yn berthnasol mewn achos lle mae awdurdod lleol yn berchen ar dir y tu allan i'r ardal y mae'n gyfrifol amdano fel awdurdod cynllunio (er enghraifft, tir mewn ardal lle mae'r awdurdod cynllunio naill ai yn awdurdod lleol cyfagos neu awdurdod parc cenedlaethol) neu yn gysylltiedig â thir yr arfaethir i'w waredu.
- 10.63 Rydym yn ystyried dros dro y byddai o gymorth i awdurdod fedru llunio ymrwymïad cynllunio i rwymo eu tir eu hunain yn yr amgylchiadau hynny. Er hynny, byddai rhaid meddwl am sut dylai'r gyfraith, fel y mae hi yn gyffredinol, gael e haddasu mewn perthynas ag achosion o'r fath – yn enwedig ynglŷn â beth allai ymrwymïad cynllunio ofyn amdano, sut gellid ei orfodi, a sut gellid ei ollwng neu newid.<sup>49</sup>

### **Cwestiwn ymgynghori 10-10.**

**Rydym yn awgrymu dros dro y dylai awdurdodau cynllunio fedru llunio ymrwymïadau cynllunio i rwymo eu tir eu hunain mewn achosion priodol.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Ymrwymïadau cynllunio yn rhwymo rhai sydd heb berchen tir**

- 10.64 Gall ymrwymïad cynllunio gael ei arwyddo gan "person gyda budd yn y tir" yn unig.<sup>50</sup> Gall hyn achosi anawsterau ymarferol lle mae person nad yw eto yn berchen budd rhydd-ddaliol neu brydlesol ar y tir o dan sylw fod yn berchen budd ynddo yn rhinwedd opsiwn i brynu neu gontract i werthu. Gall person o'r fath lunio ymrwymïad, ond oherwydd nad yw'n gallu rhwymo mwy na budd cyfyngedig, nid yw hi o lawer o fudd oni bai neu tan fod yr ystad berthnasol yn cael ei chaffael.

<sup>49</sup> A gweler adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar *Hawddfrentau, Cyfamodau ac Elw a Prendre* (2011) Com y Gyf 327; a *Cyfamodau Cadwraeth* (2014), Com y Gyf 349.

<sup>50</sup> DCGTh 1990, a 106(1).



- 10.65 Felly, er enghraifft, gallai darpar brynwr tir ofyn am ganiatâd cynllunio i'w ddatblygu; a gallai'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon rhoi camiatâd o'r math hwn, cyhyd â bod ymrwymiad yn cael ei lunio. Os nad oes diddordeb gan berchennog presennol y tir mewn cydweithredu, a nad fedr y darpar berchennog lunio ymrwymiad o'r fath gan nad oes budd i'r rhwymo, yna nid oes unrhyw ffordd o gwblhau'r ymrwymiad, ac felly ni fydd y caniatâd cynllunio ar y ffordd.
- 10.66 Rydym yn ystyried dros dro y dylai person sydd yn ystyried llunio cytundeb i brynu tir fedru llunio ymrwymiad cynllunio er mwyn rhwymo'r tir hwnnw, a fyddai'n dod i effaith os, a phryd y mae'r budd perthnasol yn cael ei gaffael gan y person hwnnw.

### Cwestiwn ymgynghori 10-11.

**Rydym yn ystyried dros dro y dylai person sydd yn ystyried llunio cytundeb i brynu tir fedru llunio ymrwymiad cynllunio er mwyn rhwymo'r tir hwnnw, a fyddai'n dod i effaith os, a phryd y mae'r budd perthnasol yn cael ei gaffael gan y person hwnnw.**

**A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?**

### Pwyntiau eraill

- 10.67 Oherwydd bod yr arfer o gael 'ennill-cynllunio' gan ddatblygwyr drwy gytundebau cynllunio wedi dod yn fwy cyffredin, mae polisïau yn cynnwys materion o'r fath wedi dechrau cael eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu. Byddai'n bosib ei gwneud yn ofyn statudol bod um rhaid wrth ymrwymadau cynllunio mewn amgylchiadau a ragwelir yn y cynlluniau datblygu perthnasol yn unig.
- 10.68 Mae polisïau o'r fath yn darparu arwydd o gymorth i ddatblygwyr ynglŷn â'r amgylchiadau lle gall ymrwymiad gael ei gyrchu. Er hynny, mae'n debygol na allai unrhyw bolisi ragweld yr amgylchiadau o'r math hwn i gyd; a bydd achosion ffiniol bob amser. Ystyriwn felly na fyddai gofyn statudol o gymorth.
- 10.69 Mae'r llys yn *Cyf Milebush Properties v Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside*<sup>51</sup> wedi nodi y byddai'r egwyddorion o ddehongliad cytundebol a enwyd gan Yr Arglwydd Hoffmann yn achos *Cynllun Iawndal Buddsoddwyr Cyf v Cymdeithas Adeiladu West Bromwich*<sup>52</sup> hefyd yn berthnasol yn dehongli ymrwymadau cynllunio. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys y pwysigrwydd o wirio'r wybodaeth gefndir a fyddai wedi bod ar gael i bartïon y cytundeb.
- 10.70 Rydym wedi ystyried a ddylai egwyddorion ddehongli o'r fath gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio newydd. Er hynny, rydym yn ystyried bod cyfyngiad ar y defnydd o egwyddorion cytundebol, gan fod cytundeb yn fater preifat rhwng dau barti, yn gymaint â bod ymrwymiad cynllunio yn ddogfen gyhoeddus – yn yr un modd ag y mae caniatâd cynllunio yn rheoleiddio tir er budd y cyhoedd. Er y gallai fod peth help i'w gael o'r ymagwedd a amlinellwyd ynachos y *Cynllun Digolledu Buddsoddwyr*,

<sup>51</sup> [2010] EWHC 1022 (Ch) [2010] JPL 1303.

<sup>52</sup> [1998] 1 WLR 896.

rydym yn ystyried na fyddai o gymorth i orbwysleisio'r cyswllt ganymgorffori yn fanwl yn y Côt unrhyw egwyddorion ynghylch dehongli ymrwymadau cynllunio.

## Y BERTHYNAS RHWNG ASC AC YMRWYMIADAU CYNLLUNIO

- 10.71 Mae ymrwymadau cynllunio ac ASC yn bodoli i helpu talu am seilwaith lleol. Er hynny, mae gwahaniaethau pwysig. Yn gyffredinol, mae ASC yn darparu seilwaith i gefnogi datblygiad ardal yn gyffredinol. Defnyddir ymrwymadau cynllunio i wneud cynigion unigol yn dderbyniol. Mae ASC, felly, yn torri unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng prosiect datblygu penodol a'r seilwaith a ariennir o ganlyniad i'r ASC a gasglwyd. Mae'n bwnc i'r awdurdod cynllunio benderfynu ynglŷn â pha seilwaith a fydd yn cael ei ddarparu gan ASC.
- 10.72 Ble mae ASC mewn lle yn ardal yr awdurdod, mae'n gweithredu fel mecanwaith crynhoi am ardoll seilwaith a ellir ei chodi ar bob datblygwr o fewn y categorïau perthnasol, yn gymaint ag y gall ymrwymadau cynllunio gael effaith ar ychydig iawn, yn gymharol, o ddatblygiadau.<sup>53</sup> Mae'r gost o osod ASC yn uchel iawn, sydd wedi arwain at brisiau gweithredu isel, yn enwedig rhwng awdurdodau cynllunio llai. Mae ymrwymadau cynllunio, mewn cyferbyniad, yn cynnwys costau pryniannau uchel, megis costau cyfreithiol ac amser trafod. Ar y llaw arall, mae ymrwymadau yn darparu llawer o hyblygrwydd, ac yn caniatáu ar gyfer cyflwyno mesurau lliniaru cyffredinol neu fesurau digolledul yn gysylltiedig â phrosiect penodol, a darparu manteision – megis darparu tai fforddiadwy – y tu allan i gwmpas yr hyn y gellir ei ariannu gan ASC.
- 10.73 Yn ystod dadl seneddol am ASC, soniodd llefarydd ar ran Llywodraeth y DU am y gwahaniaethau rhwng ASC ac ymrwymadau cynllunio yn y termau canlynol:

Gyda'r ardoll, mae datblygwyr yn gwybod ymlaen llaw, faint fydd y tâl a phryd fydd y taliad yn ofynnol. Nid yw cytundebau Adran 106, ar y llaw arall, yn cynnig y math o eglurder a ddarperir gan yr ardoll, gan fod cyfraniadau yn cael eu penderfynu yn aml mewn trafodaethau hirion rhwng datblygwyr ac awdurdodau lleol. Mae'r ardoll yn galluogi awdurdodau lleol i flaenoriaethu gwario ar seilwaith yn eu hardal i gynorthwyo twf a datblygiad lleol. Mae awdurdodau hefyd yn gallu defnyddio arian ardoll i gwblhau seilwaith tu allan i'w hardal, trwy weithio gydag awdurdodau lleol eraill, cyhyd â bod yr arian yn cefnogi datblygiad yn eu hardal.

Mae cytundebau Adran 106 yn safle-penodol ac ni allant gael eu defnyddio i liniaru effeithiau mwy eang datblygu. Gallai cytundebau adran 106 unigol fod yn amodol ar brofi ymarferoldeb a allai achosi oedi. Nid yw hyn yn fater ar gyfer yr ardoll oherwydd byddai ymarferoldeb economaidd wedi cael ei brofi adeg yr archwiliad cyn mabwysiadu'r rhestr codi tâl. Nid yw'r ardoll yn ailosod ymrwymadau cynllunio, adran 106, ond mae'n cyfyngu ar eu defnydd mewn ardaloedd sydd wedi mabwysiadu'r ardoll i sicrhau nad oes codi tâl dwbl yn digwydd ar ddatblygwyr.<sup>54</sup>

---

<sup>53</sup> Roedd cyn lleied â 7% o ddatblygiadau wedi cyfrannu i seilwaith trwy adran 106 (Cyllido Seilwaith mewn ffordd fwy effeithiol, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio, Awst 2015).

<sup>54</sup> TC, Hansard, 5 Chwefror 2014, cyf 575, Col 134WH.

- 10.74 Bu galwadau am i'r ddwy gyfundrefn gael eu cyfuno yn well. Er enghraifft, fel a nodir uchod, mae'r Gymdeithas Swyddogion Cynllunio wedi awgrymu cael model diwygiedig am ariannu seilwaith, yn cynnwys ardoll rheolaeth datblygu a chytundebau rheolaeth datblygu.<sup>55</sup> Argymhellodd Tîm Adolygu ASC, wedi'i sefydlu gan y Lywodraeth y DU, y dylai ASC gael ei hailosod gan system hybrid o doll seilwaith leol (TSL) lefel isaf ac eang, wedi'i hatodi gydag ymrwymadau cynllunio adran 106 ar gyfer datblygiadau mwy.<sup>56</sup>
- 10.75 Rydym yn cytuno bod agwedd integredig yn well, a dylai unrhyw system newydd gyfuno â'r gorau o'r ddwy gyfundrefn gyfredol mewn ffordd integredig. Ond bydd angen i unrhyw system newydd gael ei datblygu yng ngoleuni anghenion datblygu Cymru. Rydym eisoes wedi nodi efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu gweithrediad ASC, unwaith mae'r gyfrifoldeb wedi cael ei datganoli iddo yn unol â Deddf Cymru 2017, a bydd yn bwysig bod unrhyw adolygiad o'r fath hefyd yn ystyried gweithrediad y system ymrwymadau cynllunio a'r cysylltiadau rhyngddynt.
- 10.76 Felly, ystyriwn yma hefyd y byddai'n rhy gynnar i wneud unrhyw gynigion manwl am ddiwygiad technegol heblaw am y rhai cyfyngedig a enwyd yn gynharach yn y Bennod hon. Ac yn wir fe all y bydd rhai o'r diwygiadau i'r system gyfedol o ymrwymadau cynllunio yn cael eu gweithio allan mewn mwy o fanylder yng nghydedun adolygiad mwy cyffredinol.<sup>57</sup>
- 10.77 Yn benodol, mae arweiniad Llywodraeth DU am weithredu'r ddwy system yn pwysleisio y
- Dylai awdurdodau codi tâl weithio yn rhagweithiol gyda datblygwyr i sicrhau eu bod yn glir ynghylch anghenion seilwaith yr awdurdodau a pha gostau fydd disgwyl i ddatblygwyr dalu amdanynt trwy ba ffordd. Ni ddylai fod unrhyw "ddipio dwbwb!" gwir neu ymddangosiadol, gyda datblygwyr yn talu dwywaith am yr un eitem o seilwaith.<sup>58</sup>
- 10.78 Ar hyn o bryd gwneir cais i gyflawni hyn trwy reoliad 123 Rheoliadau ASC 2010, sydd hefyd yn gwahardd awdurdodau cynllunio rhag 'crynhoi' ynghyd sydd yn codi o fwy na phump ymrwymiad cynllunio wedi 2010 os ydynt yn gysylltiedig â chategorïau o seilwaith a all gael eu hariannu gan ASC.<sup>59</sup> Mae gan y ddau waharddiad hyn ynghyd effaith gyfunol o annog defnydd yr ASC.
- 10.79 Mae'r gweithrediad o reoliad 123 mewn ymarfer wedi cael ei feirniadu,<sup>60</sup> ac yn sicr bydd yn cael ei ystyried yn ofalus fel rhan o unrhyw adolygiad o ariannu seilwaith, ond nid ydym yn cynnig unrhyw newid yma ychwaith ar hyn o bryd.

---

<sup>55</sup> Cyllido Seilwaith mewn ffordd fwy effeithiol, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio, Awst 2015; gweler **para 10.32**.

<sup>56</sup> *A New Approach to Developer Contributions*: adroddiad gan Grwp Adolygu ASC, Chwefror 2016, para 4.3.6.

<sup>57</sup> Gweler er enghraifft **cwestiynau ymgynghori 10-5, 10-8 i 10-11**.

<sup>58</sup> Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol, para 096, cyf 25-096-20140612.

<sup>59</sup> Rheoliadau ASC 2010, rhe 123(3).

<sup>60</sup> Gweler, er enghraifft, *Interpretation of the changes to CIL and section 106 legislation and applying practical solutions to speed up the process and improve outcomes*, Beverley Firth, [JPL] 2016 OP 95-96.



## Pennod 11: Apeliadau a darpariaethau ategol eraill

### CYFLWYNIAD

- 11.1 Ym **Mhenodau 8 a 9**, ystyriwyd y broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio a phenderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru ar y cais. Ym **Mhennod 10**, ystyriwyd y mater penodol o fuddsoddi mewn seilwaith. Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried nifer o ddarpariaethau ategol yn ymwneud â rheoli datblygiad.
- 11.2 Yn gyntaf, pan gaiff caniatâd cynllunio ei wrthod, neu ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau – neu pan na ddeuir i unrhyw benderfyniad ar y cais – mae'n bosibl i ymgeisydd wneud cais i Weinidogion Cymru. Mae hawliau apelio tebyg yn bodoli mewn cysylltiad â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, cydsyniad datganedig i hysbysebu, a chaniatâd i wneud gwaith i goed a warchodir (ymdrinnir â hyn yn bennaf mewn Penodau diweddarach).<sup>1</sup>Ac mae'n bosibl apelio yn erbyn rhai mathau o gamau gorfodi, ond nid bob un.<sup>2</sup>
- 11.3 Mae'r system apelio yn bwysig iawn yn ymarferol – yn rhannol gan ei bod yn cynnig dull pwysig o wneud iawn i'r rhai hynny y mae penderfyniadau cynllunio penodol wedi peri gofid iddynt, ac yn rhannol gan ei bod yn cynnig mecanwaith er mwyn gallu cysoni penderfyniadau gwahanol awdurdodau cynllunio gyda pholisi Llywodraeth Cymru a chyda pholisïau ei gilydd. Mae'r ddwy ystyriaeth yn arwain at benderfyniadau o ansawdd uwch.
- 11.4 Mae sail y polisi y deuir i benderfyniadau ar apeliadau y tu hwnt i gwmpas yr ymarfer presennol. Yn y Bennod hon, ystyrir y mecanweithiau cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n sylfaen i'r system apelio, gan ganolbwyntio'n benodol ar y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol.
- 11.5 Yn ail, ceir darpariaethau ategol eraill:
- (1) efallai y bydd awdurdod cynllunio'n dymuno diwygio neu ddirymu caniatâd neu gydsyniad nad ydyw wedi'i weithredu'n llawn eto (neu efallai y caiff ei wahodd i wneud hynny) – neu efallai y bydd yn dymuno peidio â defnyddio tir mwyach, neu'n ceisio cael gwared ar adeilad presennol;
  - (2) os caiff tir ei adael heb unrhyw ddefnydd buddiol – o ganlyniad i benderfyniad ynghylch cais cynllunio neu apêl neu'n dilyn dirymu neu ddiwygio caniatâd neu gyflwyno rhybudd dirwyn i ben – efallai y bydd yn bosibl i berchennog y tir gyflwyno hysbysiad prynu, gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio ei brynu; a

---

<sup>1</sup> Fel mewn Penodau blaenorol, gwneir cyfeiriadau mewn troednodiaid at y darpariaethau cyfatebol yn ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig (CARh) a chaniatâd ardal gadwraeth (CAG); am ragor o fanylion, gweler Pennod 13. Ymdrinnir â hysbysebion ym Mhennod 14; a choed ym Mhennod 15.

<sup>2</sup> Gweler Pennod 12.

(3) phan roddir caniatâd, gall fod canlyniadau penodol yn ymwneud â phrifyrdd.

11.6 Prin iawn os o gwbl y deuir ar draws y darpariaethau hyn mewn arfer arferol. Ond gall bob un fod yn arwyddocaol iawn ar rai achlysuron, ac mae'n bwysig bod y deddfwriaeth berthnasol yn addas at y diben, iawn cymaint â'r darpariaethau y deuir ar eu traws yn fwy cyffredin a drafodwyd yn y Penodau cynharach.

## **APELIADAU MEWN CYSYLLTIAD Â CHEISIADAU CYNLLUNIO**

### **Cyflwyno apêl**

11.7 Y brif ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n caniatáu hawl i apelio i Weinidogion Cymru yw adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (DCGTh) 1990. Mae hyn yn darparu ar gyfer cyflwyno apêl dan yr amgylchiadau canlynol:

- (1) yr awdurdod cynllunio'n gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, neu roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau gwael;<sup>3</sup>
- (2) yr awdurdod yn gwrthod cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio amlinellol neu wrthod cymeradwyo manylion fel sy'n ofynnol dan amod caniatâd cynllunio;<sup>4</sup>
- (3) awdurdod yn gwrthod cymeradwyo manylion fel sy'n ofynnol dan amod caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu lleol neu gyffredinol<sup>5</sup>; a'r
- (4) awdurdod yn methu â gwneud unrhyw benderfyniad dan unrhyw un o'r amgylchiadau uchod o fewn yr amser penodedig.

11.8 Wrth gwrs, ni cheir hawl i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn dilyn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru neu gais a wnaed i'r awdurdod cynllunio ond a alwyd i mewn gan Weinidogion Cymru am eu penderfyniad eu hunain, neu yn erbyn caniatâd cynllunio tybiedig. Nid oes ychwaith hawl i apelio yn erbyn caniatâd cynllunio a roddwyd gan awdurdod cynllunio. Ym mhob un o'r achosion hyn, yr unig hawl i iawndal yw drwy gyflwyno cais i'r Uchel Lys.

11.9 Mae darpariaethau eraill yn DCGTh 1990 yn cynnwys hawliau apelio:

- (1) yn erbyn gofynion dilysu<sup>6</sup>; ac
- (2) yn erbyn gwrthod rhoi tystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithiol, neu fethiant i ddod i benderfyniad ar gais am dystysgrif.<sup>7</sup>

---

<sup>3</sup> DCGTh 1990, a 78(1)(a), (2).

<sup>4</sup> DCGTh 1990, a 78(1)(b).

<sup>5</sup> DCGTh 1990, a 78(1)(c).

<sup>6</sup> DCGTh 1990, aa 62ZB, mewnosodwyd gan DCC 2015, a 29; gweler para 8.45.

<sup>7</sup> DCGTh 1990, a 195.

## Penderfynu ar apeliadau

- 11.10 Mae Adran 79 DCGTh 1990 yn rhoi'r pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru benderfynu ar apeliadau. O fod yn ddarostyngedig i adran 319B, mae hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru, yn hytrach na phartïon eraill (yr apelydd a'r awdurdod cynllunio), benderfynu pa un a ddylid benderfynu ar apêl yn dilyn ymholiad neu wrandawriad, neu ar sail sylwadau ysgrifenedig, neu drwy unrhyw gyfuniad o'r rhain.<sup>8</sup>
- 11.11 Nid adolygiad mo apêl, wedi'i gyfyngu i ystyried cyfreithlondeb neu resymoldeb penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol. Mae Adran 79 DCGTh 1990 yn nodi, wrth benderfynu ar apêl, y gall Gweinidogion Cymru (neu'n ymarferol, yr arolygwr a benodir ganddynt):
- (1) ganiatáu neu wrthod yr apêl; neu
  - (2) wyrddroi neu amrywio unrhyw ran o benderfyniad yr awdurdod cynllunio (pa un a yw'r apêl yn ymwneud â'r rhan honno ai peidio); ac
  - (3) "ymdrin â'r cais fel petai wedi'i gyflwyno iddyn nhw yn y lle cyntaf".<sup>9</sup>
- 11.12 Yn benodol, mae adrannau 70 (dyletswyddau a osodwyd ar awdurdodau cynllunio<sup>10</sup>), 72 (amodau), 73 (amrywio amodau), a 73A (ceisiadau ôl-weithredol) yn berthnasol i benderfynu ar apeliadau gymaint ag y maent yn berthnasol i benderfyniad cychwynnol ar gais.
- 11.13 Yn ymarferol, mae'r rhai hynny sy'n penderfynu ar apêl (boed hynny'n Weinidogion Cymru neu'n arolygwr ar eu rhan) yn ddieithriad yn ystyried y cais o'r newydd, ac rydym yn ystyried dros dro y gallai fod y gliriach pe byddai hynny'n ddyletswydd benodol ar wyneb y statud.

### Cwestiwn ymgynghori 11-1.

**Rydym ni'n cynnig dros dro y dylai'r ddarpariaeth, ar hyn o bryd yn adran 79(1) DCGTH 1990, sy'n ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru o ran apeliadau gael ei diwygio er mwyn nodi'n glir ei bod hi'n ofynnol iddynt ystyried y cais o'r newydd – yn hytrach na bod â phŵer i wneud hynny, fel ar hyn o bryd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>8</sup> Cafodd y DCGTh 1990, a 319A ei mewnosod mewn cysylltiad â Lloegr gan Ddeddf Cynllunio 2008, a 196, a mewnosodwyd amrywiad o'r adran honno fel a 319B gan Orchymyn CGT (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 (OS 2773); gweler hefyd Reoliadau CGT (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apeliadau) (Cymru) 2017, rheoliad 14.

<sup>9</sup> DCGTh 1990, a 79(1).

<sup>10</sup> Gweler **paragraffau 5.16 i 5.18**.

## Arolygwyr yn penderfynu ar apeliadau

- 11.14 Penderfynir ar y rhan fwyaf helaeth o apeliadau gan berson a benodir (ac a gyflogir fel arfer, ond nid bob amser) gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n penderfynu ar apeliadau ar ran Gweinidogion Cymru (ac yn Lloegr, yr Ysgrifennydd Gwladol. Rydym eisoes wedi ystyried safle person o'r fath, ac wedi awgrymu y gallai fod yn briodol eu galw'n "arolygwyr" neu "archwilwyr".<sup>11</sup>
- 11.15 Mae Atodlen 6 i DCGTh 1990 yn grymuso Gweinidogion Cymru i bennu dosbarthiadau o apeliadau y gall person (arolygwr) a benodir ganddynt ddod i benderfyniad arnynt.<sup>12</sup> Mae pwerau arolygwyr i benderfynu ar apeliadau wedi'u ehangu'n raddol o ran cwmpas ers eu cyflwyno gyntaf yn 1968, fel y gallant erbyn hyn benderfynu ar bron unrhyw apêl o dan y DCGTh 1990 – gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud ag adeiladau rhestredig (o unrhyw radd), hysbysebion a choed, a'r rhai hynny yn erbyn hysbysiadau gorfodi ac ati.<sup>13</sup> Yr unig eithriadau yw llond llaw o fathau o apeliadau yn ymwneud â chynigion gan ymgwymerwyr statudol.<sup>14</sup>
- 11.16 Mae Paragraff 2 Atodlen 6 yn nodi pwerau a dyletswyddau arolygwyr mewn cysylltiad ag apeliadau a drosglwyddir iddynt; ac mae paragraff 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i adfer awdurdodaeth o ran apêl benodol.
- 11.17 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n symlach pe byddai'r Ddeddf yn nodi bod pob apêl i'w phenderfynu gan arolygwyr neu archwilwyr<sup>15</sup>, heblaw am:
- (1) y rhai hynny mewn categorïau sydd wedi'u neilltuo i Weinidogion Cymru ddod i benderfyniad arnynt; a'r
  - (2) rhai hynny y maent wedi'u hadfer yn benodol er mwyn iddynt ddod i benderfyniad eu hunain arnynt, drwy gyfrwng cyfeiriad achos penodol.
- 11.18 Ac nid ydym yn gweld unrhyw angen penodol i Weinidogion Cymru benderfynu ar bob apêl yn ymwneud â chynigion gan ymgwymerwyr statudol.
- 11.19 Byddai hynny mewn gwirionedd yn golygu bod eu sefyllfa yr un peth ag ydyw ar hyn o bryd, ond byddai'n symleiddio'r ddeddfwriaeth ac yn sicrhau ei bod yn unol ag arfer cyfredol. Rydym hefyd yn nodi bod y dull hwn wedi'i fabwysiadu mewn cysylltiad â'r categori apelio mwyaf diweddar a gyflwynwyd (yn erbyn gofynion yn ymwneud â dilysrwydd cais), o dan adrannau 62ZB i 62ZD, DCGTH 1990.<sup>16</sup>

---

<sup>11</sup> Gweler **paragraffau 5.125 i 5.131**.

<sup>12</sup> DCGTh 1990, Atod 6, para 1.

<sup>13</sup> Rheoliadau (Penderfynu ar Apeliadau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthau Rhagnodedig) (Cymru) 2015 (OS 1822), rheoliad 3.

<sup>14</sup> OS 2015 Rhif 1822, rheoliad 4. Noder bod apeliadau o dan DCGT 1990, a 217 hefyd, ar hyn o bryd, i gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru yn hytrach nag arolygwr (gweler **para 16.23 i 16.26**).

<sup>15</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 5 – 11**.

<sup>16</sup> Gweler yn benodol DCGT 1990, a 62ZC (apeliadau o dan adran 62ZB: penderfynu gan berson penodedig) ac a 62ZD (penderfyniad gan Weinidogion Cymru yn hytrach na pherson penodedig).



- 11.20 O ran manylder, erbyn hyn dylai paragraff 8(2) Atodlen 6 DCGTH 1990 gyfeirio at Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn lle at Ddeddf y Comisiynydd Seneddol 1967, gan nad oes gan Ddeddf 1967 unrhyw berthnasedd i Gymru.<sup>17</sup> Yn fwy cyffredinol, nodwn na chafodd darpariaeth gyfatebol ei chynnwys yn adrannau 62ZC i 62ZD, DCGTH 1990. Rydym yn ystyried y gellid hepgor para 8 (2) Atodlen 6 o'r Bil.

### **Cwestiwn ymgynghori 11-2.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil nodi'n glir y penderfynir ar bob apêl (gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud â chynigion datblygiad gan ymgymerydd statudol) gan arolygwyr neu archwilwyr, heblaw am**

**(1) y rhai hynny mewn categorïau sydd wedi'u rhagnodi i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru; a'r**

**(2) rhai hynny sydd wedi'u hadfer yn benodol ganddynt (mewn cyfarwyddiadau achos-penodol) er mwyn iddynt ddod i benderfyniad arnynt.**

**Ydy'r ymgynghori yn cytuno?**

### **Y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth**

- 11.21 Fel y byddid disgwyl, mae DCGTh 1990 yn nodi bod yn rhaid neilltuo'r gofynion manwl yn ymwneud â chyflwyno apêl – gan gynnwys gofynion yn ymwneud â'r weithdrefn i'w dilyn, y deunydd i'w gyflwyno gydag apêl, a'r cyfyngiadau amser i gydymffurfio â nhw – mewn rheoliadau.<sup>18</sup>
- 11.22 Caiff y broses a'r weithdrefn apeliadau cynllunio yng Nghymru eu cynnwys yn bennaf yn Rheoliadau DCGTh (Hysbysiadau Gorfodi ac Apeliadau) (Cymru) 2017 ac yn Rheoliadau CGT (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apeliadau) (Cymru) 2017. Roedd y rhain gyda'i gilydd wedi diddymu ac wedi cymryd lle 13 darn o ddeddfwriaeth eilaidd, i'r graddau yr oeddent yn berthnasol i Gymru. Gwnaethant (ynghyd ag offerynnau statudol eraill a wnaethpwyd yr un pryd) ddiwygio nifer o ddarnau eraill o is-ddeddfwriaeth gynllunio.
- 11.23 O ganlyniad i'r broses ddiweddar honno, mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwaith o wneud a phenderfynu ar apeliadau – gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, sylweddau

<sup>17</sup> Cafodd geiriad tebyg yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ei gywiro yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a 33(2).

<sup>18</sup> DCGTH 1990, a 323A, mewnosodwyd gan PWA 2015, a 50.

perygylus, hysbysebion, coed a gorfodi – yn llawer symlach na'r fframwaith cyfatebol yn Lloegr.<sup>19</sup>

- 11.24 Mewn ymateb i'n cwestiwn yn y Papur Cwmpasu o ran y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd, derbyniwyd y sylwadau canlynol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:

[Dylid] cynnwys yr hawl i apelio ym phrif gorff y ddeddfwriaeth, a'r rheolau o ran trafodion a'r hollfaterion cysylltiedig yn ymwneud ag apeliadau yn cael eu cynnwys mewn un gyfres o is-reoliadau.

- 11.25 Dyna'n fras yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, ac nid ydym yn gweld angen am ragor o addasu o ran y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd mewn perthynas ag apeliadau.

### Camau olrhain deuil

- 11.26 Rydym eisoes wedi nodi darpariaethau adran 78A DCGTh 1990, sy'n galluogi awdurdod i barhau i drafod cais am bedair wythnos ar ôl cyflwyno apêl.<sup>20</sup>

### Gormod o wybodaeth ategol

- 11.27 Mae rhai awdurdodau y cânt eu temtio i geisio cael gormod o wybodaeth ategol gan ymgeiswyr – rhagor o ddarluniau neu ddarluniau manylach ac yn y blaen – cyn y byddant yn derbyn cais fel un dilys. Cafodd cyfreithlondeb yr arfer hwn ei ystyried gan y Llys Apêl yn *R (Cyngor Dosbarth Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf) v yr Ysgrifennydd Gwladol*.<sup>21</sup> Dyfarnodd y llys y dylai ymgeiswyr ddarparu'r lefel briodol o fanylder gyda chais a chydweithredu gyda'r awdurdod cynllunio; ond hefyd os perir gofid i ymgeiswyr drwy gais am yr hyn a ystyrir yn wybodaeth ormodol, yna gallant apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol, a all bennu dilysrwydd y cais yn ogystal â pha mor ddymunol yw'r cynnig.
- 11.28 Gellid fod wedi dadlau ei bod yn anfoddfaol nad yw'r math o apêl a ystyriwyd yn achos *Caerfaddon* yn ymddangos ar wyneb y statud. Fodd bynnag, ymddengys yr ymdriniwyd â hyn yn benodol, o leiaf mewn cysylltiad â Chymru, yn adran 29 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a gyflwynodd (fel adrannau 62ZA i 62ZD DCGTh 1990), weithdrefn newydd ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod cynllunio i wrthod derbyn cais fel un dilys. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynnydd ar gyfer unrhyw ddiwygio technegol yn hyn o beth.

### Ffioedd a chostau ar gyfer apeliadau

- 11.29 Mae adran 200 Deddf Cynllunio 2008 yn mewnosod adran 303ZA i DCGTHh 1990, nad ydyw ar waith yn Nghymru ar hyn o bryd. Mae adran 303ZA yn darparu am i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â thalu ffioedd am apeliadau.

---

<sup>19</sup> Mae darpariaethau perthnasol i'w gweld o hyd yn Rheoliadau CGT (Gweithdrefn Apeliadau Dilysu) 2016, Gorchymyn CGT Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhedredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012, a rheoliadau'n ymwneud â hysbysebion, coed a sylweddau peryglus.

<sup>20</sup> Gweler paragraffau **8.65** i **8.68**.

<sup>21</sup> [1999] 2 PLR 120.

Mae'n amlwg mai mater i Lywodraeth Cymru yw pan, neu'n wir, a fydd yr adran hon yn dod i rym, a pha un a fydd unrhyw reoliadau o'r fath yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn ystyried y dylid ailddatgan y pŵer i godi ffioedd yn y Bil, hyd yn oed os nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno unrhyw reoliadau.

- 11.30 O ran y costau i'r partion ynghlwm wrth apelio, ymdrinnir â hyn ym Mhennod 18, gan fod y darpariaethau perthnasol yn ymwneud ag ymholiadau i drafodion eraill yn gyffredinol, nid dim ond i apelïadau cynllunio.<sup>22</sup>

### Diwygio'r cynllun apelio

- 11.31 Mewn ymateb i'n Papur Cwmpasu, derbyniasom awgrym y gall fod yn bosibl codeiddio'r egwyddor *Wheatcroft*– sy'n pennu pa un a ellir amrywio cais sydd wedi'i benderfynu gan awdurdod cynllunio yng nghwrs apêl.<sup>23</sup> Fodd bynnag, ymdriniwyd â hyn yn adran 47(1) DC(C) 2015, a gyflwynodd adran 78(4BA) a (4BB), sy'n nodi na ellid gwneud diwygiad o'r fath i gais oni bai os caiff ei awdurdodi gan orchymyn datblygu. Felly nid ydym yn gwneud unrhyw gynnig ar y pwnc hwn.

### Aseswyr

- 11.32 Mae paragraff 6 Atodlen 6 DCGTh 1990 yn caniatáu Gweinidogion Cymru i benodi aseswyr i eistedd ochr yn ochr ag arolygwyr mewn gwrandawïadau ac ymholiadau a'u cynghori nhw.<sup>24</sup> Ac yn ymarferol bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penodi aseswyr os gwahoddir i wneud hynny gan arolygwr. Fodd bynnag, gellir dadlau nad yw hon yn swyddogaeth y gall arolygwr ei harfer yn lle Gweinidogion Cymru.<sup>25</sup>
- 11.33 Rydym yn ystyried dros dro, er mwyn osgoi amheuaeth, y dylid cywiro'r hepgoriad amlwg hwn.
- 11.34 Ymhellach, nid yw paragraff 6 Atodlen 6 yn caniatáu i aseswr gael ei benodi i gynorthwyo arolygwr a benodwyd i ddod i benderfyniad ar apêl ar sail sylwadau ysgrifenedig. O ystyried y defnydd cynyddol o'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn rhan o'r system apelio, rydym yn ystyried dros dro y byddai o fudd defnyddio mwy ar aseswyr mewn achosion o'r fath. Byddai diwygiad o'r fath yn rheoleiddio'r arfer presennol o aseswyr yn cael eu penodi i gynorthwyo mewn achosion sylwadau ysgrifenedig.

### Cwestiwn ymgynghori 11-3.

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr i benderfynu ar apelau sy'n destun ymholiadau neu wrandawïadau:**

<sup>22</sup> Gweler **paragraffau 18.90 i 18.92.**

<sup>23</sup> *Bernard Wheatcroft Ltd v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1982] Cylchgrawn Cyfraith Cynllunio (CCC) 37, cadarnhawyd yn achos *Awdurdod Iechyd Rhanbarthol Wessex v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1984], achos *Wadehurst Properties v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1990] ac achos *Cyngor Dosbarth Breckland v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1992]; a gweler Nodyn Arfer Da 9 yr Arolygiaeth Gynllunio.

<sup>24</sup> Mae pwerau tebyg yn Atodlen 3 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 mewn cysylltiad ag apelïadau CARh a CAG.

<sup>25</sup> DCGTh 1990, Atodlen 6, paragraffau 2(1),(9).

- (1) gael ei ehangu fel bod modd i arolygwyr ei arfer yn ogystal â Gweinidogion Cymru; a
- (2) chael ei ehangu i alluogi aseswyr i gael eu defnyddio mewn cysylltiad â cheisiadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?

### Ymholiadau a thrafodion eraill: darpariaethau pellach

- 11.35 Rydym yn nodi ym Mhennod 17 y darpariaethau cyffredinol yn ymwneud ag ymholiadau, gwrandawriadau a thrafodion eraill yng Nghymru – gan gynnwys y rhai hynny a nodwyd uchod ynglŷn â phenderfynu ar weithdrefn, yn ogystal ag eraill mewn cysylltiad â thystiolaeth arbenigol ac adennill costau.<sup>26</sup>
- 11.36 Er bod y darpariaethau hynny'n berthnasol i drafodion a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o ddibenion o dan DCGTH 1990, fe'u defnyddir yn ymarferol yn bennaf yng nghyd-destun cynllunio apeliadau o dan adran 78. Er ein bod o'r farn y dylent aros yn y rhan honno o'r Bill sy'n ymdrin â darpariaethau amrywiol ac ategol, byddai cyfeiriad at y deunydd mwy cyffredinol hwn ochr yn ochr â'r darpariaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag apeliadau cynllunio o gymorth i ddefnyddwyr y Côd.

### MATHAU ARALL O APELIADAU

- 11.37 Gorfodi yn gyffredinol yw pwnc y Bennod ganlynol. Ond efallai y dylid nodi bod hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi.<sup>27</sup>
- 11.38 Mae hefyd hawliau i apelio, yn debyg i'r rhai hynny'n ymwneud â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, mewn cysylltiad â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth,<sup>28</sup> cydsyniad datganedig i arddangos hysbysebion<sup>29</sup> a chaniatâd i wneud gwaith i goed gwarchoddedig.<sup>30</sup> Ym mhob achos, mae hawl i apelio yn erbyn:
- (1) peidio â rhoi caniatâd,
  - (2) rhoi caniatâd o'r fath yn ddarostyngedig i amodau anffafriol, neu

<sup>26</sup> Gweler **paragraffau 18.83 i 18.92**.

<sup>27</sup> Gweler **paragraffau 12.96 i 12.108**.

<sup>28</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 20; gweler **Pennod 13**.

<sup>29</sup> DCGTh 1990, A 220; a **Pennod 14**.

<sup>30</sup> DCGTh 1990, aa 78, 198(3)(c); gweler **Pennod 15**.

- (3) methiant i wneud unrhyw benderfyniad ar gais am ganiatâd o fewn amser penodedig.

- 11.39 Eto, ymdrinnir â'r rhain mewn Penodau diweddarach, ynghyd ag apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi mewn cysylltiad ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth<sup>31</sup>, rhybuddion dirwyn i ben o ran hysbysebion<sup>32</sup> hysbysiadau ailosod coed<sup>33</sup>, a hysbysiadau yn ymwneud â thir hyll.<sup>34</sup>
- 11.40 Byddai'r drafodaeth uchod yn ymwneud ag apeliadau cynllunio, ac yn benodol â Chwestiynau ymgynghori **11-1 i 11-3**, mewn egwyddor, yr un mor berthnasol i bob un o'r mathau arbenigol hyn o apeliadau.

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-4.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r newidiadau a gynigwyd yn yng nghwestiynau ymgynghori 11-1 i 11-3 fod yr un mor berthnasol i:**

**(1) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi;**

**(2) apeliadau yn ymwneud â thrafodaethau ynglŷn â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth, cydsyniad datganedig i arddangos hysbysebion, a chaniatâd i wneud gwaith i goed gwarchoddedig; ac**

**(3) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi yn ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, rhybuddion dirwyn i ben o ran hysbysebion, hysbysiadau ailosod coed, a hysbysiadau yn ymwneud â thir hyll.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **ADDASU A DIDDYMU CANIATÂD**

- 11.41 Gall caniatâd cynllunio, ar ôl ei ddyfarnu, gael ei weithredu ar unrhyw adeg tan ddiwedd y cyfnod a nodir ynddo – a fydd fel arfer yn bum mlynedd.<sup>35</sup> Mae'r un peth yn wir am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.<sup>36</sup>
- 11.42 Fel y nodwyd, gall person geisio diwygio'r caniatâd neu'r cydsyniad – naill ai drwy ddiwygio'r amodau ynghlwm wrtho neu fel arall. Ac rydym wedi cynnig dros dro y dylai'r gyfraith yn ymwneud â cheisiadau am ddiwygiadau o'r fath gael ei symleiddio.<sup>37</sup>

<sup>31</sup> Gweler **paragraffau 13.178 i 13.180.**

<sup>32</sup> Gweler **paragraffau 14.32 i 14.39.**

<sup>33</sup> Gweler **paragraffau 15.92 i 15.94.**

<sup>34</sup> Gweler **paragraffau 16.13 i 16.26.**

<sup>35</sup> DCGTh 1990, a 91, diwygiwyd gan PWA 2015, a 35; **gweler paragraffau 8.118 i 8.120.**

<sup>36</sup> Listed Buildings Act 1990, a 18.

<sup>37</sup> Gweler paragraffau **8.146 i 8.159.**

- 11.43 Yn ogystal â hynny, efallai y bydd awdurdod cynllunio ei hun o bryd i'w gilydd yn dymuno amrywio caniatâd, neu ei ddiddymu yn gyfan gwbl. Ceir cyfres o ddarpariaethau, ar hyn o bryd yn adrannau 97 i 99 DCGTH 1990, sy'n caniatáu i awdurdod wneud gorchymyn i addasu neu ddiddymu caniatâd, ar unrhyw bryd nes bod y gweithrediadau cymeradwy wedi'u cwblhau neu nes bod y newid defnydd cymeradwy wedi digwydd. Mae'n rhaid i orchymyn o'r fath gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru (yn dilyn ymholiad os oes angen) oni bai ei fod yn ddiwrthwynebiad; a bod gan Weinidogion Cymru eu hunain bŵer diofyn i wneud gorchymyn.
- 11.44 Nid yw'n syndod bod arfer y pŵer hwn i addasu neu ddiddymu caniatâd, heb gydweithrediad y rhai hynny y mae ganddynt hawl i gael budd o'r caniatâd, yn ddarostyngedig i hawl gan y rhai hynny yr effeithir arnynt i gael iawndal.<sup>38</sup> Am y rheswm hwnnw, prin iawn y caiff ei ddefnyddio yn ymarferol. Ond mae'n cynnig gweithdrefn efallai y bydd ei hangen yn dilyn rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad arall ar yr un darn o dir (mewn achos o'r fath bydd yr iawndal sy'n daladwy yn fach iawn neu'n ddim). A gellir ei ystyried yn hwylus mewn achosion eraill, yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid.
- 11.45 Ymddengys nad yw'r darpariaethau hyn angen unrhyw ddiwygiadau technegol; ac nid awgrymwyd unrhyw rai i ni gan ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu.<sup>39</sup>

## RHYBUDDION DIRWYN I BEN

- 11.46 Pan fo caniatâd wedi'i weithredu'n llawn, ni cheir ei addasu na'i ddiddymu. Fodd bynnag, efallai bod amgylchiadau wedi newid ers ei ddyfarnu, fel nad yw'r adeilad sydd bellach wedi'i godi'n gyfreithlon, neu'r defnydd a wneir o'r tir ar hyn o bryd, ddim yn briodol mwyach. Ac mae nifer o adeiladau a godwyd ers cyn i reoli cynllunio modern gychwyn efallai y bydd awdurdod cynllunio yn dymuno cael gwared arnynt yn awr; ac mae llawer o weithgareddau wedi bodoli ers hynny y gall awdurdod erbyn hyn ddymuno eu dirwyn i ben.
- 11.47 Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall yr awdurdod cynllunio gyflwyno rhybudd dirwyn i ben – a allai hefyd ddyfarnu caniatâd cynllunio i ryw waith datblygu arall ar y tir dan sylw. Bydd gorchymyn o'r fath angen cadarnhad Gweinidogion Cymru; neu gall Gweinidogion Cymru eu hunain wneud gorchymyn. Mae'r darpariaethau statudol perthnasol i'w canfod yn adrannau 102 i 104 DCGTHh 1990.
- 11.48 Fel gyda'r pŵer i addasu neu i ddiddymu caniatâd, bydd gweithredu gorchymyn dirwyn i ben fel arfer yn golygu y bydd angen talu iawndal.<sup>40</sup> Am y rheswm hwnnw,

<sup>38</sup> DCGTh 1990, aa 107 i 113; a gweler *R (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) v Cyngor Sir Wolverhamptom* [2012] 1 Adroddiad Cyfreithiol Wythnosol (ACW) 2264, Achos Sesiwn (AS).

<sup>39</sup> Ceir cyfres debyg o ddarpariaethau yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 sy'n galluogi'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru addasu neu ddiddymu CARh neu CAG – eto, yn amodol ar dalu iawndal lle y bo'n briodol (aa 23 i 26, 28; a gymhwysir i CAG gan a 74(3)).

<sup>40</sup> DCGTh 1990, a 115.

gweithredir y weithdrefn hon yn rhy anaml yn ymarferol, ond mae'n cynnig gweithdrefn a allai fod yn ddefnyddiol pan fo amgylchiadau wedi newid.

- 11.49 Ymddengys nad yw'r darpariaethau hyn angen unrhyw ddiwygiadau technegol; ac nid awgrymwyd unrhyw rai i ni gan yr ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu.

## HYSBYSIADAU PRYNU

- 11.50 O bryd i'w gilydd, mae methiant i gael caniatâd cynllunio (neu ddyfarniad sy'n ddarostyngedig i amodau beichus) yn arwain at blot o dir nad oes ganddo unrhyw ddefnydd rhesymol fuddiol. Pan fo hyn yn digwydd, gall perchennog y tir ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio brynu'r tir am bris y farchnad (a allai wrth gwrs fod yn fach iawn neu hyd yn oed yn ddim), drwy gyflwyno "hysbysiad prynu" i'r awdurdod. Yna bydd yn rhaid i'r awdurdod, os yw'n derbyn nad oes yn wir unrhyw ddefnydd buddiol i'r tir, naill ai derbyn yr hysbysiad, neu ei drosglwyddo i awdurdod cyhoeddus arall sy'n fodlon ei dderbyn.
- 11.51 Gall yr un broblem godi pan gaiff caniatâd cynllunio ei ddiddymu neu ei addasu; neu pan gyflwynir y rhybudd dirwyn i ben.
- 11.52 Ym mhob achos, ar ôl derbyn hysbysiad prynu, bydd y tir wedyn yn newid dwylo am bris y farchnad. Mae hyn yn golygu, er bod y pris a dalwyd am y tir yn fach iawn, o leiaf y caiff y perchennog wared ar ei gyfrifoldebau (gan gynnwys, er enghraifft, atebolrwydd y meddiannwr) gyda'r berchnogaeth. Mae'r system i bob pwrpas felly gyfystyr â "phrynu gorfodol o chwith".
- 11.53 Mae'r darpariaethau statudol perthnasol ym Mhennod 1 Rhan 6 (adrannau 137 i 148) DCGTh 1990.<sup>41</sup> Rhoddir canllaw yng Nghylchlythyr 22/83 y Swyddfa Gymreig.<sup>42</sup>

## Cyflwyno hysbysiad prynu

- 11.54 Mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad prynu o fewn blwyddyn o'r penderfyniad perthnasol gan yr awdurdod cynllunio neu gan Weinidogion Cymru.<sup>43</sup> Lle y bu apêl i Weinidogion Cymru, nid yw'n gwbl glir pa un a yw'r cyfnod blwyddyn yn dechrau ar ddyddiad penderfyniad yr awdurdod neu ar ddyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru.
- 11.55 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol egluro pa un yw'r penderfyniad sy'n nodi cychwyn y cyfnod blwyddyn y ceir cyflwyno hysbysiad prynu. Ymddengys y byddai'n fwy rhesymegol i'r cyfnod gychwyn ar ôl penderfyniad Gweinidogion Cymru, gan nad yw'r ymgeisydd yn gwybod yn sicr tan hynny a fydd caniatâd yn dod i law.
- 11.56 Yn achos *Cyngor Henffordd v White*, daeth y Llys Apêl i'r casgliad nad oedd unrhyw hawl i ddiwygio hysbysiad prynu, ond pan gaiff nifer o hysbysebion eu cyflwyno mewn

---

<sup>41</sup> Deuir o hyd i ddarpariaethau cyfatebol yn adrannau 32 i 37 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 ym ymwneud â CARh (a gymhwysir i CAG gan a 74).

<sup>42</sup> Y Swyddfa Gymreig 22/83, Hysbysiadau Prynu; mae'r Cylchlythyr hwn (fel Cylchlythyr Adran yr Amgylchedd 13/83) wedi'i ddileu yn Lloegr, ond mae'n dal mewn grym yng Nghymru.

<sup>43</sup> Rheoliadau Cyffredinol CGT 1992, rheoliad 12.

cysylltiad ag un darn o dir, ystyrir bod yr hysbysiadau diweddarach yn disodli'r rhai cynharach.<sup>44</sup> Gellid bod yn ddefnyddiol hefyd egluro hynny ar wyneb y statud.

11.57 I dderbyn hysbysiad, rhaid dangos nad oes gan y tir dan sylw "unrhyw ddefnydd rhesymol fuddiol". Archwilir ystyr yr ymadrodd hwn ym mharagraffau 12 i 19 y Cylchlythyr; ac mae'r Llys Apêl yn achos *Colley v yr Ysgrifennydd Gwladol*<sup>45</sup> a'r Uchel Lys yn achos *Cyngor Bwrdeistref Stafford v yr Ysgrifennydd Gwladol*<sup>46</sup> wedi cadarnhau nad oes unrhyw beth yn anghywir yn y canllaw hwnnw. Mae golygydd *Gwyddoniadur y Gyfraith Gynllunio* yn nodi na chaiff y term "defnydd rhesymol fuddiol" ei ddiffinio yn DCGTHh 1990, a'i fod wedi achosi ymgyfreitha byth ers iddo ymddangos gyntaf yn DCGTHh 1947.<sup>47</sup> Mae'n demtasiwn i geisio cynnwys diffiniad yn y Bil, ond bydd amgylchiadau pob achos yn wahanol; ac rydym yn ystyried dros dro y byddai diffiniad statudol yn debygol o achosi cymaint o broblemau ag y byddai'n eu datrys.

11.58 Yn amodol ar y pwyntiau uchod, ymddengys nad yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau prynu angen unrhyw ddiwygiadau technegol; ac nid awgrymwyd unrhyw rai i ni gan ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu.

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-5.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r ddeddfwriaeth nodi, mewn achos lle y bu apêl i Weinidogion Cymru, mai amser cychwyn y cyfnod y gellir cyflwyno hysbysiad prynu yw dyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-6.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil Cynllunio egluro na chaiff hysbysiad prynu ei ddiwygio, ond y dylid ystyried bod ail hysbysiad neu hysbysiad dilynol a gyflwynir mewn cysylltiad â phenderfyniad unigol yn disodli unrhyw hysbysiad cynharach o'r fath.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>44</sup> [2008] 1 Adroddiad Cyfreithiol Wythnosol 954; y Llys Apêl; trwy Arglwydd Ustus Dyson yn [28], [33].

<sup>45</sup> [1992] JPL 925.

<sup>46</sup> [2011] EWHC 936 (Admin).

<sup>47</sup> Gweler, er enghraifft, *R v y Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol, ex parte Cyngor Dosbarth Chichester* [1960] 1 ACW 587; a *Gwasanaethau Trafnidiaeth Balco a'r Ysgrifennydd Gwladol* [1986] CCC 123.



## **PRIFFYRDD YR EFFEITHIR GAN WAITH DATBLYGU**

- 11.59 Mae Rhan 10 DCGTh 1990 yn ymdrin â phriffyrdd yr effeithir arnynt gan waith datblygu.

### **Gorchmynion o dan adran 247, 248 a 257 DCGTh 1990**

- 11.60 Yn rhinwedd adran 247, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i awdurdodi cau neu wyro unrhyw briffordd pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn gallu gwneud gwaith datblygu y mae caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu ar ei gyfer. Mae adran 248 yn nodi gweithdrefn debyg i ymdrin â'r sefyllfa pan fo'r gwaith datblygu a gymeradwywyd yn briffordd ei hun, ac yn galluogi cau neu wyro priffyrdd eraill sy'n croesi llwybr yr un sydd newydd ei chaniatáu. Mae adran 253 yn ymdrin â gorchmynion drafft a wneir gan ragweld y dyfernir caniatâd cynllunio; adrannau 254 a 255 yn ymdrin â gorchmynion prynu gorfodol cysylltiedig; ac adran 256 yn ymdrin ag effeithiau gorchmynion ar weithredwyr cod electronig.
- 11.61 Mae'r pwerau o dan adran 247, 248 a 253 i 256 DCGTh 1990 yn bodoli ochr yn ochr â'r pŵer mwy cyffredinol a gynhwysir yn adran 116 Deddf Priffyrdd 1980 sy'n rhoi grym i lys ynadon awdurdodi cau neu wyro priffordd os ymddengys ei bod yn ddiangen neu y gellir ei gwyo "fel ei bod yn agosach neu'n fwy hwylus i'r cyhoedd".
- 11.62 Mae darpariaeth debyg, o dan adran 257 DCGTh 1990, yn galluogi awdurdod cynllunio i gau llwybr cerdded, llwybr ceffyl neu lwybr ceffyl cyfyngedig pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn gallu cyflawni'r gwaith datblygu y mae caniatâd cynllunio wedi'i roi – ar yr amod bod y gorchymyn drafft, yn achos unrhyw wrthwynebiad, wedi'i gadarnhau gan Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer hwnnw'n bodoli ochr yn ochr â phŵer awdurdod priffyrdd lleol i wneud gorchymyn diddymu llwybr cyhoeddus o dan adran 118 Deddf Priffyrdd 1980 a gorchymyn gwyo llwybr cyhoeddus o dan adran 119.
- 11.63 Mae'r darpariaethau yn DCGTh 1990, er eu bod yn ôl pob golwg yn debyg i'r rhai hynny yn Neddf Priffyrdd 1980, yn cyflawni swyddogaethau cwbl wahanol; a chaiff gorchmynion a wneir o dan y ddwy Ddeddf eu cadarnhau gan wahanol weithdrefnau, mewn fforymau gwahanol. Byddai'n bosibl diwygio adrannau 116 i 118 Deddf 1980 er mwyn galluogi llys ynadon i gau neu wyro priffordd neu lwybr yng Nghymru lle bo angen er mwyn gweithredu caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, byddai dal angen gweithdrefn amgen er mwyn galluogi gorchymyn i gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru mewn achosion priodol ochr yn ochr â gorchymyn prynu gorfodol (naill ai o dan adran 254 DCGTh 1990 neu fel arall), yn dilyn ymholiad unigol.
- 11.64 Rydym felly'n ystyried dros dro na ddylid eu dwyn ynghyd mewn un pŵer. Fodd bynnag, byddem yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid ynghylch a fyddai dwyn ynghyd y darpariaethau hyn i awdurdodi'n gyffredinol cau neu wyro priffordd yn gam symleiddio defnyddiol.

### Cwestiwn ymgynghori 11-7.

Rydym yn ystyried dros dro na fyddai'n briodol dwyn ynghyd y pwerau sydd ar hyn o bryd yn adran 247, 248, 253 i 257 DCGTh 1990 (yn ymwneud â phriffyrdd yr effeithir arnynt gan waith datblygu) a'r rhai hynny yn adran 116, 118 a 119 Deddf Priffyrdd 1980.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Gorchmynion o dan adran 249 DCGTh 1990

11.65 O dan adran 249(1) DCGTh 1990, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, ar gais yr awdurdod cynllunio, i ddiddymu unrhyw hawl a all fod gan bersonau i ddefnyddio cerbydau ar briffordd nad yw'n gefnffordd nac yn brif ffordd, felly'n caniatáu i'r awdurdod ei gwneud yn ardal i gerddwyr yn unig. Mae hyn yn berthnasol pan fo—

- (4) yr awdurdod, drwy benderfyniad, yn mabwysiadu cynnig i wella amwynder rhan o'i ardal; a
- (5) phan fo'r cynnig yn cynnwys peidio â rhoi unrhyw hawl tramwy i'r cyhoedd â cherbydau ar hyd priffordd yn yr ardal honno.<sup>48</sup>

11.66 Mae'r pŵer yn bodoli ochr yn ochr ag adran 1 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n caniatáu i awdurdod traffig wneud gorchymyn mewn cysylltiad ag unrhyw ffordd lle'r ymddengys i'r awdurdod sy'n gwneud y gorchymyn ei bod hi'n gyfleus ei wneud am nifer o resymau, gan gynnwys:

- (1) atal defnydd o'r ffordd i draffig cerbydol sy'n anaddas o ystyried cymeriad presennol y ffordd neu'r eiddo cyfagos;
- (2) i gadw cymeriad y ffordd mewn achos lle y mae'n arbennig o addas i'w ddefnyddio gan bersonau ar gefn ceffyl neu ar droed; ac
- (3) i gadw neu i wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi ...<sup>49</sup>

Awdurdod traffig yng Nghymru fydd Gweinidogion Cymru, ar gyfer priffyrdd strategol, ac mewn achosion eraill yr awdurdod lleol perthnasol.<sup>50</sup>

11.67 Fel y nodwyd gan y Llys Apêl yn achos *Samuel Smith Old Brewery (Tadcaster) v Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog*, mae'r ddwy ddarpariaeth yn gorgyffwrdd yn sylweddol.<sup>51</sup>

<sup>48</sup> DCGTh 1990, a 249(1),(2).

<sup>49</sup> Road Traffic Regulation Act 1984, a 1(1)(d),(e),(f).

<sup>50</sup> Road Traffic Regulation Act 1984, a 121A.

<sup>51</sup> 2000 WL 1791589 (heb ei adrodd).

- 11.68 Ymddengys nad oes unrhyw amgylchiadau y byddai'n bosibl defnyddio'r pŵer o dan DCGTh 1990 na allai ychwaith ymdrin â nhw o dan Ddeddf 1984. Ac mae iawndal yn daladwy, mewn egwyddor, o dan adran 250 DCGTh 1990, am unrhyw golled a gafwyd o ganlyniad i wneud gorchymyn o dan adran 249; ond nid oes unrhyw iawndal yn daladwy am wneud gorchymyn o dan adran 1 Deddf 1984.<sup>52</sup> Mae hynny'n awgrymu y byddai'n well gan awdurdod ddefnyddio Deddf 1984 os yw'n bosibl.
- 11.69 Yn fwy cadarnhaol, mae adran 9 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (dyletswydd i roi sylw i anghenion cerddwyr a seiclwyr) yn berthnasol i arfer pwerau o dan Ddeddf 1984, ond nid yn berthnasol i arfer y rhai hynny o dan Ddeddf 1990.<sup>53</sup>
- 11.70 Rydym yn ystyried dros dro nad oes unrhyw angen am y pŵer yn adran 249 DCGTh 1990, yn wyneb y pŵer cyfochrog o dan adran 1 Deddf 1984.

### Cynnig dros dro 11-8.

**Rydym yn cynnig dros dro na chaiff adrannau 249 a 250 DCGTH 1990 (yn ymwneud â gorchymynion sy'n diddymu'r hawl i ddefnyddio cerbydau ar briffordd, yn unol â chynnig i wella amwynder ardal) eu hailddatgan yn y Bil, yn wyneb y darpariaethau cyfochrog yn adran 1 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Darpariaethau eraill yn DCGTh 1990 yn ymwneud â phriffyrdd

- 11.71 Mae adrannau 251 a 258 DCGTh 1990 yn caniatáu ar gyfer diddymu hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ar dir sydd wedi'i gaffael neu ei neilltuo at ddibenion cynllunio. O ystyried na fydd y Côd Cynllunio'n cynnwys darpariaethau Rhan 9 DCGTh 1990 (sy'n ymdrin â chaffael a neilltuo o'r fath), ymddengys yn briodol na ddylid cynnwys adrannau 251 a 258 o fewn y Côd Cynllunio, ac y dylent aros yn DCGTh 1990 sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.
- 11.72 Mae adran 252 yn ymdrin â gwneud gorchymynion o dan adrannau 247, 248, 249 a 251. Os caiff ein casgliadau dros dro uchod eu derbyn, byddai angen darpariaeth gyfatebol yn y Côd yn ymwneud yn unig â gorchymynion o dan yr hyn sy'n cyfateb i adrannau 247 a 248.
- 11.73 Mae Atodlen 14 yn cynnig côd cyfochrog ar gyfer gwneud gorchymynion mewn cysylltiad â llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau; mae'n debyg iawn mewn sylwedd i'r côd o dan adran 252 (yn ymwneud â phriffyrdd eraill) – yn ddarostyngedig i wahaniaethau bach o ran yr angen i hysbysu cynigion i'r rhai hynny yn y cyffiniau ac eraill<sup>54</sup>, yr angen i ymgymrwyr statudol roi caniatâd,<sup>55</sup> a'r pŵer i arolygwyr wneud

<sup>52</sup> DCGTH 1990.

<sup>53</sup> Deddf Teithio Actif (Cymru) Act 2013, a 9.

<sup>54</sup> DCGTH 1990, Atodlen 14, para 1(2)(b),(4).

<sup>55</sup> DCGTH 1990, Atodlen 14, para 5(1).

penderfyniadau.<sup>56</sup> Mae'r cyntaf yn adlewyrchu'r ffaith bod gorchmynion yn ymwneud â llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau yn debygol o effeithio ar lai o bobl, ond yn debygol o fod o fwy o ddiddordeb i'r rhai hynny maent yn effeithio arnynt; mae'r ail yn adlewyrchu'r ffaith y gallai fod yn haws gwyro llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau heb i ymgymerwyr statudol ddod yn ymwybodol.

- 11.74 Rydym yn ystyried y dylai'r Bil gadw'r gofynion gwahanol o ran hysbysu cynigion a chaniatâd ymgymerwyr statudol. Fodd bynnag, nid oes angen y gofyniad cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ym mhob achos, o ystyried y duedd gynyddol i benderfyniadau mawr hyd yn oed gael eu gwneud gan arolygwyr – yn ddarostyngedig i bŵer, a nodwyd uchod mewn cysylltiad ag apeliadau cynllunio, i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd i adfer achos penodol er mwyn iddynt ddod i benderfyniad arno.

Yn amodol ar y pwyntiau bach hynny, ymddengys nad oes unrhyw reswm pam na ellid cyfuno'r ddau god gweithdrefnol i un.

#### **Cynnig dros dro 11-9.**

**Rydym yn cynnig dros dro y caiff y penderfyniadau yn ymwneud â gorchmynion o dan adran 252 DCGTH 1990 eu gwneud yn gyffredinol gan arolygwyr yn hytrach na Gweinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i bŵer iddynt wneud cyfarwyddyd i adfer achos penodol iddynt ddod i benderfyniad arno.**

**Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?**

---

<sup>56</sup> DCGTH 1990, Atodlen 14, para 4.

## Pennod 12: Datblygiad anawdurdodedig

### CYFLWYNIAD

- 12.1 Byddai fawr o bwynt cael system gymhleth i reoli a chadw trefn ar ddatblygiadau os nad oedd hefyd gweithdrefn yn ei lle trwy'r hon y dall gofynion manwl y system gael eu gorfodi yn hawdd.
- 12.2 Fodd bynnag, tra bod rhai toriadau o reolaeth cynllunio yn fwriadol, nid yw'n syndod - gan gymryd cymhlethdod y system gynllunio - y daw toriadau eraill yn sgil anwybodaeth. Ac mewn rhai achosion, mae datblygiadau sydd wedi cael eu cynnal heb gael y caniatâd cynllunio angenrheidiol cyn cychwyn yn gwbl dderbyniol o ran y polisi, neu gellir eu gwneud yn dderbyniol yn amodol ar gwblhau gwaith adferol priodol.
- 12.3 Egwyddor sylfaenol y system sydd wedi ymddangos dros y saithdeg mlynedd diwethaf yw bod cynnal datblygiad anawdurdodedig - hynny yw, datblygiad nad sydd wedi cael caniatâd trwy orchymyn datblygu neu ganiatâd cynllunio penodol (neu un sydd wedi torri amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd o'r fath wrth ei gwblhau) - ddim yn drosedd, ond yn doriad o reolaeth gynllunio. Nid oes gofyn bod yr awdurdod cynllunio yn cymryd camau gorfodi mewn ymateb i bob toriad, ond ble mae'n cymryd camau gweithredu ac yn cyhoeddi un o'r amrywiol fathau o hysbysiad, gall diffyg cydymffurfio â'r hysbysiad fod yn drosedd.
- 12.4 Ble daw'r awdurdod cynllunio perthnasol yn ymwybodol bod toriad o'r fath ar fin digwydd, neu wedi digwydd, neu efallai wedi digwydd, y cam cyntaf tebygol yw ceisio rhagor o wybodaeth.
- 12.5 Ble mae'r awdurdod yn ystyried bod toriad eisoes wedi digwydd, neu efallai wedi digwydd, gall gymryd camau gweithredu os yw hynny'n ymddangos yn hwylus - ond nid yw gwneud hynny'n ofynnol. Gall y camau gweithredu hyn gymryd sawl ffurf:
- (1) ble mae'r toriad yn ymwneud â datblygiad gyda rhagolwg rhesymol y bydd caniatâd yn cael ei roi os gwnaed cais amdano, gall yr awdurdod gyhoeddi "hysbysiad rhybudd gorfodi", i roi gwybod i'r derbynwyr y gellir cymryd camau gweithredu pellach os na dderbynnir cais;
  - (2) ble mae'n ymddangos bod toriad wedi bod, a bod yr awdurdod yn ystyried camau gweithredu pellach, gall gyhoeddi "hysbysiad stop dros dro", sy'n gofyn bod y gweithgarwch tramgwyddus yn stopio yn syth; mae diffyg cydymffurfiaeth â hysbysiad yn drosedd, ond daw'r hysbysiad i ben ar ôl 28 diwrnod;
  - (3) ble mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi am ddatblygiad, ond ymddengys bod toriad wedi bod gydag amod i'r caniatâd hwnnw, gall yr awdurdod gyhoeddi "hysbysiad torri amod", gyda dim hawl i apelio yn ei erbyn; mae diffyg cydymffurfio gydag hysbysiad yn drosedd;

- (4) ble mae'n ymddangos bod datblygiad wedi cael ei gynnal naill ai heb ganiatâd neu bod amod wedi cael ei dorri, gall yr awdurdod gyflwyno "hysbysiad gorfodi", yn gofyn bod effaith datblygiad anawdurdodedig yn cael ei ddatrys; gall hysbysiad o'r fath fod yn destun apêl i Weinidogion Cymru cyn iddo ddod i rym; unwaith iddo ddod i rym, mae diffyg cydymffurfio yn drosedd, a gall yr awdurdod gael mynediad i'r tir a gwneud y gwaith angenrheidiol;
- (5) unwaith bod hysbysiad cydymffurfio wedi cael ei gyhoeddi, gall yr awdurdod hefyd gyflwyno "hysbysiad stop", yn gofyn bod y gweithgarwch tramgwyddus yn cael ei atal mwy neu lai ar unwaith; eto, mae diffyg cydymffurfio â hysbysiad atal hefyd yn drosedd.
- 12.6 Yn olaf, pan mae'r awdurdod yn ystyried bod toriad o reolaeth cynllunio yn debygol o ddigwydd - neu eisoes wedi digwydd, ac yn debygol o barhau - gall geisio cael gwaharddeb o'r llys i atal y rheini sy'n gyfrifol.
- 12.7 Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried pob un o'r gweithdrefnau uchod yn eu tro, ac yna'n ystyried y cosbau troseddol sydd ar gael yn y Ddeddf yn gyffredinol.
- 12.8 Mae'r gyfraith berthnasol yn Rhan 7 DCGTh 1990. Cafodd hon ei diwygio'n helaeth gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a roddodd yr argymhellion a wnaethpwyd gan Robert Carnwaith CF, fel yr oedd ar y pryd, mewn grym, yn ei adroddiad *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*.<sup>1</sup> Yn fwy diweddar, fel rhan o'r gwaith yn arwain at P(W)A 2015, adolygwyd darpariaethau gorfodi DCGTh 1990 gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn 2012<sup>2</sup> a gan Arup and Fortismere Associates yn 2013.<sup>3</sup>
- 12.9 Ceir amlinelliad o bolisi Llywodraeth Cymru ar orfodi cynllunio yn adran 3.6 PPW. Amlinellwyd mwy o gyfarwyddyd manwl yn ffurfiol yn Nodyn Cyngor Technegol TAN 9, *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*.<sup>4</sup> Mae hyn wedi cael ei drosglwyddo i'r Llawlyfr Rheoli Datblygiadau, sy'n ymgorffori, ble fo'n briodol, y cyfarwyddyd ar newidiadau a gyflwynwyd gan DC(C) 2015, ac mae'n darparu cyfarwyddyd ar bryd mae camau gorfodi yn briodol.

## Ymateb i'r Papur Cwmpasu

- 12.10 Yn y Papur Cwmpasu, fe nodom mai gorfodi oedd un o'r darpariaethau cynllunio craidd yr ydym yn ystyried i fod o fewn cwmpas yr ymarfer cyfundrefnu; er ni wnaethom nifer o awgrymiadau am ddiwygiadau technegol mewn perthynas â hyn. A ni dderbyniom lawer o awgrymiadau am ddiwygiadau o'r fath gan y sawl a ymatebodd i'r Papur. Gall hynny fod oherwydd bod gorfodaeth yn ardal hynod dechnegol o'r gyfraith, ac un sydd wedi bod yn destun nifer o adolygiadau dros y blynyddoedd - gan gynnwys yn yr adroddiadau, a nodwyd uchod, yn arwain i fyny at DC(C) 2015.

<sup>1</sup> *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*, Adran yr Amgylchedd, Llundain, 1989 ("adroddiad Carnwath"). Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at DCGTh 1990 yn ymwneud â'r Ddeddf honno fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1991.

<sup>2</sup> *Tuag at Ddeddf Cynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol*, adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Cynghori Annibynnol, Mehefin 2012.

<sup>3</sup> *Ymchwil i'r Adolygiad o'r System Gorfodi Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol*, Arup and Fortismere Associates, Mai 2013.

<sup>4</sup> Y Swyddfa Gymreig, 1997.

## GWEITHDREFN RHAGARWEINIOL

### Torri rheolaeth gynllunio

12.11 Mae'r cysyniad o dorri rheolaeth gynllunio yn tanategu holl ddarpariaethau DCGTh 1990 yn ymwneud â gorfodaeth. Ar hyn o bryd mae toriad yn cael ei ddiffinio (yn adran 171A(1)) fel cynnal datblygiad heb y caniatâd cynllunio gofynnol, neu methu â chydymffurfio ag amod neu gyfyngiad o'r caniatâd a roddwyd. Rydym eisoes wedi cynnig y dylid ymestyn hyn i gynnwys torri rhwymedigaeth gynllunio.<sup>5</sup>

### Ceisio gwybodaeth

12.12 Mewn nifer o achosion, gall awdurdod cynllunio ddod yn ymwybodol o doriad amheus o reolaeth gynllunio - naill ai a ddelir, un sydd ar y gweill neu un sydd wedi'i gwblhau - trwy gael gwybodaeth y gallai fod yn anghyflawn neu'n anghywir. A hyd yn oed pan mae'n ymwybodol o'r sefyllfa ffeithiol, os yw am gymryd unrhyw gamau gweithredu, bydd angen iddo wybod enwau a manylion cyswllt y sawl sydd ynghlwm, er mwyn gallu cyflwyno hysbysiadu'n gywir. Mae felly'n hanfodol cael gweithdrefn effeithiol i awdurdod gael mynediad at y tir, ble fo'n briodol, a chael gafael ar wybodateh.

12.13 Y cam cyntaf yn aml yw cyflwyno hysbysiad tramgwyddo cynllunio (PCN), dan adran 171C DCGTh 1990. Mae nifer o hysbysiadu fel hyn yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn.<sup>6</sup> Fel arall, mae'n bosib cyflwyno hysbysiad dan adran 330 DCGTh yn ceisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i alluogi awdurdod i gyflwyno hysbysiad dan y Ddeddf.

12.14 Gellir cyflwyno PCN gan awdurdod cynllunio; hysbysiad dan adran 330 gan yr awdurdod cynllunio<sup>7</sup> neu gan Weinidogion Cymru. Gellir cyflwyno unrhyw fath o hysbysiad ar feddiannwr y tir dan sylw. Gellir cyflwyno PCN ar feddiannwr y tir (hynny yw, "y person â'r hawl i dderbyn y crogent"<sup>8</sup>) neu berson sydd ag unrhyw fudd arall ynddo; gellir cyflwyno hysbysiad dan adran 330 ar y person sy'n derbyn rhent. A gellir cyflwyno PCN ar unrhyw berson arall sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben.

12.15 Gall y naill hysbysiad neu'r llall ofyn am wybodaeth o ran budd derbynydd yr hysbysiad yn y tir a gan unrhyw berson arall, am y defnydd o'r tir a phryd gychwynnodd hyn, ac am bryd gychwynnodd y gweithgareddau sy'n digwydd ar y tir nawr. Gall PCN hefyd angen gwybodaeth arall am weithgareddau o'r fath, a gwybodaeth am unrhyw weithrediadau ar y tir a phryd gychwynnon nhw (i'r graddau

---

<sup>5</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 10-5**.

<sup>6</sup> Yn y 30 mis yn arwain at fis Medi 2012, cyflwynwyd rhyw 1,106 hysbysiad toriadau cynllunio yng Nghymru - o'i gymharu â 176 hysbysiad torri amodau, 603 hysbysiad gorfodi, a 176 hysbysiad stop (ffynhonnell, *Ymchwil i'r Adolygiad o'r System Gorfodi Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol*, Llywodraeth Cymru, Mai 2013). Nid oedd hysbysiadu stop dros dro ar gael yng Nghymru ar adeg yr ymchwil honno. Er mwyn cymharu, y ffigurau cyfatebol ar gyfer Lloegr yn y flwyddyn i fis Mawrth 2017 oedd 4,812 hysbysiad toriadau cynllunio, 208 hysbysiad stop dros dro, 698 hysbysiad torri amod, 4,400 hysbysiad gorfodi, a 141 hysbysiad stop (ffynhonnell, ystadegau PINS).

<sup>7</sup> Gellir cyflwyno'r hysbysiad gan awdurdod lleol (a 330 (1)) neu gan awdurdod parc cenedlaethol (a 330 (6)).

<sup>8</sup> Y cogrent yw'r rent marchnad llawn. Yr egwyddor sydd yn tansilio'r diffiniad yw bod y person sydd a'r hawl i rentio'r eiddo at rent farchnad llawn (hynny yw, fel arfer y rhydd-ddeiliad, neu'r prydleswr hirdymor) yw'r person a ddylai gael cyfrifoldeb dros rhyddgau unrhyw rhwymedigaeth a grewyd gan y ddeddf.

bod y gweithrediadau'n wahanol i'r gweithgareddau). Gall PCN hefyd ofyn bod y derbynydd yn darparu:

- (1) gwybodaeth o ran yw unrhyw ddefnyddiau neu weithrediadau a nodwyd yn yr hysbysiad yn cael eu cynnal ar y tir, neu wedi cael eu cynnal;
  - (2) manylion o unrhyw berson y mae'n hysbys sy'n defnyddio'r tir, neu wedi defnyddio'r tir i gynnal unrhyw weithrediadau;
  - (3) gwybodaeth ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd, unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ganiatâd o'r fath; neu
  - (4) unrhyw reswm pam na fod angen caniatâd ar gyfer unrhyw ddefnydd neu weithrediad penodol.<sup>9</sup>
- 12.16 A gall PCN ofyn am gyfarfod ble fydd y derbynydd yn gallu trafod y materion a gyfeirir atynt yn yr hysbysiad.<sup>10</sup>
- 12.17 Mae'n drosedd, gyda chosb o ddirwy Lefel 3 (£3,000) i fethu â darparu'r wybodaeth a ofynnir amdani mewn PCN neu hysbysiad dan adran 330 heb reswm dilys. Mae darparu gwybodaeth ffug mewn ymateb i PCN yn drosedd gyda chosb o gollfarn ddiannod trwy ddirwy hyd at Lefel 5 (mewn effaith, dirwy o unrhyw swm).<sup>11</sup> Mae darparu gwybodaeth ffug mewn ymateb i hysbysiad dan adran 330 yn gosbadwy ar gollfarn ddiannod trwy ddirwy o unrhyw swm, ac ar gollfarn ar ddiad trwy ddirwy neu garchariad am hyd at ddwy flynedd.<sup>12</sup>
- 12.18 Cynigwn dros dro ei bod yn ddryslyd cael dau bŵer i gael gafael ar wybodaeth, gyda chryn dipyn o orgyffwrdd rhwng y ddau. Ond rydym yn cydnabod bod y pwerau ychwanegol i gael gwybodaeth dan PCN yn gallu bod yn ymwithiol (ac o bosib yn mynd yn erbyn yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon) ar wahân i sefyllfaoedd ble mae'n ymddangos bod toriad o reolaeth gynllunio wedi bod.
- 12.19 Rydym felly'n cynnig dros dro y dylid cael un pŵer i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad (o bosib yn cael ei alw'n "hysbysiad gwybodaeth cynllunio") ar berchennog a meddiannwr tir neu unrhyw berson sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu sy'n ei defnyddio at unrhyw ddiben. Gallai hysbysiad o'r fath angen gwybodaeth o ran y materion a allai fod, ar hyn o bryd, yn destun hysbysiad dan adran 330 (yn ymestyn i weithrediadau yn ogystal â gweithgareddau). Ble mae'n ystyried bod toriad rheolaeth gynllunio wedi bod, gallai'r hysbysiad ofyn yn ychwanegol am wybodaeth yn ymwneud â materion y gallai fod yn ofynnol gan PCN ar hyn o bryd, a chynnig cyfarfod i osod rheoliadu am y sefyllfa.

---

<sup>9</sup> DCGTh 190, a 171C(3)(a), (3)(c),(3)(d),(2)(b).

<sup>10</sup> DCGTh 190, a 171C(4).

<sup>11</sup> DCGTh 1990, a 171D(6); gweler **para 12.144**.

<sup>12</sup> DCGTh 1990, a 171D(6); gweler **para 12.144**.



12.20 Rydym yn ystyried yn nes ymlaen yn y bennod y cosbau priodol am fethu cyflwyno gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer hysbysiad o'r fath ac am drosglwyddo gwybodaeth ffug.<sup>13</sup>

### **Cwestiwn ymgynghori 12-1.**

**Ystyriwn dros dro y medrai'r darpariaethau cyfredol yn adran 171C a 330 DCGTH 1990 gael eu cyfuno mewn un pŵer er mwyn i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio gyflwyno "hysbysiad gwybodaeth gynllunio" ar berchennog a meddiannwr tir neu unrhyw berson sy'n cynnal gweithrediadau neu weithgareddau eraill ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, gan ofyn i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth ar y canlynol:**

- (1) y budd sydd gan derbynnydd yr hysbysiad yn y tir a gan unrhyw berson arall y mae'r derbynnydd yn ymwybodol ohonynt;**
- (2) y defnydd neu'r defnyddiau a wnaed o'r tir a pha bryd gychwynnon nhw; a'r**
- (3) gweithrediadau a gweithgareddau eraill sydd nawr yn digwydd ar y tir a phryd gychwynnon nhw.**

**Ble mae'n ymddangos bod toriad o reolaeth gynllunio wedi digwydd, gall hysbysiad o'r fath hefyd:**

- (4) ofyn bod y derbynnydd yn darparu gwybodaeth o ran:**

- **a yw unrhyw ddefnyddiau neu weithrediadau a nodir yn yr hysbysiad yn cael eu cynnal ar y tir, neu wedi cael eu cynnal ar y tir;**
- **unrhyw berson y mae'n hysbys ei bod ei fod yn defnyddio'r tir neu wedi defnyddio'r tir neu gynnal unrhyw weithrediadau ar y tir;**
- **unrhyw ganiatâd cynllunio sydd wedi cael ei roi, ac unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n cyd-fynd â'r caniatâd hwnnw; neu**
- **unrhyw resymau pam nad oes angen caniatâd ar gyfer unrhyw ddefnydd neu weithrediad penodol; ac**

- (5) i ofyn am gyfarfod ble mae'r derbynnydd yn gallu trafod y materion a gyfeiriwyd atynt yn yr hysbysiad.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

---

<sup>13</sup> Gweler paragraffau 12.142 i 12.147, a cwestiwn ymgynghori 12-24.

## Mynediad i eiddo

- 12.21 Mae hefyd grym (dan adran 196A DCGTh 1990) i unrhyw un a awdurdodir gan awdurdod cynllunio i gael mynediad at dir, yn amodol ar drefniadau diogelwch priodol, i archwilio toriad amheus o reolaeth gynllunio. Mae adran 196A yn nodi, mewn achosion o dŷ-annedd, gellir arfer hwn ar ôl rhoi 24 awr o rybudd. Fel y nodir ym **Mhennod 17**, ni ddiffinnir y term "tŷ-annedd" yn y Ddeddf,<sup>14</sup> ond rydym yn ystyried y dylai gyfeirio yn y cyd-destun hwn at unrhyw dŷ, gan gynnwys fflat.

### Cwestiwn ymgynghori 12-2.

**Cynigwn dros dro y dylai'r cyfyngiad ar gael mynediad i eiddo at ddibenion gorfodi ar ôl rhoi 24 awr o rybudd yn unig, ar hyn o bryd yn adran 196A(4) DCGTh 1990, gael ei egluro er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw eiddo a ddefnyddir fel tŷ.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## Toriadau cudd o reolaeth gynllunio

- 12.22 Fe nodom mewn Pennod gynharach bod yna gyfyngiadau amser pan mae datblygiad anawdurdodedig yn dod yn ddiogel rhag camau gweithredu, a thrwy hynny'n "gyfreithlon".<sup>15</sup> Awgrymom y dylid cynnwys y darpariaethau statudol o ran y cyfyngiadau amser hyn, ar hyn o bryd yn adran 171B DCGTh 1990, ynghyd â'r rheini sy'n ymwneud â thystysgrifau o gyfreithlondeb, yn y Rhan o'r Bil sy'n ymdrin â'r angen am ganiatâd cynllunio yn gyffredinol, yn hytrach na gyda'r darpariaethau yn ymwneud â gorfodi.
- 12.23 Fodd bynnag, yn y Papur Cwmpasu, fe welsom y gallai'r iaith ymddangosiadol digymwys, yn Adran 171B achosi problem ble mae datblygwyr yn cuddio toriad o reolaeth gynllunio er mwyn i'r cyfyngiad amser ddod i ben, gan olygu na fydd yr awdurdod cynllunio yn gallu cymryd camau gorfodi pellach.<sup>16</sup>
- 12.24 Fe nodom benderfyniad y Goruchaf Lys yn *Cyngor Welwyn Hatfield v Yr Ysgrifennydd Gwladol* yn ymwneud â'r mater hwn.<sup>17</sup> Yn yr achos hwnnw, roedd Mr Beesley wedi adeiladu adeilad a oedd yn edrych fel ysgubor o'r tu allan, ond a oedd yn gartref tu mewn. Symudodd i mewn mis ar ôl ei gwblhau, gan fyw yno fel cartref am dros bedair blynedd heb yn wybod i'r awdurdod cynllunio, ac yna bu'n geisio am dystysgrif cyfreithlondeb. Daeth y Goruchaf Lys i'r casgliad bod ei ymddygiad, er nid yn amlwg yn anghyfreithlon, yn cynnwys twyll cadarnhaol mewn materion a oedd yn hanfodol i'r broses gynllunio ac a oedd â'r nod uniongyrchol o danseilio gweithrediad rheolaidd y broses. Byddai'n buddio'n uniongyrchol o'r twyll pe byddai'r cyfnod gorfodi

<sup>14</sup> Gweler **paragraffau 18.106 i 18.111**.

<sup>15</sup> Gweler **para 7.88 a cwestiwn ymgynghori 7-11**.

<sup>16</sup> Gweler *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu* (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, Rhif 228, para 5.40.

<sup>17</sup> *Cyngor Welwyn Hatfield v Ys Ysgrifennydd Gwladol a Beesley* [2010] UKSC 15, [2011] 2 AC 304.

pedair blynedd arferol a oedd wedi mynd heibio yn caniatáu iddo wrthsefyll gorfodaeth. Nid oedd yr iaith ymddangosiadol di-gymwys statudol yn medru ystyried neu ymestyn i achos o'r fath. Felly, gwrthodwyd y dystysgrif.

- 12.25 Nodom hefyd bod y darpariaethau statudol a gyflwynwyd wedi hynny - ond yn Lloegr yn unig - fel adrannau 171BA i 171BC DCGTh 1990, a oedd yn galluogi i awdurdod wneud cais i lys ynadon am "orchymyn gorfodi cynllunio" (PEO), sy'n ymestyn y terfyn amser y gellir cymryd camau gweithredu. Awgrymom y gellid gwneud gwelliannau trwy ystyried cwmpas a defnydd pob opsiwn mewn perthynas â thoriadau cudd o reolaeth gynllunio, i ganfod pa un, os o gwbl, y gellid ei roi ar waith orau yng Nghymru.<sup>18</sup> Mewn ymateb, cytunodd PEBA y dylem ystyried hyn. Ac roedd Persimmon Homes Gorllewin Cymru hefyd yn credu bod yr 'iaith statudol angen rhagor o eglurhad' mewn perthynas ag adran 171B.
- 12.26 Ers ymddangosiad y Papur Cwmpas, mae'r Llys Apêl wedi ystyried y ddwy weithdrefn, yn *Jackson v Yr Ysgrifennydd Gwladol* a oedd yn ymwneud â dau achos ble roedd ysgubor wedi cael ei addasu'n rhannol yn dŷ-annedd. Crynhowyd y sefyllfa gan Richards LJ fel a ganlyn:

Mae *gorgyffwrdd* rhwng y weithdrefn PEO ag egwyddor *Welwyn* ond mae'r gorgyffyrddiad yn bell o fod yn gyflawn. Ar un llaw, mae'r weithdrefn PEO lawer culach nag egwyddor *Welwyn*, gan ei bod yn berthnasol yn unig ble mae toriad ymddangosiadol o reolaeth gynllunio wedi cael ei guddio'n fwriadol, tra bod egwyddor *Welwyn* yn ymestyn i achosion o anonestrwydd neu droseddoldeb, fel llwgrwobrwyd neu orfodaeth, na fyddai yn cyfri fel cuddiad bwriadol o reidrydd. Ar y llaw arall, mae egwyddor *Welwyn* yn berthnasol mewn achosion arbennig o ddifrifol yn unig, tra bod gweithdrefn PEO yn berthnasol ble mae toriad ymddangosiadol o reolaeth gynllunio wedi cael ei guddio'n fwriadol "i unrhyw raddau". Rhaid i achos yr apeliwr fod yn yr ardal o orgyffwrdd sef bod y Senedd wedi bwriadu i weithdrefn y PEO fod yn unigryw a chael gwared ar ddibyniaeth ar yr ystyr a roddir i adran 171B yn *Welwyn*, ond nid yw ystyr yr adran wedi newid i'r graddau bod egwyddor *Welwyn* yn gallu bod yn berthnasol y tu allan i'r ardal o orgyffwrdd. Os yw rhywun yn sôn am y cynnig hwnnw, gellir gweld i ba raddau mae apelwyr yn ceisio ystumio'r statud.<sup>19</sup>

- 12.27 Nododd y Llys bod y Goruchaf Lys yn *Welwyn* yn syml wedi bod yn dehongli cynllun Rhan 7 DCGTh 1990 - cyn cyflwyno'r weithdrefn PEO. Yn unol â hyn, cynhaliodd penderfyniad Holgate J bod egwyddor *Welwyn* yn parhau i weithredu mewn achosion difrifol, a'i bod heb gael ei basio neu ei danseilio gan gyflwyniad y weithdrefn newydd (yn adrannau 171BA i 171BC).
- 12.28 Ystyriwn dros dro ei bod ei ddiwerth cael dwy weithdrefn, un o gyfraith gyffredin a'r llall ar wyneb y statud, sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol.

---

<sup>18</sup> Gweler *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu* (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, Rhif 228, para 5.40.

<sup>19</sup> *Bonsall v Yr ysgrifennydd Gwladol a Rotherham MBC; Jackson v Yr Ysgrifennydd Gwladol, CC Caerwynt* [2015] EWCA Civ 1246, [2016] QB 811, ar [45]. Gweler hefyd Hatfield, *Datblygiad cudd: a oedd wir angen adran 124 arnom?* [2013] JPL 19.

- 12.29 Pwysleisiodd yr Arglwydd Brown yn *Welwyn* y byddai'r egwyddor sy'n cael ei rhoi ar waith gan y Goruchaf Lys ond yn berthnasol mewn 'amgylchiadau hynod eithriadol', a ni fyddai wedi cynnwys, er enghraifft, gosod fflat nain mewn toriad o amod cynllunio (fel ddigwyddodd yn *Arun DC v Yr Ysgrifennydd Gwladol*,<sup>20</sup> a dyfynnwyd yn *Welwyn*). Roedd y ffeithiau yn achos *Welwyn* ei hun, yn achos *Fidler*<sup>21</sup> yn cyfeirio at *Welwyn*, ac yn y ddau achos a ystyriwyd yn *Jackson*, yn wir oll yn eithriadol.
- 12.30 Mae'r weithdrefn PEO, mewn cyferbyniad, yn berthnasol ble mae unrhyw doriad ymddangosiadol o reolaeth gynllunio wedi cael ei guddio'n fwriadol "i unrhyw raddau". Gellir dadlau y gallai hyn gynnwys pob math o fân anghysondebau. Yn wir, mae'r ffaith bod y DCGTh 1990 yn cynnwys gweithdrefnau sy'n caniatáu cymryd camau gorfodi ychydig flynyddoedd ar ôl i doriad ddigwydd yn cydnabod yn oblygedig y bydd yna doriadau sy'n parhau i fod yn gudd, i ryw raddau o leiaf, ond sy'n cael eu cydnabod i fod yn ddiniwed os nad ydynt yn dod i'r amlwg am gyfnod hir. Yn ddadleuol, byddai unrhyw fân guddiad o'r fath mewn peryg o gael ei orfodi yn erbyn am gyfnod hirach o lawer dan weithdrefn PEO, a fyddai'n tansilio'r holl reswm dros gael terfynau amser.
- 12.31 Mae'r weithdrefn PEO yn broblemus beth bynnag, am sawl rheswm. Yn gyntaf, nid yw'n darparu terfyn amser yn y pen draw ar gyfer camau gorfodi posib gan yr awdurdod, felly dim sicrwydd ar gyfer prynwyr y dyfodol, benthydwyr ac eraill. Yn ail, ni ellir herio'r dystysgrif a gyhoeddir gan yr awdurdod o ran y dyddiad y daethpwyd â'r toriad ymddangosiadol at ei sylw. Yn drydydd, nid yw'r ynadon yn ddigon cymwys i ystyried manylion technegol cyfraith gynllunio.<sup>22</sup>
- 12.32 Ystyriwn dros dro felly ei bod yn well i awdurdodau cynllunio ddibynnu ar egwyddor *Welwyn* mewn achosion priodol, gan gydnabod y byddant yn codi mewn 'amgylchiadau hynod eithriadol' yn unig, a bod y weithdrefn PEO a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2001 ddim yn cael ei chyflwyno yng Nghymru.
- 12.33 O ran ymgorffori egwyddor *Welwyn* yn y Bil, ystyriwn bod y Llysoedd heb roi digon o ystyriaeth i'r mater eto i gyfiawnhau cael ei godeiddio; na chwaith yw hi'n sicr y byddai yna gategoreiddio priodol o'r amgylchiadau ble fyddai'n berthnasol. Ystyriwn dros dro felly y dylai'r mater o doriadau bwriadol i reolaeth gynllunio aros yn fater i'r llysoedd ar hyn o bryd, iddynt fynd i'r afael â'r mater fesul achos, fel sydd wedi bod yn digwydd hyd yma.

### Cwestiwn ymgynghori 12-3.

**Ystyriwn dros dro na ddylai'r gyfraith o ran toriadau cudd o reolaeth gynllunio aros fel y mae, yn destun yr egwyddorion cyfraith gyffredin a ddatblygwyd yn *Cyngor Welwyn Hatfield v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2010] UKSC 15, [2011] 2 AC 304, ac yn benodol, bod y weithdrefn "gorchymyn gorfodi cynllunio", a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gael ei chynnwys yn y Bil.**

<sup>20</sup> [2011] 2 AC 304 at [75] – [79], [84].

<sup>21</sup> *Fidler v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2011] EWCA Civ 1159.

<sup>22</sup> Trosglwyddwyd yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad 217 gan DC(C) 2015 o'r llysoedd ynadon i Weinidogion Cymru am y rheswm yma.

## Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### DEWISIADAU AMGEN I GAMAU GORFODI

#### Hysbysiadau rhybudd o gamau gorfodi

- 12.34 Mae adran 173ZA DCGTh 1990, a gyflwynwyd gan DC(C) 2015 a ddaeth i rym ar 16 Mawrth 2016, yn galluogi i awdurdod cynllunio gyhoeddi hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi. Mae hyn yn ymwneud â'r sefyllfa pan yw'n ymddangos bod datblygiad wedi cael ei gynnal heb ganiatâd cynllunio, ond ble fod yna ragolwg rhesymol, pe byddai cais yn cael ei wneud, byddai caniatâd yn cael ei roi. Mewn achos o'r fath, gall yr awdurdod gyhoeddi hysbysiad yn rhoi gwybod i dderbynwyr y gellid cymryd camau gorfodi pellach os na dderbynnir cais cynllunio o fewn cyfnod penodedig.
- 12.35 Mae adran 173ZA(5) DCGTh 1990 yn darparu bod cyhoeddi hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi "ddim yn effeithio ar unrhyw bŵer arall" y gellir ei arfer mewn perthynas â thoriad o reolaeth gynllunio. Fodd bynnag, mae adran 171B(4)(b) yn darparu ei bod yn ganiataol cymryd camau gorfodi pellach o fewn pedair blynedd o gamau gorfodi blaenorol - sydd, trwy adran 171A(2)(aa), yn cynnwys cyflwyno hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi. Golyga hynny bod awdurdod yn gallu ymestyn yr amser ar gyfer mathau eraill o gamau gorfodi trwy gyflwyno hysbysiad o'r fath.
- 12.36 Ystyriwn dros dro y gallai fod yn briodol peidio ag ail-ddatgan adran 171A(2)(aa) yn y Bil, a fyddai'n golygu y byddai'r weithred o gyflwyno hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi yn gallu digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw (o 4 neu 10 mlynedd) pan mae camau gorfodi eraill yn bosib, ond bod dim modd ymestyn y cyfnod hwnnw. Fel arall, gellid addasu a. 173ZA(5) i ddarparu, ble mae hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi wedi cael ei gyflwyno, bod y cyfnod i gymryd camau gweithredu pellach yn cychwyn ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad, ac nid oes modd ei ymestyn yn amhenodol trwy ddyroddi hysbysiadau gorfodi pellach.
- 12.37 Fel arall, ymddengys bod adran 173ZA wedi'i ddrafftio'n foddhaol, a nid oes angen y diwygiadau technegol a gynigir yn ddiweddarach yn y Bennod hon mewn perthynas â mathau eraill o gamau gorfodi. Mae'r weithdrefn yn rhywbeth gweddol newydd, felly nid yw ei effeithiolrwydd a'i defnyddioldeb wedi cael eu profi yn ymarferol eto. Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion pellach o ran diwygiadau technegol.

#### Cwestiwn ymgynghori 12-4.

Cynigwn dros dro, naill ai:

- (1) **bod modd cyflwyno hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi wneud yn ystod y cyfnod o 4 i 10 mlynedd pan ellir cymryd camau gorfodi, ond bod y weithred o gyflwyno hysbysiad o'r fath ddim yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw; neu**
- (2) **pan fod hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi wedi cael ei gyflwyno, bod y cyfnod i gymryd camau gorfodi eraill yn cychwyn ar y diwrnod y**

## **cyflwynwyd yr hysbysiad.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno ac os felly, pa opsiwn sy'n ymddangos fwyaf addas?**

### **HYSBYSIADAU STOP DROS DRO**

#### **Cyflwyniad**

- 12.38 Ble ymddengys bod toriad o reolaeth gynllunio wedi bod, a bod yr awdurdod cynllunio yn ystyried camau pellach, gall gyflwyno "hysbysiad stop dros dro" ("TSN"), dan adran 171E DCGTh 1990 (a gyflwynwyd gan DCPG 2004). Effaith hysbysiad o'r fath yw ei wneud yn ofynnol bod y gweithgarwch troseddol yn stopio ar unwaith.<sup>23</sup> Daw'r hysbysiad i ben ar ôl 28 niwrnod, gyda'r eithriad bod yr awdurdod wedi cymryd rhyw fath arall o gamau gorfodi yn ystod y cyfnod hwnnw; ond yn y cyfamser, mae diffyg cydymffurfio yn drosedd, gyda chosb o ddirwy anghyfyngedig.<sup>24</sup>
- 12.39 Bydd cyflwyno hysbysiad dan y drefn hon yn rhoi amser i'r awdurdod cynllunio ystyried beth mae am ei wneud nesaf, os unrhyw beth o gwbl. Ond nid yw heb ei beryglon, oherwydd bydd yr awdurdod yn atebol i dalu iawndal os:
- (1) daw i'r amlwg bod y gweithgarwch dan sylw yn gwbl gyfreithlon (hynny yw, ei bod yn destun caniatâd cynllunio, ac yn cyd-fynd â'r holl amodau a oedd yn gysylltiedig â'r caniatâd hwnnw); neu
  - (2) os yw'r awdurdod yn cyflwyno tystysgrif o ddatblygiad cyfreithlon mewn perthynas â'r rhain; neu
  - (3) os yw'n tynnu'r hysbysiad yn ôl.
- 12.40 Er y cyflwynwyd adran 171E yn 2004, dim ond ym mis Mehefin 2015 y daeth i rym yng Nghymru, felly mae angen gweld sut bydd yn cael ei defnyddio yn ymarferol. Fodd bynnag, dylid nodi, yn Lloegr ble daeth adran 171E i rym yn 2005, cyhoeddwyd 556 TSN yn 2006/07, gan ostwng i 260 yn 2011/12, a 208 yn 2016/17. Mae hyn yn awgrymu bod y defnydd o'r weithdrefn hon yn diflannu'n raddol - o bosib oherwydd yr atebolrwydd posib am iawndal - ond nid yw'r pŵer wedi darfod o bell ffordd.
- 12.41 Y gwahaniaeth rhwng hysbysiad stop dros dro (TSN) a hysbysiad stop yw bod TSN wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio fel mesur cyfnod byr, cyn gynted ag y bo awdurdod yn canfod problem amlwg (megis taflu gwastraff yn anghyfreithlon neu rasio ceir heb unrhyw ganiatâd cynllunio) a thra'n penderfynu beth i'w wneud nesaf; dyna pam mae'n ddirym wedi cyfnod o 28 diwrnod, ac nid yw'n ddarostyngedig i hawl i apelio. Ac ni fyddir wedi penderfynu eto a ddylid gweithredu gorfodaeth, yn yr ystyr o ddyroddi hysbysiad gorfodi sydd yn ceisio tynnu terfyn parhaol ar y gweithgaredd.

<sup>23</sup> DCGTh 1990, a 171E(3), mewnosodwyd gan PCPA 2004, a 52.

<sup>24</sup> Uchafswm y dirwy yw £20,000 ar gollfan ddiannod, nid oes terfyn ar ddiad.

- 12.42 I'r gwrthwyneb, cyflwynir hysbysiad stop gyda chopi o hysbysiad gorfodi. Bydd hysbysiad gorfodi ond yn cael ei gyflwyno pan fydd yr awdurdod wedi penderfynu beth i'w wneud, a bydd yn ddarostyngedig i hawl i apelio. Os yw'r awdurdod yn dymuno i'r gweithgareddau sy'n tramgwyddo derfynu ar unwaith, gall gyflwyno hysbysiad stop hefyd. Bydd yr hysbysiad stop yn disgyn os daw'r hysbysiad gorfodi i rym (o bosibl yn dilyn apêl aflwyddiannus); ond os tynnir yr hysbysiad gorfodi, neu os caiff ei ddileu ar apêl ar seiliau penodedig, bydd yr hysbysiad stop yn disgyn gydag ef, a bydd hynny'n arwain at hawl i iawndal.

### Hysbysiadau yn effeithio ar eiddo preswyl

- 12.43 Yn rhinwedd Adran 171F, nid yw'r pŵer i gyflwyno Hysbysiad Stop Dros Dro (TSN) dan adran 171E ar gael i wahardd y defnydd o unrhyw adeilad (a fyddai'n cynnwys rhan o adeilad<sup>25</sup>) fel "tŷ-annedd".<sup>26</sup> Gellid tybio y byddai'r sail polisi ar gyfer y cyfyngiad hwnnw'n berthnasol yn yr un modd i'r defnydd o hysbysiad dros dro mewn perthynas â defnyddio adeilad neu ran o adeilad fel fflat.<sup>27</sup>
- 12.44 Rydym yn ystyried y sefyllfa o ran "anheddau" a "thai-annedd" ym Mhennod17.<sup>28</sup> Ond ystyriwn dros dro y dylid egluro adran 171F i esbonio nad nod TSN yw gwahardd defnydd unrhyw adeilad, neu ran o adeilad, fel annedd - nid dim ond fel tŷ-annedd.

#### Cwestiwn ymgynghori 12-5.

**Cynigwn dros dro bod y cyfyngiad ar gyflwyno hysbysiad stop dros dro, ar hyn o bryd yn adran 171F(1)(a) DCGTH 1990, yn cael ei egluro er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i unrhyw annedd (ac yn cael ei diffinio yn y fath fodd i gynnwys tŷ a fflat).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Cyfnod yr hysbysiad, a chyhoeddusrwydd cysylltiedig

- 12.45 Gan fod cyflwyno TSN yn ei natur yn gynsail i fathau eraill o gamau gorfodi, a bod yr hysbysiad yn dod i ben ar ôl cyfnod cymharol fyr, mae'r gweithdrefnau braidd yn wahanol i'r sawl sy'n ymgeisio i fathau eraill o gamau gorfodi.
- 12.46 Yn rhinwedd adran 171E(5), rhaid i awdurdod cynllunio sydd wedi cyflwyno TSN arddangos copi ohono (a datganiad o'i effaith a'r cosbau o ddiffyg cydymffurfiaeth) ar y tir y mae'n berthnasol iddo. Gall yr awdurdod hefyd gyflwyno'r "hysbysiad" (gellid tybio mai copi ohono fydd hwn) ar
- (1) y person mae'n credu sy'n cynnal y gweithgaredd sy'n cyfri fel toriad y rheolaeth gynllunio,

<sup>25</sup> DCGTh 1990, a 336.

<sup>26</sup> DCGTh 1990, a 171F(1)(a).

<sup>27</sup> Roedd arfer bod cyfyngiad ar y defnydd o hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â charafanau yn Lloegr, ond diddymwyd hyn (DCGTH 1990, s 171F(1)(b); a 2005 OS 206, dirymwyd yn 2015 gan 2013 OS 830). Ni chafwyd ei gyflwyno yng Nghymru.

<sup>28</sup> Gweler **paragraffau 18.106 i 18.127.**

- (2) y person mae'n credu yw'r tiffeddiannwr, neu'r
- (3) person mae'n credu yw trigiannwr y tir.
- 12.47 Mae hyn yn wahanol i weithdrefnau yn ymwneud â mathau eraill o hysbysiad, sydd i gael eu cyflwyno ar y rheini sy'n berchen y tir mewn gwirionedd ayyb, nid y sawl sy'n ymddangos fel pe bai nhw'n berchen ar y tir. Ac mae'r atebolrwydd i gydymffurfio â TSN yn cysylltu, o leiaf yn rhannol, â pherson sydd wedi derbyn copi o'r hysbysiad, os yw'r awdurdod yn gywir ai peidio yn ei farn o ran pwy yw perchennog neu feddiannwr y tir neu hunaniaeth y sawl sy'n cynnal y gweithgarwch.
- 12.48 Mae'r gofyniad o ran arddangos hysbysiad safle yn ymwneud yn unig â'r "tir" ble mae'r gweithgarwch tramgwyddus yn digwydd. Gallai hyn achosi problemau mewn achosion gydag ardal fawr o dir, er enghraifft mewn ardaloedd gwledig, pe byddai hysbysiad yn cael ei dangos mewn lleoliad ar y tir a oedd rhyw bellter o le mae'r gweithgarwch yn wir yn digwydd. Mae hefyd yn ymddangos yn anfoddfaol bod gofyn i'r awdurdod arddangos copi ar y tir o'r TSN ei hun, oherwydd gallai'r hysbysiad gynnwys sawl tudalen a gall fod wedi'i eirio mewn iaith dechnegol. Yn realistig, byddai'n well i'r sawl sydd eisiau astudio geiriad llawn hysbysiad - ac sydd â mynediad at y rhyngwyd - wneud hynny ar-lein, gan gymryd eu bod yn gwybod bod yr hysbysiad yn bodoli, a ble gellir dod o hyd iddo ar wefan yr awdurdod cynllunio. Ond y peth pwysicaf yw bod yr hysbysiad ar y safle yn crynhoi effaith y TSN.
- 12.49 Mae TSN mewn grym "o'r adeg" y caiff ei arddangos gyntaf, sydd yn ôl pob tebyg yn golygu ei fod mewn grym ar unwaith wedi iddo gael ei arddangos - er nid yw'n glir beth sy'n digwydd os yw'r hysbysiad ei hun wedi'i arddangos, ond heb ddatganiad o'i effaith.<sup>29</sup> Yna, mae'r hysbysiad mewn grym am gyfnod o 28 niwrnod yn cychwyn "ar" y diwrnod y caiff ei arddangos, ond nid yw'r glir a yw'r cyfnod yn cychwyn ar yr union amser o arddangos yr hysbysiad, neu ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod hwnnw.<sup>30</sup> Mae hyn mewn cyferbyniad gydag adran 173(8), sy'n darparu bod hysbysiad gorfodi yn dod mewn grym "ar" y dyddiad a nodir arno - sy'n golygu ar ddechrau'r dyddiad hwnnw.
- 12.50 Cynigwn dros dro y dylai hysbysiad ddod i rym ar yr amser a'r dyddiad a nodir arno, a fydd yn gyffredinol pan gaiff ei arddangos ar y tir dan sylw. Yna dylai aros mewn grym am gyfnod o 28 diwrnod yn cychwyn ar y diwrnod yn dilyn y diwrnod y caiff ei arddangos. Dylid arddangos ar y tir, neu mor agor â phosib i ardal y gweithgarwch, a chyn cychwyn y dyddiad y daw'r TSN i rym, a dylai gynnwys hysbysiad:
- (1) yn nodi bod TSN wedi cael ei gyflwyno;
- (2) yn crynhoi effaith yr hysbysiad, gan gynnwys y dyddiad y daw i rym; ac
- (3) yn nodi'r cyfeiriad (lleoliad corfforol a, ble mae ar gael, gwefan) ble gellir gweld copïau llawn o'r hysbysiad.
- 12.51 Ar ben hynny, gallai'r awdurdod gyflwyno copïau o'r TSN i'r sawl sy'n ymddangos fel perchennog neu feddiannwr y tir ac ar eraill y gallai fod yn briodol, gan gofio y bydd

<sup>29</sup> DCGTh 1990 a 171E(6).

<sup>30</sup> DCGTh 1990 a 171E(7).



yn haws sicrhau collfarn o ddiffyg cydymffurfiaeth os yw presenoldeb yr hysbysiad wedi cael ei hysbysebu'n eang.

12.52 Felly, er enghraifft, gellid drafftio TSN ar fore Llun (gan nodi y daw i rym y diwrnod canlynol), a sicrhau bod copi ar gael o'r amser hwnnw yn y prynhawn yn swyddfeydd y Cyngor; gellid arddangos yr hysbysiadau safle perthnasol ar brynhawn Llun; a gellid cyflwyno copïau ar amryw bartïon a diddordeb ar amryw adegau trwy gydol yr wythnos. Yna, byddai'r TSN yn dod i rym ar y prynhawn Llun, unwaith y mae wedi ei arddangos ar y safle. A byddai'n aros mewn grym tan ddiwedd y Dydd Llun bedair wythnos yn ddiweddarach (heb ots am unrhyw wyliau cyhoeddus).

12.53 Felly ni ddylai'r dyddiad y daw'r hysbysiad i rym gael ei effeithio gan y dyddiad neu'r dyddiadau y cyflwynir copïau o'r TSN.

12.54 Nid ydym yn ystyried y byddai'r tynhau bychan hwn o'r darpariaethau statudol yn cael unrhyw effaith ar adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno hysbysiadau.

### **Cwestiwn ymgynghori 12-6.**

#### **Cynigwn dros dro:**

- (1) **dylai hysbysiad stop dros dro (TSN) ddod i rym ar yr amser a'r dyddiad sydd wedi'u nodi arno, a fydd yn gyffredinol pan gaiff ei arddangos ar y tir dan sylw;**
- (2) **yna dylai aros mewn grym am 28 diwrnod (gan gychwyn ar ddechrau'r diwrnod yn dilyn i diwrnod y cafodd ei arddangos;**
- (3) **dylid arddangos yr hysbysiad ar y tir, neu mor agos â phosib i leoliad y gweithgarwch sy'n destun yr hysbysiad:**
  - **yn nodi bod TSN wedi cael ei gyflwyno;**
  - **yn crynhoi effaith y TSN, ac**
  - **yn nodi'r cyfeiriad (ac, os yn berthnasol, y wefan) ble gellir gweld copi llawn o'r TSN;**
- (4) **dylai fod gan yr awdurdod bŵer (ond nid dyletswydd) i gyflwyno copïau o'r TSN i berchennog a meddiannwr y tir ac eraill fel sy'n briodol;**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Diffyg cydymffurfiaeth**

12.55 Mae adran 171G(1) yn darparu ei bod yn drosedd i berson dorri TSN sydd wedi cael ei gyflwyno iddo neu iddi, neu sydd wedi cael ei arddangos ar y tir. Golyga hynny, ble mae copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar berson, bod y person hwnnw'n gallu cael ei erlyn am ddiffyg cydymffurfiaeth hyd yn oed os nad oes copi o'r hysbysiad wedi cael ei ddangos ar y tir - fel bod yr hysbysiad heb ddod i rym eto. A

gellir cyflwyno copiâu i wahanol bobl ar wahanol ddyddiadau. Mae'n amddiffyniad i ddangos bod yr hysbysiad heb gael ei gyflwyno ar yr un a ddrwgdybir, a bod yr un gyhuddir ddim yn gwybod, a bod dim disgwyl rhesymol iddo wybod, am ei bresenoldeb.<sup>31</sup>

- 12.56 Ystyriwn dros dro y dylai'r drosedd dan adran 171G ymwneud â thorri hysbysiad sydd wedi dod i rym, yn hytrach nag un ble mae copi ohono wedi cael ei gyflwyno neu ei arddangos ar y tir.

### Cwestiwn ymgynghori 12-7.

#### Cynigwn dros dro:

- (1) ei bod yn drosedd i dorri hysbysiad stop dros dro sydd wedi dod i rym (yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno ar yr un a gyhuddir neu wedi ei arddangos ar y safle);
- (2) y dylai fod yn amddiffyniad i honiad o'r fath i brofi bod yr un a gyhuddir
  - heb gael ei gyflwyno â chopi o'r hysbysiad; a
  - ddim yn gwybod, neu bod dim disgwyl rhesymol iddo wybod, am bresenoldeb yr hysbysiad.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

## HYSBYSIAD TORRI AMODAU

### Cyflwyniad

12.57 Mae weithiau'n digwydd bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer datblygiad, ond ymddengys bod toriad wedi bod i un o'r amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd hwnnw. Un datrysiad posib yw i awdurdod gyhoeddi hysbysiad gorfodi, yn gofyn bod angen cywiro'r toriad. Fodd bynnag, gallai hynny arwain at apêl yn erbyn yr hysbysiad, a allai agor i fyny teilyngdod yr amod. Dewis arall yw i'r awdurdod gyflwyno "hysbysiad torri amodau", does dim hawl apelio yn erbyn y rhain; ac mae diffyg cydymffurfio â hysbysiad o'r fath yn drosedd. Mae'r weithdrefn yn destun adran 187A DCGTh 1990, a gyflwynwyd gan adran 1 Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, yn dilyn argymhelliad yn adroddiad Carnwath.

12.58 Y rhesymeg y tu ôl i'r weithdrefn yw pan fod caniatâd cynllunio yn cael ei roi, mae hawl i apelio yn erbyn unrhyw amodau sy'n gysylltiedig ag ef. Os nad oes apêl o'r fath yn cael ei gwneud (neu os oes apêl yn cael ei gwneud ond ei bod yn methu ag arwain at ganlyniad o addasu'r amodau), unwaith bod y perchennog neu'r datblygwr wedi cymryd mantais o'r caniatâd, ac wedi cwblhau'r datblygiad, daw hynny â dyletswydd i gydymffurfio â'r holl amodau cysylltiedig. Felly, nid oes modd cyflwyno cwyn yn rhesymol os yw'r awdurdod yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r amodau

<sup>31</sup> DCGTh 1990 a 171G(5).

trwy gyflwyno hysbysiad torri amodau - a does dim hawl apelio yn erbyn hwn - ac yn dilyn hynny gydag erlyniad am ddiffyg cydymffurfiaeth os oes angen.

### Cyfnod yr hysbysiad, a chyhoedduswydd cysylltiedig

- 12.59 Ar hyn o bryd, gellir cyflwyno hysbysiad torri amodau ar unrhyw berson sydd wedi gwneud neu sy'n gwneud y datblygiad, neu unrhyw un â rheolaeth o'r tir. Daw'r hysbysiadau i rym ar unwaith, ond mae'r adeg i gydymffurfio ar ddiwedd y cyfnod (sef o leiaf 28 diwrnod), a nodir yn yr hysbysiad, gan gychwyn ar ddiwrnod ei gyflwyno. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r darpariaethau o ran hysbysiad gorfodi yn ymwneud â thorri amodau, sy'n gofyn bod yr hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", gyda chopïau'n cael eu cyflwyno yn ôl yr angen. Does dim gofyniad i arddangos copi o'r hysbysiad torri amod ar neu ger y tir.
- 12.60 Yn dilyn cyflwyno'r hysbysiad, os oes diffyg cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a nodir, ac os unrhyw un o'r camau a nodir yn yr hysbysiad heb gael eu cymryd (neu os yw'r gweithgareddau a nodir yn yr hysbysiad heb ddod i ben), mae'r person sy'n gyfrifol wedi torri'r hysbysiad a gall gael ei erlyn. Awgryma cyfarwyddyd y Llywodraeth ei bod yn hanfodol i'r awdurdod cynllunio, ar y cychwyn, i ystyried a phenderfynu ym mhob achos pwy dylid ei ystyried fel y person sy'n gyfrifol am doriad honedig o amod; ac y dylai hysbysiad torri amod gael un derbynydd yn unig.<sup>32</sup>
- 12.61 Gall hyn fod yn anfoddhaol pan fo dau berson neu ragor yn gysylltiedig â thoriad, gan arwain at hysbysiadau ar wahân yn cael eu cyflwyno i bob un, o bosib ar ddyddiadau gwahanol, gan arwain at amserau gwahanol i bob un ohonynt gydymffurfio.
- 12.62 Ystyriwn dros dro y byddai'n ddefnyddiol gwneud y darpariaethau yn ymwneud â thorri hysbysiadau torri amod yn fwy tebyg i'r rhai sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi, trwy ei wneud yn ofynnol bod hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", a'i fod yn dod i rym ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.
- 12.63 Gan gymryd y byddai yna ddyletswydd i gyflwyno copiâu o'r hysbysiad ar y sawl yr amheuir sy'n gyfrifol am dorri'r amod, nid ydym yn credu y dylai fod yn ofynnol arddangos hysbysiad safle ym mhob achos - er, wrth gwrs, ni fyddai hynny'n atal awdurdod rhag gwneud os yw'n credu ei fod yn briodol.

#### Cwestiwn ymgynghori 12-8.

**Cynigwn dros dro bod y darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau torri amodau, ar hyn o bryd yn adran 187A DCGTh 1990, yn cael eu diwygio fel bod hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau yn cael eu cyflwyno ar y sawl a amheuir i fod yn gyfrifol am y toriad (yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd nawr, sef bod hysbysiad ar wahân yn cael ei gyflwyno ar bob person, yn dod i rym ar ddyddiad a bennir gan gyfeirio at ddyddiad y gwasanaeth).**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>32</sup> Cylchlythyr 24/97, Atodiad 4, para 4.13.

## Hysbysiad yn ymwneud â mwy nag un amod

- 12.64 Gall hysbysiad ymwneud â mwy nag un amod yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio; ond mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn synhwyrol yn awgrymu, ble mae hysbysiad yn ymwneud â thorri dau amod neu ragor, o bosib yn cynnwys mwy nag un cyfnod cydymffurfio, y byddai'n synhwyrol cyflwyno un hysbysiad ar gyfer pob toriad.<sup>33</sup>
- 12.65 12.66Gellid ymgorffori'r ymagwedd hon i ddarpariaeth statudol i olygu bod unrhyw hysbysiad torri amod yn gallu ymwneud â thorri un amod yn unig. Fodd bynnag, rydym wedi ein hargyhoeddi bod hyn ddim yn briodol ar bob achlysur, ac y gallai arwain at orfod cyflwyno nifer o hysbysiadau mewn achosion syml.

## HYSBYSIADAU GORFODI

### Cyflwyniad

- 12.66 Y ffurf mwyaf cyffredin o gamau gorfodi o bell ffordd yw cyhoeddi hysbysiad gorfodi. Yn y 30 mis i fis Medi 2012, cyhoeddwyd rhyw 603 hysbysiad yng Nghymru.<sup>34</sup>
- 12.67 Nid oes gofyn i awdurdod cynllunio weithredu mewn cysylltiad â phob toriad ymddangosiadol mewn rheolaeth gynllunio, ond gall gyflwyno hysbysiad gorfodi ble mae'n ystyried bod gwneud hynny yn fuddiol - gan ystyried y cynllun datblygu a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Ble mae'n cyflwyno hysbysiad, rhaid cyflwyno copi i berchennog a deiliad y tir dan sylw, ac unrhyw un arall sydd yn debygol o gael ei h/effeithio.<sup>35</sup> Rhaid iddo hefyd gynnal cofrestr o hysbysiadau, sydd i fod ar gael ar gyfer ei archwilio bob awr resymol.<sup>36</sup>
- 12.68 Hysbysiad gorfodi yw hysbysiad sy'n nodi'r materion sy'n ymddangos i'r awdurdod cynllunio fel rhai sy'n torri rheolaeth gynllunio, ac sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod yn gofyn sydd angen eu cymryd, neu'r gweithgareddau y mae'n rhaid eu stopio. Yn y datganiad clasurol gan Upjohn LJ yn *Miller-Mead v Gweinidog dros Tai a Llywodraeth Leol*, y prawf o ddilysrwydd hysbysiad yw "a yw'n dweud [wrth y person y cyflwynwyd y copi iddo] beth mae wedi ei wneud yn anghywir, a beth mae'n rhaid iddo ei wneud i'w ddatrys?"<sup>37</sup> Mae hawl gan derbynnydd copi o hysbysiad gorfodi apelio yn ei erbyn, am amryw wahanol resymau, ar unrhyw adeg tan y daw'r hysbysiad i rym. Os na wneir apêl, neu os nad yw apêl yn arwain at ddileu'r hysbysiad, rhaid cydymffurfio â hi. Os oes diffyg cydymffurfiaeth, mae'r sawl sy'n gyfrifol yn peryglu cael eu herlyn, a gall yr awdurdod ddod ar y tir a chwblhau'r gwaith angenrheidiol.
- 12.69 Yn anffodus, yn yr hanner canrif ers *Miller-Mead*, mae dilysrwydd hysbysiadau gorfodi a manion y weithdrefn orfodi wedi bod yn destun llawer o fireinio statudol a

---

<sup>33</sup> Cylchlythyr 24/97, Atodiad 4, para 4.13.

<sup>34</sup> *Ymchwil i mewn i'r Adolygiad o'r System Gorfodi Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol*, Llywodraeth Cymru, Mai 2013.

<sup>35</sup> DCGTh 1990 a 172.

<sup>36</sup> DCGTh 1990, a 188.

<sup>37</sup> [1963] 2 QB 196, at dud 232.

chorff mawr o gyfraith achos. Fodd bynnag, mae nifer o benderfyniadau'r llys mewn perthynas â gorfodi yn seiliedig ar amgylchiadau ffeithiol anarferol ac felly o berthnasedd cyffredinol cyfyngedig.

### Cynnwys hysbysiad gorfodi: dibenion i'w cyflawni

12.70 Yn ein Papur Cwmpasu, fe nodom fod adran 173(3) DCGTh 1990 yn darparu bod hysbysiad gorfodi i bennu'r camau sydd i'w cymryd, neu'r gweithgareddau sydd i ddod i ben, "er mwyn cyflawni, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw un o'r dibenion canlynol". Y dibenion yw:

(a) cywiro'r toriad

- trwy wneud i unrhyw ddatblygiad gydymffurfio â thermau (gan gynnwys amodau neu gyfyngiadau) unrhyw ganiatâd cynllunio sydd wedi cael eu rhoi mewn perthynas â'r tir,
- trwy derfynu unrhyw ddefnydd o dir, neu
- trwy adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r toriad ddigwydd;<sup>38</sup> a

(b) chywiro unrhyw ddifrod i adnodd sydd eisoes wedi cael ei achosi gan y toriad.<sup>39</sup>

12.71 Nodom hefyd, yn achos Cyngor Sir Rydychen v Wyatt Bros (Rhydychen) Ltd, bod y Llys Apêl wedi cynnal bod awdurdod cynllunio yn gallu gofyn bod camau'n cael eu cymryd ar gyfer y ddau diben a nodir, ac yn y modd hwn dylid darllen y gair "neu" ar ddiwedd adran 173(4)(a) fel "a/neu". A does dim gofyniad bod awdurdod yn nodi ar ba ddiben mae'n dibynnu.<sup>40</sup>

12.72 Fe fynegom farn ragarweiniol y dylid egluro geiriad adran 173(4) yn y Côd Cynllunio. Roedd PEBA hefyd yn cytuno bod rhyw fudd i hynny.

12.73 Ystyriwn dros dro y byddai'n bosib addasu adran 173(3) i ofyn bod hysbysiad yn nodi:

- (1) y camau y mae'r awdurdod yn gofyn sy'n cael eu cymryd [ayyb] er mwyn cyflawni, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, un neu ragor o'r dibenion a amlinellir yn adran 173(4); a
- (2) pha un o'r dibenion hynny y mae'n ystyried bydd yn cael ei gyflawni gan gymryd y camau hynny.

12.74 Ar ben hynny, gall y gofynion o ran cyflawniad un o'r dibenion hynny neu'r ddau fod yn ofynion i wneud un neu ragor o'r canlynol: gwneud i'r ddatblygiad gydymffurfio â chaniatâd cynllunio, terfynu defnydd o dir, ac adfer tir i'w gyflwr blaenorol.

---

<sup>38</sup> DCGTh 1990, a 173(3)(a); adiwyd yr indentiau i wella eglurder.

<sup>39</sup> DCGTh, a 173(3)(b).

<sup>40</sup> Papur Cwmpasu, para 5.25 i 5.27.

- 12.75 Byddai hyn yn ei wneud yn glir bod hysbysiad yn gallu ymwneud ag un diben neu'r ddau a amlinellir yn adran 173(4). Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol categoreiddio ar wahân y dibenion i'w cyflawni ym mhob cam neu gan bob gweithred i'w cymryd, gan eu bod yn debygol o orgyffwrdd mewn nifer o achosion.

### Cwestiwn ymgynghori 12-9.

#### Cynigwn dros dro y dylai bod gofyn i hysbysiad gorfodi nodi:

- (1) **y camau y mae'r awdurdod yn gofyn sy'n cael eu cymryd, neu'r gweithgareddau sydd i ddod i ben, er mwyn cyflawni, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, un neu ragor o'r dibenion a amlinellir yn adran 173(4) DCGTh 1990; a**
- (2) **pha un o'r dibenion hynny mae'n ystyried bydd yn cael eu cyflawni trwy gymryd y camau hynny.**

#### Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cynnwys hysbysiad gorfodi: camau i'w cymryd

- 12.76 Yn ein Papur Cwmpasu, fe nodom bod y llysoedd yn gyson wedi cynnal (yn nodedig yn *Murfitt v Yr Ysgrifennydd Gwladol*<sup>41</sup> a *Somak Travel v Yr Ysgrifennydd Gwladol*<sup>42</sup>) bod hysbysiad gorfodi'n gallu gofyn yn ddilys i gael gwared ag unrhyw ddatblygiad gweithredol damweiniol ble mae'n llunio rhan o'r datblygiad sy'n cael ei orfodi yn ei erbyn.<sup>43</sup> Er enghraifft, ble mae defnydd adeilad wedi newid, gall y newid hwnnw gynnwys gwaith adeiladu mewnol, na fyddai angen caniatâd ynddo ei hun; gall hysbysiad gorfodi sydd yn gofyn am newid y defnydd ofyn bod y gwaith adeiladu mewnol yn cael ei ddadwneud.<sup>44</sup>
- 12.77 Awgrymom, gan gymryd pwysigrwydd y penderfyniadau hynny a'r eglurder perthnasol a ddefnyddiwyd wrth fynegi'r egwyddor sy'n eu tanategu, bod yna gwmpas i'w ymgorffori yn y Côt Cynllunio. Cytunodd un ymgynghorai, Persimmon Homes Gorllewin Cymru, gyda'r awgrym hwnnw.
- 12.78 Mae'r mater hefyd wedi cael ei adolygu'n fwy diweddar yn *Bowring v Yr Ysgrifennydd Gwladol*<sup>45</sup> a *Makanjuola v Yr Ysgrifennydd Gwladol*.<sup>46</sup> Mynegwyd fel a ganlyn:

"ble cyflwynir hysbysiad gorfodi yn honni am wneud newid materol o ddefnydd o dir, a bod yr hysbysiad yn gofyn bod rhaid cael gwared â gwaith penodol [yn

<sup>41</sup> (1980) 40 P&CR 254.

<sup>42</sup> (1988) 55 P&CR 250.

<sup>43</sup> Papur Cwmpasu, paragraffau 7.49 i 7.53.

<sup>44</sup> *Somak Travel v Yr Ysgrifennydd Gwladol* (1988) 55 P&CR 250.

<sup>45</sup> (2013) EWHC 1115 (Gwein).

<sup>46</sup> [2013] EWHC 3528 (Gwein), [2014] JPL 439.

ychwanegol at roi terfyn i'r defnydd anawdurdodedig], rhaid bod y gwaith hwnnw wedi bod yn hanfodol i'r dasg o'r newid materol i'r defnydd".<sup>47</sup>

- 12.79 Ystyriwn dros dro y byddai'n ddefnyddiol codeiddio'r egwyddor honno.
- 12.80 Pwynt arall sydd wedi codi mewn nifer o achosion yw'r hyn a elwir yn "rheol *Mansi*". Dyma'r egwyddor bod rhaid i hysbysiad gorfodi geisio peidio â chyfyngu ar berchennog y tir rhag ei defnyddio mewn unrhyw fodd y gellid defnyddio'r tir yn gyfreithlon hyd at adeg cyflwyno'r hysbysiad.
- 12.81 Er enghraifft, yn achos *Mansi* ei hun, roedd hysbysiad gorfodi yn cyfeirio at ran o safle mwy, a ddefnyddiwyd ar gyfer amaethyddiaeth. Roedd y tir oedd yn destun yr hysbysiad wedi cael ei ddefnyddio fel siop fferm, ble roedd cynnyrch amaethyddol yn cael ei werthu a oedd wedi cael ei dyfu rhywle arall ar y safle; ond roedd y siop nawr yn gwerthu, yn ychwanegol at hyn, cynnyrch ac eitemau eraill a oedd wedi cael eu prynu o rywle arall. Roedd yr hysbysiad yn gofyn am derfynu'r holl werthiannau masnachol; a daeth y llys i'r casgliad y dylid ei ddiwygio er mwyn diogelu hawliau sefydlog yr apeliwr, fel y nodwyd gan y Gweinidog, i barhau i weithredu yn y modd ac i'r graddau yr oedd wedi bod yn gwneud yn flaenorol. Ar ben hynny, ni ddylai'r hysbysiad gyfyngu ar hawliau cyfredol i ddwysau'r defnydd hwnnw, gan gymryd bod dwysâd o'r fath ddim yn cyfateb i newid materol o ddefnydd.<sup>48</sup>
- 12.82 Mae'r egwyddor yn *Mansi* wedi cael ei dilyn gan y llysoedd (a gan arolygyddion cynllunio wrth benderfynu ar apeliadau) mewn nifer o achosion yn y blynyddoedd dilynol.<sup>49</sup>
- 12.83 Byddai'n bosib i hysbysiad i nodi'n amlwg;
- (1) nad yw'n cyfyngu ar yr hawliau i barhau heb gais cynllunio gydag unrhyw ddatblygiad y gallai fod wedi ei gwblhau yn syth cyn cyflwyno'r hysbysiad, ac
  - (2) y dylid anwybyddu unrhyw ddarpariaeth o'r hysbysiad a oedd yn awgrymu fel arall.
- 12.84 Ni fyddai datganiad o'r fath newid y gyfraith, ond byddai o gymorth i'r sawl sy'n derbyn copïau o hysbysiad. Byddai mwy na thebyg yn well ei gynnwys yn y nodyn esboniadol i gyd-fynd â'r hysbysiad gorfodi, fel y rhagwelwyd gan adran 173(10), yn hytrach nag yn yr hysbysiad ei hun.<sup>50</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 12-10.

#### Cynigwn dros dro y dylid cael darpariaeth amlwg yn y Bil yn ymgorffori'r egwyddor

<sup>47</sup> (2013) EWHC 1115 (Gwein), per Clive Lewis QC, yn eistedd fel Dirprwy Farnwr y Llys Uchel, at bara 16.

<sup>48</sup> *Mansi v Elstree RDC* (1964) 16 P&CR 153, fel Widgery J ar dud 161.

<sup>49</sup> Gweler, er enghraifft, *R v Harfield* [1993] 2 PLR 23, JPL 914; *Duguid v Yr Ysgrifennydd Gwladol* (2001) 82 P&CR 6, [2000] 4 PLR 107; [2001] JPL 323; *Challinor v CC Swydd Stafford* [2007] EWCA Civ 864, [2008] P&CR 10, JPL 392.

<sup>50</sup> Gweler **para 12.93** isod.

yn *Murfitt v Yr Ysgrifennydd Gwladol* ac achosion dilynol, i'r perwyl, pan gyflwynir hysbysiad gorfodi yn honni newid materol i'r defnydd o dir, gall yr hysbysiad ofyn bod gwaith penodol yn cael ei ddad-wneud yn ychwanegol at roi terfyn ar ddefnydd anawdurdodedig, gan gymryd bod y gwaith hynny'n hanfodol i wneud y newid materol i'r defnydd.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-11.

Cynigiwn dros dro y dylai'r rheoliadau perthnasol ofyn bod y nodyn esboniadol sy'n cyd-fynd â hysbysiad gorfodi'n cynnwys datganiad (yn unol â'r egwyddor yn *Mansi v Elstree RDC*) i'r perwyl na fod yr hysbysiad yn cyfyngu ar hawliau unrhyw berson i wneud unrhyw ddatblygiad heb gais cynllunio y gallai fod wedi cael ei wneud yn union cyn cyflwyno'r hysbysiad.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### Cynnwys hysbysiad gorfodi: datganiad ar y defnydd cyfreithlon o'r tir

- 12.85 Awgrymodd Gymdeithas Cynllunio a'r Amgylchedd y Bar y byddai'n ddefnyddiol ystyried a ddylai'r cynnwys a ragnodir mewn hysbysiad gorfodi gynnwys datganiad gan yr awdurdod cyhoeddi o'i asesiad o ddefnydd cyfreithlon y tir. Byddai hyn yn debyg o fod yn arbennig o berthnasol pan mae'r hysbysiad yn ymwneud â newid anawdurdodedig o ddefnydd, yn hytrach na datblygiad gweithredol.<sup>51</sup>
- 12.86 Gallwn weld bod datganiad o'r fath - gan gynnwys barn yr awdurdod ar statws cyfreithlon y defnyddiau cyfredol y tir dan sylw, neu o ran yr amrediad posib o ddefnyddiau y gellid eu cael yno'n gyfreithlon - yn ddefnyddiol i dderbynyddion hysbysiad, oherwydd y byddai'n eu helpu i gyrraedd penderfyniad o ran a ddylid apelio ai peidio. Gallai hefyd ymddangos i fod yn unol â'n cynnig y dylai pob cais cynllunio gynnwys cais am dystysgrif o gyfreithlondeb.<sup>52</sup>
- 12.87 Fodd bynnag, mae cais am dystysgrif o gyfreithlondeb o reidrwydd yn ymwneud â defnydd penodol neu ddefnydd arfaethedig. Gall gynhyrchu datganiad o'r fath a ragwelir gan yr awgrym hwn, mewn cyferbyniad, ofyn bod yr awdurdod yn ystyried amrediad damcaniaethol o ddefnyddiad a senarios ffeithiol, a allai arwain at faic sylweddol mewn rhai achosion. Yn ychwanegol, pe byddai'n rhwymo (fel gyda thystysgrif o gyfreithlondeb), byddai angen hawl i apelio o ran ei gywirdeb i gyd-fynd â hyn, a gallai hyn ei hun fod yn broblemus.

<sup>51</sup> Er y gall barhau i fod yn berthnasol mewn achos o ddatblygiad gweithredol, oherwydd gall argaeledd hawl datblygiad a ganiateir, er enghraifft, ddibynnu ar ddefnydd adeilad.

<sup>52</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 7-12**.



- 12.88 Wrth gwrs, does dim byd i atal derbynnnydd hysbysiad gorfodi (os yw'n ymwneud â newid defnydd neu ddatblygiad gweithredol) rhag cyflwyno un cais neu ragor am dystysgrif o gyfreithlondeb - naill ai ar gyfer defnydd cyfredol y tir neu ar gyfer cynlluniau datblygu posib y dyfodol. Ac os cyflwynir cais o'r fath yn gywir, a'i bod ddim yn arwain at gyhoeddi dystysgrif, gellir ystyried unrhyw apêl a ddaw yn sgil hyn ar yr un pryd ag unrhyw apêl yn erbyn yr hysbysiad gorfodi.
- 12.89 Nid ydym felly'n argymhell unrhyw newid mewn perthynas â hyn.

### **Cynnwys hysbysiad gorfodi: gofynion cyffredinol**

- 12.90 Ar hyn o bryd, mae adran 173(1) yn gofyn bod rhaid i hysbysiad gorfodi nodi:
- (1) y materion sy'n ymddangos i fod yn gyfwerth â thoriad o reolaeth gynllunio; ac
  - (2) a yw'r toriad hwnnw yn fethiant i gael caniatâd cynllunio neu'n fethiant i gydymffurfio ag amod neu gyfyngiad cysylltiedig â chaniatâd.
- 12.91 Mae adran 173(10) yna'n darparu bod Gweinidogion Cymru'n gallu rhagnodi materion pellach y mae'n rhaid eu nodi mewn hysbysiad; ac mae'r rheoliadau cyfredol yn darparu bod rhaid i'r hysbysiad nodi
- (1) y rhesymau pam fod yr awdurdod yn cyflwyno'r hysbysiad;
  - (2) darpariaethau perthnasol y cynllun datblygu; a
  - (3) ffin y tir sy'n berthnasol i'r hysbysiad.<sup>53</sup>
- 12.92 Mae adran 173(10) hefyd yn galluogi i Weinidogion Cymru ragnodi materion y dylid eu cynnwys mewn nodyn esboniadol yn esbonio'r hawl i apelio.<sup>54</sup>
- 12.93 Byddai'n ymddangos yn fwy syml cynnwys y pum eitem a nodir uchod y mae'n rhaid eu cynnwys mewn hysbysiad gorfodi mewn un darpariaeth - naill ai mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth. Ar ben hynny, gan gymryd eu bod oll yn hanfodol i effeithiolrwydd yr hysbysiad, ystyriwn y byddai'n fwy priodol iddynt gael eu cynnwys mewn un lle o fewn y Bil.
- 12.94 Fodd bynnag, dylid cadw adran 173(10), i alluogi rhagnodi materion pellach - naill ai yn yr hysbysiad gorfodi ei hun neu mewn nodyn esboniadol i gyd-fynd â'r hysbysiad - gan fod natur gyson-esblygol cyfraith achosion yn ymwneud â gorfodi yn awgrymu y gallai fod yn briodol yn y dyfodol cynnwys materion pellach mewn hysbysiad gorfodi neu nodyn esboniadol. Yn wir, mae ein cynnig yn ymwneud â rheol *Mansi* yn fater fel hyn.

### **Apeliadau i Weinidogion Cymru yn erbyn hysbysiadau gorfodi: sail (a) (dylid rhoi caniatâd)**

- 12.95 Gall dderbynnnydd copi o hysbysiad gorfodi apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad am nifer o resymau, a nodir yn adran 174(2) DCGTh 1990. Un o'r rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn ymarferol yw sail (a), sef "mewn perthynas ag

---

<sup>53</sup> OS 2017 Rhif 530, rheol 6.

<sup>54</sup> Gweler OS 2017 Rhif 530, rheol 7.

unrhyw doriad o reolaeth gynllunio a allai fod gyfwerth â'r materion a nodir yn yr hysbysiad, dylid rhoi caniatâd cynllunio neu, yn dibynnu ar yr achos, dylid gollwng yr amod neu'r cyngiad dan sylw". Ymddengys bod hyn yn rhagweld y gallai apêl ar sail (a) honni y dylid rhoi caniatâd am doriad a gyfeirir ato yn yr hysbysiad, ond nid ar gyfer pob toriad o'r fath o reidwydd. Felly, er enghraifft, ble mae hysbysiad yn ymwneud ag adeiladu Adeiladau A, B a C yn anghyfreithlon, gall yr apeliwr ddadlau y dylid rhoi caniatâd ar gyfer Adeiladu B a C.

- 12.96 Mae adran 177(5) yn darparu ble mae apêl yn dibynnu ar sail (a), o blith seiliau eraill o bosib, y "pennir bod yr apeliwr wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr hysbysiad gorfodi sy'n gyfwerth â thoriad rheolaeth gynllunio." Ymddengys bod hynny'n golygu cais am ganiatâd ar gyfer **pob** mater o'r fath - y tri adeilad (A, B a C) yn yr esiampl uchod. Mae adran 177(1)(a) yna'n darparu, wrth wneud penderfyniad ar apêl, bod Gweinidogion Cymru'n gallu rhoi caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr hysbysiad sy'n gyfwerth â thoriad. Ac mae adran 177(6) yn nodi y dylid trin unrhyw ganiatâd a roddir dan is-adran (1) fel ei bod wedi cael ei rhoi ar y cais a dybiwyd a oedd wedi ei wneud - er does dim yn adran 177 o ran beth sy'n digwydd os yw'r cais tybiedig yn cael ei wrthod.
- 12.97 Ystyriwn dros dro bod dim angen mecanwaith ar gyfer cais tybiedig. Byddai'n symlach hepgor adran 177(5) a (6), ac addasu adran 177(1) i ddarparu bod Gweinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniad ar apêl yn cynnwys sail (a), yn gallu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw un o'r materion a gyfeirir atynt yn yr hysbysiad apelio, neu bob un o'r materion, i'r graddau ei bod yn dibynnu ar y sail honno, o bosib ar y cyd ag eraill. Felly, er enghraifft, ble mae'r hysbysiad cydymffurfio yn ymwneud ag adeiladu Adeiladau A, B a C yn anghyfreithlon, gall yr apeliwr apelio (ar sail (a)) y dylid rhoi caniatâd ar gyfer Adeilad B a C, a gall Gweinidogion Cymru roi caniatâd cynllunio ar gyfer Adeilad C yn unig.
- 12.98 Byddai'r un drefn yn berthnasol, mewn egwyddor, i adrannau 177(1)(b) a 177(1)(c).

### Cwestiwn ymgynghori 12-12.

#### Cynigwn dros dro bod y Bil:

- (1) yn hepgor adran 177(5) a (6) DCGTH 1990, yn ymwneud â'r cais am ganiatâd cynllunio a dybiwyd a wnaed gan apeliwr yn dibynnu ar sail (a) yn adran 174(2) (dylid rhoi caniatâd am unrhyw fater a nodir yn yr hysbysiad gorfodi sy'n gyfwerth â thoriad rheolaeth); ac
- (2) yn darparu yn hytrach bod Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniad ar apêl yn cynnwys sail (a) yn gallu gwneud un o'r canlynol, neu'r cwbl:
  - rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer un o'r materion, neu bob mater, a honnir sy'n gyfwerth â thoriad rheolaeth;
  - gollwng yr amod a honnir y torrwyd; neu
  - gyhoeddi tystysgrif o gyfreithlondeb, cyhyd ag eu bod yn ystyried

**bod y materion a honnwyd gan yr hysbysiad i fod yn gyfwerth â thoriad rheolaeth mewn gwirionedd yn gyfreithlon.**

**Ydy'r ymgylchoreion yn cytuno?**

### **Apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn hysbysiad gorfodi: sail (e) (gwasanaeth afreolaidd)**

12.99 Sail (e) y medir gwneud apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi yw bod copiâu o'r hysbysiad heb eu cyflwyno yn ôl y gofyn yn adran 172. Mae adran 172 yn darparu fel a ganlyn:

(1) Dylid cyflwyno copi o hysbysiad gorfodi -

(a) ar berchennog a deiliad y tir y mae'n berthnasol iddo; ac

(b) ar unrhyw berson arall â diddordeb yn y tir, sydd yn ddiddordeb, ym marn yr awdurdod, yr effeithir yn faterol arno gan yr hysbysiad.

(2) Bydd cyflwyno'r hysbysiad yn digwydd -

(a) dim mwy na 28 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddyroddi; a

(b) dim llai na 28 diwrnod cyn y dyddiad a nodir yn fanwl arno fel y dyddiad y daw i rym.

12.100 Mae adran 285(1) yn darparu na fedr dilysrwydd hysbysiad gorfodi, ac eithrio trwy apêl at Weinidogion Cymru dan Ran 7 DCGTh 1990, gael ei gwestiynu mewn unrhyw achos ar unrhyw un o'r seiliau y gellir dwyn apêl o'r fath gerbron. Byddai'r seiliau hyn yn cynnwys sail (e), ynghylch cyflwyno'r hysbysiad.

12.101 Ystyriwyd effaith y ddarpariaeth hon yn *R (Stern) v CD Horsham*, ynghylch hysbysiad gorfodi a oedd, ar ddamwain, wedi ei gyflwyno'n hwyr.<sup>55</sup> Gwnaed apêl, un diwrnod yn hwyr, ar y sail bod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n hwyr. Gwrthododd yr Aolygiaeth yr apêl ar y sail ei bod wedi ei chyflwyno yn hwyr. Derbyniodd y llys y dylai fod yn bosibl i wneud cais i'r llys i ddileu hysbysiad oedd wedi ei gyflwyno'n hwyr. Pe bai fel arall, medrid cyflwyno copi o hysbysiad ar y diwrnod cyn y diwrnod y daeth i rym, gan adael y derbyniwr gydag oriau yn unig i gyflwyno apêl.

12.102 Yn ystod y ddadl, tynwyd sylw at hyn: bod DCGTh 1971 (cyn y diwygiadau a wnaed yn dilyn adroddiad Carnwath) wedi cynnwys fel sail (e) y gellid cyflwyno apêl am nad oedd yr hysbysiad wedi ei gyflwyno fel yr oedd yn ofynnol gan adran 87(4) y Ddeddf honno. Roedd adran 87(4) yn yr un termau ag adran 172(2) DCGTh 1990, ond nid adran 172(3). Ni fyddai'r broblem a gododd yn *Stern* wedi codi pe byddai geiriad sail (e) heddiw wedi cyfeirio at hyn: nad oedd yr hysbysiad wedi ei gyflwyno yn ôl gofynion 172(2), yn hytrach na bod angen gwneud fel yn adran 172.

<sup>55</sup> [2013] EWHC 1460 (Gwein), [2013] PTSR 1502.

- 12.103 Ystyriwn y dylai'r hyn sydd gyfwerth ag adran 174 yn y Bil (yn darparu ar gyfer seiliau apêl yn erbyn hysbysiad) gael ei eirio yn unol â'r ddarpariaeth gyfatebol yn DCGTh 1971.

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-13.**

**Ystyriwn dros dro y dylai sail (e) ar yr hyn y gellir cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (dan adran 174 DCGTh 1990) gyfeirio at gopïau o'r hysbysiad nad oeddent wedi eu cyflwyno yn ôl gofynion adran 172(2) (sydd yn cyfeirio at gyflwyno ar berchnogion a deiliaid ac ati) yn hytrach na bod angen gwneud fel yn adran 172 (sydd hefyd yn cyfeirio at y terfynau amser ar gyfer cyflwyno).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Gweithdrefn apelio**

- 12.104 Mae rheolau manwl y weithdrefn o ran apelio a gwneud penderfyniadau ar apeliadau gorfodi yn bennaf, fel y disgwylir, mewn is-ddeddfwriaeth.
- 12.105 Mae adran 174(4) DCGTh 1990 yn darparu bod angen i berson sy'n apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi gyflwyno datganiad
- (a) yn nodi'r seiliau y dibynnir arnynt wrth wneud yr apêl; ac
  - (b) yn rhoi gwybodaeth bellach fel y gellir ei rhagnodi gan reoliadau.
- 12.106 Mae'r rheoliadau perthnasol yna'n darparu y dylai datganiad nodi'r seiliau dros yr apêl, a'r ffeithiau y dibynnir arnynt a'r achos a gyflwynir mewn perthynas â phob sail.<sup>56</sup>
- 12.107 Ystyriwn dros dro, gan gymryd gofynion y rheoliadau, bod adran 174(4)(a) yn ofer. Y cwbl sydd ei angen yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yw gofyniad bod rhaid i berson sy'n gwneud apêl ddarparu'r wybodaeth a'r manylion a ragnodir.

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-14.**

**Ystyriwn dros dro y dylai adran 174(4) DCGTh 1990 (gofynion o ran y datganiad i'w gyflwyno gydag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) gael ei haddasu er mwyn peidio â dyblygu gofynion yr is-ddeddfwriaeth berthnasol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cydgysylltu apeliadau gorfodi a cheisiadau cynllunio**

- 12.108 Cyflwynwyd adran 42 DC(C) 2015 i adran 70C DCGTh 1990 yng Nghymru.<sup>57</sup> Ei diben yw atal cam-drin y system gan berson sydd wedi gwneud datblygiad

<sup>56</sup> OS 2017 Rhif 530, Rheol 8(1)(a).

anawdurdodedig, ac sydd wedi apelio yn aflwyddiannus yn erbyn hysbysiad gorfodi ar sail (a), sydd wedyn yn apelio am ganiatâd cynllunio i gadw'r datblygiad tramgwyddus, o bosib yn amodol ar ryw fân addasiad. Gall awdurdod cynllunio wrthod gwneud penderfyniad ar apêl o'r fath.

- 12.109 Trwy adran 46 DC(C)2015, mewnosodwyd adrannau 174(2D) i (2F) DCGTh 1990, i atal gwneud apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi ar sail (a), ble mae'r hysbysiad yn ymwneud â datblygiad anawdurdodedig sydd eisoes wedi bod yn destun cais aflwyddiannus i Weinidogion Cymru dan adran 78.
- 12.110 Mae'r darpariaethau hyn wedi bod mewn grym ers mis Mawrth 2016 yn unig felly mae angen rhagor o amser i weld sut byddant yn gweithredu yn ymarferol. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion i ddiwygio.<sup>58</sup>

### Apeliadau i'r Uchel Lys

- 12.111 Mae'n bosib herio penderfyniad Gweinidogion Cymru i roi caniatâd cynllunio mewn ymateb i apêl gorfodi, trwy wneud cais i'r Uchel Lys dan adran 288 DCGTh 1990.<sup>59</sup> Mae hefyd yn bosib herio unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru ar apêl o'r fath trwy wneud cais dan adran 289. Yn y Bennod olaf o'r Papur Ymgynghori hwn, cynigwn na fydd y weithdrefn statudol dan adran 288 a 289 yn cael ei hail-ddatgan yn y Bil, ac y dylid ei disodli gan gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol, dan Ran 54 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.<sup>60</sup>
- 12.112 Fodd bynnag, bydd angen i'r Bil gynnwys darpariaeth yn gyfwerth ag adran 285(1) a (2) DCGTh1990 - sy'n datgan bod dim modd i unrhyw un a gyflwynwyd copi o'r hysbysiad arno herio hysbysiad gorfodi, oni bai bod hyn yn cael ei wneud trwy apelio i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellir eu defnyddio i gyflwyno apêl o'r fath.<sup>61</sup> Cynigwn dros dro y dylid cynnwys darpariaeth o'r fath yn y rhan o'r Bil sy'n mynd i'r afael â gorfodi. Byddai hyn yn parhau i atal heriau naill ai ar sail polisi hysbysiad neu o ran defnyddio ei ddilysrwydd fel modd o wyro erlyniaeth am ddiffy cydymffurfio.

#### Cwestiwn ymgynghori 12-15.

**Cynigiwn dros dro bod darpariaeth yn gyfwerth ag adran 285(1) a, (2) yn cael ei chynnwys yn y rhan o'r Côt sy'n mynd i'r afael â gorfodi, i'r perwyl bod dim modd herio hysbysiad gorfodi, oni bai bod hyn yn cael ei wneud trwy apelio i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellir eu defnyddio i gyflwyno apêl o'r fath.**

<sup>57</sup> Mewnosodwyd adran 70C i DCGTh 1990 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, a. 123, ond mewn perthynas â Lloegr yn unig.

<sup>58</sup> Mae'r darpariaethau hyn yn debyg ond nid yn union yr un peth â'r rhai a fewnosodwyd mewn perthynas â Lloegr i Ddeddf Lleoliaeth 2011, sydd wedi bod mewn grym ers mis Ebrill 2012.

<sup>59</sup> DCGTh 1990, a 284(3)(e), 288(1) a (4).

<sup>60</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 17-1**.

<sup>61</sup> DCGTh 1990, a. 285(1), (2); a gweler *Challinor v CC Swydd Stafford* uchod, **tn 49**).

## Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?

### HYSBYSIADAU STOP

#### Cyflwyniad

- 12.113 Ni fydd hysbysiad gorfodi yn dod i rym ar unwaith, a gellir oedi pryd daw i rym trwy gyflwyno apêl. Hyd yn oed pan ddaw i rym, bydd yr hysbysiad yn caniatáu amser i gydymffurfio. Mewn rhai achosion, felly, ni ddaw'r hysbysiad i rym am dipyn o amser wedi ei gyhoeddi.
- 12.114 Gall hyn gael canlyniadau anffodus mewn rhai achosion, ble mae'n amlwg ei bod yn ddymunol y dylai gweithgarwch anawdurdodedig ddod i ben mwy neu lai ar unwaith. Unwaith iddo gyflwyno hysbysiad gorfodi (neu ar yr un pryd â chyflwyno hysbysiad gorfodi), gall awdurdod cynllunio hefyd felly gyflwyno "hysbysiad stop", yn ei wneud yn ofynnol bod y gweithgarwch tramgwyddus yn dod i ben yn ddi-oed. Does dim hawl i apelio yn erbyn hysbysiad stop, dim ond yn erbyn yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig; ac mae diffyg cydymffurfio â hysbysiad stop yn drosedd. Diwygiwyd gweithdrefn hysbysiadau stop yn fawr gan ddiwygiadau 1991.
- 12.115 Mae lleihad cyffredinol wedi bod yn y defnydd o hysbysiadau stop.<sup>62</sup> A dylid nodi yn y 30 mis i fis Medi 2012, 5 hysbysiad stop yn unig a gyhoeddwyd yng Nghymru, o'i gymharu â 603 hysbysiad gorfodi - sydd lawer llai na'r ffigurau cyfatebol yn Lloegr.<sup>63</sup> Fodd bynnag, does dim awgrymiad wedi bod - naill ai mewn ymateb i'n Papur Cwmpasu neu fel arall - y dylid rhoi terfyn ar y weithdrefn hysbysiad stop.

#### Cyfnod hysbysiad stop, a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig

- 12.116 Yn gyntaf, fel gyda hysbysiadau stop dros dro, nid yw'r pŵer i gyflwyno hysbysiad stop ar gael i roi terfyn ar ddefnydd unrhyw adeilad fel tŷ-annedd.<sup>64</sup> Yma hefyd, ystyriwn dros dro y dylid egluro hyn i esbonio ei bod yn berthnasol i unrhyw ran o adeilad sy'n cael ei defnyddio fel annedd.
- 12.117 Yn ail, yn rhinwedd adran 183(5), nid yw awdurdod cynllunio yn "cyhoeddi" hysbysiad stop, ond yn ei "gyflwyno" ar unrhyw berson y mae'n ymddangos sydd â budd yn y tir dan sylw, neu sydd wedi ymrwymo yn y gweithgarwch sy'n cael ei wahardd gan yr hysbysiad. A does dim gofyniad i'r awdurdod arddangos hysbysiad safle, er gall wneud hynny - yn yr achos hynny, rhaid i'r hysbysiad safle nodi bod hysbysiad stop wedi cael ei gyhoeddi, a'r dyddiad y daw i rym, a rhaid "nodi" ei effaith.<sup>65</sup> Mae'r pŵer i arddangos hysbysiad safle yn cyfeirio yn unig at "y tir" ble mae'r gweithgarwch tramgwyddus yn digwydd, a allai achosi problemau mewn sefyllfaoedd gydag ardal fawr o dir, er enghraifft mewn ardaloedd gwledig, pe byddai hysbysiad yn cael ei

<sup>62</sup> Cyflwynwyd 283 hysbysiad stop yn Lloegr yn 1993/94, 247 yn 1994/95, 210 yn 2005/06, 158 yn 2010/11, a 141 yn 2016/17 (ystadegau PINS).

<sup>63</sup> Yn y flwyddyn hyd mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd 141 hysbysiad stop yn Lloegr, o'i gymharu â 4,812 hysbysiad gorfodi. (ffynhonnell, ystadegau PINS).

<sup>64</sup> DCGTh 1990, a 183(4). Gweler **paragraffau 12.43, 12.44**.

<sup>65</sup> DCGTh 1990, a 184(6).

ddangos ar fan ar y tir a oedd rhyw bellter i ffwrdd o le roedd y gweithgarwch yn digwydd mewn gwirionedd.

- 12.118 Mae adran 187(1) yn darparu ei bod yn drosedd i berson dorri hysbysiad stop sydd wedi cael ei gyflwyno arno neu arni, neu un sydd wedi cael ei arddangos ar y tir. Ond mae adran 184(2) yn darparu bod trosedd yn methu digwydd cyn y dyddiad (a nodir ar yr hysbysiad) y daw i rym. Mae'n amddiffyniad statudol (dan adran 187(3)) i ddangos bod yr hysbysiad heb gael ei gyflwyno i'r un a gyhuddir, a bod dim modd y gallai'r un a gyhuddir fod wedi gwybod am ei fodolaeth.<sup>66</sup>
- 12.119 Fel gyda hysbysiad torri amod, ystyriwn dros dro y dylai hysbysiad ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo. Dylai fod dyletswydd ar yr awdurdod i gyflwyno copïau o'r hysbysiad stop ar berchennog a meddiannwr y tir. Gellir hefyd cyflwyno copïau o'r hysbysiad stop ar eraill - a gellir arddangos hysbysiad ar y safle - fel y bo'n briodol.
- 12.120 Yna, byddai'r drosedd dan adran 187(1) yn ymwneud â thorri hysbysiad sydd wedi dod i rym, yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno. Ond byddai person a gyhuddir o drosedd o'r fath dal angen cael yr amddiffyniad ar gael dan adran 187(3) - gan gymryd y byddai angen addasu'r cyfeiriad ar yr hysbysiad i gyfeirio at gyflwyno copi o'r hysbysiad.

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-16.**

**Cynigwn dros dro bod y cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop, yn adran 183(4) DCGTh 1990 ar hyn o bryd, yn cael ei egluro i sicrhau ei bod yn berthnasol i unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-17.**

**Cynigwn dros dro bod y darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau stop, yn adran 184 DCGTh 1990 ar hyn o bryd, yn cael eu haddasu fel bod hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno ar y sawl yr ymddangosir i fod yn gyfrifol am y toriad rheolaeth (yn hytrach na'r drefn gyfredol gyda hysbysiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i bob person o'r fath, yn dod i rym ar ddyddiad a nodir trwy gyfeirio at ddyddiad y gwasanaeth).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

---

<sup>66</sup> DCGTH 1990, a 171G(5).

### **Cwestiwn ymgynghori 12-18.**

#### **Cynigwn dros dro:**

- (1) **ei bod yn drosedd i dorri hysbysiad stop sydd wedi dod i rym; ac**
- (2) **ei bod yn drosedd i gyhuddo o drosedd o'r fath o brofi bod yr un a gyhuddir**
  - (a) **heb gael ei gyflwyno â chopi o'r hysbysiad stop, a**
  - (b) **ddim yn gwybod am bresenoldeb yr hysbysiad, a bod dim disgwyl rhesymol iddo fod wedi gallu gwybod.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Terfyn y grym**

12.121 Trwy rinwedd adran 184(4) DCGTh 1990, bydd hysbysiad stop yn stopio cael grym pan gaiff yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig ei dynnu yn ôl neu ei ddirymu, neu pan ddaw'r cyfnod i gydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw i ben. Daw'r grym hefyd i ben pan fydd yr awdurdod cynllunio yn rhoi gwybod i'r sawl a gyflwynodd yr hysbysiad stop gwreiddiol iddynt ei fod wedi tynnu'r hysbysiad yn ei ôl. Ble hysbyswyd nifer o bobl o'r hysbysiad gwreiddiol, rhaid hysbysu pob un ohonynt am y diddymiad, a daw grym yr hysbysiad i ben pan fydd y cyntaf o'r bobl hynny'n derbyn yr hysbysiad diddymu. Os arddangoswyd hysbysiad safle yn hysbysebu cyfnod cychwynol yr hysbysiad stop, rhaid i'r awdurdod hefyd hysbysebu ei ddiddymiad, dan adran 183(7). Ond, mae'n nodedig y daw grym yr hysbysiad i ben dim ond pan dderbynnir yr hysbysiad cyntaf o'r math hwn, a allai fod tipyn o amser ar ôl penderfyniad yr awdurdod y dylid ei ddiddymu.

12.122 Ystyriwn dros dro y byddai'n fwy buddiol i rym hysbysiad stop ddod i ben pan yw'r awdurdod yn gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw; a bod y penderfyniad wedyn yn cael ei gyfathrebu cyn gynted â phosib ar y safle ac i'r sawl a gafodd eu hysbysu o'r hysbysiad gwreiddiol.

### **Cwestiwn ymgynghori 12-19.**

#### **Cynigwn dros dro:**

- (1) **y dylai grym hysbysiad stop ddod i ben pan yw'r awdurdod yn gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw; ac**
- (2) **y dylid hysbysebu'r penderfyniad hwnnw cyn gynted â phosib ar ôl ei wneud, trwy arddangos hysbysiad safle addas a hysbysu'r sawl a gafodd ei hysbysu o'r hysbysiad gwreiddiol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**



## Cyflwyno hysbysiad stop gan Weinidogion Cymru

- 12.123 Bydd iawndal yn daladwy os yw'r hysbysiad gorfodi perthnasol yn cael ei ddirymu yn ddiweddarach (yn dilyn apêl) neu os diddymir naill ai'r hysbysiad stop neu'r hysbysiad gorfodaeth.
- 12.124 Ble mae Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi hysbysiad stop, mae'r awdurdod yn atebol i dalu iawndal dan adran 187 os yw'r hysbysiad yn cael ei ddirymu.<sup>67</sup> Mae hyn yn syndod; ac ystyriwn dros dro y byddai'n fwy priodol bod iawndal yn daladwy gan Weinidogion Cymru mewn achosion o'r fath - dychmygwn mai prin iawn fydd yr achosion hyn.

### Cwestiwn ymgynghori 12-20.

**Ystyriwn dros dro, ble mae hysbysiad stop yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru dan adran 185, ac yn cael ei ddirymu, dylai unrhyw atebolrwydd am iawndal sy'n codi dan adran 186 fod yn daladwy ganddyn nhw a nid gan yr awdurdod cynllunio.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## GOBLYGIADAU CAMAU GORFODI

### Erlyniaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth

- 12.125 Mewn egwyddor, mae diffyg cydymffurfiaeth â hysbysiad gorfodi sydd wedi dod i rym yn drosedd, dan adran 197(2) DCGTh 1990. Ble mae hysbysiad yn ei wneud yn ofynnol bod gweithgarwch yn dod i ben, mae ailgychwyn y gweithgarwch hwnnw hefyd yn drosedd, dan adran 179(5).
- 12.126 Nod adran 179(7) pan fod person wedi'i gyhuddo o drosedd dan adran 179 heb gael copi o'r hysbysiad gorfodi, a bod yr hysbysiad heb ei gynnwys yn y gofrestr dan adran 188, mae'n amddiffyniad i'r person hwnnw ddangos ei bod ef neu hi ddim yn ymwybodol o bresenoldeb yr hysbysiad.
- 12.127 Mae'r baich yn gyffredinol ar y diffynnydd mewn erlyniad i brofi (ar fantol tebygolrwydd) presenoldeb beth bynnag sy'n angenrheidiol er mwyn pennu amddiffyniad statudol i gyhuddiad troseddol. Yn yr achos hwn, ymddengys yn ddiangen o feichus i ddarpar ddiffynnydd brofi nad oedd hysbysiad wedi'i gynnwys yn y gofrestr berthnasol ar ddyddiad y drosedd honedig, a bod copi ohono heb gael ei gyflwyno iddo neu iddi.
- 12.128 Ystyriwn dros dro y byddai'n fwy defnyddiol fframio'r drosedd dan adran 179(2) er mwyn darparu bod person yn cyflawni trosedd os:

- (1) yw'r person wedi torri hysbysiad gorfodi;

---

<sup>67</sup> DCGTh 1990, a 186(3).

- (2) oedd yr hysbysiad wedi'i gynnwys yn y gofrestr berthnasol ar adeg y toriad; ac
- (3) os oedd copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r person.

12.129 Gellid fframio'r drosedd ar wahân dan adran 179(5) (ailgychwyniad dilynol y gweithgarwch gwaharddedig) mewn modd tebyg.

12.130 Byddai rhaid i'r erlyniad brofi'r tair elfen hon o'r drosedd ar y safon droseddol - yn hytrach na bod yr amddiffyniad yn eu gwrthbrofi.

### **Cwestiwn ymgynghori 12-21.**

**Cynigwn dros dro bod y troseddau dan adran 179(2) (toriad hysbysiad gorfodi) ac adran 179(5) (ailgychwyniad dilynol o weithgarwch gwaharddedig) yn cael eu fframio i ddarparu bod person yn cyflawni trosedd os:**

- (1) **yw'r person wedi torri hysbysiad gorfodi;**
- (2) **oedd yr hysbysiad wedi'i gynnwys yn y gofrestr berthnasol ar adeg y toriad; ac os oedd copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r person; ac**
- (3) **y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad i'r person;**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Sicrwydd o ran peidio ag erlyn**

12.131 Cyflwynwyd adran 172A DCGTh 1990 gan adran 125 Deddf Lleoliaeth 2011. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddarpariaethau eraill Deddf 2011 yn ymwneud â gorfodi, mae'n berthnasol yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr. Mae'n galluogi awdurdod cynllunio i roi sicrwydd i berson y mae copi o hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno iddo, y bydd y person hwnnw ddim mewn perygl o erlyniad am ddiffyg cydymffurfio. Noda adran 172A yn unol â hynny:

"Pan gaiff hysbysiad gorfodi ei gyflwyno ar berson, neu ar unrhyw adeg wedi hynny, gall yr awdurdod cynllunio roi llythyr i'r person -

- (a) yn esbonio, unwaith bod yr hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyhoeddi, bod gofyn i'r awdurdod gyflwyno'r hysbysiad ar y person hwnnw...

12.132 Tybir bod hynny'n mynd i'r afael â'r sefyllfa ble, er enghraifft, bod rhaid i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad ar rydd-ddeiliad tir (A) mewn amgylchiadau ble nad oes gan y perchennog unrhyw beth i'w wneud â'r toriad rheolaeth a gyflawnwyd gan feddiannwr (B). Ond nid yw'n mynd i'r afael â sefyllfa ble mae copi o'r hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno ar A, sydd wedyn yn trosglwyddo'r tir i B. Does dim dyletswydd ar yr awdurdod i gyflwyno copi pellach o'r hysbysiad ar B, a fydd yn syml yn dod yn ymwybodol ohono trwy'r broses trawsgludo. Ond, dylai fod yna

opsiwn i awdurdod roi sicrwydd i B yn yr un modd ag y rhoddodd, neu ag y gallai fod wedi rhoi, i A - yn enwedig os oedd B yn ceisio sicrwydd o'r fath.

- 12.133 Yn ail, noda adran 172(1) bod rhaid i'r hysbysiad fod ar ffurf llythyr. Ymddengys bod hyn yn eithrio'r posibilrwydd o awdurdod yn rhoi hysbysiad ar ffurf e-bost, a allai fod yn fwy ymarferol. Pe byddai'n syml yn cyfeirio at yr hysbysiad a oedd yn cael ei roi, byddai hynny'n awtomatig yn cynnwys hysbysiad ar e-bost (trwy rinwedd adran 329 a 336 DCGTh 1990).

### Cwestiwn ymgynghori 12-22.

**Cynigwn dros dro y dylid diwygio adran 172A y DCGTh (sicrwydd o beidio ag erlyn am dorri hysbysiad gorfodi) er mwyn**

- (1) **galluogi awdurdod i roi sicrwydd o'r fath yn syml trwy "roi hysbysiad" i'r person perthnasol, yn hytrach na'i wneud ar ffurf llythyr; a**
- (2) **er mwyn galluogi'r awdurdod i roi sicrwydd i gais gan berson (B), sy'n caffael budd mewn tir yn dilyn mater o hysbysiad gorfodi yn ymwneud â'r tir, yn esbonio, unwaith y chyhoeddwyd yr hysbysiad gorfodi, bod gofyn i'r awdurdod gyflwyno copi ohono ar berson (A) yr oedd B wedi caffael y budd yn y tir ohono.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Effaith caniatâd cynllunio dilynol

- 12.134 Yn rhinwedd adran 180(1) DCGTh 1990, ble rhoddir caniatâd cynllunio yn dilyn cyflwyno copi o hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amod, nid oes gan yr hysbysiad unrhyw rym cyn belled ag yw'n anghyson â'r caniatâd hwnnw. Y bwriad, mae'n amlwg, yw bod caniatáu caniatâd cynllunio yn dileu unrhyw hysbysiad gorfodi blaenorol sydd yn anghyson ag ef.

- 12.135 Ar hyn o bryd, mae hyn ond yn gymwys ble mae'r datblygiad y mae'r caniatâd wedi ei roi ar ei gyfer eisoes wedi digwydd. Nid yw'n glir pam fod adran 180 wedi ei gyfyngu yn y ffordd hon. Os yw caniatâd yn cael ei roi yn y dyfodol ar gyfer datblygiad sydd mewn rhyw ffordd yn gorgyffwrdd â neu'n berthnasol i'r datblygiad anawdurdodedig sydd yn destun yr hysbysiad gorfodi, byddai'r un egwyddor yn gymwys.

Yn ail, oherwydd y ffordd mae adran 180(1) wedi ei drafftio, lle rhoddir caniatâd cynllunio yn syth ar ôl cyflwyno hysbysiad gorfodi, ond cyn cyflwyno copi ohono, mae'r hysbysiad yn dal mewn grym yn llawn. Ni fydd hyn yn digwydd yn aml, ond er hyn mae'n anffodus.

- 12.136 Cynigwn dros dro y dylid diwygio adran 180(1) i gyfeirio at roi caniatâd cynllunio yn dilyn cyhoeddi hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amod.

### Cwestiwn ymgynghori 12-23.

**Cynigwn dros dro y dylid diwygio adran 180(1) DCGTh 1990 (yn ymwneud ag effaith rhoi caniatâd cynllunio dilynol ar hysbysiad gorfodi) i gyfeirio**

**(1) at roi caniatâd yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer caniatâd ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi digwydd yn unig; ac**

**(2) at roi caniatâd cynllunio yn dilyn cyhoeddi hysbysiad gorfodi, yn hytrach nag yn dilyn cyflwyno copi o'r hysbysiad.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **GWAHARDDEBAU**

- 12.137 Ble mae awdurdod cynllunio'n ystyried bod toriad rheolaeth gynllunio yn debygol o ddigwydd - neu eisoes wedi digwydd, a'i bod yn debygol o barhau - gall geisio gwaharddeb o'r llysoedd er mwyn atal y rhai sy'n gyfrifol. Cyflwynwyd y pwerau pendant sydd bellach o fewn DCGTh 1990 (yn adran 187B) gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, yn dilyn adroddiad Carnwath.<sup>68</sup>
- 12.138 Yn anaml ceisir am waharddebau - llai na 100 y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr - ond mae pŵer awdurdod cynllunio i wneud hynny yn parhau i fod yn arf gwerthfawr yn ei arfdu o bwerau gorfodi
- 12.139 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw angen am ddiwygiad technegol i adran 187B.

### **COSBAU TROSEDDOL**

- 12.140 Mae nifer o ddarpariaethau yn DCGTh 1990 sy'n creu tramgwyddau troseddol. Maen nhw wedi cael eu cyflwyno i'r llyfr statud dros nifer o flynyddoedd, ac o ganlyniad, nid yw'r darpariaethau gweithdrefnol a dedfrydu'n gwbl gyson bellach.

### **Ymatebion i geisiadau am wybodaeth**

- 12.141 I ddechrau, mae yna droseddau yn ymwneud â cyflenwi gwybodaeth mewn ymateb i gais gan yr awdurdod cynllunio. Mae'r rhain fel arfer yn digwydd yn erbyn cefndir o bryder gan yr awdurdod bod toriad o reolaeth gynllunio ar fin digwydd neu eisoes wedi digwydd. Mae methiant i ddarparu gwybodaeth o'r fath (naill ai mewn ymateb i hysbysiad tramgwyddo cynllunio (PCN) neu gais dan adran 330 DCGTh 1990) yn drosedd sydd, ar gollfarn ddiannod, yn gallu arwain at ddirwy o hyd at Lefel 3 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd). Heb amheuaeth, mae'r gosb gymharol isel yn adlewyrchu'r ffaith bod yr awdurdod yn ymwybodol ei bod heb dderbyn unrhyw wybodaeth, a'i bod o bosib dal yn gallu gwneud ymholiadau mewn man arall.

---

<sup>68</sup> Mae pwerau tebyg ar gael mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, hysbysebion a choed gwarchoddedig.

- 12.142 Ond mae'r sefyllfa'n wahanol ble mae'r wybodaeth a ddarperir yn ffug. Gall hyn danseilio holl sail rheolaeth gynllunio, a chamau gorfodi yn benodol.
- 12.143 Mae darparu gwybodaeth ffug i gaffael tystysgrif o ddatblygiad cyfreithlon yn drosedd dan adran 194(1) DCGTh 1990, yn denu, ar gollfarn ddiannod, dirwy o unrhyw swm; ac ar gollfarn o ddiad (yn Llys y Goron) dirwy o unrhyw swm, neu garchariad am hyd at ddwy flynedd, neu'r ddau. Mae gwneud datganiad ffug mewn ymateb i gais dan adran 330 yn denu'r un cosbau. Fodd bynnag, mae gwneud datganiad ffug mewn ymateb i PCN - sydd yn hanfodol yn gyfwerth â chais dan adran 330 mwy neu lai - yn drosedd, dan adran 171(5), sy'n gallu arwain at gollfarn ddiannod yn unig, gan ddenu dirwy o unrhyw swm.<sup>69</sup>
- 12.144 Mae darparu tystysgrif ffug o ran perchnogaeth y tir, ac o ran i ba raddau mae perchnogion tir wedi cael eu hysbysu o gais cynllunio i ddatblygu ar eu tir, yn drosedd dan adran 65(6) DCGTh 1990, a hefyd yn denu dirwy o unrhyw swm ar gollfarn ddiannod.
- 12.145 Ystyriwn dros dro bod y troseddau dan adran 65(6), 171D(5), 194(1) a 330(5) yn gyffredinol yn gymaradwy.<sup>70</sup> Gellid eu cyflawni gan ddeiliad tŷ trwy wneud mân gamgymeriad, nad oedd yn un arwyddocaol, a byddai mwy na thebyg yn anaddas cychwyn unrhyw weithrediadau cyfreithiol. Ar y llaw arall, gellid eu cyflwyno'n gwbl sinigaidd gan dirfeddiannwr neu ddatblygwr arall sy'n ceisio cuddio toriad difrifol o reolaeth gynllunio rhag yr awdurdod cynllunio. Rydym felly'n ystyried ym mhob achos, y dylid cael cosb uchafswm ar gollfarn ddiannod o ddirwy o unrhyw swm - naill ai ar gollfarn ddiannod neu ar gollfarn ar ddiad.
- 12.146 Ar hyn bryd, mae gan Lys y Goron y grym i roi dedfryd o garchar am rai o'r troseddau hyn.<sup>71</sup> Rydym yn amau a oes dedfryd o'r fath erioed wedi cael ei phennu'n ymarferol, neu anaml iawn; a'r arfer mewn statudau diweddar eraill oedd gosod dirwy.<sup>72</sup> Ystyriwn felly bod pŵer i osod dirwy o unrhyw swm yn ataliad digonol.

### Cwestiwn ymgynghori 12-24.

**Cynigwn dros dro y dylai bod modd rhoi troseddau o gyflenwi gwybodaeth ffug mewn ymateb i gais gan awdurdod cynllunio, ar hyn o bryd dan adran 65(6), 171D(5), 194(1) a 330(5) DCGTh 1990, ar brawf naill ai'n ddiannod (yn y llys ynadon) neu ar ddiad (yn Llys y Goron), ac y dylai'r gosb uchafswm mewn unrhyw achos**

<sup>69</sup> Mae'r Ddeddf yn dal i gyfeirio at ddirwy o hyd at Lefel 5, ond mae hynny nawr yn effeithiol yn ddirwy o unrhyw swm (mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl 12 Mawrth 2015 (trwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012, a 85(1)).

<sup>70</sup> Fe gynigion hefyd yn gynharach yn y bennod yma y dylid uno darpariaethau sydd yn sôn am PCNs a hysbysiadau o dan a 330 (gweler **cwestiwn ymgynghori 12-1**).

<sup>71</sup> Gwneud datganiad ffug i gaffael tystysgrif o ddatblygiad cyfreithlon (a. 194(1) neu mewn ymateb i gais am wybodaeth (a 330(5), ond nid a 171D(5)); a datgelu gwybodaeth a ddarganfuwyd yn ystod archwiliadau (au 196C(5), 325(3)).

<sup>72</sup> Gweler er enghraifft Mesur y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, a 8; Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a 46; Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, a 34; Deddf Tai (Cymru) 2014, a 39; Deddf Iechyd Gyhoeddus (Cymru) 2017, a 82.

**fod yn ddirwy o unrhyw swm.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Hysbysiad torri camau gorfodi ayyb**

12.147 Fel y nodwyd yn gynharach yn y Bennod hon, nid yw cynnal datblygiad anawdurdodedig ei hun yn dramgwydd troseddol. Fodd bynnag, ble mae awdurdod cynllunio yn dewis cymryd camau gorfodi, ac yn cyhoeddi un neu ragor o'r amryw hysbysiadau a ddisgrifir yn fras uchod, mae diffyg cydymffurfio â'r hysbysiadau'n dramgwydd troseddol dan DCGTh 1990.

12.148 Gan hynny, mae'n drosedd:

- (1) torri hysbysiad stop dros dro;<sup>73</sup>
- (2) torri hysbysiad gorfodi;<sup>74</sup>
- (3) adfer adeiladau ayyb yn dilyn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi;<sup>75</sup>
- (4) torri hysbysiad stop;<sup>76</sup>
- (5) methu â chydymffurfio â hysbysiad torri amodau;<sup>77</sup> ac
- (6) i fethu â chydymffurfio â hysbysiad terfynu.<sup>78</sup>

12.149 Yn y mwyafrif o achosion, gellir rhoi'r drosedd ar brawf, naill ai'n ddiannod neu ar dditiad, ac mae'n gosbadwy yn y naill achos neu'r llall gan ddirwy o unrhyw swm.<sup>79</sup> Fodd bynnag, mae dau eithriad.

12.150 Mae collfarn am drosedd (dan adran 181(5) DCGTh 1990) o adfer adeiladau neu waith yn dilyn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi yn gallu cael ei rhoi ar brawf ddiannod yn unig, ac mae'n denu cosb o ddirwy o unrhyw swm.<sup>80</sup> Mae hynny'n ymddangos yn syndod, gan y bydd canlyniad gweithgaredd o'r fath yn fras yr un fath â methiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi yn y lle cyntaf, o bosib wedi'i gyplysu ag elfen o herfeiddiad.

---

<sup>73</sup> DCGTh 1990, a 171G(1).

<sup>74</sup> DCGTh 1990, a 179(2), (5). Nodwch fod hyn yn cynnwys ailgychwyn yn ddiweddarach defnydd a ddylai fod wedi dod i ben gan yr hysbysiad gorfodi (a 181(2)).

<sup>75</sup> DCGTh 1990, a 181(5).

<sup>76</sup> DCGTh 1990, a 187(1).

<sup>77</sup> DCGTh 1990, a 187A(9).

<sup>78</sup> DCGTh 1990, a 189(1), (2).

<sup>79</sup> Mae collfarn ddiannod ar gyfer torri hysbysiad parhad yn denu dirwy "hyd at yr uchafswm statudol", ond mae'r canlyniad yr un fath.

<sup>80</sup> DCGTh 1990, a 181(5).

- 12.151 Mae collfarn am drosedd (dan adran 187A(9) DCGTh 1990 am fethiant i gydymffurfio â hysbysiad torri amod hefyd yn gallu cael ei rhoi ar brawf ddiannod yn unig, ac mae'n denu cosb o ddirwy o hyd at Lefel 4 yn Lloegr, a hyd at Lefel 3 yng Nghymru.<sup>81</sup> Mae hynny'n ymddangos yn syndod, gan y bydd canlyniad gweithgaredd o'r fath yn fras yr un fath â methiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi yn ymwneud â thori amod.<sup>82</sup>
- 12.152 Ystyriwn dros dro y dylai bod modd rhoi'r ddau dramgwydd hyn ar brawf gan ddefnyddio'r naill ddull, ac y dylai bod modd pennu cosb o unrhyw swm yn y naill achos, er mwyn eu gwneud yn gyson â'r cosbau am doriadau eraill o hysbysiadau gorfodaeth gynllunio dan a DCGTh 1990.

### **Cwestiwn ymgynghori 12-25.**

#### **Cynigwn dros dro bod pob un o'r troseddau o**

- (1) **adfer adeiladau neu waith yn dilyn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi (dan adran 181(5) DCGTh 1990); a**
- (2) **methiant i gydymffurfio â thoriad o hysbysiad torri amod (dan adran 187A(9) DCGTh 1990**

**oll yn gallu cael eu rhoi ar brawf yn ddiannod neu ar dditiad, a'u bod yn gosbadwy yn y naill achos neu'r llall gan ddirwy o unrhyw swm, er mwyn eu gwneud yn gyson â'r cosbau ar gyfer toriadau hysbysiadau gorfodaeth gynllunio eraill dan DCGTh 1990.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Rhwystro awdurdod**

12.153 Mae'n drosedd rhwystro awdurdod cynllunio wrth iddynt

- (1) gynnal gwaith sy'n ofynnol trwy rwymedigaeth gynllunio (dan adran 106) neu hysbysiad gorfodi,<sup>83</sup>
- (2) gynnal archwiliad cyn cymryd camau gorfodi,<sup>84</sup> neu
- (3) gael mynediad at dir at ddibenion eraill dan DCGTh 1990.<sup>85</sup>

12.154 Ym mhob achos, mae'r drosedd yn gosbadwy ar gollfarn ddiannod trwy ddirwy o hyd at Lefel 3. Ystyriwn dros dro bod hyn yn ymddangos yn gywir am un toriad, gan gadw

<sup>81</sup> DCGTh 1990, a 181(5).

<sup>82</sup> Gall y gwahaniaeth adlewyrchu'r ffaith bod dim hawl i apelio yn erbyn hysbysiad torri amodau.

<sup>83</sup> DCGTh 1990, adrannau 106(8), 178(6).

<sup>84</sup> DCGTh 1990, adrannau 196C(2), 214D(3).

<sup>85</sup> DCGTh 1990, adrannau 325(2).

mewn cof bod pob rhwystrad dilynol yn doriad ar wahân, ac y gellir cyhuddo am hyn yn gyfatebol.

### Datgeliad anawdurdodedig

- 12.155 Mae'r Ddeddf hefyd yn cosbi am ddatgelu gwybodaeth a ddarganfuwyd gan awdurdod cynllunio neu ei weithwyr, naill ai yn ystod cynnal archwiliadau mewn perthynas â chamau gorfodi posib (dan adran 196A a 196B DCGTh 1990) neu wrth arfer ei bwerau cyffredinol i gael mynediad at dir (dan adran 324).
- 12.156 Ym mhob achos, mae'r drosedd yn denu dirwy o unrhyw swm ar gollfarn ddiannod; a dirwy o unrhyw swm ar gollfarn ar dditiad, neu garchariad o hyd at ddwy flynedd, neu'r ddau.<sup>86</sup> Eto, ystyriwn dros dro bod hyn yn ymddangos yn gywir.

### Troseddau eraill

- 12.157 Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 a DCGTh 1990 hefyd yn cosbi:
- (1) cynnal gwaith anawdurdodedig i adeiladau rhestredig a dymchwel mewn ardal gadwraeth;<sup>87</sup>
  - (2) arddangos hysbysebion heb ganiatâd;<sup>88</sup>
  - (3) cynnal gwaith i warchod coed heb ganiatâd;<sup>89</sup> a
  - (4) diffyg cydymffurfiaeth â hysbysiad tir hyll.<sup>90</sup>
- 12.158 Trafodir y rhain mewn Penodau diweddarach.<sup>91</sup>

## TORIADAU HANESYDDOL O REOLAETH GYNLLUNIO

- 12.159 Mae adran 57(7) ac Atodlen 4 DCGTh 1990 yn gwneud darpariaeth o ran yr angen am ganiatâd cynllunio i ailgychwyn cyn 6 Rhagfyr 1968 ar gyfer y defnydd o dir a gwblhawyd ar ryw ddyddiad cyn 1 Gorffennaf 1948.
- 12.160 Mae adran 302 ac Atodlen 15 y Ddeddf honno yn gwneud darpariaeth o ran cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygiad anawdurdodedig ar dir y Goron a ddigwyddodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- 12.161 Ymddengys bod y ddwy set o ddarpariaethau'n ddiangen, felly nid oes angen eu hailddatgan yn y Cod.

---

<sup>86</sup> DCGTh 1990, adrannau 196C(7), 325(5).

<sup>87</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 adrannau 9(1) a 74(3).

<sup>88</sup> DCGTh 1990, a 224 (3).

<sup>89</sup> DCGTh 1990, adrannau 210(1), (4), 211(2).

<sup>90</sup> DCGTh 1990, a 216(2).

<sup>91</sup> Gweler **paragraffau 13.175 i 13.177** (adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth), **paragraffau 14.85 i 14.95** (hysbysebion) **paragraffau 15.100 i 15.119** (coed), a **pharagraff 16.8** (hysbysiadau tir hyll).



**Cwestiwn ymgynghori 12-26.**

**Cynigwn dros dro na ddylai adran 57(7), 302 ac Atodlen 4 a 15 DCGTh 1990, yn ymwneud â thoriadau rheolaeth gynllunio cyn-1948, gael eu hailddatgan yn y Cod.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**



# Pennod 13: Gwaith sydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth

## CYFLWYNIAD

### Y sefyllfa bresennol

- 13.1 Mae'r penodau blaenorol wedi canolbwyntio ar ganiatadau ac apeliadau cynllunio - hynny yw, ceisiadau am ganiatâd cynllunio a'r holl faterion sy'n ymwneud â nhw. Gallai ceisiadau o'r fath ymwneud â gynigion am waith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth; ac mae ein cynigion ar gyfer diwygiadau technegol yn berthnasol mewn achosion o'r fath yn union ag mewn unrhyw achos eraill.
- 13.2 Fodd bynnag, fel yr eglurir isod, dros yr hanner can mlynedd diwethaf tyfodd ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r system gynllunio, a luniwyd i sicrhau bod digon o reolaeth dros waith sy'n cael effaith ar adeiladau ac ardaloedd a allai fod yn arbennig o sensitif i hyd yn oed newidiadau cymharol fân.
- 13.3 O ganlyniad, mae yno nawr dri math perthnasol o ganiatâd ar gyfer gwaith adeiladu yng Nghymru:
- (1) caniatâd cynllunio (dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);
  - (2) caniatâd adeilad rhestredig (dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) ("Deddf Adeiladau Rhestredig") 1990); a
  - (3) chaniatâd ardal gadwraeth (hefyd dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990).
- 13.4 Yn adran gyntaf y Bennod hon, ystyriwn yn eu tro bob un o'r tair system ganiatáu hyn ac edrych ar sut maent yn gorgyffwrdd. Amlinellwn hefyd sail y polisi sydd wrth wraidd bob system.

### Diwygiant posib

- 13.5 Rydym wedi ystyried ynghynt yn y Papur Ymgynghori<sup>1</sup> pa mor ddymunol yn gyffredinol fyddai gwneud newidiadau technegol i'r gyfraith er mwyn creu côd cynllunio symlach, sydd yn haws ei ddefnyddio'n ymarferol. Bu i ni hefyd nodi ymatebion rhanddeiliaid i awgrymiadau a wnaed yn y Papur Cwmpasu am newidiadau posib o'r math hwnnw.
- 13.6 Yn ein Papur Cwmpasu disgrifiwyd gennym un newid posib - cyfuno cyfundrefnau caniatáu sy'n gorgyffwrdd - a allai fireinio gweithdrefn a diwygio anghysonderau yn y

---

<sup>1</sup> Gweler **Pennod 4**.

gyfraith.<sup>2</sup> Fodd bynnag, bu i ni gydnabod y gallai hwn fod ar y ffin rhwng diwygio technegol a diwygio sydd gyfystyr â newid mewn polisi. Yn unol â hyn, bu i ni archwilio'r materion perthnasol yn fanylach a cheisio barn rhanddeiliaid. Ennynodd y mater fwy o ymatebion nag unrhyw gynnig dywigio penodol ac, felly, ystyriwn ef unwaith eto yn fanylach yn y Bennod hon, yn wyneb y pwyntiau a wnaed gan ymatebwyr.

13.7 Gallai hefyd fod o gymorth pe baem, ar ddechrau'r Bennod hon, yn ategu'r egwyddorion a nodwn yn ein Papur Cwmpasu. Yn gyntaf, dylai tynnu ynghyd neu gyfuno systemau caniatáu ar wahân, penodol arwain at arbedion effeithiolrwydd a gwelliannau i weithdrefnau. Yn ail, dylai symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol wella eglurder, hygyrchedd a chydlynid y system gynllunio. Yn drydydd, dylai unrhyw ddiwygio ar y gyfundrefn ganiatáu gyflawni pum nod:

- (1) rhaid iddo gynnal o leiaf lefel gyfredol y warchodaeth;
- (2) rhaid iddo weithredu'n effeithiol ochr yn ochr â systemau rheoli sydd eisoes yn bodoli;
- (3) rhaid iddo wneud y system yn fwy hygyrch;
- (4) rhaid iddo leihau biwrocratiaeth a gwneud y system yn fwy effeithlon; a
- (5) rhaid iddo symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol.<sup>3</sup>

13.8 Yn y Papur Cwmpasu, rhoesom ystyriaeth i'r posibilrwydd o uno caniatadau yn bennaf yng nghyd-destun gwaith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, ac yn y Bennod hon, ystyriwn ymhellach waith o'r fath. Fe wnaethom hefyd gyffwrdd ar ganiatâd ar gyfer hysbysebu yn yr awyr agored; dychwelwn at hynny yn y Bennod a ganlyn.<sup>4</sup>

13.9 Ar ôl i ni ddadansoddi'r gyfraith bresennol o ran bod angen amrywiol ffurfiau o ganiatâd, a sail y polisi sydd wrth wraidd pob cyfundrefn statudol, ystyriwn wedyn y dadleuon o blaid ac yn erbyn newid posibil, ac amlinellu amrywiol opsiynau ar gyfer diwygio posibil. Yn olaf, ymdriniwn â nifer o bwyntiau manylach.

13.10 Ond pwysleisiwn nad ydym yn ceisio mewn unrhyw fodd lastwreiddio lefel y warchodaeth a roddir gan y trefniadau presennol, ond yn hytrach gyflawni'r fframwaith cyfreithiol mwyaf priodol oddi mewn i'r hyn y gellir cynnal y gwaith cydbwysu rhwng yr angen am ddatblygiad newydd yn erbyn yr awydd i warchod adeiladau ac ardaloedd hanesyddol; a hepgor unrhyw gymhlethdod neu anghyfleustra i'r rhai sy'n gorfod ei ddefnyddio.

---

<sup>2</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu*, Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, Rhif 228 (2015), Unio Cyfundrefnau Caniatad.

<sup>3</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu* (2015), paragraffau 6.61 – 6.65.

<sup>4</sup> Gweler **paragraffau 14.50 i 14.56**.

## GWAITH SYDD EFFEITHIO AR ADEILADAU RHESTREDIG AC ARDALOEDD CADWRAETH: Y GYFRAITH BRESENNOL

### Caniatâd cynllunio

- 13.11 Fel y nodir ym **Mhennod 7**, mae angen caniatâd cynllunio i wneud gwaith "datblygu" sy'n cynnwys gwneud newid o bwys yn y defnydd a wneir o adeilad neu dir, a gwneud unrhyw waith adeiladu neu unrhyw waith eraill. Mae "gwaith adeiladu" yn cynnwys:
- (1) dymchwel adeiladau;
  - (2) ailadeiladu;
  - (3) altro strwythur adeiladau neu ychwanegu atynt; ac
  - (4) unrhyw waith arall a wneir fel arfer gan berson sydd mewn busnes fel adeiladwr.<sup>5</sup>
- 13.12 Mae hyn yn berthnasol i adeiladau sy'n rhestredig neu mewn ardal gadwraeth yn union fel ag y mae i'r rhai eraill.
- 13.13 Ond nid yw'n ofynnol cael caniatâd cynllunio i wneud gwaith i gynnal a chadw a gwella unrhyw ardal nac i wneud unrhyw waith altro arall arno:
- (1) sy'n cael effaith ar y tu mewn i'r adeilad yn unig, neu
  - (2) nad yw'n cael effaith o bwys ar ei edrychiad allanol.<sup>6</sup>
- 13.14 Golyga hyn, yn arbennig, mai gwaith sy'n cael effaith ar y tu mewn i'r adeilad yn unig yw'r gwaith nad yw'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer.<sup>7</sup>
- 13.15 O ran yr hyn sy'n cael effaith o bwys ar edrychiad allanol yr adeilad, bydd hyn yn dibynnu i ryw raddau ar p'un a yw'n un rhestredig ynteu mewn ardal gadwraeth.<sup>8</sup>
- 13.16 Hyd 1991 ystyriwyd yn gyffredinol fod gwaith dymchwel y tu allan i gwmpas datblygu. Fodd bynnag, roedd y Llys Apêl, yn *Cyngor Sir Caergrawnt v yr Ysgrifennydd Gwladol* o'r farn fod gwaith dymchwel yn gynwysiedig.<sup>9</sup> Diwygiwyd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn unol â hyn i wneud hynny'n glir, ond yr un pryd cyflwynwyd gweithdrefn lle gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cyfarwyddyd yn eithrio categorïau datblygu penodol rhag yr angen am ganiatâd cynllunio.<sup>10</sup>
- 13.17 Gan arfer ei bwerau dan y ddeddfwriaeth honno, yn 1992 rhoes yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd yn eithrio gwaith dymchwel adeilad rhestredig, unrhyw adeilad

---

<sup>5</sup> DCGTh, a 551(1), (1A), fel ei gafodd ei ddiwygio gan y Ddeddf Cynllunio a Lawndal 1991, a 13.

<sup>6</sup> DCGTh 1990, a 552(2(a)).

<sup>7</sup> Gyda'r eithriad posib o weithiau i greu rhagor o le tanddearol.

<sup>8</sup> *Burroughs Day v Bristol City Council* [1996] 1 PLR 78.

<sup>9</sup> (1992) 64 P&CR 257, CA.

<sup>10</sup> 55(2)(g) a DCGTh 1991.

mewn ardal gadwraeth neu heneb restredig rhag bod angen caniatâd cynllunio arno. Y rhesymeg oedd bod caniatâd yn ofynnol ar gyfer y rhain i gyd dan un o'r cyfundrefnau eraill. Mae'r ffaith fod cymhlethdod y cynllun statudol wedi arwain at ddyroddi pedwar cyfarwyddyd mewn pedair blynedd yn arwydd o gyflwr anfodddhaol y cynllun statudol hwn.<sup>11</sup>

- 13.18 Cafodd y mwyaf diweddar o'r cyfarwyddyd hynny ei ddileu gan y Llys Apêl yn 2011.<sup>12</sup> Y canlyniad yw bod caniatâd cynllunio bellach yn ofynnol ar pob achos o waith dymchwel - yn cynnwys dymchweliad adeilad rhestredig neu adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth. Fodd bynnag, rhoddir caniatâd yn awtomatig gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, gydag amod bod rhaid rhoi cyfle i awdurdodau cynllunio i reoli dull dymchwel ac adfer y safle.<sup>13</sup>
- 13.19 Rhoddir caniatâd cynllunio hefyd gan erthygl 3 o Orchymyn 1995 ar gyfer nifer o gategoriâu eraill o fân waith adeiladu, a adwaenir fel arfer fel "datblygiad a ganiateir". Mewn llawer o achosion, addasir neu gwneir i ffwrdd yn llwyr â hawliau datblygu a ganiateir a fyddai fel arall yn berthnasol mewn perthynas â gwaith o fewn cwrtil adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth. Felly, er enghraifft, ni chaniateir codi adeilad gardd yng nghwrtil tŷ annedd, a gâi ganiatâd fel arfer gan erthygl 3 y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir<sup>14</sup> lle mae'r tŷ annedd yn un rhestredig ac mae cyfyngiadau ar faint o strwythurau o'r fath y gellir eu codi dan hawliau datblygu a ganiateir mewn ardal gadwraeth.<sup>15</sup>
- 13.20 Mewn rhai achosion, mae modd i'r awdurdod cynllunio dynnu'r caniatâd dan y Gorchymyn am gategoriâu gwaith penodol yn ôl, gan wneud cyfarwyddyd dan erthygl 4 y Gorchymyn yng nghyswllt eiddo penodol. A gwneir hynny weithiau mewn ardaloedd cadwraeth.
- 13.21 Mewn achosion eraill, rhaid cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio (neu, ar apêl, gan Weinidogion Cymru).

### Caniatâd adeilad rhestredig

- 13.22 Fel y nodir uchod, adeg y cafodd adeiladau hanesyddol eu gwarchod yn gyntaf - gan "orchymynion diogelu" dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1932 (yn hwyrach ymlaen Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 ac 1962 - y gred gyffredinol oedd fod "dymchwel" y tu allan i gwmpas "datblygu", yr oedd yn ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Ac roedd gwaith mewnol o hyd y tu allan i gwmpas datblygu. O'r herwydd, roedd yn angenrheidiol cyflwyno gofyn am gael caniatâd dan y gorchymyn i

---

<sup>11</sup> CGTh (Dymchweliad – Disgrifiad Adeiladau) Cyfarwyddiad 1992, a andewyddiwyd gan y TCP (Dymchweliad – Disgrifiad Adeiladau) (Rhif 2) Cyfarwyddiad 1992, ac ei ail-adnewyddu mewn tro gan y TCP (Dymchweliad – Disgrifiad Adeiladau) Cyfarwyddiad 1994, ac eto gan y TCP (Dymchweliad – Disgrifiad Adeiladau) Cyfarwyddiad 1995, fel y cyhoeddwyd mewn Atodlen A i Cylchlythyr y Swyffa Gymraeg 31/95.

<sup>12</sup> *Save Britain's Heritage v Secretary of State for Communities and Local Government* [2011] EWCA Civ 334; am fanylion, gweler llythyr *Annwyl Brif Swyddog Cynllunio*, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Gymraeg ar 18 Ebrill 2011.

<sup>13</sup> GPDO 1995, erthygl 3 a amserlen 3, rhan 31.

<sup>14</sup> O dan y CGTh (Datblygiaeth Cyffredinol Caniataol) Gorchymyn 1995, erthygl 3; amserlen 3, rhan 1, dosbarth a.

<sup>15</sup> CGTh (Datblygiaeth Cyffredinol Caniataol) Gorchymyn 1995, amserlen 2, rhan 1, paragraffau E.1(i), E.2.

ddymchwel adeilad a warchodir ac i wneud gwaith a fyddai'n cael effaith "ddifrifol ar gymeriad yr adeilad".<sup>16</sup>

- 13.23 Ffurfiolwyd y gofyn hwnnw gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, a gyflwynodd am y tro cyntaf y cysyniad o "adeilad rhestredig" gan ei gwneud yn ofynnol bod rhaid cael "caniatâd adeilad rhestredig" i wneud unrhyw waith ar gyfer
- (1) dymchwel adeilad rhestredig (yn cynnwys strwythur cyn 1948 yn ei gwrttil); neu
  - (2) i altro neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw fodd a fyddai'n cael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.<sup>17</sup>
- 13.24 Mae'r ffurf honno'n parhau yn ei lle heddiw. Mae methu cael caniatâd adeilad rhestredig am waith o'r fath yn drosedd atebolrwydd caeth.<sup>18</sup>
- 13.25 Ar y sail hwn y ceisiodd y Llywodraeth yn 1992 eithrio gwaith dymchwel adeilad rhestredig rhag yr angen am ganiatâd cynllunio - gan fod angen caniatâd adeilad rhestredig arno eisoes. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, bwriad y cyfarwyddyd oedd cyflawni'r hyn a ddileuwyd yn ddiweddar.
- 13.26 Bydd hefyd yn bosib rhoi caniatâd adeilad rhestredig yng Nghymru gan gytundeb partneriaeth treftadaeth, dan adran 26L Deddf Adeiladau Rhestredig, a fewnosodwyd gan adran 28 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016<sup>19</sup> am gategorïau penodol o waith a nodir yn benodol yn y cytundeb.<sup>20</sup>
- 13.27 O ran gwaith altro ac ymestyn y tu allan i adeilad rhestredig, nid yw hi'n gwbl glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng y rhai hynny sy'n "cael effaith o bwys ar edrychiad allanol yr adeilad" (y mae caniatâd cynllunio'n ofynnol ar eu cyfer fel arfer<sup>21</sup>) a'r rhai hynny sy'n "cael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig (y mae caniatâd adeilad rhestredig yn ofynnol ar eu cyfer<sup>22</sup> ond yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn debygol o fod yn debyg iawn.
- 13.28 Weithiau tybir yn anghywir ei bod yn ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig i godi strwythur annibynnol o fewn cwrttil adeilad rhestredig.<sup>23</sup> Nid oes; ond fel arfer bydd gofyn cael caniatâd cynllunio. Yn wir, dyma pam nad yw llawer o'r dosbarthiadau o ddatblygiad a ganiateir yn berthnasol mewn perthynas â gwaith yng nghwrttil adeilad

---

<sup>16</sup> Ymadroddiad a wnaeth ymddangos yn gyntaf yn y DCGTH 1944, a 29(3).

<sup>17</sup> DCGTh, a 40.

<sup>18</sup> Deddf Adeiladau Cofrestredig 1990, adrannau 7 a 9.

<sup>19</sup> Nid yw yn effeithiol yn llawn.

<sup>20</sup> Yn Lloegr, gall caniatad adeiladau cofrestredig eu rhoi trwy orchymyn caniatad adeiladau cofrestredig (yn debyg mewn effaith gorchymyn caniatad datblygiad) – onnid yng Nghymru.

<sup>21</sup> Gweler **para 13.13**.

<sup>22</sup> Gweler **para 13.23**.

<sup>23</sup> *Cotswold DC v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1985] JPL 407.

rhestredig, i sicrhau y gall gwaith o'r fath barhau i gael ei reoli gan yr awdurdod cynllunio.

### Caniatâd ardal gadwraeth

- 13.29 Yn sgil cyflwyno ardaloedd cadwraeth yn 1967, cyflwynwyd gofyn lle roedd caniatâd yn ofynnol i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth (byddai gofyn, wrth reswm, gael caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer dymchwel un rhestredig). Yn wreiddiol cyfeiriwyd at y caniatâd hwnnw, o hyd, gyda dryswch, fel "caniatâd adeilad rhestredig"; pan gydgyfnerthwyd y ddeddfwriaeth gynllunio yn 1990, cymerwyd y cyfle i gyflwyno'r term "caniatâd ardal gadwraeth".<sup>24</sup> Roedd methu cael caniatâd, dan ba bynnag enw, yn drosedd atebolrwydd caeth.
- 13.30 Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi egluro fod "dymchwel" yn y cyd-destun hwn yn ymestyn yn unig at "wneud i ffwrdd â'r cyfan o'r adeilad, [neu] waith i...adeilad fydd yn cynhyrchu safle ar gyfer ailddatblygu."<sup>25</sup>
- 13.31 Oherwydd mai ar gyfer dymchwel, ac nid altro, y mae caniatâd ardal gadwraeth yn ofynnol, mae nifer y ceisiadau'n weddol fach. Ac mae dryswch sylweddol o ran pryd mae'n ofynnol cael caniatâd. Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ei fod, dros gyfnod o bum mlynedd, wedi derbyn 53 o geisiadau am ganiatâd ardal gadwraeth. O'r rhain, roedd 14 am waith nad oedd caniatâd yn ofynnol ar ei gyfer.
- 13.32 Yn Lloegr, cafodd y gofyn i gael caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel ei ddiddymu'n ddiweddar gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013. Fodd bynnag, arhosodd y gofyn i gael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith dymchwel o'r fath, ac, felly, cyflwynwyd trosedd newydd o fethu cael caniatâd cynllunio ar gyfer "gwaith dymchwel perthnasol" - hynny yw, dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.<sup>26</sup> Mae'r caniatâd cynllunio awtomatig i ddymchwel a roddwyd gan Orchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir yn gwahardd yn benodol gwaith dymchwel mewn ardal gadwraeth yn Lloegr.<sup>27</sup>
- 13.33 Yng Nghymru, mae caniatâd ardal gadwraeth yn parhau'n ofynnol ar gyfer dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth yng Nghymru; ac mae methu cael caniatâd yn drosedd.<sup>28</sup>
- 13.34 Fodd bynnag, nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth i gynnal categorïau dymchwel penodol a restrir mewn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru - yn enwedig y rhai hynny sy'n gymharol anarwyddocaol, neu sydd wedi'u hawdurdodi dan weithdrefnau eraill.<sup>29</sup>

---

<sup>24</sup> Cyflwynwyd y term yma yn y DCGTh 1984, mewn perthynas â tir y Goron.

<sup>25</sup> *Shimizu (UK) Ltd v Westminster CC* [1997] 1 WLR 168, at dud 183.

<sup>26</sup> DCGTh 1990, a 196D, fel y mewnosodwyd gan y Ddeddf Diwygio Menter a Rheoleiddio 2013, amserlen 17.

<sup>27</sup> Gorchymyn Datblygiad Caniataol Cyffredinol 2015, amserlen 2, rhan 11, paragraff B.1(b)

<sup>28</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 74.

<sup>29</sup> Mae cyfarwyddiad presennol a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Wladwriaeth i Gymru ym mharagraff 20 o Cylchlythyr 1/98. Mae'n debygol y bydd y cylchlythyr yma yn cael ei ail-gyhoeddi, yn dilyn diweddariad y



## Y gorgyffwrdd rhwng yr amrywiol ffurfiau o ganiatâd

13.35 Canlyniad y set gymhleth hon o ddarpariaethau yw fod y caniatâd sy'n ofynnol ar gyfer amrywiol categorïau gwaith yng Nghymru yn gyffredinol fel a ganlyn:

- (1) mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio (yn unig) ar gyfer newid o bwys yn y defnydd a wneir o unrhyw adeilad;
- (2) mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio (yn unig) ar gyfer codi adeilad newydd, yn cynnwys un yng nghwrttil adeilad rhestredig;
- (3) gallai fod yn ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig (yn unig) ar gyfer gwaith i'r tu mewn i adeilad rhestredig, ond dim ond pe caent effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
- (4) mae caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yn ofynnol i ddymchwel adeilad rhestredig, ond rhoddir caniatâd cynllunio gan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir (felly dim ond am ganiatâd adeilad rhestredig y mae'n rhaid gwneud cais);
- (5) nid yw'n ofynnol cael na chaniatâd cynllunio na chaniatâd adeilad rhestredig am waith allanol i adeilad rhestredig nad yw'n cael effaith o bwys ar ei edrychiad;
- (6) nid yw'n ofynnol cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer mân waith i'r tu allan i adeilad rhestredig a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir, ond fel arfer bydd yn ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig ar ei gyfer.
- (7) mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig ar gyfer bron iawn i unrhyw waith adeiladu sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig,
- (8) mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith (allanol a mewmol) i adeilad yng nghwrttil adeilad yn y rhestr, lle
  - tybir bod yr adeilad yn rhan o'r adeilad hwnnw yn rhinwedd adran 1(5) y Ddeddf Adeiladau Rhestredig a
  - lle mae'r gwaith yn cael effaith ar gymeriad arbennig yr adeilad hwnnw
- (9) mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ond nid caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith (allanol a mewmol) i adeilad yng nghwrttil adeilad yn y rhestr mewn amgylchiadau eraill;

---

gyfraith (trwy'r Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016) a pholisi cysylltiedig; ond fe fydd yr egwyddorion yn parhau. Mae cyfarwyddiad tebyg yn Lloegr yn eithrio dymchweliadau mân o'r ofyniad am caniatâd cynllunio – gweler Cyfarwyddiad Ardaloedd Cadwraeth (Cymhwysedd adran 74 o'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Cofrestredig an Ardaloedd Cadwraeth) 1990) 2015.

- (10) mae'n ofynnol cael caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd cynllunio i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, ond rhoddir caniatâd cynllunio gan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir; a
- (11) mae angen caniatâd cynllunio (yn unig) ar gyfer bron iawn pob gwaith adeiladu arall mewn ardal gadwraeth (naill ai codi adeilad newydd neu altro un anrhestredig sydd eisoes yn bodoli).
- 13.36 O hyn, mae'n dilyn mai'r unig categorïau gwaith y mae angen cais ar eu cyfer am ganiatâd adeilad rhestredig ond nid cais cynllunio yw
- (1) gwaith i'r tu mewn i adeilad rhestredig a gâi effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb arbennig; a
- (2) gwaith i'r tu allan i adeilad rhestredig sy'n ddatblygiad a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir (GDCCG).
- 13.37 Nid oes categori gwaith y mae'n ofynnol cael caniatâd ardal gadwraeth ond nid caniatâdcynllunio ar ei gyfer.
- 13.38 Pan fo'n ofynnol cael dau fath o ganiatâd, yn enwedig ar gyfer ymestyn adeilad rhestredig neu ar gyfer gwaith arall sy'n cael effaith ar ei du allan, rhaid cael y ddau cyn gallu gwneud y gwaith yn gyfreithlon. Yn ymarferol, os cyflwynir y cais ar bapur, mae hyn yn arwain at ddau gais (fel arfer yn dibynnu ar ddwy set o'r un lluniadau); os caiff eigyflwyno ar lein, bydd un cais, ar gyfer "caniatâd cynllunio yn ogystal â chaniatâd adeilad rhestredig".<sup>30</sup> Fel yr eglurir yn y *Llawlyfr Rheoli Datblygu*,
- bwriad defnyddio'r [ffurflen gais safonol] ar gyfer amlgeisiadau a ddaw dan wahanol gyfundrefnau caniatáu yw mireinio'r broses ymgeisio. Fodd bynnag, nid yw'n newid y ffaith fod y ceisiadau hyn yn gyfreithiol ar wahân a dylai'r awdurdod cynllunio ymdrin â'u dilysrwydd a'r penderfyniad a wneir arnynt fel hynny.<sup>31</sup>
- 13.39 P'un ai y gwneir y cais mewn copi caled neu ar lein, yn aml iawn bydd dau adroddiad pwyllgor a dau hysbysiad penderfynu, yn cynnwys dwy set o amodau sy'n gorgyffwrdd neu dwy set o resymau dros wrthod.
- 13.40 Yn wir, datgan y *Llawlyfr Rheoli Datblygu* ei bod yn well ystyried ceisiadau cysylltiedig am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yr un pryd".<sup>32</sup>
- 13.41 Ymddengys bod ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â'r un gwaith ynghlwm wrth oddeutu hanner yr holl geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. Cyfnerthir hyn gan ffigyrau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, oedd wedi derbyn 249 o geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig dros y pum mlynedd 2011-16. O'r rhain, roedd ceisiadau am ganiatâd cynllunio ynghlwm wrth 112 (45%). Ymddengys fod cyfran y ceisiadau am ganiatâd ardal gadwraeth sydd â cheisiadau cynllunio ynghlwm

<sup>30</sup> Mae gan y mwyafrif llethol o awdurdodau ffurflen gyfunol ar gael trwy y wefan porth cynllunio.

<sup>31</sup> *Llawlyfr Rheoli Datblygu*, Tachwedd 2016, paragraff 7.2.6. Am statws y llawlyfr, gweler **paragraffau 7.3 ac 8.37**.

<sup>32</sup> *Llawlyfr Rheoli Datblygu*, Tachwedd 2016, paragraff 20.2.3.

wrthynt yn llawer uwch - o'r 39 o geisiadau dilys ym Mro Morgannwg yn yr un cyfnod, roedd cais am ganiatâd cynllunio ynghlwm wrth 36.<sup>33</sup>

- 13.42 Fodd bynnag, ymddengys yr ymdrinnir â cheisiadau gyda'i gilydd lle derbynir ceisiadau am ddau fath o ganiatâd, gan arwain at y ddau fath o ganiatâd yn cael eu rhoi neu eu gwrthod. Mewn arolwg a gynhaliwyd yn 2000 yn Lloegr, datganodd 84% o'r awdurdodau cynllunio a gymerodd ran (31 o'r 37 oedd yn ateb y cwestiwn) yr ymdrinnir â'r holl geisiadau yr un pryd gan yr un swyddog neu bwyllgor.<sup>34</sup> Mewn egwyddor, byddai'n bosib i un yn unig gael ei ganiatáu (er enghraifft, lle mae gwaith annymunol i altro defnydd a wneir o adeilad rhestredig ynghlwm wrth newid derbyniol i'r defnydd a wneir o adeilad rhestredig, neu lle bwriedir gwneud gwaith i'r tu mewn ac i'r tu allan), ond roedd hyn yn "brin".

### Gweithdrefnau

- 13.43 Yn ogystal â'r prif ddarpariaethau y mae gofyn caniatâd ar eu cyfer, ceir hefyd casgliadau sylweddol o ddarpariaethau atodol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio) ac yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 (sy'n ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth).
- 13.44 Felly, lle gwrthodir y ddau fath o ganiatâd, gall hynny arwain at ddwy apêl, ac yna at ddau benderfyniad ac (os caniateir yr apêl) at ddwy set o amodau - er yn ymarferol ymdrinia'r Arolygiaeth o hyd â'r ddwy apêl gyda'i gilydd a dyroddi un llythyr penderfynu.
- 13.45 Os gwneir gwaith yn absenoldebcaniatâd gallai awdurdod cynllunio sy'n dymuno unioni'r sefyllfa orfod dyroddi dau hysbysiad gorfodi sydd, unwaith eto, o bosib, yn arwain at ddwy apêl a dau benderfyniad (er y cânt eu dyroddi gyda'i gilydd). Fel arfer bydd methu cael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth (ond nid methu cael caniatâd cynllunio) yn drosedd.
- 13.46 O ganlyniad, mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau statudol yn ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig - yn darparu ar gyfer apeliadau, diddymu caniatâd, iawndal, hysbysiadau prynu, gorfodaeth (yn cynnwys gwaharddebion) a heriau statudol<sup>35</sup> - sy'n debyg iawn i'r darpariaethau cyfatebol sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ac yna defnyddir rhai o'r darpariaethau ar gyfer caniatadau adeilad rhestredig (yng Nghymru'n unig) gyda chaniatâd ardal gadwraeth.<sup>36</sup>

---

<sup>33</sup> Dywedodd Cyngor Bwrdeistrial Casnewydd eu bod wedi derbyn 39 cais cyfunedig (un am ganiatâd cynllunio, gyda un am ganiatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardaloedd cadwrol, neu caniatâd hysbysiadau) mewn cyfnod o ddau flwyddyn, ac fe ddebnyiodd Cyngor Caerdydd 76 cais yn 2014, 86 yn 2015 a 76 yn 2016 cyn Hydref. Yn anffodus, nid oedd ffigyrau ar gael am y cyfanswm o geisiadau am ganiatadau tu fas y rhai cynllunio.

<sup>34</sup> Traethawd Simon Williams yn 2000, yn Adran Rheoli eiddo tiriog, Brifysgol Oxford Brookes, yn seiliedig ar atebion i holiaduron a gafodd ei hanfon i 50 awdurdod cynllunio, lle derbyniwyd 37 ymateb.

<sup>35</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig, ss 7 – 26, 26H-26K, 28, 30 – 46, 60 – 65. A gweler troednodyn 80 isod.

<sup>36</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 adrannau 74 a 75.

## Sail y polisi dros wneud penderfyniadau

- 13.47 Dywed adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 bod rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw i'r cynllun datblygu wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio, cyn belled ag y'u bod o bwys, i ystyriaethau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ac ystyriaethau eraill o bwys.<sup>37</sup> Trwy estyniad, mae'r un peth yn berthnasol i arolygwyr cynllunio sy'n penderfynu ar apeliadau yn erbyn gwrthod caniatâd. At hyn, byddir yn gwneud penderfyniadau'n unol â'r cynllun oni noda ystyriaethau eraill o bwys fel arall.<sup>38</sup>
- 13.48 Rhaid i bolisiau'r cynllun datblygu ystyried polisiau cenedlaethol cyfredol,<sup>39</sup> fydd yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.<sup>40</sup> Ac yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o gynlluniau datblygu'n cynnwys polisiau a bwriadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. O'r herwydd, byddir yn gwneud penderfyniad ar geisiadau ac apeliadau cynllunio yn wyneb polisiau'n ymwneud â'r amgylcheddhanesyddol cymaint â'r rhai hynny sy'n ymwneud â materion eraill.
- 13.49 Yn ymarferol, er na chaiff ei grybwyll yn benodol ar hyn o bryd yn y Ddeddf, "ystyriaeth o bwys" mawr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yw polisi Gweinidogion Cymru.<sup>41</sup> Mae wedi cynnwys erioed tomen o bolisiau ar yr amgylchedd hanesyddol.<sup>42</sup>
- 13.50 At hyn, datgan adran 66 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 bod rhaid i awdurdod cynllunio neu arolygwr cynllunio roi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol yw diogelu'r adeilad neu ei leoliad neu i unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan gais am ganiatâd cynllunio am ddatblygiad sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig neu ei leoliad. Ac mae'r llysoedd wedi cadarnhau bod pwysigrwydd y dyletswyddau dan y Deddf Adeiladau Rhestredig, yn ffactor o "bwysigrwydd a phwysoliad sylweddol", wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.<sup>43</sup> Mae'n dilyn nad mater eilaidd yw'r ddyletswydd i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau cynllunio; mae'n un pwysig iawn.
- 13.51 O ran ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, datgan adran 16 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 bod rhaid i awdurdodau cynllunio neu arolygwr cynllunio, wrth ystyried cais, roi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol yw diogelu'r adeilad rhestredig dan sylw neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo. Mae hynny union yr un peth â'r prawf sy'n

---

<sup>37</sup> Gweler **para 5.16**.

<sup>38</sup> Deddf Cynllunio a Prynu gorfodol 2004, a38(6).

<sup>39</sup> Deddf Cynllunio a Prynu gorfodol 2004, a38(6).

<sup>40</sup> Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 6.4.1.

<sup>41</sup> Gweler paragraff 5.67 i 5.73.

<sup>42</sup> Ym Mholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6, ac NCT 24 ar hyn o bryd.

<sup>43</sup> *East Northamptonshire DC v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2014] EWCA Civ 137, [2015] 1 WLR, CA, gan Sullivan LJ at [29], a gafodd ei gymeradwyo yn *Mordue v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2015] EWCA Civ 1243, [2016] 1 WLR 2682, CA. Gweler para 5.46.

berthnasol i ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio. Yn wir, yn wreiddiol un dyletswydd yn unig oedd yn gwbl berthnasol i'r ddau fath o ganiatâd.<sup>44</sup>

- 13.52 Datgan adran 72 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 y byddir yn rhoi sylw arbennig i ba mor ddymunol yw diogelu neu wella cymeriad neu edrychiad ardal gadwraeth yng nghyswllt unrhyw adeilad neu dir yn yr ardal honno wrth ymarfer unrhyw swyddogaeth dan y Deddfau Cynllunio. Ymhlith pethau eraill, byddai'r swyddogaethau hynny'n cynnwys ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth. Mae pwysigrwydd y ddyletswydd hon, hefyd, wedi'i bwysleisio gan y llysoedd.<sup>45</sup>
- 13.53 Mae polisiau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir ym *Mholisi Cynllunio Cymru*, yn berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau am naill ai caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth.<sup>46</sup> Felly hefyd bolisiau Cadw mewn *Egwyddorion Cadwraeth*.<sup>47</sup>
- 13.54 Er nad oes dyletswydd bendant i awdurdodau sy'n penderfynu ar geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig ystyried y cynllun datblygu, mae'r matrices polisi sy'n rheoligwaith penderfynuar wahanol fathau o geisiadau, felly, yn ymarferol, yn debyg iawn.
- 13.55 At hyn, mae ystod o ddyletswyddau statudol eraill yn berthnasol i awdurdodau sy'n cynnal unrhyw swyddogaeth dan *unrhyw* Ddeddf, a fyddai'n cynnwys ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth. Maent yn cynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud ag ystod eang o bynciau, y'u hystyriwyd ynghynt.<sup>48</sup>
- 13.56 Rhoddir ar bob corff cyhoeddus y ddyletswydd i wneud gwaith datblygu cynaliadwy, dan adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<sup>49</sup> Datgan adran 2 Deddf Cynllunio Cymru 2015 fod y ddyletswydd hon yn benodol berthnasol i waith paratoi cynlluniau datblygu, a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd ac apeliadau cynllunio. Nid yw'n benodol berthnasol i swyddogaethau eraill dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nac i'r rhai hynny dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990; ond mae'r ddyletswydd eang dan adran 3 Deddf Llesiant 2015 yn gyffredinol, a byddai'n ymddangos ei bod yn cynnwys swyddogaethau o'r fath.
- 13.57 Felly, nid yw'r achos, fel yr awgrymwyd gan rai ymatebwyr i'r Pwrpas Cwmpasu, yn un o benderfynu ar geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig achaniatâdardal gadwraeth yn unig yn wyneb effaith y gwaith arfaethedig ar yr ased hanesyddol dan sylw.<sup>50</sup> Efallai mai dyna yw'r sefyllfa'n ymarferol, ond nid yw'n adlewyrchu'r hyn sy'n

---

<sup>44</sup> DCGTh 1968, a 41(3), a ddaeth yn rhan o'r DCGTh 1971 a 56(3). Parhaeir y sefyllfa yma yng Ngogledd Iwerddon; gweler Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011, a 91(2).

<sup>45</sup> *Bath Society v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1991] 2 PLR 51, CA, tud 64H.

<sup>46</sup> Polisi Cynllunio Cymru, rhifyn 9, Tachwedd 2015, paragraffau 4.11.3, 6.1.4, 6.5.13. 47

<sup>47</sup> Egwyddorion Cadwraeth, paragraffau 34, 51.

<sup>48</sup> Gweler **paragraffau 5.93 - 5.110**.

<sup>49</sup> Gweler **paragraff 5.82**.

<sup>50</sup> Gweler sylwadau grwp treftadaeth Cymru, a nodwyd at **baragraff 13.77**, a rhai yr AMS at **baragraff 13.111**.

ofynnol dan y gyfraith. A bydd yn anorfod y bydd y gwaith penderfynu ar bob cais o'r fath yn ymarfer cydbwysu, yn cadw mewn cof yr holl ystyriaethau perthnasol, i weld p'un a yw'r gwaith arfaethedig yn ddymunol ynteu'n angenrheidiol.<sup>51</sup>

## SYMLEIDDIAID POSIB I'R GYFRAITH

### Adolygiadau blaenorol

- 13.58 Yn ei adroddiad 2004 ar Rôl Adeiladau Hanesyddol mewn Adfywio Trefol, nododd Pwyllgor Tai, Cynllunio, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau *Swyddfa'r Dirprwy Brif WeinidogyTŷ'r* Cyffredinbod gormod o hawliau a chaniatadau'n ofynnol cyn bod modd altro neu addasu adeilad hanesyddol.<sup>52</sup>
- 13.59 Argymhellodd *Adolygiad Barker o Gynllunio Defnydd Tir*, a gomisiynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn 2006:
- y dylai'r Llywodraeth ymrwymo'n ffurfiol i uno'n raddol yr amryfal gyfundrefnau caniatáu yn dilyn y bwriad i uno caniatadau henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a dylai nodi cynigion yn 2007. Un opsiwn fyddai dod â'r caniatadau treftadaeth a chynllunio ynghyd.<sup>53</sup>
- 13.60 Datganai Deddf Cynllunio 2008, a gyflwynodd system newydd o "ganiatâd datblygu" ar gyfer prosiectau seilwaith mawr,<sup>54</sup> y byddai caniatâd o'r fath, unwaith y câi ei roi, yn osgoi'r angen am ganiatâd cynllunio ac (mewn perthynas â phrosiect yn Lloegr) caniatâd heneb restredig, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.<sup>55</sup>
- 13.61 Daeth Adolygiad *Penfold o Ganiatadau nad oeddynt yn rhai Cynllunio*, a gomisiynwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn 2009, i'r casgliad fod uno'n parhau'n nod tymor hir deniadol posib, ond ei fod yn newid rhy gymleth i'w wneud pan oedd cyfyngu difrifol ar adnoddau.<sup>56</sup>
- 13.62 Roedd yr adolygiadau uchod yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mewn perthynas â Lloegr, bu iddynt arwain at newid (a gyflwynwyd yn Neddf Menter a Rheoleiddio Diwygio 2013) lle mai caniatâd cynllunio'n unig oedd yn ofynnol ar waith yr oedd caniatâd ardal cadwraeth yn ofynnol ar ei gyfer yn flaenorol - gyda methu cael caniatâd cynllunio am waith o'r fath yn dod yn drosedd.<sup>57</sup> Ni wnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, oedd yn ganlyniad i ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid, newid tebyg mewn perthynas â Chymru.

---

<sup>51</sup> Gweler, er enghraifft, Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 6.5.13.

<sup>52</sup> Pwyllgor yr Swyddfa yr Is-Brif Wenidog, Ty Cyffredin: Tai, Cynllunio, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, unarddegfed adroddiad sesiwn 2003-04, Cyfrol I – Adroddiad, argymhelliad 81.

<sup>53</sup> Arolwg Barker ar Cynllunio Defnydd Tir – Adroddiad Terfynol 2006, argymhelliad 16.

<sup>54</sup> Gweler **paragraffau 9.12 i 9.14**.

<sup>55</sup> Deddf Cynllunio 2008, a 33(1).

<sup>56</sup> Arolwg Penfold ar Caniatadau di-Gynllunio, Adran Arloesi Busnes a Sgiliau, Mehefin 2010, paragraff 4.57.

<sup>57</sup> DCGTh 1990, a 196D, a gyhoeddwyd gan y Ddeddf Diwygio Menter a Rheoleiddio 2013, amserlen 17, para 6.

- 13.63 Yn erbyn y cefndir hwnnw, nodwyd gennym yn ein Papur Cwmpasu y newid oedd wedi'i gyflwyno yn Lloegr, a'i gynnig yn amodol gan wneud newid tebyg ond mwy pellgyrhaeddol yng Nghymru, lle mai yn y dyfodol caniatâd cynllunio'n unig a fyddai'n ofynnol ar gyfer gwaith y mae naill ai caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth yn ofynnol ar ei gyfer ar hyn o bryd - naill ai'n ogystal â chaniatâd cynllunio neu fel arall. Arweiniodd hyn at nifer o ymatebion, gyda rhai ohonynt yn cael eu mynegi'n gryf iawn.

### Barn o blaid newid

- 13.64 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu yn cefnogi'r bwriadau i uno'r cyfundrefnau caniatáu.<sup>58</sup> Daeth cefnogaeth gan yr Arolygiaeth Gynllunio - oedd yn ystyried y gallai dod â nhw ynghyd fodd yn fuddiol - yn ogystal â chan mwyafrif yr awdurdodau lleol, a chan bob un o dair cangen Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (y Gymdeithas). Disgrifiodd un aelod o gangen y gogledd o'r Gymdeithas uno'r caniatadau fel "rhywbeth nad oedd rhaid meddwl fawr ddim amdano".

- 13.65 Datganodd cangen y de-ddwyrain o'r Gymdeithas:

Croesewir uno caniatadau. Ystyria'r rhan fwyaf o'r cyhoedd eu bod yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ym mhob achos; yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn unig sy'n gwahaniaethu rhwng y caniatadau oherwydd y ddeddfwriaeth. Y peth pwysig yw bod y gefnogaeth ddeddfwriaethol a pholisi'n ei gwneud yn glir y bydd yr ystyriaethau o bwys ar gyfer pennu cais am ganiatâd i wneud gwaith i adeilad confensiynol yn wahanol i waith oedd yn ymwneud ag adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth, ac yn y blaen. Mae hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid meddwl trwyddo fel rhan o'r broses hon i sicrhau na fydd cyflwyno cais cynllunio'n dod yn rhy gymleth.

- 13.66 Ystyriai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y byddai uno cyfundrefnau caniatáu'n creu system a fyddai'n fwy hygyrch i'r cyhoedd ac yn gwneud i ffwrdd â dyblygu gwaith a rhyw gymaint o'r baich gweinyddol a roddir ar gynghorau sy'n gorfod ymdrin â cheisiadau sy'n berthnasol i ddwy gyfundrefn caniatáu neu fwy.

- 13.67 Cryfhaodd ystod o gyrff yr ymgynghorwyd â nhw ac oedd o blaid yr uno, eu cefnogaeth trwy egluro na ddylai unrhyw fwriad i gyfuno caniatadau golli unrhyw hawl i wneud sylwadau neu lastwreiddio gwarchodaeth o'r amgylchedd hanesyddol. Er enghraifft, cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot a'r Gymdeithas Swyddogion Cynllunio (De-Orllewin) y byddai gwneud i ffwrdd â dyblygu gwaith yn symleiddio'r broses ac yn gwella effeithlonrwydd, ond nodwyd bod risg y gallai cyfuno cyfundrefnau caniatáu israddio arwyddocâd effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol. Awgrymiasant y gellid rhoi sylw i hyn trwy gynnwys meini prawf ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

- 13.68 Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (De-Ddwyrain):

---

<sup>58</sup> Fe wnaeth 39 mynegu barn ar y syniad o uno mathau o ganiatad: cytunodd 23, fe anghytunodd 11 ac fe oedd 5 yn niwtral.

Nid oes gwrthwynebiadau i'r camau hwyrach fel y disgrifir yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, lle nodir bod gorgyffwrdd rhwng y camau hynny a'r cyfnod cyntaf (cynllun datblygu a rheoli datblygu), dylid achub ar y cyfle i symleiddio'r ddeddfwriaeth, e.e. y dyletswyddau sy'n gorgyffwrdd ac yn codi o'r angen am ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd henebion.

- 13.69 Cefnogai Cyngor y Bar yr egwyddor o greu un broses gwneud penderfyniadau, er mwyn osgoi gwaith dyblygu drslyd a chostus un prosiect oedd yn cael ei ystyrieddan gyfundrefnau ar wahân, ar yr amod na fyddai'n arwain at golli hawl i wneud sylwadau.
- 13.70 Yn gyffredinol cytunai Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl gydag uno caniatadau ond awgrymwyd ganddynt gyflwyno system o optio allan fel y gallai ymgeiswyr wneud cais ar wahân am ganiatâd pe dymument wneud hynny. Dywedodd:
- .... ar gyfer newid defnydd ar gyfer adeilad rhestredig efallai y dymunech sefydlu'r egwyddor fod newid defnydd yn ddefnyddiol cyn i chi ddechrau ar y broses ddylunio fanwl a allai olygu, yn achos adeilad rhestredig, bod rhaid i chi gyflogi pensaer cadwraethol.<sup>59</sup>
- 13.71 Credai'r Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref y byddai'n ddefnyddiol cyfuno cyfundrefnau caniatáu yn y Côt ond 'yn hwyrach ymlaen'. Awgrymodd y byddai'r uno'n golygu 'y deuai'r broses gynllunio'n fwy integredig', fodd bynnag, 'ni ddylid ei dilyn os yw'n arwain at ychwanegu haenau pellach o gymlethdod a gwaith papur'.
- 13.72 Awgrymodd Richard Harwood C.F. y dylem ystyried diddymu caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth trwy ymestyn diffiniad datblygu (i gynnwys gwaith i adeiladau rhestredig) a chyflwyno sancsiynau troseddol i gynnwys gwaith o'r fath a gwaith dymchwel.
- 13.73 Mynegodd Nigel Hewitson, cyn-gyfarwyddwr cyfreithiol English Heritage, hefyd y farn mai uno caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth (ond nid caniatâd heneb restredig) "yw yn bendant y ffordd ymlaen".<sup>60</sup>

### Barn ansicr

- 13.74 Roedd pump o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw - yn cynnwys tri awdurdod cynllunio - yn ansicr eu barn. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Caerdydd y gellid bod mantais i un cais mewn amgylchiadau penodol ond bydd angen rhoi ystyriaethofalus i'r mater oherwydd cymlethdod materion a gyfyd weithiau. Dywedodd y gallai cyfuno meysydd perthnasol o ddeddfwriaeth fod yn fantais, ond y gallai fod yn fanteisiol cadw ceisiadau ar wahân.
- 13.75 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot hefyd yn ansicr eu barn. Yn ei ymateb cyffredinol, nododd fod 'dyblygu'n ychwanegu at y beichiau biwrocraidd a gall fod yn ddryslyd i'r cyhoedd ac i ymgeiswyr lle mae'n ofynnol cael

---

<sup>59</sup> Gweler **para 13.42** uchod.

<sup>60</sup> Gweler hefyd **para 13.113**.



sawl caniatâd ar gyfer un cynllun'. Fodd bynnag, mynegodd swyddog cadwraeth y Cyngor 'bryder difrifol ynghylch uno caniatadau'. Nododd:

Yn gyntaf, er y gallai bod gwerth mewn uno'r holl ganiatadau cynllunio a threftadaeth, mae gennym eisoes raniad ymhlith yr awdurdodau sy'n penderfynu yn yr ystyr mai Cadw sy'n penderfynu [ar ganiatâd heneb restredig]. Rwy'n tybio fod hyn yn annhebygol o newid ac, yn enwedig o gofio fod rhai safleoedd wedi'u rhestru a'u cofrestru, rwyf ychydig yn boenus ynghylch y posibilrwydd o gryfhau'r rhaniad hwn ar adeg pan fo llawer o waith yn cael ei wneud trwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) er mwyn cynhyrchu cyfres unedig o ddeddfwriaeth a chanllawiau ar yr amgylchedd hanesyddol.

### Barn yn erbyn newid

- 13.76 Mynegwyd gwrthwynebiad (gwrthwynebiad cryf mewn rhai achosion) gan oddeutu draean o ymatebwyr, yn bennaf gan y rhai hynny yn y sector treftadaeth ond ddim yn gyfyngedig iddynt.<sup>61</sup>
- 13.77 Dywedodd Grŵp Treftadaeth Cymru, grŵp ambarél yn cynrychioli 13 o wahanol sefydliadau, y byddai'n 'gwrthwynebu'n gryf' unrhyw newid i'r broses ganiatáu sydd eisoes yn bodoli a fyddai'n tanseilio statws asedau hanesyddol neu gyfrifoldeb a phwerau awdurdod caniatáu i warchod asedau hanesyddol. Ymhelaethodd ar ei bryderon fel a ganlyn:
- Mae'r Grŵp yn bryderus y deuai ystyriaeth ynghylch diogelu'r amgylchedd hanesyddol yn fater eilaidd i ystyriaethau cynllunio cyffredinol, yn enwedig felly'r rhagdybiaeth gyffredinol o blaid datblygu cynaliadwy a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r rhagdybiaeth hon yn aml yn groes i'r gofyn sydd yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 i'r rhai sy'n gwneud penderfyniad 'roi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol yw diogelu'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodwedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol sydd ganddo'.
- 13.78 Fodd bynnag, nododd Grŵp Treftadaeth Cymru (ac Ymddiriedolaeth y Theatrau) fod caniatâd ardal gadwraeth wedi'i ddileu yn Lloegr ac ystyriodd y gallai rhesymoli tebyg i hynny fod yn fuddiol yng Nghymru.
- 13.79 Un awdurdod cynllunio'n unig a anghytunodd gyda chyfuno cyfundrefnau caniatáu,. Roedd yn well ganddo weld cadw'r ddwy weithdrefn (caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig) ond iddynt gael eu rheoli gan yr un darn o ddeddfwriaeth, yn debyg i'r model a fabwysiadwyd yn Neddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011.
- 13.80 Codwyd pryder hefyd gan sawl ymatebwr ynghylch effaith uno caniatadau ar debygolrwydd awdurdodau cynllunio'n cyflogi staff â digon o arbenigedd cadwraethol.

---

<sup>61</sup> Gan gynnwys y Gymdeithas Cofadeiladau Hynafol, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, Cyngor Archaeoleg Prydeinig, Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol, Y Gymdeithas am Amddiffyniad Adeiladau Hynafol, Ymddiriedolaeth Theatrau a Grwp Treftadaeth Cymru.

Nodwyd ganddynt bod eisoes prinder amlwg o staff o'r fath ac awgrymasant y gallai cyfuno caniatadau waethygu hyn.

- 13.81 Roedd Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, er enghraifft, yn gwrthwynebu'n gryf i'r bwriad o gyfuno caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig, yn ogystal â chaniatâd ardal gadwraeth. Mynegwyd eu gwrthwynebiad fel a ganlyn:

Bussem yn hynod bryderus y ceid rhagor o golli arbenigwyr cadwraethol mewn awdurdod lleol wrth i gadwraeth gael ei neilltuo i'r cyrion a chesiadau'n cael eu penderfynu gan gynllunwyr sydd â fawr ddim profiad nac arbenigedd, neu ddim o gwbl, mewn cadwraeth adeiladau neu henebion. Mae'r duedd gyfredol o leihau nifer y staff arbenigol a gwneud arbedion trwy leihau nifer staff yn gwneud hyn yn bosiblwydd real.

Bydd diffyg sgiliau arbenigol yn golygu na roddir digon o ystyriaeth i'r amgylchedd hanesyddol ac y bydd gostyngiad yn ansawdd gwaith gwneud penderfyniadau'n arwain at neilltuo'r amgylchedd hanesyddol i'r cyrion a fyddai, at hyn, yn atal y gofynion cyfreithiol rhag cael eu cyflawni i warchod asedau hanesyddol yng Nghymru.

- 13.82 Gwnaeth Cyngor Sir Fynwy'r sylw:

Ceir pryderon ynghylch uno'r cyfundrefnau caniatadau cynllunio ac adeileddad rhestredig, yn bennaf ynghylch y gostyngiad posib yn lefel y sgiliau arbenigol i gynghori ar reolaeth briodol o'r amgylchedd treftadaeth a lle darperir cyngor arbenigol, gallai hyn lastwreiddio ei bwysigrwydd wrth ei gydbwysu yn erbyn ystyriaethau eraill o bwys.

- 13.83 Nid y bobl hynny sy'n darparu cyngor o'r fath yw'r unig rai i godi'r broblem hon; codwyd pryderon tebyg gan Gymdeithas y Tirfeddianwyr:

Y broblem yw bod y system Caniatâd Adeilad Rhestredig gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adeilad rhestredig gael ei graffu gan arbenigwyr yn yr awdurdod lleol (ac fel arfer yn Cadw) ond bod llai a llai o adnoddau digonol ar gyfer y gofyn hwnnw mewn awdurdodau lleol. Bod diffyg adnoddau

- (i) yn ei gwneud yn rhy anodd cael caniatâd am newid cydnaws o'r math sydd ei angen i sicrhau y caiff adeiladau rhestredig eu diweddarau ac y cânt eu gwerthfawrogi a'u cynnal a'u cadw gan eu perchenogion; ac
- (ii) yn ei gwneud yn rhy hawdd i berchnogion maleisus niweidio diddordeb arbennig yr adeiladau rhestredig heb ganiatâd oherwydd bod diffyg adnoddau'n gwneud gorfodaeth yn annhebygol.

- 13.84 Cododd y rhai hynny a wrthwynebai'r diwygio awgrymedig nifer o bwyntiau a gyfyd o'r angen i gynnal lefel bresennol y warchodaeth ar gyfer asedau hanesyddol. Roeddynt yn ymwneud yn bennaf â materion o egwyddor - yn enwedig o ran sail y polisi dros reolaeth - onda roeddynt hefyd yn cyffwrdd ag amryfal bwyntiau manylach.

## OPSIYNAU AR GYFER DIWYGIAD POSIB

13.85 Yn wyneb yr ystyriaethau uchod, rydym wedi nodi pum opsiwn posib o ran y ffordd y gellid ymdrin â'r mater hwn yn y Bil:

- (1) Dim newid (cadw'r caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth);
- (2) Cadw dau fath o ganiatâd (caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig / caniatâd ardal gadwraeth), ond mewn un darn o ddeddfwriaeth;
- (3) Cadw dau fath o ganiatâd, ond darparu fel bod angen un yn unig;
- (4) Cyfuno caniatâd cynllunio a chaniatâd ardal gadwraeth, ond cadw caniatâd adeilad rhestredig;
- (5) Dileu caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth, a'i gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio ar gyfer holl fathau'r gwaith y mae'n ofynnol cael y naill fath o ganiatâd a'r llall ar eu cyfer ar hyn o bryd.

13.86 Ystyriwn bob un yn eu tro.

### Opsiwn un: dim newid

13.87 Wrth gynhyrchu'r Côd Cynllunio newydd i Gymru, mae nifer o ffyrdd posib y gellid ymdrin â'r mater hwn.

13.88 Yn y lle cyntaf byddai'n syml bwrw ymlaen gyda'r drefn sydd eisoes yn bodoli - hynny yw,

- (1) cadw'r angen i gael "caniatâd cynllunio" ar gyfer datblygu, gyda'r darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio i fod yn y Côd Cynllunio, a
- (2) chadw gofyn ar wahân ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth, a chynnwys y ddarpariaeth sy'n ymwneud â chaniatâd o'r fath yng Nghôd newydd yr Amgylchedd Hanesyddol, ynghyd â'r darpariaethau sy'n ymwneud â phynciau ar wahân i ganiatâd (megis dynodi, cytundebau partneriaeth, grantiau, gwaith atgyweirio).

13.89 Byddai hynny'n cadw'r fantais sydd eisoes yn bodoli o bwysleisio pwysigrwydd adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth trwy gael mathau o ganiatâd sydd ar wahân, ond byddai hefyd yn parhau bodolaeth cynlluniau statudol ar wahân ond sy'n gorgyffwrdd am byth, gan ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr y system mewn nifer o achosion gael dau ganiatâd gan un awdurdod am un set o waith.

### Opsiwn dau: dau ganiatâd, ond mewn un darn o ddeddfwriaeth

13.90 Yn ail, byddai'n bosib cadw'r ddwy system, ond cynnwys y ddwy ohonynt yn y Côd Cynllunio newydd. Yna, y darpariaethau nad oedd angen caniatâd ar eu cyfer fyddai'r unig beth y byddai Côt yr Amgylchedd Hanesyddol yn ei gynnwys - hynny yw, y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â nodi adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a henebion rhestredig, gwaith atgyweirio, grantiau, gwarcheidwadaeth, cytundebau partneriaeth ac yn y blaen.

- 13.91 Byddai hynny'n debyg i'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr cyn 1990, lle roedd y ddau gôd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971. Byddai hefyd yn debyg i Ddeddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011, er bod y Ddeddf honno hefyd yn cynnwys y darpariaethau nad oes angen caniatâd ar eu cyfer ac sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth (ond nid y rhai hynny sy'n ymwneud â henebion).
- 13.92 Byddai'r ail ddull gweithredu'n cadw'r ddau gynllun caniatâd statudol sydd ar wahân ond yn gorgyffwrdd, ond byddai'n symleidio mymryn ar y gyfraith trwy roi'r ddau ohonynt yn yr un darn o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, byddai'n gwahanu'r gyfundrefn ganiatáu oddi wrth yr holl ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â dynodi a rheoli adeiladau rhestredig.

### **Opsiwn tri: dau ganiatâd, ond angen un yn unig**

- 13.93 Dull gweithredu arall fyddai cadw'r ddwy system ganiatáu ond trefnu y byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi yn awtomatig fel caniatâd adeilad rhestredig lle mae'n ofynnol cael y ddau fath o ganiatâd am un rhaglen waith. Mae hyn yn debyg o ran cysyniad i'r gyfundrefn a gyflwynwyd yng nghyswllt prosiectau mawr gan Ddeddf Cynllunio 2008, sy'n datgan:

i'r graddau ei bod yn ofynnol cael caniatâd datblygu i ddatblygu, nid yw'n ofynnol cael yr un o'r isod ar gyfer y datblygiad na'i roi mewn perthynas ag o -

(a) caniatâd cynllunio...<sup>62</sup>

- 13.94 Byddai'n bosibl cyflwyno darpariaeth debyg i'r perwyl nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer dymchwel, altro neu ymestyn adeilad rhestredig, lle mae caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer yr un gwaith.
- 13.95 Fodd bynnag, byddai hynny'n gadael dau fath o ganiatâd yn eu lle. Byddai hefyd yn golygu lle mae'r cynnig yn cynnwys pecyn o waith, gyda rhywfaint ohono mewn gwahanol gategoriâu yn y rhestr ym mharagraff 13.35 uchod - er enghraifft, defnydd newydd ar gyfer adeilad rhestredig, yn cynnwys gwaith addasu mewnol, rhyw gymaint o waith allanol a rhyw gymaint o fewn ei gwrtil, y byddai'n dal yn angenrheidiol (ac ni fyddai'n ddiraffferth o bell ffordd) weithio allan pa fath o ganiatâd fyddai'n ofynnol ar gyfer pa ran o'r cynnig.
- 13.96 O'r herwydd, ystyriwn yn amodol na fyddai gweithredu fel hyn yn ddoeth.

### **Opsiwn pedwar: cyfuno caniatâd ardal gadwraeth (yn unig) gyda chaniatâd cynllunio**

- 13.97 Byddai'n bosib cyfuno caniatâd ardal gadwraeth gyda chaniatâd cynllunio ond gadael cyfundrefn y caniatâd adeilad rhestredig yn ei lle. Dyma'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn niwygiadau 2013 yn Lloegr.

---

<sup>62</sup> Deddf Cynllunio 2008, a 33(1).

- 13.98 Byddai hynny â'r fantais o wneud i ffwrdd ag o leiaf rai o'r anawsterau gweithdrefnol a amlygir uchod. Ond mae nifer y ceisiadau am ganiatâd ardal gadwraeth yn gymharol fychan a byddai effaith newid o'r fath yn gyfatebol gyfyngedig.
- 13.99 Ystyriwn yn amodol y byddai hyn yn well na gadael y sefyllfa fel ag y mae, er y byddai gwneud i ffwrdd ag un yn unig o'r caniatadau treftadaeth yn ymddangos yn gyfle coll.

### **Opsiwn pump: un caniatâd**

- 13.100 Yn bumed, gellid symlhau'r ddeddfwriaeth yn fwy sylfaenol trwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth fel mai caniatâd cynllunio'n unig y byddai ei angen yn y dyfodol ar yr holl waith y mae'n ofynnol cael unrhyw un o'r tri math o ganiatâd, neu ddau ohonynt, ar ei gyfer- fel y'u rhestrir ym mharagraff 13.35 uchod. Byddai hynny'n gwneud i ffwrdd â'r broblem a nodir uchod; a hefyd yn galluogi'r cyfan o'r côd statudol sy'n darparu ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig gael ei dynnu o'r ddeddfwriaeth.
- 13.101 Gellid cyflawni hynny trwy ei gwneud yn ofynnol bod wastad angen caniatâd cynllunio ar gyfer "datblygu treftadaeth" a'i ddiffinio fel gwneud gwaith
- (1) i ddymchwel adeilad rhestredig,
  - (2) altro neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw fodd a gâi effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
  - (3) dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.
- 13.102 Mae'r ail a'r trydydd o'r rhain yn "ddatblygiad" eisoes (yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd dan adran 55(g); a gall yr ail fod mewn nifer o achosion. Ond byddai dwyn y tri chategori hyn ynghyd yn helpu pwysleisio nad oes colli rheolaeth dros unrhyw waith o'r fath. Byddai hefyd yn adlewyrchu diffiniad estynedig "datblygu" yn Neddf Cynllunio 2008.<sup>63</sup>
- 13.103 Byddai hefyd yn golygu y deuai'r ddarpariaeth, lle gall Gweinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd yn eithrio o ddiffiniad "datblygu" categorïau penodol dymchwel, yn ddiangen, ac ni fyddai angen ei hailddatgan, rhywbeth fyddai'n egluro'r gyfraith yn sylweddol.<sup>64</sup>
- 13.104 Nodwyd eisoes y gellid rhoi caniatâd cynllunio trwy orchymyn datblygu am fân waith adeiladu - ond bod gan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir wahanol gyfyngiadau o ran y categorïau datblygu y gellid eu cynnal heb gais yn achos gwaith sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig neu ei gwrtil, neu mewn ardal gadwraeth.<sup>65</sup> Byddai'n briodol cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol darpariaeth na allai

---

<sup>63</sup> Er mwyn y Ddeddf yma (ag eithrio Rhan 11), dylir ystyried y gweithiau canlynol fel datblygiad (i'r radd na fyddent heblaw) – (a) gwaith i ddymchwel adeilad cofrestredig mewn ffordd a fyddai'n effeithio, nbeu unrhyw newidadau neu estyniad a fyddai yn effeithio ei gymeriad fel adeilad o ddeiddordeb pensaernïol neu hanesyddol; (b) dymchweliad adeilad o fewn ardal cadwraeth; (c) gwaith sydd yn arwain at ddymchweliad, dinistriad neu difrod i gofeb trefniadol; (d) gwaith er mwyn dileu neu atgyweirio cofeb trefniadol, neu unrhyw rhan ohoni; (e) gwaith er mwyn gwneud unrhyw newidiad neu atodiad i cofeb trefniadol; (f) gwaith llifogi neu tipio ar unrhyw dir lle mae cofeb trefniadol. (Deddf Cynllunio 2008, a 32(3)). Gweler **para 13.93**.

<sup>64</sup> Gweler **paragraffau 7.14- 7.17**.

<sup>65</sup> Gweler para 13.19.

gorchymyn datblygu ei ganiatáu am unrhyw waith i adeilad rhestredig sy'n cael effaith ar ei gymeriad arbennig. A gallai'r gorchymyn ei hun gynnwys gwahanol gyfyngiadau ar gyfer datblygiad sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig neu ei gwrtil neu ar ardal gadwraeth.

- 13.105 Ond efallai y byddai'n briodol gwneud eithriadau mewn perthynas â chategoriâu penodol o waith - er enghraifft, gwaith mewnol i strwythurau sy'n rhan yn unig o adeilad rhestredig yn rhinwedd adran 1(5)(b) (y rhai hynny yng nghwrtil adeilad yn y rhestr) - yn amodol ar fater cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn achosion priodol.<sup>66</sup>
- 13.106 Gellid hefyd rhoi caniatâd cynllunio trwy'r Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ar gyfer y categorïau dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth a gaiff eu heithrio ar hyn o bryd rhag yr angen am ganiatâd ardal gadwraeth.<sup>67</sup> Byddai darpariaeth o'r fath yn y Gorchymyn Datblygiad a Ganiateir yn haws i ddefnyddwyr ei chanfod na chyfarwyddyd mewn Cylchlythyr. Unwaith eto, lle bo'n briodol, gellid eithrio'r caniatâd a roddir fel hyn mewn achosion penodol trwy wneud cyfarwyddyd erthygl 4.
- 13.107 Yn olaf, byddai, wrth gwrs, yn bosib, ceisio caniatâd ar gyfer un elfen yn unig o fwrriad cymhleth.<sup>68</sup> Felly, er enghraifft, lle bwriedir newid defnydd adeilad rhestredig a'i altro'n ffisegol, yn union fel ag y mae'n bosib ar hyn o bryd ceisio caniatâd cynllunio i newid a chael caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith altro ffisegol, byddai hefyd yn bosib, wrth weithredu fel hyn, ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer y newid defnydd neu ganiatâd cynllunio ar gyfer y gwaith altro. Yn y naill achos a'r llall, gallai'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon caniatáu un agwedd o'r bwriad yn unig, neu gallai ei gwneud yn ofynnol gweld manylion y ddau. Ond ni fyddai enwau'r caniatadau dan sylw'n arwain at unrhyw newid sylweddol.

### Darpariaethau canlyniadol

- 13.108 O'r pum dull gweithredu a amlinellir uchod, y pumed yw'r mwyaf sylfaenol. Yn hwyrach ymlaen yn y Bennod hon, felly, archwiliwn mewn ychydig mwy o fanylder yr hyn a fyddai dan sylw, i weld p'un a yw'n arwain at unrhyw broblemau a fyddai'n anorchfygol. Wrth wneud hynny, rydym yn ymwybodol iawn bod rhaid gosod unrhyw fanteision a gyfyd o symleiddio'r ddeddfwriaeth yn erbyn anfanteision posib. Mae'n amlwg pe byddai unrhyw un o'r opsiynau yn cael eu gweithredu, byddai'r canlyniadau yn llai arwyddocaol, a byddai angen addasu'r dadansoddiad isod o ganlyniad.

---

<sup>66</sup> Cyfeiriad o dan erthygl 4 i'r GDCC, sydd yn cael gwared o'r caniatad a roddwyd o dan erthygl 3 am gategoriâu penodol o ddatblygiadau sydd yn gyffredinol yn ddiniwed.

<sup>67</sup> Gweler **para 13.34**.

<sup>68</sup> Gweler y pryder a nodwyd gan cymdeithas Lletywyr Preswyl, a nodir ym mharagraff 13.70.

## SAIL POLISI AR GYFER GWNEUD PENDERFYNIADAU

### Pryderon a godwyd mewn ymateb i'r Papur Cwmpasu

13.109 Prif bryder yr ymatebwyr hynny i'r Papur Cwmpasu oedd yn gwrthwynebu uno caniatadau oedd y byddai'n lleihau'r warchodaeth a roddir i'r amgylchedd hanesyddol.<sup>69</sup> Roeddent yn gweld hyn yn risg sylweddol.

13.110 Felly, dywedodd Grŵp Treftadaeth Cymru y byddai'n gwrthwynebu'n gryf unrhyw newid i'r prosesau caniatáu a fyddai'n tansellio statws asedau hanesyddol neu gyfrifoldebau a phwerau awdurdod caniatáu i warchod asedau hanesyddol. Mynegodd bryder y byddai ystyriaeth i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio cyffredinol, yn enwedig felly'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.<sup>70</sup>

13.111 Mynegodd y Gymdeithas Henebion y farn:

bod caniatâd adeilad rhestredig yn bwysig, yn union felly oherwydd mai ei gynsail cyfan yw gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r ffaith bod cyfundrefn ar wahân yn annog ymgeiswyr a'r rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau i wneud eu gorau - mae'n dweud wrthynt eu bod yn ymdrin â strwythurau sensitif, prisiadwy, *gwerthfawr*. Mae'n sylfaenol wahanol yn ei ethos a'i sail gyfreithiol i ganiatâd cynllunio. Mae bod ag un gyfundrefn ar gyfer codi sied ddiwydiannol iwtilitaraidd a dymchwel adeilad rhestredig yn israddio arwyddocâd yr olaf.

13.112 Nododd Cyngor Bwrdeistref Casnewydd bod "cyfundrefn un caniatâd yn ymddangos yn ddeniadol, ond ni ddylai arwain at fychanu diddordebau cadwraeth".

13.113 Ar y llaw arall, dywedodd Nigel Hewitson, cyn-gyfarwyddwr cyfreithiol English Heritage:

Rwy'n deall pryderon rhai yn y sector cadwraeth fod gwneud i ffwrdd â'r gofyn am ganiatadau treftadaeth ar wahân ryw ffordd yn lleihau pwysigrwydd asedau hanesyddol ym meddwl y cyhoedd. Fodd bynnag, nid wyf yn rhannu'r pryderon hynny.

I gefnogi'r farn honno, tynnodd sylw at y ffaith y byddai'r rhestr o adeiladau o ddiddordeb arbennig yn parhau i fodoli - yn union fel mae ardaloedd cadwraeth yn parhau i fodoli'n Lloegr er gwaethaf dileu'r caniatâd ardal gadwraeth. A thynnodd sylw at yr amryfal bwyntiau technegol y cyfeirir atynt yn hwyrach ymlaen yn y Bennod hon, gan nodi y gellid ymdrin â nhw i gyd yn syml.

13.114 Yn ei Newyddlen, gwna'r Gymdeithas Henebion y sylw a ganlyn ar ybwriad amodol i gyfuno caniatâd adeilad rhestredig â chaniatâd cynllunio:

Rydym wastad wedi bod o'r farn fod bod â system ganiatáu gyflin a chyfochrog ar gyfer adeiladau hanesyddol, wedi ymroi i'w gwarchod,

---

<sup>69</sup> Gweler, er enghraifft, ymateb CB Casnewydd i'r papur ymgynghori, a nodir ym mharagraff 13.112.

<sup>70</sup> Gweler paragraffau 13.56 a 13.57.

yn sefydlu pa mor bwysig ydynt. Mae dymchwel adeilad rhestredig neu dynnu allan ffenester grog mewn ffasâd Sioraidd yn wahanol i gael caniatâd i godi bloc o swyddfeydd. Mae'r ateb i'r olaf fel arfer yn syml, un ai ia neu na pendant, tra dylai'r ymateb i'r cyntaf fod yn llawer mwy awgrymog.<sup>71</sup>

- 13.115 Gallai'r ymateb i'r naill gategori bwriad neu'r llall fod yn bendant neu'n awgrymog, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ond ni fydd yn dibynnu ar enw'r caniatâd sy'n ofynnol; ac ni fydd ynddo'i hun yn cyfiawnhau gofyn am gael cyflwyno dau gais a phenderfynu arnynt.

### Newid posib

- 13.116 Mae'r ddyletswydd sydd eisoes yn bodoli, dan adrannau 16 a 66 y Ddeddf Adeiladau Rhestredig, bod ag ystyriaeth arbennig iba mor ddymunol yw diogelu'r adeilad rhestredig, yn berthnasol i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig yn unig. Mae hynny mewn gwrthgyferbyniad i'r rhan fwyaf o ddyletswyddau a nodir ym Mhennod 5 uchod, sy'n berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yn cynnal unrhyw un o'u swyddogaethau dan unrhyw ddeddfwriaeth.
- 13.117 Rydym eisoes wedi cynnig y dylai'r ddyletswydd hon a'r dyletswyddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol gael eu hehangu i'w gwneud yn ofynnol y dylai pob awdurdod cyhoeddus, wrth gynnal unrhyw swyddogaeth statudol yng nghyswllt unrhyw ased hanesyddol neu ei leoliad, fod dan ddyletswydd i roi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol fyddai diogelu neu wella'r ased, ei leoliad ac unrhyw nodwedd a diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.<sup>72</sup> Byddai hynny'n gwneud pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol yn gwbl glir - o fewn y broses gynllunio ac fel arall.
- 13.118 Rydym hefyd wedi nodi y bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy (sydd ar hyn o bryd yn adran 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) yn gymwys yn benodol i berfformio unrhyw weithrediad dan y Cod Cynllunio - a fyddai'n amlwg yn cynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.<sup>73</sup>
- 13.119 Pe byddai'r tri chaniatâd yn cyfuno (y pumed o'r opsiynau a amlinellir ynghynt), yna'r canlyniad fyddai gorfod penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio - a fyddai'n cynnwys ceisiadau am ganiatâd i waith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth yn unig ar ei gyfer ar hyn o bryd - a byddai'n rhaid eu gweithredu yn wyneb yr amryfal ddyletswyddau perthnasol, yn cynnwys y dyletswyddau mewn perthynas â'r canlynol:

- (1) y cynllun datblygu, cyn belled ag y bo'n berthnasol;
- (2) unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill;

---

<sup>71</sup> Llythyr newyddion AMS 03/2016, tud 3.

<sup>72</sup> Gweler cwestiwn ymgynghori 5-4.

<sup>73</sup> Mae egwyddor datblygiad cynaliadwy yn cynnwys, rhwng nifer o faterion, Cymru fel gwlad llawn diwylliant lliwgar; gweler para 5.81.



- (3) yr amgylchedd hanesyddol;
  - (4) yr egwyddor datblygu cynaliadwy; a'r
  - (5) holl faterion eraill a grybwyllir ym Mhennod 5;<sup>74</sup>
- 13.120 Hynny yw, mewn gwirionedd, y sefyllfa sydd ohoni; ond byddai'n dda iddi gael ei gwneud yn amlwg.
- 13.121 Mae Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy'n datgan yn dda beth yw'r sefyllfa, a dywed:
- Byddai angen cysoni'r ddyletswydd gyffredinol yn a.55 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 gyda'r 'cais cyfun' sy'n cael ei ystyried, yn erbyn y Cynllun Datblygu ac unrhyw ystyriaethu eraill o bwys. Byddai angen i hon fod y brif ystyriaeth ar gyfer ceisiadau o'r fath os cyfunir y cyfundrefnau. Mae'n hanfodol nodi gwerthoedd craidd a bod y rhain yn sail i'r amcanion. Ni ddylid glastwreiddio lefel gyfredol y warchodaeth i'r amgylchedd hanesyddol.
- 13.122 Cytunwn, ac nid gwanhau mewn unrhyw ffordd lefel y warchodaeth a roddir i'r amgylchedd hanesyddol yw bwriad ein cynigion ond, yn hytrach, ei chryfhau trwy sicrhau bod gwarchodaeth o'r fath yn ystyriaeth ganolog yn yr holl benderfyniadau cynllunio.
- 13.123 Crynhowyd y sefyllfa gan Allen Firth, academydd cadwraethol, fel a ganlyn:
- [Mae'r dull gweithredu a nodir uchod] yn gywir yn nodi ffyrdd lle gellir gwneud i'r prosesau 'Caniatâd Cynllunio/Caniatâd Adeilad Rhestredig' efelychu a chynnwys gofynion a materion diogelu sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhain yn fecanistig ac ni allant, ynddynt eu hunain, ddiogelu yn erbyn newidiadau seicolegol cynnil yn y proffil sydd gan geisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig annibynnol. A gosod yn erbyn hyn, pe bai'r trefniadau arfaethedig newydd i gael swyddogion cynllunio a swyddogion cadwraeth (a phartïon erall â diddordeb) i weithio'n arferol mewn partneriaeth agos ac ystyried yn iawn holl agweddau pob cais, yna efallai y deuai materion treftadaeth i fod yn fwy greddfoll yn y meddylfryd cynllunio. Byddai llawer yn dibynnu ar ansawdd y gweithredu ac ymrwymiad rheolwyr yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 13.124 Dywed ymhellach yr ymdrinnir â rhai ceisiadau "Caniatâd Adeilad Rhestredig yn unig" ar hyn o bryd gan swyddogion cadwraethol yn unig mewn awdurdodau cynllunio, heb gyfeirio at ystyriaethau cynllunio ehangach; lle penderfynir ar rai ceisiadau am ganiatâd cynllunio'n unig, megis am ddatblygiad sy'n cael effaith ar leoliad adeilad rhestredig gan swyddogion cynllunio heb i ddigon o bwys gael ei roi i faterion cadwraethol. Wrth weithredu'n unedig mae modd arwain at ystyried materion treftadaeth ym mhob achos; unwaith eto, byddai llawer yn dibynnu ar agweddau a blaenoriaethau rheolwyr ym mhob awdurdod.

---

<sup>74</sup> Gweler paragraffau 5.91 i 3.113.

## Prinder staff arbenigol posib

- 13.125 O ran prinder posib y rhai hynny â phrofiad priodol i roi cyngor ar geisiadau sy'n cael effaith ar yr amgylchedd hanesyddol<sup>75</sup> rydym yn cydnabod bod perygl y gallai awdurdodau cynllunio ac eraill ddefnyddio'r ffaith fod y ddwy system reoli'n cyfuno fel modd o gyfiawnhau colli staff arbenigol. Byddai'n rhaid gwrthsefyll hyn, o bosib gyda chanllawiau priodol gan Lywodraeth Cymru neu drwy bwysau gan gyrff proffesiynol perthnasol.<sup>76</sup>
- 13.126 Fodd bynnag, yn ymarferol, byddai rhaid wrth yr un lefel o arbenigedd ar gyfer ceisiadau am ganiatâd ar gyfer gwaith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd gadwraeth p'un a gelwir y caniatâd yn "ganiatâd adeilad rhestredig" ynteu'n "caniatâd cynllunio". Mater i bob awdurdod fydd penderfynu ar lefel briodol o amser staff ac arbenigedd sydd ar gael i brosesu ceisiadau o'r fath. Nid oes amheuaeth y bydd yr awdurdodadau hynny sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i warchod y dreftadaeth yn parhau i gyflogi staff â chymwysterau a phrofiad addas; ni fydd y rhai â blaenoriaethau eraill yn gwneud hyn. Ond nid oes rheswm pam y ceid effaith ar y penderfyniad hwnnw trwy newid enw'r caniatâd perthnasol.

## UNO CANIATADAU: CLOI

- 13.127 Ystyriwn yn amodol y ceid manteision sylweddol o uno caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth yn un caniatâd - y pumed dull gweithredu posib a amlinellwyd ynghynt. Dim ond dau gategori gwaith sydd, ar hyn o bryd, lle mae'n ofynnol cael cais am ganiatâd adeilad rhestredig ond nid cais am ganiatâd cynllunio ar ei gyfer - sef, gwaith i'r tu mewn i adeilad rhestredig sy'n cael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol, a gwaith i'r tu allan sy'n cael effaith ar ei gymeriad ond a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir. Nid oes gwaith y mae'n ofynnol cael caniatâd ardal gadwraeth ar ei gyfer ond nid caniatâd cynllunio.
- 13.128 Byddai cael un math o ganiatâd ar gyfer yr holl waith adeiladu, yn cynnwys gwaith dymchwel, yn symleiddio'r gyfraith gryn dipyn ac yn cynorthwyo'n sylweddol y rhai hynny sy'n ceisio caniatâd o'r fath a'r rhai hynny sy'n gweinyddu'r broses ganiatáu. Ar gyfer unrhyw fwriad, un cais yn unig y byddai ei angen, un set o luniadau, un adroddiad pwyllgor (neu gyfwerth), un hysbysiad penderfynu, un set o amodau, un apêl, un penderfyniad apêl ac un hysbysiad gorfodi - yn lle dau o bob un fel sydd ar hyn o bryd. Byddai effaith y gwaith ar ddiddordeb arbennig adeilad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniad.
- 13.129 Byddai modd cyflawni'n ddidrafferth y newid sy'n angenrheidiol i hyn ddigwydd a hynny heb golli rheolaeth, trwy addasu mymryn ar ddiffiniad "datblygu" iddo gynnwys unrhyw waith altro i adeilad rhestredig (gan gynnwys y tu mewn iddo) sy'n cael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Efallai mai'r dull symlaf fyddaidiffinio datblygu iddo gynnwys "datblygu treftadaeth", fel y

---

<sup>75</sup> Gweler paragraffau 13.80 i 13.83 uchod.

<sup>76</sup> Mae Sefydliad Gadwrol Adeiladau Hanesyddol, er enghraifft, yn pryderu am lleihad y nifer o'r staff o fewn awdurdodau cynllunio gyda'r cymhwysau addas.

nodir uchod<sup>77</sup>; ac yna ddatgan bod gwneud gwaith datblygu treftadaeth heb ganiatâd yn drosedd.

- 13.130 Pwysleisiwn hefyd bod angen egluro a rhesymoli'r dyletswyddau a roddir ar y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau na chollir arwyddocâd asedau hanesyddol. Rydym eisoes wedi trafod hyn ym Mhennod 5.<sup>78</sup>
- 13.131 Ni fyddai'r newidiadau a fwriedir fel hyn felly'n gwneud i ffwrdd ag unrhyw un o'r gofynion sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael caniatâd yr awdurdod cynllunio am waith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, na sail y polisi a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau am ganiatâd o'r fath, ond yn hytrach yn symleiddio'r weithdrefn berthnasol.
- 13.132 Rydym yn cydnabod y byddai amryfal ganlyniadau i hyn, ac rydym yn eu hystyried yn fanylach yng ngweddill y Bennod hon, dan y penawdau a ganlyn:
- (1) yr angen am ganiatâd;
  - (2) cyflwyno caniatâd
  - (3) apeliadau a phwyntiau atodol eraill;
  - (4) gwaith heb ganiatâd.
- 13.133 Byddai rhaid ystyried pob pwynt yn ofalus, ond nid ystyriwn bod yr un o'r rhain o arwyddocâd mawr. Fodd bynnag, pwysleisiwn bod rhaid ystyried y newidiadau y cynigwn fel un pecyn, er mwyn sicrhau na chollir rheolaeth.

#### **Cwestiwn ymgynghori 13-1.1.**

**Ystyriwn yn amodol y gellid symleiddio rheolaeth o'r gwaith i asedau hanesyddol trwy:**

- (1) **ddiwygio diffiniad "datblygiad", y mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer, i gynnwys "datblygiad treftadaeth", sef:**
  - (a) **dymchwel adeilad rhestredig; neu**
  - (b) **altro neu ymestyn adeilad rhestredig mewn modd sy'n debygol o gael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; neu**
  - (c) **ddymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth.**

<sup>77</sup> Gweler paragraff 13.101.

<sup>78</sup> Gweler paragraffau 5.50 - 5.56 a chwestiwn ymgynghori 5-4.

- (2) gwneud i ffwrdd â'r gofyn am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth ar gyfer gwaith o'r fath; a
- (3) gweithredu'r mesurau ychwanegol a amlinellwyd yng nghwestiynau ymgynghori 13-2 i 13-8, i sicrhau cadw'r lefel sydd yn bodoli ar hyn o bryd o ddiogelu asedau hanesyddol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## YR ANGEN AM GANIATÂD

13.134 Nid ydym yn ail-ddweud yma'r drafodaeth a gafwyd ynghynt yn y Papur Ymgynghori o ran yr angen am ganiatâd cynllunio yn gyffredinol, nac ychwaith ein cwestiynau ymgynghori ym Mhennod 7 - a fyddai'n berthnasol i waith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth fel ag y byddent i rai eraill. Yr oll a wnawn yw archwilio ychydig o bwyntiau manwl a gyfyd pe gweithredid cwestiwn ymgynghori 13-1.

### Gorchymynion datblygu

13.135 Os cyfunir caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth gyda chaniatâd cynllunio, un canlyniad fydd y byddai'n bosib gwneud gorchymynion datblygiad cyffredinol a lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio am waith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig yn unig ar ei gyfer ar hyn o bryd. Nid yw hynny, wrth reswm, yn golygu y byddai rhaid gwneud gorchymynion o'r math, nac y byddai o reidrwydd yn ddymunol o ran polisi y dylid eu gwneud; ond byddai o leiaf yn bosib.

13.136 A dweud y gwir, cyflwynwyd darpariaethau'n cyfateb i'r rhai hynny sy'n ymwneud â gorchymynion datblygiad cyffredinol a lleol i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig mewn perthynas â Lloegr (fel adrannau 26C i 26G ac Atodlen 2A) gan adran 60 Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013. Ni chyflwynwyd darpariaethau cyfatebol yng Nghymru gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016; ond ymddengys nad oes rheswm amlwg pam na ddylent gael eu cyflwyno; a byddai'r arfer bresennol yn galluogi i hynny ddigwydd gyda'r tarfu lleiaf posib.

13.137 Byddai yna'n bosib ystyried sut y dylid defnyddio'r pwerau newydd yng Nghymru, os o gwbl.

### Cwestiwn ymgynghori 13-2.

**Cynigiwn yn amodol y dylid ymestyn y pŵer i wneud gorchymynion datblygiad cyffredinol a lleol fel bod modd rhoi caniatâd cynllunio trwy orchymyn ar gyfer datblygiad treftadaeth.**

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## Cytundebau partneriaeth treftadaeth

13.138 Fel y nodir uchod, unwaith y mae darpariaethau perthnasol Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 mewn grym, bydd yn bosib rhoi caniatâd adeilad rhestredig trwy gytundeb partneriaeth treftadaeth. Os cyfunir caniatâd adeilad rhestredig gyda chaniatâd cynllunio, byddai'n angenrheidiol datgan y gall cytundeb o'r fath roi caniatâd cynllunio mewn egwyddor (yn hytrach na chaniatâd adeilad rhestredig). Efallai ei bod yn briodol cyfyngu'r gwaith y gellir rhoi caniatâd iddo fel hyn, trwy nodi'n benodol bod modd rhoi caniatâd cynllunio am gategorïau gwaith o'r fath fel sydd o bosib wedi'u rhagnodi.

### Cwestiwn ymgynghori 13-3.

**Cynigiwn yn amodol y dylai cytundebau partneriaeth treftadaeth fedru rhoi caniatâd cynllunio trwy orchymyn ar gyfer datblygiad treftadaeth yn y fath categorïau fel y'u rhagnodir o bosib.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## Ansicrwydd ynghylch yr angen am ganiatâd

13.139 Mae mwy o frys am yr angen i ganfod p'un ai caniatâd adeilad rhestredig ynteu ganiatâd ardal gadwraeth sy'n ofynnol am waith na hyd yn oed yn achos caniatâd cynllunio "arferol", gan fod gwneud gwaith heb ganiatâd o'r fath, lle bo gofyn amdano, nid yn unig yn achos o dorri rheolau cynllunio ond yn drosedd.<sup>79</sup> At hyn, gall fod yn hynod anodd bod yn sicr p'un a oes angen caniatâd, oherwydd yr ansicrwydd posib o ran

- (1) beth a gynhwysir mewn rhestr (yn rhinwedd adran 1(5) Deddf Adeiladau Rhestredig), a
- (2) pha waith i adeilad rhestredig sy'n cael effaith ar ei gymeriad arbennig - cwestiwn a fydd yn aml yn cynnwys elfen o farn wrthrychol.

13.140 Ble mae gwaith i'w gynnal a all fod angen caniatâd cynllunio, mae'n bosibl canfod a oes angen caniatâd cynllunio trwy wneud cais i'r awdurdod cynllunio am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd arfaethedig neu ddatblygiad TCDDdA), sydd yn derfynol os cwyd unrhyw anghydfod dilynol. Lle mae'r gwaith wedi ei gwblhau eisoes, gellir gwneud cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli (TCDDdB).<sup>80</sup> Ond nid oes gweithdrefn gyfwerth ar gael yng Nghymru i alluogi person i gael barn derfynol ynghylch a fyddai angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith yr arfaethir ei wneud.

13.141 Un ateb i'r broblem hon yw gwneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad. Fodd bynnag, mae'r Llys wedi nodi'n glir nad trwy wneud datganiad y mae'r ffordd arferol o ddatrys

<sup>79</sup> Mae hyn oherwydd nad oes modd dad-wneud gwaith anawdurdodedig i adeilad sydd yn bodoli, er bod modd gwneud i waith adeiladu adeilad newydd.

<sup>80</sup> Gweler paragraffau 7.83 i 7.97.

ansicrwydd, - nid lleiaf oherwydd y gost i bob sydd yn gysylltiedig, er bod ganddo'r awdurdod i wneud hynny.<sup>81</sup> Yn fwy diweddar, cyflwynwyd darpariaethau'n cyfateb i'r rhai hynny sy'n ymwneud â TCDDdA (Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig (ond nid TCDDdB (Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad sy'n bodoli) yn Lloegr yn 2013.<sup>82</sup>

- 13.142 Os caiff caniatâd adeilad rhestredig ei gynnwys mewn caniatâd cynllunio, fel y cynigir yn rhan flaenorol y Bennod hon, byddai'r darpariaethau o ran TCDDdA a TCDDdB yn ymestyn yn awtomatig i waith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth yn unig ar ei gyfer. Ystyriwn yn amodol y byddai hynny'n gam ymlaen a gâi groeso, gan wneud i ffwrdd ag ansicrwydd heb yr angen am gais i'r llys am ddatganiad.
- 13.143 Fodd bynnag, nid yw'r model a ddefnyddir yn Lloegr yn dderbyniol, gan ei fod yn berthnasol yn unig i'r cwestiwn ynghylch p'un a fyddai gwaith arfaethedig yn cael effaith ar gymeriad arbennig adeilad rhestredig - yr ail o'r ddau gwestiwn a ofynnir uchod. Nid ydynt yn galluogi i'r cyntaf gael ei ddatrys, a allai fod o leiaf cyn anodded.
- 13.144 Mewn gwrthgyferbyniad, mae TCDDdA (dan adran 192 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) yn ateb y cwestiwn ehangach o p'un a yw datblygiad yn "gyfreithlon" - hynny yw, p'un y gallai neu na allai fod yn destun camau gorfodi, pe câi'r gwaith ei wneud, un ai oherwydd nid yw'n ymwneud â datblygu neu oherwydd ei bod yn ofynnol neu nid yw'n ofynnol cael caniatâd cynllunio neu am unrhyw reswm arall). Os caiff ei ddefnyddio yng nghyswllt gwaith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig yn unig ar ei gyfer ar hyn o bryd, byddai gweithredu fel hynny'n galluogi darpar ymgeisydd i gael ateb i'r ddau gwestiwn uchod.
- 13.145 Rydym yn ystyried felly mai un canlyniad hapus i'r cynnig i ddwyn ynghyd caniatâd cynllunio gyda chaniatâd cynllunio adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio ardal gadwraeth yw y byddai gweithdrefn TCDDdA a TCDDdB yn gymwys yn awtomatig, gan alluogi datrys yr ansicrwydd ynghylch yr angen am gymeradwyaeth ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, trwy weithdrefn sydd yn bodoli eisoes ac sydd yn gyfarwydd i swyddogion awdurdodau cynllunio.

#### **Cwestiwn ymgynghori 13-4.**

**Ystyriwn yn amodol y dylid ehangu'r darpariaethau (sydd ar hyn o bryd yn adrannau 191 ac 192 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref) sy'n ymwneud â thystysgrifau cyfreithlondeb i gynnwys gwaith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth yn unig ar ei gyfer ar hyn o bryd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>81</sup> *Chambers v Guildford BC* [2008] EWHC 826 (QB), [2008] JPL 1459.

<sup>82</sup> Yn ffurf adrannau 26H i 26K o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (a gyflwynwyd gan adran 61 o'r Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013).

## CEISIADAU AM GANIATAD

- 13.146 Byddai ein cynigion ynghylch ceisiadau cynllunio mewn penodau blaenorol fel arfer yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig ac ardaloedd cadwraeth ag y byddai i rai eraill, p'un a yw caniatâd cynllunio yn cael ei gyfuno gydag unrhyw ganiatadau eraill ai peidio.
- 13.147 At hyn, rydym wedi nodi yn ein troednodiadau i'r penodau hynny nifer o adegau lle mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig sy'n debyg i ddarpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio neu'r un peth â nhw.<sup>83</sup> Pe bai'r tri chaniatâd yn cyfuno, byddai'r cynigion ym Mhenodau 7 i 11 yn awtomatig yn berthnasol i'r holl geisiadau o'r fath, heb unrhyw angen am newid deddfwriaethol.
- 13.148 Fodd bynnag, byddai ychydig o bwyntiau manwl eraill yn codi pe byddai'r caniatadau'n cyfuno. Ymdriniwn â phob un yn ei dro.

### Ceisiadau

- 13.149 Rydym wedi gwneud nifer o gynigion o ran cyflwyno ceisiadau cynllunio, a'r deunydd sydd i'w gyflwyno gyda chais.<sup>84</sup> Yn amlwg, yn aml bydd yn ofynnol cyflwyno mwy o wybodaeth fanwl gyda cheisidau am waith i adeiladau rhestredig na fyddai'n briodol mewn achosion eraill; a gallai y bydd awdurdodau'n iawn yn gwrthod derbyn ceisiadau nad ydynt yn cynnwys manylion llawn holl agweddau'r hyn a fwriedir, gyda dim manylion o'r fath yn cael eu cadw'n ôl i'w cymeradwyo wedi hynny.
- 13.150 Fodd bynnag, ystyriwn y dylai hyn fod yn fater ar gyfer canllawiau ac, o bosib, reoliadau yn hytrach nag ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol.
- 13.151 Nodwn wrth basio yr ymddengys nad yw'n ofynnol yn y Ddeddf Adeiladau Rhestredig i awdurdod cynllunio gadw cofrestr o geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth, sydd gyfwerth â'r gofyn dan adran 69 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gadw cofrestr o geisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill. Pe bai'r caniatadau'n cyfuno, câi'r anghysondeb honno ei datrys yn awtomatig.

### Hysbysiadau am geisiadau

- 13.152 Ar hyn o bryd mae nifer o gyfarwyddiadau (a wnaed yn wreiddiol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru) sy'n nodi'n benodol:
- (1) categorïau ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig y mae'n rhaid eu cyfeirio at gymdeithasau mwynderau cenedlaethol<sup>85</sup>; a

---

<sup>83</sup> Gweler pennod 8, a throednodiadau 4, 9, 28, 39, 40, 45, 48, 54, 58, 59, 63, 70, 71, 74, 82, 88, 99, 101, 110; pennod 10, troednodyn 32A; a phennod 11, troednodiadau 1, 17, 19, 24, 27, 35, 38, 40.

<sup>84</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 8-1**.

<sup>85</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 15; cyfeiriad sydd yn bresennol yn Cylchlythyr SG 1/98, para 10, a gafodd ei adnewyddu ym Mai 2017 gyda cyfeiriad newydd, a grewyd ochr yn ochr a TAN 24.

- (2) chategorïau ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig y gall awdurdodau cynllunio benderfynu arnynt heb fod angen rhoi gwybod i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, Cadw).<sup>86</sup>

- 13.153 Pe bai'r tri chaniatâd yn cyfuno, fel yr amlinellwyd ynghynt, byddai'n bosib gwneud cyfarwyddiadau tebyg sy'n ymwneud â'r categorïau ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos ei bod yn well - yn unol â'r dull gweithredu cyffredinol o ddisodli cyfarwyddiadau gyda rheoliadau - i ddarpariaethau i'r un perwyl gael eu hychwanegu at Orchymyn Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu at yr hyn y disodlir hi ganddi, trwy gynnwys y cymdeithasau mwynderau cenedlaethol yn rhestr y cyrff yr ymgynghorir â nhw mewn perthynas â cheisiadau cynllunio am gategorïau datblygu penodol.<sup>87</sup>
- 13.154 Nid oes rheswm pam na all lefel ymwneud yr holl bartïon â diddordeb - awdurdodau cynllunio, Gweinidogion Cymru, Cadw a'r cymdeithasau mwynderau cenedlaethol - fod union yr un peth â'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. A byddai'n parhau i fod yn agored i Weinidogion Cymru alw i mewn geisiadau penodol am ganiatâd cynllunio sy'n cael effaith ar asedau hanesyddol lle ystyriant y dylai Cadw ymwneud yn agosach â'r gwaith.

## Ffioedd

- 13.155 Ar hyn o bryd, rhaid i ffi fod ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio - yn union fel mae ceisiadau am ganiatâd dan y Rheoliadau Hysbysebion. Mewn gwrthgyferbyniad, nid yw'n ofynnol talu ffi gyda cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth; nac ychwaith gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio y mae cyfarwyddyd erthygl 4 yn unig yn ei gwneud yn angenrheidiol, na cheisiadau am ganiatâd dan orchymyn diogelu coed.
- 13.156 Ymddengys y gwnaed y gwahaniaeth pan gyflwynwyd y gyfundrefn ffioedd yn gyntaf, ar y sail bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio'n ofynnol i ddatblygu unrhyw dir; mewn gwrthgyferbyniad, mae ceisiadau am waith i adeiladau rhestredig neu goed a warchodir yn angenrheidiol yn unig mewn achosion arbennig, penodol; ni ddylai'r rhai hynny sy'n gorfod rheoli asedau o'r fath beidio ag anobeithio wrth i ffioedd gael eu gosod. Oherwydd yn erbyn hynny, gellid dadlau fod ceisiadau am ganiatâd arbennig yn cymryd amser yr awdurdod cynllunio, ac y dylid codi amdanynt.
- 13.157 Pe bai'r tri chaniatâd yn cyfuno, ni cheid gwahaniaeth yn achos ceisiadau am waith y mae angen caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig ar eu cyfer - gan fod ffi eisoes yn daladwy. A byddai ymgeiswyr yn arbed cost set ychwanegol o luniadau.
- 13.158 Yn y dyfodol lle bydd caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer gwaith y mae caniatâd adeilad rhestredig yn unig yn ofynnol ar ei gyfer ar hyn o bryd - yn ei hanfod y gwaith sy'n cael effaith ar y tu mewn i adeilad rhestredig yn unig a gwaith allanol cymharol fân - gallent gael eu heithrio rhag y gofyn i dalu ffi, fel gydag amryfal eithriadau eraill yn y Rheoliadau Ffioedd <sup>88</sup> pe byddai'n ddymunol cadw pethau fel y maent. Ond

---

<sup>86</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 15; cyfeiriad sydd yn bresennol yn Cylchlythyr SG 1/98, para 15, a gafodd ei adnewyddu hefyd ym Mai 2017.

<sup>87</sup> Gweler **paragraffau 8.69 i 8.95**.

<sup>88</sup> Offeryn Statudol 1522 2015, rheoliadau 4 i 6.



cynigiwn yn amodol mewn Pennod yn hwyrach ymlaen y dylai'r pŵer i osod ffi (mewn deddfwriareth sylfaenol) fod yn berthnasol i'r holl geisiadau am ganiatâd cynllunio.<sup>89</sup> Os derbynnir hynny, byddai yna'n agored i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid cyflwyno eithriad er mwyn eithrio ceisiadau am waith mewn categorïau penodol rhag talu ffi - er enghraifft, ceisiadau sy'n cael effaith ar y tu mewn i adeilad rhestredig yn unig neu'r rhai hynny sy'n ddatblygiadau a ganiateir ar hyn o bryd, neu'r rhai hynny sy'n cael effaith ar annedd.

## Amodau

- 13.159 Nodwyd gennym ym Mhennod 13 fod adran 17 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn nodi'n benodol rai amodau y gellir eu rhoi ynghlwm yn briodol wrth geisiadau y rhoddir caniatâd adeilad rhestredig iddynt, yng nghyswllt -
- (a) diogelu nodweddion penodol yr adeilad, un ai fel rhan ohono neu ar ôl gwahanu oddi wrtho;
  - (b) unioni unrhyw ddifrod a achosir i'r adeiladau gan y gwaith, unwaith y cwblheir y gwaith;
  - (c) ailgodi'r adeilad neu unrhyw ran ohono ar ôl gwneud unrhyw waith, gan ddefnyddio'r deunyddiau gwreiddiol cyn belled ag y bo'n ymarferol a chyda gwaith altro o'r fath i'r tu mewn i'r adeilad ag sydd o bosib wedi'i nodi'n benodol yn yr amodau.
- 13.160 Rydym wedi nodi y gallai amodau o'r fath fod yn briodol mewn perthynas ag achosion ar wahân i'r rhai hynny sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac, felly, wedi cynnig bod y Bil Cynllunio, neu reoliadau dan y Bil yn awdurdodi'n bendant osod amodau o'r fath (mewn achosion priodol) mewn perthynas â chaniatadau cynllunio'n gyffredinol.<sup>90</sup> Os derbynnir y cynnig hwnnw, byddai hynny'n ymestyn yn amlwg i amodau ar ganiatadau sydd yn ymwneud ag adeiladau rhestredig - ac, yn wir, adeiladau anrhestredig mewn ardal gadwraeth.
- 13.161 Felly, byddai'r pŵer i osod mathau'r amodau y cyfeirir atynt yn adran 17 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cael ei gadw'n awtomatig.

## APELIADAU A DARPARIAETHAU ATEGOL ERAILL

- 13.162 Mae cynigion ynghylch apeliadau a darpariaethau atodol eraill wedi'u cynnwys ym Mhennod 11.

## Apeliadau

- 13.163 Mae adran 21 y Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn nodi rhesymau penodol lle mae modd gwneud apeliadau yn erbyn gwrthod caniatâd adeilad rhestredig - i'r perwyl nad yw'r adeilad dan sylw o ddiddordeb arbennig. Os cyfunir y caniatadau hynny gyda chaniatâd cynllunio, byddai angen gwneud addasiadau priodol fel bod modd i

---

<sup>89</sup> Gweler paragraffau 18.71 i 18.79.

<sup>90</sup> Gweler paragraffau 8.131, 8.132.

apelwyr am ganiatâd cynllunio ddibynnu ar resymau cyfwerth dros apelio mewn achosion sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, er mwyn sicrhau nad oes newid o'r sefyllfa gyfredol.

13.164 O'r herwydd, byddai'n angenrheidiol cynnwys yn y Bil ddarpariaethau i'r perwyl:

- (1) gallai unrhyw apêl sy'n ymwneud â gwaith i adeilad rhestredig gynnwys fel rheswm dros apelio nad yw'r adeilad dan sylw o diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac y dylid ei dynnu oddi ar y rhestr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Weinidogion Cymru; a
- (2) lle mae adeilad yn destun hysbysiad diogelu adeilad (rhestr amodol), gall yr hysbysiad apêl gynnwys honiad na ddylid cynnwys yr adeilad yn y rhestr.

13.165 Wrth wneud penderfyniad ar apêl o'r fath, gallai Gweinidogion Cymru dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr neu wrthod ei gynnwys.<sup>91</sup> Byddai angen cadw grymoedd cyfwerth.

### **Cwestiwn ymgynghori 13-5.**

**Ystyriwn yn amodol y dylai'r bil gynnwys darpariaethau i'r perwyl:**

- (1) bod unrhyw apêl perthnasol i waith i adeilad rhestredig yn gallu cynnwys fel sail ar gyfer apêl nad yw'r adeilad dan sylw o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a dylid ei dynnu oddi ar y rhestr o adeiladau o'r fath a gedwir gan Weinidogion Cymru;**
- (2) ble mae adeilad yn amodol ar hysbysiad diogelu adeilad (rhestr amodol), gall yr hysbysiad apêl gynnwys hawliad na ddylid cynnwys yr adeilad ar y rhestr;**
- (3) Gall Weinidogion Cymru, wrth benderfynu apêl cysylltiedig ag adeilad rhestredig, ddefnyddio eu grymoedd i dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr; ac**
- (4) wrth benderfynu apêl cysylltiedig â gorchymyn cadw adeilad, medrant ddefnyddio eu grymoedd i beidio â chynnwys yr adeilad yn y rhestr.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Darpariaethau atodol eraill**

13.166 Gallai bod angen gwneud newidiadau priodol i'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau prynu, i gynnwys y darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â hysbysiadau prynu adeiladau rhestredig a hysbysiadau prynu ardaloedd cadwraeth.

13.167 Byddai angen gwirio'n ofalus y manylion gweithdrefnol sy'n rheoli gwaith ymdrin â cheisiadau ac apeliadau cynllunio - er enghraifft, y manylion sy'n ymwneud â cheisiadau gan awdurdodau cynllunio, ymgymerwyr statudol neu'r Goron - er mwyn

<sup>91</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 22(1)(b).

sicrhau nad yw uno caniatadau'n arwain at naill ai golli rheolaeth neu unrhyw feichiau gweithdrefnol diangen. Ond ni ragwelir y ceid problemau o'r fath na ellid ymdrin â nhw'n hawdd trwy sicrhau bod y Bil - neu, yn fwy tebygol, reoliadau sy'n atodol i'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu neu'n ei ddisodli - yn cynnwys darpariaethau priodol sydd gyfwerth â'r rhai hynny yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 a rheoliadau a wneir tano.

## **GWAITH HEB GANIATÂD SYDD YN EFFAITHIO ADEILADAU RHESTREDIG AC ARDALOEDD CADWRAETH.**

### **Y gyfraith sydd eisoes yn bodoli**

- 13.168 Mae cynnal gwaith datblygu heb ganiatâd cynllunio'n torri rheolau cynllunio ond nid yw'n drosedd.<sup>92</sup> Os yw gwaith datblygu o'r math wedi'i wneud, gallai'r awdurdod cynllunio, os yw'n ystyried ei fod yn hwylus, ddyroddi hysbysiad gorfodi; a byddai peidio â chydymffurfio â hwnnw'n drosedd. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gwneud gwaith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth ar ei gyfer heb i'r caniatâd hwnnw fod wedi'i roi yn drosedd o'r cychwyn cyntaf, dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mae'n amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath bod y gwaith yn angenrheidiol i iechyd neu ddiogelwch, ac yn gyfyngedig i'r isafswm angenrheidiol.
- 13.169 Gallai'r rhesymeg y tu ôl i'r gwahaniaeth hwnnw fod wedi adlewyrchu penderfyniad polisi gan y Senedd i bwysleisio pwysigrwydd y dreftadaeth. Fel arall, gallai adlewyrchu'r ffaith amlwg bod modd rheoleiddio gwaith codi adeilad heb ganiatâd yn syml trwy ei gwneud yn ofynnol gwneud i ffwrdd ag o, tra nid oes modd rheoleiddio adeilad hanesyddol y gwnaed i ffwrdd ag o trwy ei gwneud yn ofynnol ei adfer. Ac os nad yw'r olaf yn destun cosb droseddol, nid oes dim i atal darpar droseddwr.
- 13.170 Fel y nodir uchod, ers i'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Menter a Rheoleiddio Diwygiant 2013 ddod i rym, mae dymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth yn Lloegr yn parhau'n drosedd (yn amodol ar amddiffyniad tebyg) - ond dan adran 196D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn hytrach na than y Ddeddf Adeiladau Rhestredig.<sup>93</sup>
- 13.171 Lle gwneir gwaith heb ganiatâd i adeilad rhestredig y mae modd ei wyrdroi, gallai arwain at ddyroddi hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig (naill ai fel dewis arall i erlyn neu fel ychwanegiad ato). Lle roedd yn ofynnol hefyd gael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith o'r math, fel gyda chodi estyniad i dŷ rhestredig, gallai hynny arwain at ddyroddi dau hysbysiad - hysbysiad gorfodi cynllunio prif lif a hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig. Bydd hynny, yn ei dro, yn gofyn am ddwy apêl, a allai ddibynnu ar resymau fymryn yn wahanol ac, yn y man, at ddau hysbysiad penderfynu.
- 13.172 Dylid hefyd nodi fod gwaith a gynhelir heb ganiatâd cynllunio fel arfer yn ddiogel rhag camau gorfodi ar ôl pedair blynedd; tra nad yw gwaith a gynhelir heb ganiatâd adeilad rhestredig fyth yn ddiogel rhag camau gorfodi. Ac fe allai apêl yn erbyn hysbysiad

---

<sup>92</sup> Gweler paragraff 12.3.

<sup>93</sup> DCGTh 1990, a 196D, a gyhoeddwyd gan y Ddeddf Menter a Rheoleiddio Diwygiant, atodlen 17, paragraff 6.

gorfodi adeilad rhestredig ddibynnu ar y rhesymau a ganlyn (yn ogystal ag ar y rhai sy'n berthnasol yn achos apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi arferol):

- (1) nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
- (2) bod angen brys am y gwaith;<sup>94</sup>
- (3) na fyddai'r gwaith gofynnol yn adfer yr adeilad i'w gyflwr blaenorol;
- (4) bod y camau gofynnol i liniaru'r difrod yn ormodol.<sup>95</sup>

13.173 Lle cynhelir gwaith dymchwel heb ganiatâd mewn ardal gadwraeth, gallai arwain mewn egwyddor at ddyroddi hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n digwydd yn aml oherwydd ei fod yn debygol y byddir yn methu gwyrddroi gwaith dymchwel<sup>96</sup> ar raddfa sy'n ddigon i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd ardal gadwraeth.

13.174 Mae ein cynigion sy'n ymwneud â datblygu heb ganiatâd, ym **Mhennod 12**, yn berthnasol i achosion sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Isod cyffyrddwn ag un neu ddau o bwyntiau penodol a gyfyd o'n cynigion ynghynt yn y Bennod hon.

#### Newid posib: erlyn

13.175 Os cyfunir y tri chaniatâd hyn, fel yr amlinellwyd ynghynt, byddai raid, wrth gwrs, sicrhau y gwnaed gwaith heb ganiatâd i adeiladau rhestredig a gwaith dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth yn drosedd, a hynny am y rhesymau a nodir uchod. Cytunwn gyda Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Rhestredig, sy'n datgan y byddai'n gwrthwynebu'n gryf unrhyw symudiad i ddad-droseddoli achosion o dorri rheolau adeiladau rhestredig.

13.176 Byddai modd cyflawni hyn trwy fewnosod darpariaeth newydd yn y pwynt priodol i'r perwyl bod gwneud gwaith datblygu treftadaeth heb ganiatâd yn drosedd - gan dybio fod "datblygu treftadaeth" wedi'i ddiffinio ar hyd y llinellau a nodwyd ynghynt.<sup>97</sup> I bob diben, byddai hynny'n debyg i'r adran newydd 196D a fewnosodwyd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn Lloegr, a'i hymestyn i gynnwys gwaith i adeilad rhestredig.

13.177 Byddai'r cosbau am drosedd o'r fath, a'r amddiffyniad i gyhuddiad<sup>98</sup>, yr un peth ag sy'n berthnasol ar hyn o bryd i drosedd dan adran 9 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.

---

<sup>94</sup> Rheswm sydd yn gyfatebol gyda'r amddiffyniad o dan a 9(3) i'r cyhuddiad o waith anawdurdodedig, sydd wedi ei fframio mewn termau tebyg (gweler troednodyn 98).

<sup>95</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 39(1)(a), (d) (i)-(k) (rhoddir crynodeb ohoni). Mae rhesymau cyfatebol yn berthnasol i apêl yn erbyn hysbysiad gweithredu ardal cadwraeth (gweler OS 2012/793, atod 3).

<sup>96</sup> Gweler **para 13.30**.

<sup>97</sup> Gweler **para 13.101** uchod.

<sup>98</sup> "fe fydd yn amddiffyniad i ddangod y canlynol: (a) bod y gwaith i'r adeilad yn hanfodol i ddiddordebau diogelwch, iechyd, neu am ddyfodiad yr adeilad; (b) nad oedd yn ddichonadwy i sicrhau diogelwch, iechyd,

### Cwestiwn ymgynghori 13-6.

Cynigiwn yn amodol y dylid cynnwys yn y Bil darpariaethau i'r perwyl:

- (1) **bod gwneud gwaith datblygu treftadaeth heb ganiatâd cynllunio (neu sy'n torri amod neu gyfyngiad sydd ynghlwm wrth ganiatâd) - a ddiffinir yn debyg i'r hyn a nodir ym Mwriad 13-1 - yn drosedd, ac yn gosbadwy**
  - ar euogfarn ddiannod gan garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu ddirwy neu'r ddau; neu
  - ar euogfarn ddiannod gan garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd neu ddirwy neu'r ddau; a
- (2) **bod yr amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath yr un peth ag sy'n berthnasol ar hyn o bryd i drosedd dan adran 9 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.**

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Newid posib: camau gorfodi

- 13.178 Byddai angen gwneud yn glir na ddaw gwaith datblygu treftadaeth heb ganiatâd yn ddiogel rhag camau gorfodi ar ôl cyfnod penodol. Byddai modd gwneud hyn trwy eithrio gwaith datblygu treftadaeth o'r categorïau datblygu sy'n destun amryfal gyfyngiadau amser (a nodir ar hyn o bryd yn adran 171B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) o ran y cyfnod pryd y gellir cymryd camau gorfodi.
- 13.179 At hyn, byddai angen addasu'r rhesymau a ddefnyddir i ddod ag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi cynllunio i ymgorffori'r rhai hynny a ddefnyddir i wneud apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth, a grynhoir uchod.<sup>99</sup>
- 13.180 Fel gyda cheisiadau am ganiatâd, a nodir uchod, ymddengys nad oes gofyn yn y Ddeddf Adeiladau Rhestredig i awdurdod cynllunio gadw cofrestr o hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig a hysbysiadau gorfodi ardal gadwraeth, sydd gyfwerth â'r gofyn dan adran 188 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gadw cofrestr o hysbysiadau gorfodi cynllunio a mathau eraill o hysbysiadau. Pe bâi'r caniatadau'n cyfuno, byddai hynny'n cael ei ddatrys yn awtomatig yma, hefyd.

---

neu, fel boed angen, cadwraeth yr adeilad trwy gwaith atgyweirio neu gwaith i sicrhau cymorth neu lloches byrdymor; (c) bod y gwaith yn gyfyngedig i'r mesurau lleiaf posib; a (d) bod hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys cyfiawnhad o'r gwaith, wedi ei roi i'r awdurdodau cynllunio lleol yn gynted ac a phosib" (Deddf Adeiladau Cofrestredig 1990, a 9(3)).

<sup>99</sup> Gweler **paragraff 13.172**.

### Cwestiwn ymgynghori 13-7.

Cynigwn yn amodol y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau i'r perwyl bod gwaith datblygu treftadaeth yn cael ei eithrio o gategoriâu datblygu sy'n amodol ar gyfyngiadau amser o ran y cyfnod pryd y gellir cymryd camau gorfodi.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 13-8.

Cynigwn yn amodol gynnwys y dylai'r Bil ddarpariaethau i'r perwyl:

- (1) Lle dyroddir hysbysiad gorfodi mewn perthynas â gwneud gwaith datblygu treftadaeth gan dorri rheolau cynllunio, bod y rhesymau a ddefnyddir i ddod ag apêl yn erbyn hysbysiad o'r fath yn cynnwys rhesymau cyfwerth â rhesymau (a), (d), (i), (j) a (k) fel y nodir yn Adran 39 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990;
- (2) y gallai Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl gorfodi sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig, arfer eu pwerau i dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr.
- (3) wrth benderfynu ar apêl gorfodi sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig sy'n destun gorchymyn diogelu adeilad, gallent arfer eu pwerau i beidio â'i gynnwys yn y rhestr.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## GWAITH I HENEBION RHESTREDIG

13.181 Deuir ar draws llawer llai o henebion rhestredig yn ymarferol nag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Bron yn ddieithriad nid oes neb yn byw ynddynt; ac maent gyfwerth mewn pwysigrwydd ag adeiladau rhestredig Gradd I\*a II\* (sydd, rhyngddynt, y rhan fwyaf o adeiladau rhestredig mwyaf arwyddocaol ac yn oddeutu 4% ohonynt).

<sup>100</sup>

13.182 Mae'n ofynnol cael caniatâd heneb restredig i gynnal bron i unrhyw waith ar heneb restredig. Mae methu cael caniatâd yn drosedd. Fodd bynnag, yn rhinwedd natur heneb restredig, a'i phwysigrwydd, prin iawn yw hi i gais am ganiatâd heneb restredig gael ei wneud ar gyfer unrhyw beth ar wahân i fân waith adfer neu gyfleusterau

---

<sup>100</sup> Swyddfa Gymraeg, Cylchlythyr 60/96, Atodiad 1, para 4.

ymwelwyr.<sup>101</sup> Mae ceisiadau am ganiatâd felly'n digwydd yn gymharol anaml a phrin iawn y byddant yn gorgyffwrdd â cheisiadau am ganiatâd cynllunio.<sup>102</sup>

- 13.183 Fel arfer ceir caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth gan yr awdurdod cynllunio (neu Weinidogion Cymru ar apêl). Ond ceir caniatâd henebrestredig yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru.<sup>103</sup>
- 13.184 Lle mae strwythur yn adeilad rhestredig a heneb restredig, mae'n ofynnol cael caniatâd heneb restredig am waith sy'n cael effaith arno, ond nid yw'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig.<sup>104</sup> Dro yn ôl, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Fil drafft yn cynnig cyfuno caniatâd heneb restredig a chaniatâd adeilad rhestredig yn un "caniatâd ased hanesyddol" (mewn perthynas â Chymru a Lloegr).<sup>105</sup> Nid aeth hynny erioed ddim pellach, ond ni fyddai wedi cyflawni fawr ddim gan nad oes sefyllfa lle byddai'n ofynnol cael dau fath o ganiatâd heneb restredig am yr un gwaith. At hyn, pe câi pob cais am ganiatâd unedig o'r fath ei wneud i awdurdod cynllunio, byddai'n rhaid i awdurdodau fod ag adnoddau priodol, neu drefniadau yn eu lle i gael cymorth gan Cadw neu'r ymddiriedolaethau archeolegol rhanbarthol.
- 13.185 Felly, er y byddai'n bosib, mewn egwyddor, mynd â'r broses uno un cam ymhellach trwy ymestyn diffiniad "datblygu treftadaeth"<sup>106</sup> i gynnwys gwaith i heneb restredig, fel yn Neddf Cynllunio 2008<sup>107</sup> - a fyddai'n dileu'r angen i gael caniatâd heneb restredig - ystyriwn bod hynny'n un cam yn rhy bell, gan y byddai'n arwain at drosglwyddo penderfyniadau sy'n ymwneud â henebion rhestredig, sy'n brin ac yn gofyn am wybodaeth arbenigol, o Cadw i awdurdodau cynllunio.

### Cynnig 13-9.

**Ystyriwn yn amodol beidio ag uno caniatâd cynllunio gyda chaniatâd heneb restredig.**

**Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?**

<sup>101</sup> Fe ddarganfuir arwyddion o'r math o waith sydd yn ffurfio testun pwnc ceisiadau am henebiadau rhestredig yn yr Alban yn y cofrestr, sydd yn cael ei gynnal gan Amgylchedd Hanesyddol yr Alban, sydd ae gael ar-lein.

<sup>102</sup> Roedd 57 cais am ganiatâd henebiad rhestredig yng Nghymru yn y flwyddyn 2013-14 – i gymharu â 525 o geisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig a dderbyniwyd gan Cadw, a 907 cais am caniatâd cynllunio (Adroddiad Blynyddol Cadw, 2013-14, tud 13).

<sup>103</sup> Neu cael ei grantio trwy cytundeb partenriaeth treftadaeth (gweler y Ddeddy Henebiadau Hynafol 1979, a 9ZA, a gaiff ei mewnosodi gan y Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016).

<sup>104</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 61.

<sup>105</sup> Yn y Bil Amddiffyniad Treftadaeth, a gyflwynwyd i'r Senedd (Ebrill 2008, Cm 7349). Ni wnaeth y Bil lwybreiddio trwy'r Senedd mewn digon o amser cyn i'r Etholiad Cyffredinol yn 2010. Fe gafodd rhai o'r cynigion o fewn y Bil cael ei gyflwyno (yn Lloegr o leiaf) trwy ganllawion Llywodraethol; ond nid felly yr awgrym i gyhoeddi caniatâd ased hanesyddol unedig.

<sup>106</sup> Gweler **para 13.101**.

<sup>107</sup> Gweler **troednodyn 63** uchod.

## YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL: PWYNTIAU ERAILL

13.186 Cydnabyddwn fod y briff a roddir i Gomisiwn y Gyfraith yn ymestyn i'r Côd Cynllunio ac nid i'r adolygiad o ddeddfwriaeth amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, mae neu dau bwynt wedi dod i'r wyneb yn ystod ein gwaith y credwn sy'n briodol eu crybwyll yma, i'w cynnwys mewn deddfwriaeth addas pan gyfyd y cyfle, naill ai yn ystod y cyddestun presennol neu fel arall. Mae gan y naill a'r llall ganlyniadau parthed rheolaeth gynllunio prif ffrwd.

### Diffiniad "adeilad rhestredig"

13.187 Ystyriwn ym Mhennod 17 ddiffiniad "cwrtil", term sy'n codi mewn amryfal leoliadau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac mewn deddfwriaeth eilaidd dan y Ddeddf honno.<sup>108</sup> Byddai ein cynigion, felly, yr un mor berthnasol mewn perthynas â deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol.

13.188 Fodd bynnag, nododd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r Papur Cwmpasu fod diffiniad "adeilad rhestredig" (yn adran 1(5) Deddf Adeiladau Rhestredig 1990) yn cynnwys cyfeiriad at wrthrychau a strwythurau cyn 1948 yng nghwrttil yr adeilad, ac awgrymu y byddai o gymorth pe gellid symleiddio'r gyfraith trwy ei gwneud yn glir y dyddiad pryd y dylid ystyried maint y cwrtil.

13.189 Gwna cyfraith achos hi'n glir mai'r dyddiad perthnasol yw, yn gyffredinol, y dyddiad y cynhwyswyd yr adeilad yn y rhestr yn gyntaf.<sup>109</sup> Cytunwn y byddai o gymorth pe gellid gwneud hynny'n glir ar wyneb y statud, er mwyn gwahaniaethu rhwng y sefyllfa a gyfyd mewn perthynas â darpariaethau statudol eraill. Er enghraifft, ble mae'r GDCG yn diffinio hawliau datblygiad a ganiatawyd trwy gyfeirio at gwrttil adeilad, yr hyn sydd i'w ystyried yw maint y cwrtil ar hyn o bryd - hynny yw, ar ddyddiad y datblygiad dan sylw.<sup>110</sup>

13.190 Yn ail, cyflwynwyd y ddarpariaeth sydd bellach yn adran 1(5) Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, a daeth i rym 1 Ionawr 1969. Byddai'n ymddangos yn achos yr adeiladau a restrir ynghynt, fod y cwrtil i'w ystyried ar y dyddiad hwnnw. Ond byddai modd egluro hynny hefyd er mwyn osgoi cyfreithiad diangen.

---

<sup>108</sup> Gweler **paragraffau 18.128 i 18.145**.

<sup>109</sup> *Watts v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1991] 1 PLR 61 at p 72F; *R v Camden LBC, ex p Bellamy* [1992] JPL 255; *Morris v Wrexham CBC a'r Cynulliad Cenedlaethol* [2002] 2 P&CR 7.

<sup>110</sup> Gweler, er enghraifft *Collins v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1989] EGCS 15; *James v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1991] 1 PLR 58; *McAlpine v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1995] 1 PLR 16; *Lowe v Yr Ysgrifennydd Gwladol Cyntaf* [2003] 1 PLR 81.



### **Cwestiwn ymgynghori 13-10.2.**

**Ystyriwn yn amodol y dylid egluro diffiniad "adeilad rhestredig" trwy ei wneud yn glir ei bod y diffiniad yn cynnwys gwrthrychau a strwythurau cyn 1948 os oeddent yng nghwrtil yr adeilad yn y rhestr fel ag yr oedd**

- (1) yn achos adeilad a restrwyd cyn 1 Ionawr 1969, ar y dyddiad hwnnw; ac
- (2) mewn unrhyw achos arall, ar y dyddiad y cyflwynwyd yr adeilad gyntaf yn y rhestr.

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol**

13.191 Mae un gofyn penodol o ran rhoi cyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau cynllunio'n berthnasol mewn ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol, a ddynodwyd felly dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. O fewn ardal o'r fath, yn gyffredinol yng nghanol dinas hanesyddol, rhaid rhoi sylw arbennig i ddatblygiad arfaethedig i alluogi'r "awdurdod ymchwilio" (yn ymarferol, uned archaeolegol leol) ystyried p'un a yw'n dymuno cynnal ymchwiliadau archaeolegol.

13.192 Yn y Papur Cwmpasu, nodasom fod pum ardal wedi'u dynodi'n ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol yn 1984 yn Lloegr, ac nad oedd yr un ardal wedi'i dynodi yng Nghymru.<sup>111</sup> Nodasom hefyd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi derbyn nad yw'r warchodaeth a roddir gan ddynodi ardal o bwysigrwydd archaeolegol mor fawr ag y gellir ei chyflawni trwy ddefnyddio peirianweithiau polisi eraill (sydd ar hyn o bryd dan NCT 24) a chynnig dros 20 mlynedd yn ôl yn unol â hynny y câi Rhan 2 y Ddeddf ei diddymu ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf.<sup>112</sup>

13.193 Yn y papur cwmpasu, awgrymasom y byddai hyn yn gyfle da i ddiwygio Deddf 1979 fel nad oedd Rhan 2 yn berthnasol mwyach yng Nghymru. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan Gymdeithas Tirfeddianwyr Gwledig, Richard Harwood, C.F., Persimmon a PEBA.

### **Cwestiwn ymgynghori 13-11.**

**Cynigwn yn amodol ddiwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 fel nad yw Rhan 2 (ardaloedd o ddiddordeb archaeolegol) yn gymwys yng Nghymru.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>111</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu* (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 228, para 5.79.

<sup>112</sup> Pwyllgor Amgylchedd Tŷ'r Cyffredin, Sesiwn 1986-1987 (cyf 146) cyfrol 2, tud 19.





## Pennod 14: Hysbysebu yn yr awyr agored

### CYFLWYNIAD

- 14.1 Rheoli hysbysebion awyr agored yw un o agweddau mwyaf llwyddiannus system gynllunio'r DU, er na chaiff ei werthfawrogi ar brydiau. Mae'n seiliedig ar gynllun deddfwriaethol hunangynhwysol, sydd wedi'i gynnwys mewn is-deddfwriaeth yn bennaf.
- 14.2 Y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yw Pennod 3 Rhan 8 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (DCGTH) 1990. Mae hyn yn darparu y dylai Rheoliadau o dan y Ddeddf wneud darpariaeth i gyfyngu ar neu reoleiddio arddangos hysbysebion i'r graddau y bydd hynny'n ymddangos yn gyfleus i Weinidogion Cymru er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd. Y Rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (Rheoli Hysbysebion) 1992 ("Rheoliadau 1992").<sup>1</sup> Pan gawsant eu llunio yn y lle cyntaf, cawsant eu gweithredu yng Nghymru a Lloegr, ond bellach maent yn berthnasol yng Nghymru yn unig ers cyhoeddi Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Lloegr) 2007.
- 14.3 Mae adran 336 DCGTh 1990 yn darparu diffiniad eang iawn o "hysbyseb".<sup>2</sup> Yna, mae Rheoliad 1 Rheoliadau 1992 yn eithrio arddangos unrhyw hysbyseb yn unrhyw gategori yn Atodlen 2 yn gyfangwbl - yn bennaf, eitemau sydd oddi allan i ystyr derbyniol cyffredinol y gair "hysbyseb" neu sydd bron iawn bob amser yn ddiwrthwynebiad, megis hysbysebion o fewn adeiladau, deunyddiau hyrwyddo ar beiriannau gwerthu, ac arwyddion ffyrdd. Mae Rheoliad 6 yn rhoi "cydsyniad tybiedig" i unrhyw hysbyseb yn unrhyw un o'r categorïau hysbysebion a restrir yn Atodlen 3 sy'n dderbyniol yn y rhan fwyaf o achosion ond nid ym mhob un o reidrwydd - megis placiau pres y tu allan i feddygfeydd, byrddau gwerthwyr tai, ac arwyddion ffasgiâu siopau - er y gall awdurdod cynllunio atal y cydsyniad tybiedig hwnnw mewn achos penodol trwy gyflwyno rhybudd dirwyn i ben o dan reoliad 8. Mae ar hysbysebion eraill - yn enwedig palisau wrth ymyl y ffordd fawr - angen "cydsyniad datganedig" a geir gan yr awdurdod cynllunio neu trwy apêl gan Weinidogion Cymru.
- 14.4 Yn gyffredinol, mae categorïau'r hysbysebion yn Atodlenni 2 a 3 yn destun cyfyngiadau caeth i faint yr arddangosfa dan sylw, a manylion eraill; a gall y cyfyngiadau hynny fod yn fwy caeth mewn mannau mwy sensitif.
- 14.5 Weithiau gall arddangos hysbyseb fod yn gyfystyr â "datblygiad", ac mewn egwyddor, byddai angen caniatâd cynllunio i wneud hynny.<sup>3</sup> Yn unol â hynny, mae Deddf 1990 yn darparu yr ystyrir fod caniatâd wedi'i roi, lle bo hynny'n ofynnol, ar gyfer unrhyw arddangosfa sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau. Gallai arddangos hysbyseb ar adeilad

---

<sup>1</sup> OS 1992 Rhif 666, diwygiwyd gan by OSau 1994 Rhif 2351 ac 1999 Rhif 1810; diwygiwyd gan Reoliadau TCP (Rheoli Hysbysebion) (Lloegr) 2007 (SI Rhif 783), rheoliad 32 er mwyn bod yn gymwys yng Nghymru yn unig; diwygiwyd yn ddiweddarach gan OSau 2012 Rhif 791 a 2017 Rhif 553.

<sup>2</sup> Gweler **paragraff 14.11**.

<sup>3</sup> Gweler **paragraff 7.12**.

cofrestredig fod gyfystyr â newid adeilad rhestredig, a byddai angen caniatâd adeilad rhestredig i wneud hynny.

- 14.6 Mae arddangos hysbyseb heb y caniatâd gofynnol yn groes i reolaeth gynllunio (yn union fel unrhyw ddatblygiad anawdurdodedig arall) ond mae hefyd yn gyfystyr â thramgwydd atebolrwydd caeth.<sup>4</sup>

### Diwygiadau posibl

- 14.7 O gofio mai ffocws y Papur Ymgynghori hwn yw ddeddfwriaeth sylfaenol sydd i'w chynnwys yn y Côt Cynllunio newydd, mae pwyslais y Bennod hon ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth honno, sydd yn DCGTh 1990 ar hyn o bryd.
- 14.8 Fodd bynnag, mae manylion y gyfraith ynghylch arddangos hysbysebion awyr agored wedi'u cynnwys yn bennaf yn yr is-ddeddfwriaeth berthnasol. Disgwylir y caiff Rheoliadau 1992 sy'n berthnasol yng Nghymru, ac sydd bellach yn 25 mlwydd oed, eu diweddarau maes o law; a bryd hynny, bydd yn briodol heb os i ystyried a fyddai'n briodol gwneud diwygiadau. Bydd angen i gynigion ynghylch newidiadau o'r fath fod y destun ymgynghoriad â'r sawl sy'n cyfranogi'n uniongyrchol (yn cynnwys awdurdodau cynllunio a hysbysebwr).
- 14.9 Yn benodol, roedd y newidiadau a wnaed yn 2007 yn Lloegr yn deillio ar y cyfan o gynigion oedd wedi'u cynnwys mewn papur ymgynghorol gan y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn 1999 - mewn perthynas â Chymru a Lloegr yn ôl pob tebyg.<sup>5</sup> Ymddengys fod llawer o'r rheiny wedi arwain at system well, a chredwn y dylid eu hystyried yn ofalus pan gaiff y Rheoliadau eu diweddarau.
- 14.10 Rydym hefyd yn cyfeirio isod at newidiadau posibl eraill i'r Rheoliadau.<sup>6</sup>

## CYSYNIADAU SYLFAENOL

### Diffiniad o "hysbyseb"

- 14.11 Man cychwyn y darpariaethau statudol ynghylch hysbysebu yw'r diffiniad o'r gair "hysbyseb". Diffinnir hyn yn adran 336 DCGTh 1990 fel a ganlyn:

Mae "hysbyseb"

- [a] yn golygu unrhyw air, llythrennau, model, arwydd, hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, adlen, cysgodlen, dyfais neu osodiad, boed yn oleuedig neu beidio, yn natur hysbyseb, ac wedi'i ddefnyddio'n llwyr neu'n rhannol at ddibenion hysbyseb, cyhoeddiad neu gyfarwyddyd, ac

---

<sup>4</sup> Tybir am fod hysbysebion yn hawdd eu gosod a'u tynnu i lawr, fel y byddai gorfodaeth gonfensiynol yn annigonol i atal arddangosfeydd anawdurdodedig.

<sup>5</sup> Moderneiddio Cynllunio: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored, Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau, Gorffennaf 1999.

<sup>6</sup> Gweler **cwestiynau ymgynghori 14-3, 14-7, 14-8, 14-9 a 14-10**.

[b] (heb leihau effaith darpariaethau blaenorol y diffiniad hwn), mae'n cynnwys unrhyw balis neu strwythur tebyg a ddefnyddir neu a gynlluniwyd, neu a addaswyd i'w ddefnyddio, ac unrhyw beth arall a ddefnyddir, neu a gynlluniwyd, neu a addasir yn bennaf i'w ddefnyddio, i arddangos hysbysebion;

a chaiff cyfeiriadau at "arddangos hysbysebion" eu dehongli yn y fath fodd."<sup>7</sup>

- 14.12 Mae'r diffiniad hwn wedi'i rannu yn ddwy ran [a] a [b] i gynorthwyo ag eglurder.
- 14.13 Dylid nodi, yn y lle cyntaf, fod pob rhan o'r diffiniad hwn yn grwn, yn yr ystyr bod y term "hysbyseb" yn cael ei ddiffinio trwy gyfeirio at, ymhlith pethau eraill, y term sy'n cael ei ddiffinio. Fel sydd wedi cael ei amlygu yn yr Uchel Lys:

"Mae rhywfaint o gylcholdeb yn y diffiniad ... Yn hyn o beth, mae'r diffiniad o hysbyseb fel y diffiniad o'r eliffant diarhebol. Byddir yn adnabod eliffant (neu hysbyseb) pan welir un oherwydd mae hynny yn natur eliffant (neu hysbyseb)."<sup>8</sup>

Yn ei hanfod, mae hyn yn anfoddfaol.

- 14.14 Yn ail, mae rhan [a] yn ddiffiniad sy'n eithrio – hynny yw, er mwyn i rywbeth fod yn hysbyseb, mae'n rhaid iddo gael ei gynnwys ynddo; ac mae'n cynnwys yr eitemau a grybwyllir yn rhan [b]. Er enghraifft, yn amlwg, nid yw pelydryn o olau a gynhyrchir gan chwilolau yn hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, adlen na chysgodlen; ond mae'r Uchel Lys wedi canfod mai "arwydd" yw hynny, ac felly gellid ei ddefnyddio o fewn y diffiniad pe byddid yn ei ddefnyddio i arddangos hysbysebion, hynny yw, geiriau ac ati a ddefnyddir yn llwyr neu'n rhannol at ddibenion hysbyseb.<sup>9</sup>
- 14.15 Felly, nid y neges sy'n cael ei chyfleu (trwy eiriau neu luniau) gan yr hysbysebwr yw'r "hysbyseb" y byddir yn ei reoli, ond y dull penodol a ddefnyddir i gyfleu'r neges - boed hynny yn boster papur ar hysbyslen gonfensiynol ger ochr y ffordd, plac pres y tu allan i feddygfa, ffasgia dros ffenestr siop, cysgodlen dros ffenestr caffi neu ymbarél ar ei flaengwrt (os, yn y ddau achos, bydd yn cynnwys deunydd hysbysebu), arwydd sy'n sefyll ar ei draed ei hun sy'n cyhoeddi presenoldeb gwerthwr ceir, arwydd "Ar Werth", baner, neu falwn a ddefnyddir i hysbysebu - neu, mae'n debyg, pelydryn o olau o chwilolau.
- 14.16 Felly, mae'r diffiniad yn y Ddeddf yn ceisio crynhoi cysyniad tebyg i'r canlynol –

---

<sup>7</sup> DCGTh 1990, a 336, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac lawndal 1991, a 24.

<sup>8</sup> *Butler v CS Derby* [2006] 1 WLR 1346, trwy Sullivan J yn [18].

<sup>9</sup> *CB Casnewydd v Ysgrifennydd Gwladol; CB Great Yarmouth v Ysgrifennydd Gwladol* (1997) 74 P&CR 147 ar dud. 155. Roedd yr achos yng Nghasnewydd (Cymru) yn ymwneud â phelydryn diffoecs o olau yn ymestyn i'r awyr; roedd yr achos yn Great Yarmouth yn ymwneud â chwilolau wedi'i leoli mewn arcêd ddiddanu, yn cynhyrchu pelydryn oedd yn symud ar draws waelod y cymylau i ffurfio patrwm "blodyn y gofod".

Mae "hysbyseb" yn golygu unrhyw arwydd, hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, palis, adlen, cysgodlen, neu wrthrych neu adeiledd arall, pa un ai a yw'n oleuedig neu beidio, sydd wedi'i

(a) gynllunio, neu wedi'i addasu at ddiben cyhoeddiad, cyhoedduswydd neu gyfarwyddyd, ac

(b) wedi'i ddefnyddio'n llwyr neu'n rhannol at ddiben o'r fath.

14.17 Mae'r diffiniad yn y Ddeddf hefyd yn berthnasol yn yr un modd i'r dehongliad o'r Rheoliadau.<sup>10</sup> Fodd bynnag, ceir diffiniad hefyd o "hysbyseb" yn y Rheoliadau, sydd ddim yn cynnwys cofadeiladau (yn cynnwys cofadeiladau angladdol) ac arwyddion rheilffyrdd.<sup>11</sup> Yn ychwanegol, nid yw'r diffiniad cyfatebol yn y Rheoliadau sy'n berthnasol yn Lloegr yn cynnwys hysbyslenni ac eitemau eraill a gaiff eu cario gan bobl neu anifeiliaid.

14.18 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol cynnwys yn y Bil, ynghyd â darpariaethau yn delio â hysbysebu, un diffiniad sydd ddim yn grwn o "hysbyseb", i gynnwys hanfod y diffiniad sydd yn y Ddeddf ar hyn o bryd, a'r newidiadau sydd yn y Rheoliadau ar hyn o bryd.

14.19 Yn olaf, mae'r diffiniad o "hysbyseb" yn y Ddeddf yn gorffen â'r geiriau "...a chaiff cyfeiriadau at arddangos hysbysebion eu dehongli yn y fath fodd". Ac mae DCGTH 1990 a Rheoliadau 1992 ill dau yn cyfeirio mewn sawl man at "arddangos hysbysebion".

14.20 Ni chynigir unrhyw ddiffiniad ychwanegol o'r term "arddangos". Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw'n ymddangos fod hyn yn peri unrhyw broblem. Yn ychwanegol, o gofio'r nifer o wahanol fathau o hysbysebion, mae'n anhebyg y byddai unrhyw ddiffiniad o "arddangosfa" a fyddai'n neilltuo o ddefnyddiol. Rydym ni felly yn ystyried dros dro y dylai geiriau cloi y diffiniad o "hysbyseb" gael eu dileu.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-1.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylid egluro'r diffiniad o "hysbyseb" yn DCGTh 1990, a'i gynnwys yn y Bil ynghyd â darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>10</sup> Interpretation Act 1978, a 11.

<sup>11</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 2(1).

### Cwestiwn ymgynghori 14-2.

Rydym yn ystyried dros dro y gellid hepgor y cyfeiriad at "arddangos hysbysebion", sydd wedi'i gynnwys yn y diffiniad statudol o "hysbyseb" yn DCGTh 1990 ar hyn o bryd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Diffiniadau: safle ble caiff hysbysebion eu harddangos

- 14.21 Mae'r Ddeddf hefyd yn cyfeirio at y "safle" ble caiff hysbyseb ei arddangos.<sup>12</sup> Ni chaiff "safle" ei ddiffinio yn y Ddeddf; ond caiff ei ddiffinio yn y Rheoliadau fel "unrhyw dir neu adeilad, ac eithrio hysbyseb, yr arddangosir hysbyseb arno".<sup>13</sup> Ac mae adran 336 y Ddeddf yn defnyddio "tir" fel unrhyw hereditament diriaethol, yn cynnwys adeilad", ac mae "adeilad" yn cynnwys "unrhyw adeiledd neu adeilad, ac unrhyw ran o adeilad, fel y'i diffinnir yn y fath fodd".
- 14.22 Rydym yn ystyried dros dro nad oes unrhyw achos naill ai yn y Ddeddf nac yn y Rheoliadau ble na allai'r gair "tir" gael ei ddefnyddio yn lle "safle" - gan gofio fod "tir" yn cynnwys "adeilad". Ni fyddai gwneud hynny yn arwain at newid yn y gyfraith sylwedd, ond byddai'n osgoi cyflwyno term technegol gwahanol yn y Ddeddf neu'r Rheoliadau, a byddai'n arwain at eglurder a symlrwydd. Er enghraifft, mae adran 220(2)(a) DCGTH 1990 yn darparu y gall rheoliadau reoleiddio "y safleoedd ble gellir arddangos hysbysebion a'r dull o'u gosod ar y tir"; byddai hyn yn newid i "y tir ble gall hysbysebion gael eu harddangos a'r dull o'u gosod ar y tir".
- 14.23 Fel y nodwyd eisoes, mae'r term "safle" wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau presennol, gellid defnyddio "tir" yn ei le pan ddiweddarir hwy y tro nesaf. Fel arall, o ystyried ei bod bron yn anorfod y bydd rheoliadau yn diwygio'r holl is-ddeddfwriaeth berthnasol a ddaw i rym yn y Ddeddf newydd, medrai'r rheoliadau hynny ddiwygio'r amrywiol gyfeiriadau yn y Rheoliadau Hysbysebion er mwyn cyfeirio at "dir".

### Cwestiwn ymgynghori 14-3.

Cynigiwn dros dro y dylid defnyddio'r gair "tir" yn lle "safle" a "safleoedd":

- (1) yn narpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â rheoli hysbysebion; ac
- (2) yn y Rheoliadau y tro nesaf y diweddarir hwy.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

<sup>12</sup> DCGTh 1990, adrannau 220(2)(a), 221(7)(b),(8)(b), 223(1)(b), 224(1)(b).

<sup>13</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 2(1).



## Diffiniadau: y sawl sy'n arddangos hysbyseb.

- 14.24 Mae'n bwysig gwybod: pwy sy'n gyfrifol am gael cydsyniad i arddangos hysbyseb, ac am gydymffurfio ag unrhyw amodau y mae'n rhaid cadw atynt mewn perthynas â'r cydsyniad (cydsyniad tybiedig neu ddatganedig); pwy fydd yn agored i erlyniad os na fydd cydsyniad wedi'i roi am arddangosfa benodol; ac i bwy ddylid cyflwyno rhybudd dirwyn i ben os bydd yr awdurdod yn dymuno cael gwared arno.
- 14.25 Mae Adran 224(4) DCGTh 1990 yn darparu'r canlynol:
- "ystyri'r y bydd unigolyn yn arddangos hysbyseb at y dibenion hyn os:
- (a) mai ef yw perchennog neu ddeiliad y tir ble caiff yr hysbyseb ei arddangos; neu
  - (b) yw'r hysbyseb yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei achosion eraill."
- 14.26 Mae Rheoliad 2(3)(b) Rheoliadau 1992 yn darparu'r canlynol:
- Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at unigolyn sy'n arddangos hysbyseb yn cynnwys-
- (a) perchennog a deiliad y tir y caiff yr hysbyseb ei arddangos arno;
  - (b) unrhyw unigolyn y bydd ei nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei achosion eraill yn cael cyhoeddusrwydd gan yr hysbyseb; ac
  - (c) yr unigolyn sy'n mynd ati i arddangos yr hysbyseb neu sy'n cynnal yr hysbyseb a arddangosir.
- 14.27 Dylid nodi nad yw'r diffiniad yn y Rheoliadau yn gyfyngedig; ac nid yw'r trydydd categori yn cael ei grybwyll yn adran 224(4). Mae hyn yn ymddangos yn rhyfedd, oherwydd mewn sawl achos, y sawl sy'n ymgymryd ag arddangos hysbyseb - hynny yw, mewn termau confensiynol, y contractwr hysbysebu - yw'r sawl sy'n bennaf gyfrifol. Yn ôl pob tebyg, mae unigolyn o'r fath yn atebol, yn ychwanegol i'r rhai yn y ddau gategori a grybwyllir yn adran 224(4).
- 14.28 Mewn gwirionedd, ceir ychydig iawn o gyfeiriadau penodol yn y Rheoliadau at unigolyn sy'n arddangos hysbyseb<sup>14</sup>, ond mae rheoliad 27 yn darparu y "bydd unigolyn sy'n arddangos hysbyseb yn groes i'r Rheoliadau hyn yn agored yn sgil collfarn ddiannod o drosedd o dan adran 224(3) y Ddeddf i gael dirwy ...".
- 14.29 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n well cael un diffiniad - yn y ddeddfwriaeth sylfaenol - a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i ddehongli'r Rheoliadau ac i bennu pwy sy'n agored i gollfarn am arddangos hysbyseb yn anghyfreithlon. Dylai'r diffiniad hwnnw fod yn seiliedig ar y diffiniad cynhwysol sydd yn y Rheoliadau ar hyn o bryd.

---

<sup>14</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 7(2)(b),(8) (hysbysiad am gyfarwyddiadau yn cyfyngu ar gydsyniad tybiedig); rheoliad 8(2),(6) (cyflwyno rhybudd dirwyn i ben); rheoliad 27 (atebolrwydd); Dosbarth A, amod 4 (arddangos hysbysebion ar falwnau); Dosbarth 3C, amod (4), Dosbarth 8, amod (4) (categoriâu cydsyniad tybiedig).

#### Cwestiwn ymgynghori 14-4.

Cynigiwn dros dro y dylai'r diffiniad o "unigolyn sy'n arddangos hysbyseb" yn DCGTh 1990 gael ei gynnwys y y Bil ynghyd â darpariaethau eraill yn ymwneud â hysbysebu, gan gynnwys:

- (1) perchennog a a deiliad y tir y caiff yr hysbyseb ei arddangos arno;
- (2) unrhyw unigolyn y bydd ei nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei achosion eraill yn cael cyhoedduswydd gan yr hysbyseb; a'r
- (3) unigolyn sy'n ymgymryd â'r gwaith o arddangos yr hysbyseb neu sy'n cynnal yr hysbyseb a arddangosir.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

## CYDSYNIAD AR GYFER HYSBYSEBU

### Cydsyniad tybiedig

14.30 Yn ymarferol, y nodwedd fwyaf arwyddocaol o'r system o reoli hysbysebion yw'r cydsyniad tybiedig a ganiateir gan y Rheoliadau ar gyfer sawl categori o hysbysebion a bennir mewn 14 Dosbarth yn Atodlen 3 Rheoliadau 1992. Mae'r categorïau hyn wedi cael eu ehangu dros y blynyddoedd ers i'r Rheoliadau cyntaf gael eu llunio yn 1948. Gall hysbysebion sy'n cael eu harddangos â chydsyniad tybiedig gael eu dirwyn i ben gan awdurdod cynllunio trwy gyflwyno hysbysiad dirwyn i ben, a fydd yn destun apêl at Weinidogion Cymru.

14.31 Fel y nodir uchod, disgwylir y caiff y Rheoliadau sy'n berthnasol i Gymru, sydd bellach yn 25 mlwydd oed, eu diweddarau maes o law<sup>15</sup>; a bryd hynny, heb os, bydd yn briodol i adolygu'r dosbarthiadau o gydsyniad tybiedig, ac yn enwedig ystyried a ddylid cynnwys dosbarthiadau newydd sy'n cyfateb i'r rhai sydd wedi'u cyflwyno yn Lloegr yn 2007 ac wedi hynny<sup>16</sup>; neu rai eraill sy'n benodol i Gymru. Felly, rydym yn cyflwyno cynigion cyfyngedig yn unig gyfer diwygio technegol mewn perthynas â'r cydsyniad tybiedig.<sup>17</sup>

### Rhybuddion dirwyn i ben

14.32 Os caiff hysbyseb ei arddangos â budd cydsyniad tybiedig, efallai bydd yr awdurdod cynllunio yn ceisio dirwyn hynny i ben trwy gyflwyno rhybudd dirwyn i ben, yn mynnu

---

<sup>15</sup> Gweler **paragraffau 14.8 - 14.10**.

<sup>16</sup> Yn cynnwys y rhai yn OSau 2007 Rhif 783 (hysbysebion ar falwnau a'r tu allan i giosgau ffôn – Dosbarthiadau newydd 15 ac 16), 2011 Rhif 2057 (hysbysebion wrth fannau gwefru cerbydau trydan – Dosbarth newydd 17) a 2012 Rhif 2372 (baneri - Dosbarth 7 a ddiwygiwyd).

<sup>17</sup> Mae eithriadau yn berthnasol i hysbysebion sydd yn cael budd o ganiatâd cynllunio, (**cwestiwn ymgynghori 14-7**), hysbysebion ar gerbydau (**cwestiwn ymgynghori 14-8**) ac hysbysebion ar safleoedd a ddefnyddid ar gyfer hysbysebu am fwy na 10 mlynedd (**cwestiwn ymgynghori 14-10**).

fod arddangosfa benodol yn cael ei thynnu, neu na ddylid parhau i ddefnyddio'r safle ar gyfer arddangosfa o'r fath.

- 14.33 Nid oes unrhyw ofyniad yn Rheoliadau 1992 i sicrhau bod hysbysiad terfynu yn cynnwys unrhyw ddatganiad ynghylch yr hawl i apelio yn ei erbyn. Gellir cyferbynnu hyn â'r gofyniad yn adran 173(10) DCGTH 1990 y bydd unrhyw rybudd gorfodi yn cael ei gyflwyno ynghyd â nodyn eglurhaol yn rhoi gwybodaeth benodol ynghylch yr hawl i apelio o dan adran 174.
- 14.34 Fe wnaeth Yr Uchel Lys, yn *Swishbrook Ltd v Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd*,<sup>18</sup> ystyried fod diffyg gofyniad o'r fath (yn Rheoliadau 1989) yn "anarferol", ond fe wnaeth ddatgan yn glir na ddylid awgrymu hynny. Ni chymerwyd y cyfle i gynnwys gofyniad o'r fath pan gafodd y Rheoliadau eu hatgyfnerthu yn 1992 ac (yn Lloegr) yn 2007; serch hynny, cafodd nodyn i'r perwyl hwnnw ei gynnwys yn y cynseiliau yn Atodiad F yn yr Atodiad i Gylchlythyr 03/2007 DCLG.<sup>19</sup>
- 14.35 Rydym ni'n ystyried dros dro y dylid unioni'r hepgoriad hwn y tro nesaf y caiff y rheoliadau eu diweddarau.
- 14.36 Yn ail, rhaid i rybudd dirwyn i ben bennu'r cyfnod y daw i rym ar ei ddiwedd.<sup>20</sup> Mae hynny'n hanfodol, yn rhannol oherwydd bydd rhaid i unrhyw apêl at Weinidogion Cymru yn erbyn y rhybudd gael ei gyflwyno cyn iddo ddod i rym, ac yn rhannol oherwydd, heb apêl o'r fath, bydd unrhyw hysbyseb a arddangosir yn anawdurdodedig, ac felly bydd y sawl sy'n gyfrifol yn agored i gael eu herlyn.
- 14.37 Rhaid i'r cyfnod fod yn wyth wythnos o leiaf wedi'r dyddiad pan gyflwynir y rhybudd.<sup>21</sup> Fodd bynnag, o gofio mai'r rhybudd ei hun, ac nid copi ohono, a gaiff ei gyflwyno i bob un o'r derbynyddion amrywiol, ac o gofio y bydd yn dod i rym (os na fydd apêl) ar ddiwedd y cyfnod a nodir ynddo, rhaid i'r cyfnodau a bennir ym mhob un o'r rhybuddion y byddant yn dod i rym ar eu diwedd gael eu cyfrifo er mwyn sicrhau y byddant yn dod i ben ar yr un pryd. Fel arall, os bydd gwahanol dderbynyddion rhybudd sy'n ymwneud â'r un hysbyseb yn cael gwybod (i bob pwrpas) y daw i rym ar sawl dyddiad gwahanol, gellir dyfarnu fod y rhybudd yn ddirymedd (gweler isod), ac yna, gall pawb fydd wedi cael y rhybudd ei anwybyddu heb unrhyw gosb.
- 14.38 Mae'r sefyllfa eithaf annerbyniol hon yn codi oherwydd bod geiriad y rheoliad hwn yn dilyn y côd cyn 1981 ynghylch gorfodi rheoliadau cynllunio prif ffrwd. Cafodd effaith hynny ei ystyried gan y Llys Adrannol yn *Bambury v CBLI Hounslow*,<sup>22</sup> achos lle cafodd rhybuddion gorfodi ynghylch un toriad eu "cyflwyno" i sawl parti cysylltiedig ar wahanol ddyddiadau, ac roedd pob un yn datgan y byddai'n dod i rym o fewn cyfnod penodol wedi'r dyddiad "cyflwyno". O ganlyniad, canfu'r llys fod pob rhybudd yn

---

<sup>18</sup> [1989] JPL 137, cynhaliwyd yn y Llys Apêl yn [1990] JPL 824.

<sup>19</sup> Nid oes unrhyw gyfarwyddyd manwl cyfatebol yn weithredol yng Nghymru (mae TAN 7 yn llawer mwy cryno).

<sup>20</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 8(3).

<sup>21</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 8(4).

<sup>22</sup> [1995] 3 PLR 95; (1995) 71 P&CR 553.

ddirymedd. Fodd bynnag, ni wnaeth y Llys yn *Nahlis v Ysgrifennydd Gwladol*<sup>23</sup> ddilyn yr ymagwedd honno mewn achos lle'r oedd rhybuddion dirwyn i ben o dan reoliad 8 Rheoliadau 1992 wedi cael eu cyflwyno i naw parti cysylltiedig gwahanol, rhai ar ddyddiadau gwahanol, oherwydd ystyriai nad oedd unrhyw ragfarnu wedi cael ei achosi. Ni chafwyd unrhyw eglurhad gan y Llys yn *Nahlis* am wyro oddi wrth yr ymagwedd yn *Bambury*.

- 14.39 Mae'r darpariaethau presennol ynghylch cyflwyno rhybuddion gorfodi ynghylch cynllunio bellach yn rhagweld "codi" un rhybudd gorfodi, a ddaw i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo, a chyflwynir copïau o hynny fel y bo'n briodol.<sup>24</sup> Yn y fath fodd, nid oes unrhyw ddyddiad o ran y dyddiad y bydd rhaid cydymffurfio â'r rhybudd. Yn anffodus, ni fabwysiadwyd yr un ymagwedd yn Rheoliadau 1992 na 2007. Rydym ni'n ystyried dros dro y dylid gwneud newidiadau addas y tro nesaf y caiff y rheoliadau yng Nghymru eu diweddarau, oherwydd gall anghysonderau o ran cyflwyno rhybuddion achosi ansicrwydd ar brydiau, a gellir dadlau eu bod yn achosi rhagfarnu.

### Cwestiwn ymgynghori 14-5.

**Cynigiwn dros dro y dylai rhybudd dirwyn i ben o dan y rheoliadau hysbysebion:**

- (1) **gynnwys hysbysiad ynghylch hawliau unrhyw dderbynydd i apelio yn ei erbyn;**
- (2) **ddod i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodol wedi dyddiad cyflwyno'r rhybudd); a**
- (3) **gael ei "godi" (yn hytrach na'i "gyflwyno" fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), a dylai copi gael ei gyflwyno i bawb y pennir eu bod yn arddangos yr hysbyseb sydd dan sylw.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Cydsyniad datganedig

- 14.40 Os na fydd hysbyseb yn destun cydsyniad tybiedig, bydd arno angen cydsyniad datganedig. Mae'r manylion ynghylch cyflwyno a phennu ceisiadau am gydsyniad datganedig - ac apeliadau cysylltiedig - ar gael yn bennaf yn y Rheoliadau, felly ni chânt eu hystyried ymhellach yma.
- 14.41 Nid yw'r dull statudol sy'n llywodraethu rheoliadau creu hysbysebion yn hollol dderbyniol. Ar hyn o bryd, mae DCGTh 1990 yn darparu fel a ganlyn:

<sup>23</sup> [1995] 3 PLR 95; (1995) 71 P&CR 553.

<sup>24</sup> DCGTh 1990, a 172(5), (6).

- (1) yn rhinwedd adran 220(2)(a), gall y rheoliadau reoleiddio dimensiynau, golwg a lleoliad yr hysbysebion y gellir eu harddangos, y safleoedd ble gellir arddangos hysbysebion, a'r dull o'u gosod ar y tir;
- (2) yn rhinwedd adran 220(2)(b), gall fod yn ofynnol cael cydsyniad yr awdurdod cynllunio lleol i arddangos hysbysebion, neu ddsbarth penodol o hysbysebion;
- (3) yn rhinwedd 220(2)(c), gallant weithredu, mewn perthynas ag unrhyw gydsyniad ac i geisiadau am gydsyniad o'r fath, unrhyw ddarpariaethau a grybwyllir yn adran 220(3), "yn ddibynnol ar unrhyw addasiadau a newidiadau y gellir eu pennu yn y rheoliadau"; ac
- (4) yn rhinwedd adran 220(2A), gallant wneud darpariaeth ynghylch y ffurf a'r dull o wneud cais am gydsyniad; y materion y dylid eu cynnwys yn y cais; a'r dogfennau neu ddeunyddiau eraill y bydd rhaid eu cynnwys gyda'r cais.

- 14.42 Y darpariaethau a grybwyllir yn adran 220(3) yw rhai o'r darpariaethau yn Rhan 3 DCGTh 1990 sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio, a'r rhai yn Adran 6 ynghylch rhybuddion prynu yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio. Mae'n nodedig fod 220(2)(c) yn cyfyngu gwneuthurwr y rheoliadau i weithredu'r darpariaethau hynny yn ddibynnol ar addasiadau y bydd rhaid eu nodi'n benodol yn y Rheoliadau.
- 14.43 Mae hyn yn cyferbynnu ag adran 220(2A), sy'n creu grym cyffredinol i wneud darpariaeth am y materion y cyfeirir atynt, heb unrhyw angen i newidiadau i'r Ddeddf gael eu hamlinellu yn y Rheoliadau. Mae Adran 220(3) yn deillio o newid a wnaed i DCGTh 1990 gan adran 42(4) DCPG 2004.
- 14.44 Mae'r rheoliadau mewn gwirionedd yn darparu côd rheoli sydd fwy neu lai yn hunan-gynhwysol mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad datganedig, â darpariaethau ynghylch ceisiadau, penderfyniadau ac apeliadau - yn cyfateb yn fras iawn i'r rhai yn y Ddeddf sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ac apeliadau. Mae'n amlwg mewn rhai achosion - grym yr awdurdod cynllunio i wrthod ceisiadau, apeliadau yn erbyn gwrthod cydsyniad, ac apeliadau yn erbyn rhybuddion dirwyn i ben - amlinellir y newidiadau mewn Rhannau o Atodlen 4 y Rheoliadau; ac yn yr achos cyntaf a'r ail, ond nid y trydydd, mae'r darpariaethau sydd wedi'u newid yn y fath fodd wedi'u hamlinellu mewn Rhannau eraill o'r Atodlen honno. Nid yw hynny'n gyfleus iawn i ddefnyddwyr y Rheoliadau. Yn achos darpariaethau eraill ynghylch cydsyniad, mae'r Rheoliadau yn eu hamlinellu a dim arall, ac ni wneir unrhyw ymgais i'w cysylltu â darpariaethau Rhan 3 y Ddeddf y maent yn deillio ohonynt.
- 14.45 Yn ychwanegol, fel y gellid disgwyl, mae llawer o ddarpariaethau ynghylch caniatâd cynllunio yn Rhan 3 DCGTh 1990, sydd wedi'u crybwyll yn 220(3), sydd ddim, mewn gwirionedd, wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau, â newidiadau neu beidio.
- 14.46 Rydym yn ystyried y byddai nodi natur y darpariaethau y gellid eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn ddull symlach, fel sydd wedi'i wneud yn adran 220(2A).<sup>25</sup> Byddai hynny'n golygu fod y darpariaethau galluogi yn y Ddeddf ychydig yn hirach, ond yn

<sup>25</sup> A hefyd yn y darpariaethau newydd sy'n llywodraethu cynnwys rheoliadau gwarchod coed (DCGTh 1990, a 202A i 202G, mewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008); gweler **paragraff 15.8**.

gliriach; a byddai'r Rheoliadau yn llawer cliriach, ac yn fwy cryno. Ac mae angen i'r darpariaethau galluogi hynny gyfeirio'n unig at y mathau o ddarpariaethau sydd, mewn gwirionedd, wedi cael eu cynnwys yn y rheoliadau a wnaed ers 1948 - yn benodol ynghylch:

- (1) mesuriadau, golwg a safle'r hysbysebion y gellir eu harddangos, a'r dull y maent i'w gosod ar y tir;
- (2) gwahardd arddangos hysbysebion neu defnydd tir a gaiff ei defnyddio i arddangos hysbysebion heb gydsyniad tybiedig neu ddatganedig;
- (3) terfyniad cydsyniad tybiedig;
- (4) llunio a phennu ceisiadau am gydsyniad datganedig, a diddymu neu newid cydsyniad;
- (5) apeliadau yn erbyn gorchmynion i derfyn a phenderfyniadau ynghylch ceisiadau am gydsyniad datganedig;
- (6) ardaloedd lle ceir rheolaeth arbennig dros hysbysebion; a
- (7) darpariaethau ôl-ddilynol ac atodol.

14.47 Yn benodol, nodir fod y cyntaf o'r rhain wedi'i eirio er mwyn datgan yn glir mai effaith cydsynio yw awdurdodi naill ai arddangos hysbyseb penodol neu'r defnydd o dir i arddangos hysbysebion yn gyffredinol. Byddai hynny'n adleisio rheoliad 5 Rheoliadau 2007 sy'n gymwys yn Lloegr, sydd heb unrhyw reoliad cyfatebol yn Rheoliadau 1992, ond gellir dadlau fod hynny'n ddigon pwysig i gyfiawnhau ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth beth bynnag.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-6.**

**Cynigiwn dros dro y dylid cyflwyno darpariaeth yn lle adran 220(2), (2A) a (3), sy'n galluogi i reoliadau gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer y canlynol:**

- (1) mesuriadau, golwg a safle'r hysbysebion y gellir eu harddangos, a'r dull y maent i'w gosod ar y tir;**
- (2) gwahardd arddangos hysbysebion neu defnydd tir a gaiff ei defnyddio i arddangos hysbysebion heb gydsyniad tybiedig neu ddatganedig;**
- (3) terfyniad cydsyniad tybiedig;**
- (4) gwneud a phenderfynu ceisiadau am gydsyniad datganedig, a dirymu neu newid cydsyniad;**
- (5) apeliadau yn erbyn rhybuddion dirwyn i ben a phenderfyniadau ynghylch ceisiadau am gydsyniad datganedig;**
- (6) meysydd o reolaeth arbennig dros hysbysebion; a**

## (7) darpariaethau ôl-ddilynol ac atodol.

### Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### Y cynllun datblygu

- 14.48 Mae llawer o awdurdodau cynllunio yn cynnwys polisiâu ynghylch hysbysebu yn eu cynllun lleol. Ac mae llawer o awdurdodau yn cyfeirio at y cynllun lleol mewn penderfyniadau ynghylch cydsyniad datganedig a phenderfyniadau i gymryd camau terfynu i ddi-ddymu hysbysebion a gaiff eu harddangos â chaniatâd tybiedig. Mae hynny er gwaethaf y ffaith, yng Nghymru o leiaf, nad yw'r cynllun datblygu yn uniongyrchol berthnasol i benderfyniadau o'r fath (ac eithrio yn rhinwedd egwyddorion cyfraith gyhoeddus gyffredinol).<sup>26</sup> Yn Lloegr, mae hyn wedi cael ei gydnabod gan Reoliadau 2007 trwy ddarparu y dylid ystyried y cynllun datblygu<sup>27</sup> – pa un ai a ganiateir hynny neu beidio o dan y darpariaethau galluogi yn adran 220 fel y maent ar hyn o bryd.
- 14.49 Un canlyniad o ehangu'r ddyletswydd i fod yn ystyriol o'r cynllun datblygu mewn perthynas ag ymarfer unrhyw swyddogaeth o dan y DCGTh 1990, fel y cynigiwyd yn gynharach,<sup>28</sup> fyddai sicrhau y byddai hynny'n gymwys yn awtomatig i arfer unrhyw swyddogaeth (naill ai o dan y Ddeddf neu Reoliadau 1992) ynghylch rheoli hysbysebion, heb yr angen am unrhyw ddarpariaeth ddatganedig yn y Rheoliadau.

#### Gorgyffwrdd â chaniatâd cynllunio

- 14.50 Fel y nodwyd uchod, tybir bod caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer unrhyw hysbyseb sydd yn ffurfio "datblygiad".<sup>29</sup>
- 14.51 Yn y Papur Cwmpasu, fe wnaethom ni nodi fod Deddf Datblygiadau 2000 Gweriniaeth Iwerddon yn nodi fod arddangos hysbysebion yn ddatblygiad, ac mae angen caniatâd cynllunio i wneud hynny yno. Mae hyn yn caniatáu i gydsyniad gael ei roi gan Reoliadau Cynllunio a Datblygiadau 2001 (yr hyn sy'n cyfateb i GPDO 2015) ar gyfer categorïau penodol o hysbysebion, yn union fel unrhyw ddsbarth arall o "ddatblygiad sydd wedi'i eithrio" (sy'n cyfateb i "ddatblygiad a ganiateir" yng Nghymru.
- 14.53 20 ganlyniad i'r categorïau hysbysebion sydd wedi cael eu diffinio fel datblygiad sydd wedi'i eithrio, mae'r drefn reoli yn Iwerddon i bob pwrpas yn cyfateb i'r drefn fel yr oedd hi yng Nghymru cyn 1969. Ond y gwahaniaeth allweddol yw'r ffaith fod hysbysebu yn dod yn bendant o dan reoliadau cynllunio prif ffrwd, yn hytrach na bod yn destun côd statudol ar wahân fel yn y DU.

<sup>26</sup> Gweler **paragraffau 5.28 - 5.32**.

<sup>27</sup> TCP (Control of Advertisements) (England) Regulations 2007, reg 3(1)(a).

<sup>28</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 5-1**.

<sup>29</sup> DCGTH 1990 a 222; gweler **para 14.5**.

- 14.53 Byddai modd cyflwyno system debyg yng Nghymru, fel y byddai'r diffiniad o "ddatblygiad" yn cael ei ehangu i gynnwys arddangos hysbysebion, y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer o dan y DCGTh 1990; ond i ddarparu fod caniatâd yn cael ei roi gan y GPDO ar gyfer categorïau o hysbysebion sy'n debyg i'r rhai sydd yn Rheoliadau 1992 ar hyn o bryd. Byddai hynny yn eithaf tebyg i'r ymagwedd rydym ni wedi'i chynnig ynghylch gwaith ar adeiladau rhestredig.<sup>30</sup>
- 14.54 Fodd bynnag, mae'n ofynnol i lawer o brosiectau adeiladu gael caniatâd adeiladu a chaniatâd cynllunio, ond nid oes llawer o hysbysebion a arddangosir y mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio a chydysniad o dan y Rheoliadau ar eu cyfer. Yn achos y rhai y mae arnynt angen hynny - megis palisau posteri wrth fin y ffordd - tybir yn awtomatig eu bod wedi cael caniatâd cynllunio os ydynt yn elwa o gydsyniad tybiedig neu ddatganedig dan y Rheoliadau. Mae hynny'n golygu y gwneir penderfyniad i ganiatáu neu atal arddangosfa arfaethedig mewn ymateb i gais am gydsyniad datganedig (pan fo hynny'n ofynnol), nid cais cynllunio. Mae hynny'n gwneud synnwyr, oherwydd mae'r materion sy'n ymwneud ag asesu cynnig o'r fath yn debygol o fod yn hollol benodol i safle, heb godi unrhyw faterion cynllunio ehangach.
- 14.55 Mewn rhai achosion, bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer prosiect adeiladu sydd o reidrwydd yn cynnwys elfen o hysbysebu - er enghraifft, blaen siop newydd sy'n cynnwys arwydd ffascia. Byddai'n ddefnyddiol osgoi'r angen i wneud cais am ddau fath o gydsyniad trwy gyflwyno dosbarth newydd o gydsyniad tybiedig, "arddangos hysbyseb sy'n rhan o adeilad neu weithgarwch arall y mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar ei gyfer". Gellid ystyried hynny y tro nesaf y caiff y Rheoliadau eu diweddarau.
- 14.56 Ac eithrio hynny, nid ydym yn cynnig newid y gyfraith er mwyn dod ag arddangos hysbysebion yng Nghymru o fewn cwmpas datblygiad y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-7.**

**Cynigiwn dros dro y dylid caniatáu cydsyniad tybiedig o dan y Rheoliadau Hysbysebion i arddangosfa o hysbysebion sy'n elwa o ganiatâd cynllunio.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Hysbysebion ar gerbydau ac ynddynt.**

- 14.57 Un categori arddangos sy'n dal i beri problemau yw hysbysebion ar gerbydau ac ynddynt. Ar hyn o bryd, nid oes angen cydsyniad i arddangos hysbyseb ar "safle", sy'n golygu unrhyw dir neu adeilad ble caiff ei arddangos.<sup>31</sup> Ni fyddai hynny'n cynnwys hysbyseb a arddangosir ar gerbyd. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn diddymu unrhyw amheuan ynghylch y mater trwy ddarparu nad oes angen cydsyniad i arddangos hysbyseb "ar neu mewn cerbyd" - boed hynny yn ddatganedig neu'n

<sup>30</sup> Gweler *Papur Cwmpasu*, Pennod 6; a **Phennod 13** y papur hwn.

<sup>31</sup> TCP (Control of Advertisements) Regulations 1992, regs 3, 2.



dybiedig - ar yr amod y caiff y cerbyd "ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol", ac nid ei ddefnyddio'n bennaf i arddangos hysbysebion.<sup>32</sup>

- 14.58 Bwriad hyn yw caniatáu hysbysebion ar ffurf posteri papur y tu allan neu du mewn i fysys neu dacsis, ac yn wir, paentio neu drin bws neu dacsio mewn modd arall er mwyn creu yr hyn sydd mewn gwirionedd yn un hysbyseb mawr. Mae hefyd yn caniatáu i enw'r gweithredwr a gwaith celf hyrwyddol arall gael eu harddangos ar gerbydau masnachol yn gyffredinol; yn ddealladwy, bydd llawer o gwmnïau yn elwa o'r cyfle i gael cyhoedduswydd am ddim a ddarperir gan ochrau eu lorïau a'u faniau.
- 14.59 Fodd bynnag, mae'r un ddarpariaeth hefyd yn caniatáu hysbysebu ar gerbydau a threlars sefydlog sydd wedi'u parcio mewn caeau wrth ymyl priffyrdd a rheilffyrdd, a all fod yn niweidiol i amwynder mewn ardaloedd gwledig, ar yr amod y gellir gyrru neu dynnu'r cerbyd neu'r trelar ar y tir ac oddi arno. Cadarnhawyd hyn gan y Llys Adrannol yn *CBM Calderdale v Windy Bank Dairy Farm Ltd a Quinn*.<sup>33</sup>
- 14.60 Un dull o osgoi hysbysebion hyll ar gerbydau wedi'u parcio fyddai addasu'r Rheoliadau er mwyn darparu'r canlynol:
- (1) nid oes angen unrhyw gydsyniad (datganedig na thybiedig) i arddangos hysbyseb o fewn cerbyd nac ar du allan i gerbyd ar briffordd gyhoeddus;
  - (2) caniateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbyseb ar gerbyd nad yw ar briffordd, cyhyd â bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol ac na chaiff ei ddefnyddio yn bennaf i arddangos hysbysebion.
- 14.61 Byddai hynny'n golygu, yn y mwyafrif helaeth o achosion, y gellid parhau i arddangos hysbysebion o'r fath heb fod angen gwneud cais i'r awdurdod cynllunio i gael union gydsyniad o dan y Rheoliadau. Fodd bynnag, gallai awdurdod cynllunio arwyddo rhybudd dirwyn i ben mewn perthynas â'r defnydd o safle penodol ar gyfer hysbysebu o'r fath, a byddai hynny'n dirwyn yr arddangosfa i ben (yn amodol ar hawl i apelio i Weinidogion Cymru).<sup>34</sup>
- 14.62 Pe bai problem barhaus mewn perthynas â safle, gallai'r awdurdod ofyn am gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru yn atal y cydsyniad tybiedig yn llwyr. Gallai cyfarwyddyd o'r fath fod yn berthnasol i safle penodol yn unig, neu i lecyn mwy o dir - gallai, er enghraifft, fod yn berthnasol i gaeau wrth ddwy ochr priffordd neu reilffordd sy'n rhedeg trwy barc cenedlaethol. Byddai'n rhaid rhoi cyhoedduswydd iddo ar ffurf drafft, a byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried gwrthwynebiadau cyn cadarnhau hynny; ond byddai'n galluogi i awdurdod reoli'r broblem.<sup>35</sup>
- 14.63 Rydym yn ystyried dros dro y byddai hyn yn newid gwerth chweil i'w gyflwyno y tro nesaf y caiff y rheoliadau eu diweddarau. Yn amlwg, byddai llunio rhybudd dirwyn i

---

<sup>32</sup> TCP (Control of Advertisements) Regulations 1992, Sched 2, Class C.

<sup>33</sup> [2010] EWHC 2929 (Admin), [2011] JPL 754.

<sup>34</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 8.

<sup>35</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 7.

ben neu geisio cyfarwyddyd mewn achos penodol yn arwain at wario adnoddau gan yr awdurdod, ond byddai'n fater i ddisgresiwn yr awdurdod ym mhob achos.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-8.**

**Cynigiwn dros dro y dylai arddangos hysbysebion ar gerbydau a threlars sefydlog gael ei reoli trwy addasu'r Rheoliadau er mwyn darparu'r canlynol:**

- (1) ni fydd angen cydsyniad (datganedig na thybiedig) i arddangos hysbyseb o fewn cerbyd, nac ar du allan cerbyd ar briffordd gyhoeddus;**
- (2) caniateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbyseb ar gerbyd nad yw ar briffordd, os caiff y cerbyd ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol ac na chaiff ei defnyddio'n bennaf i arddangos hysbysebion.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Yr angen am gydsyniad**

- 14.64 Gall ansicrwydd sylweddol fodoli ynghylch yr angen am gydsyniad ar gyfer arddangosfa benodol o hysbysebion, ac yn benodol, ynghylch a yw'n dod o dan un neu ragor o'r dosbarthiadau sy'n elwa o gydsyniad tybiedig. Bydd hyn yn deillio i raddau helaeth o ganlyniad i natur hysbysebu modern sy'n newid yn gyson, sy'n golygu na fydd hi'n eglur bob amser a fydd mathau newydd o arddangos o fewn dosbarth o'r fath.
- 14.65 Mewn rhai achosion, gall arddangosfa o hysbysebion fod yn ddatblygiad, a thybir fod caniatâd cynllunio wedi'i roi i hynny gan adran 222 DCGTh 1990 ble bydd yn elwa o gydsyniad o dan y Rheoliadau<sup>36</sup>. Felly, mae'r angen am ganiatâd cynllunio yn dibynnu ar yr angen am gydsyniad o dan y Rheoliadau; ac mae'n caniatáu i hysbysebwr ddiddymu unrhyw amheuan ynghylch y mater trwy ymgeisio am dystysgrif cyfreithlondeb - tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli (CLEUD) pan fydd yr arddangosfa eisoes wedi cychwyn neu dystysgrif cyfreithlondebdefnydd neu ddatblygiad arfaethedig (CLOPUD) pan na fydd wedi cychwyn.<sup>37</sup> Yn ymarferol, nid yw rhai awdurdodau yn awyddus i dderbyn ceisiadau o'r fath; ac nid yw pob arddangosfa yn gyfystyr â datblygiad o reidrwydd.
- 14.66 Wrth gwrs, gellir gofyn i awdurdod am farn anffurfiol. Fodd bynnag, ni fydd barn o'r fath o reidrwydd yn ei rwymo os bydd achosion gorfodi dilynol, sy'n anffodus iawn o gofio fod arddangos hysbysebion heb gydsyniad yn dramgwydd droseddol.
- 14.67 Mae'r Llys Adrannol wedi dal ei bod yn gamddefnydd o broses i awdurdod cynllunio ddwyn, neu i barhau, erlyniad lle mae hysbysebwr wedi gweithredu ar sicrwydd gan ei swyddogion bod dim angen cydsyniad ar gyfer yr arddangosiad dan sylw.<sup>38</sup> Fodd

<sup>36</sup> Gweler **para 14.5**.

<sup>37</sup> Gweler **paragraffau 7.83 i 7.97**.

<sup>38</sup> *Postermobile v CBLI Brent*, The Times, 8 Rhagfyr 1997.

bynnag, mae hefyd, yn dilyn hynny, wedi dal nad yw o anghenraid yn annheg i awdurdod, gan sylweddoli ei fod wedi gwneud camgymeriad yn y gorffennol, i geisio ei gywiro.<sup>39</sup> Felly nid oed modd dibynnu ar y naill benderfyniad na'r llall yn hollol ddiogel. Sut bynnag, dylai fod yn bosibl i hysbysebwr geisio am ddyfarniad diffiniol heb orfod disgwyl erlyniad.

- 14.68 Mewn egwyddor, gellid ymgeisio am ddatganiad gan yr Uchel Lys ynghylch yr angen am gydsyniad, ond mae'r Llys wedi datgan yn glir nad yw'n croesawu ceisiadau o'r fath.<sup>40</sup>
- 14.69 Felly, rydym ni'n ystyried dros dro y byddai'n symlach cael mecanwaith, tebyg i'r un sy'n llywodraethu ceisiadau am CLEUD a CLOPUD, y gall unrhyw un ei ddefnyddio i geisio penderfyniad rhwymol ynghylch arddangosfa o hysbysebion sy'n bodoli neu un arfaethfig - hynny yw, ynghylch a yw'n gyfystyr â (neu, pe câi ei weithredu, a fyddai'n gyfystyr â) thramgwydd o dan adran 224 DCGTH 1990. Pe rhoddid dystysgrif o'r fath, byddai'n atal yr awdurdod rhag mynd ati i erlyn.
- 14.70 Fodd bynnag, er y byddai cais am dystysgrif yn cynorthwyo'r ymgeisydd, byddai'n weithdrefn newydd i'w gweithredu gan yr awdurdod. Nid yw'n eglur sawl cais allai fod mewn gwirionedd, neu a fyddai'r baich o'u prosesu yn fwy neu'n llai na'r budd a godai o gael ffordd hawdd o gael sicrwydd. Byddem yn gwerthfarwogi barn ymgynghoreion ar hyn.
- 14.71 Mae'n debyg y byddai'n well cynnwys gweithdrefn ceisiadau o'r fath yn y Rheoliadau y tro nesaf y byddir yn eu diweddarau; ond byddai angen addasu'r darpariaethau galluogol yn y Bil yn unol â hynny.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-9.**

**Cynigiwn dros dro y:**

- (1) dylid cyflwyno darpariaeth yn y Rheoliadau Hysbysebion i ganiatáu i dystysgrif gyfreithlondeb gael ei rhoi mewn perthynas ag arddangos hysbysebion; a**
- (2) dylai darpariaeth alluogol gael ei chynnwys yn y Bil, yn unol â'r dull a awgrymir yng nghwestiwn ymgynghori 14-3.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno? A beth fyddai goblygiadau tebygol y cynnig hwn ar adnoddau?**

<sup>39</sup> *R (CS Westminster) v National Car Parks* [2002] 21 Chwefror, ni adroddwyd arno.

<sup>40</sup> *Chambers v Guildford BC* [2008] JPL 1459, QB.

## TORRI RHEOLAETH HYSBYSEBION

14.72 Yn ymarferol, mae llawer o arwyddion a hysbysebion yn anawdurdodedig; ond mewn gwirionedd, nid yw'r mwyafrif yn peri problemau. Felly, ceir tri mecanwaith i ddelio ag arddangosfeydd anawdurdodedig:

- (1) canateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbysebion ar safleoedd sydd wedi cael eu defnyddio i hysbysebu, â chydsyniad neu heb hynny, ers blynyddoedd lawer;
- (2) mae gan awdurdodau cynllunio rywfaint o rymoedd i dynnu arddangosfeydd anawdurdodedig; a
- (3) gallant erlyn y sawl sy'n gyfrifol.

Byddwn yn ystyried pob un yn ei dro.

### Cydsyniad tybiedig

14.73 Caniateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbysebion ar safleoedd sydd wedi'u defnyddio i hysbysebu, â chydsyniad neu heb hynny, ers blynyddoedd lawer (ar hyn o bryd yn rhinwedd Dosbarth 13 Atodlen 3 Rheoliadau 1992). Mae'r ddarpariaeth hon yn ddefnyddiol, oherwydd bydd yn rheoleiddio llawer o arddangosfeydd ar ôl i'r awdurdod cynllunio gael cyfle i weithredu. Ac mae'r posibilrwydd o gamau dirwyn i ben yn caniatáu i awdurdod gadw o leiaf rhywfaint o reolaeth mewn perthynas ag arddangosfeydd penodol sydd bellach yn cael eu hystyried yn niweidiol i amwynder neu ddiogelwch - yn enwedig pan fydd cymeriad ardal yn newid.

14.74 Yng Nghymru, mae Dosbarth 13 yn cynnwys hysbysebion sy'n cael eu harddangos ar safleoedd sydd wedi cael eu defnyddio i hysbysebu ers 1 Ebrill 1974.<sup>41</sup> Mae'r ddarpariaeth gyfatebol yn Lloegr yn awdurdodi hysbysebion ar safleoedd sy'n cael eu defnyddio ers deng mlynedd.<sup>42</sup> Wrth i 1974 fynd yn rhan o hanes yn raddol, daw'n gynyddol anodd i wybod yn sicr pryd cafodd safle ei ddefnyddio am y tro cyntaf i hysbysebu; a byddai'r un sefyllfa yn digwydd maes o law pe newidid y dyddiad am un mwy diweddar. Yn gyffredinol, mae'r cyfnod treigl deng mlynedd yn Lloegr yn ymddangos yn well; ac rydym ni'n ystyried dros dro y dylai hynny gael ei fabwysiadu yng Nghymru y tro nesaf y caiff y Rheoliadau eu haddasu neu eu hailosod.

### Cwestiwn ymgynghori 14-10.

**Cynigiwn dros dro y dylai'r hyn sydd bellach yn Ddosbarth 13 yn Atodlen 3 Rheoliadau 1992 gael ei addasu i ddarparu y caniateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbysebion ar safle sy'n cael ei ddefnyddio i'r diben hwnnw ers deng mlynedd, yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddyddiad sefydlog (1 Ebrill 1974 ar hyn o bryd).**

<sup>41</sup> Rheoliadau 1992, Atodlen 3, Dosbarth 13. Efallai y dewiswyd y dyddiad hwnnw oherwydd dyna pryd ddaeth yr awdurdodau lleol newydd i rym (yng Nghymru a Lloegr) o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

<sup>42</sup> Rheoliadau 2007, Atodlen 3, Dosbarth 13.

## Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### Tynnu hysbysebion

- 14.75 Yn y rhan fwyaf o achosion ble caiff hysbysebion eu harddangos heb gydsyniad, prif ystyriaeth yr awdurdod cynllunio - ar ran y gymuned leol - yw tynnu'r arddangosfa sy'n tramgwyddo, nid cosbi'r sawl sy'n gyfrifol. Yn ychwanegol, mae llawer o arddangosfeydd yn anawdurdodedig, sydd o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith fod arddangos hysbysebion yn weddol syml, a gall hynny arwain at incwm sylweddol i hysbysebwr, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.<sup>43</sup> Oherwydd y rheswm hwnnw, bydd awdurdodau yn defnyddio eu grymoedd i weithredu'n uniongyrchol yn fwy mynych mewn cysylltiad â hysbysebion anawdurdodedig nag y byddant mewn cysylltiad â mathau eraill o weithgarwch anawdurdodedig.
- 14.76 Mae DCGTh 1990 (yn union fel ei rhagflaenwyr) yn darparu y gall rheoliadau weithredu darpariaethau gorfodi cyffredinol y Ddeddf i reoli hysbysebion, i alluogi awdurdod cynllunio i arwyddo rhybudd gorfodi i sicrhau y caiff unrhyw hysbysebion anawdurdodedig eu tynnu.<sup>44</sup> Ceir gweithdrefn o'r fath yn yr Alban, o dan ddarpariaeth gyfatebol y ddeddfwriaeth ar ochr ogleddol y ffin<sup>45</sup>; ond nid oes unrhyw un o'r rheoliadau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr ers 1948 wedi cynnwys gweithdrefn o'r fath.
- 14.77 Rydym ni'n ystyried dros dro nad yw hyn yn ofynnol, ac nid oes angen i'r grymoedd galluogi yn adrannau 224(1) a (2) gael eu hailddatgan yn y Bil.
- 14.78 Yn lle hynny, mae adran 225 DCGTh 1990 yn galluogi awdurdod cynllunio i dynnu neu ddileu unrhyw hysbyslen neu boster sy'n cael ei arddangos yn ei ardal heb gydsyniad o dan y Rheoliadau (ac eithrio un o fewn adeilad). Cyn gweithredu yn y fath fodd, bydd rhaid i'r awdurdod roi dau ddiwrnod o rybudd i'r sawl sy'n gyfrifol am yr arddangosfa - os gellir nodi pwy ydynt - neu i'r sawl y mae eu nwyddau neu eu gwasanaethau yn cael eu hyrwyddo.<sup>46</sup> Nid oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn rhybudd o'r fath - ac eithrio trwy gamau i gael adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys - ond gellir hawlio iawndal os bydd arfer y grym yn peri colled neu ddifrod i unrhyw un ac eithrio'r sawl sy'n gyfrifol am yr arddangosfa. Mae'r Llys Sesiwn yn yr Alban wedi awgrymu mai bwriad y Senedd wrth weithredu adran 187 DCGTh (yr Alban) 1997 (yr hyn sy'n cyfateb i adran 225) oedd caniatáu tynnu posteri<sup>47</sup>; ond nid oes unrhyw beth yn adran

<sup>43</sup> Mae'r rhent sy'n daladwy yn 2017 gan gontractwr hysbysebu i berchennog darn bychan o dir ger cylchfan fawr yng nghanol Llundain, yn amrywio o £20,000 i £45,000 y flwyddyn, yn dibynnu ar y math o arddangosfa, a bydd yn ennill rhwng £200,000 i £500,000 dros dymor prydles deng mlynedd (ffynhonnell: adroddiad cynllunio Cyngor Lambeth). Nid yw'r incwm net a gafodd y contractwr yn hysbys.

<sup>44</sup> DCGTh 1990, a 224(1), (2); a gweler *Wyatt v Jarrad* [1998] 2 PLR 81, QBD, ar dudalen 87H.

<sup>45</sup> Deddf TCP (Yr Alban) 1997, a 186(1)(2). Gallai hyn fod oherwydd yr anawsterau a brofir gan awdurdodau cynllunio wrth geisio collfarnau am hysbysebu anawdurdodedig, oherwydd yr angen i berswadio'r Procuradur Ffisgal Lleol i fynd ati i erlyn.

<sup>46</sup> DCGTh 1990, a 225(3),(5).

<sup>47</sup> *Baillie Lite Ltd v Glasgow City Council* [1999] 3 PLR 64, a p 72E.

225 i awgrymu na ellir ei ddefnyddio mewn perthynas ag *unrhyw* boster neu hysbyslen anawdurdodedig.

- 14.79 Cyflwynwyd grym mwy cynhwysfawr mewn perthynas â hysbysebu anawdurdodedig mewn ardaloedd o reolaeth arbennig ac ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae Adran 43 Deddf Dyfed 1987 yn darparu y gall awdurdod cynllunio dynnu unrhyw hysbyseb anawdurdodedig ac eithrio poster neu hysbyslen (byddai adran 225 DCGTh 1990 yn berthnasol i hynny) ar ôl rhoi 14 diwrnod o rybudd i'r sawl sy'n gyfrifol. Yma hefyd, ni cheir hawl i apelio yn erbyn rhybudd o'r fath, ond yn ystod y cyfnod 14 diwrnod, gall unrhyw un osod cwynion i'r awdurdod yn datgan pam nad yw'r hysbyseb dan sylw yn anawdurdodedig, a pham ddylai'r awdurdod ystyried y cwynion hynny a hysbysu'r sawl sy'n eu gosod beth mae'n bwriadu ei wneud. Os canfyddir yn dilyn hynny nad oedd yr hysbyseb yn anawdurdodedig, bydd rhad i'r awdurdod dalu iawndal i unrhyw un sy'n dioddef colled yn sgil tynnu'r hysbyseb.
- 14.80 Cyflwynwyd grym eithaf tebyg yn adran 11 Deddf Awdurdodau Lleol Llundain 1995, yn galluogi awdurdodau cynllunio yn Llundain Fwyaf i dynnu unrhyw hysbyseb anawdurdodedig (nid poster neu hysbyslen yn unig) ar ôl rhoi 21 diwrnod o rybudd i'r sawl sy'n gyfrifol. Cafodd y grym hwnnw ei ymestyn maes o law i bob rhan o Loegr gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, oedd yn dirymu adran 11 Deddf 1995 ac yn ychwanegu adrannau 225A, 225B a 225K at DCGTH 1990.
- 14.81 Mae Adran 225A yn galluogi awdurdod cynllunio i dynnu unrhyw "adeiledd arddangos" - hynny yw, unrhyw adeiledd a ddefnyddir er mwyn arddangos hysbysebion - a fyddai ynddo'i hun yn gyfystyr â "hysbyseb" o dan y Ddeddf (gweler uchod) os na fyddai codi'r adeiledd hwnnw yn elwa o gydsyniad o dan y rheoliadau hysbysebion. Cyn tynnu'r adeiledd, byddai'n rhaid i'r awdurdod roi 22 diwrnod o rybudd o leiaf i'r sawl sy'n gyfrifol.
- 14.82 O dan adran 225B, mae hawl yn bodoli i apelio i lys ynadon yn erbyn rhybudd o'r fath gan y sawl y cyflwynir y rhybudd iddo a gan berchnogion a deiliaid safle'r hysbyseb.<sup>48</sup> Y seiliau pennaf ar gyfer apelio yw honni nad yw'r hysbyseb yn groes i'r rheoliadau; bod y rhybudd yn ddiffygiol; neu bod yr amser a ganiateir i'w dynnu yn annigonol. Yma hefyd, os bydd yr awdurdod yn tynnu'r hysbyseb ei hun, bydd yn atebol i dalu iawndal am unrhyw ddifrod, ac eithrio difrod i'r adeiledd ei hun. O dan adran 225K Deddf 1995, gall ymgymerydd statudol gyflwyno gwrthrybudd mewn perthynas â gwaith tynnu hysbysebion a wneir ar eu tir gweithredol.
- 14.83 Mae'n amlwg fod angen i awdurdodau cynllunio allu tynnu hysbysebion anawdurdodedig. Mae'r grymoedd presennol sydd ar gael yn y rhan fwyaf o Gymru, ac eithrio rhannau o Orllewin Cymru, wedi'u cyfyngu i dynnu (neu ddileu) posteri a hysbyslenni - ond nid ydynt yn caniatáu i'r strwythurau a ddefnyddir i'w harddangos gael eu tynnu. Yn Lloegr ac mewn rhai rhannau o Orllewin Cymru, mewn cyferbyniad, gellir tynnu unrhyw "hysbyseb" anawdurdodedig - yn ystyr ehangaf y term hwnnw.
- 14.84 Rydym ni'n ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol newid darpariaethau presennol adran 225 DCGTh 1990 ac adran 43 Deddf Dyfed 1987 am un weithdrefn yn caniatáu

---

<sup>48</sup> Gellir nodi nad oedd unrhyw hawl i wneud apêl o'r fath o dan Ddeddf 2011.

tynnu neu ddileu *unrhyw* hysbyseb a arddangosir heb gydsyniad neu yn groes i amodau sy'n gysylltiedig â chydsyniad. Byddai angen cynnwys darpariaethau tebyg i'r rhai yn adran 225B a 225K DCGTH 1990, a ychwanegwyd yn 2011, yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- (1) ni ellir tynnu unrhyw hysbyseb heb roi 21 diwrnod o rybudd yn y lle cyntaf i'r sawl sy'n gyfrifol;
- (2) rhaid i hawl i apelio fod ar gael i'r sawl sy'n cael rhybudd o'r fath, ac i berchnogion a deiliaid safle'r hysbyseb sy'n tramgwyddo, fel o dan adran 225B DCGTh 1990 - ar sail yn ymwneud â chyfreithlondeb yr hysbyseb, cyflwyno'r rhybudd, a'r amser a ganiateir i'w dynnu;
- (3) bydd iawndal yn daladwy am ddifrod a achosir i dir neu eiddo trwy dynnu'r hysbyseb (ac eithrio difrod i'r hysbyseb ei hun); a
- (4) dylid rhoi amddiffyniad i ymgwymerwyr statudol yn unol ag adran 225K.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-11.**

**Cynigiwn dros dro na ddylai'r grym (sydd ar hyn o bryd yn adran 224(1), (2)) i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaethau mewn Rheoliadau sy'n debyg i rybuddion gorfodi gael ei ailddatgan yn y Bil.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-12.**

**Cynigiwn dros dro y dylai'r grymoedd sydd ar hyn o bryd yn adran 225 DCGTh 1990 (tynnu posteri a hysbyslenni anawdurdodedig) ac yn adran 43 Deddf Dyfed 1987 (tynnu hysbysebion anawdurdodedig eraill) gael eu newid am un weithdrefn sy'n caniatáu tynnu hysbysebion anawdurdodedig, ar yr amod**

- (1) **na chaiff unrhyw hysbyseb ei dynnu heb roi 21 diwrnod o rybudd yn y lle cyntaf i'r sawl sy'n gyfrifol;**
- (2) **dylai hawl i apelio fod ar gael i'r sawl sy'n derbyn rhybudd o'r fath ac i berchnogion a deiliaid safle'r hysbyseb sy'n tramgwyddo, fel y nodir o dan adran 225B DCGTh 1990 – ar sail yn ymwneud â chyfreithlondeb yr hysbyseb, cyflwyno'r rhybudd, a'r amser a ganiateir i'w dynnu;**
- (3) **bydd iawndal yn daladwy gan yr awdurdod cynllunio am ddifrod a achosir i dir neu eiddo trwy dynnu'r hysbyseb (ac eithrio difrod i'r hysbyseb ei hun); a**
- (4) **dylid rhoi amddiffyniad i ymgwymerwyr statudol yn unol ag adran 225K.**

**Rydym yn ceisio safbwyntiau atebwyr ynghylch oblygiadau tebygol y cynnig hwn.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno? Beth yw effaith tebygol y cynnig hwn ar adnoddau?**

## Erlyn

- 14.85 Fel y nodwyd yn gynharach, mae arddangos hysbysebion heb y cydsyniad gofynnol - yn wahanol i ymgymryd â datblygiad anawdurdodedig - yn cael ei ystyried yn dramgwydd droseddol. Gall hyn hefyd adlewyrchu'r ffaith fod arddangos hysbysebion yn weddol rhwydd, gan arwain at incwm sylweddol iawn i'r hysbysebwr. Yn sgil hynny, nid yw erlyniadau yn anghyffredin, ac mae angen i'r gyfraith berthnasol fod yn addas i'w diben.
- 14.86 Yn benodol, mae angen i'r ddeddfryd uchaf fod yn briodol. Dylid nodi, pan gyflwynwyd y ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr yn y lle cyntaf, y ddirwy uchaf am am arddangos hysbyseb yn groes i'r rheoliadau oedd £50 yn y lle cyntaf;<sup>49</sup> byddai'r swm cyfatebol yn 2017 oddeutu £1,920. Yn 1968, cafodd hynny ei ddyblu i £100, er bod y gwerth real wedi cwmpo fel ei fod yn £1,670 yn unig yn unol â chyfraddau 2017.<sup>50</sup> Roedd lefel y ddirwy mewn termau real wedi gostwng yn sylweddol erbyn 1982, pan gafodd ei newid i "Lefel 3" ar y raddfa safonol newydd, £200 yn y lle cyntaf (£710 heddiw).<sup>51</sup> Cafodd ei dyblu ddwy flynedd yn ddiweddarach, a'i chynyddu i £1,000 yn 1992 (£1,970 ym mhrisiau 2017).<sup>52</sup> Yna, cafodd y ddirwy ei chynyddu gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 o Lefel 3 i Lefel 4 - £2,500 (£3,730 ym mhrisiau 2017).<sup>53</sup> Mae'n dal yn £2,500. Cafwyd cynnig yn 2014 i gynyddu Lefel 4 o £2,500 i £10,000, ond ni fwriwyd ymlaen â hynny.<sup>54</sup>
- 14.87 Mae'r uchafswm felly wedi codi a gostwng yn sylweddol mewn termau real ers 1947 - o isafwynt o £350 (yn ngwerthoedd heddiw), ychydig cyn cyflwyno'r raddfa safonol, i fyny i £3,730, a bellach i lawr i £2,500. Ac mae 25 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gorchymyn diwethaf gael ei wneud yn cynyddu'r ddirwy ar bob lefel o'r raddfa safonol, felly mae'r ddirwy uchaf yn debygol o ostwng mewn termau real.
- 14.88 I gymharu â hynny, arferai cosbau am droseddau eraill o dan DCGTH 1990 - gwneud gwaith anawdurdodedig i adeilad rhestredig a thorri coeden warchoddedig - fod yn ddirwy uchaf o £20,000 yn sgil collfarn ddiannod a dirwy anghyfyngedig ar ddiad.<sup>55</sup> Ers 2015, y gosb ym mhob achos yw dirwy anghyfyngedig, naill ai yn sgil collfarn ddiannod neu ddiad.<sup>55</sup> Ac mae penderfyniadau diweddar gan y Llys Apêl yn awgrymu

<sup>49</sup> DCGTh 1947, a 32(3).

<sup>50</sup> DCGTh 1962, a 63(2); DCGTH 1968, a 101, Sched 8.

<sup>51</sup> DCGTh 1971, a109(2); Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982, a 37.

<sup>52</sup> SI 1984 Rhif 447; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991, a 17; OS 1992 Rhif 333.

<sup>53</sup> DCGTh 1990, a 224(3); Anti-social Behaviour Act 2003, a 53.

<sup>54</sup> Drafft o Orchymyn 2014 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfryd a Chosbi Troseddwy 2012 (Addasu'r Raddfa Dirwyo Safonol am Droseddau Diannod), a wnaed o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol [ayyb] 2012, a 87(6); cyflwynwyd hwn i'r Senedd, ond ni chafodd ei gymeradwyo, yn dilyn newid mewn polisi.

<sup>55</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig, a 9(4); DCGTh 1990, a 210(2).



y gall dirwyon mwy fod yn briodol mewn perthynas â throseddau gan gorfforaethau ac unigolion cefnog.<sup>56</sup>

- 14.89 Ni chafwyd unrhyw ganllawiau perthnasol uniongyrchol oddi wrth y Cyngor Dedfrydu mewn perthynas â throseddau cynllunio, ond mae'r Cyngor wedi cyflwyno canllawiau mewn perthynas â throseddau amgylcheddol (gan gynnwys taflu gwastraff yn anghyfreithlon a llygru dŵr). Mae'r rhain yn awgrymu mai'r pwynt cychwyn ar gyfer dedfrydu yn dilyn euogfarn diffynnydd corfforaethol am drosedd fwriadol yn ymwneud â niwed mân lleol i werth amwynder (categori 3) fyddai £180.000.<sup>57</sup> Ac mae penderfyniadau diweddar gan y Llys Apêl yn awgrymu y gall dirwyon uwch fod yn briodol mewn perthynas â throseddau gan gorfforaethau ac unigolion cefnog.<sup>58</sup>
- 14.90 Rydym ni'n ystyried dros dro y byddai'n fwy priodol cynyddu'r gosb uchaf am hysbysebu diawdurdod yn unol â'r rhai sy'n berthnasol i dramgwyddau cynllunio eraill, yn enwedig o gofio'r enillion ariannol sylweddol iawn y gellir eu gwneud yn sgil trosedd o'r fath, i ddirwy anghyfyngedig.<sup>59</sup> Wrth gwrs, byddai lefel y ddirwy mewn unrhyw achos penodol yn cael ei phennu yn unol ag egwyddorion dedfrydu arferol. Byddwn hefyd yn argymhell bod y Cyngor Dedfrydu ymhen amser yn ystyried lefelau priodol dedfrydau ar gyfer troseddau o'r math hyn.

### **Cwestiwn ymgynghori 14-13.**

**Cynigiwn dros dro y dylai uchafswm y ddedfryd yn sgil collfarn am hysbysebu anawdurdodedig gael ei gynyddu i ddirwy anghyfyngedig, yn union fel troseddau eraill o dan DCGTh 1990 a Deddf Adeiladau Cofrestredig 1990.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Sail polisi ar gyfer gweithredu yn erbyn hysbysebu anawdurdodedig**

- 14.91 Mae Rheoliad 4 Rheoliadau 1992 yn darparu fod yn rhaid i awdurdod cynllunio sy'n arfer ei rymoedd o dan y Rheoliadau wneud hynny er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddor yn ymestyn i arfer swyddogaethau yn ymwneud â hysbysebu o dan DCGTH 1990 ei hun. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn cynnwys erlyniad am hysbysebu anawdurdodedig a wneir o dan adran 224 a thynnu hysbysebion anawdurdodedig o dan adran 225 (ac adran 225A yn Lloegr, ac fel y cynigir uchod yng Nghymru<sup>60</sup>).

<sup>56</sup> Rheoliadau 2015 (SI 664) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 (Dirwyon yn Dilyn Collfarn Ddiannod), Atodlen 4, paragraffau 18, 19.

<sup>57</sup> *Troseddau amgylcheddol: Canllaw Diffiniol*, Cyngor Dedfrydu, 2014.

<sup>58</sup> *R v Sellafield Ltd* [2014] EWCA Crim 49, Env LR 19; gweithredwyd yn *Natural England v Day* [2014] EWCA Crim 2683, [2015] Env LR 15. Roedd y ddau yn ymwneud â throseddau o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol.

<sup>59</sup> Gweler **troednodyn 32** uchod.

<sup>60</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 14-12**.

14.92 O bryd i'w gilydd bydd y rhai hynny a gyhuddir o arddangos hysbysebion nas awdurdodwyd yn dibynnu ar ddadl annheilwng nad yw'r arddangosiad dan sylw yn peri unrhyw niwed i amwynder, a bod unrhyw doriad ar y Rheoliadau yn "dechnegol" yn unig. Nododd Bingham LJ, fel yr oedd yn *Kingsley v CBLI Hammersmith a Fulham*

"Mae Rheoliad 4 yn amlwg yn bwriadu i sicrhau, wrth arfer y pwerau penodol i roi neu wrthod cydsyniad sydd wedi'u rhoi i awdurdod lleol dan y rheoliadau, dylent arfer y pwerau hynny er lles amwynder a diogelwch y cyhoedd. Ond nid oes unrhyw beth yn y Rheoliadau sy'n rhoi pŵer i erlyn i awdurdod lleol. Nid wyf i wedi fy mhersawdio fod arfer swyddogaeth erlyn yn destun y dyletswyddau a bennir yn rheoliad 4. Mae'n ymddangos i mi fod hawl gan awdurdod lleol, er mwyn cynnal rheolaeth dros [arddangos hysbysebion] sydd heb gydsyniad i wneud hynny, i fod ag ymagwedd gaeth ac i fynnu cydymffuriaeth â'r hyn a ddarperir gan y statud a'r rheoliadau."<sup>61</sup>

14.93 Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae nifer fawr iawn o'r hysbysebion a arddangosir sy'n tramgwyddo'r Rheoliadau yn dechnegol am ryw reswm neu'i gilydd - yn benodol, mae'r dosbarthiadau cydsyniad tybiedig wedi'u drafftio trwy gyfeirio at nifer o amodau manwl ynghylch dimensiynau a materion eraill, ac yn aml iawn, ni chydymffurfir â hynny. Ond nid yw'n ymddangos yn briodol i awdurdod fynd ati i erlyn os bydd tramgwydd technegol yn unig.

14.94 Rydym felly yn ystyried dros dro y byddai'n ddoeth diddymu'r broblem hon trwy drosglwyddo o'r rheoliadau i'r Bil yr egwyddor y caiff unrhyw swyddogaethau dan y Cod yn ymwneud â hysbysebu (ac felly tynnu arddangosfeydd anawdurdodedig ac erlyn y sawl sy'n gyfrifol amdanynt) eu harfer er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd. Gallai'r rheoliadau barhau, fel maent yn gwneud ar hyn o bryd, i bennu'r materion manwl y dylid eu hystyried wrth ystyried amwynder a diogelwch y cyhoedd.

14.95 Byddai hynny'n arwain at yr effaith gysylltiedig na fyddai awdurdod cynllunio sy'n cynnig polisiâu mewn perthynas â rheoli hysbysebion yn gallu gwneud hynny oni byddai'r polisiâu hynny yn llesol i amwynder a diogelwch y cyhoedd. Felly, er enghraifft, ni fyddai modd cynnwys polisi ynghylch beth sy'n cael ei gynnwys mewn hysbyseb. Yn ei hanfod, byddai hynny'n gwneud y gyfraith bresennol yn eglur.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-14.**

**Cynigiwn dros dro y dylai fod yn eglur ar wyneb y Bil, yn hytrach nag yn y rheoliadau (fel y mae ar hyn o bryd), y dylai'r holl rymoedd statudol mewn perthynas â hysbysebu gael eu harfer er lles amwynder a diogelwch y cyhoedd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>61</sup> 62 P&CR 589 a 592.

## DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

### Pwyllgorau ymgynghorol a thriwlynlysoedd

- 14.96 Mae Adran 220 DCGTh 1990 (yn union fel pob Deddf cynllunio ers 1947<sup>62</sup>) yn darparu y gall rheoliadau hysbysebion ddarparu ar gyfer pwyllgorau ymgynghorol arbennig, a thriwlynlysoedd annibynnol i bennu apeliadau yn lle Gweinidogion Cymru.<sup>63</sup> Nid oes unrhyw bwyllgor neu driwlynlys o'r fath erioed wedi cael ei sefydlu.<sup>64</sup>
- 14.97 Rydym ni'n ystyried dros dro nad oes angen am y darpariaethau hyn, sydd heb gael eu defnyddio ers dros saith deg mlynedd.

#### Cwestiwn ymgynghori 14-15.

**Rydym yn cynnig dros dro na ddylai'r darpariaethau yn adran 220 y DCGTh 1990 ynghylch pwyllgorau ymgynghorol a thriwlynlysoedd gael eu cynnwys yn y Bil.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### Mannau arbrofol

- 14.98 Mae Adran 222(1)(b) DCGTh 1990 yn darparu y gall rheoliadau hysbysebion wneud darpariaeth arbennig ynghylch arddangos hysbysebion mewn "mannau arbrofol". Gall ardal arbrofol gael ei diffinio yn y fath fodd at ddiben asesu effaith mathau penodol o hysbysebion dros gynfod penodol.<sup>65</sup>
- 14.99 Cyflwynwyd y ddarpariaeth hon am y tro cyntaf gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986; amlinellwyd bwriadau'r Llywodraeth ar y pryd yn y Papur Gwyn, *Adeiladau Busnesau ac nid Rhwystrau*.<sup>66</sup> Roedd yr ardal arbrofol gyntaf i gael ei diffinio, trwy ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol perthnasol, yng Nghaint, a bu hynny mewn grym am gyfnod o ddwy flynedd o 1 Gorffennaf 1987. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhoddwyd cydsyniad tybiedig ar gyfer arwyddion brown yn cyfeirio ymwelwyr at atyniadau, er mwyn gallu asesu eu heffaith.<sup>67</sup> Dyma'r unig ardal a gafodd ei diffinio, ac ni chafodd ei hadnewyddu pan ddaeth y cyfnod arbrofol dwy flynedd i ben yn 1989. Gan hynny, cafodd y Dosbarth perthnasol o gydsyniad tybiedig ar gyfer arwyddion o'r fath ei

<sup>62</sup> Gweler DCGTH 1947, a 31(1)(e),(2).

<sup>63</sup> DCGTh 1990, a 220(2)(d),(4).

<sup>64</sup> Dadleuwyd yn *O'Brien v Ysgrifennydd Gwladol a CBM Doncaster* [2001] JPL 375, yn [11] fod yr hepgoriad yn golygu fod y system gyfan yn groes i hawliau dynol, ond ni lwyddodd y ddadl honno.

<sup>65</sup> DCGTH 1990, s 221(2).

<sup>66</sup> Cmnd 9794, para 5.11.

<sup>67</sup> Rheoliadau 1989, rheoliad 6 ac Atodlen 3, Dosbarth 11B, mewnosodwyd gan OS 1987 Rhif 804. Bellach, mae'r arwyddion brown sydd dan sylw wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Arwyddion Traffig, ac felly maent oddi allan i gwmpas y Rheoliadau Hysbysebion (Rheoliadau 1992, Atodlen 2, Dosbarth H).

ddiddymu.<sup>68</sup> Fodd bynnag, mae'r grym i ddiffinio rhagor o ardaloedd arbrofol yn dal ar y llyfr statud, yng Nghymru ac yn Lloegr.

- 14.100 Rydym ni'n ystyried dros dro nad oes angen y ddarpariaeth hon, sydd bellach heb gael ei defnyddio ers deg mlynedd ar hugain, erbyn hyn.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-16.**

**Cynigiwn dros dro na ddylai'r darpariaethau yn adran 221(1)(b), (2) DCGTh 1990 ynghylch ardaloedd arbrofol gael eu cynnwys yn y Bil.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **lawndal am dynnu hysbysebion**

- 14.101 Ni thelir iawndal fel arfer pan fydd rhaid i safle ar gyfer hysbysebu gael ei ddirwyn i ben, neu pan fydd rhaid tynnu hysbyseb penodol. Fodd bynnag, efallai y gellir hawlio iawndal cyfyngedig mewn achosion penodol, lle câi'r safle dan sylw ei ddefnyddio i hysbysebu ar 1 Awst 1948, neu roedd yr hysbyseb penodol yn cael ei arddangos ar y dyddiad hwnnw, o dan adran 223 DCGTH 1990.<sup>69</sup> Yn y ddau achos, nid oes wahaniaeth beth ddigwyddodd yn y blynyddoedd rhwng 1948 a'r dyddiad pan fydd rhaid i'r hysbyseb gael ei dynnu neu bydd rhaid dirwyn y safle i ben.
- 14.102 Caniateir cydsyniad tybiedig yn awtomatig i arddangos hysbyseb ar safle sydd wedi cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer arddangos o'r fath ers 1 Ebrill 1974.<sup>70</sup> Fodd bynnag, gall awdurdod cynllunio ddirwyn arddangos hysbysebion i ben ar safle o'r fath, neu arddangos hysbyseb penodol yno, trwy gyflwyno rhybudd dirwyn i ben. Oni bydd y sawl y cyflwynir y rhybudd iddo yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn hynny, bydd rhaid i'r defnydd o'r safle i hysbysebu ddirwyn i ben, neu bydd rhaid i'r hysbyseb penodol gael ei dynnu, beth bynnag sy'n ofynnol. Os oedd y safle yn cael ei ddefnyddio i hysbysebu nid yn unig ers 1974 ond hefyd ar 1 Awst 1948, neu roedd yr hysbyseb penodol y dylid ei dynnu yn cael ei arddangos ar y dyddiad hwnnw, gellir hawlio iawndal cyfyngedig yn rhinwedd adran 223. Sylwer na fyddai o bwys i'r diben hwn pe bai'r defnydd hysbysebu wedi'i ddirymu dros dro ar unrhyw adeg rhwng 1948 a 1974, cyn belled ag y bo'n bodoli yn 1948 a thrwy gydol y cyfnod ers 1974.
- 14.103 Efallai hefyd y gellir adfer iawndal o dan y darpariaethau hyn lle'r oedd safle yn cael ei defnyddio ar gyfer hysbysebu yn 1948, ac mae'n dal i gael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw, ond nid yw'r cydsyniad tybiedig o dan Ddosbarth 13 bellach yn gymwys - yn sgil toriad yn y defnydd hysbysebu, neu oherwydd y ffaith y cafodd natur y defnydd

<sup>68</sup> OS 1990 Rhif 881, rheoliad 5(c).

<sup>69</sup> Arwyddocâd y dyddiad hwnnw yw dyna pryd y daeth y Rheoliadau Hysbysebion cyntaf i rym yng Nghymru (a Lloegr).

<sup>70</sup> Rheoliadau 1992, rheoliad 6, Atodlen 3, Dosbarth 13. Mae hyn yr un mor berthnasol mewn manau ble ceir rheolaeth arbennig neu ardal sensitif arall (ardal gadwraeth, ac ati) ag yn unrhyw le arall.

hwnnw, rywbryd neu'i gilydd wedi dechrau'r cyfnod perthnasol, ei newid neu cynyddwyd ei ehangder - ac mae un o'r canlynol yn gymwys:

- (2) mae'r defnydd presennol o'r safle ar gyfer hysbysebu yn golygu ei fod yn dal i ddenu cydsyniad tybiedig (o dan un o'r Dosbarthiadau eraill yn Atodlen 3), ond mae rhybudd dirwyn i ben bellach wedi cael ei gyflwyno ac mae'n dod i rym; neu
- (3) mae'r defnydd presennol o'r safle ar gyfer hysbysebu yn golygu ei fod yn denu cydsyniad tybiedig o dan Ddosbarth 4A, Dosbarth 4B neu Ddosbarth 8, ond bellach mae'n rhaid i hynny ddirwyn i ben oherwydd caiff y safle ei gynnwys mewn ardal rheolaeth arbennig, ardal gadwraeth, parc cenedlaethol neu ardal o harddwch naturiol eithriadol.
- (4) mae'r defnydd hysbysebu bellach yn fath y mae angen cydsyniad datganedig ar ei gyfer, ond ni cheisir cydsyniad o'r fath (neu ceisir cydsyniad a chaiff ei wrthod), ac felly mae'n rhaid i'r hysbysebu ddirwyn i ben.

14.104 O ganlyniad, byddir yn gallu gwerthfawrogi fod yr amgylchiadau ble gellir hawlio iawndal o dan adran 223 bellach yn brin iawn.

14.105 Yn ychwanegol, mae'r swm y gellir ei hawlio yn gyfyngedig iawn. Caiff ei gyfyngu i'r costau sydd wedi'u hachosi yn sgil y gwaith sydd wedi cael ei wneud i ddirwyn yr hysbysebu i ben (neu i dynnu'r hysbyseb penodol, os mai dyna yw'r sefyllfa).<sup>71</sup> Nid yw, yn benodol, yn ymestyn i golli incwm o'r defnydd o'r safle ar gyfer hysbysebu - ac yn achos safle amlwg, gall hynny fod yn sylweddol. Nid oes unrhyw iawndal erioed wedi'i roi am golled o'r fath pan fydd hynny'n deillio o gamau dirwyn i ben neu orfodi o dan y Rheoliadau.

14.106 Gwneir hawliad am iawndal o dan adran 223 gan y sawl y bu'n rhaid iddo ysgwyddo cost y gwaith perthnasol – sef y contractwr hysbysebu fel arfer. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hawliad ar wahân gan y tîrfeddiannwr, os yn wahanol.

14.107 Erbyn hyn, rydym ni'n amau y gwneir ychydig iawn o hawliadau am iawndal, os hawliadau o gwbl, o dan adran 223. Rydym ni felly yn ystyried dros dro nad oes angen ei ailddatgan yn y bil.

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-17.**

**Mae'n ymddangos nad yw adran 223 DCGTh 1990, sy'n darparu ar gyfer talu iawndal mewn perthynas â chostau tynnu hysbysebion ar safleoedd oedd yn cael eu defnyddio i hysbysebu yn 1948, bellach yn ddefnyddiol yn ymarferol, ac felly cynigiwn na ddylid ei chynnwys yn y Bil. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>71</sup> DCGTh 1990, a 223(1).

## Pennod 15: Gwaith i goed gwarchoddedig

### CYFLWYNIAD

- 15.1 Gosodir amodau ar ganiatâd cynllunio i warchod coed sy'n bodoli ac i sicrhau bod rhai newydd yn cael eu plannu; a mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio wrth roi caniatâd cynllunio i sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu mewn achosion priodol.<sup>1</sup>
- 15.2 Nid yw gwneud gwaith i goed yn ddatblygia, yn gofyn am ganiatâd cynllunio; a nid oes unrhyw ofyn cynhwysol arall o dan Ddeddfau cynllunio am gael caniatâd ar gyfer gwaith o'r fath.<sup>2</sup> Er hynny, mae pob Deddf cynllunio ers 1932 wedi gwneud rhyw ddarpariaeth ar gyfer gwarchod coed o werth arbennig. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol ym Mhennod 1 Rhan 8 DCGTh 1990. Mae'r is-ddeddfwriaeth yn Rheoliadau CGTh (Coed) 1999 ("y Rheoliadau 1999"), a oedd yn berthnasol i Loegr a Chymru yn y lle cyntaf, ond yn berthnasol i Gymru yn unig ers 2012.<sup>3</sup>

### Gorchmynion Cadw Coed

- 15.3 Mae Adran 198 DCGTh 1990 yn darparu y gall gorchymyn cadw coed ("GCG") gael ei wneud gan awdurdod cynllunio i warchod coed a choetiroedd penodol os yw hi'n fanteisiol er lles amwynder.
- 15.4 O dan y Ddeddf fel y mae hi yn berthnasol yn awr i Gymru, bydd geiriad gorchymyn yn dilyn geiriad y gorchymyn enghreifftiol a oedd mewn grym ar yr adeg y gwneir y gorchymyn. Mae'r gorchymyn enghreifftiol presennol yn yr Atodiad i Reoliadau 1999. Mae manylion ynglŷn â gwneud a chadarnhau gorchmynion hefyd yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau. Gall gorchymyn gael ei wneud i ddod i rym ar ryw ddyddiad yn y dyfodol.<sup>4</sup> Yn aml iawn, gwneir y gorchymyn dros dro, i ddod i rym yn syth ac aros mewn grym am chwe mis, ond bydd angen ei gadarnhau os nad yw i fethu.<sup>5</sup>
- 15.5 Ble mae gorchymyn wedi cael ei wneud, mae rhaid cael caniatâd yr awdurdod cynllunio i wneud unrhyw waith i unrhyw goed a warchodir gan y gorchymyn.<sup>6</sup> Mae gwneud gwaith heb ganiatâd o'r fath yn drosedd, o dan adran 210.<sup>7</sup> Gellir gweld manylion y system gynllunio - gan gynnwys yr esemptiadau niferus o'r angen am

---

<sup>1</sup> DCGTh 1990, adran 197.

<sup>2</sup> Gweler **para 17.74** ynglŷn â'r trwyddedau torri coed.

<sup>3</sup> 1999 SI 1892, wedi'u diddymu i'r graddau eu bod yn berthnasol i Loegr yn OS 2012 Rhif 605, rheoliad 26(1).

<sup>4</sup> DCGTh 1990, adran 199.

<sup>5</sup> DCGTh 1990, adran 201.

<sup>6</sup> Mae union hyd a lled y gwaith y mae angen caniatâd o'r fath ar ei gyfer yn dibynnu ar, o leiaf o dan y gyfraith bresennol, eiriad y gorchymyn dan sylw, a fydd yn ei dro yn dibynnu ar y dyddiad pan wnaed y gorchymyn.

<sup>7</sup> Mae hon yn drosedd, tybir am nad oes modd troi'r gwaith anawdurdodedig am yn ôl.

ganiatâd, y weithdrefn lle gellir rhoi caniatâd, a'r effeithiau posib o beidio â chael caniatâd - fel y maent wedi eu gosod yn gyfredol yn y gorchymyn ei hun.

- 15.6 Bydd pob gorchymyn cyfredol wedi cael eu gwneud yn unol â'r gorchymyn enghreifftiol oedd yn bodoli ar yr adeg y gwnaed y gorchymynion. Gall gael ei nodi bod rhai gorchymynion mewn grym o hyd a wnaethpwyd mor bell nôl a'r 1940au. Roedd gorchymynion enghreifftiol yn arfer cael eu cynnwys yng nghylchlythyrau'r Llywodraeth<sup>8</sup>, ac yn fwy diweddar maent wedi eu cynnwys mewn rheoliadau (sydd yn eu tro wedi cael eu newid sawl gwaith).<sup>9</sup> Mae hyn wedi golygu na fyddai unrhyw newidiadau i'r gorchymyn enghreifftiol, i gyd-fynd â pholisi newidiol dros y blynyddoedd, yn cael eu hadlewyrchu mewn gorchymynion sydd eisoes wedi cael eu gwneud. Mae'r dulliau gweithredu a gofynion eraill yn y gorchymyn - er enghraifft, yr esemptiadau o'r angen am ganiatâd, ac argaeledd iawndal - yn amrywio yn gyfatebol, yn dibynnu ar ba bryd yn union gwnaethpwyd y gorchymyn o dan sylw.
- 15.7 Mae hyn yn golygu bod pob gorchymyn yn hir o reidrwydd ac yn anodd ei deall i rai nad ydynt yn gyfreithwyr cynllunio - ac hyd yn oed yn fwy felly i berchnogion yr eiddo, contractwyr coed a swyddogion coed awdurdodau lleol.
- 15.8 Mae'r system ers sawl blwyddyn wedi cael ei gweld fel un anfoddhaol, a newidwyd y system o'r diwedd gan Deddf Gynllunio 2008. Gwnaeth Adran 192 y Ddeddf honno newidiadau sylweddol i Bennod 1 Rhan 8 DCGTh 1990, a gyflwynwodd system newydd lle gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn darparu ar gyfer côd rheolaeth annibynnol - yn weddol debyg o ran syniad i'r Rheoliadau Hysbysebion.<sup>10</sup>
- 15.9 Gwnaeth Adran 193 Deddf 2008 ddarpariaeth drosiannol, i'r perwyl y bydd unrhyw orchymyn a wnaethpwyd o dan yr hen system yn parhau mewn grym ond yn hepgor y darpariaethau i gyd ac eithrio'r rhai sy'n anghenrheidiol i adnabod y goeden a warchodir.
- 15.10 Daeth adrannau 192 a 193 Deddf 2008 (ac felly y darpariaethau newydd yn DCGTh 1990) i rym (gyda rheoliadau newydd) yn Lloegr yn 2012, ond nid yw'r system newydd wedi cael ei gweithredu yng Nghymru hyd yn hyn.
- 15.11 Unwaith y byddai y newidiadau deddfwriaethol perthnasol wedi dod i rym yng Nghymru, a chymryd bod y rheoliadau sy'n cael eu gwneud mwy neu lai'r un fath â'r rhai sy'n berthnasol yn Lloegr, mae'n debygol y bydd y system yn gweithredu fel a ganlyn:
- (1) bydd unrhyw reoliadau dan adran 202A DCGTh 1990 yn darparu bod unrhyw orchymyn newydd yn y dyfodol yn cynnwys manylion y coed neu goetiroedd a

---

<sup>8</sup> Atodiad A i'r Memorandwm ar Gadw Coed a Choetiroedd, 1949; Atodiad A i Gylchlythyr 27/53; Atodiad A i ail fersiwn y Memorandwm, 1966.

<sup>9</sup> Rheoliadau CGTh (Gorchymyn Cadw Coed) 1969 (OS 17), Atodiad (newidwyd yn 1975 OS 148, 1988 OS 963); a Rheoliadau CGTh (Coed) 1999 (OS 1892).

<sup>10</sup> Gweler **Pennod 14**.

warchodir yn unig (wedi'u nodi gan atodiad a map), a nid y gofynion yn gysylltiedig â chaniatad ac ati;

- (2) bydd y rheoliadau yn darparu bod pob orchymyn newydd yn cael ei weithredu yn syth, ond bydd yn peidio cael effaith ar ôl chwe mis oni bai bod y gorchymyn wedi cael ei gadarnhau;
  - (3) byddant yn rheoli ceisiadau am ganiatâd ar gyfer gwaith i unrhyw goeden a warchodir gan y gorchymyn, ac apeliadau; a
  - (4) byddant yn darparu manylion gweithredu eraill, megis argaeledd iawndal.
- 15.12 Bydd methiannau i gael caniatâd o dan y rheoliadau yn drosedd o hyd, o dan adran 210 DCGTh 1990 - yn amodol ar eithriadau amrywiol, a ystyrir isod.<sup>11</sup>
- 15.13 Roedd Adran 193 Deddf 2008 yn ddarpariaeth drosiannol, i'r perwyl y bydd unrhyw orchymyn a wnaethpwyd o dan yr hen system yn parhau mewn grym ond yn hepgor y darpariaethau i gyd ac eithrio'r rhai sy'n anghenrheidiol i adnabod y goeden a warchodir.
- 15.14 Bydd hyn yn darparu system llawer symlach, a fydd yn haws i'w defnyddio gan berchnogion coed ac awdurdodau cynllunio. Yng ngweddill y Bennod hon, rydym yn tybio y bydd yn sicr o gael ei chyflwyno yng Nghymru yn ei bryd, yn amodol ar unrhyw newidiau a allai gael eu gwneud fel canlyniad i'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd.

### Coed mewn ardaloedd cadwraeth

- 15.15 I gydnabod ffaith y gall sawl coeden o werth amwynder gael ei lleoli o fewn ardaloedd cadwraeth, mae adran 211 DCGTh 1990 yn darparu bod rhaid i'r awdurdod cynllunio dderbyn o leiaf chwe wythnos o rybudd ar gyfer gwaith o bron unrhyw fath i goeden mewn ardal fel hon (ac eithrio un nad yw'n cael ei gwarchod gan GCC), ac felly mae gan yr awdurdod gyfle i osod GCC os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae methiant i roi rhybudd o'r fath hefyd yn drosedd.

### Trwyddedau torri coed

- 15.16 Ochr yn ochr â'r rheoliadau yn y Deddfau cynllunio, mae'r Ddeddf Coedwigaeth 1967 (sydd ar hyn o bryd yn berthnasol drwy Brydain Fawr<sup>12</sup>) yn gofyn am gael trwydded cwmpo coed lle mae unrhyw goeden i'w thorri - eto, yn amodol ar nifer o eithriadau. Dyroddir trwyddedau gan y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a'r Alban; ond yng Nghymru, ers 2013, maent wedi cael eu dyroddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae methiant i gael trwydded yn drosedd.<sup>13</sup>

---

<sup>11</sup> Gweler **paras 15.59 i 15.85**.

<sup>12</sup> Mae'n debygol y bydd y gyfraith yn Yr Alban yn cael ei newid yn sylweddol gan Fil Rheolaeth Coedwigaeth a Thir (Yr Alban), ar hyn o bryd gerbron Llywodraeth Yr Alban. Os ymddeddfir y Bil, bydd yn cymryd lle Deddf 1967 yn Yr Alban.

<sup>13</sup> Deddf Fforestio 1967, a 17.



## Darpariaethau eraill

15.17 Mae'r tri côd statudol (GCC, coed mewn ardaloedd cadwraeth, a thrwyddedau cwmpo coed) yn gysylltiedig â'i gilydd, mewn ffordd o'r fath sydd yn osgoi rheolaeth gorgyffwrdd.<sup>14</sup> Ymhellach, oherwydd bod gwaith i goed yn aml (ond ddim bob amser o bell ffordd) yn cael ei gysylltu â chynlluniau datblygu, mae pob côd hefyd yn cael ei gysylltu â deddfwriaeth gynllunio brif ffrwd, i'r graddau nad oes angen cael caniatâd ar gyfer gwaith i goed er mwyn gwneithredu datblygiad a ganiatawyd mewn ymateb i gais cynllunio.

## Diwygiadau posibl

15.18 Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried yn gyntaf sut mae gorchmynion cadw coed yn cael eu gwneud, a'r angen i gael caniatâd am waith i goed a warchodir gan y gorchmynion, ac wedyn yr angen i roi gwybod i'r awdurdod am waith i goed mewn ardaloedd cadwraeth.

15.19 Yn y Papur Ymgynghori hwn, rydym yn canolbwyntio yn benodol ar y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol. Serch hynny, fel y mae gyda rheoli hysbysebion, mae llawer o'r manylion ynglŷn â rheoli gwaith i goed yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, ac felly rydym hefyd yn codi rhai pwyntiau a ellid eu hystyried ar gyfer eu diwygio pan fydd rheoliadau yn cael eu drafftio i danategu cyflwyniad y system newydd. Deallwn y bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn destun ymarfer ymgynghori pellach cyn iddynt gael eu cyflwyno.

15.20 Rydym yn nodi yn benodol nifer o ddiwygiadau deddfwriaethol a gynigwyd gan Llywodraeth DU yn 1994, mewn perthynas â Lloegr a Chymru.<sup>15</sup> Derbyniodd y cynigion hyn gryn gefnogaeth ar y pryd, ond ni weithredwyd y cynigion, yn ôl pob tebyg oherwydd blaenoriaethau deddfwriaethol. Rydym yn ystyried bod nifer o'r diwygiadau hyn yn dal werth ystyried.

15.21 Fel a nodir yn Rhan Un y Papur Ymgynghori hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw gynigion hyd at hyn ynglŷn â diwygio'r gyfraith am drwyddedau torri coed, neu goedwigaeth yn gyffredinol. Serch hynny, rydym yn ymwybodol o'r cynigion a wnaethpwyd gan Llywodraeth Cymru yn ei dogfen ymgynghoriad ddiweddar *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*, yn enwedig mewn perthynas â choed hynafol, hen goed a choed treftadaeth, sef y coed sy'n berthnasol i'n cynigion mewn perthynas â gorchmynion cadwraeth.<sup>16</sup>

## GORCHMYNION CADW COED

### Beth all gael ei warchod

15.22 Y cwestiwn amlwg cyntaf yw beth all gael ei warchod gan orchymyn cadw coed - beth yw coeden? Mae'r mwyafrif o Ddeddfau nad ydynt yn perthyn yn uniongyrchol i gynllunio sydd yn cyfeirio at "goed" hefyd yn cyfeirio at wrychoedd, llwyni a

---

<sup>14</sup> Deddf Fforestio 1967, a 15.

<sup>15</sup> *Gorchmynion Cadw Coed: Adolygiad*, Adran yr Amgylchedd, 1994.

<sup>16</sup> *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017.

phrysgwydd, heb wahaniaethu rhyngddynt.<sup>17</sup> Mae hyn oherwydd, ym mhob sefyllfa y gyfeirir atynt, (er enghraifft, symud coeden sydd yn crogi dros briffordd), nid yw hi'n gwneud unrhyw wahaniaeth os yw'r planhigyn o dan sylw yn cael ei ddsbarthu fel coeden neu brysgwydden. Mae Deddf Coedwigaeth 1967 yn cyfeirio at bob "coeden", ond nid yw'n cynnwys angen am drwydded torri coed os yw tryfesur y goeden o dan 150 mm, sydd yn awgrymu y gall coeden gael boncyff llai o ran diamedr na hynny - fel a gydnabyddir gan y diffiniad o lasbren fel "coeden ifanc".

- 15.23 Ystyriwyd y cwestiwn, yng nghyd-destun cyfeirio at "goed" mewn deddfwriaeth gynllunio, gan J Cranston yn *Datblygiadau Palm, Ysgrifennydd Gwladol*.<sup>18</sup> Nododd nad oedd y diffiniadau geiriaduron perthnasol yn llawer o gymorth. Mabwysiadodd ddull Phillips J yn *Bullock yn erbyn Yr Ysgrifennydd Gwladol* :

Fyddai neb, am wn i, yn cyfeirio at lwyni a phrysgoed fel "coed", nac ychwaith brysgwydd ond mae'n ymddangos i mi bod unrhyw beth byddai rhywun fel arfer yn cyfeirio ati fel coeden yn "goeden" o fewn y grŵp hwn o adrannau yn Neddf 1971 (rhagflaenydd Pennod 1 Rhan 3 DCGTh 1990).<sup>19</sup>

Terfynodd drwy ddweud bod "glasbren" (o unrhyw faint) yn goeden, a gall glasbren gael ei warchod gan orchymyn coetir.

- 15.24 Mae'n amlwg nad yw'r sylw yn *Bullock*, er y cyfeirir ato yn aml a'i fod o gymorth yn gyffredinol, yn gallu cael ei drawsnewid yn ddiffiniad cynhwysfawr.<sup>20</sup> Nid yw sylw J Collins yn llawer o gymorth chwaith yn *R (Fowler) yn erbyn Ealing LBC* fod dadleuon ynglŷn ag os yw planhigyn yn brysgwydden neu goeden, a ni fyddai'n afresymol i gyngor ddefnyddio gorchymyn cadw coed i warchod rhododendron neu lwyn mefus.<sup>21</sup> Serch hynny, mae'r datganiadau hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng prysgwydden a llwyn, ar yr un llaw, a choeden. Diffinia un geiriadur y gair "prysgwydden" fel "planhigyn coediog sy'n llai na choeden, gyda nifer o brif goesynnau yn codi o'r tir neu yn agos i'r tir"; a "llwyn" fel "prysgwydden neu glwstwr o brysgwydd gyda choesynnau o hyd cymedrol".<sup>22</sup>

- 15.25 Nid ydym yn ystyried ei bod yn debygol y cawn ni ddiffiniad unigryw o "coeden" a fydd yn hollol foddhaol at ddibenion presennol. Rydym wedi ystyried y byddai o help i ddarparu diffiniad rhannol, yng nghyd-destun y darpariaethau presennol yn Rhan 8 DCGTh 1990, drwy nodi nad yw hi'n cynnwys llwyn neu brysgwydd. Byddai hyn yn helpu ei gwahaniaethu rhag y darpariaethau eraill mewn Deddfau eraill a y cyfeirir atynt uchod.<sup>23</sup> Byddai'n hefyd yn awgrymu os bydd, er enghraifft, rhododendron benodol yn cael ei dosbarthu yn gywir fel "coeden", yna gellir ei gwarchod gan

---

<sup>17</sup> Er enghraifft, Deddf y Priffyrdd 1980, adrannau 96, 141, 142; Deddf Iechyd Planhigion 1967, adran 1; Deddf Dwyn 1968, adran 4; Deddf Difrod Troseddol 1971, adran 10; Deddf Trydan 1989, Atodiad 4.

<sup>18</sup> [2009] EWHC 220 (Gweinyddol), 2 P&CR 16, at [1].

<sup>19</sup> (1980) 40 P&CR 246 at 251. Gweler hefyd TAN 10, para 5.

<sup>20</sup> Gwelwch ein sylwadau yn y Bennod flaenorol am y diffiniad o "hysbysebiad".

<sup>21</sup> *R (Fowler) v Ealing LBC* [2004] EWHC 2860 (Admin), a [13] i [16].

<sup>22</sup> Geiriadur Saesneg Newydd Rhydychen, argraffiad 1af, 1988..

<sup>23</sup> Gweler **troednodyn 17**.

orchymyn cadw coed; ond os caiff ei dosbarthu fel "llwyn" (fel sy'n digwydd gan amlaf, ond nid bob amser) yna nid yw'n gallu.

- 15.26 Er hynny, at ei gilydd, rydym yn tybio y byddai diffiniad o'r fath - os ar ffurf darpariaeth statudol - yn creu yr un faint o ansicrwydd ag y byddai'n osgoi; ac felly rydym yn ystyried dros dro na ddylai'r term "coeden" gael ei diffinio mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn dal i adael y posibilrwydd o ganllawiau anstatudol ynglŷn â pha fath o blanhigion a ellir eu gwarchod yn briodol - nodwn, er enghraifft, y datganiad yn TAN 10 "Ni all GDC fod yn gymwys i lwyni, prysgwydd neu wrychoedd. Er hynny, gellir gwneud GDC i warchod coed mewn gwrychoedd neu hen wrych sydd wedi mynd yn llinell o goed". Rydym yn ystyried bod yr agwedd honno yn fwy addas.
- 15.27 Rydym hefyd yn ystyried isod y posibilrwydd o eithrio'r angen am ganiatâd ar gyfer gwaith i goed llai o ran maint.<sup>24</sup>
- 15.28 Gall GDC hefyd warchod "coetir" - a mae'r gyfraith yn gysylltiedig â gorchmynion coetiroedd ychydig yn wahanol i'r un ar gyfer gorchmynion sydd yn gwarchod coed unigol a grwpiau; mae'r Llys Apêl wedi nodi bod gorchymyn coetir yn "anifail gwahanol" i orchymyn ardal.<sup>25</sup> Dadleuir weithiau nad yw grŵp penodol o goed yn golygu "coetir". Er hynny, fel a nodir gan Sullivan J yn *R (Plimsoll Shaw Brewer) yn erbyn CD Three Rivers*, mae hyn yn amlwg yn gwestiwn o ffaith a gradd i'r awdurdod cynllunio benderfynu.<sup>26</sup> Nid ydym yn ystyried y byddai diffiniad statudol o gymorth.

### Cwestiwn ymgynghori 15-1

**Rydym yn ystyried dros dro na fyddai o help i ddiffinio "coeden" neu "goetir" yn y cyd-destun o beth all ellir ei warchod gan orchymyn diogelu coed.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno? Os nad ydynt, pa ddiffiniadau fyddai'n addas?**

### Sylfaen bolisi ar gyfer gwarchodaeth

- 15.29 Gall awdurdod wneud GDC yn unig os yw'n ymddangos i'r awdurdod ei bod yn fanteisiol ar gyfer cadwraeth coed neu goetir "er lles amwynder".<sup>27</sup> Yn anffodus, nid yw ystyr y term "amwynder" yn hollol glir, a mae'r defnydd o'r term ar lafar wedi newid yn raddol dros y 70 mlynedd diwethaf.
- 15.30 Yn hanesyddol, tybiwyd bod "amwynder" yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio yn unig at amwynder gweledol - mae'r cwestiwn a yw'r goeden yn darparu lles i'r cyhoedd yn

<sup>24</sup> Gweler paras 15.81 i 15.85.

<sup>25</sup> *Evans yn erbyn Waverley BC* [1995] 3 PLR 81, CA, per Hutchinson LJ at tud 93D. Ar gyfer gorchmynion ardaloedd, gweler paras 15.41 i 15.45.

<sup>26</sup> [2007] EWHC 1290 (Gweinyddol) a [12].

<sup>27</sup> DCGTh 1990, adran 198(1). Ni effeithir ar hyn gan y newidiadau i'w gwneud yn Neddf Gynllunio 2008 (gweler para 15.8).

fater o'i hymddangosiad a pha mor hawdd y mae i'w gwel a chan faint o bobl. Un diffiniad o "amwynder" y cyfeirwyd ato mewn penderfyniad yr Uchel Lys yn 1968 yw "ymddangosiad gweledol a'r plesur o'i fwynhau".<sup>28</sup> A nodwn fod Papur Ymgynghori diweddar Llywodraeth Cymru am *Adnoddau Naturiol* yn awgrymu:

Nid yw'r prawf "amwynder", er enghraifft, yn ystyried gwerth ehangach coed hynafol, hen goed a choed treftadaeth, yn enwedig y gwerth sylweddol sydd ganddynt yn aml o ran bioamrywiaeth.<sup>29</sup>

- 15.31 Mae'r ddarpariaeth gyfatebol sy'n berthnasol yn Yr Alban yn cyfeirio'n fanwl at y posibilrwydd o GCC yn cael ei wneud er lles amwynder neu oherwydd bod y coed neu goetiroedd o dan sylw o arwyddocâd diwylliannol neu hanesyddol neu'r ddau.<sup>30</sup> Awgryma hyn nad yw ystyr y gair "amwynder" yn ymestyn i gynnwys arwyddocâd ehangach coeden.
- 15.32 Er hynny, gallai ystyr ehangach o'r term gael ei awgrymu gan benderfyniad y Llys Apêl yn 1981, i'r perwyl bod "amwynder" yn golygu "amgylchiadau neu nodweddion dymunol, a manteision".<sup>31</sup> Awgrymir mewn un geiriadur bod y diffiniad yn golygu "dymunoldeb neu atyniad lle".<sup>32</sup>
- 15.33 Mae'r farn gyffredin ynglŷn â gwerth coed, gan bobl proffesiynol perthnasol a gan y cyhoedd yn fwy cyffredinol, nawr yn seiliedig ar ystod sylweddol ehangach o ffactorau nag a fyddid wedi ei gwmpasu gan y syniad o amwynder gweledol yn unig. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â choed hynafol, hen goed a choed treftadaeth, fel a ddengys y dyfyniadau uchod. Ymhellach, mae adran 6(1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gofyn am i awdurdodau cyhoeddus geisio cadw a chyfoethogi bioamrywiaeth yn eu gwaith.
- 15.34 Rydym felly yn ystyried y byddai'n ddymunol i'w gwneud yn glir y gall gorchymyn cadw coed gael ei wneud ar sail ffactorau ar wahân i olwg. Byddai hyn yn egluro'r gyfraith a'i ddiweddarau gyda'r syniadau cyfredol ynglŷn â'r sail ar gyfer gwneud gorchymyn o'r fath.
- 15.35 Rydym yn nodi bod rheoliad 4 Rheoliadau CGTh (Rheolaeth Hysbysebion) 1992, ystyriwyd yn y Bennod flaenorol, yn darparu, trwy arfer pwerau sydd yn bodoli o dan y Rheoliadau hynny, dylai'r awdurdod wneud hynny er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd; ac yna aiff yn ei flaen i restru (ar sail nad yw'n unigryw) rhai ffactorau sy'n

---

<sup>28</sup> *Cartwright v Post Office* [1968] All ER 646 a para 648.

<sup>29</sup> Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017, tudalen 26 - paragraff (a).

<sup>30</sup> TCP (Scotland) Act 1997, adran 160(1), (1A), wedi'i amnewid yn Planning etc (Scotland) Act 2006, adran 28.

<sup>31</sup> *FFF Estates* yn erbyn Hackney LBC [1981] QB 503, CA, per Stephenson LJ tud 517, cyfeirir ati gyda chymeradwyaeth sylw *Scrutton LJ* yn *Re Ellis a Ruislip-Northwood UDC* [1920] 1 KB 343 tud 370.

<sup>32</sup> Geiriadur Rhydychen.

berthnasol i amwynder a rhai i ddiogelwch y cyhoedd.<sup>33</sup> Rydym yn ystyried dros dro y gallai dull tebyg gael ei fabwysiadu mewn perthynas â swyddogaethau Cod perthnasol i goed. Gallai'r Bil felly ddatgan

(1) y dylai'r swyddogaethau rhain gael eu harfer er lles amwynder,

(2) bod "amwynder" at y dibenion hyn yn cynnwys golwg, prinder, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol ac adloniadol; a

(3) bod Gweinidogion Cymru yn darparu mewn rheoliadau rhestr o ffactorau sydd yn berthnasol i amwynder.

15.36 Gallai'r Rheoliadau wedyn gynnwys, os ystyrid bod hynny yn ddymunol, rhestr fanylach o ffactorau i'w hystyried er lles amwynder. Byddai hyn yn galluogi'r ddeddfwriaeth gael ei newid yn haws i adlewyrchu gorchmynion polisi newidiol.

15.37 Yn ychwanegol, bydd cynnwys - fel a gynigiwyd yn gynharach - dyletswydd gyffredinol i ystyried y cynllun datblygu a pholisi cenedlaethol yn golygu y bydd rhain yn berthnasol yn awtomatig i arfer y swyddogaethau yn gysylltiedig â choed. Mae nifer o gynlluniau datblygu eisoes yn cynnwys polisiau a thestun cefnogol yn gysylltiedig â defnydd GCC i warchod coed. Mae polisi cenedlaethol yn TAN 10, ac heb amheuaeth bydd fersiwn wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi ar yr un amser ag y bydd y system newydd, a gyflwynwyd yn Neddf Gynllunio 2008, yn dod i rym yng Nghymru.

15.38 Mae polisiau a chanllawiau o'r fath yn cael eu ffurfio bob amser er lles amwynder - yn yr ystyr ehangach o'r term hwnnw, wedi'i amlinellu uchod - fel y bydd cyfeirio at y cynllun datblygu yn y cyd-destun hwn yn helpu creu system gysylltiedig.

### **Cwestiwn ymgynghori 15-2.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil gynnwys;**

- (1) dylai cyfrifoldebau gan y Cod sydd yn berthnasol i warchod coed gael eu hymarfer er budd amwynder;**
- (2) bod "amwynder" at y dibenion hynny yn cynnwys golwg, oed, prinder, bioamrywiaeth, hanes, gwyddoiaeth a gwerth adloniadol; a**
- (3) dylai rheoliadau diogelu coed ragnodi materion a ystyriwyd i fod yn berthnasol ar gyfer amwynder.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

---

<sup>33</sup> Gweler para 14.2.

## Gwneud gorchmynion cadw coed

- 15.39 Nodir yn DCGTh 1990 y gall awdurdod cynllunio wneud gorchymyn i gadw "coed, grwpiau o goed neu goetiroedd".<sup>34</sup> Mae Rheoliadau 1999 yn gofyn y bydd gorchymyn yn "nodi'r coed, grwpiau o goed neu goetiroedd yn gysylltiedig ag ef".<sup>35</sup> Mae'r gorchymyn enghreifftiol cyfredol (yn yr Atodiad i'r Rheoliadau rhain<sup>36</sup>) yn gwahardd torri (ayyb) "unrhyw goeden a enwir yn Atodiad 1 y Gorchymyn hwn neu a gynhwysir o fewn grŵp o goed neu mewn coetir a nodir". Ac mae angen i bob gorchymyn gael eu cadarnhau os ydynt i gael effaith am fwy na chwe mis wedi iddynt gael eu gwneud.
- 15.40 Mae gorchymyn yn gwarchod un coeden neu grŵp o goed a nodwyd yn benodol yn syml iawn - nodir y coed i'w gwarchod yn cael mewn atodiad, a'u dangos ar fap wedi'i atodi i'r gorchymyn.
- 15.41 Er hynny, mae'r Atodiad i'r gorchymyn enghreifftiol yn rhagweld bod modd gwarchod "coed a enwir yn unigol" neu "goed a enwir drwy gyfeirio at ardal", "grwpiau o goed" a "choetiroedd".<sup>37</sup> Mae hyn yn cyflwyno'r cysyniad o "orchymyn ardal", nas cyfeirir ato unrhyw le yn y ddeddfwriaeth. Cynllunir gorchymyn "ardal" i warchod yr holl goed, o ba oedran bynnag neu fath, sydd yn tyfu unrhywle o fewn ardal a ddangosir ar fap Ordnans yn gysylltiedig â'r gorchymyn.
- 15.42 Mae hyn yn codi sawl problem. Yn gyntaf, mae rhagdybiaeth gyffredinol bod gorchymyn ardal ond yn gwarchod coed a oedd yn bodoli ar yr adeg y gwnaed y gorchymyn. Fel mae amser yn mynd yn ei flaen, mae hyn yn dod yn fwy problematig.
- 15.43 Yn ail, mae'r Llys Apêl yn *Evans yn erbyn CB Waverley* wedi dal bod gorchmynion coetiroedd yn gwarchod yr holl goed, o unrhyw fath neu oedran, sydd o fewn y darn perthnasol o dir.<sup>38</sup> Er hynny, mae'r gwaharddiad yn y gorchymyn enghreifftiol (nodir uchod) yn gysylltiedig ag "unrhyw goeden a nodir yn Atodiad 1...neu a gynhwysir o fewn grŵp o goed neu mewn coetir a nodir". Nid yw'n glir pam na fyddai'r dull yn *Evans*, os yn gywir, yn gymwys i'r dehongliad o orchymyn ardal, fel y byddai'n gwarchod yr holl goed yn yr ardal, pa un ai eu bod yn bodoli ar yr adeg y gwnaed y gorchymyn ai peidio. Os oes gwahaniaeth i'w wneud rhwng gorchmynion ardal a gorchmynion coetiroedd, dylid ei nodi yn ddiamwys ar wyneb y Bil.
- 15.44 Yn drydydd, defnyddir gorchmynion ardal mewn sawl achos ar sail rhagofalus i warchod y coed i gyd ar safle fawr sy'n debygol o gael ei ddatblygu. Y gobaith yw, unwaith mae'r datblygiad wedi cael ei gymeradwyo a'i gwblhau, gall y coed sydd yn weddill (gan gynnwys rhai newydd a blannir yn unol ag amodau tirlunio) gael eu gwarchod wedyn gan orchmynion unigol neu orchmynion grwpiau fel y bo'n briodol.

---

<sup>34</sup> DCGTh 1990, a 198(1).

<sup>35</sup> TCP (Trees) Regulations 1999, reg 2(1)(a).

<sup>36</sup> Gweler **para 15.6**.

<sup>37</sup> Atodiad 1 i'r gorchymyn enghreifftiol (yn yr Atodiad i Reoliadau CGTh (Coed) 1999).

<sup>38</sup> *Evans v Waverley BC* [1995] 3 PLR 81, CA, a 87B, 93C; *R (Plimsoll Shaw Brewer) v Three Rivers DC* [2007] EWHC 1290 (Admin) a [22]; *Palm Developments Secretary of State* [2009] EWHC 220 (Admin), 2 P&CR 16, a [42].

Ond mewn llawer achos mae'r hen orchymyn ardal yn dal mewn lle yn amhenodol, er y bydd y sefyllfa ar y tir yn hollol wahanol i'r hyn yr oedd adeg gwneud y gorchymyn.

- 15.45 Nid yw'r defnydd o orchymynion ardal wedi cael ei annog ers sawl blwyddyn gan Lywodraeth y DU. Felly mae TAN 10 yn datgan "dylai dosbarthiad ardal gael ei ddefnyddio fel eithriad yn unig, a dim ond nes gall y coed dderbyn dosbarthiad unigol neu ddosbarthiad grŵp".<sup>39</sup> Mae'r llysoedd hefyd wedi mynnu bod awdurdodau yn gofalu peidio â gwneud "GDC cyffredinol".<sup>40</sup> Cynigiodd Llywodraeth y DU yn 1994 gyflwyno darpariaeth newydd yn gofyn bod gorchymynion ardal, wedi iddynt gael eu cadarnhau, gael eu newid i orchymynion yn nodi'r coed a warchodir yn unigol neu drwy gyfeirio at grwpiau; a byddai gorchymynion ardal cyfredol yn peidio â chael effaith ar ôl cyfnod trawsnewidiol o bum mlynedd.<sup>41</sup> Rydym yn ystyried dros dro bod hyn dal yn ymagwedd synhwyrol.
- 15.46 Yn achos gorchymynion coetiroedd, os nad oedd dull y llysoedd yn *Evans* (nodir uchod) yn gywir, byddai'n feichus yn weinyddol i orfod adnewyddu gorchymynion yn rheolaidd i sicrhau gwarchod coed ar fin dod i fodolaeth (naill ai wedi'u plannu neu wedi'u hadu eu hunain) wedi i orchymyn gael ei wneud yn gyntaf. Rydym felly yn ystyried y byddai o help i gadarnhau bod y gorchymynion yn gwarchod y coed i gyd - o unrhyw oed - o fewn yr ardal benodol.
- 15.47 Rydym felly yn cynnig dros dro bod y pwerau yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â gorchymynion cadw coed yn darparu
- (1) am orchymynion i'w gwneud i warchod coed, wedi'u henwi yn unigol neu drwy gyfeirio at ardal; grwpiau o goed; a choetiroedd;
  - (2) bod gorchymynion mewn perthynas â choed a enwir drwy gyfeirio at ardal neu grwpiau o goed yn gwarchod dim ond y coed a oedd yn bodoli ar yr adeg y gwnaed y gorchymynion;
  - (3) bod gorchymynion i gyd yn peidio â chael effaith oni bai eu bod wedi'u cadarnhau o fewn chwe mis;
  - (4) bod gorchymynion ardal newydd yn darparu gwarchodaeth nes eu bod yn cael eu cadarnhau yn unig, yna bydd rhaid iddynt gael eu newid i orchymynion yn enwi'r coed i'w gwarchod naill ai yn unigol neu fel grwpiau;
  - (5) bod gorchymynion ardal cyfredol, sydd eisoes wedi cael eu cadarnhau, yn peidio â chael effaith ar ôl pum mlynedd; a
  - (6) bod gorchymynion coetiroedd yn gwarchod yr holl goed, o unrhyw oed a math, o fewn yr ardal benodol, p'un ai eu bod mewn bodolaeth ar ddyddiad y gorchymyn ai peidio.

---

<sup>39</sup> TAN 10, Atodiad A, para A.5; gweler hefyd Cylchlythyr Swyddfa Gymreig 64/78, Memorandwm, para 43.

<sup>40</sup> *Robinson v East Riding of Yorkshire Council* [2002] EWCA Civ 1660 a para 24.

<sup>41</sup> *Gorchymynion Cadw Coed: Adolygiad*, Adran yr Amgylchedd, 1994, paragraffau 2.16-2.19.

### Cwestiwn ymgynghori 15-3.

#### Cynigiwn dros dro

- (1) bod y Bil yn ei gwneud yn glir y gall gorchmynion cadw coed yn y dyfodol gael eu gwneud i warchod coed - wedi'u henwi naill ai yn unigol neu drwy gyfeirio at ardal - neu grwpiau o goed neu goetiroedd;
- (2) bod gorchmynion ardal a gorchmynion grwpiau ond yn gwarchod y coed a oedd yn bodoli ar yr adeg y gwnaed y gorchymyn;
- (3) bod gorchmynion ardal newydd yn darparu gwarchodaeth nes eu bod yn cael eu cadarnhau yn unig, yna bydd rhaid iddynt gael eu newid i orchmynion yn enwi'r coed i'w gwarchod naill ai yn unigol neu fel grwpiau;
- (4) bod gorchmynion ardal cyfredol, sydd eisoes wedi cael eu cadarnhau, yn peidio â chael effaith ar ôl pum mlynedd; a
- (5) bod gorchmynion coetiroedd yn gwarchod yr holl goed, o unrhyw oed a math, o fewn yr ardal benodol, p'un ai eu bod mewn bodolaeth ar ddyddiad y gorchymyn ai peidio.

#### Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### Hysbysu gorchmynion newydd

15.48 Mae unrhyw dor-gorchymyn cadw coed yn drosedd o atebolrwydd fanwl. Er mwyn lleihau'r siawns bod unrhyw un yn cyflawni trosedd trwy amryfusedd, mae'n bwysig, felly, bod:

- (1) gwneud (a chadarnhad wedi hyn) gorchymyn yn cael ei hysbysu heb oedi ac yn gywir i bawb sy'n debygol o gael eu heffeithio, ac a allai fod ar fin gwneud gwaith i'r goeden o dan sylw;<sup>42</sup>
- (2) bodolaeth y gorchymyn yn cael ei wneud yn bridiant tir lleol, er mwyn ei ddwyn i sylw perchnogion yr eiddo yn y dyfodol; a
- (3) bod copi o'r gorchymyn ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus, i hysbysu'r rhai sy'n bwriadu gwneud gwaith yn y dyfodol.

15.49 Cyflawnir hyn gan ofynion gweithredol yn y rheoliadau perthnasol.

15.50 Ynglŷn â'r pwynt cyntaf, mae Rheoliadau 1999 yn gofyn am orchymyn i'w hysbysu i berchnogion a phreswylwyr unrhyw dir a effeithiwyd gan orchymyn ac unrhyw dir cyfagos.<sup>43</sup> Mewn rhai achosion, gall hyn fod yn brif ymarfer gweinyddol. Ceisiodd Rheoliadau 2012 yn Lloegr i symleiddio hyn, trwy gyfyngu'r hysbysiad i berchnogion

<sup>42</sup> Gweler er enghraifft *Knowles v CB Chorley* [1998] JPL 593.

<sup>43</sup> Rheoliadau Tref a Gwlad (Coed) Regulations 1999, rheoliad 1(2).



a phreswylwyr "y tir ble leolir y coed [ac ati]". Nid yw hyn egluro beth yn union sydd angen ei wneud mewn sefyllfa gyffredin lle mae coeden yn tyfu yn agos i ffin llain, yn bargodi llain gyfagos.

- 15.51 Rydym yn ystyried dros dro y dylai'r rheoliadau ei gwneud yn glir y bydd gorchymyn yn cael ei hysbysu i berchnogion a phreswylwyr unrhyw ddarn o dir yn lleoli unrhyw ran o unrhyw goeden a warchodir gan y gorchymyn.
- 15.52 Ystyriwn ni y pwysigrwydd o'r trydydd pwynt yng nghyd-destun erlyniadau ar gyfer gwaith anawdurdodedig.<sup>44</sup>

#### **Cwestiwn ymgynghori 15-4.**

**Ystyriwn dros dro y dylid egluro bod gwneud gorchymyn diogelu coed yn cael ei hysbysu i berchnogion a phreswylwyr unrhyw ddarn o dir yn lleoli unrhyw ran o unrhyw goeden a warchodir gan y gorchymyn.**

**Yw ymgynghoreion yn cytuno?**

## **GWAITH I GOED GWARCHODEDIG**

### **Gorgyffwrdd gyda caniatâd cynllunio**

- 15.53 Yn ein Papur Cwmpasu, fe nodom bod peth gorgyffwrdd rhwng caniatâd cynllunio a chaniatâd i waith ar goed a warchodir.
- 15.54 Mae hyn yn codi yn rhannol oherwydd gellid dweud bod cynnal gwaith ar goed yn ddatblygiad, sydd angen caniatâd cynllunio - gan fod gan waith fel hyn rywbeth yn gyffredin â gwaith tirlunio; ystyrir rhain weithiau i fod yn weithredoedd peirianyddol. Mae'n wir bod coeden yn rhan o'r tir ei hun, ond felly hefyd mwynau cyn iddynt gael eu cloddio. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod "gweithredoedd peirianyddol" wedi eu hamlygu yn benodol fel categori datblygiad ar wahân, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw achos wedi ei grybwyll lle mae unrhyw un hyd yn oed wedi awgrymu, heb sôn am ddadlau yn llwyddiannus, bod gwaith ar goed yn ddatblygiad sydd angen caniatâd cynllunio.
- 15.55 Felly nid ydym yn gweld bod unrhyw angen i egluro'r gyfraith ar y mater hwn.
- 15.56 Yn ail, o bryd i bryd gwneir gwaith ar goed mewn perthynas â chynigion datblygu. Fodd bynnag, ymhob achos, mae'r rheoliadau perthnasol yn sicrhau bod dyroddi caniatâd yn trechu'r angen am gydsyniad gan unrhyw orchymyn diogelu coed, neu hysbysiad mewn perthynas ag unrhyw ardal gadwraeth, neu drwydded cwmpo coed, yn ôl yr achos. Felly mae o gymorth i'r sawl sydd yn ystyried ceisiadau am gydsyniad o'r fath fod yn ymwybodol o'r sefyllfa gynllunio gyffredinol, ac os yw'r sawl

---

<sup>44</sup> Gweler para 15.114 i 15.119.

sy'n ystyried dyroddi caniatâd cynllunio yn ymwybodol o oblygiadau y datblygiad arfaethedig ar unrhyw goed. Ond does dim cwestiwn o fod angen dau ganiatâd.

- 15.57 Ond, yn amlach, gwneir gwaith i goed fel gweithred ar wahân, felly does dim gorgyffwrdd gyda rheolaeth gynllunio prif ffrwd.
- 15.58 Felly nid ydym yn gweld unrhyw fudd o ddod â gwaith i goed o fewn y system gynllunio gyffredinol.

### **Cwestiwn ymgynghori 15-5.**

Ystyriwn na ddylir dod a gwaith a wnaer i goed o fewn rychwant datblygiad sydd yn galw am caniatad cynllunio, am nad yw'n ddefnyddiol.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Angen am ganiatâd**

- 15.59 Fel y disgwylir, mae sawl eithriad i'r rheol bod angen cael caniatâd am unrhyw waith i goeden a warchodir gan orchymyn cadw coed.
- 15.60 O dan y gyfraith bresennol (cyn ei newid yn Neddf Gynllunio 2008), dyma'r prif eithriadau a gynhwysir o fewn DCGTh 1990:
- (1) gwaith ar goed sy'n marw neu wedi marw, neu sy'n beryglus;
  - (2) gwaith sydd yn anghenreidiol o ganlyniad i ofyn statudol;
  - (3) gwaith sydd yn anghenrheidiol i atal neu leihau niwsans; a
  - (4) gwaith coedwigaeth a gymeradwywyd gan Adnoddau Naturiol Cymru.<sup>45</sup>

Darperir eithriadau eraill o fewn y gorchymyn ei hun - bydd yr union eiriad yn dibynnu ar y gorchymyn enghreifftiol a fydd mewn grym ar yr adeg y'i gwnaethpwyd.

- 15.61 O dan y system newydd, cyflwynwyd yn Neddf Gynllunio 2008, bydd yr eithriadau i gyd i'r angen am ganiatâd - heb ystyried dyddiad y gorchymyn - o fewn y rheoliadau a wnaethpwyd o dan y Ddeddf, a bydd rhain yn sicr i gael eu newid yn ychydig o bryd i'w gilydd. Bydd hyn yn llawer symlach. Er hynny, mae 'na rhai problemau gyda'r eithriadau presennol, a allai gael eu datrys yn fuddiol wrth ystyried yr eithriadau i'w cynnwys yn y rheoliadau newydd.

### **Gwneud gwaith ar goed sy'n marw neu wedi marw, neu sy'n beryglus**

- 15.62 O dan y gyfraith bresennol, mae adran 198(6)(a) DCGTh 1990 yn darparu na all gorchymyn cadw coed rwystro torri, diwreiddio, tocio, neu frigdorri "coed sy'n marw neu wedi marw neu sydd wedi dod yn beryglus".

---

<sup>45</sup> DCGTh 1990, adrannau 198(6), 200.

- 15.63 Mae wedi cael ei gydnabod ers amser hir bod penderfynu a yw coeden yn "marw" neu beidio yn llawn ansicrwydd. Honnir yn aml, ar ôl torri coeden, ei bod yn beryglus. Felly, pan gyflwynwyd y system newydd yn Lloegr, gwnaeth y Rheoliadau hepgor yr angen am ganiatâd o'r categorïau gwaith canlynol yn unig
- “14(1) (a) torri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden
- (i) sydd wedi marw...
- (b) tynnu canghennau meirwon o goeden fyw;
- (c) torri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau bod gwaith o'r fath yn anghenrheidiol ar frys i gael gwared ar risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu i'r fath raddau arall fel a gytunir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau;...”<sup>46</sup>
- 15.64 Mae hyn yn tynnu, yn effeithiol, yr elfen "marw" o'r eithriad yn adran 198(6)(a), ac mae'n tynhau'r elfen "peryglus".
- 15.65 Mae'r eithriad newydd yn gysylltiedig â brigau meirwon wedi cael ei gynllunio yn glir i adael perchnogion tai ac eraill i symud pren marw yn aml heb ganiatâd, gan caniatáu gwaith cyfreithlon sydd heb amheuaeth wedi digwydd ar lawer achlysur. Mae hii'r graddau hynny yn synhwyrol. Ond gallai hyn arwain at ganlyniadau anffodus, fel y mae'n digwydd yn aml gyda hen goed, lle mae rhan sylweddol (ond ddim y rhan gyfan) o'r goeden wedi marw - oherwydd byddai'n bosibl i dynnu, yn hollol gyfreithiol, un cangen ar ôl llall tan nad oes pwynt cadw beth sydd yn weddill.
- 15.66 Yn Yr Alban, mewn cyferbyniad, mae'r eithriad cyfatebol yn Neddf CGTh (Yr Alban) 1997 yn darparu nad yw gorchymyn yn gwahardd "diwreiddio, torri neu docio rhag goed os yw'n anghenrheidiol ar frys er lles diogelwch".<sup>47</sup> Nid yw hynny yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer torri coed sydd naill ai "yn marw" neu "wedi marw" heb ganiatâd. A nid oes eithriad o'r fath yn y gorchymyn enghreifftiol cyfredol.<sup>48</sup> Mae hyn yn golygu os yw coeden wedi marw (neu yn marw) **ac** yn beryglus, ni fydd angen caniatâd i'w gwneud yn ddiogel. A phe bai tynnu cangen yn anghenrheidiol am resymau diogelwch - er enghraifft oherwydd fforch wan - ni fyddai hynny angen caniatâd chwaith. Ond ni all yr angen am ganiatâd gael ei osgoi yn unig oherwydd bod y goeden yn marw neu wedi marw, oni bai nad yw hi'n beryglus.
- 15.67 Rydym yn ymwybodol y gall coeden sydd wedi marw neu yn marw, mewn rhai achosion, fod yn gynefin ar gyfer bywyd gwyllt; a gall ei gwaredu am y rheswm hwnnw fod yn annymunol. Mewn achosion eraill, gall cael gwared ar goeden sydd wedi marw neu yn marw fod yn briodol os yw'r goeden bellach yn ddiolwg, o bosib gyda phlannu un newydd addas i ddilyn hynny. Mae gwahaniaethu rhwng y ddwy sefyllfa yn fater y dylid ei adael i ddisgresiwn yr awdurdod cynllunio. Ond nid oes rheswm pam na

---

<sup>46</sup> 2012 OS 605.

<sup>47</sup> Deddf Cynllunio Tref a'r Gwlad (Yr Alban) 1997, a 160(6)(a).

<sup>48</sup> Cylchlythyr Llywodraeth Yr Alban 2011, *Gorchymynion Cadw Coed*, Atodiad A.

ddylai gwaith o'r faith fod yn eithriedig o'r angen am ganiatâd - oni bai bod y goeden mewn cwestiwn yn beryglus.

- 15.68 Rydym yn awgrymu dros dro, felly, bod dull Yr Alban yn fwy dymunol, felly ni fydd angen cynnwys eithriadau gyfwerth â'r rhai yn rheoliad 14(1)(a)(i) a (b) Rheoliadau newydd Lloegr pan gyflwynir rheoliadau cyfatebol yng Nghymru.<sup>49</sup>
- 15.69 Ynglŷn â gwaith y dywedir ei fod yn anghenrheidiol am resymau diogelwch, ystyriwn fod yr dyma'r agwedd a gymerwyd yn rheoliad 14(1)(c) Rheoliadau newydd Lloegr yn fwy dymunol na'r un a welir yng ngeiriad presennol adran 198(6)(a) DCGTh 1990, gan fod y cyntaf o'r ddau ddull yn canolbwyntio ar yr angen am y gwaith penodol a gynigir, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflwr y goeden. Mae'r ddarpariaeth newydd yn Lloegr hefyd wedi cael ei drafftio yn dynnach na'r eithriad cyfatebol yn Yr Alban. Mae'n cyd-daro hefyd gyda phenderfyniad y Llys Apêl yn *R v Brightman*, a oedd wedi sefydlu dyletswydd ar y cyhuddiedig i sefydlu bod coeden yn beryglus adeg y gwaith, nid ar yr awdurdod i brofi nad oedd.<sup>50</sup> Ac mae'n dilyn yr ymagwedd a gymerwyd ers 1968 mewn perthynas â gwaith i adeiladau rhestredig y dywedir eu bod yn hanfodol ar gyfer iechyd neu ddiogelwch.

#### Cwestiwn ymgynghori 15-6.

**Cynigiwn dros dro y dylai'r eithriad o'r angen i gael caniatâd yn ôl gorchymyn cadw coed yn gysylltiedig â gwaith ar "goed sy'n marw neu wedi marw, neu sy'n beryglus" (yn gyfredol yn adran 198(6)(a) DCGTh 1990) gael ei ddisodli yn y rheoliadau coed newydd gydag eithriad yn gysylltiedig yn unig â thorri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau bod gwaith o'r fath yn anghenrheidiol ar frys i dynnu risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu i'r fath raddau arall fel a gytunir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### Gwaith i atal neu leihau niwsans

- 15.70 O dan y gyfraith bresennol, mae adran 198(6)(b) DCGTh 1990 (cyn ei newid yn Neddf Gynllunio 2008) yn darparu nad yw gorchymyn cadw coed yn gallu atal "torri, diwreiddio, tocio neu frigdorri unrhyw goeden....cyn belled â bod angen i atal neu leihau niwsans". Mae'r ddarpariaeth gyfatebol yn Yr Alban yn union yr un peth.<sup>51</sup>
- 15.71 Mae'r ddarpariaeth hon wedi codi ansicrwydd sylweddol.<sup>52</sup> Mae sawl coeden yn bargodi dros ffiniau eiddo. Yn un dehongliad o adran 198(6)(b), gall canghennau neu wreiddiau coeden warchoddedig sy'n croesi ffin gael eu tynnu heb ganiatâd yn unig os

<sup>49</sup> *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017, tudalen 26 - paragraff (b).

<sup>50</sup> [1990] 1 WLR 1255.

<sup>51</sup> Deddf Cynllunio Tref a'r Gwlad (Yr Alban) 1997, a 160(6)(b).

<sup>52</sup> Noda TAN 10, para 26 fod "cyfreithlondeb gweithred o'r fath yn ansicr".

oes modd dangos eu bod yn peri "niwed cyfreithadwy" - yn enwedig gan wreiddiau yn tynnu lleithder o bridd o dan sylfeini adeilad cymdogol. Yn y dehongliad arall, gallant gael eu tynnu ble bynnag maent yn gorgyffwrdd ag awyrle neu bridd cymdogol, heb fod unrhyw angen i ddangos eu bod wedi achosi unrhyw niwed (cyfeirir at yr olaf weithiau fel "gorgyffyrddiad pur").

- 15.72 Mae darpariaeth gyda'r un amodau wedi bodoli ym mhob Deddf gynllunio yn Lloegr a Chymru ers 1947. Roedd y sefyllfa ynglŷn â'r gyfraith gwlad ar y dyddiad hwnnw fel y cafodd ddatgan gan y Llys Apêl yn *Lemmon v Webb* hanner canrif yn gynharach, fel a ganlyn:

Nid yw gorgyffwrdd o ganghennau a gwreiddiau [coeden] dros ac o fewn tir perchennog cyffiniol yn dresmasiad neu feddiant y tir hwnnw a allai ddod yn hawl gyda threigl amser. Mae hi'n niwsans. Byddai gweithred ar yr achos yn sefyll am unrhyw ddifrod a achoswyd gan hyn. Hefyd, gall y person â thir sydd wedi ei effeithio felly leihua'r niwsans os yw perchennog y goeden, wedi derbyn hysbysiad, yn esgeuluso gwneud hyn.<sup>53</sup>

- 15.73 Roedd y penderfyniad hwnnw, a ddefnyddiwyd mewn penderfyniadau eraill cyn-1947,<sup>54</sup> yn gysylltiedig yn llym â brigau oedd yn gorgyffwrdd; ond mabysiadwyd y penderfyniad yn fwy diweddar gan y Dŷ'r Arglwyddi yn *Delaware Mansions Ltd v CS Westminster* mewn perthynas â gwreiddiau yn gorgyffwrdd.<sup>55</sup> Mae hefyd wedi cael ei dilyn mewn nifer o achosion eraill dros y blynyddoedd. Roedd hefyd o'r farn yn *Delaware Mansions* fod "difrod yn cynnwys amharu ar nodweddion dwyn-llwythi o dir preswyl yn...niwsans ynddo ei hun".<sup>56</sup>
- 15.74 Roedd gan yr ymadrodd "lleihau niwsans" felly ystyr clir a sefydlog ymhell cyn ei ymddangosiad cyntaf yng nghyd-destun gorchmynion cadw coed yn DCGTh 1947 (a deddfwriaeth breifat yn gynharach<sup>57</sup>). Cyfeiriodd yr adeg honno, ac mae'n dal i wneud, at wellhad hunangymorth ar gael i unrhyw un sy'n berchen ar neu'n preswyl o ar dir lle mae cangen coeden yn tyfu ar dir cymdogol. Nid oedd angen i brofi difrod. Ystyriodd Yr Arglwydd Parker CJ yn *Cwmni Adeiladu Edgeborough yn erbyn Woking UDC* felly (obiter) fod llawer i'w ddweud am y farn nad oedd rheswm i'w gwneud yn groes i'r ystyr cyffredin o "niwsans" o safbwynt cyfreithlon.<sup>58</sup>
- 15.75 Yn fwy diweddar, yn *Perrin v CB Northampton*, dadleuwyd nad oedd rhaid i'r niwsans, a nodir yn adran 198(6)(b), fod yn "niwsans cyfreithadwy", ond niwsans yn unig yn

---

<sup>53</sup> *Lemmon v Webb* [1894] 3 Pennod 1, CA, per Kay LJ at tud 24. Gwnaeth y penderfyniad hwnnw hefyd adolygu'r awdurdodau i gyd yn ôl i'r ddeunawfed ganrif; a doedd dim amheuaeth pan aeth yr achos i Dŷ'r Arglwyddi ([1895] AC 1).

<sup>54</sup> *Smith yn erbyn Giddy* [1904] 2 KB 448, *Mills yn erbyn Brooker* [191] 1 KB 555 (canghennau); *Butler yn erbyn Standard Telephones and Cables* [1940] 1 All ER 121 (gwreiddiau).

<sup>55</sup> *Delaware Mansions Ltd yn erbyn CS Westminster* [2002] AC 321, HL at [12], Yr Arglwydd Cooke o Thorndon; a gweler penderfyniad *Y Llys Apêl yn Davey yn erbyn Corfforaeth Harrow* [1958] 1 QB 60.

<sup>56</sup> (1998) 88 BLR 99 at [33]. Nid yw'n glir pam ddylai'r egwyddor hon fod yn gyfyngedig i dir preswyl.

<sup>57</sup> Gweler, er enghraifft, Deddf Cyngor Sir Essex 1933, adran 144: "ni fydd person yn torri ... unrhyw goeden ... heblaw ... (c) i'r fath raddau a all fod yn anghenrheidiol i atal creu niwsans i berchennog neu breswylwr y tiroedd cymdogol; neu (d) i'r fath raddau a all fod yn anghenrheidiol yn unol â hawl i leihau niwsans."

<sup>58</sup> (1966) 198 EG 581.

ystyr ehangach y gyfraith gwlad. Yn y lle cyntaf, ystyriodd Y Barnwr Peter Coulson CF, yn eistedd yn y Llys Technoleg ac Adeiladwaith, fod y ddadl honno yn anghywir.<sup>59</sup> Er hynny, pan aeth yr achos i'r Llys Apêl, roedd Syr John Chadwick a Blackburne J ill dau yn ansicr ynglŷn â'r posibilrwydd o fedru gwahaniaethu rhwng "niwsans cyfreithadwy" a "gorgyffyrddiad pur". Nododd yr ail fel a ganlyn "mae'n rhyfeddol, i ddweud y lleiaf, i feddwl mai os bwriad y Llywodraeth oedd i gynnwys rhai elfennau tu hwnt "gorgyffyrddiad pur", na ddywedwyd hyn." Serch hynny, caniatodd y Llys yr apêl am resymau eraill, a nid oedd rhaid penderfynu'r pwynt.<sup>60</sup>

- 15.76 Mae union ystyr yr ymadrodd "lleihau niwsans" felly yn aros yn ansicr; mae'n debygol o fod yn un o'r pynciau cyfreithiol mwyaf pwysig a godir yn y Bennod hon, yn enwedig yng ngoleuni nifer o goed gwarchoddedig sydd yn tyfu ar neu yn agos i finiau eiddo. Rydym yn ystyried dro y byddai o help i'r ansicrwydd hwnnw gael ei ddatrys.
- 15.77 Felly, fel sydd yn digwydd yn gyffredin, bydd tŷ sydd yn berchen i A yn cael ei effeithio gan ddwy goeden wedi eu diogelu gan DGC - un yng ngardd A, y llall yng ngardd B, cymydog, ond sydd yn crogi dros y ffin - dan y gyfraith fel y mae, bydd angen caniatâd ar gyfer gwaith ar goeden A, gwaith i'r rhannau o goeden B yng ngardd B angen caniatâd, ond mwy na thebyg nad oes angen gwaith i'r rhannau o goeden B sydd yn crogi dros ardd A gael caniatâd. Mae hyn yn ymddangos yn afresymegol.
- 15.78 Yn y gorffennol, mae'r Llywodraeth wedi awgrymu cyflwyno gofyn newydd lle gall gwaith i atal neu leihau niwsans cyfreithadwy gael ei wneud heb ganiatâd, ond yn amodol ar ofyn i roi rhybudd blaenorol i'r awdurdod cynllunio. Mae hynny i'w weld yn feichus iawn, ac yn codi'r cwestiwn o beth, yn union, a olygir gan niwsans cyfreithadwy.
- 15.79 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fwy syml i ddiddymu'r eithriad "niwsans" yn gyfan gwbl, er mwyn i berchnogion tir barhau i gael hawl cyfraith gwlad (fel y mae yn *Lemmon v Webb*) i dynnu gwreiddyn neu gangen sy'n gorgyffwrdd, ond byddai rhaid gwneud cais i'r awdurdod cynllunio am ganiatâd o dan unrhyw GDC yn gwarchod y goeden. Gallai cais o'r fath, mae'n debyg, gael ei drin yn union yr un ffordd â phan mae coeden yn achosi problemau tebyg ar y tir lle mae'n tyfu - mae'n sicr y byddai'r awdurdod (neu, ar apêl, Gweinidogion Cymru) yn rhoi pwysigrwydd priodol i'r problemau hyn, a'u cydbwysu yn erbyn unrhyw effaith ar amwynder a fyddai'n codi o ganlyniad o'r gwaith adferol arfaethedig.
- 15.80 Byddai'r cynnig hwn, pe byddai'n cael ei weithredu, yn arwain o bosib at fwy o geisiadau am ganiatâd na sydd ar hyn o bryd. Serch hynny, oherwydd yr ansicrwydd sylweddol ynglŷn â'r gyfraith sy'n bodoli ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd cyn lleied o bobl sy'n bwriadu gwneud gwaith i goed ffiniol gwarchoddedig yn wir dibynnu ar yr eithriad sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rydym felly yn ystyried y byddai'r goblygiadau adnoddau yn deillio o beth cynydd yn y nifer o geisiadau yn cael eu gwrthbwysu gan y gostyngiad mewn ansicrwydd. Ond byddem yn croesawu barn ymgynghoreion ar y pwynt hwn.

---

<sup>59</sup> [2007] 1 All ER 929, 1 P&CR 481, JPL 723 a [34] - [35].

<sup>60</sup> [2008] 1 WLR 1307, CA at [27], [29], [66], [67]. Cytunodd Wall LJ gyda'r ddau ddyfarniad.

### Cwestiwn ymgynghori 15-7.

Ystyriwn dros dro nad yw'r eithriad o'r angen am ganiatâd o dan orchymyn cadw coed yn gysylltiedig â gwaith sy'n "anghenrheidiol i atal neu leihau niwsans" (ar hyn o bryd yn adran 198(6)(b) DCGTh 1990) yn ei ailddatgan naill ai yn y Bil neu yn y rheoliadau coed newydd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Gwaith ar lasbrennau

- 15.81 Gwneir gorchmynion cadw coed fel rheol i warchod coed o faint cymedrol. Ond, mewn rhai sefyllfaoedd, gall y gorchmynion warchod glasbrennau o'r amser y cawsant eu plannu - yn enwedig pan gyflwynir y gorchmynion i osod coeden arall yn lle coeden aeddfed y caniatawyd ei thorri, neu pan mae gofyn iddyn nhw yn unol ag amod tirlunio wedi'i atodi i ganiatâd cynllunio am ddatblygiad newydd, neu (o dan adran 206 DCGTh 1990<sup>61</sup>) yn dilyn symud coeden oherwydd ei bod wedi marw neu yn beryglus neu wedi cael ei thynnu yn anghyfreithlon. Byddai hi'n afresymegol mewn sefyllfa o'r fath i berchnogwr y glasbren fedru tynnu'r glasbren heb ganiatâd.
- 15.82 Er hynny, bydd gorchymyn hefyd yn gymwys i lasbrennau wedi hunan-hadu o fewn coetir gwarchodedig - gan fod, fel a nodir uchod, gorchymyn coetir yn gwarchod coed i gyd, hyd yn oed y rhai newydd sydd yn ymddangos gyntaf flynyddoedd ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud. Yn yr achos hwnnw, ni fyddai o gymorth i ofyn am ganiatâd i waredu isdyfiant a phrysgoedd (sydd yn debygol o gynnwys glasbrennau o'r fath).
- 15.83 Mae eithriad o'r angen am roi gwybod i'r awdurdod cynllunio am waith i goeden mewn ardal gadwraeth lle mae'r goeden o dan sylw yn llai na maint penodol.<sup>62</sup> Ond nid oes eithriad cyfwerth o'r angen am gael caniatâd lle gwarchodir y goedengan GDC. Serch hynny, mae'r gorchymyn enghreifftiol mwya diweddar yn Yr Alban yn cynnwys darpariaeth o'r fath, lle nad oes angen cael caniatâd o dan y gorchymyn ar gyfer torri, diwreiddio, tocio, neu frigdorri coed gyda thryfesur heb fod yn fwy na 75mm (neu 100mm mewn coetir lle mae'r gwaith yn cael ei wneud i wella twf coed eraill).<sup>63</sup> Mae hyn yn caniatáu teneuo coetiroedd, er nad yw'n gwarchod glasbrennau sydd newydd gael eu plannu mewn achosion eraill.
- 15.84 Rydym yn ystyried dros dro y dylai fod eithriad cyfyngedig o'r angen am ganiatâd mewn perthynas â glasbrennau bach, ond nid lle plannwyd nhw fel canlyniad

(1) y gofyniad o dan adran 206 DCGTh 1990; neu

<sup>61</sup> Gweler **para 15.92**.

<sup>62</sup> Rheoliadau Cynllunio Tref a'r Gwlad (Coed) 1999, rheol 10(1)(e), (f).

<sup>63</sup> Erthygl 4(c), (d) o'r gorchymyn enghreifftiol yng Nghylchlythyr Llywodraeth Yr Alban 2011, *Gorchymynion Cadw Coed*, Atodiad A.

(2) yr amod ar ganiatâd cynllunio neu ganiatâd i dorri coeden arall.

15.85 Byddai hyn yn gwarchod glasbrennau a oedd wedi'u plannu yn fwriadol ac yn haeddu cadwraeth, ond byddai'n gadael isdyfiant a phrysgoedd i gael eu tynnu mewn coetiroedd yn rheolaidd heb orfod poeni am erlyniad.

### Cwestiwn ymgynghori 15-8.

**Cynigiwn dros dro bod eithriad newydd yn cael ei gyflwyno o'r angen am ganiatâd o dan reoliadau cadw coed, i adael i waith i gael ei wneud heb ganiatâd ar goed gyda thryfesur heb fod yn fwy na maint penodol, ac eithrio coed a blannwyd fel canlyniad**

(1) y gofyniad o dan adran 206 DCGTh 1990 neu

(2) yr amod ar ganiatâd cynllunio neu ganiatâd i dorri coeden arall.

**Yw ymgynghoreion yn cytuno?**

### Tystysgrif angen am ganiatâd

15.86 Fel y mae gyda dangos hysbysebion, gall fod llawer o ansicrwydd ynglŷn ag os oes angen am ganiatâd ar gyfer gwaith arfaethedig i goeden neu goetir, ac yn enwedig os yw'n cwmpo o fewn un neu fwy o'r eithriadau yn y Ddeddf neu'r gorchymyn (neu, o dan y system newydd, yn y rheoliadau). Ac yma hefyd, mae hyn wir yn anffodus wrth ystyried bod gwneud gwaith ar goed gwarchodedig heb ganiatâd yn drosedd.

15.87 Mae'n bosibl chwilio am farn anffurfiol gan awdurdod; ond ni fydd barn o'r fath o reidrwydd yn ei rhwymo pe ddigwyddai gweithrediadau gorfodi wedi hyn.<sup>64</sup> A byddai'n bosib mewn theori i gael datganiad gan Yr Uchel Lys ynglŷn â'r angen am ganiatâd.<sup>65</sup> Ond nid yw'n bosib cael tystysgrif cyfreithlondeb rhwymol gan yr awdurdod cynllunio, gan nad oes cyswllt gyda chaniatâd cynllunio (fel y mae, o leiaf, yn gysylltiedig â rhai arddangosfeydd o hysbysebion).

15.88 Eto, felly, rydym yn ystyried dro y byddai'n fwy syml i gael mecanwaith, nid annhebyg i'r un yn llywodraethu ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer datblygiadau arfaethedig (CLOPUDs), lle gallai unrhyw un geisio am benderfyniad rhwymol ynglŷn â chyfreithlondeb gwaith arfaethedig i warchod coed - hynny yw, a fyddent yn arwain at drosedd o dan adran 210 DCGTh 1990 pe gwneid y gwaith. Yna byddai tystysgrif o'r fath, o'i dyroddi, yn rhwystro'r awdurdod rhag cychwyn erlyniad.

15.89 Fel gyda'n cynnig tebyg mewn perthynas â thystysgrifau ynghylch yr angen am gydsyniad i arddangos hysbysebion<sup>66</sup> byddem yn croesawu barn ymgynghoreion ynghylch sawl cais tebyg all fod mewn gwirionedd am dystysgrifau ynghylch yr angen

<sup>64</sup> *Postermobile v Brent LBC*, The Times, 8 Rhagfyr 1997; *R v Westminster CC v National Car Parks* [2002] (heb ei adrodd).

<sup>65</sup> Er gall hyn fod yn anodd yn ymarferol; gweler Chambers yn erbyn Guildford BC [2008] JPL 1459, QB.

<sup>66</sup> Gweler **para 14.70**.



am gydsyniad ar gyfer gwaith ar goed. ac a fyddai'r baich o'u prosesu yn fwy neu'n llai na'r budd a gaed o ffordd hawdd o gael sicrwydd.

- 15.90 Byddai'n well i weithdrefn ar gyfer ceisiadau o'r fath gael ei chynnwys yn y Rheoliadau newydd pan fydd y system newydd yn dod i rym; ond byddai angen addasu'r darpariaethau galluogi o ganlyniad.

#### **Cwestiwn ymgynghori 15-9.**

**Ystyriwn dros dro y dylid cyflwyno darpariaeth yn y rheoliadau coed (gyda darpariaeth alluogi briodol yn y Bil) i alluogi tystysgrif cyfreithlondeb i gael eu ddyroddi mewn perthynas â gwaith arfaethedig ar goeden.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno? A beth fyddai'r goblygiadau tebygol o ran deunyddiau o'r cynnig hwn?**

#### **Ceisiadau am ganiatâd**

- 15.91 Ar hyn o bryd nid oes gofyn i awdurdod cynllunio gydnabod derbyn cais am ganiatâd o dan orchymyn cadw coed, fel y mae gyda mathau eraill o geisiadau o dan DCGTh 1990. Awgrymodd canllawiau llywodraeth Lloegr y byddai'n arfer da i wneud hyn.<sup>67</sup> Awgrymwn y gallai'r hepgoriad hwn gael ei unioni unwaith y gwneir rheoliadau newydd.

#### **Cwestiwn ymgynghori 15-9.**

**Cynigiwn dros dro y dylid gofyn i awdurdodau cynllunio gydnabod ceisiadau am ganiatâd o dan reoliadau coed.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **GOFYNIAD I BLANNU COED NEWYDD**

#### **Lleoliad y goeden newydd**

- 15.92 Mae Adran 206 DCGTh 1990 yn gosod dyletswydd i blannu coeden newydd
- (1) os yw coeden a warchodir gan orchymyn cadw coed yn cael ei symud, ei diwreiddio neu ei dinistrio yn anghyfreithlon, neu
  - (2) os yw coeden a warchodir gan orchymyn (heblaw am orchymyn coetiroedd) yn cael ei symud heb ganiatâd oherwydd bod y goeden wedi marw, yn marw neu yn beryglus.

<sup>67</sup> Gorchymynion Diogelu Coed: Arweiniad i'r Gyfraith ac Ymarfer Da, Adran yr Amgylchedd, 2000, para 6.42.

- 15.93 Bydd y goeden newydd yn cael ei phlannu "yn yr un lle", oni bai bod yr awdurdod cynllunio yn cytuno i amrywio'r gofyn. Yn ymarferol, mae plannu coeden ar yr un lle yn union yn aml yn anymarferol - neu mae'n ddrud heb raid oherwydd yr angen i dynnu gweddillion y goeden gynt. Ystyriwn ni dros dro y byddai'n synhwyrol i ystwytho'r gofyn ychydig, gan adael i'r goeden newydd gael ei phlannu "yn neu yn agos at" leoliad y goeden wreiddiol.<sup>68</sup>
- 15.94 Byddai hyn yn adlewyrchu'r gofyn i ailblannu fel y mae'n berthnasol i goetiroedd gwarchoddedig, sydd yn gofyn am ailosod coed sydd wedi eu gwaredu trwy blannu'r un nifer o goed "ar neu yn agos at " y tir lle safai'r coed hynny.

### **Cwestiwn ymgynghori 15-11.**

**Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r gofyn i blannu coeden newydd yn dilyn torri coeden sy'n beryglus neu yn dilyn gwaith anawdurdodedig fod yn gyfyngedig i blannu coeden o fath tebyg yn neu yn agos i leoliad y goeden gynt (yn hytrach na, fel y mae ar hyn o bryd, yn cael ei phlannu yn union yr un lle).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Amrywio hysbysiad ailosod coed**

- 15.95 Os bydd perchennog tir yn methu cydymffurfio â'r gofyn i blannu coeden naill ai o dan adran 206 DCGTh 1990 neu o dan amod ar ganiatâd i dorri coeden warchoddedig, gallai'r awdurdod orfodi'r gofyn gan wasanaethu hysbysiad ailosod o dan adran 207. Mae hawl i apelio yn erbyn hysbysiad o'r fath dan adran 208.
- 15.96 Ymddengys, ar hyn o bryd, nad oes pŵer gan awdurdod cynllunio i hepgor neu ystwytho hysbysiad ailosod. Serch hynny, mae'r Llysoedd wedi dal y gall awdurdod orfodi rhai yn unig o'r gofynion rhybudd gorfodi cynllunio<sup>69</sup>; a nid oes rheswm pam na ddylai fedru amrywio hysbysiad ailosod coed, er nid mewn ffordd o'r fath i ymestyn ei gwmpas.
- 15.97 Rydym yn ystyried dros dro bod yr arfer presennol yn darparu cyfle da i gyflwyno pŵer eglur i amrywio hysbysiad ailosod.<sup>70</sup>

### **Cwestiwn ymgynghori 15-12.**

**Cynigiwn dros dro y dylid cael pŵer eglur yn galluogi awdurdod cynllunio i hepgor neu ystwytho hysbysiad ailosod.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>68</sup> A gweler *Gorchmynion Cadw Coed: Adolygiad*, Adran yr Amgylchedd, 1994, paragraffau 2.44, 2.45.

<sup>69</sup> Cwmni Dymchweliad ac Adeiladwaith Arcam Cyf yn erbyn CS Worcestershire [1964] 1 WLR 661.

<sup>70</sup> *Gorchmynion Cadw Coed: Adolygiad*, Adran yr Amgylchedd, 1994, para 2.47.

## Costau a godir gan yr awdurdod cynllunio

- 15.98 Mae Adran 209 DCGTh 1990 yn darparu y gall, lle na fu cydymffurfio â hysbysiad ailosod, awdurdod cynllunio weithredu ar ei ben ei hun i wneud y gwaith sy'n ofynnol, ac adennill y gost oddi wrth berchennog y tir. Mae Adran 209(5) yn darparu y gall rheoliadau ddarparu am unrhyw gostau a godir gan awdurdod i'w cofrestru fel pridiant ar y tir, yn gadael y costau i'w casglu gan brynwyr dilynol. Serch hynny, nid oes rheoliadau o'r fath wedi cael eu gwneud.<sup>71</sup>
- 15.99 Gallai'r diffyg pŵer gan awdurdod i adennill y costau sy'n codi o blannu coed newydd atal yr awdurdod rhag orfod gweithredu; a byddai cynhyrchu rheoliadau i gyflwyno'r system newydd o orchymnion cadw coed yn gyfle i gywiro'r hepgoriad hwn. Ar y llaw arall, nid yw'r costau yn gysylltiedig â phlannu coed newydd yn debygol o fod yn uchel, a mae'r cost o'u casglu yn debygol o fod bron mor uchel, ac efallai o'r herwydd na fyddai adennill y costau gwerth chweil.

### Cwestiwn Ymgynghori 15-13.

**Mae Adran 209 DCGTh 1990 yn darparu bod rheoliadau yn cael eu gwneud yn galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau sy'n deillio o wneud a gorfodi hysbysiad ailosod coed; ond nid oes rheoliadau o'r fath wedi cael eu gwneud hyd yn hyn.**

**A fyddai pwerau o'r fath o gymorth i sicrhau bod y coed newydd yn cael eu plannu mewn achosion priodol?**

## GWAITH ANAWDURDODEDIG I GOED

- 15.100 Mae Adran 210(1) DCGTh 1990 yn darparu ei bod yn drosedd
- (1) i dorri, dadwreiddio neu ddinistrio coeden warchoddedig yn fwriadol;
  - (2) yn fwriadol i ddifrodi, tocio neu frigidorri'r goeden mewn ffordd sy'n debygol o'i dinistrio; neu
  - (3) i achosi neu ganiatáu unrhyw un o'r gweithgareddau hyn.
- Mae person sy'n euog o drosedd o dan adran 210(1) yn atebol am gollfarn ddiannod, neu am gollfarn trwy dditiad, i ddirwy (o unrhyw swm).<sup>72</sup>
- 15.101 15.101 Mae Adran 210(4) yn darparu bod unrhyw dor o orchymyn cadw coed yn drosedd, yn dwyn cosb uchaf o ddirwy Lefel 4 ar y raddfa sylfaenol (ar hyn o bryd yn £2,500).

<sup>71</sup> Cymharu Rheoliadau Cyffredinol CGTh 1992 (OS Rhif 1492), rheoliad 14(2) (rhybuddion gorfodi) a rheoliad 14(3) (hysbysiadau tir diffaith).

<sup>72</sup> DCGTH 1990, adran 210(2), newidwyd gan OS 2015 664, Atodiad 4, para 18.

## Difrod byrbwyll neu anuniongyrchol

- 15.102 Mae geiriad adran 210(1) yn dangos bod y trosedd o dan yr isadran honno ond yn cael ei chyflawni pan yw'r dinistr neu ddifrod yn "fwriadol". Ar yr olwg gyntaf gallai ymddangos nad yw hyn yn cynnwys difrod ayyb a achoswyd fel canlyniad i weithrediadau a wnaethpwyd yn fyrbwyll ynghylch a fydd neu na fydd ganddynt yr effaith honno. Ceir enghraifft nodedig lle mae ymgwymerwr statudol, neu gontractwr ar ei ran, yn cynnal rhaglen adnewyddu ceblau neu bibellau mewn ardal fawr yn cynnwys nifer o goed gwarchoddedig.
- 15.103 Mae enghreifftiau eraill o weithgareddau a all arwain at goed yn cael eu difrodi yn cynnwys ymyrryd â'r lefel trwythiad, defnyddio cemegion niweidiol, codi neu ostwng lefelau pridd (yn enwedig yn ystod datblygiad) a phori anifeiliaid mewn coetiroedd. Gallai pob un o'r rhain gael yr effaith o ladd coed, hyd yn oed os yn raddol yn unig, ond gallai fod yn anodd neu yn amhosib i brofi bod y canlyniad wedi'i fwriadu yn ymwybodol.
- 15.104 Mae'r llysoedd wedi dal bod y gair "bwriadus" mewn statud troseddol yn cynnwys byrbwylltra.<sup>73</sup> Rydym yn ystyried bod "bwriadol neu fyrbwyll" yn fwy clir na "bwriadus" - a gellid dadlau bod ganddynt yr un ystyr<sup>74</sup>; er y gallai, wrth fynd heibio, gynnwys hefyd ymddygiad byrbwyll o'r math a ragwelwyd. Rydym yn ystyried dros dro bod yr ymarfer cyfredol yn darparu cyfle da i wneud newid o'r fath.<sup>75</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 15-14.

**Rydym yn cynnig dros dro bod cwmpas y materion a waherddir gan orchymyn cadw coed yn cael ei ymestyn i gynnwys achosi niwed i goeden:**

- (1) yn fwriadol; neu
- (2) yn fyrbwyll (er enghraifft, gan godi neu ostwng lefelau pridd o gwmpas gwaelod y goeden, neu pori anifeiliaid mewn coetiroedd).

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## Un tramgwydd neu ddau

- 15.105 15.105Yn DCGTh 1947, roedd y tramgwydd perthnasol yn syml yn torri gorchymyn cadw coed; roedd y gosb uchaf yn ddirwy o bum deg punt. Mae'n debyg bod hyn yn cynnwys torri coeden gwych ei golwg a thynnu cangen oddi ar goeden mewn coetir.
- 15.106 15.106Gall problemau godi lle mae gwaith (ac eithrio torri, tocio neu ddinistrio coeden) wedi cael ei wneud mewn amgylchiadau lle, ar amser codi erlyniad, nad yw'n

<sup>73</sup> *R v Sheppard* [1981]AC fel per Yr Arglwydd Diplock ar dud 398.

<sup>74</sup> Blackstone, *Criminal Practice*, 2017, para A2.13.

<sup>75</sup> Gweler hefyd Gorchymynion Diogelu Coed: Adolygiad, Adran yr Amgylchedd, 1994, paragraffau 2.40, 2.41 oedd yn awgrymu gwahardd difrod a achosyw yn "esgeulus neu'n anuniongyrchol".

glir os byddant yn arwain at ddinistrio coeden ai peidio. Os bydd contractwr yn cael ei gyhuddo o dan adran 210(1), gall y dystiolaeth a ddangoswyd fod yn ddigon i brofi bod gwaith wedi cael ei wneud i goeden, ac felly i gyfiawnhau collfarn o dan adran 210(4), ond nid i brofi heb amheuaeth resymol bod gwneud y gwaith yn debygol o ddinistrio coeden.

- 15.107 Cyflwynwyd y gwahaniaeth rhwng y ddau dramgwydd yn y Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967. Roedd y Bil gwreiddiol (Bil aelod preifat) wedi cynnig, yn syml, cynyddu'r gosb uchaf am unrhyw dor-gorchymyn, o £50 i £250. Mewn ymateb, roedd y Llywodraeth wedi cynnig gwelliant a gafodd ei weithredu wedi hynny, yn gwahaniaethu rhwng y ddau gategori.<sup>76</sup>Ers hynny mae'r dirwyon wedi cynyddu yn sylweddol.<sup>77</sup>
- 15.108 15.108Os bydd y treial yn y Llys Ynadon, gall y fainc yn syml ganfod y cyhuddedig yn euog o'r drosedd llai, ond dim ond os oes cyhuddiad ar wahân ar y gwŷs yn cyfeirio at isadran (4).<sup>78</sup> Er hynny, os yw'r cyhuddedig wedi dewis treial gan reithgor, nid yw'r llwybr hwnnw ar agor, gan fod y drosedd o dan isadran (4) yn dreial ddiannod yn unig. Er y gall rheithgor ganfod y cyhuddedig yn euog o drosedd llai, gall wneud hyn yn unig os yw'r drosedd llai yn drosedd naill ffordd.<sup>79</sup> Mae'n dilyn bod y cyhuddedig sydd wedi cael ei gyhuddo o'r drosedd fwy difrifol, pa un ai mewn cysylltiad â chyhuddiad o drosedd lai neu beidio, os yw e/hi yn ystyried bod y dystiolaeth yn gallu cefnogi'r gollfarn ar yr ail yn unig, dylai ddewis treial gan reithgor ac yna argymhell nad oes achos i'w ateb ynglŷn â'r cyntaf.
- 15.109 Mae hefyd yn bosib i ddatblygwr diegwyddor ddinistrio coeden mewn lle anhwylyd drwy wneud dilyniant o weithrediadau weddol fychan, pob un ohonynt yn gosbadwy o dan isadran (4) yn unig, ond a fyddai ar y cyd yn golygu nad oedd yn werth cadw'r goeden.
- 15.110 Ateb syml i'r broblem hon fyddai dychwelyd i'r fformiwla a ddefnyddiwyd yn DCGTh 1947, yn cyfeirio at "unrhyw dor-gorchymyn cadw coed" - neu, o dan y system newydd a gyflwynwyd yn Neddf Gynllunio 2008, "unrhyw dorri rheoliadau cadw coed". Cynigiwyd newid o'r fath gan yr AS Alun Michael pan oedd Deddf 2008 yn mynd trwy Tŷ'r Cyffredin, ond ni ddenodd y cynnig gefnogaeth gan y Llywodraeth.<sup>80</sup>
- 15.111 Byddai hefyd yn dod â'r gyfraith yn gysylltiedig â gwaith anawdurdodedig ar goed ar yr un trywydd â'r sefyllfa gyda gwaith anawdurdodedig ar adeiladau rhestredig, mewn perthynas ag adran 9 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 sydd yn darparu bod torri gofynion adran 7 yn drosedd - profadwy naill ffordd, gyda dirwy anghyfyngedig yn dilyn collfarn.<sup>81</sup> Mae Adran 7 yn ei thro yn datgan yn syml "ni fydd person yn cyflawni neu achosi i gyflawni unrhyw waith ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig neu ar gyfer

---

<sup>76</sup> Pwyllgor Sefydlog C, 8 Chwefror 1967, col 123.

<sup>77</sup> Gweler **paras 15.100, 15.101**.

<sup>78</sup> *Lawrence v Same* [1968] 2 QB 93.

<sup>79</sup> Criminal Law Act 1967, a 6(3).

<sup>80</sup> Newidiad arfaethedig rhif 439 i gymal 157. Hansard, 25 Ionawr 2008, col 407.

<sup>81</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adran 9, newidwyd gan OS 2015 664, Atodiad 4, para 19.

ei newid mewn unrhyw ffordd a effeithia ei nodwedd fel adeilad o les pensaernïol arbennig neu les hanesyddol oni bai bod y gwaith yn awdurdodedig".

15.112 Mae hyn yn rhagweld yn glir amrediad amgylchiadau yn amrywio o ddymchwel adeilad Gradd 1 i dynnu pot simnai o adeilad Gradd 2. Yn ymarferol, byddai lefel y niwed yn cael ei adlewyrchu yn y ddedfryd a roddir.<sup>82</sup>

15.113 Ystyriwn ni dros dro y byddai'n fwy syml i ailosod adran 210(1) a 210(4) DCGTh 1990 gydag un tramgwydd unigol, yn cynnwys unrhyw dorri rheoliadau cadw coed.

### Cwestiwn ymgynghori 15-15.

**Cynigiwn y dylai'r ddau dramgwydd sydd ar hyn o bryd o fewn adran 210 o'r DCGTh 1990, sydd yn sôn am waith a ellir arwain at golled y goeden (isadran (1)) a gwaith arall (isadran (4)) gael eu disodli gydag un tramgwydd unigol, yn brofadwy naill ai yn ddiamod neu ar dditiad, o dorri rheoliadau cadw coed.**

**Yw ymgynghoreion yn cytuno?**

### Angen i brofi bod gorchymyn ar gael ar gyfer archwiliad

15.114 Nodwyd eisod ei bod yn bwysig bod copi o orchymyn cadw coed yn cael ei gadw ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus, i hysbysu'r rhai fydd efallai yn dymuno gwneud gwaith i'r goeden o dan sylw fisoedd neu flynyddoedd ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud.<sup>83</sup> Bodolaeth y gofyn hwn yn rhannol a alluogodd y Llys Adrannol yn *CB Maidstone BC v Mortimer* i ddod i'r casgliad bod y drosedd o dan adran 210 DCGTh 1990 yn drosedd o atebolrwydd caeth, nad oedd yn gofyn am dystiolaeth gan yr erlyniad o wybodaeth ar ran y cyhuddedig. Nododd

"nid yw hi'n dasg anodd i unrhyw aelod o'r cyhoedd....i gael gwybodaeth ddibynadwy gan yr awdurdod lleol ynglŷn ag os yw'r goeden o dan sylw yn amodol ar orchymyn cadw."<sup>84</sup>

15.115 Ystyriwyd y canlyniad o awdurdod yn methu cydymffurfio â'r gofyn i gadw copi o'r gorchymyn ar gyfer archwiliad gan Y Llys Adrannol yn *Bro Morgannwg v Palmer*, lle roedd y cyhuddedig wedi ceisio darganfod os oedd coeden yn warchoddedig neu beidio, ond wedi methu darganfod bod y gorchymyn yn bodoli.<sup>85</sup> Sylwyd gan y Llys bod y darn wedi'i ddyfynnu yn *Maidstone* yn rhagdybio fel mater o ffaith bod copi o'r gorchymyn perthnasol ar gael i'w archwilio ar yr adeg y gwnaed y gwaith. Aeth ymlaen i ddal pe na fedrai'r awdurdod sefydlu os oedd y gorchymyn wedi cael ei osod ar gyfer archwiliad neu beidio, ni ellid dibynu arno i ganfod erlyniad.

<sup>82</sup> Yn unol â'r achosion canllaw *R v Duckworth* (1995) 167 Cr App r (s) yn 531 ac *R v Palmer* (1989) 121 Cr App R yn 408, ac arweiniad gan y Panel Ymgynghori ar Ddedfrydi.

<sup>83</sup> Gweler **para 15.48 uchod**.

<sup>84</sup> [1980] 3 All ER 552, per Park J at tud 554f.

<sup>85</sup> [1984] JPL 334.

- 15.116 Yn anffodus, aeth y Llys ym *Mro Morgannwg* ymlaen i ddal bod methiant i gael y gorchymyn ar gael ar gyfer archwiliad yn golygu bod y gorchymyn yn "ddi-rym". Ymddengys bod hyn yn anghywir, oherwydd gallai dilysrwydd y gorchymyn ond gael ei herio gan gais i'r Uchel Llys a wneir o fewn chwe wythnos o gael ei gadarnhau; nid yw'n agored i'r cyhuddedig mewn treial troseddol i ddadlau bod gorchymyn yn ddi-rym. Ond roedd y Llys Adranol yn amlwg yn ceisio pwysleisio bod gofynion gweithredol o'r fath yn bwysig; felly byddai'r cyhuddedig o bosib mewn sefyllfa o'r fath yn gorfod dibynnu ar wneud cais i gael yr erlyniad atal yr achos fel camddefnyddio proses. Serch hynny, mae hynny i'w weld i roi baich rhy drwm ar rywun sydd wedi ceisio yn ddiwyll cydymffurfio â gofynion y gyfraith.
- 15.117 Rydym yn ystyried y byddai'n well i'r erlyniad orfod profi bod y gorchymyn ar gael ar gyfer archwiliad ar amser y tramgwydd - neu bod copi ohono wedi cael ei gyflwyno i'r person oedd yn gwneud y gwaith - yn hytrach na bod y cyhuddedig yn gorfod dangos nad yw'r gorchymyn naill ai wedi cael ei gyflwyno iddynt na'i fod ar gael ar gyfer archwiliad.
- 15.118 Mae'r drosedd yn adran 210 (fel y bydd yn dilyn ei newid yn Neddf Gynllunio 2008) yn gysylltiedig â gwneud mathau gwahanol o waith i goeden warhaddedig yn groes i reoliadau cadw coed; a mae'r rheoliadau (yn Lloegr) yn gwahardd gwaith "ar goeden gyda gorchymyn yn gysylltiedig â hi".<sup>86</sup> Ystyriwn dros dro y dylai'r rheoliadau cyfwerth yng Nghymru gyfeirio at wneud gwaith ar goeden sy'n amodol ar orchymyn yr oedd copi ohono wedi cael ei gyflwyno i'r person oedd yn gwneud y gwaith, neu bod copi ohono wedi bod ar gael ar gyfer archwiliad adeg gwneud y gwaith.
- 15.119 Byddai hefyd yn addas i gael amddiffyniad am gyhuddiad os yw'r cyhuddedig yn gallu dangos nad oedd e/hi wedi derbyn copi o'r gorchymyn, a nad oedd yn gwybod amdano, a na allai bod disgwyl iddo/iddi wybod o fewn rheswm, am ei fodolaeth. Byddai hyn yn caniatáu'r awdurdod i erlyn contractwyr a oedd wedi cael eu cyflwyno yn bersonol gyda chopi o'r gorchymyn, ond byddai'n osgoi atebolrwydd yn cael ei atodi, er enghraifft, i berchennog absennol nad oedd copi o'r gorchymyn wedi ei anfon ato/ati hyd hynny.

#### **Cwestiwn ymgynghori 15-15.**

**Ystyriwn dros dro y dylai'r drosedd o dan adran 210 (torri rheoliadau cadw coed) a'r rheoliadau a wnaethpwyd o dan adran 202A yn gwahardd gwaith ar goeden yn amodol ar orchymyn cadw coed gael ei llunio fel bod yn rhaid i'r erlyniad brofi bod**

- (1) **copi o'r gorchymyn wedi cael ei gyflwyno i'r person yn gwneud y gwaith cyn i'r gwaith ddechrau; neu**
- (2) **copi o'r gorchymyn ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus ar amser y gwaith; a**

<sup>86</sup> TCP (Tree Preservation) (England) Regulations 2012.

dylai amddiffyniad fod ar gael i berson a gyhuddir o drosedd o'r fath os yw'n gallu dangos nad oedd e/hi wedi derbyn copi o'r gorchymyn, a nad oedd yn gwybod amdano, a na allai bod disgwyl iddo/iddi wybod o fewn rheswm, am ei fodolaeth.

Yw ymgylgoreion yn cytuno?

## COED MEWN ARDALOEDD CADWRAETH

### Gweithdrefn hysbysu: y gyfraith bresennol

- 15.120 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu gwarchodaeth ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth braidd yn anfoddfaol, gan ei bod yn cynnwys proses gymeradwyo dwy-ran - mae rhaid rhoi rhybudd ar gyfer gwaith arfaethedig, o dan adran 211 DCGTh 1990, a gall yr awdurdod cynllunio benderfynu wedyn os yw'n dymuno gwneud gorchymyn cadw coed i warchod y goeden dan sylw.
- 15.121 Os bydd yr awdurdod yn gwneud gorchymyn, ac os yw'r ymgeisydd yn benderfynol o wneud y gwaith, yna mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud cais am ganiatâd o dan y gorchymyn (neu, yn y dyfodol, o dan y rheoliadau). Os gwneir cais am ganiatâd, a bod y caniatâd yn cael ei wrthod neu ei ganiatáu yn amodol ar amgylchiadau beichus, mae'n bosibl i wneud apêl yn y ffordd arferol. Os nad yw'r awdurdod yn gwneud gorchymyn, neu os nad yw'n gwneud penderfyniad o fewn chwe wythnos o gael ei hysbysu, gall y gwaith fynd yn ei flaen heb gosb ar unrhyw adeg yn y ddwy flynedd sy'n dilyn.
- 15.122 Mewn rhai achosion, gall awdurdod fod yn fodlon gweld y gwaith arfaethedig yn mynd yn ei flaen, ond dim ond os yw'r gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd benodol; ac os bydd y goeden yn cael ei thorri, gallai'r awdurdod ddymuno diogelu bod un newydd yn cael ei phlannu. Ond nid oes pŵer gan awdurdod i atodi unrhyw amodau i hysbysiad i'r ymgeisydd yn caniatáu'r gwaith i ddigwydd.
- 15.123 Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd swyddog perthnasol yr awdurdod cynllunio, wedi iddi/iddo dderbyn hysbysiad o dan adran 211, yn archwilio'r safle a'r goeden dan sylw - oni bai ei fod yn gyfarwydd â'r safle a'r goed - a bydd yn gwneud penderfyniad yn y fan a'r lle ynglŷn ag os yw'r gwaith arfaethedig yn ddymunol neu beidio (o bosib yn amodol ar amgylchiadau penodol). Ni fyddai felly yn cynnwys unrhyw faich ychwanegol ar yr awdurdod i wneud "penderfyniad" heb oedi, os yn anghenrheidiol yn amodol ar amgylchiadau, yn hytrach na gwneud gorchymyn, ac wedyn aros am gais pellach am ganiatâd o dan y gorchymyn hwnnw, ac wedyn gorfod ei bennu yn ffurfiol.

### Diwygiad posibl

- 15.124 Rydym felly yn ystyried dros dro y byddai'n fwy syml pe bai awdurdod, wedi cael ei hysbysu am waith arfaethedig ar goeden mewn ardal gadwraeth, i gael pedwar ymateb posibl yn agored iddo:
- (1) i ganiatáu'r gwaith (naill ai torri'r goeden neu waith arall iddi) i ddigwydd, heb unrhyw amodau (heblaw am fod terfyn amser o ddwy flynedd);



- (2) i ganiatáu i'r goeden gael ei thorri, yn amodol ar gymal bod coeden newydd yn cael ei phlannu;
- (3) i osod gorchymyn cadw coed, ac i ganiatáu gwaith i'r goeden ac eithrio cael ei thorri, o bosibl yn amodol ar amgylchiadau; neu
- (4) i osod gorchymyn cadw coed, ac i wrthod caniatâd ar gyfer y gwaith.

15.125 Ni fyddai hyn yn cyflwyno gweithdrefn newydd, ond byddai'n crynhoi'r weithdrefn gymhleth sydd eisoes yn bodoli. Byddai hyn yn arbed amser ac ymdrech i'r awdurdod cynllunio mewn sefyllfaoedd lle mae'n dymuno gwneud dim byd mwy, yn syml, na chaniatáu i'r gwaith ddigwydd ar unwaith.

15.126 Ond byddai'n gadael i ymgeiswyr wybod ble maent yn sefyll, a byddai'n osgoi'r angen am ail gais os byddai'r awdurdod yn dymuno dewis opsiwn (2), (3) neu (4). Os na dderbyniwyd unrhyw ymateb o fewn y cyfnod o chwe wythnos, ac os nad oedd GCC wedi cael ei osod, gellid tybio bod yr ateb fel y mae yn yr opsiwn cyntaf; os oedd yr ateb yn (2) neu (3), byddai hawl i apelio yn erbyn yr amodau; ac os (4), yn erbyn y gwrthodiad. Pe fyddai gorchymyn cadw coed yn cael ei wneud, byddai hi fel arfer yn un dros dro, angen cadarnhad o fewn chwe mis.

15.127 Byddai'r weithdrefn hysbysu yn gweithredu fel y mae hi ar hyn o bryd. Byddai'r weithdrefn am opsiwn 1 fel y mae o dan adran 211. Byddai'r weithdrefn o dan opsiwn (2) yn gofyn am bŵer newydd yn galluogi'r awdurdod i osod amodau ar ganiatâd a roddir o dan adran 211(3)(b)(i). A gallai'r weithdrefn am opsiynau (3) a (4) yn syml fod yn amrywiaeth bychan ar gyfer y gweithdrefnau a fyddai'n perthyn fel arall i benderfynu cais am ganiatâd i goeden GDC - yr unig wahaniaeth fyddai'r ffaith bod y hysbysiad wedi cael ei gyflwyno o dan adran 211 a byddai'n cael ei ystyried yn awtomatig fel cais am ganiatâd o dan y GDC newydd.

#### **Cwestiwn ymgynghori 15-17.**

**Ystyriwn dros dro y byddai'n symlach pe bai awdurdod, wedi cael ei hysbysu o dan adran 211 DCGTh 1990 am waith arfaethedig ar goeden mewn ardal gadwraeth, i gael pedwar ymateb posibl yn agored iddo:**

- (1) i ganiatáu'r gwaith (naill ai torri'r goeden neu waith arall iddi) i ddigwydd, heb unrhyw amodau (heblaw am fod terfyn amser o ddwy flynedd);**
- (2) i ganiatáu i'r goeden gael ei thorri, yn amodol ar gymal bod coeden newydd yn cael ei phlannu;**
- (3) i osod gorchymyn cadw coed, ac i ganiatáu gwaith i'r goeden ac eithrio cael ei thorri, o bosibl yn amodol ar amgylchiadau; neu**
- (4) i osod gorchymyn cadw coed, ac i wrthod caniatâd am y gwaith.**

**Ydy'r ymgynghori yn cytuno?**

## Pwyntiau eraill

- 15.128 Mae nifer o bwyntiau a godwyd yn gynharach yn y Bennod hon yn gysylltiedig â gwarchod coed gan orchmynion cadw coed hefyd yn wir am y gorchmynion ynglŷn â choed mewn ardal gadwraeth.
- 15.129 Yn benodol, byddai'r diffiniad o "coeden" fel yr awgrymir uchod yn gymwys i'r darpariaethau yn y Bil â'r darpariaethau mewn ardaloedd cadwraeth fel ei gilydd.
- 15.130 A byddai'r pwyntiau a wnaethpwyd yn gynharach ynglŷn â'r eithriadau yn gysylltiedig â choed meirwon, coed yn marw a choed peryglus a gwaith anghenrheidiol i leihau niwsans ynr un mor berthnasol i'r angen am hysbysu awdurdod cynllunio pan yw'r goeden o dan sylw mewn ardal gadwraeth.



## Pennod 16: Gwelliant, adfywiad ac adnewyddiad

### CYFLWYNIAD

- 16.1 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud yn bennaf â rheoli cynigion datblygu gan berchnogion a meddianwyr tir a datblygwyr eraill. Ond, mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf sy'n galluogi awdurdodau cynllunio a chyrrff cyhoeddus eraill i ymyrryd yn bositif er mwyn sicrhau gwelliannau ac adfywiad.
- 16.2 Yn y lle cyntaf, mae amrywiol bwerau, yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac mewn deddfwriaeth berthnasol, i awdurdodau cynllunio ymyrryd mewn perthynas ag adeiladau unigol a lleiniau o dir sydd o dan berchnogaeth breifat:
- (1) i ddod â gwelliant i dir y mae ei gyflwr yn effeithio ar amwynder yr ardal, o dan adrannau 215 i 219 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 89(2) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (yn y Bennod hon cyfeirir at hon fel "Deddf 1949"); ac
  - (2) i wneud gwaith tirlunio ar unrhyw dir, o dan adran 89(1) Deddf 1949.
- 16.3 Ystyrir y rhain ym **mharagraffau 16.7 - 16.43**.
- 16.4 Yn ail, roedd bwerau ar gael hyd yn ddiweddar i awdurdodau cynllunio yng Nghymru orfodi tynnu graffiti a phosteri a osodwyd yn anghyfreithlon, o dan adrannau 48 i 52 y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2003 - yn debyg i'r bwerau o dan adrannau 225F i 225K Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a gyflwynwyd yn ddiweddar yn Lloegr. Ystyrir y rhain ym **mharagraffau 16.44 - 16.55**.
- 16.5 Yn drydydd, mae nifer o fentrau wedi eu seilio mewn ardaloedd - mewn deddfwriaeth heblaw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel arfer - ond maent wedi'u cysylltu'n agos â'r system gynllunio, yn cynnwys:
- (1) ardaloedd menter, wedi eu dynodi o dan Atodlen 32 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ("Deddf 1980") ;
  - (2) trefi newydd, wedi'u dynodi erbyn hyn o dan y Ddeddf Trefi Newydd 1981 a deddfwriaeth berthnasol; a
  - (3) chorfforaethau datblygu trefol, wedi eu sefydlu o dan Rhan 16 Deddf 1980;
  - (4) ymddiriedolaethau gweithredu tai, wedi eu sefydlu o dan Rhan 3 Deddf Tai 1988; a
  - (5) byrddau datblygiad gwledig, wedi eu sefydlu o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1967.
- 16.6 Ystyrir pob un o'r rhain yn eu tro, ym mharagraffau 16.56 i 16.92.

## GWELLA TIR AC ADEILADAU HYLL

### Y pwerau sydd ar gael

- 16.7 Mae amrywiol ddarpariaethau statudol yn galluogi awdurdodau cynllunio i gymryd camau i wella tir y mae ei gyflwr yn niweidio amwynder yr ardal leol. Mae'n debyg nad ydynt yn cael eu defnyddio rhyw lawer mewn gwirionedd, ond gallent o bosib fod yn ddefnyddiol o dan amgylchiadau penodol i alluogi i gymdogaethau gael eu gwella, am gost gweddol isel yn aml iawn. O ran pa bŵer sy'n briodol mewn achos penodol, bydd hyn yn dibynnu'n bennaf ar bwy sy'n gwneud ac yn talu am y gwaith gwella angenrheidiol, naill ai perchnogion y tir neu'r awdurdod.
- 16.8 Y grŵp cyntaf o ddarpariaethau yw'r rheiny yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n galluogi i awdurdod cynllunio dan amgylchiadau penodol gyflwyno hysbysiad (o dan adran 215) ar berchennog a meddiannydd y tir y mae ei gyflwr yn niweidio amwynder y gymdogaeth, gan fanylu ar y camau i'w cymryd i'w wella. Lle cyflwynir hysbysiad o'r math yma, gall y derbyniwr apelio yn erbyn ei ofynion (o dan adran 217) a gallai gael ei erlyn am fethu â chydymffurfio (adran 216). A gallai'r awdurdod ei hun gymryd y camau sydd wedi eu disgrifio ar draul yr unigolyn yma (o dan adran 219). Felly mae defnyddio'r weithdrefn hon yn rhoi'r ddyletswydd i wneud y gwaith - ac i dalu amdano - yn gadarn ar ysgwyddau perchennog y tir.
- 16.9 Mae'r pŵer i gyflwyno hysbysiad o'r fath ym Mhennod 2 Rhan 8 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae hyn braidd yn rhyfedd, am fod Rhan 8 (sy'n dwyn y teitl "rheolaethau arbennig") yn ymdrin yn gyffredinol â rheolaethau dros waith arfaethedig ar goed sydd wedi'u diogelu (Pennod 1) a thros arddangosiadau arfaethedig o hysbysebion (Pennod 3). Mae Pennod 2, ar y llaw arall, yn ymdrin â'r sefyllfa sy'n codi lle does neb yn cynnig gwneud unrhyw beth (neu o leiaf unrhyw beth adeiladol).
- 16.10 Dylid gosod y pwerau sydd ar gael i awdurdod cyllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ochr yn ochr â'r rheiny sydd ar gael o dan Ddeddf 1949.<sup>1</sup> O dan adran 89(2) y Ddeddf honno, gall awdurdod - gyda chytundeb perchnogion y tir - wneud gwaith i wella unrhyw dir yn ei ardal sy'n ddiffaith, wedi'i esgeuluso neu sy'n ddiolwg (neu i wella unrhyw dir sy'n debygol o fynd yn ddiffaith ac ati o ganlyniad i hen waith cloddio tanddaearol). Ac o dan adran 89(1) gall wneud gwaith tirlunio ar unrhyw dir (nid y tir sy'n ddiffaith ac ati yn unig). Gall awdurdod gaffael tir yn orfodol hefyd, o dan adran 89(5) i'r naill bwrpas neu'r llall. Mae defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb am wneud y gwaith - ac mewn gwirionedd am dalu (neu o leiaf gyfrannu at) eu costau - ar yr awdurdod.
- 16.11 Er bod y darpariaethau sy'n galluogi awdurdod i wneud gwaith o'r fath o fewn Deddf 1949, gallent gael eu defnyddio - yn wahanol i unrhyw bwerau eraill o dan y Ddeddf honno - mewn perthynas â thir nad yw mewn parc cenedlaethol nac yng nghefn gwlad.<sup>2</sup> Mae hynny hefyd ychydig yn rhyfedd.

---

<sup>1</sup> Mae Adran 89 Deddf 1949 wedi cael ei diwygio'n sylweddol ers iddi ddod i rym i ddechrau - yn benodol gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Tir) 1963, Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Tir Diffaith 1982.

<sup>2</sup> O ddarpariaethau sylweddol y Ddeddf honno, mae Rhan 2 yn delio gyda pharciau cenedlaethol; mae Rhan 3 yn ymdrin â chadwraeth natur; mae Rhan 4 yn ymdrin â llwybrau hirion; mae Rhan 5 (ac adrannau 90-92) yn ymdrin â mynediad i gefn gwlad agored; mae Rhan 6 yn ymwneud yn bennaf gyda Natural England a

- 16.12 Mae'r ddau set o ddarpariaethau'n gorgyffwrdd i raddau sylweddol, ac felly rydym yn eu hystyried ynghyd yma, gan ddechrau gyda'r rheiny sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

### Gofyn i berchennog y tir diolwg wneud gwaith adfer (adran 215)

- 16.13 Effaith adrannau 215 a 217 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yw y gall awdurdod cynllunio gyflwyno hysbysiad i berchennog a meddiannydd darn o dir yn ei ardal sy'n gofyn i'r tir gael ei gynnal yn gywir, os yw cyflwr y tir:
- (1) yn effeithio'n niweidiol ar amwynder rhan o ardal yr awdurdod neu ardal mewn awdurdod cyffiniol; ac
  - (2) nid yw'n ganlyniad i, nac yn digwydd mewn bywyd pob dydd arferol oherwydd gweithredoedd ar y tir hwnnw, neu oherwydd y defnydd a wneir o'r tir hwnnw, sy'n gyfreithlon o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 16.14 Lle cyflwynir hysbysiad o dan adran 215, ac mae'n dod yn weithredol (efallai o ganlyniad i apêl aflwyddiannus), mae'n rhaid i'r derbynwyr gydymffurfio â'i ofynion. Os nad ydynt yn gwneud hynny, caiff yr awdurdod fynd ar y tir a gwneud y gwaith angenrheidiol ei hun, a chofrestru'r hysbysiad fel pridiant yn Rhan 2 y Gofrestr Pridiannau Tir Lleol, gan alluogi i gost y gwaith gael ei hawlio'n ôl pan fo'r tir yn newid dwylo.
- 16.15 Rhoddwyd arweiniad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2005 am yr arferion gorau wrth ddefnyddio pwerau o dan adran 215.<sup>3</sup> Gellir nodi'n arbennig bod "tir" yn cynnwys adeilad, felly gellir defnyddio'r pŵer yma i ddod â gwelliant i adeilad sydd mewn cyflwr gwael, yn ogystal â thir agored.
- 16.16 Mae drafftio adran 215(1) yn awgrymu bod modd cyflwyno hysbysiad mewn unrhyw achos lle mae'r cyntaf o'r ddau brawf uchod wedi'u bodloni - a'r cyntaf o'r seiliau statudol y gellir gwneud apêl arnynt yn erbyn hysbysiad o'r fath yw nad yw cyflwr y tir yn effeithio'n niweidiol ar amwynder yr ardal.<sup>4</sup>
- 16.17 Ond, yr ail sail ar gyfer apelio yw "bod cyflwr y tir ... wedi ei achosi gan, ac felly'n ganlyniad i, wneud gweithrediadau ar y tir hwnnw neu wneud defnydd o'r tir hwnnw, mewn bywyd arferol pob dydd, nad yw'n mynd yn groes i Ran 3 [Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990]".<sup>5</sup> Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o ddefnyddiau hollol gyfreithlon o'r tir - er enghraifft, safleoedd delwyr sgrap, a nifer o safleoedd diwydiannol - yn achosi bod y tir yn ddiolwg i ryw raddau a hynny'n anochel. Nid yw

---

Chyfoeth Naturiol Cymru, ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (AHNE). Mae Rhan 1 sy'n delio gyda'r Comisiwn Parciau Cenedlaethol - ac yn ddiweddarach Gyngor Cefn Gwlad Cymru - wedi cael ei diddymu.

<sup>3</sup> *DCGTh 1990 Adran 215; Canllawiau Arferion Gorau*, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Llundain, Ionawr 2005. Hyn yn Lloegr. Dim ond yn Lloegr y mae hyn yn berthnasol (ac ni chafodd ei ganslo yn 2014 pan gafodd y Canllawiau Arferion Cynllunio eu cyhoeddi yma'n gyntaf), ond mae'n berthnasol i arferion yng Nghymru. Gellir cynnwys yr arweiniad ar adran 215 maes o law i'r *llawlyfr Rheoli Datblygiad*.

<sup>4</sup> DCGTh 1990, a. 217(1)(a).

<sup>5</sup> DCGTh 1990, a 217(1)(b).

Adran 215 wedi'i hanelu at y rheiny, ond yn hytrach at dir sydd mewn cyflwr gwael oherwydd rhywbeth nad yw'n ganlyniad anochel i'w ddefnydd cyfreithlon - megis gerddi a thir agored arall gyda gor-dyfiant, ffatrioedd lled-ddiffaith a thai gwag.

- 16.18 Yn ymarferol, felly, mae'n rhaid bodloni'r ddau brawf uchod cyn y gellir cyflwyno hysbysiad.<sup>6</sup> Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fwy eglur i'r awdurdodau ac i berchnogion tir pe bai'r ddarpariaeth berthnasol yn y Bil yn esbonio'n glir ar y dechrau bod yn rhaid bodloni'r ddau brawf - yn hytrach na dim ond wrth ddarparu sail ar gyfer apelio. A byddai'n ymddangos bod y cyfeiriad at gyflwr y tir i'w "briodoli" i weithgarwch ar y tir yn ddiangen.
- 16.19 Gellid esbonio'n gliriach hefyd bod yr ail brawf yn ymwneud dim ond â chyflwr y tir sy'n codi o ddefnydd cyfreithlon o'r tir sy'n digwydd ar y pryd, yn hytrach na defnydd blaenorol o'r tir a oedd yn gyfreithlon bryd hynny (ond nid yn awr). Mewn geiriau eraill, dyma esiampl o hynny: lle cafodd tir ei ddefnyddio'n gyfreithlon gyfnod yn ôl ar gyfer storio cerbydau sgrap, ond rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r tir i'r pwrpas hwnnw a does gan y tir ddim defnydd cyfreithlon mwyach, gellir cyflwyno hysbysiad o dan adran 215 i wella'r tir.

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-1.**

**Ystyriwn dros dro y dylid ddrafftio'r Bil i'w gwneud hi'n glir bod modd cyflwyno hysbysiad o dan yr hyn sydd nawr yn adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn gofyn i dir gael ei gynnal yn gywir, yn medru cael ei ddyroddi lle mae cyflwr y tir:**

- (1) yn effeithio yn andwyol amwynedd ardal yr awdurdod, rhan ohoni neu awdurdod neu ardal awdurdod cyffiniol; ac**
- (2) nad yw'n arwain yng nghwrs arferol digwyddiadau at weithrediadau cyfreithlon ar y tir hwnnw neu ddefnydd o'r tir hwnnw sydd yn gyfreithlon.**

**Yw ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-2.**

**Ystyriwn dros dro y dylai fod yn bosib i gyhoeddi hysbysiad (o dan yr hyn sydd ar hyn o bryd yn adran 215 y DCGTh 1990) lle mae cyflwr y tir dan sylw yn ganlyniad i'r weithrediadau arni a oedd yn gyfreithlon ar y pryd a chawsant eu ymgymryd, ond sydd nawr yn anghyfreithlon.**

**Yw ymgynghoreion yn cytuno?**

---

<sup>6</sup> Gweler paragraff 8.10.

## Hysbysiad adran 215 yn dod yn weithredol

- 16.20 Mae Adran 215(3) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu bod hysbysiad o dan adran 215 i ddod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod sydd wedi'i nodi ynddo, sy'n gorfod bod o leiaf 28 diwrnod o ddyddiad ei gyflwyno. Mae hyn yn arwain at y broblem, sydd wedi'i phennu'n barod mewn perthynas â thor parhad hysbysebion, lle mae modd cyflwyno hysbysiadau sy'n ymwneud ag un darn unigol o dir i amrywiol gyfranogwyr (sef yn benodol berchennog a meddiannydd y tir) ar wahanol ddyddiadau, gan achosi i bob un ohonynt gael eu dirymu.<sup>7</sup>
- 16.21 Yma hefyd, rydym yn ystyried dros dro bod y gofynion ynglŷn â chynnwys hysbysiad o dan adran 215 yn cael eu haddasu i sicrhau bod un hysbysiad yn cael ei "ddyroddi", a'i fod yn dod i rym ar ddyddiad penodol sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad, gyda chopïau o'r hysbysiad hwnnw'n cael eu cyflwyno fel y bo'n briodol. Byddai angen addasu'r pedwerydd sail apelio statudol fel y bo'n briodol.<sup>8</sup>
- 16.22 Ac – unwaith eto, yn debyg i hysbysiadau tor parhad<sup>9</sup> – dylai hysbysiad o dan adran 215 gynnwys hysbysiad am hawl y derbyniwr i apelio yn ei erbyn.

### Cwestiwn ymgynghori 16-3.

**Cynigiwn y dylai hysbysiad o dan y ddarpariaeth yn y Côd newydd sy'n disodli adran 215:**

- (1) **ddod i rym ar ddyddiad penodol sydd wedi ei nodi ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodol ar ôl y dyddiad a gyflwynir);**
- (2) **gael ei "ddyroddi" (yn hytrach na'i "gyflwyno" fel y mae ar hyn o bryd), ynghyd a chop i bawb sy'n gyfrifol am gynnal y tir perthnasol; a**
- (3) **cynnwys hysbysiad am hawliau unrhyw dderbyniwr i apelio yn ei erbyn.**

**Yw ymgynghoreion yn cytuno?**

### Apeliadau yn erbyn hysbysiadau adran 215

- 16.23 Ers 5 Mai 2017, i Weinidogion Cymru y daw apeliadau yn erbyn hysbysiad o dan adran 215.<sup>10</sup> Mae seiliau'r apêl wedi eu nodi mewn rhestr gyfyngol yn is-adran 217(1). Mae'r ddau gyntaf yn ymwneud â chyflwr y tir, ac maent wedi cael eu hystyried uchod.<sup>11</sup> Mae'r ail ddau'n ymwneud â'r gwaith sy'n ofynnol gan yr hysbysiad - eu bod

<sup>7</sup> *Bambury v Cyngor Bwrdeistref Lleol Hounslow* [1966] 2 QB 204; Gweler paragraff 12.58.

<sup>8</sup> DCGTH 1990, a. 217(1)(d). Gweler paragraff 16.23.

<sup>9</sup> Gweler paragraff 14.34.

<sup>10</sup> DCGTh 1990, a. 217(2), diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a. 48(2). Mae hyn yn dod â'r gyfraith yng Nghymru'n gyfatebol â'r gyfraith yn Yr Alban (DCGTH (Yr Alban) 1997 a. 180).

<sup>11</sup> Gweler paragraffau 16.13 i 16.17.



yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i atal cyflwr y tir rhag effeithio'n niweidiol ar yr ardal; ac nad yw'r cyfnod ar gyfer eu gweithredu nhw'n ddigonol.<sup>12</sup>

- 16.24 Mae modd i'r drefn newydd, sydd wedi'i llunio i sicrhau bod modd i apeliadau yn erbyn hysbysiadau o dan adran 215 gael eu trin gan archwilwyr, yn llawer gwell na'r trefniadau blaenorol, lle gwnaed apeliadau i'r llys ynadon.<sup>13</sup> Mae Gweinidogion Cymru wedi llunio rheoliadau sy'n gofyn bod y camau'n cael eu cymryd mewn perthynas â gwneud apêl o dan adran 217, â'r wybodaeth sydd i gael ei darparu, ac â'r drefn ar gyfer ystyried apêl o'r fath.<sup>14</sup>
- 16.25 Mae Paragraff 1 Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru ragnodi, drwy reoliadau, dosbarthiadau penodol o apeliadau sydd i gael eu penderfynu gan rywun a benodir ganddynt hwy.<sup>15</sup> Yn anffodus, nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer apeliadau o dan adran 217 - er bod apeliadau o'r fath yn amlwg yn addas i gael eu penderfynu gan archwilwyr. Rydym yn ystyried dros dro y dylid cywiro'r hepgoriad yma. Gellid dod ag apeliadau o'r fath i mewn i gwmpas y ddarpariaeth gyffredinol hefyd yn adran 319B ynglŷn â'r ffordd mae amrywiol achosion yn cael eu trin.
- 16.26 Ym Mhennod 17, rydym yn cynnig nad yw'r Côt Cynllunio newydd yn cynnwys darpariaeth arbennig ar gyfer heriau sy'n ymwneud â chynllunio yn yr Uchel Lys, yn gyfatebol â Rhan 12 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>16</sup> Os derbynnir hynny, bydd angen cynnwys yn yr adran o'r Côt sy'n ymdrin â thir diolwg, darpariaeth sy'n gyfatebol ag adran 285(3) a (4) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn nodi na ellir cyflwyno sialens yn yr Uchel Lys yn erbyn hysbysiad adran 215 ar unrhyw sail a allai fod yn sylfaen i apêl i Weinidogion Cymru.

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-4.**

**Ystyriwn dros dro y dylai'r Bil nodi'n glir fod pob apêl yn erbyn hysbysiadau adran 217 yn cael eu penderfynu fel arfer gan archwilwyr yn unol â chwestiwn ymgynghori 11-3.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

<sup>12</sup> DCGTh 1990, a. 217(1)(c),(d).

<sup>13</sup> Dyma sy'n digwydd yn Lloegr o hyd.

<sup>14</sup> DCGTh 1990, a. 217(7); Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfeiriadau a Gyfeiriwyd a Threfn Apeliadau) (Cymru) 2017 (OS 544).

<sup>15</sup> Gweler paragraff 11.15.

<sup>16</sup> Gweler **cwestiwn ymgynghori 17-9**. Yn lle hynny byddai heriau o'r fath yn cael eu cyflwyno drwy gais am adolygiad barnwrol o dan Ran 54 y Rheolau Gweithdrefn Sifil.

## Gwneud gwaith adfer ar unrhyw dir diolwg (adran 89(2) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949)

- 16.27 O dan adran 89(2) Deddf 1949, lle mae'n ymddangos i awdurdod cynllunio bod unrhyw dir yn ei ardal yn "ddiffaith, wedi esgeuluso neu'n ddiolwg" - neu'n debygol o ddod yn ddiffaith, wedi esgeluso neu'n ddiolwg oherwydd cwmp yr arwyneb o ganlyniad i hen waith cloddio tanddaearol - gall wneud "gwaith o'r fath ar y tir hwnnw neu ar unrhyw dir arall a fyddai'n ymddangos yn gyfleus i bwrpas adfer neu wella'r tir hwnnw neu i'w alluogi i gael ei ddefnyddio".<sup>17</sup>
- 16.28 Lle nad yw tir yn eiddo i'r awdurdod, ni chaiff arfer ei bwerau o dan adran 89(2) heb ganiatâd perchnogion y tir, ar y telerau hynny y cytunir arnynt. Mae unrhyw waith cynnal dilynol ar y tir sy'n dod yn angenrheidiol o ganlyniad i blannu coed neu waith arall a wneir dan adran 89, i gael ei wneud naill ai gan yr awdurdod neu gan y perchnogion, fel y mae'n cael ei gytuno.<sup>18</sup>
- 16.29 Gallai'r awdurdod gaffael tir nad yw'n berchen arno i bwrpas gweithredu o dan adran 89(2).<sup>19</sup> Mae caffaeliad or fath wedi'i lywio gan Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 a Deddf Caffael Tir 1981.<sup>20</sup>
- 16.30 Rydym yn drwgdybio bod adran 89(2) yn anhysbys i raddau mawr mae'n debyg, ac felly nid yw'n cael ei ddefnyddio fawr mewn gwirionedd. Ac mae'n ymddangos hefyd bod adran 89(2) yn gorgyffwrdd yn sylweddol â darpariaethau adrannau 215 i 217 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n cael ei hystyried uchod. Mae tir sy'n "ddiffaith, wedi'i esgeuluso neu'n ddiolwg" yn debygol o fod mewn cyflwr a fydd yn effeithio'n niweidiol ar amwynder yr ardal leol. Felly gellir cael hysbysiad adran 215 am dir o'r fath, heblaw bod ei gyflwr wedi'i greu drwy wneud gweithredoedd sy'n gyfreithlon neu gan ddefnydd sy'n gyfreithlon.<sup>21</sup>
- 16.31 O dan adran 215 Deddf 1990 neu adran 89 Deddf 1949, cychwynnir camau gweithredu gan yr "awdurdod cynllunio lleol".<sup>22</sup> O dan adran 215, cyflwynir hysbysiad gan yr awdurdod; yna mae'n rhaid i'r perchennog wneud y gwaith trwsio angenrheidiol, ar eu traul eu hunain (neu ar draul perchnogion y dyfodol, wedi'i ddiogelu gan bridiant tir lleol). O dan adran 89(2), nid oes darpariaeth i gyflwyno hysbysiad, ond dim ond gyda chaniatâd y perchnogion y ceir gwneud y gwaith, felly mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt o flaen llaw.
- 16.32 Lle mae cyflwr y tir yn codi o ganlyniad i weithredoedd neu ddefnydd cyfreithiol, ni ellir cyflwyno hysbysiad o dan adran 215 (fel y mae wedi ei weithredu ar hyn o bryd).

---

<sup>17</sup> Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a. 89(2) yn cyfeirio at "awdurdod lleol". Trwy rinwedd a. 89(7), mae hyn yn golygu awdurdod cynllunio.

<sup>18</sup> Deddf 1949, a. 89(3), (6).

<sup>19</sup> Deddf 1949, a. 89(5).

<sup>20</sup> Deddf 1949, a. 103.

<sup>21</sup> Er mwyn bod yn gyflawn, gellid nodi bod gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg mewn perthynas â thir o'r fath o dan Ddeddf Asiantaeth Datblygu Cymru 1976, a.16.

<sup>22</sup> Mae gan y term yr un ystyr yn y ddwy Ddeddf (Gweler Ddeddf Parciau Cenedlaethol ac ati 1949, a. 114).

Ond, gallai'r awdurdod ei hun wneud gwaith adfer o dan adran 89, ond dim ond gyda chaniatâd y perchennog, sydd ond yn debygol o fod yn barod i wneud hynny ar yr amod bod yr awdurdod yn talu costau'r gwaith, sy'n debygol o gyfyngu ar ei gymhwysedd mewn gwirionedd.

- 16.33 Diffinir "Tir" i bwrpasau hysbysiad o dan adran 215 i olygu unrhyw hereditament corfforol, yn cynnwys adeilad.<sup>23</sup> At ddibenion adran 89 Deddf 1949, mae wedi'i ddiffinio i gynnwys tir wedi'i orchuddio gan ddŵr.<sup>24</sup> Mae gan "Perchennog" yr un ystyr yn y ddwy Ddeddf.<sup>25</sup>
- 16.34 Felly, dyma'r pwerau sydd ar gael i awdurdod cynllunio o dan adran 89(2) Deddf 1949 ond sydd ddim ar gael iddo o dan adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:
- (1) ar yr amod ei fod wedi cael caniatâd y perchennog, gall yr awdurdod ei hun wneud gwaith adfer ar unrhyw dir sy'n ddiffaith, wedi'i esgeuluso neu'n ddiolwg, p'un a yw cyflwr y tir wedi codi o ganlyniad i'w ddefnydd cyfreithlon ai peidio;
  - (2) ar yr amod ei fod wedi sicrhau caniatâd o'r fath, gallai'r awdurdod hefyd wneud gwaith adfer ar unrhyw dir sy'n debygol o fynd yn ddiffaith, wedi'i esgeuluso neu'n ddiolwg oherwydd cwmp yr arwyneb a achoswyd gan gloddio tanddaearol yn y gorffennol; a
  - (3) gallai'r awdurdod gaffael unrhyw dir sy'n ddiffaith, wedi'i esgeuluso neu sy'n ddiolwg (neu sy'n debygol o ddod yn ddiffaith ac ati oherwydd cwmp o ganlyniad i gloddio) gan ddefnyddio pwerau gorfodol neu drwy gytundeb, i bwrpas gwneud gwaith adfer.
- 16.35 Ar y llaw arall, nid oes darpariaeth amlwg sy'n galluogi awdurdod i ddefnyddio ei bwrerau o dan adran 89 mewn perthynas ag adeilad. Nid oes hawl apelio mewn perthynas ag unrhyw weithred o dan adran 89. Ac ni ellir ond gweithredu'r pwerau o dan adran 89 mewn perthynas â thir y Goron gyda chaniatâd yr awdurdod perthnasol.<sup>26</sup>

### Harmoneiddio'r ddwy weithdrefn

- 16.36 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fwy buddiol i bwerau awdurdod cynllunio o dan adran 89(2) Deddf 1949 - a restrwyd yn y paragraff blaenorol - gael eu cynnwys yn y Côd Cynllunio ochr yn ochr â'r rheiny sydd ar gael iddo ar hyn o bryd o dan Adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Heblaw mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn y paragraff blaenorol (adeiladau, a thir y Goron), ni fyddai hynny ynddo'i hun yn rhoi unrhyw bwerau ychwanegol i awdurdodau nag sydd ganddynt ar hyn o bryd, ond byddai'n dod â'r pwerau hynny at ei gilydd mewn cynllun cydlynol.
- 16.37 Yr un pŵer ychwanegol a fyddai'n ymddangos yn ddefnyddiol fyddai delio gyda'r sefyllfa lle mae awdurdod eisiau gweithredu i wella cyflwr y tir na ellir canfod ei

---

<sup>23</sup> DCGTh 1990, a. 336.

<sup>24</sup> Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a. 114.

<sup>25</sup> DCGTh 1990, a. 336; Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a. 114.

<sup>26</sup> Deddf Parciau Cenedlaethol ac ati 1949, a. 101(7).

berchennog. Ni all yr awdurdod ofyn i'r perchennog weithredu o dan adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac ni all sicrhau caniatâd y perchennog cyn gwneud y gwaith angenrheidiol ei hun. Rydym yn ystyried dros dro y dylid cywiro'r hepgoriad yma.

- 16.38 O dan drefn newydd sy'n disodli adran 89(2), felly, gallai awdurdod gyflwyno hysbysiad yn nodi ei fwriad i wneud gwaith ar dir y mae ei gyflwr yn effeithio'n niweidiol ar amwynder y gymdogaeth<sup>27</sup>, yn cyflwyno copïau i berchnogion a meddiannwyr (lle maent yn hysbys) a gosod hysbysiad safle fel y bo'n briodol. Yna gallai'r awdurdod wneud y gwaith yma naill ai:
- (1) ar delerau y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod a perchennog a meddiannydd y tir (mewn perthynas â gwneud y gwaith eu hunain a'r gofal dilynol am y tir); neu
  - (2) lle nad yw wedi derbyn ymateb i'r hysbysiadau o fewn amser penodol.
- 16.39 Gellid dadlau bod hwn yn ymyriad â hawl personau i fwynhau eu heiddo yn heddychlon, ac felly yr dor-erthygl 1 Protocol cyntaf yr ECHR, ond rydym yn ystyried bod y gofynion ynghylch hysbysu a chyhoedduswydd yn ddigonol i sicrhau y byddai'r ddarpariaeth yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng hawliau preifat a budd y cyhoedd.
- 16.40 Ac, yn debyg i'r weithdrefn bresennol o dan adran 89, lle nad yw awdurdod yn derbyn ymateb boddhaol i hysbysiad o'r fath, yna byddai'n gallu caffael y tir dan sylw, trwy ddefnyddio archeb brynu orfodol sy'n gofyn am gadarnhad gan Weindogion Cymru.
- 16.41 Yn debyg i'r weithdrefn gyfredol o dan adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gellir adfer costau'r gwaith a wneir gan y perchennog, lle bo'n ymarferol, neu gellir codi pridiant ar y tir.

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-5.**

**Cynigiwn y gallai'r Côt Cynllunio newydd gynnwys pwerau, a fyddai'n disodli'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd o dan adran 89(2) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, i alluogi awdurdod cyllunio, mewn perthynas ag unrhyw dir lle mae ei gyflwr yn effeithio ar amwynder ei ardal neu ardal gyffiniol (neu sy'n debygol o effeithio arno oherwydd cwmp yr arwyneb o ganlyniad i weithredoedd cloddio tanddaearol):**

- (1) i gyflwyno hysbysiad, a rhoi copi ohono i'r perchennog a meddiannydd y tir ac arddangos hysbysiad priodol ar y tir, gan nodi bwriad yr awdurdod i wneud gwaith trwsio;**
- (2) i wneud y gwaith ei hun sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad, naill ai**

<sup>27</sup> Neu ar dir sy'n debygol o fynd yn ddiiffaith, wedi'i esgeuluso neu'n ddiolwg oherwydd cwmp yr arwyneb o ganlyniad i hen weithgareddau cloddio tanddaearol (fel gyda'r adran 89 gyfredol).

- ar delerau a chytunir arnynt rhwng yr awdurdod a pherchennog a meddiannydd y tir (ynglun a'r gwaith ei hun ac hefyd gofal dilynol); neu
  - lle na dderbynnir ymateb i'r hysbysiad;
- (3) i adfer costau gwaith o'r fath gan y perchennog, neu godi pridiant ganddynt ar y tir; ac
- (4) i gaffael y tir i bwrpas gwneud gwaith o'r fath, gan ddefnyddio pwerau gorfodol neu drwy gytundeb.

**Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?**

### **Gwneud gwaith tirlunio (adran 89(1))**

- 16.42 O dan adran 89(1) Deddf 1949, gallai awdurdod cynllunio blannu coed ar unrhyw dir yn ei ardal i bwrpas cadw neu wella ei harddwch naturiol, ar delerau sydd i gael eu cytuno gyda'r perchennog. Trwy rinwedd adran 114 Deddf 1949, mae'r term "plannu coed" yn Deddf 1949 yn cynnwys plannu llwyni, plannu neu hau blodau, a hau glaswellt a gosod tywyrch<sup>28</sup>; ac mae "cadw harddwch naturiol y tir" yn cynnwys cadwraeth ei fflora, ffawna a nodweddion daearegol a ffisiograffigol.<sup>29</sup> Unwaith eto, lle bo'n briodol, gall awdurdod gaffael tir i'r pwrpas yma.
- 16.43 Rydym yn ystyried dros dro bod hwn yn bŵer a allai fod yn ddefnyddiol i ddod â gwelliannau amgylcheddol, a gellid dod ag o'n fanteisiol i mewn i'r Côt Cynllunio newydd. Yma hefyd, gellid addasu'r pŵer i ymdrin â'r tir lle nad oes perchennog adnabyddadwy i bob pwrpas - ac un o'r rhesymau mwyaf am hynny yw mai'r mathau yma o dir yw'r rhai sy'n debygol o fod â'r angen mwyaf am welliant o'r fath. Felly byddai'r cwestiwn ymgynghori uchod am hysbysu, cyhoeddusrwydd ac adfer costau yr un mor berthnasol yn y cyd-destun yma.<sup>30</sup> A gallai'r cyfeiriad at "blannu coed", hyd yn oed fel y mae wedi'i ymestyn gan adran 114, fod yn ddi-fudd o gyfyngus - oherwydd efallai na fydd yn cynnwys tirlunio caled megis llwybrau neu bafin; rydym yn barnu y byddai'n fwy priodol cynnwys rhestr ehangach o waith, megis honno a geir ar hyn o bryd yn adran 5(2) Deddf Ardaloedd Trefol Mewnol 1978.<sup>31</sup>

### **Cwestiwn ymgynghori 16-6.**

**Ystyriwn dros dro y dylai'r Côt Cynllunio newydd gynnwys pwerau cyfatebol â'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd o dan adran 89(1) i alluogi awdurdod cynllunio:**

<sup>28</sup> Deddf 1949, a. 114(3).

<sup>29</sup> Deddf 1949, a. 114(3).

<sup>30</sup> Gweler **baragraffau 16.38 i 16.41** uchod.

<sup>31</sup> Wedi'u nodi yng nghynnwys Deddf Ardaloedd Canol Tref 1978 a. 5(2) fel rhestr unigol.

- (1) i gyhoeddi hysbysiad, a chyflwyno copi ohono i berchennog a meddiannydd y tir, gan nodi bwriad yr awdurdod i wneud gwaith tirlunio i bwrpas gwella'r tir;
- (2) i wneud y gwaith ei hun sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad, naill ai
  - ar delerau y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod a pherchennog a meddiannydd y tir (yn ymwneud â gwneud y gwaith ei hun ac hefyd yn ymwneud â gofal dilynol y tir); neu
  - lle na dderbynnir ymateb i'r hysbysiad; ac
- (3) i gaffael y tir i bwrpas gwneud gwaith o'r fath, gan ddefnyddio pwerau gorfodol neu drwy gytundeb.

Ydy'r ymgylchreion yn cytuno?

## GRAFFITI A GOSOD POSTERI YN ANGHYFREITHLON

### Cefndir deddfwriaethol

- 16.44 Un math penodol o ddirywiad amgylcheddol sydd wedi derbyn sylw arbennig mewn blynyddoedd diweddar yw difwyno adeiladau a strwythurau eraill gyda graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon. Ymdriniwyd â hyn gydag amrywiaeth ddryslyd o ddarnau o ddeddfwriaeth mewn blynyddoedd diweddar, y mae rhai ohonynt wedi bod yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, rhai yn Lloegr yn unig, a rhai dim ond yn Llundain Fwyaf.
- 16.45 Daeth adrannau 48 i 52 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym yng Nghymru ar 15 Mawrth 2003, sy'n caniatáu bod cyflwyno "hysbysiau tynnu graffiti" yn peri i graffiti gael ei dynnu o safleoedd.<sup>32</sup> O dan y Ddeddf honno, gallai awdurdod gyflwyno hysbysiad i berchennog yr arwyneb lle mae'r graffiti, neu unrhyw un arall sy'n gyfrifol am yr arwyneb, yn eu gwahodd i'w dynnu. Os na fyddai hynny'n dod â chanlyniad, gallai'r awdurdod gamu i mewn a gwneud y gwaith tynnu ei hun - a gallai sicrhau ad-daliad am y gost o wneud hynny gan berchennog ac ati'r arwyneb (er bod canllawiau'n awgrymu na fyddai adferiad o'r fath yn briodol yn aml iawn).
- 16.46 Ymestynnwyd y darpariaethau hynny yn Neddf 2003 gan y Ddeddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005 i alluogi cyflwyno "hysbysiau tynnu difwyniad" i sicrhau naill ai bod graffiti neu bosteri a osodwyd yn anghyfreithlon yn cael eu tynnu: daeth y diwygiadau i rym yng Nghymru ar 15 Mawrth 2007.<sup>33</sup> Arhosodd y rhain mewn grym -

<sup>32</sup> OS 2004 Rhif 999. Yr enw gwreiddiol ar hysbysiau o dan y darpariaethau yma oedd "hysbysiau tynnu graffiti"; cyflwynwyd y teitl newydd yn 2005. Roedd darpariaethau gweddol debyg wedi cael eu cyflwyno'n gynharach yn Neddf Awdurdodau Lleol Llundain 1995, oedd wedi rhoi'r grym i gynghorau bwrdeistref Llundain orfodi tynnu graffiti (Deddf Awdurdodau Lleol Llundain (LLAA) 1995, adrannau 11 - 13, a ddiwygiwyd gan LLAA 2004, adrannau 7,12 a LLAA 2007, a. 18).

<sup>33</sup> OS 2006 Rhif 2797.

mewn perthynas â Chymru a Lloegr - hyd nes y cawsent eu diddymu gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014.<sup>34</sup>

- 16.47 Cyflwynodd Deddf 2014 system o "hysbysiadau gwarchod y gymuned", i gymryd lle'n rhannol y system o hysbysiadau tynnu difwyniad o dan Ddeddf 2003. Dywedodd y nodyn esboniadol i Ran 4 y Ddeddf y byddai hysbysiadau gwarchod y gymuned yn disodli'r mesurau cyfredol, yn cynnwys hysbysiadau tynnu difwyniad; ond byddai'n wahanol iddynt oherwydd y ffaith y byddent yn ymdrin ag ystod ehangach o ymddygiad (yr holl ymddygiad sy'n niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol) yn hytrach na chael eu cyfyngu'n benodol i fathau arbennig o ymddygiad (er enghraifft, graffiti).
- 16.48 Roedd y system o hysbysiadau tynnu difwyniad o dan Ddeddf 2003 wedi'i hatodi erbyn hynny yn Lloegr gan system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, sy'n delio'n fwy penodol gyda graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon<sup>35</sup>- sy'n parhau mewn grym, ochr yn ochr â'r darpariaethau newydd a gyflwynwyd yn 2014. Fodd bynnag, yng Nghymru, pan ddiddymwyd adrannau 48 i 52 Deddf 2003 yn 2014 ni chyflwynwyd unrhyw system debyg yn eu lle..Nid yw'n hollol glir a wnaed hyn ar bwrpas ai peidio.

### Y sefyllfa bresennol

- 16.49 Canlyniad yr hanes deddfwriaethol yma sydd braidd yn anarferol yw bod darpariaethau mewn grym yng Nghymru sy'n galluogi awdurdodau i ymdrin yn benodol gyda graffiti (o 2004 hyd 2014) a gosod posterï'n anghyfreithlon (o 2007 hyd 2014). Ond nid oes darpariaethau o'r fath mewn grym ar hyn o bryd.
- 16.50 Yn arbennig, mae'n ymddangos nad yw'r system o hysbysiadau gwarchod y gymuned o dan Ddeddf 2014 yn opsiwn newydd digonol, oherwydd maent wedi eu targedu at ymddygiad unigolion penodol, yn cynnwys meddiannwyr safleoedd sydd wedi'u heffeithio gan graffiti neu osod posterï'n anghyfreithlon, yn hytrach nag at y safleoedd eu hunain. Ac nid ydynt yn darparu unrhyw drefniadaeth benodol ar gyfer tynnu graffiti a phosterï a osodwyd yn anghyfreithlon o dir y mae ymgymrwyr statudol yn feddiannwyr arno.<sup>36</sup>
- 16.51 Felly rydym yn ystyried dros dro y byddai'n briodol ail gyflwyno rhyw fath o reolaeth, sy'n weddol debyg i'r darpariaethau a gyflwynwyd i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr, sy'n galluogi awdurdodau i:

---

<sup>34</sup> Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014, adrannau 58, 181; Atodlen 11, paragraff 41, a ddaeth i rym ar 20 Hydref 2014.

<sup>35</sup> Adran 127(1) Deddf 2011 a gyflwynodd DCGTH 1990, adrannau 225C i 225E, i ymdrin â hysbysebu diawdurdod parhaol (yn debyg i LLAA 2007, adrannau 11, 12). Cyflwynodd Adran 127(2) DDCGTH 1990, adrannau 225F i 225K i ymdrin â graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon (yn debyg i LLAA 1995, adrannau 11-13).

<sup>36</sup> Fel a ddarparwyd gan DCGTh 1990 adrannau 225E, a. 225G, a. 225H, a. 225K, a gyflwynwyd gan y Ddeddf Lleoliaeth 2011.

- (1) ymdrin â graffiti neu bosteri a osodwyd yn anghyfreithlon sy'n niweidiol i amwynder neu sy'n sarhaus, drwy ofyn i berchnogion neu feddianwyr y tir a effeithiwyd ei dynnu; ac
  - (2) ymdrin â hysbysebu diawdurdod parhaus, drwy gyflwyno hysbysiad ar y rheiny sy'n gyfrifol am arwynebau sy'n cael eu gorchuddio'n barhaus gan bosteri a osodir yn anghyfreithlon, gan ofyn iddynt gymryd mesurau i atal hynny (megis rhoi paent pigog arno, sy'n ei gwneud hi'n anoddach gosod posterï arno) er mwyn gostwng achosion o'r fath.
- 16.52 Yn y naill achos a'r llall, byddai angen pwerau priodol i alluogi'r awdurdod i gymryd camau uniongyrchol lle bo raid, a chodi tâl eto ar y rheiny sy'n gyfrifol lle bo'n briodol. A byddai angen darpariaethau arbennig hefyd lle mae'r tir dan sylw yn eiddo i, neu'n cael ei ddefnyddio gan, feddianwyr statudol.
- 16.53 Fodd bynnag, yn gyntaf, rydym yn ystyried y byddai'n fwy priodol, yn hytrach na chyflwyno darpariaethau o'r fath i'r Bil Cynllunio (yn unol â'r agwedd a gymerwyd yn Lloegr yn 2011), i gynnwys darpariaethau o'r fath mewn cyfres o reoliadau sy'n sefyll ar ei phen ei hun, yn enwedig am ei bod hi'n debygol y byddai angen eu diwygio o bryd i'w gilydd ar sail profiad.
- 16.54 Yn ail, rydym yn cydnabod y byddai angen i fanylion y darpariaethau sydd i gael eu cynnwys mewn rheoliadau o'r fath dderbyn rhagor o ystyriaeth fanwl, ac yn y pen draw ymgynghoriad ar wahân.
- 16.55 Rydym yn awgrymu felly mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ar y cam yma fyddai cyflwyno yn y Bil newydd bŵer sy'n galluogi Gweinidogion i gyflwyno rheoliadau i hwyluso tynnu graffiti a phosteri a osodwyd yn anghyfreithlon. Pe bai Gweinidogion Cymru'n cymryd mantais o bŵer fel yma, byddai hynny'n galluogi iddynt gynhyrchu rheoliadau sy'n ffurfio côd hunangynhwysol ar wahân sy'n llywio tynnu graffiti a phosteri a osodwyd yn anghyfreithlon - sy'n gyfatebol â'r rheoliadau sy'n ymwneud ag arddangos hysbysebion a gwneud gwaith i goed wedi'u diogelu.

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-7.**

**Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i hwyluso tynnu graffiti a phosteri a osodwyd yn anghyfreithlon, drwy alluogi awdurdodau cynllunio i:**

- (1) **ymdrin â graffiti neu bosteri a osodwyd yn anghyfreithlon sy'n niweidiol i amwynder neu sydd yn sarhaus, drwy ofyn i ddefnyddwyr neu feddianwyr y tir a effeithiwyd ei dynnu;**



- (2) ymdrin â hysbysebu diawdurdod parhaus, drwy gyflwyno hysbysiad i'r rheiny sy'n gyfrifol am yr arwynebau sydd wedi eu gorchuddio'n barhaus â phosteri a osodir yn anghyfreithlon, gan ofyn iddynt gymryd mesurau ataliol i leihau achosion o hynny; ac
- (3) yn y naill achos a'r llall, i gymryd camau uniongyrchol lle bod angen, a chodi tâl unwaith eto ar y rhai sydd yn gyfrifol lle'n briodol.

Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?

## MENTRAU WEDI EU SEILIO MEWN ARDALOEDD YN GYFFREDINOL

- 16.56 Mae ail hanner y Bennod hon yn cyffwrdd yn fyr ar amrywiaeth o drefnau deddfwriaethol sydd wedi creu pwerau i alluogi Llywodraeth ganolog (sef Gweinidogion Cymru erbyn hyn) i sefydlu amrywiol fathau o awdurdodau arbennig a threfniadau eraill, gyda'r nod o hybu cynhyrchiad neu welliant.
- 16.57 Fel a esbonir isod, mae pob un o'r mentrau amrywiol ond wedi eu defnyddio i raddau cyfyngedig, neu ddim o gwbl yng Nghymru. Mae profiad o'r degawdau diweddar yn awgrymu bod mentrau newydd i hwyluso adfywiad trefol yn cael eu gweithredu naill ai trwy ddefnyddio deddfwriaeth gynllunio arferol - trwy'r broses cynllun datblygu yn endwedig - neu trwy gyflwyno deddfwriaeth hollol newydd, sydd wedi'i llunio i adlewyrchu nodweddion penodol y fenter polisïau sydd i gael ei chyflwyno. Mae'n ymddangos yn annhebygol felly y bydd yr amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth a amlygir yng ngweddill y Bennod hon yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.<sup>37</sup>
- 16.58 Ymhellach, rydym yn ymwybodol mai ychydig o gyfeiriadau sydd ym mhrif gorff y ddeddfwriaeth gynllunio, ac yn arbennig Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, at yr amrywiol drefnau yma sydd wedi eu seilio ar ardaloedd. Mae'r brif ddolen yn y diffiniad o'r hyn yw awdurdod cynllunio lleol mewn ardal sy'n atebol i un ohonynt. Felly, er enghraifft, gall awdurdod ardal fenter neu gorfforaeth datblygu trefol (UDC/CBT), o leiaf mewn theori, gael ei dynodi'n awdurdod cynllunio o fewn ei hardal - er ei bod hi'n amlwg nad yw unrhyw awdurdod ardal fenter erioed wedi cael ei dynodi felly, nac unrhyw gorfforaeth datblygu trefol chwaith yng Nghymru.
- 16.59 Gellid dadlau, felly, bod y ddeddfwriaeth sy'n llywio'r trefnau statudol amrywiol yma'n syrthio y tu allan i gwmpas yr ymarfer presennol. Ar y llaw arall, mae'n amlwg ei fod wedi'i gysylltu'n eglur at ddeddfwriaeth gynllunio brif ffrwd, hyd yn oed os yw hynny dim ond oherwydd natur y maes dan sylw. Ac os yw i gael ei adolygu neu ei ddiddymu, byddai hwn yn amser delfrydol i wneud hynny. Mae'n hawdd gohirio adolygiad fel yma'n amhenodol, ond byddai gwneud hynny'n golygu bod y llyfr statud yn parhau i gynnwys deddfwriaeth sy'n annhebygol iawn o gael ei defnyddio, ond nid

<sup>37</sup> Roedd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014, *Deddf Trefi Newydd 2015?*) yn annog y Llywodraeth i ddiweddarau'r ddeddfwriaeth trefi newydd; ond cafodd menter fwy diweddar Llywodraeth y DU (a gyhoeddwyd ar Ionawr 7 2017) i gefnogi creu pentrefi gardd a threfi gardd yn Lloegr ei lansio heb unrhyw ddeddfwriaeth ffres.

yw hyn o ddefnydd i'r rheiny sy'n dyfeisio deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol neu, yn bwysicach na hynny, i ddefnyddwyr.

- 16.60 Yn drydydd, mae'n rhaid i unrhyw newid deddfwriaethol a gynigir yn rhan o'r ymarfer presennol fod o fewn gallu deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'r adfywiad trefol a gwledig o'r math a welwn yma'n fater a gedwir yn ôl (yn nhermau Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>38</sup>). Felly, nid ydym yn barnu bod angen i hyn atal diwygio'r trefnau statudol arbennig yma.

## ARDALOEDD MENTER

- 16.61 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n ei diwygio, yn cyfeirio mewn amrywiol fannau at "ardaloedd menter". Fodd bynnag, mae dau gategori amlwg o ardaloedd menter, yn codi o dan drefnau cyfreithiol digon gwahanol:

- (1) y rheiny a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ("Deddf 1980"), a'r
- (2) rheiny a gydnabyddir gan y Trysorlys o dan Ddeddf Lwfansau Cyfalaf 2001, fel y mae wedi'i diwygio gan Ddeddf Cyllid 2012.<sup>39</sup>

- 16.62 Fel y byddech yn ei ddisgwyl, cafodd y ddau gynllun statudol eu dyfeisio i sicrhau adfywiad trefol drwy annog datblygiad sector preifat. Mae'r ddau'n cynnwys mesurau cyllidol, ond dim ond y cyntaf sy'n cynnwys mentrau cynllunio penodol. Yn y cyd-destun presennol, y math cyntaf o ardal fenter sy'n berthnasol. Fodd bynnag, i osgoi unrhyw ddryswch, mae angen ystyried y ddau.

### Ardaloedd menter a ddynodwyd yn yr 1980au a'r 1990au

- 16.63 O ran y math cyntaf o ardal fenter, cyflwynwyd pwerau yn Atodlen 32 i Ddeddf 1980, i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (sef Gweinidogion Cymru erbyn hyn) i wahodd awdurdod lleol i fabwysiadu cynllun ardal fenter. Gallai'r cynllun benodi "awdurdod ardal fenter" i fod yn awdurdod cynllunio lleol, os nad oedd felly'n barod; a gallai roi caniatâd cynllunio i'r datblygiad a ddisgrifir ynddo. Darparodd Adran 6 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y gallai gorchymyn sy'n dynodi parth bennu mai'r "awdurdod ardal fenter" a fyddai'n awdurdod cynllunio mewn perthynas â chategoriâu penodol o ddatblygiad.
- 16.64 Roedd y cynllun hefyd yn eithrio meddianwyr safleoedd annomestig rhag y rhwymedigaeth i dalu ardollau, a chyflwynodd lwfansau cyfalaf 100 y cant am adeiladau diwydiannol a masnachol. Roedd hefyd yn cyflwyno manteision mewn perthynas â threth tir datblygu, tystysgrifau datblygu diwydiannol, ac ardollau hyfforddiant diwydiannol.

---

<sup>38</sup> Fel y bydd unwaith mae Atodlen 1 i Ddeddf Cymru 2017 wed dod i rym.

<sup>39</sup> Mae trydydd math o ardal fenter, o dan Orchymyn Ardaloedd Menter (Gogledd Iwerddon) 1981 - yn ôl pob tebyg fel cangen o'r fenter a arweiniodd at ddynodi ardaloedd menter o dan Ddeddf 1980 - ond nid yw hynny'n berthnasol i'r pwrpasau presennol.

- 16.65 Yn y degawdau dilynol, gwnaed rhyw 35 o orchmynion o dan Atodlen 32 i Ddeddf 1980, gan ddynodi ychydig dros 100 o ardaloedd rhyngddynt. O'r rheiny, dynododd pedwar o orchmynion 15 o barthau yng Nghymru.<sup>40</sup> Ni ddynododd unrhyw un o'r gorchmynion unrhyw gorff yn awdurdod cynllunio nad oedd yn awdurdod cynllunio yn barod. Roedd pob gorchmyn yn parhau am ddeng mlynedd. Ni wnaed unrhyw orchmyn ers 1996, a dim yng Nghymru ers 1985. Mae'n dilyn nad oes unrhyw ardal fenter wedi bodoli o dan Ddeddf 1980 yng Nghymru ers mwy nag 20 mlynedd.
- 16.66 Er nad oes unrhyw ardal fenter wedi cael ei dynodi o dan Ddeddf 1980 am fwy nag 20 mlynedd, mae amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n diwygio Deddfau Cynllunio hŷn yn dal i gyfeirio at ardaloedd menter - er enghraifft, mewn blynyddoedd diweddar, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn ogystal â (mewn perthynas â Lloegr yn unig) Deddf Lleoliaeth 2011, Deddf Seilwaith 2015 a Deddf Tai a Chyllunio 2016.<sup>41</sup> Mae ddeddfwriaeth arall - yn benodol Ddeddfau Cyflenwi a Pherchnogiadau - yn cyfeirio wrth basio at "ardaloedd menter", ac mae'n ymddangos eu bod yn golygu ardaloedd a allai gael eu dynodi o dan Ddeddf 1980.<sup>42</sup>

### Ardaloedd menter a ddynodwyd ers 2011

- 16.67 Yn fwy diweddar, yn dilyn cyhoeddiad yng nghyllideb 2011, cyflwynwyd cynllun newydd gan Ddeddf Cyllid 2012, yn galluogi gwariant ar offer neu beiriannau penodol i ddenu manteision treth mewn perthynas â lwfansau cyfalaf, os ydynt mewn ardal a gynorthwyr a ddynodwyd mewn gorchmyn gan y Trysorlys o fewn ardal fenter. Mae "ardal fenter" yn y cyd-destun yma'n golygu "ardal a gydnabyddir gan y Trysorlys fel ardal y mae ffocws arbennig ynddi ar ddatblygiad economaidd ac a bennir ar fap sydd wedi'i gyhoeddi gan y Trysorlys i bwrpasau adran 45K Deddf Lwfansau Cyfalaf 2001, fel y mae wedi'i mewnosod Ddeddf Cyllid 2012."<sup>43</sup>
- 16.68 Yna gwnaeth Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 ddiwygiadau i'r ffordd y trinir ardrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio yn Lloegr o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r nodyn esboniadol i Ddeddf 2012 yn nodi bod paragraff 8 i'r Atodlen honno'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer didyniadau o daliad rhannu canolog awdurdod bilio, er mwyn gweithredu ymrwymiad y Llywodraeth i gyllido rhyddhad ardrethi yn ôl disgrisiwn penodol mewn "ardaloedd menter".<sup>44</sup> Mae'n ymddangos bod hyn yn cyfeirio at ardaloedd menter a gydnabyddir gan y Trysorlys o dan adran 45K newydd Deddf 2011, yn hytrach na'r rheiny a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1980.

<sup>40</sup> Abertawe (yr ardal gyntaf i gael ei dynodi ym Mhrydain Fawr, o dan OS 757 1981), 13 ar lannau Dyfrffordd Aberdaugleddau (OSau 443/44 1984) a Chwm Tawe Isaf (1985 OS 137).

<sup>41</sup> Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2014, a.39; Deddf Cynllunio Cymru 2015, Atodlen 4, paragraff 9; Deddf Lleoliaeth 2011, Atodlen 12, paragraff 12; Deddf Seilwaith 2015, Atodlen 4, paragraff 13; Deddf Tai a Chynllunio 2016, nodyn esboniadol, paragraff 39.

<sup>42</sup> Deddf Cyflenwi a Pherchnogiadau (Prif Amcangyfrifon) 2016, Atodlen; Deddf Cyflenwi a Pherchnogiadau (Disgwyliad a Diwygiadau) 2016, Atodlen 1, para 2; a Deddfau cyfatebol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

<sup>43</sup> Deddf Lwfansau Cyfalaf 2001, a. 45K(14), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid 2012, a. 11, Atodlen 14. Mae ardaloedd cynorthwyedig wedi'u dynodi o dan, er enghraifft, OS 2014 Rhif 3183.

<sup>44</sup> Nodyn esboniadol i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012, para 72.

- 16.69 Gwnaed addasiadau pellach i Ddeddf 2011 gan Ddeddf Cyllid 2014, sy'n galluogi'r Trysorlys i ymestyn cynllun lwfans cyfalaf gwell mewn ardaloedd menter o 2017 hyd 2020.<sup>45</sup>
- 16.70 Ar hyn o bryd mae wyth ardal yng Nghymru sydd wedi eu dynodi o dan y darpariaethau yma.<sup>46</sup> Gwelir eu maint ar fapiau y gellir eu hagor drwy wefan y Trysorlys a gwefan "Busnes Cymru" Llywodraeth Cymru.<sup>47</sup>
- 16.71 Nid yw cydnabod ardal fenter o dan y darpariaethau yma'n cael unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar y system gynllunio, ond mae'n debygol y bydd yr awdurdod cynllunio'n fwy sympathetig i ddatblygiad newydd, a gallai ddefnyddio offer eraill megis gorchmynion datblygu lleol i helpu busnesau newydd.

## Casgliad

- 16.72 Mae'n ymddangos yn amlwg na fydd rhagor o ardaloedd menter yn cael eu dynodi o dan y pwerau yn Neddf 1980, ac na fyddai unrhyw bwrpas mewn cadw'r posibilrwydd o ddynodiadau o'r fath. Ymhellach, mae'r ffaith fod dau drefn cymhelliant gyda'r un teitl wedi eu sefydlu o dan ddeddfwriaeth gwahanol iawn yn pwysleisio bod angen tynnu darpariaethau diangen o'r llyfr statud.
- 16.73 Felly, rydym yn ystyried dros dro bod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bodolaeth ardaloedd menter o dan Deddf 1980 yn ddi-rym, ac y gellid ei haddasu fel nad yw bellach yn berthnasol yng Nghymru. Ac nid oes angen ailddatgan adran 6 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y Côt - adran 6 yw'r adran y gellir dynodi awdurdod ardal fenter yn awdurdod cynllunio lleol ei ardal oddi tani.
- 16.74 Ni fyddai hyn yn cael unrhyw effaith o gwbl ar yr ardaloedd menter sydd wedi'u dynodi'n barod yng Nghymru o dan y Ddeddf Lwfansau Cyfalaf 2001, na'r posibilrwydd bod ardaloedd pellach (yng Nghymru a Lloegr) yn cael eu cydnabod gan y Trysorlys o dan y ddeddfwriaeth honno ar ryw bwynt yn y dyfodol.

### **Cwestiwn ymgynghori 16-8.**

#### **Cynigiwn y dylid diwygio**

- (1) Rhan 18 ac Atodlen 32 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (ardaloedd menter), a**
- (2) darpariaethau sydd yn ymwneud ag ardaloedd menter yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth berthnasol**

**fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.**

<sup>45</sup> Deddf Cyllid 2014, adrannau 64, 65; Atodlen 13.

<sup>46</sup> Môn, Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan, Canol Caerdydd, Glannau Dyfrdwy, Glyn Ebwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau, Glannau Port Talbot, ac Eryri.

<sup>47</sup> <https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/zones>

## Ydy ymgylgoreion yn cytuno?

### MENTRAU ERAILL WEDI EU SEILIO MEWN ARDAL

#### Corfforaethau datblygu tref newydd

- 16.75 Deilliodd y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â threfi newydd o Ddeddf Trefi Newydd 1949, a ffurfiodd un o dair colofn wreiddiol y ddeddfwriaeth gynllunio ar ôl y Rhyfel, ar y dechrau fel ffordd o wasgaru'r pwysau ar gyfer datblygiad newydd allan o'r dinasoedd mawr yn y blynyddoedd cynnar ar ôl y Rhyfel. Y syniad gwreiddiol oedd y dylai corfforaeth datblygiad ar wahân fod yn gyfrifol am gynllunio pob tref newydd. Byddai pob corfforaeth o'r fath yn awdurdod cynllunio lleol hefyd o fewn ei hardal ddynodedig, yn gyfrifol am gynllunio cyffredinol yn ogystal â bod yn gyfrifol am sefydlu'r dref newydd ei hun.
- 16.76 Sefydlwyd y Comisiwn ar gyfer y Trefi Newydd, o Ddeddf Trefi Newydd 1959, i reoli diddymiad y corfforaethau datblygu. Cafodd Deddf 1949 ei diwygio'n sylweddol, cyn cael ei disodli gan Ddeddf Trefi Newydd 1965 (mesur cyfuno), a gafodd ei diwygio ei hun, a maes o law cafodd ei disodli gan Ddeddf Trefi Newydd 1981 (sydd hefyd yn fesur cyfuno).
- 16.77 Crëwyd deg tref newydd yn Lloegr yn 1946-50, pump pellach yn 1961-64, a chwech terfynol yn 1967-70. Yng Nghymru, dynodwyd Tref Newydd Cwmbrân yn 1949 a daethpwyd â'r Gorfforaeth Ddatblygu i ben yn 1988.<sup>48</sup> Dynodwyd Tref Newydd y Drenwydd ym Mhowys) yn 1967,<sup>49</sup> ac yn dilyn hynny cafodd swyddogaethau'r Gorfforaeth Ddatblygu eu trosglwyddo i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig.<sup>50</sup> Cynigiwyd trydydd tref newydd yng Nghymru yn 1969 yn Llantrisant; ond ni chafodd y cynnig yma ddwyn ffrwyth.<sup>51</sup>
- 16.78 Yna darparodd Deddf Corfforaethau Datblygu Trefol a Threfi Newydd 1985 ar gyfer cyflawni'r rhaglen trefi newydd, a datgyweddiad y sector cyhoeddus yn y pen draw. Diwygiodd hefyd swyddogaethau'r Comisiwn, a darparodd ar gyfer ei diddymu yn y pen draw. Cymerwyd y broses hon gam ymhellach gan Ddeddf Tai ac Adfywio 2008, a ddarparodd ar gyfer diddymiad terfynol y Comisiwn.<sup>52</sup>
- 16.79 Mae'n dilyn bod Deddf Trefi Newydd 1981 bron i gyd, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau 1985 a 2008, yn ddi-rym. Felly rydym yn cynnig dros dro y dylid diwygio'r ddwy Ddeddf fel nad ydynt yn berthnasol bellach yng Nghymru. Mae darpariaethau

<sup>48</sup> OS 2054 1949 ; OS 265 1988

<sup>49</sup> London Gazette, 28 Rhagfyr 1967; OS 1893 1967.

<sup>50</sup> Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976, a. 1. Cafodd swyddogaethau'r Bwrdd eu trosglwyddo wedi hynny i Asiantaeth Datblygu Cymru (Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

<sup>51</sup> Dadleuon HC, 13 Mai 1969.

<sup>52</sup> Deddf Tai ac Adfywiad 2008, a. 50, Atodlen 5.

Deddfau 1985 a 2008 wedi eu treulio i raddau mawr erbyn hyn, ac nid oes angen eu cadw chwaith.

### **Cwestiwn ymgynghori 16-9.**

#### **Cynigiwn dros dro y dylid diwygio**

- (1) **Deddf Trefi Newydd 1981, a'r**
- (2) **darpariaethau sy'n ymwneud â threfi newydd yn Neddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Trefol 1985, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Tai ac Adfywio 2008, a deddfwriaeth berthnasol**

**fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Corfforaethau datblygu trefol**

- 16.80 Yn dilyn diddymu'r corfforaethau trefi newydd, cyflwynwyd ardaloedd datblygu trefol yn Rhan 16 Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Yn wahanol i ardaloedd menter, a sefydlwyd o dan yr un Ddeddf, a ddyluniwyd i annog menter preifat, roedd ardaloedd datblygu trefol wedi eu bwriadu i hybu adfywiad gan y sector cyhoeddus; ac yn gyffredinol rhoddwyd i'r corfforaethau datblygu trefol y mwyafrif o'r swyddogaethau y byddai awdurdodau lleol wedi eu gwneud fel arall o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 16.81 Darparwyd y drefn ar gyfer creu corfforaeth datblygu trefol, a'r pwerau y gellid eu darparu iddi, yn Atodlenni 26 i 31 Deddf 1980, fel y cawsent eu diwygio gan Ddeddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985 ac adrannau 177 i 180 Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygiad Trefol 1993.
- 16.82 Cafodd corfforaethau eu sefydlu i ddechrau mewn amrywiol ardaloedd trefol yn Lloegr yn y cyfnod o 1980 hyd 1993.<sup>53</sup> Yn gyffredinol, barnwyd eu bod wedi bod yn llwyddiannus a cawsent eu diddymu yn 1998.<sup>54</sup> Sefydlwyd corfforaethau datblygu pellach yn 2003 a 2004,<sup>55</sup> ac, yn fwyaf diweddar, un yn 2015.<sup>56</sup> Ymhob achos, sefydlwyd y gorfforaeth fel yr awdurdod cynllunio lleol, gyda swyddogaethau rheoli datblygiad llawn.
- 16.83 Dim ond un gorfforaeth datblygu trefol a sefydlwyd erioed yng Nghymru. Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn 1987, ond (yn wahanol i'r holl gorfforaethau yn Lloegr) ni roddwyd iddi'r pwerau sy'n ymwneud â pholisi cynllunio a rheoli

<sup>53</sup> Yn cynnwys Dociau Llundain a Glannau Merswy.

<sup>54</sup> OS 769 1998.

<sup>55</sup> Thurrock, Thames Gateway, a Gorllewin Swydd Northampton; cawsent oll eu diddymu yn 2014 (OS 1181 2014).

<sup>56</sup> Ebbsfleet (OS 2015/747).

datblygiad a fyddai fel arall wedi bod ar gael i awdurdod cynllunio lleol.<sup>57</sup> Ei phrif rôl oedd goruchwyllo adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd. Cafodd y Gorfforaeth ei diddymu ar 31 Mawrth 2000, a throsglwyddwyd ei chyfrifoldebau rheoli i raddau mawri Awdurdod Harbwr Caerdydd, fel y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993.

- 16.84 Yma hefyd, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd y drefn corfforaeth datblygiad trefol yn cael ei defnyddio eto yng Nghymru. Mae'n dilyn bod Rhan 16 Deddf 1980, a'r Atodlenni sy'n gysylltiedig â'r Deddf honno, yn ddi-rym felly, o leiaf mewn perthynas â Chymru, ynghyd â'r ddeddfwriaeth sydd wedi diwygio'r darpariaethau hynny dros y blynyddoedd dilynol. Ac nid oes angen i adran 7 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â rôl datblygu trefol fel awdurdod cynllunio lleol, gael ei haildatgan yn y Côd.
- 16.85 Mewn ymateb i'r Papur Cwmpasu, roedd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) yn cefnogi'n gryf dynnu'r pŵer i greu corfforaethau datblygu trefol.
- 16.86 Roedd Persimmon Homes West Wales a Chymdeithas y Bar Cynllunio ac Amgylcheddol (PEBA) hefyd yn cefnogi tynnu'r darpariaethau sy'n caniatáu sefydlu'r corfforaethau datblygu trefol.

### **Cwestiwn ymgynghori 16-10.**

#### **Cynigiwn dros dro y dylid diwygio**

- (1) **Rhan 16 o, ac Atodlenni 26 i 31 Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (ardaloedd datblygu trefol a chorfforaethau datblygu trefol), a'r**
- (2) **darpariaethau sy'n ymwneud â chorfforaethau datblygu trefol yn y Ddeddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygiad Trefol 1993, a deddwriaeth berthnasol**

**fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Ymddiriedolaethau gweithredu tai**

- 16.87 Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi ardaloedd ymddiriedolaeth gweithredu tai, fel ardaloedd lle gallai amodau byw trigolion lleol ac amodau cymdeithasol ac amgylchedd cyffredinol gael eu gwella gan "ymddiriedolaeth gweithredu tai" sydd wedi'i chyfansoddi'n arbennig". Unwaith y mae wedi'i sefydlu, gellid dynodi ymddiriedolaeth o'r fath yn awdurdod cynllunio lleol yn ei hardal.<sup>58</sup>

<sup>57</sup> OS 646 1987.

<sup>58</sup> DCGTh 1990, a 9 (Yn ein Papur Cwmpasu roeddem wedi cyfeirio at amrywiol fathau o fentrau seiliedig ar ardaloedd, a ystyriwyd yn y Bennod hon, ond nodwyd mai enghreifftiau yn unig oeddent; mae ymddiriedolaeth gweithredu tai yn enghraifft bellach o fenter o'r fath, na sonnir amdani yn y Papur Cwmpasu).

- 16.88 Roedd y Ddeddfwriaeth berthnasol, Rhan 3 Deddf Tai 1988, yn berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr, felly gallai ardaloedd o'r fath fod wedi eu dynodi yng Nghymru. Fel mae'n digwydd, dim ond chwe ardal a ddynodwyd erioed, rhwng 1991 a 1994; roeddent oll yn Lloegr (tari yn Lundain, tair mewn ardal arall); ac mae'n ymddangos nad oedd unrhyw un o'r ymddiriedolaethau wedi'udynodi'n awdurdodau cynllunio lleol. Cawsent eu diddymu ar amrywiol ddyddiadau rhwng 1999 a 2005.
- 16.89 Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ragolygon y bydd ardaloedd fel yma'n cael eu dynodi yng Nghymru yn y dyfodol. Felly, dylid diwygio Adran 60(1) Deddf 1988 i ddangosyn glir bod Rhan 3 yn berthnasol dim ond i dir yn Lloegr; ac nid oes angen ailddatgan yn y Côt adran 9 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â rôl ymddiriedolaeth gweithredu tai fel awdurdod cynllunio lleol.

### Cwestiwn ymgynghori 16-11.

#### Cynigiwn dros dro y dylid diwygio

- (1) **Rhan 3 Deddf Tai 1988 (ardaloedd ymddiriedolaeth gweithredu tai), a**
- (2) **darpariaethau sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau gweithredu tai yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth berthnasol**

fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Byrddau datblygu gwledig

- 16.90 Roedd y mentrau a ddisgrifir uchod yn ymwneud i raddau mawr â phroblemau ardaloedd trefol. Dyfeisiwyd mecanwaith ychydig yn wahanol gan Lywodraeth Prydain rhyw hanner canrif yn ôl i ymdrin â phroblemau ac anghenion ardaloedd gwledig o fryniau a thiroedd uchel - yn arbennig, defnyddio tir mewn ardaloedd o'r fath ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, gwella gwasanaethau cyhoeddus a diogelu'r amwynder a'r golygfeydd sydd yno. O dan Ran 3 Deddf Amaethyddiaeth 1967, rhoddwyd y grym i'r Llywodraeth sefydlu byrddau datblygu trefol mewn ardaloedd o'r fath, i lunio rhaglen i ddelio gyda'r problemau a'r anghenion hynny.
- 16.91 Roedd y mecanwaith i sefydlu bwrdd o'r fath yn Atodlen 5 y Ddeddf. Fel mae'n digwydd, dim ond un bwrdd a sefydlwyd erioed, yng ngogledd Lloegr, yn 1969; cafodd ei ddiddymu ddwy flynedd yn ddiweddarach.<sup>59</sup> Roedd ail fwrdd a gynigwyd, yng Nghanolbarth Cymru, yn bwnc llosg mewn ymgyrchoedd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, oedd yn ei wrthwynebu am ei fod yn syniad estron o Lundain. Ni ddaeth i fodolaeth o gwbl.<sup>60</sup>

<sup>59</sup> OS 1095 1969; OS 224 1971.

<sup>60</sup> T. Beresford, *We Plough the Fields: British Farming Today*, Penguin, 1975, tudalennau 66-67. Gweler paragraff 19.



16.92 Mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y bydd y cynllun statudol yma'n cael ei ddefnyddio o gwbl yn y dyfodol. Yn y Papur Cwmpasu, roeddem yn cynnig ei fod yn cael ei ddiddymu mewn perthynas â Chymru. Cytunodd Persimmon Homes West Wales a PEBA gyda'r cynnig hwnnw.

**Cwestiwn ymgynghori 16-12.**

**Cynigiwn dros dro i addasu Rhan 3 ac Atodlen 5 Deddf Amaethyddiaeth 1967 (byrddau datblygu gwledig) a deddfwriaeth berthnasol fel eu bod ond yn gymwys mewn perthynas â Lloegr a'r Alban.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

# Pennod 17: Heriau Uchel Lys

## CYFLWYNIAD

- 17.1 Ymodd arferol i herio penderfyniadau cynllunio yw trwy apêl at Weinidogion Cymru (a ystyriwyd yn rhan gyntaf **Pennod 11**). Fodd bynnag, gellir herio penderfyniadau gan Weinidogion Cymru, a rhai penderfyniadau gan awdurdodau cynllunio – yn arbennig ynghylch rhoi caniatâd cynllunio – trwy wneud cais i'r Uchel Lys. Gellir gwneud her o'r fath mewn rhai achosion trwy gais a wneir dan ddarpariaethau Rhan 12 DCGTh 1990; mewn achosion eraill, bydd trwy wneud cais am adolygiad barnwrol, dan Rhan 54 y Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR).
- 17.2 Yn y Bennod hon rydym yn ystyried y ddau ddull, i weld a oes cyfle i symleiddio. Rydym hefyd yn edrych yn gryno ar y weithdrefn i alluogi cywiro mân wallau mewn penderfyniadau.

## HERIO DILYSRWYDD PENDERFYNIADAU

### Heriau statudol

- 17.3 Mae modd i unigolyn sydd wedi eu tramgwyddo gan orchymyn sy'n diddymu neu'n addasu caniatâd cynllunio, neu gan orchymyn tor parhad, gorchymyn diogelu coed, neu orchymyn sy'n dynodi ardal o reolaeth arbennig ar hysbysebion (neu orchymyn costau sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'r rheiny) ei herio yn yr Uchel Lys drwy wneud cais o dan adran 288(1)(a).<sup>1</sup> Ond ni ellir herio dilysrwydd gorchymynion o'r fath mewn unrhyw achosion eraill;<sup>2</sup> hynny yw, er enghraifft, nid oes modd i unigolyn sy'n cael ei erlyn am dorri coeden i lawr oedd wedi ei diogelu gan orchymyn diogelu coed, herio dilysrwydd y gorchymyn yn yr achos troseddol.
- 17.4 Mae modd i unigolyn sydd wedi'i dramgwyddo gan benderfyniadau penodol Gweinidogion Cymru (ac unrhyw orchymynion costau perthnasol) eu herio nhw yn yr Uchel Lys drwy wneud cais o dan adran 288(1)(b).<sup>3</sup> Dyma'r penderfyniadau dan sylw:
- (1) ar gais a elwir i mewn ganddynt i gael eu penderfyniad, neu gais am ddatblygiad brys y Goron;
  - (2) ar apêl (yn berthnasol i geisiadau am dystysgrifau o ddatblygiad cyfreithlon, caniatadau cynllunio, caniatâd i arddangos hysbysebion, neu ganiatâd i wneud gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu);
  - (3) i gadarnhau neu beidio cadarnhau hysbysiad prynu, neu i gadarnhau hysbysiad cwblhau;

---

<sup>1</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 284(1)(g),(2), 288(1)(a), (4).

<sup>2</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 284(1)(e), (2).

<sup>3</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 284(1)(g),(3), 288(1)(b), (4).

- (4) mewn perthynas â chais am ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol (neu am ganiatâd eilaidd sy'n ymwneud â datblygiad o'r fath);
- (5) i roi caniatâd cynllunio neu i ryddhau hysbysiad neu gyfyngiad ar ganiatâd, yn dilyn apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi; neu
- (6) mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddyd o dan y rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysebion.<sup>4</sup>

Yma hefyd, efallai na fydd dilysrwydd penderfyniadau'n cael eu herio mewn unrhyw weithrediadau eraill.<sup>5</sup>

17.5 Gall rhywun sydd wedi'i dramgwyddo gan orchymyn i rwystro neu ddargyfeirio priffordd (o dan adran 247 neu 248 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) neu lwybr troed neu lwybr ceffyl (o dan adran 257) ei herio yn yr Uchel Lys drwy wneud cais o dan adran 287, ond nid fel arall.<sup>6</sup>

17.6 Gellir herio dilysrwydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru, cynllun datblygu strategol neu leol, ac unrhyw ddiwygiad i'r rheiny, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o dan adran 113(3) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, ond nid mewn unrhyw achosion cyfreithiol eraill.<sup>7</sup>

17.7 Ymhob achos, mae'n rhaid gwneud y sialens ar y sail:

- (1) nad oedd y penderfyniad o fewn y pŵer perthnasol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu
- (2) nad yw'n cydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol.<sup>8</sup>

17.8 Hyd yn weddol ddiweddar, roedd hawl awtomatig ar un cyfnod i wneud cais i'r Uchel Lys o dan adran 287 neu 288. Ond, o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015, ni cheir gwneud ceisiadau o'r fath erbyn hyn heb ganiatâd y Llys.<sup>9</sup> Mae'r cyfyngiad amser ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath wedi bod yn chwe wythnos erioed o ddyddiad y gorchymyn neu'r penderfyniad dan sylw.<sup>10</sup>

---

<sup>4</sup> Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 284(3)(h)(iii) hefyd yn cyfeirio at dystysgrifau o dan reoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau neu goed, ond nid oes tystysgrifau o'r fath yn y rheoliadau hysbysebion cyfredol, na chwaith dystysgrifau na chyfarwyddbau yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diogel Coed) (Lloegr) 2012.

<sup>5</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 284(1)(f), (3).

<sup>6</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 284(1)(c), (d), 287(1).

<sup>7</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 113(2).

<sup>8</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 288(1), 287(2); Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 113(3).

<sup>9</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 288(4A), 287(2A); Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 113(3A) – oll wedi eu gosod i mewn gan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, a 91, Atod 6, a ddaeth i rym o 26 Hydref 2015 (OS 2015 Rhif 1778).

<sup>10</sup> Gweler yn awr Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 288(4B), 287(2B); Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 113 (3B) – oll wedi eu gosod i mewn gan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a

17.9 Gellir gwneud apêl i'r Uchel Lys hefyd ar bwynt o'r gyfraith, o dan adran 289 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn erbyn:

- (1) hysbysiad gorfodi<sup>11</sup>;
- (2) hysbysiad amnewid coeden; neu
- (3) hysbysiad tir blêr o dan adran 215.<sup>12</sup>

Mae apeliadau o'r fath wedi gofyn caniatâd yr Uchel Lys bob amser.<sup>13</sup> Ac mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad dan sylw (er y gellir ymestyn y cyfyngiad yma).<sup>14</sup>

17.10 Mae hawliau apelio statudol pellach i'r Uchel Lys yn erbyn mathau tebyg o benderfyniadau i'w cael yn adrannau 62 i 65 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adran 22 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, ac adran 55 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Ymron pob achos, mae gofynion gweithdrefnol tebyg<sup>15</sup>, a darpariaethau tebyg yn atal heriau yn ystod y gweithdrefnau eraill.

17.11 Gellir nodi wrth fynd heibio bod Tŷ'r Arglwyddi yn *Boddington v Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig* wedi derbyn yn groyw bod darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref sydd yn berthnasol i orfodaeth yn enghraifft o gyd-destun penodol lle mae gweithred weinyddol oedd wedi achosi canlyniadau at ddibenion y gyfraith troseddol i'w dal yn anghymwys i her mewn achosion troseddol, ond trwy achosion eraill yn unig:

Roedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys cod cymhleth yn cynnwys darpariaeth ar gyfer apeliadau yn erbyn hysbysiadau (gorfodi), ac ar saernïaeth gywir adran 179(1) y Ddeddf y cyfan oedd angen ei brofi yn yr achosion troseddol oedd bod yr hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol yn ddilys yn ffurfiol.<sup>16</sup>

17.12 Byddai'r un egwyddor yn gymwys mewn perthynas â heriau i benderfyniadau cynllunio yn gyffredinol. Hynny yw, mae modd eu herio trwy wneud cais i'r Uchel Lys dan Rhan 12 DCGTh 1990, ond nid fel arall.

### Her drwy adolygiad barnwrol

17.13 Ni ellir herio penderfyniadau eraill a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Caffael Cyhoeddus 2004 a deddfwriaeth debyg, gan y gweithdrefnau

---

Llysoedd 2015, a 91, Atod 6. Nid oes modd ymestyn y cyfyngiad amser hwnnw (*Smith v Cyngor Dosbarth Gwledig East Elloe* [1956] AC 736; *R v Ysgrifennydd Gwladol ex p Caint* [1990] 1 PLR 128).

<sup>11</sup> Heblaw penderfyniad yn rhoi caniatâd cynllunio mewn ymateb i apêl hysbysiad gorfodi, y mae'n rhaid ei weithredu o fewn chwe wythnos, o dan a 288.

<sup>12</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 289.

<sup>13</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 289(6).

<sup>14</sup> Rheolau Trefniadaeth Sifil ("CPR"), Rhan 52, Cyfeiriad Ymarfer paragraff 22.6C(1).

<sup>15</sup> Yr unig eithriad yw nad yw'r gofyniad am ganiatâd yn berthnasol i apeliadau o dan Ddeddf 1979.

<sup>16</sup> [1998] UKHL 13; [1999] 2 AC 143, trwy'r Arglwydd Ganghellor ar dud 161, yn cyfeirio at araith yr Arglwydd Hoffman yn *R v Wicks* [1998] AC 92 ar dud 120.

statudol y cyfeirir atynt uchod, ond rhaid iddynt gael eu herio gan gais am adolygiad barnwrol o dan Rhan 54 Rheolau Trefniadaeth Sifil ("CPR").

- 17.14 Mae penderfyniadau yn y categori yma'n cynnwys y mwyafrif o benderfyniadau a gorchymynion gan awdurdodau cynllunio, yn cynnwys yn arbennig penderfyniadau i roi caniatâd cynllunio neu gydsyniadau eraill – fel bod yn rhaid i heriau yn erbyn trydydd parti yn erbyn rhoi caniatâd gael ei wneud trwy adolygiad barnwrol. Adolygiad barnwrol hefyd yw'r drefn briodol ar gyfer herio penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn achosion interim, neu o dan drefniadau anffurfiol, neu a ddylid galw cais cynllunio i mewn, neu am y drefn ar gyfer penderfynu apêl neu alw i mewn, neu i beidio gweithredu. Ac mae'n briodol ar gyfer herio polisi a threfn llywodraeth leol a chanolog yn gyffredinol.
- 17.15 Mae'n rhaid dod â chais o dan Rhan 54 hefyd lle mae'r ymgeisydd yn ceisio gorchymyn gorfodol, gwahardd neu ddileu – hynny yw, gorchymyn sy'n gofyn i gorff cyhoeddus wneud rhywbeth, neu beidio gwneud rhywbeth, neu ddileu penderfyniad y mae wedi'i wneud. A gellir defnyddio Rhan 54 lle mae'r cais am ddatganiad (gorchymyn llys yn cyhoeddi effaith y gyfraith mewn perthynas â mater penodol) yn ymwneud â phenderfyniad neu weithred arall gan gorff cyhoeddus o dan y Deddfau cynllunio.<sup>17</sup>
- 17.16 Mae her o dan Rhan 54 wedi bod angen caniatâd yr Uchel Lys erioed.<sup>18</sup> Y sefyllfa yn y gorffennol oedd bod yn rhaid gwneud her o'r fath yn "brydlon, ac o fewn tri mis beth bynnag fo'r sefyllfa". Ers 2013, mae'n rhaid ei wneud o fewn chwe wythnos.<sup>19</sup>

### Cymhariaeth rhwng y ddwy weithdrefn

- 17.17 Nid yw'r mwyafrif o Ddeddfau'n cynnwys gweithdrefn statudol arbennig i adolygu penderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus. Nid oedd trefn arbennig o'r fath, yn gyfatebol ag adran 288 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947; ac nid oes gweithdrefn o'r fath o hyd yn y ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon. Cafodd y weithdrefn statudol sy'n bodoli erbyn hyn yn Neddfau 1990 ei chyflwyno'n gyntaf yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1959, mewn ymateb i argymhellion y *Pwyllgor ar Dribiwnlysoedd ac Ymholiadau Gweinyddol* (Adroddiad Franks) am yr annigonolrwydd a welwyd yn y system adolygu barnwrol ar y pryd.<sup>20</sup>
- 17.18 Fodd bynnag, yn y 50 mlynedd dilynol ers Adroddiad Franks, mae'r system adolygu barnwrol wedi cael ei datblygu'n eang, ac un o'r rhesymau pennaf am hyn yw'r newidiadau a wnaed i Reolau'r Goruchaf Lys yn 1977 a Deddf y Goruchaf Lys yn

---

<sup>17</sup> RTS rheol 54.2, 54.3.

<sup>18</sup> RTS rheol 54.4 (yn adnewyddu Rheolau'r Uchel Lys, Gorchymyn 53, rheol 3, fel y diwygiwyd yn 1978).

<sup>19</sup> RTS rheol 54.5(5), a gafodd ei fewnosodi gan OS 2013 Rhif 1412. Mae'r terfyn chwech wythnos ond yn berthnasol i heriau o dan "y cyfreithiau cynllunio", sydd ddim yn cynnwys y PCPA 2004 neu deddfau arall, fel yr Ancient Monuments Act 1979 (gweler RTS, rheol 54.5(A1), TCPA 1990 a 336).

<sup>20</sup> TCPA 1959 a 31; gweler *Adroddiad y Pwyllgor ar Tribiwnlysoedd ac Ymholiadau* (Adroddiad Franks 1957), para 359.

1981. Mae'n cael ei gydnabod yn eang erbyn hyn fel mecanwaith boddhaol i adolygu penderfyniadau gweinyddol.

- 17.19 Ymhellach, mae'r gwahaniaethau rhwng y drefn statudol o dan Ran 12 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r drefn adolygu barnwrol o dan Rhan 54 y Rheolau Gweithdrefn Sifil wedi diflannu bron yn gyfan gwbl erbyn hyn. Yn arbennig, diwygiwyd y Rheolau Gweithdrefn Sifil yn 2013 i'w gwneud hi'n ofynnol i bob her adolygu barnwrol o dan y Deddfau cynllunio gael eu gweithredu o fewn chwe wythnos – yr un cyfyngiad amser ar gyfer ceisiadau o dan Ran 12; a chafodd Rhan 12 ei hun ei ddiwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 i ofyn i ganiatâd gael ei sicrhau i holl sialensiau'r Uchel Lys.
- 17.20 Nododd Richard Harwood CF felly, yn ei lyfr *Planning Permission*, bod "achos enfawr o blaid diwygio deddfwriaethol i ymdrin â'r holl heriau cynllunio trwy adolygiad barnwrol, yn amodol ar gyfyngiadau amser statudol lle bo'n briodol."<sup>21</sup>
- 17.21 Yn y Papur Cwmpasu, rydym yn nodi felly y byddem yn ystyried a ddylai Rhan 12 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 barhau i fodoli ochr yn ochr ag adolygiad barnwrol.<sup>22</sup>
- 17.22 Dim ond un ymgynghorai a roddodd sylw am yr awgrymiad yma. Cytunodd Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA) bod angen adolygu'r rhyngberthynas rhwng y ddwy weithdrefn:

Rydym yn rhannu barn y Comisiynydd bod angen, o fewn cwmpas y prosiect yma, adolygu darpariaethau adran 288 o Ddeddf 1990 a'r berthynas rhwng Rhan 12 Deddf 1990 a'r drefn adolygu barnwrol. Rydym yn nodi bod y gyfraith ar arfer disgrisiwn barnwrol yn yr heriau statudol i, a'r ceisiadau am adolygiad barnwrol o, benderfyniadau cynllunio yn parhau i dderbyn sylw mewn sylwadau barnwrol gweddol rheolaidd.

### **Y drefn ar gyfer herio dilysrwydd penderfyniadau cynllunio eraill**

- 17.23 Er mwyn cymharu, mae'n amlwg bod adrannau 61N a 106C Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adrannau 13 a 118 Deddf Cynllunio 2008 yn cynnwys cyfres o ddarpariaethau sy'n ymwneud â heriau i amrywiol gategoriâu o benderfyniadau a materion eraill. Ymhob achos, mae'r ddarpariaeth yn achosi bod:

"modd i lys gynnal achosion i gwestiynu [y penderfyniad perthnasol neu fater arall] dim ond os -

- (a) yw'r gweithdrefnau'n cael eu cychwyn gan gais am adolygiad barnwrol, ac

---

<sup>21</sup> Harwood, *Caniatâd Cynllunio*, para 25.12.

<sup>22</sup> Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, Rhif 228, para 5.91.

- (b) yw'r ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o chwe wythnos yn cychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan [wnaed y penderfyniad perthnasol neu y cododd y mater]."<sup>23</sup>

## Symleiddio posibl

- 17.24 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n welliant sylweddol pe bai un weithdrefn yn unig ar gyfer herio'r holl benderfyniadau o dan y Bil Cynllunio – sef, adolygiad barnwrol. Gellid cyflawni hyn drwy gyflwyno darpariaeth ar hyd yr un llinellau â'r rheiny a nodwyd yn y paragraff blaenorol, gan nodi bod holl benderfyniadau unrhyw gorff cyhoeddus o dan y Côt (heblaw'r rheiny lle mae hawl apelio ar gael i Weinidogion Cymru<sup>24</sup>) – a'r holl fethiannau i wneud penderfyniad o'r fath – yn gallu cael eu herio yn y llysoedd, ond dim ond drwy gais am adolygiad barnwrol.
- 17.25 Byddai darpariaeth o'r fath yn atal her gyfochrog rhag cael ei gwneud i ddilysrwydd penderfyniad o'r fath – er engraifft, yng nghwrs y gweithdrefnau troseddol – fel ar hyn o bryd.<sup>25</sup> Byddai hefyd yn cyflwyno'r gweithdrefnau'n awtomatig o dan Rhan 54 y CPR.
- 17.26 Mae'n debyg y bydd y cyfyngiadau amser perthnasol, sydd i gael eu nodi yn y Bil, yn parhau i fod am chwe wythnos yn y mwyafrif o achosion. Yr unig eithriadau fyddai mewn perthynas â gweithdrefnau gorfodi, lle mae penderfyniadau polisi cyhoeddus yn dangos bod cyfyngiadau amser byrrach yn fanteisiol. Fel y nodwyd uchod<sup>26</sup>, mae cyfyngiad o bedair wythnos yn berthnasol ar hyn o bryd yn achos yr her i benderfyniad Gweinidogion Cymru ar apel yn erbyn hysbysiad gorfodi<sup>27</sup>, hysbysiad amnewid coeden a hysbysiad tir diolwg. Rydym yn ystyried dros dro y byddai'r un egwyddor yn berthnasol i'r un graddau i benderfyniadau i wrthod tystysgrif o gyfreithlonedd y defnydd neu'r datblygiad presennol.
- 17.27 Ni fyddai newid o'r fath yn arwain at unrhyw addasiad yn hawl unrhyw unigolyn i wneud cais i'r llysoedd i herio'r penderfyniadau cynllunio a gweithredoedd perthnasol cyrff cyhoeddus, ond byddai'n golygu y byddai'r holl heriau o'r fath yn cael eu tynnu o dan un weithdrefn yn y dyfodol. Mae hyn yn debygol o fod angen cymeradwyaeth adran Llywodraeth y DU sydd yn gyfrifol am weithdrefn y llys.

---

<sup>23</sup> TCPA 1990 a 61N (gorchmynion datblygiad cymdogaeth yn Lloegr) ac a 106C (rhwymedigaethau cynllunio yn ymwneud a chaniatad datblygiad); Deddf Cynllunio 2008 a 13 (datganiad polisi cenedlaethol) – a gafodd y rhain i gyd ei ddiwygio gan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol Llysoedd 2015 a 92.

<sup>24</sup> Yn nodedig, mae apeliadau yn erbyn hysbysiadau sydd yn nodi bod cais yn annilys (o dan y TCPA 1990 a 62ZA), penderfyniad awdurdod cynllunio ar gais cynllunio (a 78), hysbys gorfodaeth (a 175); penderfyniad ar gais am tystysgrif datblygiad cyfreithiol (a 195) – neu darpariaethau cyfatebol yn ymwneud ag adeiladau cofrestredig, ardaloedd cadwrol, hysbysiadau a choed – neu hysbys amnewid coed (a 203), a hysbys tir anolygus (a 217).

<sup>25</sup> Gweler **paragraffau 17.10 a 17.11**, uchod.

<sup>26</sup> Gweler **para 17.9** uchod.

<sup>27</sup> Heblaw penderfyniadau sydd yn rhoi caniatad cynllunio fel ymateb i apel hysbysiad gorfodaeth.

### Cwestiwn ymgynghori 17-1.

Cynigiwn dros dro y dylai'r darpariaethau sydd yn Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd (heriau yn yr Uchel Lys i ddilysrwydd gweithredoedd a phenderfyniadau o dan y Ddeddf) gael eu disodli yn y Cod Cynllunio gan ddarpariaethau newydd i ganiatau'r llys i gynnal achosion sydd yn cwestiynu unrhyw benderfyniad gan gorff cyhoeddus o dan y Côt (heblaw un y mae hawl apelio yn ei erbyn i Weinidogion Cymru) – ac unrhyw fethiant i wneud unrhyw benderfyniad o'r fath – ond dim ond os:

(1) yw'r gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno drwy gais am adolygiad barnwrol;

(2) yw'r ffurflen hawlio'n cael ei ffeilio:

- cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos, mewn achos sydd yn herio penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apel yn erbyn hysbysiad gorfodi (heblaw penderfyniad sy'n rhoi caniatâd cynllunio), hysbysiad amnewid coeden, hysbysiad tir blêr neu benderfyniad yn gwrthod tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol; neu
- cyn diwedd y cyfnod o chwech wythnos mewn unrhyw achos arall,

yn cychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan wnaed y penderfyniad perthnasol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Ceisiadau ar draws y ffiniau

17.28 Mae adan 286(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn atal i her gael ei gwneud yn erbyn penderfyniad gan awdurdod cynllunio ar y sail y dylai fod wedi'i wneud gan awdurdod. Gallai hyn fod yn berthnasol lle mae cais yn ymwneud â thir sy'n croesi'r ffin rhwng ardaloedd y ddau awdurdod, ac yn yr achos yma bydd y ddau awdurdod yn dod i gytundeb ynglŷn â pha un sydd i benderfynu'r cais.

17.29 Felly rydym yn ystyried y dylid cynnwys darpariaeth gyfatebol yn y Cod – efallai ochr yn ochr â'r darpariaethau cyflwyniadol i ddelio gydag awdurdodau cynllunio'n gyffredinol.<sup>28</sup>

17.30 Nid oes angen ailddatgan Adran 286(2) yn y Cod, am mai dim ond i Loegr y mae'n berthnasol.

---

<sup>28</sup> Gweler para 5.131 to 5.137.



## CYWIRO GWALLAU BYCHAIN

- 17.31 O dan Rhan 5 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, lle mae Gweinidogion Cymru neu arolygydd yn cyhoeddi penderfyniad o dan y Deddfau cynllunio sy'n cynnwys gwall y gellir ei gywiro, gallent gywiro'r gwall os gofynnir iddynt wneud hynny gan unrhyw berson (o dan adran 56(2)(a)) neu os ydynt yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am eu bwriad i wneud hynny (o dan adran 56(2)(b)).<sup>29</sup> Mae'r weithdrefn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o benderfyniadau, yn benodol y rheiny sy'n ymwneud ag amrywiol fathau o apeliadau.<sup>30</sup> Mae hyn yn galluogi i bobl sy'n gwneud penderfyniadau gywiro gwallau mewn llythyr penderfyniad heb orfod mynd drwy'r drefn gymhleth a drud o herio yn yr Uchel Lys. Cynlluniwyd y drefn i gael ei defnyddio mewn cysylltiad â "gwallau clerigol amlwg ... nid gwallau materol sy'n mynd i sylwedd y penderfyniad."<sup>31</sup>
- 17.32 Fodd bynnag, ni all pobl sy'n gwneud y penderfyniadau ond cymryd camau o'r fath o fewn y cyfnod a ganiateir ar gyfer her yn yr Uchel Lys (chwe wythnos fel arfer o ddyddiad y penderfyniad dan sylw<sup>32</sup>). Anfantis i hyn sy'n digwydd yn aml yw pan fo her yn erbyn penderfyniad o'r fath yn yr Uchel Lys yn union cyn i'r cyfnod o amser perthnasol ddod i ben ac nid oes lle i wneuthurwr y penderfyniad ymateb drwy gyflwyno rhybudd cywiro, fel mai'r unig opsiwn sy'n agored iddynt efallai yw cydsynio i'r farn.
- 17.33 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n briodol cadw'r ddarpariaeth bresennol lle na ellir gwneud cais (o dan adran 56(2)(a)) ac na ellir rhoi hysbysiad (o dan adran 56(2)(b)) ar ôl diwedd y cyfnod herio statudol Fodd bynnag, dylid bod cyfnod o, dweder, 14 diwrnod pan fo'r gwneuthurwr penderfyniadau'n gallu ymateb i gais o'r fath ac y gall yr ymgeisydd ymateb i hysbysiad o'r fath. Unwaith mae'r cais neu'r hysbysiad wedi'i wneud, byddai'r cyfyngiad amser o chwe wythnos yn cael ei ohirio nes bo'r ymateb wedi dod neu mae'r 14 diwrnod i ymateb wedi dod i ben.
- 17.34 Yn ogystal, am fod y darpariaethau cywiro yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn hytrach nag yn y Deddfau cynllunio eu hunain, efallai na chânt eu defnyddio i gywiro gwall yn yr hysbysiad cywiro ei hun. Byddai hynny wedi'i ddatrys pe bai'r darpariaethau sydd yn Rhan 5 y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn cael eu dwyn i mewn i'r Bil Cynllunio, ac os byddai cwmpas y penderfyniadau y gellid eu cywiro'n cael eu hymestyn yn briodol.

---

<sup>29</sup> PCPA 2005 a 56. Mae'r geiriau a ddefnyddir ym mharagraff yn a 57(1) bod rhaid darllen y ddau paragraff yn adran 56(2) ar wahan (neu fel eu bod yn ddewisadau amgen).

<sup>30</sup> TCPA 2005, a 59(4).

<sup>31</sup> Hansard, Ty'r Arglwyddi, 5 Chwefror 2004, Cyfrol 657, colofn 885.

<sup>32</sup> Gweler **para 17.8** uchod.

### **Cwestiwn ymgynghori 17-2.**

**Ystyriwn dros dro y dylai darpariaethau Rhan 5 yn y Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (sydd yn ymwneud â chywiro gwallau bychain mewn penderfyniadau) gael eu cynnwys yn y Bil, ond eu bod yn cael eu diwygio er mwyn caniatáu cyfnod o 14 diwrnod lle gall Gweinidogion Cymru neu arolygydd ymateb i gais i wneud cywiriad i'w penderfyniad, ac y gall ymgeisydd ymateb i hysbysiad ganddynt eu bod yn cynnig gwneud cywiriad o'r fath.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## Pennod 18: Darpariaethau amrywiol ac atodol

### CYFLWYNIAD

- 18.1 Mae'r Bennod hon yn ymdrin â chasgliad o ddarpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a deddfwriaeth gysylltiedig) yn gyffredinol - yn hytrach na'r rheiny sy'n ymwneud â rheoli datblygiad yn unig, a oedd dan sylw ym **Mhennod 12**, neu swyddogaethau penodol eraill. Maent yn perthyn i bedwar categori eang.
- 18.2 Yn gyntaf, mae'r gyfraith ym Mhenodau blaenorol y Papur Ymgynghori yma'n ymwneud yn eang â datblygiad ar unrhyw dir yng Nghymru, pwy bynnag sy'n berchen ar y tir a phwy bynnag sy'n mynd i wneud y gwaith datblygu. Ond mae categorïau penodol o dir a datblygiad yn cael eu trin ychydig yn wahanol - yn benodol y rheiny sy'n ymwneud ag ymgwymerwyr statudol a'r Goron (yn Rhannau 11 a 13 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), awdurdodau lleol ac Eglwys Loegr (yn Rhan 15).
- 18.3 Yn ail, mae'r system gynllunio'n trin gweithrediadau mwyngloddio ychydig yn wahanol i'r mathau eraill o ddatblygiad (hefyd yn Rhan 15).
- 18.4 Yn drydydd, mae darpariaethau eraill amrywiol a chyffredinol ynghylch ffioedd a thaliadau am berfformio gweithrediadau cynllunio (yn rhan 14 DCGTh 1990); ynghylch ymholiadau a gweithredoedd eraill (yn Rhan 15); ac ynghylch cymhwysio darpariaethau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd.
- 18.5 Yn olaf, mae diffiniadau o'r termau amrywiol a ddefnyddiwyd trwy'r Ddeddf.
- 18.6 Yn debyg i ddarpariaethau sy'n cael eu trafod ym **Mhennod 12**, ni fydd y mwyafrif o'r rheiny a drafodwyd yn y Bennod hon yn digwydd yn aml. Ond, yma hefyd, mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth gysylltiedig (fel y mae'n gymwys yng Nghymru) fod yn addas i'r pwrpas, lawn cymaint â'r ddeddfwriaeth sy'n codi'n amlach mewn bywyd yn ymarferol.

### YMGYMERWYR STATUDOL

#### Diffiniad o "ymgymerwyr statudol"

- 18.7 Mae Rhan 11 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymdrin â defnyddio'r gyfraith gynllunio ar y tir a gwaith ymgwymerwyr statudol - hynny yw, mewn termau eang, cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Roeddem yn arfer eu galw, ac yn dal i'w hystyried weithiau hefyd, yn "gyrff cyhoeddus" neu "gyfleustodau cyhoeddus", ond mae rhai wedi cael eu preifateiddio'n rhannol neu'n gyfan gwbl erbyn hyn, ac mae rhai sydd heb gael eu cymryd i mewn i berchnogaeth gyhoeddus erioed.
- 18.8 Nid yw'r cwestiwn ynglŷn â pha gyrff sy'n "ymgymerwyr statudol" at ddibenion y Ddeddf yn syml iawn i'w ateb. Mae'r diffiniad sylfaenol yn adran 262 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a dyma ei eiriad:

- (1) [cyrff] wedi eu hawdurdodi gan unrhyw ddeddf i gludo ar unrhyw ymgymeriad rheilffordd, rheilffordd ysgafn, tramffordd, cludiant ffordd, cludiant ar ddŵr, camlas, llywio mewndirol, doc, harbwr, pier neu oleudy neu unrhyw ymgymeriad i gyflenwi pŵer hydrologig; a
- (2) gweithredwr maes awyr perthnasol (o fewn ystyr Rhan 5 y Ddeddf Meysydd Awyr 1986).<sup>1</sup>

18.9 I lawer (ond nid bob) pwrpas, mae'r Ddeddf yn darparu bod y canlynol yn ymgymerwyr statudol hefyd yng Nghymru:

- (1) unrhyw gludydd nwy, dŵr neu garthffosiaeth<sup>2</sup>;
- (2) Corff Adnoddau Naturiol Cymru<sup>3</sup>;
- (3) unrhyw ddarparydd gwasanaeth post cyffredinol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth post cyffredinol<sup>4</sup>;
- (4) yr Awdurdod Hedfan Sifil<sup>5</sup>; a
- (5) chorff sy'n dal trwydded o dan Bennod 1 Rhan 1 Deddf Trafnidiaeth 2000 (gwasanaethau rheoli traffig awyr).<sup>6</sup>

18.10 Ac mae'r Ddeddf yn gofyn bod darparwyr gwasanaethau trydan a drwyddedir o dan adran 6 y Ddeddf Trydan 1989 yn cael eu hystyried hefyd yn ymgymerwyr statudol i amrywiol bwrpasau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn dibynnu ar faint y pwerau a roddir iddynt gan eu trwydded.<sup>7</sup>

18.11 At ddibenion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, diffinnir ymgymerydd statudol fel a ganlyn:

- (1) ymgymerydd statudol fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 262(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a
- (2) darparydd gwasanaeth cyffredinol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth post cyffredinol, yr Awdurdod Hedfan Sifil ... Corff Adnoddau Naturiol

---

<sup>1</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 1990, a 262(1),(2). Yr unig faes awyr perthnasol yng Nghymru yw Maes Awyr Caerdydd.

<sup>2</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(3),(4), diwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000, a 76.

<sup>3</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(3),(4), diwygiwyd gan Orchymyn Corff Cyfoeth Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (OS Rhif 755), Atodlen 2.

<sup>4</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(3),(4), diwygiwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Post 2000, Gorchymyn (Diwygiadau Ôl-ddilydol Rhif 1) 2001 (OS Rhif 1149), Atodlen 1. Gwelwch hefyd Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(5)(a),(b),(5B).

<sup>5</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(3),(4), diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, Atodlen 5. Gwelwch hefyd Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(5)(b).

<sup>6</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(3),(4), diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, Atodlen 5. Gwelwch hefyd Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(5)(b),(5A).

<sup>7</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262(6),(7).

Cymru, unrhyw ymgymerydd dŵr, unrhyw glydwr nwy, ac unrhyw ddaliwr trwydded yn ystyr adran 64(1) Deddf Trydan 1989.<sup>8</sup>

- 18.12 Gwerthfawrogi bod hyn yn debyg iawn (ond nid yn union yr un fath) ag effaith gyfun y diffiniadau yn adran 262 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>9</sup> Y gwahaniaethau yw bod darparwyr gwasanaethau rheoli traffig awyr sydd wedi'u trwyddedu o dan y Ddeddf Cludiant 2000 ac ymgymeryddwyr carthffosiaeth yn ymgymeryddwyr statudol i bob pwrpas bron o dan y Ddeddf, ond nid o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir; mae darparwyr gwasanaethau trydanol, a'r gwasanaethau sydd wedi'u rhestru ym **mharagraff 17.9** uchod (heblaw rheolaeth traffig awyr) yn ymgymeryddwyr statudol i bwrpasau'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, ond dim ond i bwrpasau penodol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 18.13 Yn ogystal, mae'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu datblygiad yn awtomatig nid yn unig gan "ymgymerwyr statudol" (fel sydd wedi'i ddiffinio yn y paragraff blaenorol), ond hefyd gan gyrff draenio, ymgymeryddwyr carthffosiaeth a gweithredwyr codau cyfathrebu electronig, yn ogystal â "datblygiad hedfan".<sup>10</sup>

### Safle cyffredinol ymgymeryddwyr statudol mewn cyfraith gynllunio

- 18.14 Mae Adran 55(2)(c) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu nad "datblygiad" yw rhai gweithiau bach gan ymgymeryddwyr statudol - at ddibenion archwilio neu adnewyddu unrhyw garthffosydd, prif bibellau, ceblau pibellau neu offer arall (yn cynnwys torri strydoedd yn agored). Felly nid ydynt yn gofyn caniatâd cynllunio, ac nid ydynt hyd yn oed angen cael eu caniatáu gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.
- 18.15 Yn ail, fel y nodwyd uchod, mae nifer o weithiau eraill gan ymgymeryddwyr statudol - rhai yn weddol fach a rhai sy'n gallu bod yn weddol sylweddol - yn cael eu caniatáu gan amrywiol ddsbarthiadau yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.<sup>11</sup> Mae hyn yn berthnasol fel arfer dim ond mewn perthynas â thir gweithredol yr ymgymeryddwr perthnasol (gwelwch isod). Gallent fod yn bwnc cyfarwyddiadau erthygl 4<sup>12</sup> mewn achosion penodol, i sicrhau nad ydynt ond yn cael eu caniatáu (os o gwbl) mewn ymateb i gais cynllunio penodol, ond lle gwneir cyfarwyddyd o'r fath, efallai y bydd iawndal yn daladwy gan yr awdurdod cynllunio.<sup>13</sup>

---

<sup>8</sup> Gorchymyn (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) Cynllunio Gwlad a Thref, erth 1(2), diwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000, a 76, Deddf Gwasanaethau Post 2011, Gorchymyn (Diwygiadau ac Addasiadau Ôl-ddilydol) 2011 (SO 2085), Atodlen 1, a Gorchymyn Corff Cyfoeth Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (OS Rhif 755), Atodlen 4.

<sup>9</sup> Gwelwch **baragraffau 18.9 i 18.11** uchod. Mae adran 64 Deddf 1989 yn diffinio trwydded fel trwydded o dan a 6 y Ddeddf honno; felly mae daliwr trwydded at ddibenion Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yr un fath â daliwr trwydded at ddibenion a 262 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

<sup>10</sup> Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir), Atodlen 2, Rhannau 14 i 18, 24, diwygiwyd gan OS 1996 rhif 252, 1996 rhi 528, 2001 rhif 1149, 2003 rhif 2155, a 2013 Rhif 755.

<sup>11</sup> Gwelwch **baragraff 18.13**.

<sup>12</sup> Gwelwch **baragraff 7.59**.

<sup>13</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 279(1)(a). Mae iawndal yn daladwy hefyd os bydd caniatâd yn cael ei ddiddymu neu ei addasu ar gyfer datblygiad sydd wedi ei ganiatáu mewn ymateb i gais cynllunio (a

- 18.16 Heblaw ei fod yn un o amodau'r caniatâd yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir y dylai'r ymgymerydd statudol hysbysu'r awdurdod cynllunio, nid oes raid iddo roi unrhyw rybudd cyn gwneud gwaith. Ond, os yw datblygiad yn debygol o gael effaith leol sylweddol yna, i ddarparu hysbysiad teg i bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio (yn cynnwys ymgymerydd statudol eraill), dylid trafod y rhain gyda'r awdurdod.<sup>14</sup>
- 18.17 Yn drydydd, mae ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad gan ymgymerydd statudol yn cael eu trin yn gyffredinol gan awdurdodau cynllunio yn y ffordd arferol. Ond, yn rhinwedd adran 266, gall Gweinidogion Cymru a'r "gweinidog priodol" gyhoeddi cyfarwydddeb yn nodi bod yn rhaid i faterion penodol gael eu trin ar y cyd gan Weinidogion Cymru a'r "gweinidog priodol".<sup>15</sup>Gall hyn fod yn berthnasol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol, cyn belled â'u bod yn berthnasol i ddatblygiad ar dir gweithredol (neu ar dir y bwriedir iddo ddod yn dir gweithredol);
- (3) ceisiadau y mae Gweinidogion Cymru'n eu galw i mewn ar gyfer eu penderfyniad eu hunain;
  - (4) apeliadau;
  - (5) ceisiadau sy'n gysylltiedig ag apeliadau gorfodi;
  - (6) gorchmynion addasu a diddymu; a
  - (7) gorchmyniom dirwyn i ben.<sup>16</sup>
- 18.18 Mae'r term "gweinidog priodol" yn cyfeirio at y gweinidog sy'n gyfrifol am y maes o weithgaredd y mae'r ymgymerydd yn digwydd ynddo - er enghraifft, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth mewn perthynas â chwmni rheilffordd.<sup>17</sup>
- 18.19 Mae ceisiadau o'r math yma ac ati yn brin, mae'n debyg oherwydd yr hawliau datblygu eang a ganiateir sydd gan ymgymerydd statudol.
- 18.20 Nid yw ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol (DNS), neu geisiadau eraill am ganiatâd cyllunio a wneir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru<sup>18</sup>, yn ymgysylltu ag adran 266, am fod adran 266 yn berthnasol dim ond mewn perthynas â cheisiadau sy'n cael eu galw i mewn ac apeliadau cynllunio ar ôl iddynt gael eu gwrthod gan awdurdod cynllunio. Mae hyn yn golygu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan ymgymerydd statudol a wneir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru'n cael eu penderfynu ganddyn nhw eu hunain, heb unrhyw ymgyfraniad gan weinidogion eraill; mae'r gweinidog priodol ond yn cyfranogi

---

279(1)(b)). Gwelwch hefyd a 279(5)-(7) ynghylch yr hawl i iawndal; ac adrannau 280-282 am asesu'r iawndal sy'n daladwy.

<sup>14</sup> Gwelwch er enghraifft ganllawiau a gyflwynir gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr, yn y Canllawiau Arferion Cynllunio, paragraff 13-068-20140306.

<sup>15</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 266.

<sup>16</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 266, 269, 270. Gwelwch hefyd a 291.

<sup>17</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 265.

<sup>18</sup> Gwelwch **Bennod 11**.

Ile gwneir y cais i ddechrau i'r awdurdod cynllunio - a fydd, trwy ddiffiniad yn achos llai arwyddocaol fel arfer.

- 18.21 Yn bedwerydd, lle mae caniatâd cynllunio'n cael ei weithredu ar gyfer datblygiad gan ymgwymerwr statudol ar ei dir gweithredol, mae angen caniatâd cyn y bo modd gosod amodau sy'n gofyn am dynnu adeiladau a ganiateir, neu am roi stop ar y defnydd a ganiateir.<sup>19</sup> Mae hyn yn golygu na ellir rhoi caniatâd dros dro heb ganiatâd yr ymgymerydd.

### Tir gweithredol

- 18.22 Mae nifer o'r darpariaethau uchod yn berthnasol dim ond mewn cysylltiad â datblygiad gan ymgwymerwr statudol ar dir gweithredol. Mae Adran 263 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn diffinio "tir gweithredol" fel tir sy'n cael ei ddefnyddio gan yr ymgymerydd at ddibenion gwneud ei ymgymeriad, ac y cedwir diddordeb ynddo i'r diben hwnnw.<sup>20</sup> Ond mae'n eithrio tir sy'n "gymaradwy gyda thir yn gyffredinol" yn hytrach na gyda thir a ddefnyddir ar gyfer ymgymeriadau statudol.<sup>21</sup> Mae'r eithriad yn cyfeirio at safleoedd megis ystafelloedd arddangos, swyddfeydd ac anheddau cyflogeion, hyd yn oed os cânt eu defnyddio mewn rhyw ffordd ar gyfer yr ymgymeriad. Felly mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio gwahaniaethu rhwng tir a ddelir gan ymgymeriad i bwrpasau cyffredinol neu ar gyfer buddsoddiad, a thir a ddefnyddir go iawn i wneud gweithgareddau craidd yr ymgymerydd statudol.

- 18.23 Ymhellach, mae adran 264(3)-(6) yn darparu na fydd tir ond yn weithredol os yw un neu fwy o'r canlynol yn gymwys:

- (1) Roedd wedi'i ddal gan yr ymgymerydd cyn 6 Rhagfyr 1968, a'i ddefnyddio bryd hynny fel tir gweithredol;
- (2) y cafodd ei drosglwyddo i'r ymgymerydd gan ymgymerydd arall o dan unrhyw ran o'r ddeddfwriaeth ad-drefnu / preifateiddio a nodir yn adran 264(4), a chafodd ei ddal fel tir gweithredol yn syth cyn y trosglwyddiad hwnnw;
- (3) yw wedi bod yn bwnc caniatâd cynllunio mewn ymateb i gais ar gyfer datblygiad ar ddibenion yr ymgymerydd.
- (4) yw'n bwnc gorchymyn datblygiad arbennig neu orchymyn datblygiad lleol sy'n rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad o'r fath;
- (5) yw'n destun Deddf preifat neu leol sy'n awdurdodi datblygiad o'r fath; neu
- (6) os cafodd datblygiad datblygiad o'r fath ei awdurdodi gan adran y Llywodraeth o dan adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- 18.24 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau arbennig am "dir gweithredol" mewn perthynas â:

---

<sup>19</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 267.

<sup>20</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 263(1).

<sup>21</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 263(2).

- (1) darparwyr gwasanaeth post cyffredinol<sup>22</sup>;
- (2) yr Awdurdod Hedfan Sifil<sup>23</sup>; a
- (3) chyrrff sy'n dal trwyddedau i ddarparu gwasanaethau rheoli traffig awyr.<sup>24</sup>

### Ymatebion i'r Papur Cwmpasu

18.25 Yn ein papur cwmpasu, roeddem yn awgrymu y dylai cam cyntaf y prosiect ymdrin â gweithrediad Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gydag ymgwymerwyr statudol. Roedd RWE Generation, Innogy Renewables a Persimmon Homes West Wales yn cytuno.

18.26 Roeddem yn awgrymu y dylid egluro eithrio mewn perthynas â thir gweithredol sydd wedi'i gynnwys yn adran 262 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>25</sup> Roedd Persimmon Homes West Wales yn credu y dylem egluro'r eithriad. O ran Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA), doedd hithau 'ddim mor argyhoeddedig' bod angen mwy o eglurhad deddfwriaethol mewn perthynas â thir gweithredol. Rhoddodd y Grid Cenedlaethol sylw am yr eglurhad o'r eithriad yn y termau a ganlyn:

Dylai ymgwymerwyr statudol, yn cynnwys y Grid Cenedlaethol, gymryd rhan yn yr adolygiad yma i sicrhau bod y canlyniadau'n galluogi iddynt gwrdd â'u dyletswyddau statudol ac nad ydynt yn tansailio datblygiad, gweithrediad a chynhaliath seilwaith hanfodol.

18.27 Dywedodd Dŵr Cymru wrthym y dylid addasu'r diffiniad o ymgwymerwyr statudol a awgrymwyd gennym yn ein papur cwmpasu i gynnwys ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth fel y cyfeirir atynt yn adran 262(3) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

### Symleiddio

18.28 Dim ond cyfyngedig yw perthnasedd gweithredu'r gyfraith gynllunio i'r mwyafrif o ddefnyddwyr y system gynllunio; ond i'r gwneuthurwyr eu hunain, ac i eraill sy'n rhyngweithio gyda nhw (er ei fod yn weddol brin yn y mwyafrif o achosion) mae o arwyddocâd sylweddol. Mae'n ymddangos hefyd bod tuedd barhaol i lywodraethau, o bob argyhoeddiad, addasu'r trefniadau gweinyddol sy'n ymwneud â rhedeg gwasanaethau cyhoeddus, gydag amrywiol sectorau'n cael eu dwyn i mewn neu'n cael eu tynnu allan o reolaeth gyhoeddus, neu eu had-drefnu, o bryd i'w gilydd. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y nifer o ddiwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth sylfaenol

<sup>22</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 263(2D),(2E),(3), diwygiwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Post 2000, Gorchymyn (Diwygiadau Ôl-ddilydol Rhif 1) 2001 (OS Rhif 1149), Atodlen 1. A gwelwch Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 264(7).

<sup>23</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 263(3),(4). A gwelwch Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 264(8).

<sup>24</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 263(2A)-(2C), rhoddwyd i mewn gan Ddeddf Trafndiaeth 2000, a 37. A gwelwch Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 264(8), diwygiwyd gan OS 2001 Rhif 4050, Atodlen 1.

<sup>25</sup> Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu (2015), Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 228, paragraffau 5.20 i 5.22.



ac eilaidd sydd wedi'i hamlinellu hyd yn hyn - nad ydynt oll yn hawdd eu canfod o weithiau cyfeirio safonol.

- 18.29 Mae'n amlwg hefyd bod darpariaethau'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 sy'n delio gydag ymgwymerwyr statudol<sup>26</sup> yn cymryd cyfran sylweddol o'i hyd, ond dydy'r mwyafrif o ddefnyddwyr y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ddim yn dod ar draws y rheiny'n aml iawn.
- 18.30 Ar y llaw arall, mae'r darpariaethau statudol dan sylw'n cynrychioli addasiad i ofynion cynllunio arferol sy'n berthnasol dim ond i sefydliadau sydd wedi eu pennu gan Senedd y DU, drwy Brydain gyfan yn gyffredinol. Rydym yn cydnabod, felly, bod unrhyw ddiwygiadau yn y maes yma'n gallu bod yn broblematig oherwydd gallent effeithio ar feysydd sydd y tu allan i allu deddfwriaethol y Cynulliad.
- 18.31 Yn amodol ar y pwynt yma, rydym yn ystyried dros dro y byddai'n symleiddio'r Cod yn sylweddol os byddai'r Bil yn:
- (1) rhesymoli cyn belled ag y bo'n bosibl cyrff neu gategoriâu cyrff sydd i gael eu trin fel ymgwymerwyr statudol i bwrpas rhywfaint o'r Cod, neu'r Cod i gyd (ac i ba ddarpariaethau); a
- (2) darparu mewn perthynas â phob ymgymerydd neu gategori o ymgymerydd beth sydd i gael ei ystyried yn "dir gweithredol"<sup>27</sup> a phwy yw'r "Gweinidog priodol".<sup>28</sup>
- 18.32 Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd, pan fo'r GPO yn cael ei ddiweddarau nesaf, os byddai'r darpariaethau sy'n ymwneud â datblygiad gan wneuthurwyr statudol, y Goron, gweithredwyr mwynau a chyrrff tebyg eraill<sup>29</sup>, mewn gorchymyn ar wahân i'r rheiny sy'n ymwneud â datblygiad yn gyffredinol.
- 18.33 Mae adran 283 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu nad yw adrannau 266 i 270 a 279(1), (5) a (6) - sydd oll yn berthnasol i roi caniatâd cynllunio - yn berthnasol i arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgwymerwyr statudol. Ond mae arddangosiadau o'r fath yn galw am ganiatâd (tybiedig neu ddatganedig) o dan y Rheoliadau Hysbysebion, ac yna tybir eu bod wedi cael caniatâd cynllunio'n awtomatig (yn ôl adran 222). Felly rydym yn ystyried dros dro bod adran 283 yn ddiangen, ac nad oes angen ei ailddatgan yn y Cod.

---

<sup>26</sup> Gweler **para 18.13 a 18.15**.

<sup>27</sup> DCGTh 1990, a 263(1) a (2), ac adrannau 264(1) i (4), (5) a (6); gweler **para 18.22 i 18.24**.

<sup>28</sup> DCGTh 1990, a 265(4); gweler **para 18.17 i 18.19**.

<sup>29</sup> Yn bresennol yn TCP(GPDO) 1995, amserlen 2, rhannau 12, 13 (awdurdodau lleol ac awdurdodau priffyrdd); rhannau 14 i 18 (ymgymerwyr statudol); rhan 20 (awdurdod glo); rhan 24 (gweithredwyr cod cyfathrebiadau electronig) a rhannau 34 i 38 (y goron).

### **Cwestiwn ymgynghori 18 -1.**

**Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil:**

**(1) resymoli cyn belled a phosib, cyrff neu categorïau o gyrff sydd i gael eu trin fel ymgymerwyr statudol at ddibenion rhywfaint o'r Côd neu'r Côd cyfan (ac i ba ddarpariaethau); ac**

**(2) esbonio i bob ymgymerydd neu categori o ymgymerwyr beth sydd i gael ei ystyried yn "dir gweithredol" a phwy yw'r "Gweinidog priodol".**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Cwestiwn ymgynghori 18-2.**

**Cynigiwn dros dro, pan fo'r GDCG (GPDO) yn cael ei ddiweddarau nesaf, y dylid rhoi ystyriaeth i wahanu'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â datblygiad gan ymgymerwyr statudol, y Goron, gweithredwyr mwynau a chyrrff tebyg eraill, oddi wrth y rheiny sy'n ymwneud â datblygiad yn gyffredinol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Cwestiwn ymgynghori 18-3.**

**Cynigiwn dros dro nad yw adrannau 283 a 316A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (yn ymwneud ag arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymerwyr statudol ac awdurdodau lleol sy'n ymgymerwyr statudol) yn cael eu hailddatgan yn y Bil.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## **Ymgymerwyr statudol sydd yn awdurdodau lleol**

18.34 Mae Adran 316A yn berthnasol i ymgymerwyr statudol sydd yn awdurdodau cynllunio, Gall fod yn berthnasol yn achos, er enghraifft, rheilffordd ysgfan neu dramffordd a redir gan awdurdod lleol.<sup>30</sup> Mae'r adran yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu ambell ddarpariaeth yn DCGTH 1991 parthed gweithredoedd y fath ymgymerwyr:

---

<sup>30</sup> Rhedir Tramffordd y Gogarth, er enghraifft, gan GBS Conwy, dan rymoedd Deddf Tramffyrdd y Gogarth 1898.

- (1) adrannau 266 i 270 a 279 (1), (5) a (6) (caniatâd cynllunio);<sup>31</sup> ac
- (2) adran 283 (hysbysebu),<sup>32</sup>

yn amodol ar addasiadau a allai gael eu rhagnodi.

- 18.35 Mewnosodwyd adran 316 A gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, ac mae'n ymddangos na grewyd unrhyw rheoliad fyth odano. Ystyriwn dros dro, felly, ei bod yn ddiangen, ac nad oes angen ei hailddatgan yn y Bil.

#### **Cwestiwn ymgynghori 18-4.**

**Cynigiwn dros dro nad yw adran 316A DCGTh 1990 (sy'n galluogi cread rheoliadau sydd yn berthnasol i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu gan awdurdodau lleol sydd yn ymgwymerwyr statudol ac arddangosiad hysbysebion ar eu tir gweithredol) yn cael ei hailddatgan yn y Bil.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Darpariaethau eraill yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud ag ymgwymerwyr statudol**

- 18.36 Er mwyn bod yn gyflawn dylid nodi bod adrannau 271 i 274 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud â hawliau ymgwymerwyr statudol mewn perthynas â thir a brynwyd yn orfodol naill ai o dan Rhan 9 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mae adrannau 275 i 278 yn ymwneud yn bennaf gydag estyniad swyddogaethau ymgwymerwyr statudol mewn perthynas â thir o'r fath.
- 18.37 Mae adrannau 279(2) a (3) yn rhoi'r hawl i ddigollediad lle cymerir camau gweithredu o dan adrannau 271 a 272. Mae adrannau 280 i 282 yn darparu ar gyfer mesuriad digollediad o'r fath.<sup>33</sup>
- 18.38 O ystyried na fydd y Bil Cynllunio'n cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â chaffael tir, mae'n ymddangos yn briodol na ddylai llawer o adrannau 271 i 281 gael eu cynnwys yn y Côt Cynllunio, ac y dylent aros yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.<sup>34</sup>

<sup>31</sup> Gweler **para 18.17 i 18.21** uchod.

<sup>32</sup> Gweler **para 18.33** uchod.

<sup>33</sup> Mae adrannau 280 - 282 hefyd yn gymwys i iawndal am ddiddymiad caniatâd cynllunio sydd wedi ei roi i ymgwymerwr cynnal (gweler **tn 13** uchod)

<sup>34</sup> Gweler **para 3.114 i 3.118**.

## GWEITHREDU'R COD MEWN SEFYLLFAOEDD ARBENNIG ERAILL

### Awdurdodau lleol

- 18.39 Mewn egwyddor, mae rheolaeth gynllunio'n berthnasol i ddatblygiad a wneir gan awdurdodau lleol, ac i ddatblygiad a wneir gan bobl eraill ar dir sy'n eiddo i awdurdodau lleol, fel y mae i unrhyw ddatblygiad arall. Mae hyn yn arwain at botensial amlwg am wrthdaro buddiannau lle mae gan awdurdod (neu ystyrir bod gan awdurdod) gyfran ariannol yng nghanlyniad cais cynllunio sy'n effeithio ar ei dir ond ymdrinnir â hynny i raddau helaeth gan y llysoedd bob yn achos unigol.
- 18.40 I gydnabod pryderon o'r fath, mae'r gweithdrefnau arferol ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio wedi eu haddasu ychydig lle mae naill ai'r darparwr neu berchennog y tir yn awdurdod cynllunio. Cyflawnir hyn i raddau helaeth gan reoliadau a wnaed o dan bwerau yn adran 316 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y cafodd y fersiwn gyfredol ohoni ei disodli gan adran 20 Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 ac yn fwy diweddar ei haddasu gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015; y rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.<sup>35</sup>
- 18.41 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau heb eu hateb gyda gweithrediad adran 316, er y byddai'n ddefnyddiol amnewid Rheoliadau 1992 gyda chyfres newydd o Reoliadau sy'n cynnwys yr holl ddiwygiadau a wnaed iddyn nhw ac sy'n ymwneud yn benodol ag arferion a gweithdrefnau yng Nghymru.
- 18.42 Rydym eisoes wedi ystyried safle'r awdurdodau lleoll sydd yn ymgymrwyr statudol.<sup>36</sup>

### Y Goron

- 18.43 Hyd 7 Mehefin 2006, roedd tir y Goron - hynny yw, yn fyr, tir sy'n eiddo i Ei Mawrhydi neu i adran o'r Llywodraeth - yn esempt rhag rheoliadau cynllunio. Daethpwyd â hyn i ben gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a gyflwynodd adran 292A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n nodi'n syml bod "y Ddeddf hon yn clymu'r Goron". Bydd angen i'r adran honno, ynghyd ag adran 293 (sy'n diffinio'n fwy manwl beth a olygir gan "tir y Goron"), gael ei chynnwys yn y Bil Cynllunio.
- 18.44 Yn ogystal mae nifer o ddarpariaethau eraill yn Rhan 13 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref sy'n dal i fod mewn grym, gan weithredu (gydag addasiadau) y darpariaethau statudol sy'n delio gyda phynciau penodol i dir y Goron a datblygiad gan y Goron.
- 18.45 Er enghraifft, mae adran 298A, a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn delio gyda cheisiadau am dystysgrifau o ddatblygiad cyfreithlon (CLOPUDs a CLEUDS<sup>37</sup>) a cheisiadau am ganiatâd cynllunio, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r gweithdrefnau arferol mewn perthynas â cheisiadau o'r fath cyn belled â'u bod yn berthnasol i dir y Goron. Bydd angen i ddarpariaeth

---

<sup>35</sup> 1992 OS diwygiwyd yn OSau 1992 Rhif 1982, 1996 Rhif 525, 1998 Rhif 2800, 1999 Rhif 1810, 1999 Rhif 1892, 2001 Rhif 1589, 2013 Rhif 2145, 2015 Rhif 807.

<sup>36</sup> Gweler **paragraffau 18.34, 18.35**.

<sup>37</sup> Gweler **paragraffau 7.83 - 7.97**.

gyfatebol gael ei chynnwys yn y Côt - o bosib yn Rhan ohono sy'n delio gyda cheisiadau o'r fath.<sup>38</sup>

- 18.46 Mae adran 293A yn ymwneud â datblygiad brys y Goron, a bydd cynnwys hwn hefyd - o bosib yn y Rhan o'r Côt sy'n delio gyda cheisiadau cynllunio yn gyffredinol.<sup>39</sup>A bydd angen cynnwys adran 296A, sy'n delio gyda gorfodi mewn perthynas â'r Goron - ynghyd â darpariaethau eraill sy'n ymdrin â datblygiad heb ei awdurdodi.<sup>40</sup>
- 18.47 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol i'r ychydig ddarpariaethau hynny sy'n weddill gael eu cynnwys yn y Côt ynghyd â'r darpariaethau statudol y maent yn berthnasol iddynt, yn hytrach nag yn Rhan ar wahân.

### Eiddo Eglwys Loegr

- 18.48 Mae Adran 318 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi defnyddio'r Ddeddf ar gyfer "eiddo eglwysig" - hynny yw, eiddo y mae swyddogion plwyfi Eglwys Loegr yn berchen arnynt - ac mae'n gofyn bod bwrdd cyllid yr esgobaeth berthnasol yn cymryd rhan.
- 18.49 Adeg datgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru, roedd pob plwyf oedd yn gyfan gwbl yn Lloegr neu'n gyfan gwbl yng Nghymru wedi'u dyrannu i'r eglwys genedlaethol briodol. Cafodd y plwyfi eraill sy'n ymestyn dros y ffin eu dyrannu i un neu'r llall, a chael eu trin yn ôl trefn yr eglwys berthnasol.<sup>41</sup> O ganlyniad, mae nifer fechan o blwyfi Eglwys Loegr yn sefyll yn rhannol yng Nghymru.<sup>42</sup> Felly, mae Adran 318 yn dal i fod yn berthnasol iddynt, a bydd angen iddynt gael eu hailddatgan yn y Bil newydd (heblaw am adran 318(2), sy'n berthnasol i gaffael eiddo o dan Rhan 9.

## MWYNAU

### Diffiniadau perthnasol

- 18.50 Ar y dechrau, rydym yn nodi bod nifer o ddiffiniadau sy'n cyd-gloi yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sy'n ymwneud â chloddio am fwynau a gweithgareddau cysylltiedig; ac rydym wedi ystyried a allent gael eu rhesymoli'n ddefnyddiol.
- 18.51 Y man cychwyn yw adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n diffinio "mwynau" i gynnwys yr holl sylweddau o fath sy'n cael ei weithio fel arfer i gael ei dynnu gan waith tanddaearol neu ar yr wyneb, heblaw nad ydyw'n cynnwys mawn a dorrwyd i bwrpasau eraill heblaw gwerthiant. Mae hefyd yn diffinio "gwaddod gwaith mwynau" fel "unrhyw waddod o ddeunydd sy'n weddill ar ôl i fwynau gael eu tynnu

---

<sup>38</sup> Gweler **Penodau 7 ac 8.**

<sup>39</sup> Gweler **Pennod 8.**

<sup>40</sup> Gweler **Pennod 12.**

<sup>41</sup> Deddf Eglwys Cymru 1914, a 9.

<sup>42</sup> O fewn Esgobaethau Caer, Caerlwythgoed a Henffordd.

o'r tir neu fel arall yn deillio o'r gwaith o wneud gweithrediadau i sicrhau a gweithio gyda mwynau o fewn, ar neu o dan y tir

- 18.52 O ran gweithgareddau sy'n ymwneud â mwynau, y term a ddefnyddir amlaf yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yw "sicrhau a gweithio gyda mwynau".<sup>43</sup>Nid yw adran 336 yn darparu diffiniad unigryw o hyn, ond mae'n nodi ei fod yn cynnwys "echdynnu mwynau o waddod gweithio mwynau."
- 18.53 Nid yw'r term "gweithrediadau mwyngloddio" yn cael ei ddefnyddio'n aml yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>44</sup> Nid yw'r term yma wedi'i ddiffinio'n unigryw yn y Ddeddf; ond mae adran 55(4) yn datgan ei fod yn cynnwys:
- (1) tynnu deunyddiau o unrhyw fath o waddod gweithio mwynau, neu waddod o ludw tanwydd wedi'i falu'n llwch neu ludw ffwrnais neu glincer arall, neu o waddod o haearn, dur neu slag metalaidd; a
  - (2) echdynnu mwynau o arglawdd rheilffordd segur.<sup>45</sup>
- 18.54 Yn y Papur Cwmpasu, rydym yn nodi bod "gweithredoedd cloddio" wedi eu diffinio yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir - fel "sicrhau a gweithio mwynau o fewn, ar neu o dan y tir, p'un a ydyw hynny drwy weithio ar yr wyneb neu'n danddaearol".<sup>46</sup>Yn rhinwedd y diffiniad o "sicrhau a gweithio mwynau" yn y Ddeddf, mae'r diffiniad yma yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sydd hefyd yn cynnwys yr amrywiol weithredoedd y cyfeirir atynt yn adran 55.
- 18.55 O ystyried y gorgyffwrdd sylweddol rhwng y ddau derm "gweithrediadau mwyngloddio" a "sicrhau a gweithio mwynau", rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fwy priodol i'r Bil gael ei ddrafftio'n gyffredinol drwy gyfeirio at un. Byddai'r term blaenorol yn ymddangos yn fwy priodol, am mai hwn sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf cyffredin mewn iaith pob dydd ac hefyd dyma'r term sydd wedi cael ei ddefnyddio yn y diffiniad o "ddatblygiad" erioed yn adran 55 Yna gellid defnyddio'r term "gweithrediadau mwyngloddio" hefyd yn y Bil newydd lle bynnag mae'r term "sicrhau a gweithio mwynau" yn digwydd yn narpariaeth gyfatebol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac ni fyddai angen yr olaf yn y Ddeddf heblaw o bosib yn y diffiniad cyffredinol o weithrediadau mwyngloddio.
- 18.56 Gellid cynnwys un diffiniad o "gweithrediadau mwyngloddio" yn y Bil, efallai ar ddechrau'r darpariaethau arbennig sy'n ymwneud â mwynau, i gynnwys sicrhau a gweithio gyda mwynau o fewn, ar neu o dan y tir, p'un a ydyw hynny drwy waith ar yr wyneb neu dan y ddaear, ac hefyd yr amrywiol weithrediadau a enwir yn adran 55(4).

---

<sup>43</sup> DCGTH 1990, au 72(5), 91(4) At.5 (amodau); a 97(5),(6) 116(1) (addasiad neu ddiddymiad caniatadau); au 102(8), 111(2), 189(1) At.9 (terfyn); a315 (darpariaethau cyffredinol); a 336 (diffiniadau). Hefyd a 58A (caniatâd mewn egwyddor) ac At 1 (materion sirol) (y ddau yn Lloegr yn unig).

<sup>44</sup> Fe'i defnyddir yn a 55(4) (diffiniad o ddatblygiad), a116 (iawndal), ac At. 9 (gwahardd ailgychwyn gweithio mwynau).

<sup>45</sup> DCGTH 1990, a 55(4). Diffinir "Mwynau" yn drylwyr yn DCGTH 1990, a 336.

<sup>46</sup> DCGTH (GDCG) 1995, erth 1(2).

Byddai'r diffiniad hwnnw'n cario'n awtomatig ar draws y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, heb unrhyw newid yn y gyfraith hawliau.

- 18.57 Yn olaf, mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer bodolaeth "awdurdod cynllunio mwynau", sef y cyngor sir yn Lloegr (lle mae un i'w gael). Ond yng Nghymru, gyda'i system unedol o lywodraeth leol, yr awdurdod cynllunio fydd hwn yn syml iawn (hynny yw, yr awdurdod lleol neu, mewn parc cenedlaethol, yr awdurdod parc cenedlaethol).<sup>47</sup>

#### **Cwestiwn ymgynghori 18-5.**

**Ystyriwn dros dro dylid y Bil newydd ddefnyddio'r term "gweithrediadau mwyngloddio" yn gyffredinol yn lle'r term "sicrhau a gweithio mwynau", wedi ei ddiffinio er mwyn cynnwys:**

- (1) sicrhau a gweithio mwynau o fewn, ar neu o dan y tir, nai llai trwy waith ar yr wyneb neu o dan y ddaear;**
- (2) tynnu deunydd o unrhyw ddisgrifiad oddi wrth:**
  - gwaddod sy'n gweithio mwynau;**
  - gwaddod o ludw tanwydd a falwyd yn llwch neu ludw arall neu glincer o ffwrnais; neu**
  - gwaddod o haearn, dur neu slag metalaidd; ac**
- (3) echdyniad mwynau o arglawdd rheilffordd segur.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Rheolaeth gynllunio dros weithrediadau cloddio**

18.58 Cydnabuwyd ers talwm bod gweithio gyda mwynau'n wahanol i unrhyw fath arall o ddatblygiad mewn nifer o ffyrdd:

- (1) dim ond lle ceir hyd i fwynau y gellir gwneud gwaith echdynnu;
- (2) mae'n ddefnydd dros dro o'r tir, er y gallai ddigwydd dros gyfnod hir iawn o amser;
- (3) gallai safle cymeradwy orwedd yn segur am flynyddoedd lawer;

<sup>47</sup> Mae'n nodedig bod y diffiniad o "awdurdod cynllunio mwynau" yn Atod 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn cyfeirio'n syml at "awdurdod cynllunio" mewn perthynas â'r Alban. Gweler hefyd **para 5.152, Cwestiwn ymgynghori 5 - 13** uchod.

- (4) tra bo'r gwaith mwynau'n digwydd, gall fod yn hynod fewnwithiol ac yn niweidiol i'r amgylchedd;
- (5) unwaith mae wedi dod i ben, gall gwaith tipio gwastraff ddigwydd, sy'n gallu bod hyd yn oed yn fwy heriol i'r amgylchedd;
- (6) yn y pen draw bydd angen adfer y tir, ar draul y cwmni mwynau;
- (7) yna mae'n rhaid canfod ffordd fuddiol o'i ddefnyddio.

- 18.59 Mewn egwyddor, mae cyfraith gynllunio yn gymwys i weithrediadau cloddio fel y mae i ffurfiau eraill o ddatblygu. Fodd bynnag, cydnabuwyd erioed bod angen addasiadau er mwyn delio gydag agweddau problematig gweithrediadau cloddio a nodwyd uchod, yn benodol bodolaeth gweithrediadau a ganiatwyd ddegawadu yn ôl.
- 18.60 Gwnaeth adroddiad Pwyllgor Stevens ar *Reoli Cynllunio dros Weithio Mwynau* nifer o argymhellion, a gafodd eu trosi'n Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1981 a'u cynnwys mewn deddfwriaeth gynllunio prif ffrwd pan gafodd ei atgyfnerthu yn 1990. Yna cafodd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei haddasu gan Atodlen 1 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991<sup>48</sup>; ac roedd Atodlen 2 i'r Ddeddf honno'n cyflwyno gweithdrefn newydd oedd yn caniatáu i ganiatadau mwynau a roddwyd yn y cyfnod o 1943 hyd 1948 gael eu hadolygu.
- 18.61 Yna cyflwynodd Deddf Amgylchedd 1995 system yn gofyn am adolygu ar sail unwaith yn unig yr holl ganiatadau mwynau a roddwyd rhwng Gorffennaf 1948 a 22 Chwefror 1982, ac adolygiad parhaus o'r holl ganiatadau mwynau pryd bynnag y cawsent eu rhoi.

### Hen ganiatadau mwynau

- 18.62 Mae'r drefn a gyflwynwyd gan Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 sy'n gofyn bod caniatadau ar gyfer datblygiad mwynau a roddwyd gan orchmynon datblygu interim yn cael eu rhoi o 22 Gorffennaf 1943 hyd 30 Mehefin 1948 yn dod yn ddi-rym heblaw eu bod wedi eu cofrestru erbyn 25 Mawrth 1992. Yn dilyn cofrestriad o'r fath, byddai'n rhaid iddynt fod yn atebol i orfodi amodau newydd gan yr awdurodd cynllunio, yn unol â safonau amgylcheddol modern ynghylch gweithrediad y safle a'i adferiad dilynol ac ôl-ofal, os oeddent yn mynd i barhau i fod yn effeithiol.
- 18.63 Mae'r amser ar gyfer cofrestru caniatadau o dan y cynllun, a gorfodi amodau newydd, wedi pasio ers meitin.
- 18.64 O dan y cynllun a weithredwyd gan Atodlen 13 i Ddeddf Amgylchedd 1995, roedd y caniatadau a roddwyd rhwng 1 Gorffennaf 1948 a 22 Chwefror 1982<sup>49</sup> i gael eu hadolygu a'u diweddarau. Roedd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio baratoi rhestr ebryn 31 Ionawr 1996 o'r holl safleoedd mwynau gweithredol lle'r oedd caniatâd wedi cael ei roi rhwng 1 Gorffennaf 1948 a 31 Mawrth 1969. Erbyn 3 Hydref 1998, roedd yn

<sup>48</sup> Gweler DCGTH 1990 au 72(5), 91(4), 97, 100, 102(8). 105, 107, 116, 117, 189(1) ac Atod 1.

<sup>49</sup> Deddf yr Amgylchedd 1995, Atod 13. 22 Chwefror 1982 oedd prif ddyddiad cychwyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1981.



rhaid i'r awdurdod baratoi rhestr o'r holl safleoedd lle'r oedd caniatâd wedi'i roi rhwng 1 Ebrill 1969 a 22 Chwefror 1982. Ymhob achos, roedd yn rhaid cyflwyno cais am gymeradwyo amodau newydd erbyn y dyddiad a nodwyd yn y rhestr mewn perthynas â'r safle perthnasol.

- 18.65 Yma hefyd, mae'r amser ar gyfer gwneud ceisiadau i'r awdurdod cynllunio ar gyfer adolygiad cyntaf hen ganiatadau wedi pasio ers talwm, heblaw efallai mewn perthynas â safleoedd segur. Gellir nodi, fodd bynnag, na ellir adfywio caniatâd ar gyfer defnyddio safle segur heblaw ei fod wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau, ac nid yw unrhyw iawndal yn daladwy am orfodi unrhyw amodau diwygiedig neu amodau newydd mewn achos o'r fath.
- 18.66 Mae Atodlen 2 i Ddeddf 1991 ac Atodlen 13 i Ddeddf 1995 wedi cyflwyno gofynion yn ymwneud â llunio cofrestrau, i'w cyflawni erbyn dyddiadau sydd yn awr yn y gorffennol pell. Ond bydd y cofrestrau hynny, a gafodd eu paratoi dro yn ôl, yn parhau i fod yn berthnasol hyd y gellir ei ragweld. Erbyn hyn, mae'r safleoedd gweithredol hynny oedd wedi eu cynnwys yn y gofrestr yn atebol i ofyniad am adolygiad cyfnodol, o dan Atodlen 14 i Ddeddf 1995 (gwelwch isod); a gallai safleoedd segur, o leiaf mewn egwyddor, gael eu hadfywio rywbryd yn y dyfodol.
- 18.67 Rydym felly'n ystyried dros dro na ddylai'r darpariaethau yn y ddwy Atodlen honno gael eu hailddatgan yn y Côt Cynllunio newydd, ond dylent gael eu diweddarau, yn syml iawn, drwy wneud diwygiadau ôl-ddilynol priodol i gyfeirio at y Côt.

#### **Cwestiwn ymgynghori 18-6.**

**Ystyriwn dros dro nad oes pwrpas defnyddiol mwyach i Atodlen 2 Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 (caniatadau mwynau a roddwyd cyn 1 Gorffennaf 1948) ac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (rhoddwyd caniatadau mwynau o 1 Gorffennaf 1948 hyd 22 Chwefror 1982), ac nid oes angen eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **Adolygiad sy'n parhau o ganiatadau mwynau**

- 18.68 Cyflwynwyd system newydd gan Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn gofyn am adolygiad parhaus y caniatadau mwynau, i sicrhau bod yr amodau sy'n gysylltiedig â nhw'n parhau i gael eu diweddarau, yn unol â'r safonau amgylcheddol presennol. Mae'r adolygiad hwnnw'n digwydd bob 15 mlynedd yng Nghymru.
- 18.69 Gellid gwneud adolygiad ar wahân o hynny maes o law, ond ar hyn o bryd rydym yn barnu y dylid ei gadw yn y Côt Cynllunio, o bosib mewn Atodlen ynghyd â'r darpariaethau sy'n ymwneud â thor parhad y gwaith gyda mwynau a gwahardd ei ailgychwyn (sydd ar hyn o bryd yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).

### Cwestiwn ymgynghori 18-7.

Cynigiwn dros dro dylid y Bil gynnwys:

- (1) y darpariaethau sydd yn Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar hyn o bryd
- (2) y rhai sydd yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd (terfyniad caniatadau mwynau).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Y rheoliadau sy'n ymwneud â mwynau

- 18.70 Mae adran 315 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi addasiadau a diwygiadau i'r adrannau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a restrir yn Atodlen 16, er mwyn eu cysylltu gydag amgylchiadau penodol datblygiad y mwynau.
- 18.71 Y rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995.<sup>50</sup> Mae'r rhain yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 drwy ddarparu:
- (1) nad yw'r term "defnydd" y tir (heblaw yng nghyd-destun hysbysiadau dirwyn i ben) yn cynnwys defnyddio'r tir ar gyfer sicrhau a gweithio mwynau;
  - (2) addasiad i adran 56 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ynglŷn â phryd mae datblygiad yn "cychwyn" yng nghyd-destun mwynau; a
  - (3) darpariaeth ychwanegol am yr iawndal sy'n daladwy o dan adran 107 ar gyfer diddymu neu addasu caniatâd am ddatblygu mwynau.
- 18.72 Nid yw'r Rheoliadau'n hawdd eu deall. Er enghraifft, dydy hi ddim yn hollol glir beth yw goblygiad y cyntaf o'r diwygiadau uchod mewn perthynas ag adrannau 55 a 57, sy'n darparu'r diffiniad o "ddatblygiad" ac yn llywio'r angen am ganiatâd cynllunio.
- 18.73 Rydym yn ystyried dro dro y byddai'n symlach i sylwedd yr addasiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd i'w gweld yn Rheoliadau 1995 gael eu cynnwys yn y Ddeddf ei hun. Mae werth nodi hefyd na chafwyd unrhyw ddiwygiadau sylweddol i Rheoliadau 1995 yn y 22 mlynedd ers iddynt gael eu gwneud, sy'n tueddu awgrymu nad oes angen i Weinidogion fod â'r hyblygrwydd i ddelio gyda'r materion yma mewn is-ddeddfwriaeth.

---

<sup>50</sup> OS Rhif 2863.

### Cwestiwn ymgynghori 18-8.

**Cynigiwn dros dro dylid darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y ffurf y maent yn berthnasol wedi eu haddasu gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (fel eu bod yn berthnasol i ddatblygiad mwynau) cael eu cynnwys yn y Bil ei hun yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## DARPARIAETHAU ARIANNOL

### Ffioedd

- 18.74 Ers blynyddoedd lawer erbyn hyn, codwyd ffioedd am y mwyafrif o geisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd hysbysebion. Pan gyflwynwyd ffioedd i ddechrau, roedd rhai pobl yn eu gwrthwynebu, ar sail y ffaith fod rheolaeth cynllunio'n ymarfer a wneir er budd y gymuned gyfan, ond y farn bennaf oedd y dylai ceiswyr dalu ffioedd er mwyn talu rhai neu'r holl gostau o brosesu ceisiadau. Mae adran 303 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y cafodd ei gweithredu'n wreiddiol, wedi darparu felly y gellid gwneud rheoliadau i alluogi i awdurdodau cynllunio godi ffi am unrhyw gais o dan y Ddeddf (neu unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf) am ganiatâd, cydsyniad, cymeradwyaeth, penderfyniad neu dystysgrif.<sup>51</sup>
- 18.75 Mae'r pŵer wedi cael ei ymestyn erbyn hyn i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i alluogi awdurdodau cynllunio i godi ffi am berfformio "unrhyw swyddogaeth sydd ganddynt" - hynny yw, mae'n debyg, unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan y Ddeddf.<sup>52</sup> Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft, ymdrin ag ymholiadau cyn ceisio, gwneud archwiliadau safle, a negodi goblygiadau cynllunio. A gallai Gweinidogion Cymru hefyd godi ffi am wneud eu swyddogaethau mewn perthynas â cheisiadau a wneir iddynt.<sup>53</sup> Mae'r rheoliadau yma'n aros i gael eu cymeradwyo ar hyn o bryd gan y Cynulliad o dan y weithdrefn penderfynu cadarnhaol.<sup>54</sup>
- 18.76 Mae'r rheoliadau a wnaed o dan y pwerau hyn wedi gwneud nifer o eithriadau bob amser i'r egwyddor cyffredinol o godi ffi am wasanaethau cynllunio - naill ai'n codi o natur y tir neu ddatblygiad dan sylw neu oherwydd amgylchiadau'r ymgeisydd.<sup>55</sup>

<sup>51</sup> Nid oes grym cyfatebol dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer ffioedd i'w talu am geisiadau i LBC na CAC.

<sup>52</sup> DCGTH 1990, a 303; daeth Deddf Cynllunio 2008, a 199 yn ei lle (mewn grym yng Nghymru ers 8 Awst 2014).

<sup>53</sup> DCGTH 1990, 1990, a 303(1B),(1C). Gweler **Pennod 9**.

<sup>54</sup> DCGTH 1990, a 303 (8).

<sup>55</sup> Gweler yn benodol **para 13.155-13.158** ynghylch codi ffioedd ar ymgeiswyr am ganiatâd adeilad rhestredig.

- 18.77 Awgrymwyd wrthym y gallai fod yn fwy cyfleus os gellid addasu lefelau'r ffioedd yn syml drwy gyhoeddi'r cyfraddau newydd ar wefan, a fyddai'n llai o faich na gwneud offeryn statudol. Byddai hyn yn dileu grym y Cynulliad i graffu ar reoliadau drafft.
- 18.78 Ar y llaw arall, mae'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu'n eglur bod grym Gweinidogion Cymru i ragnodi lefelau'r ffioedd yn amodol ar adran 303(10), sy'n gofyn nad yw'r incwm i awdurdodau cynllunio ac i Weinidogion Cymru o'r ffioedd a godir yn mynd yn uwch na chost gwneud y swyddogaeth berthnasol.
- 18.79 Rydym yn ystyried bod bodolaeth darpariaeth sy'n gyfatebol ag adran 303(10) yn darparu cyfyngiad uchaf i lefel y ffioedd y gellir eu codi, felly nid yw'r awgrym yma'n codi mater mawr o egwyddor. Yn amodol ar hynny, mae hyn yn ymddangos yn awgrym rhesymol.

### **Cwestiwn ymgynghori 18-9.**

**Cynigiwn dros dro dylid cynnwys yn y Bil pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer graddfa o ffioedd am weithredu unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan y Côt, neu am weithrediad awdurdodau cynllunio o unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan y Côt, trwy gyhoeddiad yn hytrach na rhagnodi, ar yr amod ei fod hefyd yn cynnwys cyfyngiad sy'n gyfatebol ag adran 303(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gan sicrhau nad yw'r incwm o'r ffioedd a godir felly yn uwch na chost gwneud y swyddogaeth berthnasol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

### **Dadleuon am ddigolledu**

- 18.80 Mae nifer o ddarpariaethau yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ynghylch penderfyniadau gan yr Uwch Dribiwnlys am yr iawndal sy'n daladwy mewn perthynas ag amrywiol faterion - yn cynnwys adrannau 117 a 118 (diddymu, addasu a dirwyn i ben); adran 171H (hysbysiadau gwahardd dros dro); adran 186 (hysbysiadau stop); adran 191 (niwed a achosir gan fynd i mewn i bwrpasau gorfodi); adran 203 (diogelu coed); adran 250 (priffyrdd); ac adran 282 (ymgymerwyr statudol).
- 18.81 Mae pob un o'r darpariaethau hynny sy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol berthnasol i adran 4 Deddf Digolledu Tir 1961, yn amodol ar addasiadau o'r math a allai gael eu rhagnodi gan reoliadau. Ymhob achos, cyn belled ag yr ydym yn gwybod, nid oes unrhyw addasiadau o'r fath wedi eu rhagnodi erioed.
- 18.82 Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fwy syml i'r Bil gynnwys un ddarpariaeth sy'n golygu bod unrhyw gwestiwn ynghylch digollediad y mae dadlau yn ei gylch o dan unrhyw rai o'r darpariaethau yma'n cael eu penderfynu gan yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 4 Deddf 1961.

### Cwestiwn ymgynghori 18-10.

Cynigiwn dros dro y dylid cael darpariaeth unigol yn y Bil er mwyn darparu penderfyniadau yr Uwch Dribiwnlys am ddadleuon ynghylch digollediadau o dan ddarpariaethau'r Bil sydd yn ymwneud â diddymu, addasu a dirwyn i ben ganiatâd cynllunio, hysbysiadau gwahardd dros dro, hysbysiadau gwahardd, niwed a achoswyd gan fynd i mewn i bwrpasau gorfodi, diogelu coed, priffyrdd ac ymgymeryr statudol, o dan y darpariaethau yn y Ddeddf Digolledu Tir 1961.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## YMHOLIADAU, GWRANDAWIADAU AC ACHOSION ERAILL

### Darpariaethau cyffredinol

- 18.83 Mae darpariaethau cyffredinol yn ymwneud ag ymholiadau, gwrandawiadau ac achosion eraill yng Nghymru - yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u nodi ym **Mhennod 11** am benderfynu gweithdrefnau<sup>56</sup> - i'w cael yn adrannau 303ZA, 319B, 320, 321, 321A, 321B, 322C, 323A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac adran 250(2),(3) Deddf Lywodraeth Leol 1972.<sup>57</sup> Mae nifer o'r rhain yn wahanol erbyn hyn i'r darpariaethau cyfatebol sy'n berthnasol yn Lloegr.
- 18.84 Byddai rhesymoli trefniant y deunydd yma o fewn y Bil yn welliant sylweddol ynddo'i hun. Fodd bynnag, er bod y darpariaethau perthnasol yn cael eu defnyddio, yn bennaf yng nghyd-destun apeliadau cynllunio o dan adran 78, byddai'n well iddynt aros, fel y maent ar hyn bryd, yn y rhan o'r Bil sy'n ymdrin â darpariaethau amrywiol ac atodol, fel y maent yn berthnasol i ymholiadau ac ati sy'n cael eu dal i amrywiaeth o ddibenion eraill.

### Tystiolaeth arbenigol

- 18.85 Fel arfer nid yw tystiolaeth mewn ymholiadau, gwrandawiadau a gweithdrefnau'n cael eu cymryd dan lw; ond gallai hynny ddigwydd lle mae dadl sylweddol ynghylch y gwir.<sup>58</sup>
- 18.86 Fodd bynnag, mae'n dod yn gynyddol gyffredin i'r datganiad (y cyfeirir ato'n aml fel "prawf o dystiolaeth") a gynhrychir gan dyst proffesiynol gynnwys "datganiad o wirionedd". Mae nodyn arweiniad perthnasol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn dangos y dylai datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth a gynhrychir gan syrfewr mewn apeliadau cynllunio ac achosion tebyg gynnwys datganiad o'r fath, ac y dylai ei eiriad fod wedi'i seilio ar hwnnw yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil sy'n berthnasol i dystiolaeth arbenigol, fel a ganlyn:

<sup>56</sup> Gweler **para 11.14-11.20**.

<sup>57</sup> Cymhwysir i LBC a CAC gan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 89.

<sup>58</sup> Yn arbennig yng nghyd-destun achosion gorfodi.

'Rwy'n cadarnhau cyn belled ag y bo'r ffeithiau sydd wedi'u nodi yn fy adroddiad yn gywir yn ôl yr hyn a wn, rwyf wedi esbonio'n glir pa rai ydynt a chredaf eu bod yn wir, a bod y barnau yr wyf wedi'u mynegi'n cynrychioli fy marn gywir a hollol broffesiynol.'<sup>59</sup>

- 18.87 Mae'r canllawiau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar dystiolaeth arbenigol yn awgrymu hefyd y dylid ardystio hynny gyda datganiad yn dweud hynny, a dylai gyfateb gyda gofynion unrhyw gorff proffesiynol y mae'r tyst yn aelod ohono.<sup>60</sup>
- 18.88 Rydym yn ystyried dros dro y dylid gweud cynnwys datganiad o'r fath mewn tystiolaeth arbenigol yn ofyniad statudol, yn hytrach na dim ond rheol o arfer da. Byddai'n well cynnwys yn yr is-ddeddfwraeth dan ba amgylchiadau y dylid bod angen datganiad o'r fath, a ffurf manwl y geiriad, ond dylai'r pwerau perthnasol mewn deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddigon eang i alluogi i hyn gael ei gyflawni.
- 18.89 Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil hefyd yn cynnwys gofyniad bod nifer o ddogfennau penodol a gynhrychir mewn cysylltiad â gweithdrefnau llys yn dod gyda datganiad o wirionedd, gan achosi i'r person sy'n cynhyrchu'r ddogfen gredu bod y ffeithiau ynddi'n wir. Nid ydym yn ystyried y byddai'n briodol cyflwyno gofyniad o'r fath mewn perthynas â gweithdrefnau cynllunio, am fod nifer o gynrychioliadau'n cael eu gwneud gan bobl lleig sydd heb eu cynrychioli.

#### Cwestiwn ymgynghori 18-11.

**Cynigiwn dros dro y dylai'r Cod gynnwys pŵer i ofyn am tystiolaeth arbenigol mewn ymholiadau ac achosion eraill (yn cynnwys apeliadau a benderfynir ar sail cynrychiolaethau ysgrifenedig), a dylir ei ddyroi gyda datganiad o wirionedd yn unol â'r gofynion Rheolau Trefniadaeth Sifil sydd mewn grym ar hyn o bryd.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### Costau partïon

18.90 O ran costau partïon i weithdrefnau o'r fath, mae adran 322C(6) yn darparu'n syml y gallai Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion am gostau'r partïon, a pha barti sy'n eu talu. Fodd bynnag, mae rhai arferion hirsefydlog wedi ei gwneud hi'n amlwg nad yw costau'n cael eu dyfarnu dim ond lle:

(1) mae un parti i apêl wedi ymddwyn yn afresymol; a

(2) bod ymddygiad afresymol wedi arwain partïon eraill i greu treuliau dianghenraid neu wastraffus.

<sup>59</sup> *Tirfesurwyr yn actio fel tystion arbenigol*, RICS, Ionawr 2009, para 5.1(i) ar sail y geiriad yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil, Cyfarwyddyd Ymarfer 35, para 3.3.

<sup>60</sup> *Canllawion Cynllunio Gweithdrefnol: Apeliadau Cynllunio - Lloegr*, 5 Awst 2016, Para O.21 (disgwyllir cyhoeddi Canllaw Gweithredu i Gymru yn nes ymlaen yn 2017).

- 18.91 Mae hyn yn amlwg o'r arfer mewn gweithdrefnau llys, lle mae gofyn yn gyffredinol i'r partïon sy'n colli dalu am gostau'r enillwyr; ac o weithdrefnau prynu gorfodol, lle mae awdurdodau caffael yn gyffredinol atebol i dalu costau'r rheiny y mae eu tir yn cael ei gaffael. Mae'r ffordd y mae'r egwyddorion yn gweithio yn ymarferol i'w gweld yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.<sup>61</sup>
- 18.92 Rydym yn ystyried y byddai'n well i'r egwyddor sylfaenol yma, sy'n hirsefydlog ac nid yn ddadleuol, yn cael ei chynnwys ar wyneb y statud, oherwydd gallai adran 322C(6), sy'n darparu pŵer cyffredinol yn unig i ddyfarnu costau, fod yn gamarweiniol o bosib i'r rheiny sy'n anghyfarwydd â'r safle yn ymarferol.

### Cwestiwn ymgynghori 18-12.

**Cynigiwn dros dro bod y pŵer i wneud gorchmynion ynghylch costau rhai sydd yn barti i achosion, sydd ar hyn o bryd yn adran 322C(6) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei chwyddo i ddangos yn glir na ddylid gwneud gorchmyn o'r fath, heblaw lle:**

**(1) mae un parti i apêl wedi ymddwyn yn afresymol; a**

**(2) bod ymddygiad afresymol wedi arwain partïon eraill i greu treuliau dianghenraid neu wastraffus.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

### GWEITHREDU DARPARIAETHAU YN NEDDF IECHYD CYHOEDDUS 1936

- 18.93 Mae amrywiol ddarpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - adran 178(3) (gweithredu a chostau gweithio sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi), adran 209(3) (gwaith sy'n orfodol ar hysbysiad amnewid coed) ac adran 219 (gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad tir blêr o dan adran 215) - yn nodi bod rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gallu nodi bod adrannau 276, 289 a 294 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 yn berthnasol i waith a wnaed gan yr awdurdod cynllunio i sicrhau cydymffurfriad â'r hysbysiad dan sylw. Mae'r pwerau hynny wedi cael eu gweithredu yn Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.<sup>62</sup>
- 18.94 Mae pwerau tebyg o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n berthnasol i'r adrannau hynny o Ddeddf 1936 sy'n ymwneud â gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig.<sup>63</sup> Mae'r pwerau hynny

<sup>61</sup> *Llawlyfr Rheoli Datblygiad*, Llywodraeth Cymru, Mai 2017, Adran 12 Atodiad: *Dyfarnu Costau (yn lle Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 23/93 Dyfarnu Costau sy'n codi mewn Cynllunio ac Achosion Eraill (gan gynnwys Gorchmyn Prynu Gorfodol)*. Gweler yn benodol para 1.2 o'r Atodiad.

<sup>62</sup> OS 1992 Rhif 1492, rhe. 14, fel y'i diwygiwyd gan OS 1997 Rhif 3006.

<sup>63</sup> Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 42(3).

wedi eu gweithredu yn y Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Cymru) 2012.<sup>64</sup>

- 18.95 Mae Adran 190 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu bod adran 276 Deddf 1936 (ond nid adrannau 289 a 294) yn berthnasol i waith a wneir gan awdurdod lleol i sicrhau cydymffurfiaid â hysbysiad dirwyn i ben - heb fod angen Rheoliadau.
- 18.96 Mae'r rhan fwyaf o Ddeddf 1936 wedi'i diddymu. Fodd bynnag, mae adran 276 yn cynnwys pwerau awdurdod lleol i werthu deunyddiau a dynnwyd mewn gwaith gweithredol; mae adran 289 yn cynnwys y pŵer i ofyn i feddiannydd unrhyw safle beidio rhwystro'r gwaith rhag cael ei wneud; ac mae adran 294 yn cyfyngu ar rwymedigaeth landlordiaid ac asiantiaid mewn perthynas â threuliau y gellir eu hadfer.
- 18.97 Nid yw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 1936 rhyngddynt ond yn bump is-adran, ac maent yn ymddangos yn hollol synhwyrol. Rydym yn ystyried dros dro y dylent gael eu hymgorffori'n syml iawn i mewn i'r Bil Cynllunio, i'r graddau nad ydynt wedi cael eu hymgorffori'n barod, heb fod angen is-deddfwriaeth.

### Cwestiwn ymgynghori 18-13.

**Ystyriwn dros dro y dylai'r Côt Cynllunio gynnwys darpariaethau sy'n gyfatebol â'r rhai sydd ar hyn o bryd yn:**

**(1) adran 276 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 (pwerau awdurdodau cynllunio i werthu deunyddiau a dynnwyd mewn gwaith gweithredol);**

**(2) adran 289 y Ddeddf honno (pŵer i fynnu ofyn nad yw meddiannydd unrhyw safle yn atal gwaith rhag cael ei weithredu); ac**

**(3) adran 294 y Ddeddf honno (cyfyngiad ar rwymedigaeth landlordiaid ac asiantiaid mewn perthynas â threuliau y gellir eu hadfer),**

**fel eu bod yn weithredol i weithrediad gwaith yr awdurdod sydd yn ofynnol o dan hysbysiadau dirwyn i ben, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau amnewid coed a hysbysiadau tir diolwg.**

**Ydy ymgynghoreion yn cytuno?**

### DEHONGLIAD

- 18.98 Mae adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys nifer o ddiffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir drwy'r Ddeddf gyfan. Mae geiriau ac ymadroddion penodol - megis "datblygiad" a "hysbysiad prynu"- wedi eu diffinio yn y rhan o'r Ddeddf y maent yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â nhw<sup>65</sup> ac yna mae

<sup>64</sup> OS 2012/793, rhe. 15

<sup>65</sup> DCGTH 1990, au 55, 137 yn y drefn honno.



adran 336 yn cyfeirio'n syml at y diffiniadau hynny. Mae termau eraill - megis "adeilad rhestredig" a "chludydd nwy" - yn cael eu diffinio mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, sy'n cael eu mabwysiadu at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- 18.99 Mae rhai darnau o is-ddeddfwriaeth gynllunio, yn benodol y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, yn cynnwys adrannau diffiniadau sylweddol hefyd.
- 18.100 Mae'n amlwg y bydd angen cario'r diffiniadau yma drosodd i'r Côt Cynllunio. Mae'r dull o gynnwys diffiniad sylweddol term yng nghorff Deddf - yn hytrach na dim ond mewn adran ddehongli ar y diwedd - yn ddefnyddiol lle defnyddir y term yn bennaf mewn cyd-destun penodol; ac rydym wedi awgrymu bod hyn yn cael ei wneud mewn perthynas â "hysbyseb"<sup>66</sup>, ac efallai "coeden".<sup>67</sup> Rydym wedi awgrymu hefyd, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod y diffiniadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, yn cael eu dwyn ynghyd, a'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, fel nad oes raid eu hailadrodd mewn is-ddeddfwriaeth. Ac rydym yn argymhell y technegau hynny'n fwy cyffredinol.
- 18.101 Yn ein Papur Cwmpasu rydym wedi nodi bod y llysoedd wedi diffinio rhai termau, ond wedi cadw hyblygrwydd oherwydd eu bod wedi mynnu bod cysylltu'r gyfraith â ffeithiau achosion unigol yn fater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol. Ond roeddem wedi mynegi'r farn bod rhywfaint o gwmpas beth bynnag i godeiddio diffiniadau sydd wedi'u setlo mewn cyfraith achosion. Rydym wedi amlygu'n arbennig y termau "cwrtil", "gweithredoedd peirianeg" "adeilad" ac "ystyriaethau cynllunio materol"; ac rydym wedi gwahodd awgrymiadau ynghylch y termau pellach y byddai'n ddefnyddiol ac y mae'n rhaid eu diffinio neu eu hegluro yn y Côt newydd. Mewn ymateb, rydym wedi derbyn nifer o awgrymiadau, yn aml heb sylw pellach, ynghylch y termau y gellid eu diffinio'n ddefnyddiol - yn cynnwys "ffinio", "cyffiniol", "amwynder", "tŷ annedd" a "phriffordd". Rydym wedi ystyried y diffiniad o "amwynder" yn barod, yng nghyd-destun hysbysebion a choed.<sup>68</sup>
- 18.102 Yn ystod ein gwaith, rydym wedi dod yn ymwybodol o dermau y mae eu hystyr yn gallu bod yn ansicr weithiau - yn benodol "awdurdod lleol", "awdurdod cynllunio", "hysbyseb" a "choeden".
- 18.103 Rydym wedi ystyried nifer o'r rhain yn gynharach yn y Papur Ymgynghori yma, yn y bennod am y pwnc perthnasol. Mae "cyffiniol" a "ffiniol" yn digwydd yn bennaf yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn hytrach nag mewn deddfwriaeth sylfaenol. Ac mae'r diffiniad o "briffordd" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yr un fath ag ydyw yn Neddf Priffyrdd 1980; rydym yn barnu na fyddai'n briodol diwygio hynny yng nghyd-destun yr ymarfer presennol.
- 18.104 Yng nghyd-destun adran ddehongli gyffredinol y Bil, felly, rydym yn ystyried rhai termau pellach yn awr, a ddefnyddir drwy'r Ddeddf gyfan - "tŷ annedd" ac "annedd", "cwrtil" ac "amaethyddiaeth" ac ymadroddion perthnasol.

---

<sup>66</sup> Gweler **paras 14.11-14.20**.

<sup>67</sup> Gweler **paras 15.22-15.26**.

<sup>68</sup> Gweler **paras 14.91-14.92 a 15.29-15.38**.

- 18.105 Heblaw am y pwyntiau uchod, nid ydym wedi dod yn ymwybodol o dermau y mae angen egluro eu hystyr. Ond rydym yn gwahodd awgrymiadau gan y rheiny sy'n ymateb i'r Papur Ymgynghori hwn, yn arbennig os oes awgrym ar gyfer diffiniad o'r term dan sylw yn gwmni iddo.

#### **Cwestiwn Ymgynghori 18-14.**

**Oes unrhyw dermau arall a ddefnyddir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd angen eu diffinio (neu eu ddiffinio'n fwy eglur) ar wahân i'r rhai a gyfeirir atynt yn benodol mewn cwestiynau ymgynghori eraill?**

#### **DIFFINIAD O "DŶ ANNEDD" AC "ANNEDD"**

##### **Diffiniad o "dŷ annedd" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

- 18.106 Nid yw'r term "tŷ annedd" yn un a ddefnyddir mewn Cymraeg pob dydd. Fodd bynnag, gwelir hyn yn aml iawn mewn deddfwriaeth gynllunio, ond yn anffodus nid oes ganddo'r un ystyr bob tro. Mae hefyd rai cyfeiriadau at "annedd".
- 18.107 Yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'n cael ei ddefnyddio'n gyntaf yn adran 55(2)(d), sy'n diffinio'r term "datblygiad", er mwyn eithrio (ymysg pethau eraill) "ddefnyddio adeiladau neu dir arall o fewn cwrtil tŷ annedd i unrhyw bwrpas sy'n berthnasol i fwynhad y tŷ annedd felly." Mae Adran 55(3)(a) hefyd yn darparu bod defnyddio adeilad fel dau neu fwy o dai annedd ar wahân wedi iddo gael ei ddefnyddio yn y gorffennol fel un tŷ annedd yn gofyn newid defnydd yn faterol, sydd felly'n gofyn caniatâd cynllunio fel arfer.
- 18.108 Yn ail, yn Rhan 4 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â hawl i gyflwyno hysbysiad malltod, mae adran 168 yn cyfeirio at rywun sy'n meddiannu hereditament cyfan neu'r rhan fwyaf o hereditament "fel annedd preifat".<sup>69</sup> Mae adran 171 yn diffinio "uned amaethyddol" er mwyn cynnwys "unrhyw dŷ annedd neu adeilad arall a feddiannir gan [y ffermwr]". Ac mae paragraff 9 Atodlen 19 yn cyfeirio at gynnwys tir mewn cynigion am briffyrdd sy'n gwrtil, neu sydd o fewn cwrtil "annedd".
- 18.109 Yn drydydd, mae amrywiol ddarpariaethau gorfodi'n cael eu haddasu mewn perthynas ag eiddo preswyl. Mae adran 171B yn addasu'r cyfyngiad amser ar gyfer gweithredu gorfodiad mewn perthynas â newid defnydd unrhyw adeilad i "ddefnydd fel un tŷ annedd".<sup>70</sup> Mae adrannau 171F a 183 yn darparu na cheir cyflwyno hysbysiadau atal dros dro a hysbysiadau atal i rwystro unrhyw un rhag defnyddio adeilad fel tŷ annedd.<sup>71</sup> Mae adrannau 196A a 214B yn caniatáu mynediad gan bobl

<sup>69</sup> DCGTh 1990, s 168(3).

<sup>70</sup> DCGTh 1990, s 171B(2), mewnosodwyd gan Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, a 9.

<sup>71</sup> DCGTH 1990, 171F(1), mewnosodwyd gan Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, a 52; DCGTH 1990, a 183(4), mewnosodwyd gan Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, a 9.

awdurdodedig at ddibenion gorfodi ar dir, heb warant chwilio, ond yn gwahardd mynediad i unrhyw adeilad a ddefnyddir fel tŷ annedd heb rybudd o 24 awr.<sup>72</sup>

- 18.110 Yn bedwerydd, mae Atodlen 3 yn nodi bod datblygiad nad yw'n gymwys i gael digollediad mewn amgylchiadau penodol yn cynnwys "ei ddefnyddio fel dau neu fwy o dai annedd o adeilad oedd yn cael ei ddefnyddio fel un tŷ annedd". Ac mae'n cynnwys ailadeiladu tŷ annedd ar yr amod nad yw ei faint yn cael ei gynyddu o fwy na deg y cant.
- 18.111 Nid yw'r term "tŷ annedd" wedi'i ddiffinio yn adran ddehongli gyffredinol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nac yn benodol mewn perthynas ag unrhyw rai o'r darpariaethau uchod. Mewn perthynas â phob un ohonynt, fodd bynnag, mae'n ymddangos o'r cyd-destun bod "tŷ annedd" yn cynnwys, neu o leiaf y dylai gynnwys, fflat ac adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau. Felly, yn adran 55(2)(d), byddai'n rhyfedd os byddai defnyddio'r tir sy'n gysylltiedig â fflat llawr gwaelod i bwrsasau domestig yn gyfystyr â datblygiad, lle na fyddai defnyddio tir sy'n gysylltiedig â thŷ teulu confensiynol yn gyfystyr â datblygiad. Mae Adran 55(3)(a) ac Atodlen 3 yn rhagweld yn glir rannu adeilad unigol yn "dai annedd" niferus. Mae adran 171 yn rhagweld defnyddio "adeilad", sy'n cynnwys "rhan o adeilad" fel tŷ annedd. Ac mae adrannau 183, 196A a 214B oll yn cyfeirio at adeilad a ddefnyddir fel tŷ annedd, a fyddai'n cynnwys fflat - ac fel petaent wedi'u llunio i atal unrhyw darfu ar feddiannu domestig, a fyddai'n berthnasol i fflatiau cymaint ag y byddai i dai heb eu rhannu.

### **Cyfeiriadau eraill at "dŷ annedd" ac "annedd" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

- 18.112 Gellir nodi hefyd bod tri diwygiad diweddar i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn berthnasol i Loegr yn unig, sy'n cyfeirio at dai annedd ac anheddau. Er na fyddai unrhyw ddiffiniad yn y Bil newydd yng Nghymru'n berthnasol i'r rhain, rydym wedi ystyried yn fyr a fyddai'n achosi unrhyw broblemau trwy amryfusedd.
- 18.113 Mae adrannau 60(2B) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref<sup>73</sup> yn cyflwyno gofyniad i sicrhau nad yw datblygiad a ganiateir gan orchymyn datblygu ar dir yn Lloegr sy'n dŷ annedd (neu yng nghwrtil un) yn cael effaith annerbyniol ar amwynder y safleoedd cyffiniol. Nid yw "tŷ annedd" wedi'i ddiffinio yno, ond mae'n ymddangos bod y cyd-destun yn awgrymu ei fod yn cynnwys fflat yn ogystal â thŷ.
- 118.114 Yn ail, mae adran 106ZB (sy'n berthnasol yn Lloegr) yn diffinio "tai fforddiadwy" drwy gyfeirio at amrywiol gategorïau o "ancheddau newydd".<sup>74</sup> Mae'r diffiniad o "annedd newydd" yn ymwneud yn eglur ag adeilad neu ran o adeilad.
- 18.115 Mae adrannau 225C a 225F Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdodau cynllunio yn Lloegr hawlio yn ôl gan berchnogion eiddo dreuliau tynnu hysbysiadau diawdurdod a graffiti o adeilad, ond nid lle'r oedd yn arfer cael ei ddefnyddio fel fflat neu dŷ annedd.<sup>75</sup> Mae "tŷ annedd" wedi'i ddiffinio yn y cyd-destun

---

<sup>72</sup>

<sup>73</sup> DCGTH 1990, a 60 (2B), (2C), Mewnosodwyd gan Ddeddf Twf a Seilwath 2013, a 4. Ymddengys bod hyn yn un enghraifft yn DCGTH 1990 o'r defnydd o "anchedd dŷ" (dau air) yn lle "anchedd-dŷ".

<sup>74</sup> DCGTH 1990, a 106ZB, i'w fewnosod gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, a.159.

<sup>75</sup> DCGTH 1990, au 225C (14), 225 F(8), mewnosodwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, a. 127(2).

hwnnw, dim ond, cyn belled â'r ffaith'nad ydyw'n cynnwys adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau, neu fflat sydd wedi'i gynnwys o fewn adeilad o'r fath".<sup>76</sup> Mae "fflat" yn ei dro wedi'i ddiffinio fel "cyfres hunangynhwysol ac ar wahân o safleoedd a adeiladwyd neu a addaswyd i'w defnyddio fel annedd ac yn ffurfio rhan o adeilad o ryw ran arall sydd wedi'i rannu'n llorweddol".<sup>77</sup> Mae hyn yn golygu bod y gwaharddiad ar allu awdurdod i adfer costau'r gwaith yn berthnasol lle mae'r adeilad dan sylw'n fflat, neu dŷ sydd heb gael ei rannu; ond nid lle mae tŷ wedi'i rannu'n fflat ar wahân yn y seler neu'r atig. Mae'r sail polisïau ar gyfer hynny'n aneglur; ond mae'n pwysleisio'r angen am fanwl gywirdeb.

### Cyfeiriadau at "dŷ annedd" mewn is-deddfwriaeth.

- 18.116 Defnyddir y term "tŷ annedd" mewn nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth gynllunio.
- 18.117 Mewn rhai achosion - yn benodol y Rheoliadau Ffioedd a Rheoliadau EIA - mae "tŷ annedd" wedi'i ddiffinio i olygu "adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel un annedd preifat ac nid i unrhyw bwrpas arall".<sup>78</sup>
- 18.118 Yn amlach - yn cynnwys y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir a Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygiad - mae "tŷ annedd" yn eithrio "adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau, neu fflat sydd wedi'i chynnwys mewn adeilad o'r fath".<sup>79</sup> Ac mae fflat wedi'i diffinio fel y nodir uchod.
- 18.119 Nid oes diffiniad o "dŷ annedd" yng Ngorchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1987, ond byddai'n ymddangos bod y cyntaf o'r ddau ddiffiniad yma'n berthnasol yn erthygl 3, sy'n cyfeirio at "ddefnyddio unrhyw ran o'r adeilad fel tŷ annedd ar wahân". Ond mae Dosbarth C4 yn cyfeirio at "ddefnyddio tŷ annedd ... fel tŷ mewn amlfeddiannaeth" a allai ymwneud yn fwy naturiol â'r ail ddiffiniad.
- 18.120 Bydd pobl yn gwerthfawrogi'n barod iawn bod y ddau ddiffiniad yn sylweddol wahanol, ac un o'r rhesymau mwyaf am hyn yw bod y cyntaf yn cynnwys fflat; a'r ail yn eithrio fflat. Defnyddir yr un term Cymraeg (*tŷ annedd*) yn y ddau achos.<sup>80</sup>
- 18.121 Canlyniad yr anghysondeb yma, er enghraifft, yw bod tŷ pâr sydd wedi ei rannu'n ddwy fflat - rhywbeth sy'n digwydd yn gyffredin mewn gwirionedd - yn dŷ annedd i bwrpas y diffiniad cyntaf, ond nid yw'n dŷ annedd i bwrpas yr ail ddiffiniad. O ganlyniad, nid yw codi sied yng ngardd y fflat i lawr y grisiau (neu godi erial dysgl) yn ddatblygiad a ganiateir, ac felly mae angen gwneud cais cynllunio ar ei gyfer - ond

---

<sup>76</sup> DCGTH 1990, au 225 C(16), 225F(12), mewnosodwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, a 127(2).

<sup>77</sup> Gweler **paragraffau 18.118 a 18.123**.

<sup>78</sup> Rheoliadau CGTh (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau â Safleoedd) (Cymru) 2015 (OS 1552); Rheoliadau CGTh (Asesiad o Effaith ar yr Amgylchedd) (Cymru) 2016 (OS 567), rhe 2.

<sup>79</sup> Gorchymyn Cymru GRD 2012 erthyglau 2,7, Atod 4; (Gweithdrefn) Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol (Cymru) (OS 55), Atod 5, para 1; CGTh (Gweithdrefn Ceisiadau a Gyfeiriwyd ac Apeliadau) (Cymru) Rheoliadau 2017 OS Rhif 544, rhe 3; CGTh Gorchymyn (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, erth 1. Defnyddir y diffiniad hwnnw hefyd yn Rheoliadau Adeiladu 2010 (OS 2214), erth 2(1).

<sup>80</sup> Rheoliadau CGTh (Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd) (Cymru) 2017, rhe 2(1); CGTh (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) Gorchymyn 2012, erth 2(1).

byddai datblygiad tebyg sy'n gysylltiedig â thŷ sydd yn union yr un fath yn ffisegol sydd heb gael ei rannu'n llai'n cael ei ganiatáu'n awtomatig.<sup>81</sup> Ymhellach, nid yw'r cais sy'n angenrheidiol yn achos y fflat yn "gais deiliad tŷ", ac felly nid yw'n elwa o'r drefn apeliadau wedi'u brysio sydd ar gael i ddatblygiad sy'n ymwneud â thy annedd.<sup>82</sup> Fodd bynnag, am fod y Rheoliadau Ffioedd yn defnyddio'r diffiniad cyntaf, mae ffioedd is am y cais yma, p'un a ydyw'r tŷ wedi'i rannu ai peidio.<sup>83</sup>

18.122 Nid yw'n glir bob amser sut mae'r darpariaethau statudol perthnasol yn berthnasol yn achos adeiladau sy'n cynnwys fflatiau uwch siopau, cartrefi gwyliau, fflatiau gofalwyr a llawer o ffurfiau eraill o letyau preswyl. Ac mae'r llysoedd wedi archwilio rhai agweddau o'r problemau yma ar amrywiol achlysuron, gyda chanlyniadau cymysg. Mae hwn yn fater pwysig, a fyddai'n elwa o archwiliad llawer llawnach, ond un sydd y tu hwnt i gwmpas y Papur Cwmpasu yma.

## Casgliad

18.123 At ddibenion holl ddarpariaethau Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd mewn grym yng Nghymru<sup>84</sup> - mae'n ymddangos bod y term "tŷ annedd" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel annedd preifat unigol ac nid i unrhyw bwrpas arall. Hynny yw, mae'n berthnasol i ddefnydd preswyl o'r adeilad neu ran ohono, ac nid yw'n ddibynnol ar y nifer o unedau yn yr adeilad sy'n cael eu defnyddio fel yma. O ystyried diffiniadau anghyson y term mewn deddfwriaeth eilaidd, a amlygir uchod, rydym yn ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol gwneud hyn yn glir yn adran ddehongli'r Bil.

18.124 Ymhellach, gallai fod yn fwy cytafebol gyda defnydd cyfredol yr iaith Saesneg os yw fersiwn iaith Saesneg y Bil yn defnyddio'r term "annedd" yn lle "tŷ annedd". Byddai hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod y term yn cyfeirio at adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd arbennig, yn hytrach nag ar gyfer math arbennig o adeilad. Byddai hefyd yn gyfatebol â Biliau Cynulliad diweddar, lle mae'r term "annedd" wedi'i ddefnyddio'n gyffredinol.

18.125 Yn olaf, rydym yn nodi bod y Rheoliadau Adeiladu'n cynnwys y diffiniadau a ganlyn:

*mae "annedd" yn cynnwys tŷ annedd a fflat;*

*nid yw "tŷ annedd" yn cynnwys fflat nag adeilad sy'n cynnwys fflat.<sup>85</sup>*

Mae'n ymddangos i ni bod hyn yn cwmpasu'n gryno y cysyniadau yr ydym wedi bod yn eu hystyried uchod, ac rydym yn awgrymu y byddai diffiniad ar hyd y llinellau yma'n briodol i'w gynnwys yn y Bil. Fodd bynnag, er mai'r unig dro byddai'r term "tŷ annedd" yn digwydd fyddai mewn diffiniad o "annedd", byddai'n ymddangos y gellid

---

<sup>81</sup> Hawliau datblygu a ganiateir dan GDCG 1995, Atod 2, Rhan 1 a Rhan 24 yn gymwys i "annedd-dai" yn unig.

<sup>82</sup> GCGRD 2012, erth 26.

<sup>83</sup> Rheoliadau CGTh (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau â Safleoedd) (Cymru) 2015, rhe 4(1).

<sup>84</sup> Gweler **paragraffau 18.106 i 18.111**.

<sup>85</sup> Rheoliadau Adeiladau 2010, rheol 2.

defnyddio'r diffiniad o "annedd" i'r perwyl ei fod yn cynnwys tŷ a fflat. Yna gair Cymraeg cyffredin fyddai tŷ, heb angen diffiniad penodol.

### Cwestiwn ymgynghori 18-15.

Cynigwn dros dro y dylid:

(1) darpariaethau fersiwn Saesneg y Bil sydd yn cyfateb gyda adrannau 55, 171, 183, 196A a 214B ac Atodlen A y DCGTh gael ei fframio trwy gyfeiriad i "annedd" yn hytrach na "thŷ annedd"; a

(2) gynnwys gynnwys diffiniad o'r term "annedd" yn adran dehongliad y Bil, fel ei bod cynnwys tŷ a fflat.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## DIFFINIAD O "GWRTEL"

### Ei ddefnydd mewn cynllunio a deddfwriaeth arall

18.127 Defnyddir y gair "cwrtil" mewn nifer o fannau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn gyntaf, mae cyfeiriadau, sydd wedi eu nodi uchod, at "gwrtil tŷ annedd" a "chwrttil annedd".<sup>86</sup> Ac mae rhai o ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig, sydd wedi eu nodi uchod hefyd, yn cyfeirio at gwrtil tŷ annedd.<sup>87</sup> Yn ail, mae cyfeiriad at gwrtil tir a ddefnyddir gan ymgymerywyr statudol ar gyfer eu gwaith.<sup>88</sup>

18.128 Yn drydydd, mae gan "cwrtil" arwyddocâd arbennig yng nghyd-destun adeiladau rhestredig, am fod adran 1(5) Deddf Adeiladau Rhestredig yn nodi bod "adeilad rhestredig" yn cynnwys strwythur cyn-1948 yng nghwrttil yr adeilad yn y rhestr.

18.129 Yn bedwerydd, ac yn fwy eang, mae'r term "cwrtil" yn ymddangos fwy na 1,500 o weithiau mewn amrywiaeth eang o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.<sup>89</sup> Mae nifer sylweddol o'r rheiny, ond nid pob un o bell ffordd, yn ymwneud â chynllunio.<sup>90</sup> Ac mae'r mwyafrif o gyfeiriadau at dir "yng nghwrttil" adeilad o ddisgrifiad penodol.

<sup>86</sup> DCGTh 1990 a 55(2)(d) (gweler **para 18.107**); amserlen 13, para 19 (gweler **para 18.108**).

<sup>87</sup> DCGTh 1990 a 60(2B) (gweler **para 18.113**), aa 225C(14) a 225F(8) (gweler **para 18.115**).

<sup>88</sup> DCGTh 1990, amserlen 14, para 3(5), (7).

<sup>89</sup> O'r Ddeddf Cyd-ddaliad 1838 i'r Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017; ac o'r Gorchymyn Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 1964 i'r Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) Cymru 2017. Gweler, er enghraifft *Dyer v CS Dorset* [1998] QB 346, CA (Deddf Tai 1980); *Methuen-Campbell v Walters* [1979] QB 535 (trawsgludo).

<sup>90</sup> Gweler *Sinclair-Lockhart's Trustees v Central Land Board* (1951) 1 P & CR 195 yn 204 (talau am ddatblygiad); *Stephens v Cuckfield RDC* [1959] QB 516 ar dud 526; cynhaliwyd ar [1960] 2 QB 373.

- 181.30 Felly, er enghraifft, yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995, mae 128 o gyfeiriadau at "gwrtil" - mewn darpariaethau cyffredinol, megis "cwrtil adeilad", "adeiladau o fewn yr un cwrtil", "cwrtil yr adeilad gwreiddiol", "ffin cwrtil y safle", "cwrtil adeilad rhestredig" a "chwrtil adeilad a ddiogelir"; ac mewn dapariaethau mwy penodol, megis "cwrtil tŷ annedd", "cwrtil warws neu adeilad diwydiannol cyfredol", "cwrtil ysgol, coleg [ac ati] presennol". "cwrtil adeilad gweithredol y Goron", "cwrtil adeilad swyddfa", "cwrtil siop" a "chwrtil mwy nag un system solar sy'n sefyll ar ei ben ei hun". Mae'r llysoedd wedi egluro, wrth weithredu darpariaethau o'r fath, bod angen ystyried beth yw cwrtil yr adeilad dan sylw ar y dyddiad pan fo'r datblygiad arfaethedig i gael ei weithredu; ond bydd maint y cwrtil "yn ei hanfod yn fater o ffaith".<sup>91</sup>
- 18.131 Mae'n ymddangos nad oes gwahaniaeth rhwng ystyr y term mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-deddfwriaeth.
- 18.132 Weithiau mae dogfennau polisi cynllunio'n cyfeirio at ddatblygiad sy'n dderbyniol o fewn cwrtil adeiladau presennol. *Mae Polisi Cynllunio Cymru*, er enghraifft, yn cyfeirio at gwrtil datblygiad blaenorol; ac yn diffinio "cwrtil" fel "ardal o dir sy'n atodol at adeilad".<sup>92</sup>

### Ymatebion i'r Papur Cwmpasu

- 18.133 Yn y Papur Cwmpasu, rydym yn nodi nad yw'r gair "cwrtil" wedi'i ddiffinio mewn statud; rydym yn nodi barn ragarweiniol y byddai diffiniad yn gwella eglurder y gyfraith. Roedd y mwyafrif o'r ymgynghorwyr a roddodd eu barn ynglŷn â chynnwys y diffiniad o gwrtil yn y Bil Cynllunio'n cytuno y dylid gwneud hynny.<sup>93</sup> Er enghraifft, roedd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yn meddwl bod y ffaith fod ansicrwydd yn y gyfraith yn rheswm o blaid codeiddio egwyddorion er mwyn gwella cyflwr y gyfraith ar hyn o bryd:

Rydym yn cytuno bod angen ymdrin â'r mater aneglur ynglŷn â beth yw "cwrtil". Am ei fod yn ymdrin â nifer o wahanol amgylchiadau'n eglur, mae'n amlwg mai dim ond gwneud nodyn o egwyddorion y gall ei wneud, ond byddai unrhyw beth yn well na'r ansicrwydd cyfredol ynghylch y mater yma. Gellid defnyddio esiamplau anghyflawn lle bo'n briodol.

- 181.34 Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI) bod eu haelodau'n mynegi cefnogaeth i'r farn y byddai diffinio "cwrtil" yn gwella eglurder y gyfraith ac y byddai'n gwella materion o safbwynt gweithredol. Roeddent yn nodi'r canlynol:

Mae'n hynod anodd a chymhleth diffinio cwrtil heb unrhyw ddiffiniad statudol clir - wrth ddelio gyda materion cwrtil preswyl mewn perthynas

<sup>91</sup> *James v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1991] 1PLR; gweler hefyd *Collins v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1989] EGCS 15, *McAlpine v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1995] 1 PLR 15; *Lowe v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2003] 1 PLR 81.

<sup>92</sup> PPW, Argraffiad 9, Tachwedd 2016, Ffig 4.4; *Withers v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2002] 4 PLR 102; *Wheeler v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2002] 4 PLR 102.

<sup>93</sup> Fe wnaeth saith ymgynghorwr cynnig sylwadau ar y syniad o ddiffinio cwrtil yn y Cod Cynllunio Newydd; fe wnaeth pump gytuno a dau anghytuno.

â datblygiad a ganiateir ac wrth ddelio gyda diffinio maint y diogelwch i adeilad rhestredig (h.y. yn cynnwys gosodion ac adeiladau o fewn y cwrtil).

- 18.135 Cytunodd Persimmon y dylid cynnwys diffiniad o "cwrtil" ond nododd y dylid cael rhagor o ymgynghori mewn perthynas â'i ystyr a'r dyddiad pan ddylai'r ystyr fod yn berthnasol, gan dynnu sylw at hyn:

Dylai cwrtil adeilad rhestredig adlewyrchu'r dyddiad pan restrwyd yr adeilad, ond dylid cymryd y cwrtil sy'n gysylltiedig â chais cynllunio cyfredol o'r dyddiad y cyflwynwyd y cais.

- 18.136 Cytunodd Cyngor Castell Nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) (De Orllewin Cymru) hefyd y dylid diffinio cwrtil yn y Bil Cynllunio newydd.

- 18.137 Ond, rydym hefyd wedi derbyn dau ymateb yn awgrymu nad ydym yn codeiddio'r diffiniad o gwrtil. Roedd yr Arolygiaeth Gynllunio'n barnu nad yw'r mater o gwrtil yn addas iawn i gael ei nodi yn y gyfraith, o ystyried ei fod 'yn ffaith a graddfa i raddau mawr'. Yn yr un modd, esboniodd y Gymdeithas Gwlad Tir a Busnes (CLA) hefyd nad yw'n fanteisiol cynhyrchu diffiniad o gwrtil, o ystyried y gall y syniad o gwrtil mewn cyd-destun gwledig fod yn hollol wahanol i'r syniad o gwrtil mewn cyd-destun mwy trefol. Nododd y "byddai'n dibynnu sut mae hyn yn cael ei wneud, a gallai hyn fod yn berthnasol i godeiddio / diffiniadau eraill". Roedd yn awgrymu efallai y byddai'n well ymdrin â diffiniadau fel yma gan ddefnyddio canllawiau a chyfeiriodd at ganllawiau diweddar Historic England ar gwrtil adeilad rhestredig. Yn ôl y Gymdeithas Gwlad Tir a Busnes:

Mae'n sicr bod 'cwrtil' yn achosi dryswch, ond mae cyfraith achos yn aml yn darparu rhywfaint o sicrwydd, er enghraifft wrth esbonio'n glir os nad yw adeilad B yn ategol, ac erioed wedi bod yn ategol, i adeilad A, yna mae adeilad B yn annhebygol o fod yng nghwrtil adeilad A. I'r gwrthwyneb, mae'n ymddangos mai'r agwedd a awgrymir yn 7.17 yw hyn: "dyma restr pwyntiau bwled o oddeutu 10 o ffactorau, y gallai unrhyw un ohonynt fod yn berthnasol wrth benderfynu'r cwestiwn yma, ond ni fydd y Côt yn dangos chwaith beth mae pob pwynt bwled yn ei olygu mewn gwirionedd, na pha ffactorau allai fod yn fwy berthnasol mewn unrhyw achos penodol". Gallai hynny'n amlwg fod yn llai o gymorth ac yn llawer gwaeth na'r sefyllfa gyfredol. Felly mae angen cynllunio unrhyw godeiddio'n ofalus i gynyddu ac nid gostwng sicrwydd i bob parti.

### Y term "Cwrtil" mewn cyfraith achos

- 18.138 Nid yw "cwrtil" yn air sy'n cael ei ddefnyddio mewn Cymraeg pob dydd; mae'r gair yma, a'i gyfieithiad Saesneg (*curtilage*) yn digwydd mewn cyd-destun cyfreithiol yn unig.<sup>94</sup> Mae'n cwmpasu syniad gweddol syml: y tir sy'n gysylltiedig o fewn graddau rhesymol o agosrwydd at adeilad i'r mwyafrif o bwrpasau. Ni fyddai ei amnewid yn

---

<sup>94</sup> Mae'r ddau yn tarddu o'r gair Ffrengig *courtill*, o'r canol oesoedd; yr ystyr yw "cwrt bach".



syml gyda them arall yn datrys y broblem, sef sut i ddiffinio'n fanwl gywir pa dir sydd i gael ei ystyried fel tir sy'n gysylltiedig â'r adeilad ar ddyddiad penodol.

18.139 O ran pennu a yw un strwythur (B) yng nghwrtil prif adeilad arall (A), mae'r llysoedd wedi ystyried hyn lawer o weithiau; ac maent felly wedi darparu canllaw defnyddiol y gellir ei ddefnyddio mewn achosion eraill. Efallai mai'r penderfyniad mwyaf nodedig yw penderfyniad y Llys Apêl yn achos y *Twrnai Cyffredinol v Cyngor Bwrdeistref Calderdale*,<sup>95</sup> oedd yn ymwneud â'r cwestiwn a oedd strwythur o fewn cwrttil adeilad yn y rhestr. Cyfeiriodd y llys at nifer o benderfyniadau yn dangos y gallai gwahanol ffeithiau arwain at wahanol gasgliadau, ac yn wir fod yr un ffeithiau'n gallu arwain at wahanol farn farnwrol.<sup>96</sup> Ond, daeth i'r casgliad bod:

Rhaid cymryd tri ffactor i ystyriaeth wrth benderfynu a oedd strwythur (neu wrthrych) o fewn ystyr [adran 1(5) Deddf Adeiladau Rhestredig], beth bynnag fyddai dehongliad trawsgludo tynn y gair hynafol a gweddol aneglur "cwrtil". Dyma nhw

- (1) 'cynllun' ffisegol yr adeilad rhestredig a'r strwythur;
- (2) eu perchnogaeth, yn y gorffennol a'r presennol; a
- (3) eu denfydd a'u swyddogaeth, yn y gorffennol a'r presennol<sup>97</sup>

18.140 Ac mae'r llysoedd wedi cadarnhau hefyd nad yw'r tir i gyd dan yr un berchnogaeth oherwydd bydd y prif adeilad wedi'i gynnwys;<sup>98</sup> efallai y bydd rhywfaint o dir dan berchnogaeth wahanol wedi'i gynnwys mewn rhai achosion;<sup>99</sup> ac nid oes cwrttil gan bob adeilad.<sup>100</sup>

18.141 Yr anhawster, fel a ganfuwyd gan arolygwyr a beirniaid mewn llawer o achosion, yw defnyddio'r fformiwla ar amrediad eang o wahanol sefyllfaoedd ffeithiol. Felly, lle mae tŷ'n uno â phatio, sydd yn ei dro'n cyffinio â lawnt, yna lwyni ac yna ardd lysiau gyda waliau o'i chwmpas (a ddefnyddir yn awr fel pwll nofio), yna badog, yna goedwig, lle yn union mae ffin y cwrttil?

## Casgliad

18.142 Rydym yn ystyried dros dro na fydd hi'n bosibl dyfeisio diffiniad cyflawn o'r term "cwrtil", sy'n berthnasol ymhob sefyllfa. Ymhellach, mae'n ymddangos nad oes unrhyw air arall mewn Cymraeg a Saesneg modern sy'n air cyfystyr ag o Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw "cwrtil" - yn wahanol i "annedd" - yn air a

---

<sup>95</sup> (1982) 46 P & CR 399.

<sup>96</sup> *Methuen-Campbell v Walters* [1979] QB 325; *Vestry of St Martin' in the Fields v Bird* [1985]..... QB 4128; a *Pilbrow v Vestry of the Parish of St Leonard Shoreditch* [1985] 1 QB 433.

<sup>97</sup> [1983] JPL 310, AC trwy Stephenson LJ. Gweler hefyd *Watson-Smyth v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1992] JPL 451; *Skermits of Nottingham Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2001] QB 59, CA.

<sup>98</sup> *Collins v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1985] EGCS 15; *James v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [1991] 1PLR 58; *Lowe v Y Prif Ysgrifennydd Gwladol* [2003] 1 PLR 81.

<sup>99</sup> *Calderdale* [1983] JPL 310, AC, CA.

<sup>100</sup> *R (Hammerton) v London Underground Ltd* [2003] JPL 984.

ddefnyddir yn gyffredin, a barnwn y byddai'n ddefnyddiol cynnwys diffiniad ohono, sy'n golygu mai dyma'r tir sy'n cysylltu'n agos ag adeilad. Wrth gwrs, nid yw hynny'n ddiffiniad manwl gywir ynddo'i hun; a dylid ei wneud yn fwy manwl trwy ddarpariaeth a fydd yn golygu bod y cwestiwn a yw un strwythur yng nghwrttil strwythur arall, yn cael ei ateb mewn perthynas â thri ffactor y cyfeirir atynt ym mhenderfyniad *Calderdale*, a nodwyd uchod.<sup>101</sup>

18.143 Ni fyddai hynny'n achub y blaen ar rôl y llysoedd wrth weithredu'r egwyddorion sylfaenol hynny i ffeithiau achosion penodol sy'n codi yn y dyfodol, ond o leiaf byddai'n sefydlu'r egwyddorion sydd i gael eu hystyried. A gallai canllawiau mwy manwl, anstatudol barhau i gael eu cyhoeddi, fel y maent ar hyn o bryd, gan ddangos sut y gellid gweithredu'r egwyddorion hynny mewn sefyllfaoedd penodol.

18.144 Byddai'n ddefnyddiol hefyd i egluro'r union ddyddiad y mae maint cwrttil adeilad i gael ei ystyried. Ond, byddai hynny wedi'i wneud orau yng nghyd-destun y Côd Amgylchedd Hanesyddol. Felly rydym wedi cyffwrdd â hyn yn fyr ym **Mhennod 13** y Papur Ymgynghori yma.<sup>102</sup>

### Cwestiwn ymgynghori 18-16.

**Ystyriwn dros dro y byddai'n ddefnyddiol i'r Bil gynnwys darpariaeth sydd yn nodi mai cwrttil adeilad yw'r tir sydd wedi'i gysylltu agosaf iddo, a rhaid penderfynu a yw un strwythur o fewn "cwrttil" adeilad mewn perthynas â:**

**(1) 'chynllun' ffisegol yr adeilad a'r strwythur;**

**(2) eu perchnogaeth, yn y gorffennol a'r presennol; a**

**(3) eu defnydd a'u swyddogaeth, yn y gorffennol a'r presennol.**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

## DIFFINIAD O "AMAETHYDDIAETH" A THERMAU PERTHNASOL

### "Amaethyddiaeth" ac "amaethyddol"

18.145 Mae'r termau "amaethyddiaeth"<sup>103</sup> ac "amaethyddol"<sup>104</sup> wedi eu diffinio'n gynhwysfawr yn adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio llaeth, bridio a chadw da byw (yn cynnwys unrhyw greadur a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwllân, crwyn neu flew, neu at ddibenion ei ddefnyddio wrth

<sup>101</sup> I gael darpariaeth gymaradwy, gwelwch Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010, a.730C, a roddwyd i mewn o dan Ddeddf Cyllid 2013, Atod.14.

<sup>102</sup> Gweler **paragraffau 13-184-13.187**.

<sup>103</sup> Defnyddiwyd yn DCGTH 1990, au 55, 147 a 315, Atodlenni 5 a 9.

<sup>104</sup> Defnyddiwyd (ar wahân i'w ddefnyddio mewn termau megis "uned amaethyddol") yn DCGTH 1990, a 171.

ffermio tir), defnyddio'r tir fel tir pori, dolydd, tir helyg, gerddi marchnad a thir planhigfa, a defnyddio tir ar gyfer coedwig lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol at ffermio'r tir i bwrpasau amaethyddol eraill, a bydd "*amaethyddol*" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

18.146 Mae "*Amaethyddol*"<sup>105</sup> wedi'i ddiffinio hefyd:

- (1) yn adran 147 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 at ddibenion adrannau 145, 146 a 147 (hysbysiadau prynu), ac
- (2) yn adran 171, i bwrpasau Pennod 2 Rhan 6 (hysbysiadau malltod).

18.147 Yn y ddau achos, mae'r ddarpariaeth yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn mynegi diffiniad o "*amaethyddol*" yn adran 109 Deddf Amaethyddiaeth 1947, sydd yn yr union eiriau â'r diffiniad yn adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae adran 147 ac adran 171 yn ychwanegu bod "cyfeiriadau at ffermio tir yn cynnwys cyfeiriadau at wneud gweithgareddau amaethyddol mewn perthynas â'r tir". Yn amodol ar yr ychwanegiad hwnnw, nid yw'r diffiniadau o "*amaethyddol*" yn ychwanegu unrhyw beth at hwnnw yn adran 336, ac nid oes angen eu cynnwys yn y Bil.

18.148 Mae Rhan 6 Atodlen 2 Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn cynnwys cyfeiriadau eang at "*amaethyddiaeth*", ond nid yw'n eu diffinio ymhellach, heblaw i gynnwys gweithgareddau penodol at ddibenion penodol.

### **"Tir Amaethyddol"**

18.149 Mae Pennod 1 Rhan 6 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud â chyflwyno hysbysiad prynu mewn perthynas â "thir amaethyddol", lle mae gan yr un sy'n gwneud y cais ddiddordeb mewn tir amaethyddol yn yr un uned. Mae adran 147 yn defnyddio'r un diffiniad o "dir amaethyddol" ag ydyw adran 109 Deddf 1947, fel a ganlyn:

Mae'r term "*tir amaethyddol*" yn golygu tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth sy'n cael ei ddefnyddio felly at ddibenion masnach neu fusnes, neu sydd wedi'i ddynodi gan y Gweinidog at ddibenion yr is-adran yma, ac yn cynnwys unrhyw dir a ddynodwyd yn dir a ddylai, ym marn y Gweinidog, gael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth:

Ar yr amod na fydd unrhyw ddynodiad o dan yr is-adran yma'n ymestyn-

- (a) i dir a ddefnyddiwyd fel tiroedd pleser, gerddi preifat neu erddi rhandir, neu
- (b) i dir a gedwir neu a gynhelir yn bennaf neu'n gyfan gwbl i bwrpasau chwaraeon neu adloniant, heblaw lle mae'r Gweinidog yn fodlon na fyddai ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth yn anghyson gyda'i ddefnydd at y dibenion a nodwyd ac mae wedi'i nodi felly yn y dynodiad.

---

<sup>105</sup> Defnyddiwyd (ar wahân i'w ddefnyddio mewn termau megis "uned amaethyddol") yn DCGTH 1990, a 171.

- 18.150 Ni wyddys a yw'r Gweinidog wedi dynodi unrhyw ran ohono, ac, os ydyw, faint o dir o dan adran 109. Byddai'n ymddangos nad yw'r diffiniad penodol iawn o dir amaethyddol yn adran 147 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ychwanegu unrhyw beth at yr ymadrodd cyffredinol "tir amaethyddol", sydd wedi'i ddehongli'n gyfan gwbl yng nghyd-destun "amaethyddiaeth" a ystyrir uchod. Ac mae'r cyfeiriad aneglur at y cynllun o ddynodiad Gweinidogol yn debygol o fod yn ddryslyd i ddefnyddwyr y Bil.
- 18.151 Mae Rhan 6 Atodlen 2 i Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir - sy'n darparu ar gyfer hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer tir amaethyddol - yn diffinio'r term "tir amaethyddol" fel a ganlyn:
- Tir sydd, cyn y gwneir y datblygiad a ganiateir gan y Rhan yma, yn dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth ac sy'n cael ei ddefnyddio felly i bwrpasau masnach neu fusnes, ac yn eithrio unrhyw dŷ annedd neu ardd.
- 18.152 Mae hwn yn ddiffiniad ychydig mwy penodol na'r diffiniad cyffredinol a nodir uchod, ond ystyriwn y byddai'n dal i fod yn briodol ar gyfer dehongli Rhan 6 y Ddeddf ac hefyd Rhan 6 Atodlen 6 ill dau i'r GDCG.

### Termau eraill sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth

- 18.153 Defnyddir y term "uned amaethyddol" mewn nifer o leoedd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â hysbysiadau prynu a hysbysiadau malltod.<sup>106</sup> Mae wedi'i ddiffinio i'r ddau bwrpas, yn adran 171 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<sup>107</sup>, fel a ganlyn:
- tir wedi'i feddiannu fel uned at ddibenion amaethyddol, yn cynnwys unrhyw dŷ annedd neu adeilad arall sydd wedi'u meddiannu gan yr un person i bwrpas ffermio'r tir.
- 18.154 Defnyddir y term hefyd nifer o weithiau yn Rhan 6 Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir - sy'n darparu ar gyfer hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer tir amaethyddol. Mae hynny'n ei ddiffinio yn yr un termau ag ydyw yn y Ddeddf, heblaw ei fod hefyd yn cynnwys unrhyw annedd ar y tir sydd wedi'i feddiannu gan weithiwr fferm.
- 18.155 Byddai'n ymddangos bod y ddau ddiffiniad yn ceisio cyfeirio at yr un cysyniad, ac y byddai'n fwy boddhaol i'r diffiniad sydd yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, neu ddiffinad sydd â'r un effaith i raddau mawr, gael ei gynnwys yn y Bil.
- 18.156 Defnyddir y termau "tenant amaethyddol" a "daliad amaethyddol" yn adran 65 yn unig, a chânt eu diffinio yno (trwy gyfeiriad at Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995). Byddai'n ymddangos yn ddoeth i'r rhain gael eu cynnwys ochr yn ochr â'r darpariaethau sydd yn yr adran honno ar hyn o bryd.

### Casgliad

<sup>106</sup> Defnyddiwyd yn DCGTH 1990 au 145, 149 i 151, 154, 155, 157, 158., 160 i 164, 166, 168, 171, a 307.

<sup>107</sup> DCGTH 1990, a 147 yn mynegi'r diffiniad yn a. 171.

18.157 Rydym yn ystyried dros dro y byddai o gymorth i ddefnyddwyr y Côt petai'r holl ddiffiniadau cysylltiedig yma - cyn belled â'u bod yn parhau'n ofynnol - yn cael eu dwyn ynghyd mewn un lle, mae'n debyg yn adran ddehongliad cyffredinol y Bil.

#### **Cwestiwn ymgynghori 18-17.**

**Cynigiwn dros dro bod y dylai rhan ddehongli'r Bil gynnwys diffiniadau o'r termau canlynol:**

**(1) "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol", ar linellau'r diffiniad sydd ar hyn o bryd yn adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda chyfeiriad at ffermio yn ychwanegol ato yn unol â'r rheiny sydd ar hyn o bryd yn adran 147 a 171; a**

**(2) "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol", yn fras yn unol â'r diffiniad yn Rhan 6 Atodlen 2 y GDCG.**

**ac fe gynigwn dros dro nad oes diffiniadau pellach o'r termau hynny i'w darparu mewn perthynas â hysbysiadau prynu a hysbysiadau malltod;**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

#### **DARPARIAETHAU AMRYWIOL**

18.158 Mae adran 314 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi cyngor sir i gyfarwyddo bod modd trin rhai o'r treuliau sydd ganddo fel rhai a grewyd mewn perthynas â darn yn unig o'i ardal, fel bod modd eu hadlewyrchu'n briodol yn y galwadau treth gyngor yng ngwahanol rannau'r sir. O ystyried bod system unedol o lywodraeth leol yng Nghymru, mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth hon yn ddiangen.

18.159 Mae adran 335 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud â'r berthynas rhwng y cynllun modern o reolaeth cynllunio a deddfwriaeth gynllunio oedd mewn grym ar amser neu oddeutu amser pasio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947. Mae'n ymddangos ei fod yn ddarfodedig.

18.160 Mae Rhannau 1 a 2 Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud ag adrannau 314 a 315 y Ddeddf; mae Rhan 3 yn ymwneud ag adran 315 a 318; a Rhan 6 ag adran 318. O ystyried ein cwestiynau ymgynghori yn gynharach yn y Bennod<sup>108</sup>, rydym yn ystyried dros dro bod yr Atodlen yn ddiangen.

<sup>108</sup> Gweler paragraffau **18.48 i 18.49** (DCGTH 1990, a 318 eiddo eglwysig), **paragraffau 18.70 - 18.73** (a 315) rheoliadau mwynau) a **para 18.159** (a 314 - treuliau cyngor sir).

**Cwestiwn ymgynghori 18-18.**

**Cynigiwn dros dro na ddylid cynnwys y Côd Cynllunio, y darpariaethau a ganlyn, am eu bod yn ymddangos yn ddarfodedig neu'n ddiangen:**

**(1) adran 314 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dosrannu treuliau gan gynghorau sir);**

**(2) adran 335 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y berthynas rhwng deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth arall oedd mewn grym yn 1947); ac**

**(3) Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau'r Ddeddf wedi eu defnyddio neu eu haddasu gan amrywiol ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf).**

**Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?**

# Cwestiynau Ymgynghori

## PENNOD 5. DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

### Cwestiwn ymgynghori 5-1.

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n nodi bod unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod:

- (1) yn gorfod ystyried y cynllun datblygu, cyn belled ag y bo'n berthnasol i ymarferiad y swyddogaeth honno; a
- (2) rhaid gweithredu'r swyddogaeth honno yn unol â'r cynllun heblaw bod ystyriaethau perthnasol yn arwyddo fel arall.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 5-2.

Rydym yn barnu dros dro;

- (a) y byddai ceisio diffinio ystyriaethau perthnasol yn y Cod Cynllunio'n achosi cymaint o broblemau ag y byddai'n eu datrys; ac
- (b) y byddai'r term Saesneg "relevant considerations" yn fwy priodol na "material considerations"

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 5-3.

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n golygu bod corff cyhoeddus sy'n gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod yn gorfod ystyried unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 5-4.

Rydym yn cynnig dros dro y dylai darpariaeth neu ddarpariaethau gael eu cynnwys , gan olygu bod:

- (1) corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth statudol yn gorfod ystyried beth fyddai mantais cadw neu ychwanegu at asedau hanesyddol, eu lleoliad, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbening sydd ganddynt; ac
- (2) mae'n rhaid i gorff sy'n gwneud swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio a'r Cod Amgylchedd Hanesyddol roi ystyriaeth arbennig i'r materion hynny;

a bod "asedau hanesyddol" yn cael eu diffinio i gynnwys safleoedd treftadaeth, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, ac

unrhyw gategoriâu eraill o dir y gallai Gweinidogion Cymru eu rhagnodi. Ydy'r ymgynghorion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 5-5.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n nodi hyn:

- (1) bod yr ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus eu hystyried (yn unol â Chwestiwn ymgynghori 5-3) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, yn cynnwys yr effaith debygol, os oes effaith o gwbl, o arfer y swyddogaeth honno ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg, cyn belled ag y bo'n berthnasol i weithrediad y swyddogaeth honno; a'r
- (2) ddyletswydd i ystyried yr effaith ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yw i beidio effeithio ar y canlynol:
  - p'un a oes rhaid ystyried unrhyw ystyriaeth arall wrth weithredu'r swyddogaeth honno neu
  - y pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth weithredu'r swyddogaeth honno.

Ydy'r ymgynghorion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 5-6.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, sy'n nodi hyn:

- (1) mae'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus eu hystyried (yn unol â Chwestiwn ymgynghori 5-4) wrth weithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, yn cynnwys polisiâu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnydd a datblygiad tir, cyn belled â'u bod yn berthnasol i weithrediad y swyddogaeth honno; a
- (2) nid yw'r ddyletswydd i ystyried polisiâu Llywodraeth Cymru i effeithio ar hyn:
  - p'un a ddylid ystyried unrhyw ystyriaeth arall ai peidio wrth weithredu'r swyddogaeth honno, neu
  - y pwysigrwydd sydd i gael ei roi i unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth weithredu'r swyddogaeth honno.

Ydy'r ymgynghorion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 5-7.**

Rydym yn ystyried dros dro nad yw'n hanfodol i'r Bil gynnwys darpariaeth, cyfwerth ag adran 2 DC(C) 2015, i'r perwyl bod unrhyw gorff cyhoeddus sydd yn gweithredu rhai o'r gweithrediadau gan y Cod yn gorfod gwneud hynny fel rhan o'i ddyletswydd dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2105 i gyflawni datblygiad cynaliadwy.

Ydy'r ymgynghorion yn cytuno?



### **Cwestiwn ymgynghori 5-8.**

Rydym yn cynnig dros dro bod cyfres o ddarpariaethau arwyddo at ddyletswyddau mewn deddfwriaeth nad yw'n deddfwriaeth gynllunio a allai fod yn berthnasol i weithrediad swyddogaethau o dan y Cod yn cael eu cynnwys mewn canllawiau Gweinidogaethol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 5-9.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid addasu adran 53 Deddf y Diwydiant Glo 1994 (dyletswyddau amgylcheddol mewn cysylltiad â chynllunio) fel nad yw'n gymwys bellach yng Nghymru.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 5-10.**

Yng nghyd-destun y cynigion blaenorol yn y Bennod hon, rydym yn cynnig dros dro nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth yn egluro pwrpas y system gynllunio yng Nghymru.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 5-11.**

Rydym yn ystyried dros dro y dylid cyfeirio yn y Cod Cynllunio at y bobl a benodir gan Weinidogion Cymru i bwrpas penderfynu apeliadau, gwneud ymholiadau a swyddogaethau tebyg eraill fel "arolygwyr" neu "archwilwyr", ond yn y naill achos a'r llall, mewn ffordd a fydd yn dangos yn glir nad ydy hyn yn atal Gweinidogion Cymru rhag penodi ar gyfer pwrpas arbennig rhywun nad ydyw'n weithiwr cyflogedig i'r Arolygiaeth Gynllunio.

A ydy'r ymgynghoreion yn cytuno, ac os felly pa derm mae'r ymgynghoreion yn meddwl sydd fwyaf addas?

### **Cwestiwn ymgynghori 5-12.**

Rydym yn cynnig dros dro nad yw'r Bil yn cynnwys y darpariaethau sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd i alluogi i awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu ar dai gael eu dynodi'n awdurdodau cynllunio.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 5-13.**

Credwn y dylid defnyddio'r term "awdurdod cynllunio" yn y Cod Cynllunio yn lle'r termau "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau" yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## **PENNOD 6. CREU'R CYNLLUN DATBLYGU**

### **Cwestiwn ymgynghori 6-1.**

Rydym yn ystyried, fel mesur dros dro, bod Rhan 6 DCPHG 2004 (cynlluniau datblygu), fel y'u newidwyd yn DCC 2015, yn cael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio, yn amodol ar unrhyw drefniadau trosiannol angenrheidiol perthnasol i Gynllun Gofodol Cymru a'r cynigion yng ngweddill y Bennod.

Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 6-2.**

Rydym yn cynnig, fel mesur dros dro:

- (1) nad yw'r darpariaethau cyfredol yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 yn cael eu hailddatgan yn y Bil;
- (2) rhoddir ystyriaeth ymhen amser i:
  - gynnwys darpariaethau cyfwerth o ran arweiniad; a
  - wneud diwygiadau priodol i'r Rheoliadau Adeiladu.

Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 6-3.**

Wrth ystyried bodolaeth dyletswyddau i gyflawni arfarniadau cynaliadwyedd y FfDC a chynlluniau strategol a datblygu lleol, sydd yn bodoli ar hyn o bryd dan Rhan 6 DCPHG 2004,

- (1) a oes gofyn parhaus i gyflawni arfarniad ar wahân ynglŷn â'u heffaith amgylcheddol, yn ôl angen gyfedol Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004?
- (2) a yw Rheoliadau 2004 yn dal yn ofynnol mewn perthynas â rhaglenni a chynlluniau heblaw am y FfDC a'r cynlluniau datblygu? Neu
- (3) oes angen i Rheoliadau 2004 gael eu diwygio neu symleiddio mewn unrhyw ffordd?

#### **Cwestiwn ymgynghori 6-4.**

Rydym yn cynnig felly, dros dro, na ddylai rhan 114 DCPHG 2004 (cyfrifoldeb am y weithdrefn mewn ymchwiliadau cynllunio lleol) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio.

Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 6-5.**

Ystyriwn ni y dylai Pennod 2 Rhan 6 DCGTh 1990 (hysbysiadau malltod) ac Atodiad 13 i'r Ddeddf gael eu haildarodd yn y Bil Cynllunio yn fras yn eu ffurf bresennol.

Ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

### **PENNOD 7. ANGEN AM GAIS CYNLLUNIO**

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-1.**

Rydym yn cynnig dros dro nad yw pwerau Gweinidogion Cymru i dynnu rhai categorïau o ddymchweliad o gwmpas y datblygiad, ar gael ar hyn o bryd yn DCGTh 1990, adran 55(4)(g), yn cael eu hailddatgan yn y Bil newydd, ond bod modd cyflawni'r un canlyniad drwy ddefnyddio GDCG (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-2.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid egluro bod maint y gweithrediadau adeiladu bychan nad ydynt wedi eu gadael allan o'r diffiniad o ddatblygu gan DCGTh 1990, rhan 55(2)(a), sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr amod i ran 55(2)(a) ac yn rhan 55(2A) a (2B), gydag un ddarpariaeth i'r perwyl bod datblygiad yn golygu gwneud unrhyw waith i gynyddu arwynebedd llawr yr adeilad, p'un ai ei fod o dan ddaear neu fel arall.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-3.**

Byddai'n bosibl ymgorffori diffiniad o "gweithrediadau peirianneg" yn y Bil, i'r perwyl eu bod yn weithrediadau sydd fel arfer dan oruchwyliaeth rhywun sy'n gweithio fel peiriannydd, yn cynnwys:

- (1) ffurfio neu osod allan dull o gael mynediad i briffordd; a
- (2) gosod neu gydosod unrhyw danc mewn unrhyw ran o unrhyw ddyfroedd mewndirol gyda'r pwrpas o ffermio pysgod yno.

Rydym yn gwahodd barn ymgynghoreion.

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-4.**

Rydym yn cynnig dros dros y dylai fod darpariaeth amlwg ynglŷn â chymeradwyo rheoliadau dosbarthiadau defnydd yn ôl y weithdrefn penderfyniad negyddol. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-5.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid egluro rhan 55(3)(a) trwy ddarparu bod y defnydd fel un annedd neu fwy o unrhyw adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel nifer o anheddau i'w gweld yn gynnwys newid materol yn defnydd yr adeilad a phob rhan ohono a ddefnyddir. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-6.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai rhan 55(2)(d) i (f) DCGTh gael ei hesbonio ymhellach drwy ddarparu y dylai'r newidiadau defnydd canlynol gael eu hystyried at ddibenion y Ddeddf hon i beidio â chynnwys datblygiad y tir:

- (1) y newid defnydd o dir o fewn cwrtil yr annedd i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben yn achlysurol er mwynhad yr annedd ei hunan;
- (2) y newid defnydd o unrhyw dir i'w ddefnyddio at dibenion amaethyddol neu goedwigo (gan gynnwys coedwigiad) a'r newid defnydd ar gyfer y dibenion hynny o unrhyw adeilad cyfannedd ynghyd â'r tir a ddefnyddir;
- (3) yn achos adeiladau neu dir arall a ddefnyddir ar gyfer defnydd o fewn unrhyw ddosbarth a bennwyd mewn gorchymyn a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, y newid defnydd o unrhyw ran o'r adeiladau neu'r tir arall, o'r defnydd hwnnw i unrhyw ddefnydd arall o fewn yr un dosbarth.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-7.**

Rydym yn cynnig dros dro nad yw rhan 58 DCGTh 1990 (ffyrdd o gael caniatâd cynllunio) yn cael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd yn ei ffurf presennol. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-8.**

Rydym yn cynnig dros dro nad yw rhan 61 DCGTh 1990 (yn bennaf yn perthyn i berthnasedd deddfwriaeth cyn-1947) yn cael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 7-9.**

Rydym yn cynnig dros dro na ddylai rhannau 88 a 89 DCGTh (caniatâd cynllunio a roir gan gynllun ardal fenter) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 7-10.**

Rydym yn cynnig dros dro na ddylai rhannau 82 i 87 Atodiad 7 DCGTh (parthau cynllunio syml) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 7-11.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r darpariaethau yn gysylltiedig â therfynau amser a thystysgrifau cyfreithlondeb, a gynhwysir ar hyn o bryd yn DCGTh 1990, adrannau 171B a 191 i 196, gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio newydd ochr yn ochr â darpariaethau eraill ynglŷn â'r angen am ganiatâd cynllunio. Dylid eu drafftio ar linellau DCGTh 1990, adran 64(1) (gan gynnwys cyfeiriad at yr angen i gyflwyno cais cynllunio, yng ngoleuni gorchmynion datblygu cyffredinol a lleol, ond nid i gynlluniau parth menter neu barthau cynllunio syml). Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 7-12.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys darpariaeth i'r perwyl bod:

(1) cais am ganiatâd cynllunio am weithrediad neu newid defnydd yn cael ei gymryd yn ganiataol i gynnwys cais am dystysgrif cyfreithlondeb o ddefnydd neu ddatblygiad arfaethedig (TCDAD) mewn perthynas â'r gweithrediad neu newid defnydd; a

(2) tybir bod cais am ganiatâd cynllunio i gadw gweithrediad neu newid defnydd a wnaethpwyd eisoes heb ganiatâd yn cynnwys cais am dystysgrif cyfreithlondeb o ddefnydd neu ddatblygiad cyfredol (TCDPD) mewn perthynas â'r gweithrediad neu newid defnydd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 8. CEISIADAU I'R AWDURDOD CYNLLUNIO**

### **Cwestiwn ymgynghori 8-1.**

Rydym yn ystyried dros dro y gellid symleiddio'r gyfraith yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, trwy:

- (1) gael gwared ar ganiatâd cynllunio amlinellol;
- (2) olygu bod angen i bob cais am ganiatâd cynllunio - boed yn ddatblygiad arfaethedig, un sydd ar y gweill neu un sydd wedi cwblhau - yn dod gyda chynlluniau, dyluniadau a gwybodaeth ddigonol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig;
- (3) galluogi'r eitemau wedi eu hatodi i geisiadau - gan gynnwys materion i'w rhagnodi mewn rheoliadau, i gynnwys (i'r graddau y mae'n berthnasol) manylion
  - lleoliad bras adeiladau, llwybrau a mannau agored arfaethedig,
  - uchafswm ac isafswm uchder, lled a hyd pob adeilad a gynigir, a'r
  - ardal neu ardaloedd ble fydd pwyntiau mynediad wedi'u lleoli;

- (4) bod ymgeisydd yn gallu gwahodd yr awdurdod cynllunio i roi caniatâd yn seiliedig ar amodau a gedwir yn ôl am gymeradwyaeth ddilynol i un mater neu fwy nad sydd wedi'u hesbonio'n ddigonol yn y cais
- bod awdurdod yn gallu (os caiff ei wahodd i wneud hyn neu beidio) rhoi caniatâd yn destun amodau o'r fath; a
  - bod awdurdod yn gallu rhoi gwybod i'r ymgeisydd ei bod yn methu â gwneud penderfyniad ar gais heb dderbyn manylion ychwanegol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-2.**

Cynigwn dros dro nad yw adran 327A TCPA 1990 - gan gymryd bod awdurdodau cynllunio ddim yn ystyried ceisiadau nad ydynt yn cyd-fynd â gofynion gweithdrefnol - yn cael ei hailddatgan yn y Bil newydd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-3.**

Cynigwn dros dro y dylid peidio cynnwys adran 65(5) TCPA 1990 yn y Bil newydd - gan gymryd na fydd awdurdodau cynllunio yn ystyried ceisiadau a gyflwynir heb dystysgrifau perchnogaeth. Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-4.**

Rydym yn cynnig dros dro bod y gofynion yn adran 65(2) TCPA 1990 a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed dan y ddarpariaeth honno ynghylch

(1) hysbyu tenantiaid amaethyddol am geisiadau cynllunio a

(2) hysbysu am geisiadau mwynau

yn cael eu hegluro, er mwyn sicrhau eu bod ond yn cael eu dwyn i sylw ymgeiswyr mewn achosion perthnasol. Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-5.**

Cynigwn dros dro bod adran 70A TCPA 1990 (pŵer i wrthod ceisiadau tebyg) yn cael ei ailddatgan yn y Bil Cynllunio fel y saif yn dilyn diwygiadau gan DCPG 2004, Deddf Gynllunio 2008 a DC(C) 2015. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-6.**

Cynigwn dros dro na ddylai adran 70B o'r TCPA (gyda'r nod o annog ymgeiswyr i beidio ag olrhain ar y cyd, neu eu hatal rhag wneud hynny) gael ei ailddatgan yn y Bil Cynllunio. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-7.**

Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n ddefnyddiol cynnwys darpariaeth yn y Bil yn gofyn bod pob awdurdod cynllunio yn darparu datganiad yn nodi'r sawl o fewn y gymuned y bydd yn ceisio eu cynnwys wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-8.**

Cynigwn dros dro y dylai DMP(W)O 2012 gael ei ddiwygio i esbonio bod cynrychiolaethau am gais cynllunio a dderbynnir ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori 21-niwrnod ond cyn dyddiad y penderfyniad yn cael eu hystyried os yn bosib, ond bod dim angen oedi'r ystyriaeth o'r cais. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-9.**

Ystyriwn dros dro y dylid lleihau'r gwahaniaeth rhwng amodau a chyfyngiadau ynghlwm wrth ganiatadau cynllunio, naill ai:

- (1) trwy ddiffinio'r term "amod" er mwyn cynnwys "cyfyngiad" , neu
- (2) trwy ei gwneud yn glir bod caniatâd cynllunio a roddir mewn ymateb i gais neu apêl (yn hytrach na chaniatâd a roddir i orchymyn datblygu, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) yn gallu cael ei roi yn amodol ar gyfyngiadau neu amodau.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-10.**

Cynigwn dros dro y dylai'r darpariaethau yn TCPA 1990 o ran gosod amodau gael eu disodli yn y Bil gyda phŵer cyffredinol i awdurdodau cynllunio osod amodau neu gyfyngiadau o'r fath, os ydynt o'r farn eu bod yn addas, gan gymryd eu bod:

- (1) yn hanfodol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio,
- (2) yn berthnasol i'r datblygiad ac i ystyriaethau cynllunio yn gyffredinol,
- (3) yn ddigon manwl gywir i allu cydymffurfio â hwy a'u rhoi ar waith, ac
- (4) yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-11.**

Yn ogystal â'r grym cyffredinol i osod amodau a chyfyngiadau, byddai'n bosibl gwneud grymoedd yn glir yn y Cod i osod mathau penodol o amodau a chyfyngiadau, a ystyrir yng nghwestiynau ymgynghori 8 - 11, 8-14 a 8-16.

Ydy'r ymgynghoreion yn ystyried y dylai'r grymoedd i osod yr holl neu unrhyw rai o'r amodau hyn (neu eraill) gael sail statudol - naill ai yn y Bil neu mewn rheoliadau - neu a ddylid eu hymgorffori mewn canllawiau gan y Llywodraeth ar y defnydd o'r amodau?

### Cwestiwn ymgynghori 8-12.

Cynigwn dros dro bod y dylai'r Côt gynnwys darpariaeth yn galluogi gosod amodau i'r perwyl hwn:

- (1) bod y gwaith a gymeradwywyd ddim yn cychwyn tan fod rhyw ddigwyddiad penodol wedi digwydd (amod *Grampian*): neu
- (2) bod y gwaith a gymeradwywyd ddim yn cael eu cwblhau tan:
  - fod cytundeb am ryw ddatblygiad arall wedi cael ei wneud; a
  - bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer y datblygiad y mae'r cytundeb yn darparu ar ei gyfer.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 8-13.

Ystyriwn dros dro y byddai'n ddefnyddiol:

- (1) bod gan awdurdod cynllunio gael pŵer (ond nid dyletswydd) i adnabod o'r cychwyn yr amodau wedi'u hatodi i ganiatâd cynlluniopenodol sy'n "wir gynsail amodol", sy'n mynd i wraidd y caniatâd, fel bod yn rhaid cydymffurfio â hwy cyn gallu dweud bod y caniatâd wedi cael ei roi ar waith yn gyfreithlon (yr ail gategori a nodwyd gan Sullivan J yn *Hart Aggregates v Hartlepool BC*), fel rhai ar wahân i gynseiliau amodol eraill;
- (2) bod gan ymgeisydd yr hawl i ofyn i awdurdod adnabod pa rai o'r amodau sy'n cyd-fynd â chaniatâd penodol sydd wedi cael ei roi sy'n wir gynseiliau amodol; ac
- (3) bod gan ymgeisydd, yn y naill achos a'r llall, hawl i apelio yn erbyn adnabyddiaeth o'r fath, heb roi sylwedd yr amod ei hun yn y fantol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno? A oes unrhyw fodd arall y gellir egluro statws yr amodau cyn-cychwyn?

### Cwestiwn ymgynghori 8-14.

Cynigwn dros dro bod y Bil yn esbonio:

- (1) bod rhaid cychwyn y datblygiad erbyn y dyddiad a nodir mewn unrhyw amod perthnasol;
- (2) bod rhaid i unrhyw gyfnodau gychwyn erbyn y dyddiad a nodir mewn unrhyw amod sy'n berthnasol i'r cyfnod hwnnw; ac
- (3) yn absenoldeb unrhyw amod o'r fath, bod rhaid cychwyn y datblygiad o fewn pum mlynedd o roi caniatâd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?



### **Cwestiwn ymgynghori 8-15.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil, neu reoliadau dan y Bil, alluogi gosod amodau i'r perwyl y dylid rheoleiddio datblygiad neu ddefnydd tir dan reolaeth yr ymgeisydd (p'un ai bod y tir yn dir y mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar ei gyfer ai peidio) er mwyn sicrhau bod y datblygiad a gymeradwywyd yn ac yn dal i fod yn dderbyniol. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-16.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil, neu'r rheoliadau dan y Bil, alluogi gosod amodau i'r perwyl ble mae caniatâd wedi cael ei roi am gyfnod cyfyngedig, bod yr adeiladau neu waith a gymeradwywyd gan y caniatâd yn cael ei dynnu, neu bod y defnydd awdurdodedig yn cael ei ddileu ar ddiwedd y cyfnod, a bod gwaith yn cael ei gynnal ar yr adeg honno er mwyn adfer y tir. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-17.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 72(3) TCPA 1990 (o ran amodau amser-gyfyngedig) gael ei chadw yn y Côd, ond yn cael ei drafftio i egluro ei bod yn berthnasol mewn achos o

- (1) ganiatadau amser-gyfyngedig a gyhoeddwyd o dan yr hyn a elwir nawr yn adran 72(1)(a), a
- (2) mathau penodol o ganiatadau amser-gyfyngedig a gyhoeddwyd rhwng 29 Awst 1960 a 31 Rhagfyr 1968.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-18.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil, neu'r rheoliadau dan y Bil, alluogi gosod amodau i'r perwyl hwn:

- (1) bod nodweddion penodol yr adeilad neu'r tir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef yn cael ei gadw, naill ai fel rhan ohono neu ar ôl eu torri i ffwrdd ohono;
- (2) bod unrhyw ddifrod i'r adeilad neu dir gan y gwaith a awdurdodwyd yn cael ei wneud yn iawn ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw; neu
- (3) bod yr adeilad cyfan neu'r tir cyfan neu ranohono yn cael ei adfer yn dilyn cwblhau'r gwaith a awdurdodwyd, gan ddefnyddio deunyddiau gwreiddiol cyhyd ag y bo hynny yn ymarferol, gydga unrhyw addasiadau sydd wedi'u nodi.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-19.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r Bil egluro'r gyfraith a gweithdrefnau cyfredol o ran cymeradwyo manylion a geisir gan amod i ganiatâd cynllunio, boed yn un a osodir ar gais ymgeisydd (mewn perthynas â diffyg manylion digonol yn y cais) neu'n un a symbylir gan yr awdurdod ei hun. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-20.**

Cynigwn dros dro bod awdurdod cynllunio, mewn achosion priodol, yn gallu gwrthod gwneud penderfyniad ar gais i gymeradwyo un mater manwl heb gael y manylion ar fater penodol arall ar yr un pryd. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-21.**

We provisionally propose that the Bill should clarify the existing law and procedures as to the approval of details required by:

- (1) a condition of a permission granted by a development order;
- (2) a requirement imposed by a planning authority following a notification of proposed works in a relevant category of development permitted by a development order.

Do consultees agree?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-22.**

Ystyriwn y gallai fod yn ddefnyddiol cael terfyn amser i'r awdurdod cynllunio ymateb i hysbysiad o gynnig i gynnal datblygiad mewn categori perthnasol (er enghraifft, adeiladau ar gyfer amaethyddiaeth a'r goedwigaeth), sy'n golygu bod ymgeisydd yn gallu parhau os nad oes ymateb wedi dod i'r hysbysiad. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-23.**

Ystyriwn dros dro y gallai fod yn ddefnyddiol dod â'r gweithdrefnau i geisio addasiadau i ganiatâd cynllunio ynghyd, sydd ar hyn o bryd dan adran 73 a 96A TCPA 1990, i mewn i un weithdrefn am wneud cais am unrhyw amrywiad o ganiatâd - boed yn un mân neu fawr - a

bod yr awdurdod cynllunio yn gallu mynd i'r afael â hyn mewn modd addas, yn dilyn ei asesiad o fateroldeb yr addasiad arfaethedig.

Rydym yn rhagweld y byddai'r awdurdod yn medrau dewis caniatáu naill ai:

(1) y cynnig gwreiddiol a fersiwn ddiwygiedig, gyda'r ymgeisydd yn medru gweithredu'r naill neu'r llall; neu

(2) y fersiwn ddiwygiedig yn unig, a fyddai felly yn disodli'r gwreiddiol.

Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-24.**

Cynigwn dros dro y dylai'r Côt Cynllunio ymestyn cwmpas adran 96A (cymeradwyo mân addasiadau) i gynnwys cymeradwyo manylion.

Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-25.**

Cynigwn dros dro y dylai fod gallu ar gael i hwyluso'r weithdrefn wrth wneud penderfyniad ar gais i amrywio caniatâd ble mae'r datblygiad cymeradwy eisoes ar waith. Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-26.**

Cynigwn dros dro y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau i wneud y canlynol:

- (1) gwneud rheoliadau yn ei wneud yn ofynnol eu bod yn cael eu hysbysu am geisiadau mewn categori penodol, a
- (2) gwneud cyfarwyddyd yn ei wneud yn ofynnol bod cais o'r fath yn cael ei hysbysu yn yr un modd,

er mwyn iddynt allu penderfynu a ydynt am ei alw i mewn i wneud penderfyniad. Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 8-27.**

Cynigwn dros dro, ble mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu galw i mewn cais am ganiatâd cynllunio, mai nhw (yn hytrach na'r awdurdod cynllunio, fel sy'n digwydd nawr) ddylai fod yn gyfrifol am hysbysu'r ymgeisydd. Ydy'r ymgynghoriad yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-28.**

Ystyriwn dros dro na ddylai'r darpariaethau canlynol sydd ar hyn o bryd yn Neddf TCPA 1990 gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio, ond bod darpariaethau cyfwerth yn cael eu cynnwys yn y DMP(W) 2012 os tybir bod hyn yn hanfodol:-

- (1) adran 71(3) (ymgynghoriad ynghylch safleoedd carafanau); ac
- (2) adran 71ZB (hysbysu datblygiad cyn iddo ddechrau, ac arddangos caniatâd tra bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 8-29.**

Cynigwn dros dro nad yw'r ddarpariaeth ganlynol sydd ar hyn o bryd yn TCPA 1990, sydd yn ymddangos yn ddiangen (o leiaf mewn perthynas â Chymru) yn cael ei hailddatgan yn y Bil:

- (1) adran 56(1) (yn cyfeirio at gychwyn datblygiad);
- (2) yn adran 70(3), y cyfeiriad at Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1976 (ceisiadau ar gyfer ysbytai preifat);
- (3) adran 74(1)(b) TCPA 1990 ( i ddarparu ar gyfer rhoi caniatâd i gynigion nad ydynt yn unol â'r cynllun datblygu);
- (4) adran 74(1A) (ceisiadau cynllunio sydd yn cael eu trafod gan wahanol fathau o awdurdod cynllunio);
- (5) adran 76 (dyletswydd i dynnu sylw at rai darpariaethau er budd pobl anabl); ac
- (6) adran 322 (grym Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y dylid trin ceisiadau cynllunio fel ceisiadau dan ddeddfwriaeth arall hefyd).

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 9. CEISIADAU I WEINIDOGION CYMRU**

### **Cwestiwn ymgynghori 9-1.**

Ystyriwn dros dro y dylai adrannau 62M i 62O TCPA 1990, yn galluogi cais cynllunio i gael ei wneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ardaloedd awdurdod cynllunio sy'n tanberfformio, gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol i adlewyrchu'n cynigion ym Mhenodau 7 ac 8.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 9-2.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r gyfraith sydd yn berthnasol i ymgynghoriad a gwasanaethau cyn y cais cysylltiedig â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gael ei hadolygu a, ble bo hynny'n briodol, ei hegluro. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 9-3.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i helpu arolygwyr i benderfynu ar gesiadau am DNS sy'n destun gwrandawriadau neu ymchwiliadau gael ei ymestyn i ganiatáu iddynt gael eu penodi mewn cysylltiad â cheisiadau a benderfynir ar sail sylwadau ysgrifenedig. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 9-4.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai adrannau 62D i 62L o TCPA 1990 gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodoli adlewyrchu'n cynigion ym Mhenodau 7 ac 8. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 9-5.**

Rydym yn cynnig dros dro na ddylai adran 101 o TCPA 1990 ac Atodlen 8 iddi (comisiynau ymchwiliadau cynllunio) gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 10. DARPARU SEILWAITH A GWELLIANNAU ERAILL**

### **Cwestiwn ymgynghori 10-1.**

Rydym yn ystyried dros dro y dylai'r darpariaethau statudol yn gysylltiedig ag ASC, sydd ar hyn o bryd yn Rhan 11 Deddf Gynllunio 2008 fel a newidwyd yn Neddf Lleoliaeth 2011, yn cael eu cyfuno yn gyffredinol fel y maent yn sefyll â'r Cod Cynllunio, tra'n disgwyl am adolygiad mwy manwl posib a allai ddigwydd ymhen amser.

A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 10-2.**

Rydym yn cynnig dros dro bod darpariaethau yn gysylltiedig ag ymrwymadau cynllunio, ar hyn o bryd yn adrannau 106 i 106B DCGTh 1990, yn cael eu cyfuno yn gyffredinol fel y maent â'r Cōd Cynllunio, tra'n disgwyl am adolygiad mwy manwl posib a allai ddigwydd ymhen amser.

### **Cwestiwn ymgynghori 10-3.**

Rydym yn ystyried dros dro y dylai rheolau ynglŷn â defnyddio ymrwymadau cynllunio, yn rheoliad 122 Rheoliadau ASC yn gyffredol, gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio newydd. A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-4.**

Rydym yn ystyried dros dro efallai byddai o gymorth i gynnwys darpariaeth yn y Bil lle gallai cytundeb cynllunio o dan beth sydd nawr yn adran 106 DCGTh 1990 – ond nid yn fenter unochrog – gynnwys unrhyw ddarpariaeth a allai gael ei chynnwys mewn cytundeb o dan adran 278 Deddf y Priffyrdd 1980 (cyflawniad o waith priffyrdd), oni bai bod yr awdurdod priffyrdd wedi arwyddo'r cytundeb hwnnw. A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-5.**

Rydym yn ystyried dros dro y byddai'n fuddiol bod y gorfodi o ymrwymiad cynllunio o dan adran 106 DCGTh 1990 yn fwy syml trwy gynnwys tor ymrwymiad o'r fath o fewn y diffiniad o tor-rheolaeth gynllunio. Rydym yn gwahodd barn ymgynghoreion, yn cynnwys ymarferoldeb cynnig o'r fath.

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-6.**

Mae Adran 106(12) yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i ddarparu rheoliadau ar gyfer tor-ymrwymiad i dalu swm o arian yn arwain at osod tâl ar gyfer y tir, gan hwyluso casglu tâl gan berchnogion dilynol.

Nid oes rheoliadau o'r fath wedi cael eu gwneud; ydy absenoldeb y rheoliadau yn achosi problem yn ymarferol?

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-7.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r defnydd o gymalau safonol gael eu hyrwyddo yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-8.**

Rydym yn ystyried dros dro y gallai cyflwyno gweithdrefn i ddatrys anghydfod yn unol â thermau cytundeb adran 106 yng Nghymru (yar linellau Atodiad 9A DCGTh 1990, sydd i'w chyflwyno yn Lloegr yn adran 158 Deddf Tai a Chynllunio 2016) fod o ddefnydd.

A ydyw ymgynghoreion yn cytuno mewn egwyddor, a beth ddylai nodweddion gweithdrefn o'r fath fod?

#### **Cwestiwn ymgynghori 10-9.**

Rydym yn ystyried dros dro bod cyflwyno gweithdrefn i Weinidogion Cymru osod cyfyngiadau neu amodau ar y gorfodadwyedd o ymrwymadau cynllunio fel y maent yn gysylltiedig â chategoriâu penodol o fanteision i'w darparu (ar linellau adran 106ZB DCGTh 1990, a gyflwynwyd gan adran 159 Deddf 2016 ynglŷn ag ymrwymadau fel y maent yn gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy) o ddefnydd, efallai.

A ydyw ymgynghoreion yn cytuno mewn egwyddor, ac os felly pa gategoriâu o fanteision allai fod yn agored i weithdrefn o'r fath?

### **Cwestiwn ymgynghori 10-10.**

Rydym yn awgrymu dros dro y dylai awdurdodau cynllunio fedru llunio ymrwymadau cynllunio i rwymo eu tir eu hunain mewn achosion priodol.

A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 10-11.**

Rydym yn ystyried dros dro y dylai person sydd yn ystyried llunio cytundeb i brynu tir fedru llunio ymrwymiad cynllunio er mwyn rhwymo'r tir hwnnw, a fyddai'n dod i effaith os, a phryd y mae'r budd perthnasol yn cael ei gaffael gan y person hwnnw.

A ydyw ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 11. APELIADAU A DARPARIAETHAU ATEGOL ERAILL**

### **Cwestiwn ymgynghori 11-1.**

Rydym ni'n cynnig dros dro y dylai'r ddarpariaeth, ar hyn o bryd yn adran 79(1) DCGTH 1990, sy'n ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru o ran apeladau gael ei diwygio er mwyn nodi'n glir ei bod hi'n ofynnol iddynt ystyried y cais o'r newydd – yn hytrach na bod â phŵer i wneud hynny, fel ar hyn o bryd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 11-2.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil nodi'n glir y penderfynir ar bob apêl (gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud â chynigion datblygiad gan ymgymerydd statudol) gan arolygwyr neu archwilwyr, heblaw am

- (1) y rhai hynny mewn categorïau sydd wedi'u rhagnodi i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru; a'r
- (2) rhai hynny sydd wedi'u hadfer yn benodol ganddynt (mewn cyfarwyddiadau achos-penodol) er mwyn iddynt ddod i benderfyniad arnynt.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 11-3.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr i benderfynu ar apelau sy'n destun ymholiadau neu wrandawiadau:

- (1) gael ei ehangu fel bod modd i arolygwyr ei arfer yn ogystal â Gweinidogion Cymru; a
- (2) chael ei ehangu i alluogi aseswyr i gael eu defnyddio mewn cysylltiad â cheisiadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-4.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r newidiadau a gynigwyd yn yng nghwestiynau ymgynghori 11-1 i 11-3 fod yr un mor berthnasol i:

- (1) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi;
- (2) apeliadau yn ymwneud â thrafodaethau ynglŷn â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth, cydsyniad datganedig i arddangos hysbysebion, a chaniatâd i wneud gwaith i goed gwarchoddedig; ac
- (3) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi yn ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, rhybuddion dirwyn i ben o ran hysbysebion, hysbysiadau ailosod coed, a hysbysiadau yn ymwneud â thir hyll.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-5.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r ddeddfwriaeth nodi, mewn achos lle y bu apêl i Weinidogion Cymru, mai amser cychwyn y cyfnod y gellir cyflwyno hysbysiad prynu yw dyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-6.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil Cynllunio egluro na chaiff hysbysiad prynu ei ddiwygio, ond y dylid ystyried bod ail hysbysiad neu hysbysiad dilynol a gyflwynir mewn cysylltiad â phenderfyniad unigol yn disodli unrhyw hysbysiad cynharach o'r fath.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-7.**

Rydym yn ystyried dros dro na fyddai'n briodol dwyn ynghyd y pwerau sydd ar hyn o bryd yn adran 247, 248, 253 i 257 DCGTh 1990 (yn ymwneud â phriffyrdd yr effeithir arnynt gan waith datblygu) a'r rhai hynny yn adran 116, 118 a 119 Deddf Priffyrdd 1980.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 11-8.**

Rydym yn cynnig dros dro na chaiff adrannau 249 a 250 DCGTH 1990 (yn ymwneud â gorchmynion sy'n diddymu'r hawl i ddefnyddio cerbydau ar briffordd, yn unol â chynnig i wella amwynder ardal) eu hailddatgan yn y Bil, yn wyneb y darpariaethau cyfochrog yn adran 1 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.



Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 11-9.**

Rydym yn cynnig dros dro y caiff y penderfyniadau yn ymwneud â gorchmynion o dan adran 252 DCGTH 1990 eu gwneud yn gyffredinol gan arolygwyr yn hytrach na Gweinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i bŵer iddynt wneud cyfarwyddyd i adfer achos penodol iddynt ddod i benderfyniad arno.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

## **CHAPTER 12. DATBLYGIAD ANAWDURDODEDIG**

### **Cwestiwn ymgynghori 12-1.**

Ystyriwn dros dro y medrai'r darpariaethau cyfredol yn adran 171C a 330 DCGTH 1990 gael eu cyfuno mewn un pŵer er mwyn i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio gyflwyno "hysbysiad gwybodaeth gynllunio" ar berchennog a meddiannwr tir neu unrhyw berson sy'n cynnal gweithrediadau neu weithgareddau eraill ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, gan ofyn i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth ar y canlynol:

- (1) y budd sydd gan derbynnydd yr hysbysiad yn y tir a gan unrhyw berson arall y mae'r derbynnydd yn ymwybodol ohonynt;
- (2) y defnydd neu'r defnyddiau a wnaed o'r tir a pha bryd gychwynnon nhw; a'r
- (3) gweithrediadau a gweithgareddau eraill sydd nawr yn digwydd ar y tir a phryd gychwynnon nhw.

Ble mae'n ymddangos bod toriad o reolaeth gynllunio wedi digwydd, gall hysbysiad o'r fath hefyd:

- (4) ofyn bod y derbynnydd yn darparu gwybodaeth o ran:
  - a yw unrhyw ddefnyddiau neu weithrediadau a nodir yn yr hysbysiad yn cael eu cynnal ar y tir, neu wedi cael eu cynnal ar y tir;
  - unrhyw berson y mae'n hysbys ei bod ei fod yn defnyddio'r tir neu wedi defnyddio'r tir neu gynnal unrhyw weithrediadau ar y tir;
  - unrhyw ganiatâd cynllunio sydd wedi cael ei roi, ac unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n cyd-fynd â'r caniatâd hwnnw; neu
  - unrhyw resymau pam nad oes angen caniatâd ar gyfer unrhyw ddefnydd neu weithrediad penodol; ac
- (5) i ofyn am gyfarfod ble mae'r derbynnydd yn gallu trafod y materion a gyfeiriwyd atynt yn yr hysbysiad.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-2.

Cynigwn dros dro y dylai'r cyfyngiad ar gael mynediad i eiddo at ddibenion gorfodi ar ôl rhoi 24 awr o rybudd yn unig, ar hyn o bryd yn adran 196A(4) DCGTh 1990, gael ei egluro er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw eiddo a ddefnyddir fel tŷ.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-3.

Ystyriwn dros dro na ddylai'r gyfraith o ran toriadau cudd o reolaeth gynllunio aros fel y mae, yn destun yr egwyddorion cyfraith gyffredin a ddatblygwyd yn *Cyngor Welwyn Hatfield v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2010] UKSC 15, [2011] 2 AC 304, ac yn benodol, bod y weithdrefn "gorchymyn gorfodi cynllunio", a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gael ei chynnwys yn y Bil. Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-4.

Cynigwn dros dro, naill ai:

- (1) bod modd cyflwyno hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi wneud yn ystod y cyfnod o 4 i 10 mlynedd pan ellir cymryd camau gorfodi, ond bod y weithred o gyflwyno hysbysiad o'r fath ddim yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw; neu
- (2) pan fod hysbysiad rhybudd o gamau gorfodi wedi cael ei gyflwyno, bod y cyfnod i gymryd camau gorfodi eraill yn cychwyn ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno ac os felly, pa opsiwn sy'n ymddangos fwyaf addas?

### Cwestiwn ymgynghori 12-5.

Cynigwn dros dro bod y cyfyngiad ar gyflwyno hysbysiad stop dros dro, ar hyn o bryd yn adran 171F(1)(a) DCGTH 1990, yn cael ei egluro er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i unrhyw annedd (ac yn cael ei diffinio yn y fath fodd i gynnwys tŷ a fflat). Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-6.

Cynigwn dros dro:

- (1) dylai hysbysiad stop dros dro (TSN) ddod i rym ar yr amser a'r dyddiad sydd wedi'u nodi arno, a fydd yn gyffredinol pan gaiff ei arddangos ar y tir dan sylw;
- (2) yna dylai aros mewn grym am 28 diwrnod (gan gychwyn ar ddechrau'r diwrnod yn dilyn i diwrnod y cafodd ei arddangos;
- (3) dylid arddangos yr hysbysiad ar y tir, neu mor agos â phosib i leoliad y gweithgarwch sy'n destun yr hysbysiad:
  - yn nodi bod TSN wedi cael ei gyflwyno;
  - yn crynhoi effaith y TSN, ac

- yn nodi'r cyfeiriad (ac, os yn berthnasol, y wefan) ble gellir gweld copi llawn o'r TSN;

(4) dylai fod gan yr awdurdod bŵer (ond nid dyletswydd) i gyflwyno copïau o'r TSN i berchennog a meddiannwr y tir ac eraill fel sy'n briodol;

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-7.**

Cynigwn dros dro:

- (1) ei bod yn drosedd i dorri hysbysiad stop dros dro sydd wedi dod i rym (yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno ar yr un a gyhuddir neu wedi ei arddangos ar y safle);
- (2) y dylai fod yn amddiffyniad i honiad o'r fath i brofi bod yr un a gyhuddir
  - (1) heb gael ei gyflwyno â chopi o'r hysbysiad; a
  - (2) ddim yn gwybod, neu bod dim disgwyl rhesymol iddo wybod, am bresenoldeb yr hysbysiad.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-8.**

Cynigwn dros dro bod y darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau torri amodau, ar hyn o bryd yn adran 187A DCGTh 1990, yn cael eu diwygio fel bod hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau yn cael eu cyflwyno ar y sawl a amheuir i fod yn gyfrifol am y toriad (yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd nawr, sef bod hysbysiad ar wahân yn cael ei gyflwyno ar bob person, yn dod i rym ar ddyddiad a bennir gan gyfeirio at ddyddiad y gwasanaeth).

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-9.**

Cynigwn dros dro y dylai bod gofyn i hysbysiad gorfodi nodi:

- (1) y camau y mae'r awdurdod yn gofyn sy'n cael eu cymryd, neu'r gweithgareddau sydd i ddod i ben, er mwyn cyflawni, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, un neu ragor o'r dibenion a amlinellir yn adran 173(4) DCGTh 1990; a
- (2) pha un o'r dibenion hynny mae'n ystyried bydd yn cael eu cyflawni trwy gymryd y camau hynny.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-10.

Cynigwn dros dro y dylid cael darpariaeth amlwg yn y Bil yn ymgorffori'r egwyddor yn *Murfitt v Yr Ysgrifennydd Gwladol* ac achosion dilynol, i'r perwyl, pan gyflwynir hysbysiad gorfodi yn honni newid materol i'r defnydd o dir, gall yr hysbysiad ofyn bod gwaith penodol yn cael ei ddad-wneud yn ychwanegol at roi terfyn ar ddefnydd anawdurdodedig, gan gymryd bod y gwaith hynny'n hanfodol i wneud y newid materol i'r defnydd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-11.

Cynigiwn dros dro y dylai'r rheoliadau perthnasol ofyn bod y nodyn esboniadol sy'n cyd-fynd â hysbysiad gorfodi'n cynnwys datganiad (yn unol â'r egwyddor yn *Mansi v Elstree RDC*) i'r perwyl na fod yr hysbysiad yn cyfyngu ar hawliau unrhyw berson i wneud unrhyw ddatblygiad heb gais cynllunio y gallai fod wedi cael ei wneud yn union cyn cyflwyno'r hysbysiad.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-12.

Cynigwn dros dro bod y Bil:

- (1) yn hepgor adran 177(5) a (6) DCGTh 1990, yn ymwneud â'r cais am ganiatâd cynllunio a dybiwyd a wnaed gan apeliwr yn dibynnu ar sail (a) yn adran 174(2) (dylid rhoi caniatâd am unrhyw fater a nodir yn yr hysbysiad gorfodi sy'n gyfwerth â thoriad rheolaeth); ac
- (2) yn darparu yn hytrach bod Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniad ar apêl yn cynnwys sail (a) yn gallu gwneud un o'r canlynol, neu'r cwbl:
  - rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer un o'r materion, neu bob mater, a honnir sy'n gyfwerth â thoriad rheolaeth;
  - gollwng yr amod a honnir y torrwyd; neu
  - gyhoeddi tystysgrif o gyfreithlondeb, cyhyd ag eu bod yn ystyried bod y materion a honnwyd gan yr hysbysiad i fod yn gyfwerth â thoriad rheolaeth mewn gwirionedd yn gyfreithlon.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Cwestiwn ymgynghori 12-13.

Ystyriwn dros dro y dylai sail (e) ar yr hyn y gellir cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (dan adran 174 DCGTh 1990) gyfeirio at gopïau o'r hysbysiad nad oeddent wedi eu cyflwyno yn ôl gofynion adran 172(2) (sydd yn cyfeirio at gyflwyno ar berchnogion a deiliaid ac ati) yn hytrach na bod angen gwneud fel yn adran 172 (sydd hefyd yn cyfeirio at y terfynau amser ar gyfer cyflwyno).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-14.**

Ystyriwn dros dro y dylai adran 174(4) DCGTh 1990 (gofynion o ran y datganiad i'w gyflwyno gydag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) gael ei haddasu er mwyn peidio â dyblygu gofynion yr is-ddeddfwriaeth berthnasol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-15.**

Cynigiwn dros dro bod darpariaeth yn gyfwerth ag adran 285(1) a, (2) yn cael ei chynnwys yn y rhan o'r Côd sy'n mynd i'r afael â gorfodi, i'r perwyl bod dim modd herio hysbysiad gorfodi, oni bai bod hyn yn cael ei wneud trwy apelio i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellir eu defnyddio i gyflwyno apêl o'r fath.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-16.**

Cynigwn dros dro bod y cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop, yn adran 183(4) DCGTh 1990 ar hyn o bryd, yn cael ei egluro i sicrhau ei bod yn berthnasol i unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-17.**

Cynigwn dros dro bod y darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau stop, yn adran 184 DCGTh 1990 ar hyn o bryd, yn cael eu haddasu fel bod hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno ar y sawl yr ymddangosir i fod yn gyfrifol am y toriad rheolaeth (yn hytrach na'r drefn gyfredol gyda hysbysiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i bob person o'r fath, yn dod i rym ar ddyddiad a nodir trwy gyfeirio at ddyddiad y gwasanaeth).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 12-18.**

Cynigwn dros dro:

- (1) ei bod yn drosedd i dorri hysbysiad stop sydd wedi dod i rym; ac
- (2) ei bod yn drosedd i gyhuddo o drosedd o'r fath o brofi bod yr un a gyhuddir
  - (a) heb gael ei gyflwyno â chopi o'r hysbysiad stop, a
  - (b) ddim yn gwybod am bresenoldeb yr hysbysiad, a bod dim disgwyl rhesymol iddo fod wedi gallu gwybod.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-19.**

Cynigwn dros dro:

- (1) y dylai grym hysbysiad stop ddod i ben pan yw'r awdurdod yn gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw; ac
- (2) y dylid hysbysebu'r penderfyniad hwnnw cyn gynted â phosib ar ôl ei wneud, trwy arddangos hysbysiad safle addas a hysbysu'r sawl a gafodd ei hysbysu o'r hysbysiad gwreiddiol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-20.**

Ystyriwn dros dro, ble mae hysbysiad stop yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru dan adran 185, ac yn cael ei ddirymu, dylai unrhyw atebolrwydd am iawndal sy'n codi dan adran 186 fod yn daladwy ganddyn nhw a nid gan yr awdurdod cynllunio.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-21.**

Cynigwn dros dro bod y troseddau dan adran 179(2) (toriad hysbysiad gorfodi) ac adran 179(5) (ailgychwyniad dilynol o weithgarwch gwaharddedig) yn cael eu fframio i ddarparu bod person yn cyflawni trosedd os:

- (1) yw'r person wedi torri hysbysiad gorfodi;
- (2) oedd yr hysbysiad wedi'i gynnwys yn y gofrestr berthnasol ar adeg y toriad; ac os oedd copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r person; ac
- (3) y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad i'r person;

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-22.**

Cynigwn dros dro y dylid diwygio adran 172A y DCGTh (sicrwydd o beidio ag erlyn am dorri hysbysiad gorfodi) er mwyn

- (1) galluogi awdurdod i roi sicrwydd o'r fath yn syml trwy "roi hysbysiad" i'r person perthnasol, yn hytrach na'i wneud ar ffurf llythyr; a
- (2) er mwyn galluogi'r awdurdod i roi sicrwydd i gais gan berson (B), sy'n caffael budd mewn tir yn dilyn mater o hysbysiad gorfodi yn ymwneud â'r tir, yn esbonio, unwaith y chyhoeddwyd yr hysbysiad gorfodi, bod gofyn i'r awdurdod gyflwyno copi ohono ar berson (A) yr oedd B wedi caffael y budd yn y tir ohono.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-23.**

Cynigwn dros dro y dylid diwygio adran 180(1) DCGTh 1990 (yn ymwneud ag effaith rhoi caniatâd cynllunio dilynol ar hysbysiad gorfodi) i gyfeirio

- (1) at roi caniatâd yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer caniatâd ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi digwydd yn unig; ac
- (2) at roi caniatâd cynllunio yn dilyn cyhoeddi hysbysiad gorfodi, yn hytrach nag yn dilyn cyflwyno copi o'r hysbysiad.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-24.**

Cynigwn dros dro y dylai bod modd rhoi troseddau o gyflenwi gwybodaeth ffug mewn ymateb i gais gan awdurdod cynllunio, ar hyn o bryd dan adran 65(6), 171D(5), 194(1) a 330(5) DCGTh 1990, ar brawf naill ai'n ddiannod (yn y llys ynadon) neu ar ddiad (yn Llys y Goron), ac y dylai'r gosb uchafswm mewn unrhyw achos fod yn ddirwy o unrhyw swm.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-25.**

Cynigwn dros dro bod pob un o'r troseddau o

- (1) adfer adeiladau neu waith yn dilyn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi (dan adran 181(5) DCGTh 1990); a
- (2) methiant i gydymffurfio â thoriad o hysbysiad torri amod (dan adran 187A(9) DCGTh 1990)

oll yn gallu cael eu rhoi ar brawf yn ddiannod neu ar ddiad, a'u bod yn gosbadwy yn y naill achos neu'r llall gan ddirwy o unrhyw swm, er mwyn eu gwneud yn gyson â'r cosbau ar gyfer toriadau hysbysiadau gorfodaeth gynllunio eraill dan DCGTh 1990.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 12-26.**

Cynigwn dros dro na ddylai adran 57(7), 302 ac Atodlen 4 a 15 DCGTh 1990, yn ymwneud â thoriadau rheolaeth gynllunio cyn-1948, gael eu hailddatgan yn y Cod.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 13. WORKS AFFECTING LISTED BUILDINGS AND CONSERVATION AREAS**

### **Cwestiwn ymgynghori 13-1.**

Ystyriwn yn amodol y gellid symleiddio rheolaeth o'r gwaith i asedau hanesyddol trwy:

- (1) ddiwygio diffiniad "datblygiad", y mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer, i gynnwys "datblygiad treftadaeth", sef:
  - (a) dymchwel adeilad rhestredig; neu
  - (b) altro neu ymestyn adeilad rhestredig mewn modd sy'n debygol o gael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; neu
  - (c) ddymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth.
- (2) gwneud i ffwrdd â'r gofyn am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth ar gyfer gwaith o'r fath; a
- (3) gweithredu'r mesurau ychwanegol a amlinellwyd yng nghwestiynau ymgynghori 13-2 i 13-8, i sicrhau cadw'r lefel sydd yn bodoli ar hyn o bryd o ddiogelu asedau hanesyddol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-2.**

Cynigiwn yn amodol y dylid ymestyn y pŵer i wneud gorchymynion datblygiad cyffredinol a lleol fel bod modd rhoi caniatâd cynllunio trwy orchymyn ar gyfer datblygiad treftadaeth.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-3.**

Cynigiwn yn amodol y dylai cytundebau partneriaeth treftadaeth fedru rhoi caniatâd cynllunio trwy orchymyn ar gyfer datblygiad treftadaeth yn y fath categorïau fel y'u rhagnodir o bosib.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-4.**

Ystyriwn yn amodol y dylid ehangu'r darpariaethau (sydd ar hyn o bryd yn adrannau 191 ac 192 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref) sy'n ymwneud â thystysgrifau cyfreithlondeb i gynnwys gwaith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth yn unig ar ei gyfer ar hyn o bryd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-5.**

Ystyriwn yn amodol y dylai'r bil gynnwys darpariaethau i'r perwyl:

- (1) bod unrhyw apêl perthnasol i waith i adeilad rhestredig yn gallu cynnwys fel sail ar gyfer apêl nad yw'r adeilad dan sylw o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a dylid ei dynnu oddi ar y rhestr o adeiladau o'r fath a gedwir gan Weinidogion Cymru;



(2) ble mae adeilad yn amodol ar hysbysiad diogelu adeilad (rhestr amodol), gall yr hysbysiad apêl gynnwys hawliad na ddylid cynnwys yr adeilad ar y rhestr;

(3) Gall Weinidogion Cymru, wrth benderfynu apêl cysylltiedig ag adeilad rhestredig, ddefnyddio eu grymoedd i dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr; ac

(4) wrth benderfynu apêl cysylltiedig â gorchymyn cadw adeilad, medrant ddefnyddio eu grymoedd i beidio â chynnwys yr adeilad yn y rhestr.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-6.**

Cynigiwn yn amodol y dylid cynnwys yn y Bil darpariaethau i'r perwyl:

- (1) bod gwneud gwaith datblygu treftadaeth heb ganiatâd cynllunio (neu sy'n torri amod neu gyfyngiad sydd ynghlwm wrth ganiatâd) - a ddiffinir yn debyg i'r hyn a nodir ym Mwriad 13-1 - yn drosedd, ac yn gosbadwy
  - ar euogfarn ddiannod gan garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu ddirwy neu'r ddau; neu
  - ar euogfarn ddiannod gan garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd neu ddirwy neu'r ddau; a
- (2) bod yr amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath yr un peth ag sy'n berthnasol ar hyn o bryd i drosedd dan adran 9 Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-7.**

Cynigwn yn amodol y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau i'r perwyl bod gwaith datblygu treftadaeth yn cael ei eithrio o gategoriâu datblygu sy'n amodol ar gyfyngiadau amser o ran y cyfnod pryd y gellir cymryd camau gorfodi.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 13-8.**

Cynigwn yn amodol gynnwys y dylai'r Bil ddarpariaethau i'r perwyl:

- (1) Lle dyroddir hysbysiad gorfodi mewn perthynas â gwneud gwaith datblygu treftadaeth gan dorri rheolau cynllunio, bod y rhesymau a ddefnyddir i ddod ag apêl yn erbyn hysbysiad o'r fath yn cynnwys rhesymau cyfwerth â rhesymau (a), (d), (i), (j) a (k) fel y nodir yn Adran 39 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990;
- (2) y gallai Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl gorfodi sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig, arfer eu pwerau i dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr.

- (3) wrth benderfynu ar apêl gorfodi sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig sy'n destun gorchymyn diogelu adeilad, gallent arfer eu pwerau i beidio â'i gynnwys yn y rhestr.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 13-9.**

Ystyriwn yn amodol beidio ag uno caniatâd cynllunio gyda chaniatâd heneb restredig.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 13-10.**

Ystyriwn yn amodol y dylid egluro diffiniad "adeilad rhestredig" trwy ei wneud yn glir ei bod y diffiniad yn cynnwys gwrthrychau a strwythurau cyn 1948 os oeddent yng nghwrtl yr adeilad yn y rhestr fel ag yr oedd

- (1) yn achos adeilad a restrwyd cyn 1 Ionawr 1969, ar y dyddiad hwnnw; ac
- (2) mewn unrhyw achos arall, ar y dyddiad y cyflwynwyd yr adeilad gyntaf yn y rhestr.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 13-11.**

Cynigwn yn amodol ddiwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 fel nad yw Rhan 2 (ardaloedd o ddiddordeb archaeolegol) yn gymwys yng Nghymru.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **CHAPTER 14. OUTDOOR ADVERTISING**

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-1.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylid egluro'r diffiniad o "hysbyseb" yn DCGTh 1990, a'i gynnwys yn y Bil ynghyd â darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-2.**

Rydym yn ystyried dros dro y gellid hepgor y cyfeiriad at "arddangos hysbysebion", sydd wedi'i gynnwys yn y diffiniad statudol o "hysbyseb" yn DCGTh 1990 ar hyn o bryd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-3.**

Cynigiwn dros dro y dylid defnyddio'r gair "tir" yn lle "safle" a "safleoedd":

- (1) yn narpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â rheoli hysbysebion; ac
- (2) yn y Rheoliadau y tro nesaf y diweddarir hwy.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-4.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r diffiniad o "unigolyn sy'n arddangos hysbyseb" yn DCGTh 1990 gael ei gynnwys y y Bil ynghyd â darpariaethau eraill yn ymwneud â hysbysebu, gan gynnwys:

- (1) perchennog a a deiliad y tir y caiff yr hysbyseb ei arddangos arno;
- (2) unrhyw unigolyn y bydd ei nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei achosion eraill yn cael cyhoedduswydd gan yr hysbyseb; a'r
- (3) unigolyn sy'n ymgymryd â'r gwaith o arddangos yr hysbyseb neu sy'n cynnal yr hysbyseb a arddangosir.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-5.**

Cynigiwn dros dro y dylai rhybudd dirwyn i ben o dan y rheoliadau hysbysebion:

- (1) gynnwys hysbysiad ynghylch hawliau unrhyw dderbynnydd i apelio yn ei erbyn;
- (2) ddod i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodol wedi dyddiad cyflwyno'r rhybudd); a
- (3) gael ei "godi" (yn hytrach na'i "gyflwyno" fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), a dylai copi gael ei gyflwyno i bawb y pennir eu bod yn arddangos yr hysbyseb sydd dan sylw.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 14-6.**

Cynigiwn dros dro y dylid cyflwyno darpariaeth yn lle adran 220(2), (2A) a (3), sy'n galluogi i reoliadau gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer y canlynol:

- (1) mesuriadau, golwg a safle'r hysbysebion y gellir eu harddangos, a'r dull y maent i'w gosod ar y tir;
- (2) gwahardd arddangos hysbysebion neu defnydd tir a gaiff ei defnyddio i arddangos hysbysebion heb gydsyniad tybiedig neu ddatganedig;
- (3) terfyniad cydsyniad tybiedig;
- (4) gwneud a phenderfynu ceisiadau am gydsyniad datganedig, a dirymu neu newid cydsyniad;
- (5) apeliadau yn erbyn rhybuddion dirwyn i ben a phenderfyniadau ynghylch ceisiadau am gydsyniad datganedig;
- (6) meysydd o reolaeth arbennig dros hysbysebion; a
- (7) darpariaethau ôl-ddilynol ac atodol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 14-7.**

Cynigiwn dros dro y dylid caniatáu cydsyniad tybiedig o dan y Rheoliadau Hysbysebion i arddangosfa o hysbysebion sy'n elwa o ganiatâd cynllunio.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 14-8.**

Cynigiwn dros dro y dylai arddangos hysbysebion ar gerbydau a threlars sefydlog gael ei reoli trwy addasu'r Rheoliadau er mwyn darparu'r canlynol:

- (1) ni fydd angen cydsyniad (datganedig na thybiedig) i arddangos hysbyseb o fewn cerbyd, nac ar du allan cerbyd ar briffordd gyhoeddus;
- (2) caniateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbyseb ar gerbyd nad yw ar briffordd, os caiff y cerbyd ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol ac na chaiff ei defnyddio'n bennaf i arddangos hysbysebion.

Ydy ymgylgoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgylgghori 14-9.**

Cynigiwn dros dro y:

- (1) dylid cyflwyno darpariaeth yn y Rheoliadau Hysbysebion i ganiatáu i dystysgrif gyfreithlondeb gael ei rhoi mewn perthynas ag arddangos hysbysebion; a
- (2) dylai darpariaeth alluogol gael ei chynnwys yn y Bil, yn unol â'r dull a awgrymir yng nghwestiwn ymgylgghori 14-3.

Ydy ymgylgoreion yn cytuno? A beth fyddai goblygiadau tebygol y cynnig hwn ar adnoddau?

### **Cwestiwn ymgylgghori 14-10.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r hyn sydd bellach yn Ddosbarth 13 yn Atodlen 3 Rheoliadau 1992 gael ei addasu i ddarparu y caniateir cydsyniad tybiedig i arddangos hysbysebion ar safle sy'n cael ei ddefnyddio i'r diben hwnnw ers deng mlynedd, yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddyddiad sefydlog (1 Ebrill 1974 ar hyn o bryd).

Ydy ymgylgoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgylgghori 14-11.**

Cynigiwn dros dro na ddylai'r grym (sydd ar hyn o bryd yn adran 224(1), (2)) i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaethau mewn Rheoliadau sy'n debyg i rybuddion gorfodi gael ei ailddatgan yn y Bil.

Ydy'r ymgylgoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgylgghori 14-12.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r grymoedd sydd ar hyn o bryd yn adran 225 DCGTh 1990 (tynnu posteri a hysbyslenni anawdurdodedig) ac yn adran 43 Deddf Dyfed 1987 (tynnu hysbysebion anawdurdodedig eraill) gael eu newid am un weithdrefn sy'n caniatáu tynnu hysbysebion anawdurdodedig, ar yr amod

- (1) na chaiff unrhyw hysbyseb ei dynnu heb roi 21 diwrnod o rybudd yn y lle cyntaf i'r sawl sy'n gyfrifol;
- (2) dylai hawl i apelio fod ar gael i'r sawl sy'n derbyn rhybudd o'r fath ac i berchnogion a deiliaid safle'r hysbyseb sy'n tramgwyddo, fel y nodir o dan adran 225B DCGTh 1990 – ar sail yn ymwneud â chyfreithlondeb yr hysbyseb, cyflwyno'r rhybudd, a'r amser a ganiateir i'w dynnu;
- (3) bydd iawndal yn daladwy gan yr awdurdod cynllunio am ddifrod a achosir i dir neu eiddo trwy dynnu'r hysbyseb (ac eithrio difrod i'r hysbyseb ei hun); a
- (4) dylid rhoi amddiffyniad i ymgylgghori statudol yn unol ag adran 225K.

Rydym yn ceisio safbwyntiau atebwyr ynghylch oblygiadau tebygol y cynnig hwn.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno? Beth yw effaith tebygol y cynnig hwn ar adnoddau?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-13.**

Cynigiwn dros dro y dylai uchafswm y ddedfryd yn sgil collfarn am hysbysebu anawdurdodedig gael ei gynyddu i ddirwy anghyfyngedig, yn union fel troseddau eraill o dan DCGTh 1990 a Deddf Adeiladau Cofrestredig 1990.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-14.**

Cynigiwn dros dro y dylai fod yn eglur ar wyneb y Bil, yn hytrach nag yn y rheoliadau (fel y mae ar hyn o bryd), y dylai'r holl rymoedd statudol mewn perthynas â hysbysebu gael eu harfer er lles amwynder a diogewch y cyhoedd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-15.**

Rydym yn cynnig dros dro na ddylai'r darpariaethau yn adran 220 y DCGTh 1990 ynghylch pwyllgorau ymgynghorol a thriwlysoedd gael eu cynnwys yn y Bil.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-16.**

Cynigiwn dros dro na ddylai'r darpariaethau yn adran 221(1)(b), (2) DCGTh 1990 ynghylch ardaloedd arbrofol gael eu cynnwys yn y Bil.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 14-17.**

Mae'n ymddangos nad yw adran 223 DCGTh 1990, sy'n darparu ar gyfer talu iawndal mewn perthynas â chostau tynnu hysbysebion ar safleoedd oedd yn cael eu defnyddio i hysbysebu yn 1948, bellach yn ddefnyddiol yn ymarferol, ac felly cynigiwn na ddylid ei chynnwys yn y Bil. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 15. WORKS TO PROTECTED TREES**

#### **Cwestiwn ymgynghori 15-1.**

Rydym yn ystyried dros dro na fyddai o help i ddiffinio "coeden" neu "goetir" yn y cyd-destun o beth all ellir ei warchod gan orchymyn diogelu coed.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno? Os nad ydynt, pa ddiffiniadau fyddai'n addas?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-2.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Bil gynnwys;

- (1) dylai cyfrifoldebau gan y Cod sydd yn berthnasol i warchod coed gael eu hymarfer er budd amwynder;
- (2) bod "amwynder" at y dibenion hynny yn cynnwys golwg, oed, prinder, bioamrywiaeth, hanes, gwyddoiaeth a gwerth adloniadol; a
- (3) dylai rheoliadau diogelu coed ragnodi materion a ystyriwyd i fod yn berthnasol ar gyfer amwynder.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-3.**

Cynigiwn dros dro

- (1) bod y Bil yn ei gwneud yn glir y gall gorchmynion cadw coed yn y dyfodol gael eu gwneud i warchod coed - wedi'u henwi naill ai yn unigol neu drwy gyfeirio at ardal - neu grwpiau o goed neu goetiroedd;
- (2) bod gorchmynion ardal a gorchmynion grwpiau ond yn gwarchod y coed a oedd yn bodoli ar yr adeg y gwnaed y gorchymyn;
- (3) bod gorchmynion ardal newydd yn darparu gwarchodaeth nes eu bod yn cael eu cadarnhau yn unig, yna bydd rhaid iddynt gael eu newid i orchmynion yn enwi'r coed i'w gwarchod naill ai yn unigol neu fel grwpiau;
- (4) bod gorchmynion ardal cyfredol, sydd eisoes wedi cael eu cadarnhau, yn peidio â chael effaith ar ôl pum mlynedd; a
- (5) bod gorchmynion coetiroedd yn gwarchod yr holl goed, o unrhyw oed a math, o fewn yr ardal benodol, p'un ai eu bod mewn bodolaeth ar ddyddiad y gorchymyn ai peidio.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-4.**

Ystyriwn dros dro y dylid egluro bod gwneud gorchymyn diogelu coed yn cael ei hysbysu i berchnogion a phreswylwyr unrhyw ddarn o dir yn lleoli unrhyw ran o unrhyw goeden a warchodir gan y gorchymyn.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-5.**

Ystyriwn na ddylir dod a gwaith a wnaer i goed o fewn rhychwant datblygiad sydd yn galw am caniatad cynllunio, am nad yw'n ddefnyddiol.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-6.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r eithriad o'r angen i gael caniatâd yn ôl gorchymyn cadw coed yn gysylltiedig â gwaith ar "goed sy'n marw neu wedi marw, neu sy'n beryglus" (yn gyfredol yn adran 198(6)(a) DCGTh 1990) gael ei ddisodli yn y rheoliadau coed newydd gydag eithriad yn gysylltiedig yn unig â thorri,ocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau bod gwaith o'r fath yn anghenrheidiol ar frys i dynnu risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu i'r fath raddau arall fel a gytunir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-7.**

Ystyriwn dros dro nad yw'r eithriad o'r angen am ganiatâd o dan orchymyn cadw coed yn gysylltiedig â gwaith sy'n "anghenrheidiol i atal neu leihau niwsans" (ar hyn o bryd yn adran 198(6)(b) DCGTh 1990) yn ei ailddatgan naill ai yn y Bil neu yn y rheoliadau coed newydd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-8.**

Cynigiwn dros dro bod eithriad newydd yn cael ei gyflwyno o'r angen am ganiatâd o dan reoliadau cadw coed, i adael i waith i gael ei wneud heb ganiatâd ar goed gyda thryfesur heb fod yn fwy na maint penodol, ac eithrio coed a blannwyd fel canlyniad i

- (1) ofyn o dan adran 206 DCGTh 1990 neu
- (2) amod ar ganiatâd cynllunio neu ganiatâd i dorri coeden arall.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-9.**

Ystyriwn dros dro y dylid cyflwyno darpariaeth yn y rheoliadau coed (gyda darpariaeth alluogi briodol yn y Bil) i alluogi tystysgrif cyfreithlondeb i gael eu ddyroddi mewn perthynas â gwaith arfaethedig ar goeden.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno? A beth fyddai'r goblygiadau tebygol o ran deunyddiau o'r cynnig hwn?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-10.**

Cynigiwn dros dro y dylid gofyn i awdurdodau cynllunio gydnabod ceisiadau am ganiatâd o dan reoliadau coed.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-11.**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r gofyn i blannu coeden newydd yn dilyn torri coeden sy'n beryglus neu yn dilyn gwaith anawdurdodedig fod yn gyfyngedig i blannu coeden o fath tebyg yn neu yn agos i leoliad y goeden gynt (yn hytrach na, fel y mae ar hyn o bryd, yn cael ei phlannu yn union yr un lle).



Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-12.**

Cynigiwn dros dro y dylid cael pŵer eglur yn galluogi awdurdod cynllunio i hepgor neu ystwytho hysbysiad ailosod.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-13.**

Mae Adran 209 DCGTh 1990 yn darparu bod rheoliadau yn cael eu gwneud yn galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau sy'n deillio o wneud a gorfodi hysbysiad ailosod coed; ond nid oes rheoliadau o'r fath wedi cael eu gwneud hyd yn hyn.

A fyddai pwerau o'r fath o gymorth i sicrhau bod y coed newydd yn cael eu plannu mewn achosion priodol?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-14.**

Rydym yn cynnig dros dro bod cwmpas y materion a waherddir gan orchymyn cadw coed yn cael ei ymestyn i gynnwys achosi niwed i goeden:

- (1) yn fwriadol; neu
- (2) yn fyrbwyll (er enghraifft, gan godi neu ostwng lefelau pridd o gwmpas gwaelod y goeden, neu pori anifeiliaid mewn coetiroedd).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-15.**

Cynigiwn y dylai'r ddau dramgwydd sydd ar hyn o bryd o fewn adran 210 o'r DCGTh 1990, sydd yn sôn am waith a ellir arwain at golled y goeden (isadran (1)) a gwaith arall (isadran (4)) gael eu disodli gydag un tramgwydd unigol, yn brofadwy naill ai yn ddiamed neu ar dditiad, o dorri rheoliadau cadw coed.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-16.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r drosedd o dan adran 210 (torri rheoliadau cadw coed) a'r rheoliadau a wnaethpwyd o dan adran 202A yn gwahardd gwaith ar goeden yn amodol ar orchymyn cadw coed gael ei llunio fel bod yn rhaid i'r erlyniad brofi bod

- (1) copi o'r gorchymyn wedi cael ei gyflwyno i'r person yn gwneud y gwaith cyn i'r gwaith ddechrau; neu
- (2) copi o'r gorchymyn ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus ar amser y gwaith; a

dylai amddiffyniad fod ar gael i berson a gyhuddir o drosedd o'r fath os yw'n gallu dangos nad oedd e/hi wedi derbyn copi o'r gorchymyn, a nad oedd yn gwybod amdano, a na allai bod disgwyl iddo/iddi wybod o fewn rheswm, am ei fodolaeth.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 15-17.**

Ystyriwn dros dro y byddai'n symlach pe bai awdurdod, wedi cael ei hysbysu o dan adran 211 DCGTh 1990 am waith arfaethedig ar goeden mewn ardal gadwraeth, i gael pedwar ymateb posibl yn agored iddo:

- (1) i ganiatáu'r gwaith (naill ai torri'r goeden neu waith arall iddi) i ddigwydd, heb unrhyw amodau (heblaw am fod terfyn amser o ddwy flynedd);
- (2) i ganiatáu i'r goeden gael ei thorri, yn amodol ar gymal bod coeden newydd yn cael ei phlannu;
- (3) i osod gorchymyn cadw coed, ac i ganiatáu gwaith i'r goeden ac eithrio cael ei thorri, o bosibl yn amodol ar amgylchiadau; neu
- (4) i osod gorchymyn cadw coed, ac i wrthod caniatâd am y gwaith.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

## **CHAPTER 16. IMPROVEMENT REGENERATION AND RENEWAL**

### **Cwestiwn ymgynghori 16-1.**

Ystyriwn dros dro y dylid ddraftio'r Bil i'w gwneud hi'n glir bod modd cyflwyno hysbysiad o dan yr hyn sydd nawr yn adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn gofyn i dir gael ei gynnal yn gywir, yn medru cael ei ddyroddi lle mae cyflwr y tir:

- (1) yn effeithio yn andwyol amwynedd ardal yr awdurdod, rhan ohoni neu awdurdod neu ardal awdurdod cyffiniol; ac
- (2) nad yw'n arwain yng nghwrs arferol digwyddiadau at weithrediadau cyfreithlon ar y tir hwnnw neu ddefnydd o'r tir hwnnw sydd yn gyfreithlon.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-2.**

Ystyriwn dros dro y dylai fod yn bosib i gyhoeddi hysbysiad (o dan yr hyn sydd ar hyn o bryd yn adran 215 y DCGTh 1990) lle mae cyflwr y tir dan sylw yn ganlyniad i'r weithrediadau arni a oedd yn gyfreithlon ar y pryd a chawsant eu ymgymryd, ond sydd nawr yn anghyfreithlon.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-3.**

Cynigiwn y dylai hysbysiad o dan y ddarpariaeth yn y Côd newydd sy'n disodli adran 215:

- (1) ddod i rym ar ddyddiad penodol sydd wedi ei nodi ynndo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodol ar ôl y dyddiad a gyflwynir);
- (2) gael ei "ddyroddi" (yn hytrach na'i "gyflwyno" fel y mae ar hyn o bryd), ynghyd a chop i bawb sy'n gyfrifol am gynnal y tir perthnasol; a
- (3) cynnwys hysbysiad am hawliau unrhyw dderbyniwr i apelio yn ei erbyn.

Yw ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-4.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r Bil nodi'n glir fod pob apêl yn erbyn hysbysiadau adran 217 yn cael eu penderfynu fel arfer gan archwilwyr yn unol â chwestiwn ymgynghori 11-3.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-5.**

Cynigiwn y gallai'r Côt Cynllunio newydd gynnwys pwerau, a fyddai'n disodli'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd o dan adran 89(2) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, i alluogi awdurdod cyllunio, mewn perthynas ag unrhyw dir lle mae ei gyflwr yn effeithio ar amwynder ei ardal neu ardal gyffiniol (neu sy'n debygol o effeithio arno oherwydd cwmp yr arwyneb o ganlyniad i weithredoedd cloddio tanddaearol):

- (1) i gyflwyno hysbysiad, a rhoi copi ohono i'r perchennog a meddiannydd y tir ac arddangos hysbysiad priodol ar y tir, gan nodi bwriad yr awdurdod i wneud gwaith trwsio;
- (2) i wneud y gwaith ei hun sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad, naill ai
  - ar delerau a chytunir arnynt rhwng yr awdurdod a pherchennog a meddiannydd y tir (ynghlun a'r gwaith ei hun ac hefyd gofal dilynol); neu
  - lle na dderbynnir ymateb i'r hysbysiad;
- (3) i adfer costau gwaith o'r fath gan y perchennog, neu godi pridiant ganddynt ar y tir; ac
- (4) i gaffael y tir i bwrpas gwneud gwaith o'r fath, gan ddefnyddio pwerau gorfodol neu drwy gytundeb.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Cwestiwn ymgynghori 16-6.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r Côt Cynllunio newydd gynnwys pwerau cyfatebol â'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd o dan adran 89(1) i alluogi awdurdod cynllunio:

- (1) i gyhoeddi hysbysiad, a chyflwyno copi ohono i berchennog a meddiannydd y tir, gan nodi bwriad yr awdurdod i wneud gwaith tirlunio i bwrpas gwella'r tir;

- (2) i wneud y gwaith ei hun sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad, naill ai
  - ar delerau y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod a pherchennog a meddiannydd y tir (yn ymwneud â gwneud y gwaith ei hun ac hefyd yn ymwneud â gofal dilynol y tir); neu
  - lle na dderbynnir ymateb i'r hysbysiad; ac
- (3) i gaffael y tir i bwrpas gwneud gwaith o'r fath, gan ddefnyddio pwerau gorfodol neu drwy gytundeb.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-7.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i hwyluso tynnu graffiti a phosteri a osodwyd yn anghyfreithlon, drwy alluogi awdurdodau cynllunio i:

- (1) ymdrin â graffiti neu bosteri a osodwyd yn anghyfreithlon sy'n niweidiol i amwynder neu sydd yn sarhaus, drwy ofyn i ddefnyddwyr neu feddianwyr y tir a effeithiwyd ei dynnu;
- (2) ymdrin â hysbysebu diawdurdod parhaus, drwy gyflwyno hysbysiad i'r rheiny sy'n gyfrifol am yr arwynebau sydd wedi eu gorchuddio'n barhaus â phosteri a osodir yn anghyfreithlon, gan ofyn iddynt gymryd mesurau ataliol i leihau achosion o hynny; ac
- (3) yn y naill achos a'r llall, i gymryd camau uniongyrchol lle bod angen, a chodi tâl unwaith eto ar y rhai sydd yn gyfrifol lle'n briodol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-8.**

Cynigiwn y dylid diwygio

- (1) Rhan 18 ac Atodlen 32 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (ardaloedd menter), a
- (2) darpariaethau sydd yn ymwneud ag ardaloedd menter yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth berthnasol

fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-9.**

Cynigiwn dros dro y dylid diwygio

- (1) Deddf Trefi Newydd 1981, a'r

- (2) darpariaethau sy'n ymwneud â threfi newydd yn Neddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Trefol 1985, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Tai ac Adfywio 2008, a deddfwriaeth berthnasol

fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-10.**

Cynigiwn dros dro y dylid diwygio

- (1) Rhan 16 o, ac Atodlenni 26 i 31 Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (ardaloedd datblygu trefol a chorfforaethau datblygu trefol), a'r
- (2) darpariaethau sy'n ymwneud â chorfforaethau datblygu trefol yn y Ddeddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Diwygio Cyfraith Lesdaliad, Tai a Datblygiad Trefol 1993, a deddwriaeth berthnasol

fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-11.**

Cynigiwn dros dro y dylid diwygio

- (1) Rhan 3 Deddf Tai 1988 (ardaloedd ymddiriedolaeth gweithredu tai), a
- (2) darpariaethau sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau gweithredu tai yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth berthnasol

fel eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig yn y dyfodol.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 16-12.**

Cynigiwn dros dro i addasu Rhan 3 ac Atodlen 5 Deddf Amaethyddiaeth 1967 (byrddau datblygu gwledig) a deddfwriaeth berthnasol fel eu bod ond yn gymwys mewn perthynas â Lloegr a'r Alban.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

## **CHAPTER 17. HIGH COURT CHALLENGES**

### **Cwestiwn ymgynghori 17-1.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r darpariaethau sydd yn Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd (heriau yn yr Uchel Lys i ddilysrwydd gweithredoedd a

phenderfyniadau o dan y Ddeddf) gael eu disodli yn y Cod Cynllunio gan ddarpariaethau newydd i ganiatau'r llys i gynnal achosion sydd yn cwestiynu unrhyw benderfyniad gan gorff cyhoeddus o dan y Côt (heblaw un y mae hawl apelio yn ei erbyn i Weinidogion Cymru) – ac unrhyw fethiant i wneud unrhyw benderfyniad o'r fath – ond dim ond os:

- (1) yw'r gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno drwy gais am adolygiad barnwrol;
- (2) yw'r ffurflen hawlio'n cael ei ffeilio:
  - cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos, mewn achos sydd yn herio penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (heblaw penderfyniad sy'n rhoi caniatâd cynllunio), hysbysiad amnewid coeden, hysbysiad tir blêr neu benderfyniad yn gwrthod tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol; neu
  - cyn diwedd y cyfnod o chwech wythnos mewn unrhyw achos arall,

yn cychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan wnaed y penderfyniad perthnasol.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 17-2.**

Ystyriwn dros dro y dylai darpariaethau Rhan 5 yn y Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (sydd yn ymwneud â chywirow gwallau bychain mewn penderfyniadau) gael eu cynnwys yn y Bil, ond eu bod yn cael eu diwygio er mwyn caniatáu cyfnod o 14 diwrnod lle gall Gweinidogion Cymru neu arolygydd ymateb i gais i wneud cywiriad i'w penderfyniad, ac y gall ymgeisydd ymateb i hysbysiad ganddynt eu bod yn cynnig gwneud cywiriad o'r fath.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

## **CHAPTER 18. MISCELLANEOUS AND SUPPLEMENTARY PROVISIONS**

### **Cwestiwn ymgynghori 18-1.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r Bil:

- (1) resymoli cyn belled a phosib, cyrff neu gategoriâu o gyrff sydd i gael eu trin fel ymgymerwyr statudol at ddibenion rhywfaint o'r Côt neu'r Côt cyfan (ac i ba ddarpariaethau); ac
- (2) esbonio i bob ymgymerydd neu gategori o ymgymerwyr beth sydd i gael ei ystyried yn "dir gweithredol" a phwy yw'r "Gweinidog priodol".

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-2.**

Cynigiwn dros dro, pan fo'r GDCG (GPDO) yn cael ei ddiweddarau nesaf, y dylid rhoi ystyriaeth i wahanu'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â datblygiad gan ymgymerwyr

statudol, y Goron, gweithredwyr mwynau a chyrrff tebyg eraill, oddi wrth y rheiny sy'n ymwneud â datblygiad yn gyffredinol.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-3.**

Cynigiwn dros dro nad yw adrannau 283 a 316A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (yn ymwneud ag arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymerydd statudol ac awdurdodau lleol sy'n ymgymerydd statudol) yn cael eu hailddatgan yn y Bil.

Ydy'r ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-4.**

Cynigiwn dros dro nad yw adran 316A DCGTh 1990 (sy'n galluogi cread rheoliadau sydd yn berthnasol i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu gan awdurdodau lleol sydd yn ymgymerydd statudol ac arddangosiad hysbysebion ar eu tir gweithredol) yn cael ei hailddatgan yn y Bil.

Ydy ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-5.**

Ystyriwn dros dro dylid y Bil newydd ddefnyddio'r term "gweithrediadau mwyngloddio" yn gyffredinol yn lle'r term "sicrhau a gweithio mwynau", wedi ei ddiffinio er mwyn cynnwys:

- (1) sicrhau a gweithio mwynau o fewn, ar neu o dan y tir, nai llai trwy waith ar yr wyneb neu o dan y ddaear;
- (2) tynnu deunydd o unrhyw ddisgrifiad oddi wrth:
  - gwaddod sy'n gweithio mwynau;
  - gwaddod o ludw tanwydd a falwyd yn llwch neu ludw arall neu glincer o ffwrnais; neu
  - gwaddod o haearn, dur neu slag metalaidd; ac
- (3) echdyniad mwynau o arglawdd rheilffordd segur.

Ydy ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-6.**

Ystyriwn dros dro nad oes pwrpas defnyddiol mwyach i Atodlen 2 Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 (caniatadau mwynau a roddwyd cyn 1 Gorffennaf 1948) ac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (rhoddwyd caniatadau mwynau o 1 Gorffennaf 1948 hyd 22 Chwefror 1982), ac nid oes angen eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio.

Ydy ymgynghori yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-7.**

Cynigiwn dros dro dylid y Bil gynnwys:

- (1) y darpariaethau sydd yn Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar hyn o bryd
- (2) y rhai sydd yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd (terfyniad caniatadau mwynau).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-8.**

Cynigiwn dros dro dylid darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y ffurf y maent yn berthnasol wedi eu haddasu gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (fel eu bod yn berthnasol i ddatblygiad mwynau) cael eu cynnwys yn y Bil ei hun yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-9.**

Cynigiwn dros dro dylid cynnwys yn y Bil pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer graddfa o ffioedd am weithredu unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan y Côd, neu am weithrediad awdurdodau cynllunio o unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan y Côd, trwy gyhoeddiad yn hytrach na rhagnodi, ar yr amod ei fod hefyd yn cynnwys cyfyngiad sy'n gyfatebol ag adran 303(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gan sicrhau nad yw'r incwm o'r ffioedd a godir felly yn uwch na chost gwneud y swyddogaeth berthnasol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-10.**

Cynigiwn dros dro y dylid cael darpariaeth unigol yn y Bil er mwyn darparu penderfyniadau yr Uwch Dribiwnlys am ddadleuon ynghylch digollediadau o dan ddarpariaethau'r Bil sydd yn ymwneud â diddymu, addasu a dirwyn i ben ganiatâd cynllunio, hysbysiadau gwahardd dros dro, hysbysiadau gwahardd, niwed a achoswyd gan fynd i mewn i bwrpasau gorfodi, diogelu coed, priffyrdd ac ymgymerydd statudol, o dan y darpariaethau yn y Ddeddf Digolledu Tir 1961.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-11.**

Cynigiwn dros dro y dylai'r Cod gynnwys pŵer i ofyn am tystiolaeth arbenigol mewn ymholiadau ac achosion eraill (yn cynnwys apeliadau a benderfynir ar sail cynrychiolaethau ysgrifenedig), a dylir ei ddyroi gyda datganiad o wirionedd yn unol â'r gofynion Rheolau Trefniadaeth Sifil sydd mewn grym ar hyn o bryd.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?



### **Cwestiwn ymgynghori 18-12.**

Cynigiwn dros dro bod y pŵer i wneud gorchmynion ynghylch costau rhai sydd yn barti i achosion, sydd ar hyn o bryd yn adran 322C(6) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei chwyddo i ddangos yn glir na ddylid gwneud gorchmyn o'r fath, heblaw lle:

- (1) mae un parti i apêl wedi ymddwyn yn afresymol; a
- (2) bod ymddygiad afresymol wedi arwain partion eraill i greu treuliau dianghenraid neu wastraffus.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-13.**

Ystyriwn dros dro y dylai'r Côd Cynllunio gynnwys darpariaethau sy'n gyfatebol â'r rhai sydd ar hyn o bryd yn:

- (1) adran 276 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 (pwerau awdurdodau cynllunio i werthu deunyddiau a dynnwyd mewn gwaith gweithredol);
- (2) adran 289 y Ddeddf honno (pŵer i fynnu ofyn nad yw meddiannydd unrhyw safle yn atal gwaith rhag cael ei weithredu); ac
- (3) adran 294 y Ddeddf honno (cyfyngiad ar rwymedigaeth landlordiaid ac asiantiaid mewn perthynas â threuliau y gellir eu hadfer),

fel eu bod yn weithredol i weithrediad gwaith yr awdurdod sydd yn ofynnol o dan hybysiadau dirwyn i ben, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau amnewid coed a hysbysiadau tir diolwg.

Ydy ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-14.**

Oes unrhyw dermau arall a ddefnyddir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd angen eu diffinio (neu eu ddiffinio'n fwy eglur) ar wahân i'r rhai a gyfeirir atynt yn benodol mewn cwestiynau ymgynghori eraill?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-15.**

Cynigwn dros dro y dylid:

- (1) darpariaethau fersiwn Saesneg y Bil sydd yn cyfateb gyda adrannau 55, 171, 183, 196A a 214B ac Atodlen A y DCGTh gael ei fframio trwy gyfeiriad i "annedd" yn hytrach na "thÿ annedd"; a
- (2) gynnwys gynnwys diffiniad o'r term "annedd" yn adran dehongliad y Bil, fel ei bod cynnwys tÿ a fflat.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-16.**

Ystyriwn dros dro y byddai'n ddefnyddiol i'r Bil gynnwys darpariaeth sydd yn nodi mai cwrtil adeilad yw'r tir sydd wedi'i gysylltu agosaf iddo, a rhaid penderfynu a yw un strwythur o fewn "cwrtil" adeilad mewn perthynas â:

- (1) 'chynllun' ffisegol yr adeilad a'r strwythur;
- (2) eu perchnogaeth, yn y gorffennol a'r presennol; a
- (3) eu defnydd a'u swyddogaeth, yn y gorffennol a'r presennol.

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-17.**

Cynigiwn dros dro bod y dylai rhan ddehongli'r Bil gynnwys diffiniadau o'r termau canlynol:

- (1) "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol", ar linellau'r diffiniad sydd ar hyn o bryd yn adran 336 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda chyfeiriad at ffermio yn ychwanegol ato yn unol â'r rheiny sydd ar hyn o bryd yn adran 147 a 171; a
- (2) "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol", yn fras yn unol â'r diffiniad yn Rhan 6 Atodlen 2 y GDCG.

ac fe gynigwn dros dro nad oes diffiniadau pellach o'r termau hynny i'w darparu mewn perthynas â hysbysiadau prynu a hysbysiadau malltod;

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

### **Cwestiwn ymgynghori 18-18.**

Cynigiwn dros dro na ddylid cynnwys y Côd Cynllunio, y darpariaethau a ganlyn, am eu bod yn ymddangos yn ddarfodedig neu'n ddiangen:

- (1) adran 314 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dosrannu treuliau gan gynghorau sir);
- (2) adran 335 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y berthynas rhwng deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth arall oedd mewn grym yn 1947); ac
- (3) Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau'r Ddeddf wedi eu defnyddio neu eu haddasu gan amrywiol ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf).

Ydy'r ymgynghoreion yn cytuno?

# Appendix A: Ymatebion i'r Papur Cwmpasu

## CYFLWYNIAD

A.1 Mae'r cyrff ac unigolion dilynol wedi cyflwyno ymatebion i'r Papur Cwmpasu neu wedi cwrdd â'r Comisiwn i drafod ei gynnwys:

Llywodraeth Cymru

Cadw Llywodraeth Cymru

Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol

Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol

Llywodraeth Gogledd Iwerddon

Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS)

Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio (POSW) – Gogledd Cymru

Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio (POSW) – De-orllewin Cymru

Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio (POSW) De-ddwyrain Cymru

Cyngor Caerdydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Trefynwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Y tri awdurdod parc cenedlaethol

Cyngor Cymuned Yr Ystog

Cyngor Cymuned Gwersyllt

Cyngor Cymuned Llandrinio ac Yr Ardd-lin

Cyngor Tref Llanelli

Cyngor Tref Y Dre Newydd a Chyngor Tref Llanllwchaiarn

Cyngor Cymuned Pen y Strowed

Cyngor Cymuned Llanddunwyd

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth

Canal and River Trust (Glandwr Cymru)

Yr Awdurdod Glo

Yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch

Innogy Renewables DU

Y Grid Cenedlaethol

Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)

Pedwar Heddlu Cymru

RWE Generation DU

Welsh Water (Dŵr Cymru)

Cyngor y Bar

Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (IHBC)

Cymdeithas y Cyfreithwyr (Pwyllgor y Gyfraith Gynllunio a'r Amgylchedd)

Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA)

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW)

Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) Cymru

Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA)

Cymorth Cynllunio Cymru

Cymdeithas Gynllunio Gwlad a Thref (TCPA)

Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru (WPCF)

Ffederasiwn Eiddo Prydain (BPF)

Campaign for Real Ale (CAMRA)

Tai Cymunedol Cymru

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA)

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF)

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr (NFU) Cymru

Cartrefi Persimmon Gorllewin Cymru

Cymdeithas Landlordiaid Preswyl

Y Gymdeithas Henebion (AMS)  
Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru  
Cyngor Archaeoleg Brydeinig (CBA)  
Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB)  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru  
Yr Ymddiriedolaeth Theatrau  
Grŵp Treftadaeth Cymru  
Coed Cadw a'r Fforwm Coed Hynafol

Dr Ashley Bowes, Bargyfreithiwr  
Dr Allen Firth, Ymgynghorydd Cadwraeth a threftadaeth  
Mr Martin Goodall, Cyfreithiwr, LARTPI  
Mr Richard Harwood OBE, CF  
Mr Nigel Hewitson, Assoc IHBC, Cyfreithiwr  
Mr Adrian Penfold OBE, MRTPI, FRICS  
Ms Leonora Rozee OBE, MRTPI  
Mr Elfed Williams, FRICS, MRTPI

- A.2 Mae ymatebion ffurfiol gan y rhai hynny a'u cyflwynodd ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn [www.lawcommission.gov.uk/xxx](http://www.lawcommission.gov.uk/xxx).
- A.3 Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd gennym yn xxx.
- A.4 Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gynorthwyodd yng nghan blaenorol y prosiect hwn; ac edrychwn ni ymlaen at dderbyn ymatebion pellach i'r Papur Ymgynghori hwn.



## Appendix B: Deunydd cefnogol

Tabl B-1:

Prif ddarnau o ddeddfwriaeth gynllunio sy'n gymwys yng Nghymru neu Loegr neu'r ddwy ar hyn o bryd

		<i>Fel y'i deddfwyd gyntaf</i>		<i>Fel sydd mewn grym ar hyn o bryd</i>	
		<i>Adrannau</i>	<i>Atodlenni</i>	<i>Adrannau</i>	<i>Atodlenni</i>
<b>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990</b>					
Rhan 1.	Awdurdodau cynllunio	9		17	
Rhan 2.	Cynlluniau datblygu	45		0	
Rhan 3.	Rheolaeth dros ddatblygu	61		123	
Rhan 4.	lawndal ar gyfer effeithiau gorchmynion, hysbysiadau penodol ac ati	12		10	
Rhan 5.	lawndal ar gyfer cyfyngiadau ar ddatblygu newydd mewn achosion cyfyngedig	18		0	
Rhan 6.	Hawliau perchnogion ac ati i fynnu ar brynu buddiannau	35		40	
Rhan 7.	Gorfodi	25		44	
Rhan 8.	Rheolaethau arbennig	29		61	
Rhan 9.	Caffael a meddiannu tir at ddibenion cynllunio ac ati	21		21	
Rhan 10.	Priffyrdd	15		15	
Rhan11.	Ymgymrwyr statudol	22		22	
Rhan 12.	Dilysrwydd	9		8	
Rhan 13.	Gweithredu'r Ddeddf i dir y Goron	10		8	
Rhan 14.	Darpariaethau ariannol	12		13	
Rhan 15.	Amrywiol a chyffredinol	23		36	
		337	17	408	22
<b>Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990</b>					
Rhan 1.	Gwaith ar adeiladau rhestredig	49	4	65	7
Rhan 2.	Gwaith mewn ardaloedd cadwraeth	6		6	
Rhan 3.	Cyffredinol	13		23	
<b>Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004</b>		67	4	91	7
<b>Deddf Cynllunio 2008</b>		22		25	
		<b>494</b>	<b>25</b>	<b>618</b>	<b>34</b>

**Tabl B-2.****Deddfwriaeth Sylfaenol yn gymwys yng Nghymru'n unig  
y gellir ei diddymu fel rhan o'r ymarfer bresennol**

	Deddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985	Atodlen 2
(2)	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	10A, 23A i 23C, 27A, 28A, 61Z i 61Z2, 62ZA, 62ZD, 62D i 62S, 71ZA, 71ZB, 100A, 164A, 164B, 164C, 164D, 164E, 164F, 164G, 164H, 164I, 164J, 164K, 164L, 164M, 164N, 164O, 164P, 164Q, 164R, 164S, 164T, 164U, 164V, 164W, 164X, 164Y, 164Z, 164AA, 164AB, 164AC, 164AD, 164AE, 164AF, 164AG, 164AH, 164AI, 164AJ, 164AK, 164AL, 164AM, 164AN, 164AO, 164AP, 164AQ, 164AR, 164AS, 164AT, 164AU, 164AV, 164AW, 164AX, 164AY, 164AZ, 164BA, 164BB, 164BC, 164BD, 164BE, 164BF, 164BG, 164BH, 164BI, 164BJ, 164BK, 164BL, 164BM, 164BN, 164BO, 164BP, 164BQ, 164BR, 164BS, 164BT, 164BU, 164BV, 164BW, 164BX, 164BY, 164BZ, 164CA, 164CB, 164CC, 164CD, 164CE, 164CF, 164CG, 164CH, 164CI, 164CJ, 164CK, 164CL, 164CM, 164CN, 164CO, 164CP, 164CQ, 164CR, 164CS, 164CT, 164CU, 164CV, 164CW, 164CX, 164CY, 164CZ, 164DA, 164DB, 164DC, 164DD, 164DE, 164DF, 164DG, 164DH, 164DI, 164DJ, 164DK, 164DL, 164DM, 164DN, 164DO, 164DP, 164DQ, 164DR, 164DS, 164DT, 164DU, 164DV, 164DW, 164DX, 164DY, 164DZ, 164EA, 164EB, 164EC, 164ED, 164EE, 164EF, 164EG, 164EH, 164EI, 164EJ, 164EK, 164EL, 164EM, 164EN, 164EO, 164EP, 164EQ, 164ER, 164ES, 164ET, 164EU, 164EV, 164EW, 164EX, 164EY, 164EZ, 164FA, 164FB, 164FC, 164FD, 164FE, 164FF, 164FG, 164FH, 164FI, 164FJ, 164FK, 164FL, 164FM, 164FN, 164FO, 164FP, 164FQ, 164FR, 164FS, 164FT, 164FU, 164FV, 164FW, 164FX, 164FY, 164FZ, 164GA, 164GB, 164GC, 164GD, 164GE, 164GF, 164GG, 164GH, 164GI, 164GJ, 164GK, 164GL, 164GM, 164GN, 164GO, 164GP, 164GQ, 164GR, 164GS, 164GT, 164GU, 164GV, 164GW, 164GX, 164GY, 164GZ, 164HA, 164HB, 164HC, 164HD, 164HE, 164HF, 164HG, 164HH, 164HI, 164HJ, 164HK, 164HL, 164HM, 164HN, 164HO, 164HP, 164HQ, 164HR, 164HS, 164HT, 164HU, 164HV, 164HW, 164HX, 164HY, 164HZ, 164IA, 164IB, 164IC, 164ID, 164IE, 164IF, 164IG, 164IH, 164II, 164IJ, 164IK, 164IL, 164IM, 164IN, 164IO, 164IP, 164IQ, 164IR, 164IS, 164IT, 164IU, 164IV, 164IW, 164IX, 164IY, 164IZ, 164JA, 164JB, 164JC, 164JD, 164JE, 164JF, 164JG, 164JH, 164JI, 164JJ, 164JK, 164JL, 164JM, 164JN, 164JO, 164JP, 164JQ, 164JR, 164JS, 164JT, 164JU, 164JV, 164JW, 164JX, 164JY, 164JZ, 164KA, 164KB, 164KC, 164KD, 164KE, 164KF, 164KG, 164KH, 164KI, 164KJ, 164KK, 164KL, 164KM, 164KN, 164KO, 164KP, 164KQ, 164KR, 164KS, 164KT, 164KU, 164KV, 164KW, 164KX, 164KY, 164KZ, 164LA, 164LB, 164LC, 164LD, 164LE, 164LF, 164LG, 164LH, 164LI, 164LJ, 164LK, 164LL, 164LM, 164LN, 164LO, 164LP, 164LQ, 164LR, 164LS, 164LT, 164LU, 164LV, 164LW, 164LX, 164LY, 164LZ, 164MA, 164MB, 164MC, 164MD, 164ME, 164MF, 164MG, 164MH, 164MI, 164MJ, 164MK, 164ML, 164MN, 164MO, 164MP, 164MQ, 164MR, 164MS, 164MT, 164MU, 164MV, 164MW, 164MX, 164MY, 164MZ, 164NA, 164NB, 164NC, 164ND, 164NE, 164NF, 164NG, 164NH, 164NI, 164NJ, 164NK, 164NL, 164NM, 164NN, 164NO, 164NP, 164NQ, 164NR, 164NS, 164NT, 164NU, 164NV, 164NW, 164NX, 164NY, 164NZ, 164OA, 164OB, 164OC, 164OD, 164OE, 164OF, 164OG, 164OH, 164OI, 164OJ, 164OK, 164OL, 164OM, 164ON, 164OO, 164OP, 164OQ, 164OR, 164OS, 164OT, 164OU, 164OV, 164OW, 164OX, 164OY, 164OZ, 164PA, 164PB, 164PC, 164PD, 164PE, 164PF, 164PG, 164PH, 164PI, 164PJ, 164PK, 164PL, 164PM, 164PN, 164PO, 164PP, 164PQ, 164PR, 164PS, 164PT, 164PU, 164PV, 164PW, 164PX, 164PY, 164PZ, 164QA, 164QB, 164QC, 164QD, 164QE, 164QF, 164QG, 164QH, 164QI, 164QJ, 164QK, 164QL, 164QM, 164QN, 164QO, 164QP, 164QQ, 164QR, 164QS, 164QT, 164QU, 164QV, 164QW, 164QX, 164QY, 164QZ, 164RA, 164RB, 164RC, 164RD, 164RE, 164RF, 164RG, 164RH, 164RI, 164RJ, 164RK, 164RL, 164RM, 164RN, 164RO, 164RP, 164RQ, 164RR, 164RS, 164RT, 164RU, 164RV, 164RW, 164RX, 164RY, 164RZ, 164SA, 164SB, 164SC, 164SD, 164SE, 164SF, 164SG, 164SH, 164SI, 164SJ, 164SK, 164SL, 164SM, 164SN, 164SO, 164SP, 164SQ, 164SR, 164SS, 164ST, 164SU, 164SV, 164SW, 164SX, 164SY, 164SZ, 164TA, 164TB, 164TC, 164TD, 164TE, 164TF, 164TG, 164TH, 164TI, 164TJ, 164TK, 164TL, 164TM, 164TN, 164TO, 164TP, 164TQ, 164TR, 164TS, 164TT, 164TU, 164TV, 164TW, 164TX, 164TY, 164TZ, 164UA, 164UB, 164UC, 164UD, 164UE, 164UF, 164UG, 164UH, 164UI, 164UJ, 164UK, 164UL, 164UM, 164UN, 164UO, 164UP, 164UQ, 164UR, 164US, 164UT, 164UU, 164UV, 164UW, 164UX, 164UY, 164UZ, 164VA, 164VB, 164VC, 164VD, 164VE, 164VF, 164VG, 164VH, 164VI, 164VJ, 164VK, 164VL, 164VM, 164VN, 164VO, 164VP, 164VQ, 164VR, 164VS, 164VT, 164VU, 164VV, 164VW, 164VX, 164VY, 164VZ, 164WA, 164WB, 164WC, 164WD, 164WE, 164WF, 164WG, 164WH, 164WI, 164WJ, 164WK, 164WL, 164WM, 164WN, 164WO, 164WP, 164WQ, 164WR, 164WS, 164WT, 164WU, 164WV, 164WW, 164WX, 164WY, 164WZ, 164XA, 164XB, 164XC, 164XD, 164XE, 164XF, 164XG, 164XH, 164XI, 164XJ, 164XK, 164XL, 164XM, 164XN, 164XO, 164XP, 164XQ, 164XR, 164XS, 164XT, 164XU, 164XV, 164XW, 164XX, 164XY, 164XZ, 164YA, 164YB, 164YC, 164YD, 164YE, 164YF, 164YG, 164YH, 164YI, 164YJ, 164YK, 164YL, 164YM, 164YN, 164YO, 164YP, 164YQ, 164YR, 164YS, 164YT, 164YU, 164YV, 164YW, 164YX, 164YY, 164YZ, 164ZA, 164ZB, 164ZC, 164ZD, 164ZE, 164ZF, 164ZG, 164ZH, 164ZI, 164ZJ, 164ZK, 164ZL, 164ZM, 164ZN, 164ZO, 164ZP, 164ZQ, 164ZR, 164ZS, 164ZT, 164ZU, 164ZV, 164ZW, 164ZX, 164ZY, 164ZZ
(3)	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Adrannau 6A, 26L, 26M, 88E
(4)	Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994	Adrannau 18 i 20, Atodlenni 4 i 6
(5)	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004	Adran 48, Rhan 6
(6)	Deddf Cynllunio 2008	Rhan 10
(7)	Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	Yr holl Ddeddf
(8)	Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	Yr holl Ddeddf

**Tabl B-3.****Deddfwriaeth sylfaenol yr ymddengys ei bod yn afraid  
y gellir ei diddymu fel rhan o'r ymarfer bresennol**

	Deddf Datblygu Trefi 1952	Yr holl Ddeddf
(2)	Deddf Tir Amaethyddol (Symud Pridd Wyneb)1952	Yr holl Ddeddf
(3)	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1954	Yr holl Ddeddf
(4)	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962	Yr holl Ddeddf
(5)	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1963	Yr holl Ddeddf
(6)	Deddf Tai a Chynllunio 1986	Adrannau 40, 48, 49, 55
(7)	Deddf Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol 1998	Yr holl Ddeddf



**Tabl B-4.****Deddfwriaeth sylfaenol na fydd yn gymwys yng Nghymru bellach,  
ond a fydd yn gymwys yn Lloegr**

	Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949	Adran 89
(2)	Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebau 1953	Yr holl Ddeddf
(3)	Deddf Amwynderau Dinesig 1967	Yr holl Ddeddf
(4)	Deddf Henebau ac Adaloedd Archaeolegol 1979	Yr holl Ddeddf
(5)	Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980	Rhannau 15, 16, 17, 18; Atodlenni 25 i 32
(6)	Deddf Trefi Newydd 1981	Yr holl Ddeddf
(7)	Deddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985	Atodlen 2
(8)	Deddf Tai a Chynllunio 1986	Rhan 3; Adran 40; Atodlen 1
(9)	Deddf Tai 1988	Rhan 3; Atodlenni 7 i 10
(10)	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	Yr holl Ddeddf ac eithrio Rhan 9, aa 271-282
(11)	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Yr holl Ddeddf
(12)	Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990	Yr holl Ddeddf
(13)	Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991	Rhan I, Atodlenni 1 i 7
(14)	Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993	Adrannau 177 i 182
(15)	Deddf yr Amgylchedd 1995	Adrannau 96, 97, Atodlenni 13, 14.
(16)	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004	Rhannau 4, 5; Rhan 7, Pennod 1; Atodlenni 1 i 4, 6
(17)	Deddf Lles Cynllunio (Paratodau) 2007	Yr holl Ddeddf
(18)	Deddf Cynllunio 2008	Rhan 9, Pennod 2; Rhan 11; Atodlenni 7, 8, 11
(19)	Deddf Lleoliaeth 2011	Rhan 6, Pennod 2
(20)	Deddf Cyfiawnder a Llysoedd Troseddol 2015	Adrannau 91, 92, Atodlen 16

**Tabl B-5.****Deddfwriaeth sylfaenol yn perthyn i gynllunio ond heb fod yn gymwys yng Nghymru**

Deddfau Gweithiau Mwynau 1951 a 1981	Yr holl Ddeddf	Gwaith cerrig haearn yng nghanolbarth Lloegr
Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1983	Adrannau 32 i 38	English Heritage
Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991	Rhan 4	Iawndal tir yn yr Alban
Deddf Treftadaeth Genedlaethol 2002	Yr holl Ddeddf	English Heritage (yn diwygio Deddf 1983)
Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007	Yr holl Ddeddf	Cymunedau cynaliadwy yn Lloegr
Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 1	Yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau
Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009	Rhannau 4 i 6	Strategaethau; ffyniant economaidd
Deddf Lleoliaeth 2011	Rhan 5, Pennod 3; Rhan 6; Rhan 8, Pennod 2; Atodlenni 8 i 12, 21, 22	Asedau o werth cymunedol; materion cynllunio amrywiol; corfforaethau datblygu maerol
Deddf Twf a Seilwaith 2013	Rhan gyntaf (adrannau 1 i 17), Atodlenni 1 i 4	Materion cynllunio amrywiol yn Lloegr
Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013	Adrannau 60, 61, 63, Atodlenni 16, 17	Cynllunio Treftadaeth yn Lloegr
Deddf Tai a Chynllunio 2016	Rhan 6	Materion cynllunio amrywiol yn Lloegr
Deddf Cynllunio Cymdogaethau 2017	Rhan 1	Materion cynllunio amrywiol yn Lloegr